



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

### **Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

### **About Google Book Search**


Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

NYPL RESEARCH LIBRARIES



3 3433 07492400 6






1. Wales — Hist.
2. Welsh language — Texts and trans-  
lations.

THE NEW YORK  
PUBLIC LIBRARY  
ASTOR LENOX AND  
TILDEN FOUNDATIONS  
R L

AD  
JUN 1915



GREGORY FAWR YN TEIMLO WERTH WELLED PLANT Y CYMRY AR WERTH GAN GAETH-FASNACHWR AR HEOLYDD RHUFAIN.—Tudal. 123.

"TRA MOR TRA BRYTHON."

*history*  
H A N E S

*Water* C E N E D L Y C Y M R Y , *Wales*

*NEW*  
MEWN

*History*  
Pymtheg o Ddarlithiau;

YH CYNWYS—

EU BONEDD—EU GWLADYCHIAD YN MRYDAIN—EU CREFYDD—DAROSTYNGIAD YR  
YNYS GAN Y RHŪFEINIAID—A DYGIAD CRISTIONOGAETH I'W PLITH.

EU HELYNION AR OL YMADAWIAD Y RHŪFEINIAID,—A LLYGRIAD YR EGLWYS  
GYMREIG GAN BABYDDIAETH.

EU HELYNTION O DAN EU TYWYSOGION—OWAIN GLYNDWR A'I AMSERAU.

TOBIAD GWAWR PROTESTANIAETH AR GYMRU—D. ROWLANDS, CHARLES O'R  
BALA, A'U HAMSERAU—ANSAWDD BRESENOL CREFYDD, MOESAU, AC  
ADDYSG YN NGHYMRU,—

ENWOGION O GYMRU

A RAGORASANT MEWN AMRAFAEL GANGHENAU O WYDDORIAETH,

*Ac., &c., &c.*

*R. J.*  
GAN Y

PARCH. OWEN JONES,  
MANCHESTER.

CAERNARFON:

CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN H. HUMPHREYS.

1861.

*W*



THE NEW YORK  
PUBLIC LIBRARY  
**949203A**  
ANSEL LENOX AND  
TILDEN FOUNDATIONS  
B 1938 L

## AT Y DARLLENYDD.

PAROTOWYD y Darlithiau canlynol i'w traddodi i gynulleidfa o Gymry yn y ddinas hon; a buant yn offerynol i gyfeirio sylw aml un at Hanes ei wlad a'i genedl, na feddyliasai am hyny o'r blaen; ac i gynnyrchu chwaeth at farddoniaeth a henafiaethau Cymreig mewn amryw o'n hieuenctyd oeddynt, yn y lle Seisonig hwn, yn barod i godi eu ffroen mewn diystyrwch ar bob peth Cymreig.

Trwy anogaeth amryw gyfeillion, cydsyniais i ganiatau iddynt gael eu hargraffu, gan obeithio y bydd iddynt—yn y cylch eang-ach yma—dueddu llawer o ieuencyd ein cenedl, wrth eu darllen, i ystyried y dyddiau gynt, blyneddoedd yr hen oesoedd; ac i ymhyfrydu mwy mewn sylwi ar yr hen olion a frithant ein cymmydogaethau—enwau bryniau, nentydd, a thai—a allant dafu golen ar hanesyddiaeth ein gwlad; a thraddodiadau cyssylltiedig â lleoedd, ac âg adfeilion, ydynt wedi eu cadw o enau i enau mewn amryw ardaloedd; y rhai, pe y'u gwnelid yn hysbys trwy yr argraffwasg, a allent fod o wasanaeth pwysig i'r rhai ydynt yn ymchwilio i henafiaethau Cymru.

Hyd yn hyn, ychydig o lyfrau a gyhoeddwyd ar henafiaethau ein gwlad a'n cenedl yn ein hiaith ein hunain, nac am bris a'u dygai o fewn cyrhaedd y werin; gan hyny, pa ryfedd bod llawer o amaethwyr y dywysogaeth yn chwalu amryw o'n hen garneddau bob blwyddyn, er cael eu pridd i'w gymmysgu gyda gwrtaith eu meusydd—ac yn cludo cerig ein hen amddiffynfeydd i wneuthur magwrydd o amgylch eu tiroedd—heb feddwl eu bod trwy hyny yn dileu yr unig lyfrau coffadwriaeth a adawsai ein hynafiaid am orchesthon rhai o'n hen dywysogion, a'r manau y cwympasent yn nydd y frwydr, ac y'u claddesid mewn parch a galar gan eu brodyr—cyn i'r henafiaethwr ymchwilgar gael gwneyd ei gasgliadau oddiwrthynt, a gwneuthur ei adysgrif o honynt yn ddyogel trwy yr argraffwasg?

Mae rhai o'n bonedd a'n llenorion yn cael llawer o ddifyrwrch ac addysg fuddiawl wrth efrydu y gangen hon o wybodaeth; a phaham na byddai i ninau—y werin—ymroddi i roddi rhyw foddion mewn gweithrediad, a effeithiai i alw sylw lluaws Cymru yn fwy cyffredinol at ei henafisthau, nes gwneuthur amaethwyr ein gwlad a'u gweinidogion yn geidwaid ein hen adfeilion coffadwriaethol, yn lle eu dinystrwyr?

Onid allai rhyw argraffydd Cymreig ymroddgar gyfodi cyhoedd-  
iad misol rhadlawn—gwerth tua thair ceiniog yn y mis—i'r hwn y gellid gwahodd plant Gwalia i anfon cynnyrch eu hymchwiliadau ar y wyddonaeth ddyddorawl hon, a chael ei dalu yn dda trwy eangder ei gylchdaeniad? Gallem trwy y cyfrwng gyfrwng gael hanes ein hen feirdd, a darnau o'u cyfansoddiadau, yn nghydag eglurhad arnynt—hanes y carneddau, y cestyll, y meini Derwydd-  
awl a Rhufeinig, a'r croesau Pabaidd, a frithant ein broydd—yr hen eglwysi, capeli, mynwentydd, ffynnonau cyssegredig, yspytai, &c. ydynt luosawg yn ein hardaloedd—y traddodiadau lleawl, y rhai ydynt ar fyned ar ddifancoll—achau teuluaid, &c.; pethau, ond eu cynnull, a wasanaethent lawer tuag at gywiraw a manylu ein hanesyddiaeth genedlaethol. Os clyw rhyw un ar ei galon roddi cychwyn ar y fath orchwyl, gwnaf a allaf er ei gefnogi; ac nid amheuaf na cha gefnogaeth galonog llawer o wŷr galluocach na myfi.

Y mae yn ddrwg genyf fod amryw wallau wedi dianc yn yr argraffiad hwn o'r Darlithiau; y rhai, efallai, a ochelasid pe y buaswn mewn cyfleustra i edrych dros y prawfleni cyn eu gweithio allan. Nid oes genyf yn awr ond ei gyflwyno, fel ag y mae, at wasanaeth fy nghydgenedl; ac yn benaf, y dosbarth hwnw o'r bobl nas gallant gyrhaedd llyfrau drutach.

Eich gostyngeddias was,

OWEN JONES.

MANCHESTER,  
Awst 1af, 1853.

# DARLITHIAU

AR

## HANES Y CYMRY.

---

### DARLITH I.

BONEDD CENEDL Y CYMRY, A'U GWLADYCHIAD YN MRYDAIN.

UN o wireiriau doethion ein tadau oedd, "Cas gŵr ni charo y wlad a'i mago." Y mae gwladgarwch yn addurn dymunol yn nodwedd pawb a'i meddo, ac amddifadrwydd o hono yn ddiffyg i'w resynu pa le bynag y'i gweler. Cawn fod dynion o'r athrylith grefaf yn dra hoffus o'u gwlad a'u cenedl, ac wrth olrhain eu hanes a darllen eu portreid o'u profiadau eu hunain, gwelwn na bu eu symudiadau yn nhrefl Rhagluniaeth i wledydd estronol yn ddigon grymus i ddiffodd fflam gwladgarwch o'u mynwes. A oddefwch chwi i mi ddyfynu rhai llinellau penigamp o eiddo yr anfarwol ORONWY fel enghraifft? Mewn cywydd o'i eiddo, a ganai i gyfarch y "Bardd Coch," o Walton yn swydd Gaerhirfryn (*Lancashire,*) yn y flwyddyn 1753, wedi aralleirio Ps. 37, 3—6, dywaid—

"Llyna ddiwael Israeliad!  
Anwyl oedd i hwn ei wlad:  
Daear Mon, dir i minnau  
Yw, o chaf flun, ei choffau:  
Mawr fy nghwynfan am dani—  
Fel Seion yw Mon i mi!  
O f'einioes ni chaf fwyniant  
Heb Fon, er na thôn na thant."

Ac mewn cywydd arall a ganai i annerch yr un gŵr, rai blyneddoedd yn ddiweddarach, yr ydym yn cyfarfod â'r llinellau hyn—

"Poed it' hedd pan orweddwyf  
Yn mron llawr estron lle'r wyf.  
Gwae fi na chawn enwi nod,  
Ardd wen, i orwedd ynod."

A phaham na feithrinwn ninau, twf yr oes bresenol, fwy o wladgarwch yn y ddinas estronol hon? Paham y mae llawer o Gymry wedi y delont i drigianu yn Manceinion, yn enwedig os digwydd iddynt lwyddo ychydig yn y byd, yn ymwadu yn llwyr â'r iaith a wefusolwyd ganddynt gyntaf, ac yn cefnu yn hollol ar y genedl yr hanasant o honi?

Pa degwch amgenach, neu urddas rhagorach, a ganfyddant yn y Saeson pan y maent mor awyddus am eu cyfrif o honynt? Ai rhyw lwyth o anwariad, nas gallant olrhain eu bonedd, yw y Cymry, pan y mae ambell ysgogyn yn nhrefydd mawrion Lloegr mor awyddus i guddio ei drâs, fel

RHIF. I.

nas gwybydder mai Cymro ydyw? Ai cenedl euog o annewrder diesgus, neu greulondeb direol, ydyw, fel y byddai rhyw warthnod tragyfth yn gysylltiedig â'i hanes? A ydyw hi yn ol i ryw genedl Ewropaldd arall am foesau heirdd, a chrefydd effro ei miloedd, fel y byddai raid i'w phlant gywilyddio arddel eu hunain y cyfryw, yn mysg y Saeson, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod? A ydyw ei phlant yn fwy amddifad o athrylith gynhwynol na phlant y cenedloedd cylchynol?

I hyn oll, a mwy o'r cyffelyb ymhollion, gellid ateb yn nacael yn eithaf dibetrus: ie, gellid ychwanegu, gan ddywedyd fod y rhagoriaeth yn mantoli yn ddirfawr o du Cymro, Cymru, a Chymraeg. Ond y mae ymddygiadau o'r fath a grybwyllwyd, o eiddo ieuengctyd Cymru pan y deuant i Loegr, i'w bridoli yn benaf, efallai, i'w *hanwybodaeth*, ac yn brawf eglur nad yw yr ychydig ddysg a gywbodaeth yr ymfalchiant o honaw, ond tra arwynebol a choeg; ac am hyny y maent yn wrthddrychau i dosturio wrthynt a'u cynnorthwyo, yn hytrach nag i'w beio a'u ffeiddio.

Yn y Ddarlith hon ceisiaf olrhain bonedd ein cenedl, a'i hymsefydliad yn yr ynsoedd Prydeinaidd, ac yr ydwyf yn hyderu y bydd yr hyn a ddywedaf yn ddigonol er argyhoeddi pob Cymro a all ffurfio barn ar resymau eglur, i benderfynu nad oes iddo yr achos lleiaf i gywilyddio o'i genedl, nac i ymddihatu o'r enw *Cymro*, ar gyfrif bonedd y genedl.

Wrth *fonedd* ein cenedl y meddyliaf eu trās, eu gwehelyth, neu y cyff o'r hwn yr hanasant. Am fonedd y Saeson, nis gwaeth iddynt pa leiaf a chwiliant arno; canys nid oeddynt *bobl* pan ydoedd ein henafiaid ni yn genedl gref, gyfoethog, ac enwog: ac nid oes yn awr *genedl* o honynt yn Mrydain, namyn rhyw bobl gymmysg o Rufeiniaid, Sacsoniaid, Normaniaid, Ffianndrwsiaid, ac nis gwn pa sawl haid grwydrol eraill, a ddaethant yma drwy gydol yr oesoedd, ac a wladychasant ar yr ysglyfaeth a yspeiliasent oddiar ein tadau.

Gellir dywedyd fod un o dri pheth yn gwneuthur cenedl yn enwog yn y byd:—sef, lluosogrwydd ei phobl, gwrhydri ei gweithredoedd, neu henafiaeth ei thrās; ond os ceir allan fod y tri rhagoriaeth uchod yn cydgyfarsod mewn cenedl, rhaid addef ei bod yn teilyngu ei galw yn wir fawr: a bod y tri pheth hyn yn perthyn i'r *Celtiaid*, neu y genedl a adwaenid yn ddiweddarach wrth yr enw y *Galiaid*, o'r rhai yr hanasom ni yn ddigymmysg, sydd brofadwy i sicrwydd.

Yn y lle cyntaf, yr oedd y Galiaid yn genedl gref a lluosawg ei phobl yn fereu; canys yr ydym yn meddu tystiolaethau sicr fod tir Gâl yn amser *Augustus Cæsar*, pan oedd gogoniant y genedl wedi tywyllu, a'i ffiniau wedi eu cyfyngu i raddau mawr, yn cynnwys tri ugain o ddinasoedd neu dylwythau mawrion a chryfion: a'r gangen o'r genedl a breswyliai Ynys Brydain oedd mor gref a lluosog, fel pan ddaeth y llengau Rhufeinaidd drosodd yma, mai trwy yr egniadau mwyaf gorchestol dros ugeiniau o flyneddodd eidd, ac ar draul gwaed ac einioes ugeiniau o filoedd o'u dewrion, y llwyddasant i ddarostwng yr ynys dan warogaeth i arglwyddes y byd: ac yn wir, ni lwyr ddarostyngwyd yr holl ynys byth dan iau y Rhufeiniaid, fel y cawn ddangos yn y drydedd Ddarlith.

Ac mewn perthynas i'w gwrhydri a'i henafiaeth, nyhi a gawn y sylwadau canlynol yn ngwaith M. PEZRON, abad dysgedig, a henafiaethwr enwog o Lydaw, neu Brydain Fechan, yn Ffrainc: fel hyn y dywaid efe: "Meddwn brawf o ddewrder dihafal y bobl hyn ers pum cant a deng mlynedd a phedwar ugain cyn y cyfnod Cristionogawl, sef yn amser teyrnasiad *Tarquin yr Henaf*, pan y darfu i fyddin dra lluosawg o'r Galiaid, a arweinid dros fynyddau yr Alpau, dan dywysiad *Bellovesus*, oresgyn rhan fawr o'r Eidal, a'i galw ar eu henw eu hunain, *Gallia Cisalpina*

neu "Gâl ger yr Alpau;" ac yn mhen dau can' mlynedd wedi hyn, hwy a gymmerasant feddiant o Rufain ei hunan, ac a fuant dros oesoedd yn ddychryn i'r Rhufeiniaid, y rhai wedi hyny a arglwyddiaethasant ar yr holl fyd adnabyddus.

"Ac er fod gwrhydri mawreddawg yn hyn, nid oedd ond megys dyddim i'w gystadlu â'r gorchestion milwraidd a gyflawnasant oesoedd cyn hyn yn *Asia Leiaf, Groeg, a'r holl Orllewin*. Ac heblaw eu lluosogrwydd a'u dewrder, yr oeddnyt yn enwog hefyd am eu henafiaeth, gan y cawn ddechreuad y genedl yn Asia Uchaf, yn mhen ychydig oesoedd wedi y dylif, a'u bod yn meddu breninoedd enwog o'r eiddynt eu hunain yn nyddiau Abraham, a chyn amser teyrnasiad *Ninus* yn Assyria."\*

Mae yr henafiaethwyr cywreiniaf yn cyduno fod y Cymry yn deillio o Gomer, mab henaf Japheth, yr hwn oedd fab henaf Noa; ac felly ni ddichon un genedl dan y nef honni ei bod o fonedd uwch na hwy.

Yr hanesydd Iuddewig *Josephus*, yn y llyfr cyntaf o'i Hynafiaethau, pen. 6, yn rhoddi math o esboniad ar Gen. 10, lle y cawn ni enwau penau pob cenedl gan Moses, a ddywaid fel hyn:—"Gomer a seiliodd y bobl hyny a elwid Gomeriaid, ond a elwir gan y Groegiaid yn bresenol, Galatiaid, neu y Galiad."

Y mae ymadroddion i'r un perwyl hefyd gan *Eustathius* o Antiochia, yn ei esboniad ar yr *Hexameron*, ond ei fod ef, yn ol y *Septuagint*, yn galw Gomer yn *Gamer*, a'i hiliogaeth yn *Gamariaid*. A *St. Jerome* yn ei sylwadau ar Genesis a ddywaid yn ddibetrus fod y Galatiaid, neu y Galiad, wedi hanu o Gomer. *St. Isidore*, esgob *Seville*, a ddywaid, "Nyni a welwn fod gan Japheth saith o feibion; o ba rai, Gomer, yr henaf, oedd dad y Galatiaid, neu y Galiad."

Heblaw hyn, y mae yr hen ddaiaryddwyr enwocaf, megis *Dionysius* o Alecsandria, *Pomponius Mela*, *Pliny*, a *Ptolemy*, yn son am y Gomariaid, neu y Comariaid, gan eu cyfieu yn *Bactriana*, ar yr afon *Oxus*; a rhan neu gangen arall o honynt a gyflëir ganddynt yn *Margiana*, rhwng yr afon *Iazartes* a'r mynydd *Immaus*, neu yr *Himalaya*; ychydig oddiar y môr a elwir y Caspiaidd, y wlad a elwir yn awr *Bokarah*.

A bod rhai o hiliogaeth Gomer yn Asia Uchaf mor ddiweddar a dyddiau y prophwyd Eseciel, sydd amlwg oddiwrth pen. 38. 6, lle y darluniai ruthriad byddinoedd o ogledd Asia i wlad Israel, ac yn eu mysg, "Gomer a'i holl fyddinoedd," neu y Gomariaid a'r bobl ereill a ddeillient o honynt.

Nid rhyfedd gan hyny oedd fod y dysgedig Syr William Jones, wrth olrhain ieithoedd India y Dwyrain, yn synu wrth ganfod ynddynt eiriau cyffelyb i amryw eiriau Cymreig, canys nid yw yn annhebyg bod rhai cangenau o'r cenedloedd dwyreiniol hyn o'r un gwehelyth a'n cyndadau.

Ond ni oddef ffiniau y Ddarlith hon i mi ddilyn tystiolaethau henafiaethwyr dysgedig a ysgrifenasant ar hyn, yn mhellach; gan hyny, ymdrechaf yn unig i roddi crynodeb cywir ac eglur o'u golygiadau ar hyn, yn nghyda'r casgliadau mwyaf naturiol oddiwrthynt.

Wedi i hiliogaeth Gomer fod dros amser yn y wlad fras a orweddai o'r tu dwyreiniol i fôr Caspia, a chynnyddu o honynt yn genedl gref, dechreuai anghydfod dori allan yn eu plith, trwy eu bod yn cyfyngu ar eu gilydd; bu raid i'r blaid wanaf godi allan o'r diwedd, fel gwenyn o gwch, i chwilio am gartref arall; felly, gan groesi y mynyddau mawrion a orweddent ar y tu deheuol i'w tiriogaeth, hwy a ddaethant i wlad oedd yn meddiant y Mediaid, hiliogaeth *Madai*, trydydd mab Japheth; a thrwy fodd neu anfodd, hwy a ymsefydasant yn y wlad grybwyllledig; a chan

\* The Antiquities of Nations, b. i., ch. I.

eu bod yn bobl a yrasid allan o'u gwlad enedigol, ac a ysgaresid oddiwrth eu brodyr, fe'u gelwid *Parthiaid*; a'r dalaeth yn yr hon y gwladychent a elwid *Parthia*, o'r hen air Celtaeg, *parthu*; ac o'r rhai hyn yr hanodd y Persiaid—yn iaith y rhai, fel y sylwa *M. Pezron* a dysgedigion ereill, y mae llauas o eiriau Celtaeg. Cymmerai hyn le cyn teyrnasiad Ninus yn Assyria, ac felly mor foreu, os nid boreuach, na dyddiau y patriarch Abraham.

Ond cyn pen llawer o amser wedi deoliad y gangen gyntaf o'r drigfan gyntefig, llanwai yr hen gwch eilwaith, a heidiau newyddion a orfyddent godi allan yn barhaus, llawer o ba rai a amgylchent y Môr Caspiadd, a'r Môr Du, ac a feddiannent brif wledydd Ewrop. Ac mai y ffordd yma y daeth ein henafiaid ni a gadarnheir yn y Trioedd, y rhai a gynnwysant ynddynt rai o'r hen draddodiadau derwyddol. Fel hyn y dywedir yn Tri. 56—"Hu Gadarn a ddangoses y ffordd i aru tir gyntaf i genedl y Cymry, pan oeddynt yn Ngwlad yr Haf, sef y lle y mae Constantinopolis yn awr, cyn no eu dawed i Ynys Brydain." Ac yn Tri. 54, dywedir fel hyn—"Tair gwrthrym Ardwy Ynys Prydain: Hu Gadarn yn dwyn cenedl y Cymry o Wlad yr Haf, a elwir Deffrobani, hyd yn Ynys Prydain; a Phrydain ab Aedd Mawr, yn gyru gwlad a rhaith ar Ynys Prydain; a Rhitta Gawr, a wnai iddo ei hun ysgin o farfau breninoedd, a wnaethai efe yn eillion am eu gormes ac eu difrawd."

Mae golygydd dysgedig y "*Cambro Briton*," yn ei sylwadau eglurhaol ar y Trioedd hyn,\* yn dywedyd—"Y mae llwybr y Cymry yn cael ei nodi allan yn y Trioedd, fel pe buasai o lennydd yr *Euxine*, sef y Môr Du, i Denmarc, a buasai y ffordd yn hygyrch iddynt i fynu yr afon Dniester, trwy Poland, hyd darddiadau yr Elbe, ac i waered yr afon honno hyd ei harllwysiad. Y mae cofion henafiaethol, ac iethoedd yr amryfal bobl a gyfaneddant ar hyd amgylchoedd y llwybr crybwylledig, hyd heddyw, yn cefnogi y syniad a gynnwysa y Trioedd: canys yr ydym yn canfod enw y Cymry yn *Cimmerii* y Crimea, a *Cimbri* Jutland. Ac wrth gydmaru amryfal gangeniethoedd y Sclafonaeg a'r Gymraeg, gwelir eu cyfathrach ar unwaith, yn enwedigol tafodiaith y Wendi yn Lusatia, yr hon a gadwodd ei pherthynas â'r Gymraeg mor rymus, fel y gallai brodorion y ddwy wlad ymddiddan â'u gilydd o'r braidd. Achlysurid ymchwilid i berthynas y Wendaeg a'r Gymraeg drwy adroddiad un o'r Prwisiaid, ei fod ef ac amryw ereill, yn yspaid y seithmlwydd rhyfel Ffrederic Fawr, wedi cael eu synu yn ddirfawr wrth weled y milwyr Wendiadd yn siarad â rhai Cymry oeddynt yn mhlith milwyr Lloegr: mewn canlyniad i'r hysbysiad yma, agorid gohebiaeth â'r Dr. Anton, o Gorlitz, yn Lusatia, trwy yr hyn y caed allan sicrhad boddhaol o hanfodiad perthynas agos rhwng y Gymraeg a'r Wendaeg. Dodir yr ymadrodd canlynol o'r Beibl yn y Wendaeg fel enghraifft—"A wono bu nos;" yr hwn ymadrodd a ysgrifenedir yn Gymraeg fel hyn—"Ac yno bu nos." Gallem sylwi yma hefyd gyda phriodoldeb, fod *Hamburgh* yn cael ei galw *Treva*, mewn *Atlas* Ellmynaidd a gyhoeddid tua chanol yr ail ganrif ar bymtheg: ac y mae yn amlwg mai Cymraeg pur yw *Treva* am *Ham Burgh*."

Mae y cyffelyb ffug-chwedlau hefyd yn ffynu yn mys amryw o genedloedd y cyfandir ag a geir yn y Mabinogion Cymreig: er enghraifft—y traddodiad a geir yn niwedd Tri. 54, am *Rhitta Gawr*, a ganfyddir yn hen draddodiadau y Pwyl, yn cyfateb yn fanwl: ond ei fod ef yno yn cael ei alw *Rittagorus*. Ac y mae yn haws i ni ddechymygu bod yr hen Gymry wedi gadael olion eu hiaith a'u ffug-chwedlau ar eu hol yn amryfal wled-

\* *Cambro Briton*, vol. ii, p. 97, 98.

ydd y cyfandir wrth ymsymud yn arafaidd drwyddynt, yn eu ffordd o Asia Uchaf hyd yma, na'u bod hwy, wedi eu hymsefydliad yn yr ynys hon, wedi cael cyfleusdra i ymgynabod â chenedloedd pellenig y cyfandir, fel ag y benthycient oddiwrthynt hwy er cyfoethogi eu hiaith, ac ychwanegu at eu traddodiadau : ond fel hyn y dilynwn ol traed yr hen Geltiaid, yn eu symudiad tuag yma ; a mawr yr hyfyrdwch a sugna y meddwl ymofyngar wrth geisio gwneyd y fath olrheiniad.

Y mae pryddest hefyd ar gael o waith *Talesin*, yr hwn ei hun, debygid, a ddygasid i fynu dan addysg dderwyddol, a gadarnha y golygiad uchod : fel hyn y mae—

“ Llwyth lluaus anauws eu henwerys.  
Dygorescynau Prydain, prif fan ynys,  
Gwyr gwlad yr Asia, a gwlad Gafis ;  
Pobl pwyllad enwir, eu tir ni wys,  
Famer gorwreis herwydd Maris ;  
Amlaes ei peisiau, pwy ei hefelis ?  
A phwyllad dyfyner, ober emis  
Europa.”\*

Efallai y byddai deongliad o'r bryddest uchod mewn iaith ddiweddarach yn ddimunol : ac yma y canlyna yr aralleiriad mwyaf boddhaol a welais i :  
“ Llwyth lluosog o nodweddiad llymdost, a'th gynoresgynai, Brydain, y flaenaf o'r ynysoedd. Brodorion o wlad yn Asia, a gwlad Gafis, i'r rhai y mae enw, eu bod yn bobl synwryol ; ond nid adwaenir y fro oedd fam y plant hyn a ymenwogasant gymmaint trwy eu hanturiaethau morawl. Wedi eu trwsio yn eu llaeswisgoedd, pwy a ymgystadleuai â hwynt ? Eu medr sydd glodfawr : oeddynt arswyd Ewropa.”

Onid gan adael eu trigias gynhenid ar hynyna o sylw, deawn at eu cynenwau cenedlaethol.—Y Parch. Eliezer Williams, Ebrwyd Llanbedr Pont Stephan, a mab y diweddar Barch. Peter Williams o Gaerfyrddin, a farnai mai enw cyffredinol a gymmerai hiliogaeth Gomer arnynt eu hunain er arwyddo eu blaenafiaeth, fel y gangen henaf yn hiliogaeth Noa, qedd *Cymry*, neu *Cimbri* ;—“ Mae yr enw hwn (eb efe) yn ddylynadwy drwy Ewrop, fel llinell olynol hyd yn Mrydain, ac yn cael ei ddefnyddio gan yr hen Frythoniaid hyd heddyw ; yn gymmaint ag mai dyma yr enw cenedlaethol yr ymglyfenwant arno, sef *Cymry*, a'i ystyr lythyrenol yw y *cynlwyth*, neu y bobl gyntaf.” Ac y mae golygydd y “Cambro Briton” yn gwneyd sylw cyffelyb ar yr enw hefyd :—“ Cymry sydd ddeilliedig o ddau air—*Cyn* a *Bro* ; yn arwyddo yn yr iaith Gynreig, y *bobl gyntaf*, neu *wreiddiol*. Y gwreiddeiriau hyn, trwy gysylltiad naturiol i'r iaith, a ffurfiant y gair *Cymro*, neu *Cymro*—yn y lluosrif *Cymry*, neu *Cymry*, o'r hwn air y ffurfiai y Groegiaid eu *Cimmerioi*, enw a ddefnyddid mor foreu ag oes *Homer*, o leiaf ; a'r Rhufeiniaid, gyda mwy o briodoldeb, eu *Cimbri*.”†

Onid heblaw yr enw tadawl neu gyffredinol yma—yr hwn a weddai yn briodol i holl hiliogaeth Gomer, ar gyfrif eu blaenafiaeth yn y llinach, ac o'r hwn enw, fel y crybwyllwyd yn barod, y ceir olion, gydag ychydig o amrywiaeth, ar draws cyfandir Ewrop, o fynydd-dir Asia hyd yn Mrydain Fawr—yr oedd gan y gwahanol lwythau neu drefedigaethau, enwau ereill, darluniadol o'u sefyllfa, neu eu dull o fyw : y cyfryw enwau gallem gyda phriodolder eu galw, enwau tylwythol ; a daeth yr enwau tylwythol mor gyffredin yn mysgr rhai o honynt, mewn amser, fel y llwyg anghofid yr

\* “ Ymarwar Lludd Bychan.”—*Myf. Arch. vol. i., p. 76.*

† Cambro Briton, vol. i., p. 44, Note.



enw cyffredinol; felly, debygid, y bu gyda'r *Celtiaid*, y rhai hefyd a elwid y *Galiaid*. Ar y cyntaf, hwy a elwid y *Celtiaid*, neu y *Celtwys*, oddiwrth *Cêl*, lloches, neu guddle, am eu bod yn trigianu yn y coed, neu mewn llochesau, cyn arloesi y wlad: ond fel yr oeddynt yn arloesi y tir, ac yn dechreu trigianu yn y cyfryw wastadeddau arloesedig, gan fyw ar amaethyddiaeth, hwy a elwid y *Galiaid*; ac fel yr oedd y dosbarth yma o honynt yn dyfod i fwy o rym, sylw, a dylanwad, llyncid yr hen enw *Celtiaid* i'r enw diweddarach *Galiaid*, oddiwrth *Gâl*, teg, clir, agored, neu golau, fel y mae y gair yn arwyddocau. Efallai bod y ddau fath bobl hyn, o dipyn i beth, wedi syrthio i ymrafaelion mynych â'u gilydd, trwy fod trigolion y gwastadoedd, mewn canlyniad i'w lluosogiad, yn gwasgu ar ffiniau y rhai a gyfaneddent yn y coedwigoedd, neu y *Celtiaid*, gan arloesi eu cyrau er chwaneu eu tiriogaethau eu hunain; ac felly, mewn amser, deuai y gair *gâl* yn enw cyffredinol ar *elynon*.

Meddwn enghreifftiau er cadarnhau y golygiad uchod, o fewn i'r ynys hon ei hunan hefyd; canys yr Alban, am yr un rheswm, a elwid *Celyddon*, a'r preswylwyr *Celyddonwys*, *Celtwys*, neu *Celtiaid*, am fod eu trigias yn y celfeydd a'r llochesau; ac *Ygodogion*, neu *Ysgotiaid*, am eu bod yn cyfaneddu yn nghysgodion y coed; o'r hyn y cawn dystiolaethau sicr yn ngeuithiau *Caisar* a *Thacetus*. Enw arall, dynodawl o'u dull o fyw, a roddid ar gynfrodorion Cymru a'r Werddon, ac a lŷn wrth yr olaf eto, yw "Gwyddelod," oddiwrth "gwydd"—*coed*, a "cêl," er dynodi eu trigias yn y coed; neu yn hytrach oddiwrth "gwydd" a "hela," er dangos mai ar eu helwriaeth yn y coedwigoedd yr oeddynt yn ymgynnal bron yn hollawl ar y cyntaf, cyn iddynt arloesi y tir, ac ymroddi i feithrin amaethyddiaeth. Ac yma goddefer i mi grybwyll fy marn am yr adfeilion lluosawg a ganfyddir ar rai o fryniau Cymru, ac a adweinir yn gyffredin dan yr enw "Cytiau y Gwyddelod;" nis gallaf lai na meddwl am danynt eu bod yn olion yr aneddau dynol cyntaf, a gyfodwyd gan gynfrodorion yr ynysoedd hyn, tra yr oeddynt yn preswyllo ar y bryniau mwyaf amlwg, ac yn bywioliaethu ar ffrwyth eu helwriaeth yn y gwydd a orchuddient y dyffynnoedd a'r gwastadoedd. Nid wyf heb wybod fod y cyffredin yn meddwl am danynt mai olion rhyw adeiladau a wnelid gan drigolion y Werddon i fod yn drigleoedd tymhorol iddynt oeddynt, ar yr achlysur o rai o'u cadgyrchiadau i Gymru: ond tra yr ardefaf fod trigolion y Werddon wedi bod yn blino llawer ar ein henafiaid o bryd i bryd, fel y caf achlysur i grybwyll yn fynych yn Darlithoedd dylunol, nid wyf yn cael allan eu bod wedi ymsefydlu yma dros yspaid digonol ag i gyfrif am adeiladiad cynnifer o aneddau, o furiau cerrig cryfion, mewn cynnifer o fanau trwy y wlad. Heblaw hyny, nid yw yn debyg y buasant yn cael seibiant digonol i gyfodi cynnifer o aneddau cedyrn yn y wlad, oddieithr eu bod yn feistri ar drigolion y wlad; ac os buasant wedi meistroli y brodorion, onid yw yn fwy tebyg y buasant yn cymmeryd meddiant o'u haneddau clydion hwy, y rhai oeddynt barod iddynt, mewn rhyw gilfachau cysgodfawr, yn hytrach na myned i'r fath draul a thrafferth i gyfodi adeiladau iddynt eu hunain, a hyny yn enwedig yn y fath sefyllfeydd noethion, agored i gurfeydd yr ystormydd, fel y gwelwn fod y rhan fwyaf o'r adfeilion a elwir ar y cyfryw enw genym.

Ond er y dichon bod ein henafiaid ni unwaith yn cael eu galw Gwyddelod, ar y cyfrif a grybwyllwyd uchod, megis y cyfenwid trigolion boreuol yr Alban yn Ceiltwys ar yr un, neu y cyffelyb gyfrifon, y mae yn ymddangos fod ein henafiaid ni wedi cadw yr hen enw cynhwynol *Cymry* yn fwy gofalus nag un gangen arall o hil lluosog Gomer: yr hyn sydd i'w briodoli yn benaf, efallai, i'w sefyllfa ynysawl; ond nis gwn yn amgenach nad oeddynt yn ymfalchio yn yr ymwybyddiaeth o'u bod y gangae

henaf ar gyff dynoliaeth, o hen batriarch yr arch; ac yn gwerthfawrogi yr enw *Cymry* fel dynodiad o hyny.

Bellach, dyna ddiagon wedi ei ddywedyd, efallai, ar *fonedd* ein cenedl, fel na raid i un *Cymro* o honom byth ostwng ei ben i un *Sais*, na heb o unrhyw genedl arall, ar y cyfrif yna: gan hyny, symudaf bellach at yr ail beth a nodais i fod yn destyn y Ddarlith hon; sef, Gwladychiad ein henafiaid yn Ynys Brydain.

Barn gyffredin henafiaethwyr yw fod Ynys Prydain wedi ei phobli gyntaf o Gál, neu Ffrainc, gan ei bod yn weledig o lenydd y wlad honno. Y Parch. Eliezer Williams,\* am yr hwn y crybwyllais eisoes, a farnai fod gorllewin Ewrop wedi ei gyfaneddu gan dylwythau o ddynion anturiaethus yn mhen tua dau can' mlynedd wedi y gwasgariad cyffredinol a fu ar y teulu dynol o'r fro lle y buant yn ymadnerthu wedi y dylif; a chan gasglu bod y glenydd hyny o'r cyfandir ydynt gyferbyniol i Ynys Prydain yn mysg y broydd gorllewinol cyntaf a olrhemid gan ysbryd ymchwilgar dyn, tybiat fod yr ynys hon ei hunan wedi tynu ei sylw yn dra buan. Efallai na ryfygem, pe y tybiem i'r ynys hon gael ei darganfod, a dechreu ei chyfaneddu, yn mhen o bump i wyth can' mlynedd wedi y dylif: o leiaf, mae genym lawer o seiliau i gasglu bod hiliogaeth Gomer, mor foreu a hyny, yn cynnwys cenedloedd cryfion, dan arglwyddiaeth breninoedd enwog, a elwid y *Titaniaid*, neu y cawri, y rhai oeddynt yn peri eu harswyd dros ranau helaeth o Ewrop ac Asia; a'r rhai wedi hyny a addolid fel duwiau gan genedloedd Ewrop yn gyffredinol: ac oddeutu y pryd hyny, yr ydym yn deall i un o'r cyfryw freninoedd Celtaidd, o'r enw *Sadwrn*, ffoi rhag cynddaredd ei fab *Iau*, am noddod at *Janus yr Henaf*, yr hwn oedd ar y pryd yn teyrnasu ar ryw bobl a wladychent oddeutu glenydd y *Tiber*, ac yno y cafodd efe noddod, ac y bu yn cyd-deyrnasu dros amser â *Janus*.† Am dano dywaid *Tertullian*, ac ereill o'r prif Gristionogion a ysgrifent yn erbyn eilunaddoliaeth y Cenedloedd, nas gwyddent hwy am unrhyw dduw o flaen *Sadwrn*. Mai dynion enwog o'r cynoesoedd ydoedd duwiau y Paganïaïd, a addefid gan eu hathronwyr mwyaf golunedig, ac a ddaid-euid gan amddiffynwyr boreuaf Cristionogaeth. *Athenagoras*, athronydd Groegaidd dysgedig, ac amddiffynwr enwog y grefydd Gristionogawl, dan deyrnasiad yr amherawdwy'r *M. Aurelius Antoninus* ac *L. Aurelius Commodus*, a ddywedai fel hyn—"Y mae yr afradlonaf o ddynion, a'r atgasaf gan ysbrydion da, wedi cael yr enw o fod yn dduwiau eu hunain. *Semiramis*, ferch *Dercetus*, benyw drachwantus a gwaedlyd, a addolir dan enw o dduwies Syriaidd; ac am hyny y mae y Syriaïd yn addoli colomenod, o herwydd fod *Semiramis*, yn ol *Ctesias*, wedi ei throï yn golomen. Gan hyny, pa ryfedd os yw tywysogion, yn malchder ac uchder eu llywodraeth, trwy weniath eu deiliaid, yn cael eu haddoli mal duwiau? Addefir hyn gan y *Sybil* a grybwyllia *Plato*:—

"Twas now the tenth revolving Age of Man,  
When Saturn, Titan, and Japetus reign'd;  
Styl'd by succeeding Times, the noble Sons  
Of *Ouranos* and *Gaia*, and so styl'd  
Because the first of perish'd human Race." †

Fel hyn y mae amryw henafiaethwyr dysgedig a llafurus yn haeru mai dynion a arferent yr iaith Gymraeg oedd yr enwogion hyn, a fuant wedi hyny yn brif dduwiau Groeg a Rhufain: ond pa mor amhosibl bynag yw

\* See his English Works, pp. 213, 214. † M. Pezron's Ant. b. i., c. 11.

† *Athenagoras's Apology*, pp. 208, 209.

cael sicrwydd boddhaol ar hyn yn bresenol, bod yr ynys hon wedi ei chyfaneddu yn foreu sydd amlwg; canys pan ddaeth *Caisar* drosodd yma, tua thri ugain mlynedd cyn geni Crist, yr oedd yr ynys wedi ei chyfaneddu o gwr bwygilydd, ac mor alluog fel y gallai un tywysog Cymreig yma gyfodi tri ugain ac un o floedd o arfogion i'w harwain drosodd i'r cyfandir, i ddial rhyw sarhad personol a gawsai efe ei hunan, neu i amddiffyn eu brodyr y Llydawiaid yn erbyn y Rhufeiniaid; ac er dial am hyny y daeth Caisar a'i lengau drosodd yma gyntaf: o leiaf, dyna y rheswm a roddai efe ei hunan am ei waith yn hwylio o'r cyfandir i Frydain; ac â hynny y cytuna y Trioedd.—“Ail Cyforddwy a ddyweiniwyd y gan Caswallawn ab Beli ab Manogan, a Gwenwynwyn a Gwanar, meibion Lliaws ab Nwyfre, ac Arianrod ferch Beli, eu mam. Ac o Arllechwedd Galedin, ac Essyllwg, ac o Gydwelyddon y Bylennwys ydd hanoeddynt; a rhif y Gwyr hyny oeddynt driugaint ac un mil; a myned a wnaethant y gyda Chaswallawn eu hewythr, ar ol y Caisariaid drwy Fôr hyd yn nhir Geli Llydaw, a hanoeddynt o Rial y Cymry: ac ni ddaeth un o honynt na'u heppil yn eu hol i'r Ynys hon; eithr aros a wnaethant yn ngwlad Gwasgwyn, yn mysg y Caisariaid, lle maent hyd yn awr; ac yn nghylch dial yr Orddwy hono y daethant y Caisariaid gyntaf i'r Ynys hon.”—TRI. 14.

Mewn un arall o'r Trioedd, nynt a gawn y rheswm a gymhellai Caswallawn i arwain ei fyddin drosodd i Gâl i wrthladd Iwl Caisar; sef bod un Fflur, ferch Mygnach Gorr, â'r hon yr oedd Caswallawn mewn cariad, wedi ei dwyn drwy drais, gan dywysog o Gwasgwyn, a elwid Mwrchan, a'i chyflwyno i Caisar, i fod yn un o'i orderchadon: yr ymddygid ysgeler yma a ferwai waed, ac a gyffroai gynddaredd y tywysog Cymreig, fel yr arweinai ei luoedd drosodd i'r cyfandir, lle yr ymosododd mor bybyr ar y Rhufeiniaid ag y lladdodd o honynt *chwe' mil*, ac y gwaredodd Fflur oddiar y treisiwr estronol. Fel hyn y mae y crybwyllion a gawn ni am hyny yn y Trioedd:—

“Tri eurgyd Ynys Prydain: cyntaf, Caswallawn ab Beli, pan âi hyd yn Ngwasgwyn i gyrchu Fflur, merch Mygnach Gorr, a ddygid o lathlud yno i Gaisar emmherawdr, y gan a elwid Mwrchan Leidr, Brenin y wlad hono, a châr Iwl Caisar; a Chaswallawn a ei dyges yn ol i Ynys Prydain.”—TRI. 110.

A thrachefn:—“Tri Serchogion Ynys Prydain, cyntaf Caswallawn ab Beli, am Fflur, ferch Mygnach Gorr, a myned yn ei chylch hyd yn nhir Gwasgwyn, yn erbyn Gwyr Rhufain, ac ei dwyn ymaith; a lladd *chwe' mil* o'r Caisariaid—ac yn nial hyny o alanas, y doynt Wyr Rhufain i Ynys Prydain.”—TRI. 102.

Barna amryw o'r henafiaethwyr cywreiniaf mai yn swydd Caint y glaniai y dynion cyntaf yn yr ynys hon, ac nid oedd y fordaith yn faith o Ffrainc i'r parth hwnw o Frydain. Y mae dyfalion yr henafiaethwr dysgedig, y Parch. Henry Rowlands, o Blas gwyn, Llanedwain, awdwr y “*Mona Antiqua Restaurata*,” ar y pwnc yma yn hynod o gywrain: fel y meddyliwyf na byddai dyfyniad o honynt yn flin i chwli. Fel hyn y dywaid:—“Os sylwn ar y rhanau hyny o Ynys Prydain a orweddant yn nesaf i'r cyfandir, lle o ganlyniad y gellid dysgwyl yn naturiol eu bod wedi eu cyfanneddu gyntaf, nynt a ganfyddwn eu bod yn yr hen amseroedd yn cadw sain y *cyn* yn nghyfansoddiad eu henwau; felly *Cyn*, neu *Cynta*, y gelwid y rhan hono o'r wlad a elwir yn bresenol *Caint*, ac yn Saes'neg *Kent*; ac a alwai yr Haneswyr Rhufeinig *Cantium*: ac ychydig o'r neilldu y cawn ni *Uch-cyn*, a alwai y Rhufeiniaid *Icenorum Regio*; ond a elwir gan y Saeson yn bresenol *Norfolk* a *Suffolk*: a thu hwnt i hyny, yn nes i'r gogledd, y cawn *Obry-cyn*, a elwid gan y Rhufeiniaid *Brigan-*

*tum Regio*, gan gynnwys swyddi Caerefrog, a'r rhandir agosaf iddi; felly yr ydwyf yn ostyngedig yn barnu fod yr enwau uchod yn dynodi y tiroedd y glaniwyd arnynt, ac a boblogwyd gyntaf."

Mewn nodyn ar odrau y ddalen, y mae yr awdwr crybwylledig yn gwneyd y sylw canlynol yn ychwanegol:—"O *Cynta*, y deillia yr enw *Cyniaid*; o *Uch-cynta*, y deillia yr *Uch-cyniaid*; o *Obry-cynta*, y deillia *Obry-cyniaid*; sef yr amryfal lwythau o'r cynfrodorion a alwai yr Haneswyr Rhufeinaidd *Cantij*, *Iceni*, a *Brigantes*. Yr ydwyf yn gwybod bod ysgrifenywyr cyfrifol yn rhoddi hanes wahanol, a honno yn un lled hygoel, am ddeilliad y Brigantwys; yr hon nid wyf yn cynnyg ei gwadu, neu ei gwrthbrofi; ond gan fod y sylw blaenorol yn dyfod mor naturiol, nis gallaswn lai na'i wneuthur, ac fel y cyfryw, ei gynnyg i sylw y darlennydd; a chan ystyried fod enwau lleoedd, ac o ganlyniad, enwau y bobl a elwir arnynt, yn cael eu dwyn yn mlaen yn aml, o'u dodiad cyntaf, trwy amryw genedlaethau, yn mysg yr un bobl, ac yn yr un iaith, pa mor bell a gwasgareddig bynag y lledo y bobl hynny eu trefedigaethau; nid yw yn anhriodol olrhain enw y llwyth yma, cystal a'r ddau blaenorol, i'r un gwreiddyn; gan gyfrif fod y gwahaniaeth yn cael ei achosi yn unig drwy sefyllfa berthynasol y gwahanol lleoedd olaf a'r lle blaenaf, "*Cyn*," sef y rhandir honno o'r ynys, ar yr hon y tiriadas gyntaf."

Efallai fod yr awdwr yn y rhan olaf o'r dyfyn-nodiad uchod yn cyfeirio at y ffaith o fod y Brigantwys, yn amser goresgyniad yr ynys gan y Rhufeiniaid; yn cyfaneddu ar lan Môr y Werydd, ac nid fel y *Cyniaid* a'r *Uch-cyniaid*, ar lan Môr Llychlyn.

Meddwn rhyw gynnifer o draddodiadau lled dywyll am ddyfodiad amryfal dylwythau i wladychu yn Mrydain cyn ei goresgyniad gan y Rhufeiniaid; ac efallai na byddai yn anhriodol i destyn y Ddarlith hon roddi o honom hyny a allom gael o adroddiad lled resymol am y naill a'r llall o'r dyfodiadau hyny.

Cawn yn y Trioedd grybwylliad am ddyfodiad amryw lwythau estronol i'r ynys hon wedi ei gwladychiad gan y cynfrodorion, o'r rhai y gwnaf rai dyfyniadau fel y canlyn:—

"Tair Ciwdawd Addwyn Ynys Prydain: Cyntaf oeddynt genedl y Cymry a ddaethant gyda Hu Gadarn i Ynys Prydain; sef ni fynai efe wlad na thiroedd o ymladd ac ymlid, eithr o gyfiawnder, ac yn nhangnef. Ail, oeddynt y Lloegrwys, a ddaethant o dir Gwasgwyn, ac a hanoeddynt o brif genedl y Cymry. Trydydd, oeddynt y Brython, ac o dir Llydaw y daethynt, a'u hanas o gyssefin Al y Cymry. A'r tair Hedd Giwdawd a'u gelwir, am ddyfod o honynt y naill wrth fodd y llall, yn heddwch a thangnef; a'r tair Ciwdawd hyny a hanoeddynt o gyssefin genedl y Cymry; a chyfaith cyflafar y tair Ciwdawd."—TRI. 5.

Gallwn farnu fod y Triad uchod yn cyfeirio at wladychiad cyntaf Ynys Prydain, gan wahanol lwythau o'r un genedl: y llwyth cyntaf a ddaeth drosoedd yma a elwir yn "Genedl y Cymry," a dywedir eu bod wedi dyfod yma dan arweiniad "*Hu Gadarn*." Pwy oedd Hu Gadarn—ai rhyw ben cenedl enwog yn eu mysg, dan arweiniad yr hwn yr anturiai nifer o honynt o'r cyfandir, i ymofyn am drigias heddychol yn yr ynys hon, yr hon hyd hyn ydoedd yn annhriogianol, ai ynte rhyw ddyluniad coffaol o Noa, oedd fel arwydd ar eu lluman cenedlaethol, pan y daethant yma, fel y barnai amryw—nid yw yn hawdd penderfynu.\* Y mae

\* Gwel Davies's *Mythology and Rites of the Druids*, pp. 24 a.110. *Celtic Researches*, p. 164. *Pughe's Cambrian Biography*, p. 178, a'i *Eiriadur*. Hefyd, "*Hu Gadarn*," *Cywydd* gan Idrison, p. 2.

llawer o debygolrwydd fod y golygiad olaf yn gywir; canys nid oes genyf un amheuaeth nad oedd hen batriarch yr arch yn cael ei addoli yn y cyn-oesoedd gan y Cymry, dan yr enw Hu Gadarn. Fel hyn y dywaid Dr. Pughe ar hyn:—"Prin y gellir barnu ai llywiedydd y Cymmry ydoedd Hu, ynte, gyd ag ei ychain, a'i arwydd ar eu llumanau hwynt, o goffa tywyll am Noah. Aml yr arferent yr hen feirdd Hu, Huon, a Heon, yn enwau Duw; dylunid hefyd Anubis gan yr Aiphtiaid ág iddo ben huad, neu huadgi; ac efelly y dylunir Amida gan drigolion Japan, yr hwn meddynt oedd warcheidwad dynawl-ryw: a dychymygir yr eistedda efe yn nofiaw ar y dail o enw lotus, ac hefyd ar y milyn a elwir y llyry, a oedd iddo gresten galed ar ei gefn, mal cenni caledion yr afanc. Hefyd Fo Hi yn Catai, Menw, a Fishnw, neu Budha, yn yr India, a honnir iddynt gynneddfau fal ag yr addefid i Hu, gan y Cymmry."

Tybiai y Dr. Pughe hefyd, mai o Hamburg, hen enw yr hon oedd "Trefa," fel y gwelir ar rai o'r hen ddaearlenni Isellmynaidd a gyhoeddwyd yn yr ail ganrif ar bymtheg,\* yr hwyliai y Giwdawd, neu y llwyth cyntaf yma i Frydain, dros "Fôr Fawch," neu y *German Ocean*. Fel hyn y dywaid:—"Preswilynt Gymmry ar Benrhyn y Cymmry, neu y *Chersonesus Cimbrica*, mal y gelwid gan hanesyddion Rhufain, dros oesoedd aml, gwedi i dorf Hu ymadaw ág ei chydgenedl yno. Delynt yn gyfun ag y Gothiaid yn ormes echrydus ar y Rhufeiniaid, o gylch 109 mlynedd c.c.; ac ar droion cyn hyny taenid syndawd gan eu henw. Mae cenedl o weddillion al gyssefin y Cymmry yn cyfaneddu gwlad gyfagaws i Benrhyn y Cymmry hyd heddyw, ac yn cadw eu hiaith fal ninnau; sef yn Lusatia, Lunenburg, a thaleithiau eraill, tan yr enw Wendi, neu Wenden. Hefyd, hen enw Hamburg oedd Trefa; o hon, tebygwn, y cychwynynt y Cymmry ar eu mordwy i Ynys Prydain."†

Yr ail "Giwdawd Addwyn," neu Lwyth Cyfeillgar, oedd "y Lloegrwys," a elwid felly, efallai, am eu bod unwaith yn cyfaneddu ar lanau y *Loire*, hen enw yr hon oedd *Liger*. Ac nid yw yn annhebyg eu bod o'r un cyff a phreswylwyr yr hen *Liguria*, yn Ngorllewin yr Eidal; o'r hon dalaith yr oedd *Genoa* yn brif ddinas.‡ Dywedir mai o "Dir Gwasgwyn," yr un a *Gascony* mae yn debyg, y deuai y Giwdawd hon; a'i bod yn hanu o'r un cyff, ac yn meddu yr un iaith, a'r hon a ddaethai yma gyntaf. Ond tebygid fod y drydedd Giwdawd, a elwid "y Brython," yn cael ei golygu o gystlyniad nes i'r gyntaf; gan y dywedir bod eu haniad "o gyssefin Al y Cymry." Efallai pan oedd un fintai o honynt yn cyfeirio tua'r Ynys Wen, dan arweiniad Hu Gadarn, i'r rhan arall gyfeirio o fesur ychydig ac ychydig ar hyd y tir tua Ffrainc; ac mai rhyw gyfran o'r cyfryw ydoedd y rhai hyn, a elwir "y Brython," ac y dywedir iddynt ddyfod drosodd o Lydaw.

Gellir meddwl ar sail y traddodiad sydd yn y Triad uchod, bod y tair ciwdawd hyn wedi cydyngorffori fel un genedl, a chydgyfaneddu yr ynys mewn heddwch.

Efallai fod y Brython wedi cael yr enw hwnw, o herwydd eu hymarferion rhyfelgar, a'u glewder, yr hyn a arwyddoceir yn yr enw, ac a ellir ei gasglu oddiwrth y crybwyllion blaenorol; canys tra yr oedd y rhai a elwid "Cenedl y Cymry," yn dewis anturio y cefnfor dan dywysiad Hu Gadarn, i ymofyn am ryw le anngyfaneddawl i'w feddianu trwy gyf-

\* Gwel Cambro Briton, vol. ii., p. 98.

† Gwel "Hu Gadarn," Cywydd o III Caniad, gan Idrison, t.d. 52.

‡ Cambro Briton, vol. i., p. 48.

iawnder a thangnefedd, am na fynent wlad a thiroedd o ymladd ac ymlid; y lleill a ddewisent ymladd eu ffordd am diriogaeth o nerth arfau.

Ar hyn y dywaid y Dr. Pughe yn y Cywydd crybwylliedig :—

“ I ninnau iawn ennyu  
O dân cyfanian a Hu;  
Efe gan rad a gad yn rhydd  
Arweinai war awenydd;  
Tros diroedd rhag trais taerion,  
Tros y dylid du ei ddn,  
I BRYDAIN gain ei brodir,  
Hedd er ei feddu'n hir.”

Yn y Trioedd nesaf sonir am ddyfodiad tylwythau ereill drosodd, yn ddiweddarach, debygid, na'r tair ciwdawd flaenorol y buom yn son am danynt. “Tair Ciwdawd Nawdd a ddaethant i Ynys Prydain; ac yn nhan a chened Cenedl y Cymry y daethant, heb arf, heb ossawd: Cyntaf oedd Ciwdawd Celyddon yn y Gogledd: Ail oedd yr Al Wyddyl, ac yn yr Alban y maent: Trydydd, Gwyr Galedin, a ddaethant yn y llongau moelion hyd yn Ynys Wyth, ban foddes eu gwlad, a chael o honynt le Tir gan Genedl y Cymry, ac nid oedd iddynt fraint o hawl yn Ynys Prydain, namyn y Tir a'r Nawdd a rodded iddynt dan derfynau, a dodi arnynt nas gellid braint Cymry cynhenid iddynt hyd yn mhen y nawfed Ach.”—TRI. 6.

Am y ddwy giwdawd gyntaf o'r tair a grybwyllir yma; meddyliwyf mai preswylwyr Iseldiroedd yr Alban oedd y naill, ac mai trigolion yr Ucheldiroedd oedd y llall, ac iddynt encilio o diroedd y Gogledd at eu brodyr, am nawdd rhag newyn, neu ryw anffawd arall: ond am y drydedd, a elwir “Gwyr Galedin,” y dyb gyffredin yw, mai rhai a gyfanoddent ranau o'r wlad a elwir *Holland*, oeddynt. I'r rhai hyn rhoddai y Cymry nawdd ac achles yma, yn nydd eu cyfyngder, ar amodau rhesymol: ac yn ol pob tebyg, darfu i'w hilioga eth ymgorphori yn un genedl a'u noddwyr.

Yn y Triad nesaf fe'n hysbysir am ddyfodiad tylwythau gormesol i'r ynys.

“Tair Ciwdawd Ormes a ddaethynt i Ynys Prydain, ac nid aethynt byth o honi: cyntaf oeddynt y Coraniaid, a ddaethynt o wlad y Pwyl: ail, y Gwyddyl Ffichti, a ddaethynt idd yr Alban drwy Fôr Llychlyn: trydydd, y Saeson. Sef lle mae y Coraniaid, am afon Hymyr a glan Môr Tawch; ac yn yr Alban y mae y Gwyddyl Ffichti, a glan Môr Llychlyn. A myned yn un a wnaethynt y Coraniaid ag y Saeson, a dwyn rhial y Lloegrwys yn ogyfun â hwynt, o drais a gorfod arnynt, a gwedi hyny dwyn coron yr unbenaeth oddiar genedl y Cymry. Ac nid oes odd y Lloegrwys nad aethynt yn Saeson, namyn a geir yn Nghernyw, ac yn nghymwd Carnoban, yn Neifr a Brynaich. A chiwdawd gyssefin y Cymry, a gadwasant eu gwlad ac eu hiaith, colli teyrnedd Ynys Prydain a wnaethant, achaws brad y ciwdodau nawdd, ac anrhaith y tair ciwdawd ormes.”—TRI. 7.

Mae yn debyg fod y Coraniaid a grybwyllir uchod yr un a'r *Coritani*. Dywedir mewn un Triad, gan hen esponiwr, eu bod wedi dyfod ar y cyntaf o Asia. Fe'u crybwyllir hefyd mewn dau eraill o'r Trioedd, yn un o ba rai y dywedir eu bod wedi dyfod i Brydain yn amser Lludd ab Beli, brawd yr enwog Caswallawn, a elwid gan y Rhufeiniaid *Cassivellannus*. Meddylia rhai bod yr enw yn tarddu o *Cawri*, wrth yr hwn enw y dynodid penathiaid, neu wroniaid. Y mae yn lled anhawdd penderfynu arwyddocâid yr enw *Pwyl*, meddylia rhai ei fod yn dynodi *Holland*; ond yr

henafiaethwr enwog Edward Llwyd a ddadleua mai hen enw Poland ydoedd. *Llychlyn*, a all fod yn arwyddocâu y gogledd yn gyffredin.\* Mae areill yn haeru mai yr un oedd y Coraniaid a'r *Belgws*, y rhai debygid, oeddynt o'r un cyff cynhwynol a'r Cymry; ond trwy eu bod wedi cyfaneddu hir amser yn nghymydogeath y llwythau Almaenaidd, yr oeddynt o angenrheidrwydd wedi myned drwy radd fawr o ymgymysgiad â hwy. Cesglir mai yr achos iddynt hwylio drosodd i ymofyn am diriogaethau yn yr ynys hon, oedd bod y llwythau Almaenaidd yn gwasgu ar eu ffiniau; ac oddiwrth y crybwyllion a gawn ni yn ngwaith rhai hen awduro, meddylir eu bod wedi dechreu gwladychu yma tua thri chan' mlynedd cyn glaniad Caisar a'i lengau yma. Ac arferai Caisar son am breswylwyr yr ynys, dan y ddau ddoisparth o Gynfrodorion a'r Belgws.† Mae y Parch. Eliezer Williams, yn ei ddarluniad o hen raniadau Prydain, ac enwau yr amryfal lwythau a'i cyfaneddent, yn dwydedd fod holl nifer y llwythau, neu daleithiau anymddibynol a breswyllyent yr ynys hon pan ddaeth y Rhufeiniaid drosodd, yn bump a deugain; y rhai a alwai—y Ceintwys, preswylwyr swydd Caint; y Rhygeinwys, a gyfaneddent *Surry* a *Sussex*; y Penfrogwyr, a gyfaneddent ranau de-ddwyreiniol swydd *Berk*; yr Attrefwys, a gyfaneddent barthau gorllewinol swydd *Berk*; yr Isgwenti, a gyfaneddent ar lenydd y Kennet, a'r rhan ogleddol o swydd Ham; y Belgws, a gyfaneddent yr oll o swydd Ham, oddieithr y parth gogleddol; y Dwrodrigwys neu y Morinwys, a gyfaneddent swydd *Dorset*; yr Heidionwys, a gyfaneddent Wlad yr Haf; y Dyfneinwys, a gyfaneddent swydd *Dyfnaint*; y Cernywiaid, o Gernyw; yr Essyllwyr, a gyfaneddent swyddi Henffordd, Maesyfed, Mynwy, a Morganwg; y Dyfedwys, a gyfaneddent Frowyr, a swyddi Caerfyrddin, Penfro, Brycheiniog, a Cheredigion; y Gordofigwys, oedd yr enw wrth yr hwn yr adwaenai y Rhufeiniaid yr oll o drigolion Gogledd Cymru; y Tranofanhwyson, a breswyllyent swyddi *Middlesex* ac *Essex*, a'u prif ddinas oedd *Caer Lundain*; y Coraniaid, neu y Coreinwys, sydd lwyth arall a grybwyllir gan yr awdwr dysgedig uchod, ond nid yw yn cynnyg penderfynu ar y rhan o'r ynys a gyfaneddidd gynddynt; y Casiaid, a gyfaneddent swyddi *Hertford* a *Bedford*, a rhanau o *Buckingham*; y Tafeinwys, preswylwyr y rhanau isel o swydd *Gaerloyw*, a dyffrynoedd swydd *Rhydychain*; y Gwycheinwys, a gyfaneddent swydd *Warwick*, ac agos y cyfan o *Worcester*; yr Uchelwys, y parthau dwyreiniol o swyddi *Rhydychain* a *Buckingham*; y Corineifwys, swydd *Gaerlleon*, a rhanau o swydd yr *Amwythig*, *Stafford*, *Warwick*, a *Leicester*; y Syddyntwys, swydd *Gaerhirfryn* (*Lancashire*,) a'r rhanau deheuol o *Westmoreland*; y Gwylleintwys, y rhanau gogleddol o *Westmoreland*, a'r oll o *Cumberland*; y Brigantwys, swydd *Gaerefracw* a *Durham*, a rhan o *Northumberland*; y Gododinwys, y gweddill o *Northumberland*, *Lothian*, a'r *Mers*, a hanner *Tweedale*; y Godeinwysion, Ystrad Clwyd a'r rhan arall o *Tweedale*; y Sallwyfawys, *Annandale*, *Nithsdale*, a *Galloway*; y Nofantwys, y rhan o *Galloway* a orwedda ar y tu gorllewinol i'r *Dee*; y Dyfnwysion, *Carrick*, *Cunningham*, a *Renfrew*; yr Hyrwysti, *Strathern* a mynydd-dir *Perth*; yr Uchaeronwys, y gweddill o *Perth*, *Gawry*, *Angus*, a *Merus*; y Tachialwys, *Mar a Buchan*; yr Albanweis, rhanau o *Athol* a *Braidalban*; yr Eitha-coetwys, *Lenox*, neu eithaf *Coed Celyddon*; y *Celyddonwys*, *Inverness* a'i chyffiniau; y Ceintiaid, y parthau dwyreiniol o *Ross*; y *Lygiaid*, arfordir *Sutherland*; y Cernywiaid gogleddol, *Caitness*; y *Cateion*, arfordir *Strathnavern*; y *Meirwys*, *Strathnavern* a *Sutherland*; y *Carnein-*

\* *Cambro Briton*, vol. i., p. 49.† *Hanes Cymru*, tudal. 92.

ogwys, glenydd Ross; y Cawronwys, rhanau o Inverness; y Creonwys, neu y Creuonwys, ar lanau yr afon Itys, neu Sheyl; yr Ebydwys, Cantine, a Knapdale.

Buasai yn dda genyf ddyfynu ychwaneg o'r Traethawd cywrain hwn ar y testyn tra dyddorawl yma; yr hyn ni oddef fy ffiniau; ond dymunwn annog cynnifer o'm cydwladwyr ar a allont, i ymgynghori â'r gwaith gwreiddiol.\* A chyn terfynu y Ddarlith hon, y mae yn weddus i mi alw eich sylw at ryw gasgliadau neillduol a ellir wneyd yn naturiol oddiwrth ei chynnwys.

1. Gwelwn nad oes un genedl dan haul, a all olrhain uwch bonedd na chenedl y Cymry; gan ei bod yn disgyn mewn llinach union syth o'r henaf o feibion Noa, tad dynoliaeth wedi y dylif; ac nid yw yn annhebyg bod yr enw a gadwasant arnynt eu hunain trwy holl dreigliadau yr oesoedd, er dynodi hyny, sef "y Cymry," yn arwydd lled amlwg eu bod yn ymfawrygu yn hyny o'r dechreu.

2. Gwelwn fod y dystiolaeth Ysgrythyrol, mewn perthynas i hiliogaeth Japheth, yn eithaf cywir:—Genesis 10. 5, "O'r rhai hyn y rhanwyd Ynysoedd y Cenedloedd, yn eu gwledydd, pawb wrth eu hiaith eu hun, trwy eu teuluoedd, yn eu cenedloedd." Yn y crybwylladau blaenorol gwelwn fod hyd yn nod hiliogaeth Gomer, un o feibion Japheth, wedi meddiannu y rhan fwyaf o wledydd arforawl Ewrop, a'i brif ynysoedd; o ba rai y mae Ynys Brydain yn un. Gwelwn hefyd fod y fendith a gyhoeddai Noa ar Japheth, a'i hiliogaeth, wedi ei chyflawni mewn modd arbenig, Gen. 9. 27, "Duw a helaetha ar Japheth, ac efe a breswylia yn mhebyll Sem; a Chanaan fydd iddo ef." Gellir golygu y geiriau yna fel hanes brophwyddiaethol gryno, ond cynnwysfawr, o'r byd; canys wrth olrhain hanesiaeth yn fanol, ny ni a gawn le i feddwl fod mwy na hanner y teulu dynol wedi deillio o Japheth, ac y mae y rhan fwyaf o'r byd y dydd hwn dan arglwyddiaeth ei hiliogaeth ef. Ac yn gymaint ag mai yn mhlith ei blant ef y llwyddodd yr efengyl yn benaf hyd yn hyn, fe barodd Duw iddo felly "breswyllo yn mhebyll Sem," trwy dderbyn breintiau gwir grefydd oddiwrth had Abraham: ac mor wir a hynny, y mae hiliogaeth Canaan wedi bod, yn mhob oes, yn ddarostyngedig i'r eiddo Sem a Japheth.

3. Gwelwn fod yr hen Geltiaid, o'r rhai mae y Cymry yn hanu yn ddiwad, ac yn cadw eu hiaith yn fwyaf dilwgr heddyw o unrhyw bobl ar wyneb y ddaear, yn genedl fawr, gref, ac enwog, yn yr oesoedd boreuaf; mor enwog, fel mai eu gwroniaid a'u doethion hwy oeddynt dduwiau enwocaf y Groegiaid, y Rhufeiniaid, a chenedloedd enwog ereill. Yr iaith Gymraeg a siaredid gan y *Titans*, y cawri, neu y penaethiaid a wnaent y fath orchestion yn y cynoesoedd, fel y'u haddolid dros oesoedd wedi eu marw; ac y pentyrai eu holynwyr y fath ffug-chwedlau ar eu henwau, nes y mae y rhai anghyfarwydd mewn henafiaethau wedi myned i feddwl nad oedd *Sadwrn, Iau, &c.*, yn ddim amgen na chynnyrch dychymygion ymenyddiau mall eilunaddolwyr.

Gan hyny, na chywilyddiad un Cymro o'i iaith na'i genedl. Yn wir, y mae symledd yr iaith Gymraeg, a'i chyfaddasrwydd i ddylunio gwrth-ddrychau, yn profi ei henafiaeth, ac yn achosi grym a gwerth ynddi, tu hwnt i ddim a geir mewn un iaith arall yn Ewrop.

4. Gwelwn mai eiddo cyfiawn ein tadau ni oedd Prydain Fawr o fôr i fôr. Hwynthwy a'i darganfuant, ac a'i meddiannasant gyntaf; a chanddynt hwy y cafodd ei harloesi a'i dwyn i drefn; ac erioed ni roisant eu

\*"The English Works of the late Rev. E. Williams, pub. by Cradock & Co., 1840."



hawl o honi, nac o un ran o honi i estroniaid, o'u bodd; ond fel y'i dygwylodd oddiarnynt trwy drais a gormes gan y mintoedd yspeilgar o Rufeiniaid, Sacsoniaid, a Normaniaid, a ddaethant yma o bryd i bryd, gan chwennychu eiddo cyfiawn eu cymmydogion diniwed, a'i ddwyn oddiarnynt trwy drais ac anghyfiawnder, heb un esgus priodol ganddyn; am eu gwaith, heblaw eu trachwant anghyfiawn; ac felly y mae mwy o wir arhwydedd yn perthyn i'r Cymry fel cynfeddiannwyr yr ynys hon nag i un genedl arall a droediant ar ei hwynneb.

Gall y Cymro wrth dramwyo gwledydd brasaf Lloegr, godi ei ben, a dywedyd, "Dyma wlad etifeddiaeth fy nhadau, a roddwyd iddynt gan Arglwydd Dduw nefoedd a daiar; ac o ran cyfiawnder, a ddylasai fod yn eiddo i mi a fy mrodyr heddyw." A rhaid i'r Sais hunanol, a'r Norman trahaus, os y medd ryw gymmaint o wybodaeth hanesyddol, ddywedyd— "Y mae y wlad fras a etifeddaf wedi dyfod i'm meddiant heb unrhyw deitl am dani, ond a ysgrifenyddwyd â gwaed gwirion yr aerod cyfiawn, gan arfau trais fy henafiaid bradwrus, yspeilgar, a gwaedlyd."

Wrth ystyried y pethau hyn, bernwch chwi—I bwy o fewn yr ynys hon y perthyn gwir fonedd? A gwelwn fod i ni y cymhelliad cryfaf, oddiwrth nodweddiad ein hynafiaid, i gadw i fynu urddas ein cyff? Ac os ydym wedi colli ein Tir ond "Gwylt Walia," yn ol rhagddyweddiad Taliesin, bydded i ni fod yn ymdrechgar yn wastadol i gwblhau y rhan arall o'i brophwydoliaeth hefyd, sef—

"Eu Ner a folant,  
Eu hiaith a gadwant."

## DARLITH II.

### CREFYDD Y CYMRY CYN DYGIAD CRISTIONOGAETH I'W PLITH

MAE ansawdd gwybodaeth, gwareiddiad, a chrefydd yn mysg y Cymry cyn dyfodiad y Rhufeiniaid yma yn beth sydd wedi bod yn destyn dadleuaeth frwd rhwng henafiaethwyr enwog: tra y mynai rhai eu dylunio fel cenedl o anwariaid mwyaf anwybodus ac anniwylledig, y mae ereill yn dadleu eu bod yn bobl oleuedig, wedi cyrhaedd gradd uchel o wareiddiad a gwelliant meddwl dan ddospeirth o athrawon cyfrifol, y rhai ni buasai raid iddynt gywilyddio pe y cystadleuasid eu moeswersi â'r eiddo enwogion doethaf Groeg a Rhufeinaid. Wedi gwneyd pob ymchwil ar a allwn i hyn, yr ydwyf yn gorfod barnu mai yn rhyw le yn y canol rhwng y ddau eithaf uchod y mae y gwirionedd yn gorwedd; ac er hoffed ydwyf o'm cenedl, ac er mor eiddigeddus yr ydwyf yn teimlo dros enw da fy henafiaid, nis mynwn gynyg tynu portreiaid tecach o'u nodwedd nag a deilyngont; na dweyd dim am eu rhagoriaethau ond a ellir ei gasglu yn naturiol oddiar ffeithiau anwadadwy.

Gan mai crefydd y cynfrodorion ydyw testyn y Ddarlith hon, disgynaf yn ebrwydd i sylwi ar hyny. Mae yn amlwg i baw ystyriol bod llawer o gynnwys y Ddarlith yma yn rhwym o ran natur pethau o gael ei gwneyd i



hiliogaeth dros dair neu bedair o oesau ar ei ol, o leiaf, yn dilyn ei siampl a'i gynghorion daionus, gan gyfodi allorau i'r Goruchaf pa le bynag y delynt i breswyllo, ar y rhai yr offrynt ebyrth moliant i Dduw, am fendithio eu hymdrechion hyd hyny, ac o flaen y rhai y talent iddo gyd-nabyddiaeth o'i ben teyrnedd ef ar blant dynion.

Wedi cymmaint a hynyna o sylwadau oddiar natur pethau, nyni a allwn dafu bras olwg ar olion crefydd yr hen Gymry, a gwneyd ein casgliadau yn mhellach oddiwrth hyny am natur ac ansawdd eu crefydd.

Trown ein wynebau i'r wlad a fynom, nyni a ganfyddwn allorau, aruthrawl o faint, ac mor debyg i'w gilydd o ran dysymledd eu gwneuthuriad, pa un bynag ai yn yr Almaen neu Ffrainc, yn Mrydain neu yr Iwerddon, yn Manaw neu ynysoedd oerion Denmarc, fel yr ydym yn rhwym yn ol natur pethau, i'w priodoli i'r un dechreuad cyffredinol. Dyma fel y dywaid *M. Mallet*, yn ei "Hynafiaethau Gogleddol," am y cyfryw allorau yn Norway, Denmarc, a Sweden—"Gwelir yma a thraw, hyd y dydd heddyw, yn Denmarc, Sweden, a Norway, yn nghanol gwas-tadedd, neu ar fryn bychan, allorau, o amgylch y rhai yr ymgynnullent i offrymu aberthau, ac i gyflawni defodau crefyddol ereill. Y rhan fwyaf o'r allorau hyn ydynt wedi eu cyfodi ar ryw fryn bychan, naturiol neu gelyfddyddol. Ar dair o ddarnau o graig, ar eu penau, y gorwedda llech-faen fawr, yr hon yw bwrdd yr allor; o dan yr hon yn gyffredin y mae ceudwll mawr, wedi ei amcanu, efallai, i dderbyn gwaed yr aberth."\* Pe buasai y Ffrencyn uchod yn darlunio rhai o hen gromlechau Gogledd Cymru, ni allasai wneyd yn fwy cywir nag y gwna drwy y darluniad blaenorol o allorau gwledydd gogleddol Ewrop.

Mae un o'r cyfryw allorau, o feini aruthrol eu maint, ar lan afon Menai, yn mhlwyf Llanedwen, yn Mon, yr hon, fel y mae y fwyaf o allorau yr ynys, ydoedd hefyd, debygid, y benaf gynt o'i mewn: ar yr hon, efallai, yr offrymai y cynfrodorion flaenffwrth yr ynys i Dduw.

Yr enw arferol ar yr allorau hyn gan y cyffredin, yw "*Cromlechau*," a barna rhai mai y rheswm am eu galw felly yw, am fod y llechfaen yn gyffredin yn grwm, fel na safai y gwaed arni, ond y rhedai oddiarni i'r ceudwll cloddiedig i'w dderbyn. Ond efallai nad yw dyfaliad cywrair y Parch. H. Rowlands yn annheilwng o sylw; efe a ddywedai nad oedd pob un o'r llechfeini alloraidd hyn a welsai efe yn *grwm*, ac o ganlyniad na allasent fod wedi cael eu henw cyffredinol oddiwrth y gwreiddair hwnw; ac efe a fynai mai un o'r hen enwau a ddygid gan ein tadau, hyd yn nod o Babel, ydyw hwn; ac er cefnogiad i'w ddyfaliad hwn, nodu luaws o eiriau ereill, gwir ebrwyd eu gwreiddiau, ydynt drwy hir arferiad wedi dyfod megys yn gorfforedig yn ein hiaith. Felly, efe a ddadleuai mai llygriad yw y gair "*Cromlech*" o *Caeremluach*, maen dyhewyd, neu allor; ac nid yw yn annhebyg eu bod yn rhagddodi y gair *Caerem* neu *Crem*, i bethau ereill perthynol i'w haddoliadau crefyddol, heblaw eu llechfeini alloraidd, er fod y cyfryw enwau yn bresenol wedi myned o arferiad, ac i anghof hollawl, oddieithr mewn ychydig o enghreifftiau, yn y rhai y cawn ni leoedd cysegredig, debygid, yn myned dan yr enw *Cremhoyn*; neu, fel y'u gelwir yn bresenol, "*Cremlyn*;" y naill yn agos i Beaumaris, yn Mon, a'r llall yn agos i Abergwyngregyn, cydrhwng hyny a Bangor, yn Arfon. Mae yn y ddau le hyn gornant ddofn gul, yr hon yn y cynosoedd mae yn debyg oedd yn orchuddiedig gan *hoyn* cysegredig o goed caudfrig; ac yn y lle a elwir *Cremlyn*, yn Mon, y mae rhai o'r hen golofnau a elwir "*Meini Hirion*" yn sefyll eto; ac yr

\* Mallet's Northern Antiquities.

oedd yno un o'r hen gromlechau, neu allorau cyntefig, yn aros hyd yn ddiweddar: fel y mae enw y lle, a'r olion uchod, yn cydgadarnhau y dyb fod y fan hon wedi bod unwaith yn un o lwyni cysegredig y Derwyddon, lle yr arferent offrymu eu haberthau, a lle hefyd, ond odid, y dysgent gyfrinion eu crefydd i'w dysgyblion.

Y mae amryw draddodiadau lleawl cysylltiedig â'r cromlechau hyn: gelwir rhai o honynt "Coetanau Arthur," ac am ereill o honynt, y traddodiad yw, mai ar feddrodau rhai o'u henwogion y'u cyfodid. Am y cyntaf, hysbys yw, y cyfarfyddir yn fynych yn yr hen hanesion Cymreig â chrybwylliad o ddau wrthddrych hollol wahanol, dan yr enw Arthur; y naill oedd dywysog clodwiw, a flodeuai yn yr hanner gyntaf o'r cheched ganrif, am yr hwn y cawn draethu yn fanylach rhagllaw; a'r llall, ydoedd nodweddiad traddodiadol, gwron mawr y ffug-chwedlau Prydeinaidd, i'r hwn yr arferai y werin briodoli y gorchestion mwyaf anhygoel. Ei gynnyrcholydd yn y nef serenol yw yr *Arth Fawr*, a olygid y cyfersyddiad *Lyra*, ei delyn. Dywedir mai mab ydoedd i *Uthr Bendragon*, neu y *Prif Arweinydd rhyfeddol*, ac *Eigyr*, neu y *Gallu cenedlaethol*. Mae yr unrhyw orchestion yn cael eu priodoli iddo ef yn y ffug-chwedlau Celtaidd ag a briodolid gan genedloedd eraill i Erc'lwff, a'r Cawri. Meddyliai yr Arathraw W. O. Pughe, bod y nodweddiad yma yn seiliedig yn hanes Nimrod:\* ond y Parch. E. Davies a farnai yn hytrach, mai un o enwau dwyfyddol y patriarch Noa ydoedd; † a'r hwn feddylddrych, medd efe, y cydsymia yr hyn a ddywedir gan y beirdd, ac yn y Trioedd. Ac am yr ail olygiad a grybwyllwyd mewn cysylltiad â'r cromlechau fel beddfanau eu gwroniaid, gall fod hyn yn ddigon cyson â'r syniad am danynt fel allorau, yn enwedig y rhai diweddaraf o honynt, canys pan gwmpai rhai o enwogion yr oesoedd boreuaf, y rhai a berchid yn fawr yn mysg y bobl am eu cynneddfau rhagorol, nid yw yn annhebyg i'w holynwyr yn eu hawydd i anfarwoli eu henwau, a'u parch coel-grefyddol i'w cofadwriaeth, gyfodi rhai o'r allorau hyn ar eu beddau, ar y rhai, fel y llygrid eu syniadau am grefydd, y gallai eu bod yn arferol o abertbu i'w hysbrydoedd ymadawedig; ac felly, efallai, yn mysg y genedl hon, fel yn mysg cenedloedd ereill, y dechreuai y cyfeiliornad o gyfrif eu hen wroniaid yn rhyw fath is-is-dduwiau, i'r rhai y cyflwynent addoliad crefyddol.

Gwelir pentyrau mawrion o geryg hefyd yn Nghymru fel mewn gwledydd eraill, y rhai a elwir *Carneddau*; ac nid yw yn annhebyg bod y rhai hyn hefyd yn dwyn rhyw berthynas â'u hen ddefodau crefyddol; ac fel y mae yr hen allorau a'r meini hirion yn cael eu galw yn aml yn goetanau Arthur, y mae y carneddau hyn yn aml yn cael eu galw yn "Arffedogaidd y Gawres;" a'r traddodiad cyffredin mewn cysylltiad â hwy yw, bod y gawres (yr un mae yn debyg a Cheridwen) wedi ymgymeryd â'r gwaith canmoladwy o gludo cerig at ryw bwrpas daionus, megis Pont ar Fenai, neu grefydd-dy mewn rhyw lanerch, ac i llyn ei harffedog dori yn y fan lle gwelir y pentwr cerig.

Mae yr hanesiaeth henaf a sicraf a feddwn, sef yr eiddo Moses, yn ein hysbysu yr arferid yn foreu iawn gyfodi colofnu a charneddau ar yr achlysur o ymgyfmodiad pwysig, cystal ag ar ryw achlysuron ereill. Gen. 31. 45—54, "A Jacob a gymmerth garreg, ac a'i cyfododd yn golofn. Hefyd Jacob a ddywedodd wrth ei frodyr, Ceaglwch gerrig; a hwy a gymmerasant gerrig ac a wnaethant garnedd. Dywedodd Laban hefyd

\* Cambrian Biography.—Arthur.

† Mythology and Rites of the British Druids, by Ed. Davies, p. 187.

wrth Jacob, Wele y garnedd hon, ac wele y golofn hon a osodais rhyngof fi a thi; tyst a fydd y garnedd hon, a thyst a fydd y golofn, na ddeuaf fi dros y garnedd hon atat ti, ac na ddeui dithau dros y garnedd hon, na'r golofn hon, ataf fi, er niweid. Duw Abraham, a Duw Nachor, a farno rhyngom ni, Duw eu tadau hwynt. Hefyd Jacob a aberthodd aberth yn y mynydd (neu ar y garnedd,) ac a alwodd ar ei frodyr i fwyta bara; a hwy a fwytasant fara, ac a drigasant dros nos yn y mynydd."

Amcan yr holl orchwyl yma ydoedd cadarnhau cyfamod a wnelid mewn manylwydd a difrifwch mawr rhwng Laban a Jacob, yr hyn iddynt hwy ar y pryd ydoedd o gryn bwys, er sicrhau tangnefedd rhyngddynt, a rhwng eu hiliogaeth ar eu hol hwynt; ac nid yw yn annhebyg fod y defodau a grybwyllir yma, yn cael eu hymarfer ar y cyffelyb achlysur yn mysy trigolion y byd yn gyffredinol yn yr oesoedd boreuol hyny; canys nid oes dim yn holl amgylchiadau yr hanes uchod yn rhoi ar ddeall i ni mai rhyw ddefod newydd, a ddyfeisid gan Laban a Jacob i'w gweinyddu ar yr achlysur crybwyllledig, ydoedd hon; ond yn hytrach ei bod yn hen, ac mewn ymarferiad cyffredinol yn mysy y gwahanol drefedigaethau. Efallai na chfyddid fel seremoni grefyddol, wedi ei sefydlu er penderfynu ar iawnderau a meddiannau, yn yr oesoedd boreuol; ac nid yw yn annhebyg y buasai defod mor wir angenrheidiol er eu dedwyddwch a diogelwch, yn cael ei chludo gan ddynolryw, gyda hwy i'w gwahanol drefedigaethau.

Heblaw y cromlechau a'r carneddau crybwyllledig, ymae amryw golofnau i'w canfod yma a thraw, y rhai a elwir weithiau "meini hirion," "meini gwyr," "meini crair," "meini gwynion," &c.; y rhai hyn hefyd, yn ol pob tebyg, ydynt olion rhai o ddefodau boreuol ein cyndadau. Efallai na chfyddid mo honynt ar yr cyfrif ag y cyfodai Jacob ei golofn gynt yn Bethel, er coffau rhyw ddaioni neillduol o eiddo yr Arglwydd tuag ato; ond yn hytrach ar y duedd hunanol, a'r uchelgais ffol, sydd yn mhiant dynion, i wneyd iddynt eu hunain enwau anfarwol, trwy y cyfryw golofnau oesol; o'r hyn yr oedd tŵr Babel yn un enghraifft fawr a chyffredinol: Gen. 11. 4, "A dywedasant, Moeswch, adeiladwn i ni ddinas a thŵr, a'i nen hyd y nefoedd, a gwnawn i ni enw," &c. Ac i'r un perwyl y cyfodid colofn bedd Rahel; Gen. 35. 19, 20, "A Rahel a fu farw, ac a gladdwyd yn y ffordd i Ephrath; hon yw Bethlehem. A Jacob a osododd golofn ar ei bedd hi; honno yw colofn bedd Rahel hyd heddyw." Enghraifft arall i'r un perwyl a gawn ni yn hanes Absalom, mab teg, ond drwg, y brenin Dafydd; 2 Sam. 18. 18, "Ac Absalom a gymmerasai, ac a osodasai iddo yn ei fywyd golofn yn nyffryn y brenin: canys efe a ddywedodd, Nid oes fab genyf i wneuthur coffa am fy enw; ac efe a alwodd y golofn ar ei enw ei hun. A hi a elwir Lle Absalom, hyd y dydd hwn." Efallai fod y meini hirion geirwon hyn wedi eu cyfodi ar y cyntaf heb unrhyw amcan amgenach na chadw coffa rhyw un enwog a gleddid yn y llanerch honno; ond nis gellir gwadu na ddaethant mewn amser yn offer eilunaddoliaeth, os nid yn wrthddrychau i'r rhai y cyflwynid addoliad yn uniongyrchol.

Tybia rhai henafiaethwyr eu bod yn cael eu gwisgo fel dynion ar ryw amserau arbenig, er peri iddynt gynnrychioli rhai o'u gwron-dduwiau yn berffeithiach; ac yna fel y daethant o dipyn i beth i gael eu cyfrif yn gysegredig, dewisid rhai o honynt efallai yn nodau terfynau etifedd-iaethau, a chyrchid atynt i ymgysfodi neu ymgynghreirio, am ba achos y gelwid rhai o honynt "meini crair;" ac ar yr un cyfrif dewisid rhai o honynt yn orseddau barn, am ba achos y'u gelwid "meini gwynion;" ac un o'r cyfryw, debygid, ydoedd "maen addwyn," neu *faen y rhinwedd*, yn Mon. Meddylia ereill mai *ar*, neu *am*, y meini hirion hyn y dodid y

delwau gwiail anferth hyny a grybwylla Caisar, yn y rhai yr offrymai yr hen Galiad, os nad y Cymry hefyd, ebyrth dynol; ac felly yn raddol daeth y colofnau hyn i gael eu cyfrif yn gysegredig i'w crefydd; a phlenid llwyni o'u hamgylch, yr hyn a ystyrir mor hanfodol i'w cyflawniadau crefyddol.

Hwyrach y goddefir i mi adrodd fy marn am yr amryfal chwyldroadau yr ydwyf yn credu i syniadau crefyddol ein cyndadau fyned drwyddynt cyn dygiad Cristionogaeth i'w plith. Wedi iddynt ddechreu ymsefydlu yn eu hetifeddiaeth yn yr ynysodd hyn, ar ol eu crwydriadau blinion, teimlent yn naturiol awydd cadw ar gof i'w hiliogaeth, ragoriaethau eu cyndad Noa, a'r modd rhyfedd y'i gwaredasid ef a'i dylwyth yn yr arch, pan foddid y byd drwy y dylif ofnadwy; ac i'r perwyl hyny, y mae yn debyg iddynt neillduo nos a dydd Calanmai, fel adeg gysegredig i gofio dyfodiad yr hen batriarch o'r arch; ar yr hon adeg, efallai nas gwnaent ar y dechreu ddim amgen nag offrymu ŷch neu ddau ar eu hallorau, fel offrmw diolch i Dduw y nefoedd am y waredigaeth honno; ac er dilyn y siampl a roddes Noa ei hunan i'w blant, pan ar ei ddyfodiad allan o'r arch, yr offrymodd efe boeth offrymau o'r creaduriaid glân ar yr allor i Dduw, pan y rhyngodd bodd i'r Arglwydd wneuthur cyfamod âg ef, a rhoddi addewid iddo, na ddystrywia efe y byd â dylif mwyach. Ar yr achlysuron hyn, gallwn feddwl fod yr henafgwyr yn adrodd i'r ieuencyd yr hanes ryfedd am y dylif, a'r arch, a'r modd y gwaredwyd Noa a'i deulu, yn nghydag ychydig nifer o amryfal rywogaethau o greaduriaid afresymol, i ail bobli y byd. Yn gysylltiedig â hyny, gellid meddwl bod rhagoriaethau Noa, fel gwr cyfiawn, a chyfaill Duw, yn cael eu hadrodd yn helaeth ganddynt. O oes i oes, ymlygrent yn naturiol oddiwirth sylm-rydd yr ymarferiad cyntefig, ac ychwanegent amryw ddefodau dynwaredol o'r dyfodiad allan o'r arch, &c., gan gyflawni eu defodau ar lanau llynoedd, y rhai ar y cyfrif hwnw a olygent hwy yn gysegredig. Noa a ddarlunient fel y mwyaf a'r rhagoraf o ddyinion; ac o dan yr enw "Hu Gadarn" priodolent iddo ddygiad eu cenedl o "Wlad yr Haf, a elwir Deffrobani, sef lle mae Constantinopolis, trwy Fôr Tawch, hyd yn Ynys Prydain, a Llydaw."—Tri. 4. Cyfrifent ef fel tad amaethyddiaeth, gan ddywedyd mai "efe a ddangoses y ffordd i aru tir gyntaf i genedl y Cymry, pan oeddynt yn Ngwlad yr Haf, sef lle y mae Constantinopolis yn awr, cyn no eu dawed i Ynys Prydain."—Tri. 56. Iddo y priodolent eu trefniad yn llwythau a thylwythau, neu yn ol iaith y Trioedd, "wneyd elud a gosgordd gyntaf ar genedl y Cymry."—Tri. 57. Darlunient ef fel un nodedig o'r gofaluâ am gyfiawnder, uniondeb, a heddwch; canys felly y dywedir am dano, "Ni fynai efe wlad a thiroedd o ymladd ac ymlid, eithr o gyfiawnder, ac yn nhangnef."—Tri. 4. A phriodolent iddo ef ddiadid cyfreithiau traddodiad gyntaf iddynt, er eu hiawn lywodraethiad yn eu cylchoedd cymdeithasol. "Hu Gadarn a ddodes gyntaf ar gerdd dawad gynnal cof a cheudawd."—Tri. 92. Gan y priodolent gynnifer o ragoriaethau iddo, nid rhyfedd iddynt mewn amser fyned i'w addoli ef fel *rhyno un dwyfol*, os nid yn *lle Duw*, a gwneyd o honynt gyfrif mawr o hono ef a'i arch.

Cysegrent hefyd amryw llynoedd i goffadwriaeth y dylif, ar lenydd pa rai, y mae yn debyg, y cyflawnt eu defodau, trwy gyfleu ar wyneb y llyn ryw fath o ynys nofiadwy, goediog, yn yr hon y byddai y coffr cysegredig a gynnrychiolai yr arch yn guddiedig: yr ynys hon a dynid i dir ganddynt â dau o'r ychain mwyaf a allent gael yn yr holl fro, y rhai o'r herwydd a elwid "ychain bannog;" a'r ddefod hon, debygaf, yw yr hyn a elwid yn "dynu yr afanc o'r llyn."

Mae yn gofus genyf draddodiad a glywais pan yn fachgen, yr hwn a á yn mhell er cadarnhau y golygiad uchod. Y mae rhan o'r ffordd fawr a arweinia o Benraeth, yn Mon, i'r Borthaethwy, a elwir "Gallt y Plas gwyn," o'r lle y gellir gwled tair o Lanau plwyfol ar unwaith, sef Llanddyfnan, Llanbedrgoch, a Llanfair Bettws Geraint: a'r traddodiad yw, i'r afanc a dynid gan yr ychain banog, pan ddaeth hyd y llanerch grybwyllledig, dori ei galon wrth weled tair eglwys ar un golkw, a threngu. Un o'r eglwysi uchod, sef Llanddyfnan, oedd yn un o'r addoldai Cristionogol cyntaf a adeiladwyd, fel y mae ei thadogaeth ar Dyfnan yn arwyddo; y lleill, sef Llanbedr a Llanfair, nid adeiladwyd hyd rai oesoedd yn ddiweddarach, pan oedd arferion Eglwys Rhufain yn dechreu dylanwadu y Cymry, fel y gwelir eu bod wedi eu henwi ar Pedr a Mair; ond meddylwn y gallai y traddodiad uchod fod yn rhoddi ar ddeall i ni, yn nulliaith ddamegol yr athrawon derwyddol, fod paganiaeth wedi parhau i gael ei harddelwi, a'i defodau eu cyflawni yn y wlad, hyd oni ffinydd Cristionogaeth, gan luosogi ei themlau yn yr ynys, fel y gwelid cynnifer a thair o honynt mewn cylch mor fychan.

Mae amryw o'r llynoedd cysegredig yn cadw eu henwau sanctaidd arnynt hyd heddyw, megis "llyn y creini," sef *llyn yr addoliad*, ar "gefn creini," sef *bryn yr addoliad*; a "llyn urddyn," sef *llyn y cysegriad*, yn awydd Feirion; a "llyn gwydd Ior," neu *llyn llwyn Ior*, yn swydd Maldwyn, ac amryw rai cyffelyb a ellid nodi. Ac am y llynoedd cysegredig hyn yn gyffredin, fe'u darlunid fel lleoedd yn y rhai y buasai dinasoedd yn gorwedd gynt, ond a lyncasid i fynu mewn rhyw gyffroad ar natur, a'r llynoedd a ffurfiad yn eu lle; nid am fod hyn wedi cymeryd lle yn weithred, ond am fod y cyfryw ddarluniad o honynt yn eu cyfaddasu yn well i gynnrychioli boddiaid y byd trwy y dylif; yr hyn oedd y ffaith hanesyddol fawr yr amcenid ei chadw ar gof. Y mae y cyfryw draddodiad yn cael ei gadw i fynu yn ei rym mewn cysylltiad ág amryw llynoedd yn ein gwlad hyd heddyw.\*

Afonydd a ffinonau hefyd a gysegredig gan ein tadau i'r un perwyl, o ba rai yr oedd y Dyfrdwy yn un arbenig, a'r ffinonau o ba rai y tarddai a elwid yn "Dwyfan" a "Dwyfach," ac a olygid yn cynnrychioli Noa ai wraig, y *ddeuddyn dwyfol*, fel y'i cyfrifid; a'r afon a gynnrychiolai *afon bywyd*, yr hon meddynt a redai trwy Lyn Tegid, heb ymgymysgu â'i ddwfr, trwy yr hyn y cynnrychiolid *llyfard ffrwd einioes yn ddiogel trwy ddyfroedd dinystriol y dylif*, yn mhersonau Noa, a'i wraig, a'u hiliogaeth. Gerllaw dyfodiad diogel y Dyfrdwy anlygredig allan o'r llyn, nyni a gawn y "Bala," neu y mynediad allan; ac yno mae "tomen y Bala" yn weledig hyd y dydd hwn, ar yr hon, ond odid, yr offrymid yr ychain banog, wedi iddynt gyflawni eu gorchwyl cysegredig o dynu yr arch i dir; ac yn agos i ffinonell y Dyfrdwy, y mae mynydd a elwir "yr Aren." Mae yn wir y gellid meddwl bod yr enw "Aren" neu "Aran," ar yr hwn y gelwir amryw o fynyddoedd Prydain, yn dynodi uchelfan, oddiwrth ar; ond yr oedd yr henafiaethydd dysgedig Mr. Bryant, ac ar ei ol ef Faber, a'r Parch. E. Davies, yn barnu mai enwau a roddid ar yr Arch oedd *Aren* ac *Arene*, ac mai meddwl llythyrenol *Dinas Arena*, ydoedd "*Dinas yr Arch*." Heblaw hyn, efallai y ceir cadarnhad i'r golygiad uchod pan ystyrier fod "*Aren Meirionydd*" yn gysegredig i "*Tydain tad awen*," yr hwn oedd yr unrhyw ag Apolo y Pheniciaid; ac yr ydys yn meddu seiliau cryfion i greu nad oedd hwnw drachefu yn neb amgen na rhyw gynnrychioliad o hen batriarch yr arch ei hun.

\* Gwel Cambro Briton, vol. i, pp. 121, 126—128.

Arferai y beirdd grybwyll cysegroedd eu duwiau, a'u dynsodion cysegr-edig, yn aml dan yr enw "beddau," neu *orphwysfâau*; megis y gwyr dysgedigion y golygid temlau Osiris yn yr Aipht fel beddrodau y duw hwnw, neu y gwanau lle y gorphwysai efe. Ac y mae yn beth nodedig fod Taliesin yn cydio Bedd Tydain yn yr un penill a'r eiddo *Dylan*, un arall o'u dynsodion dwyfol dychymybol, y rhai a ddefnyddid i gyn-nychioli patriarch y dylif.

"Bed Tidain Tad Awen,  
Yn ngodir Bron Aren:  
Yn yd wna ton tolo,  
Bed Dilan Llan Beuno."\*—TALIESIN.

Ac y mae yn beth nodedig, fod ar ben yr *Arenes* yn Llydaw, olion hen adeilad, am yr hon y dywedir yn sicr, mai hen deml gysegredig i'r un duw ydoedd. Ac fe ddichon fod y Derwyddon Llydawaidd yn meddu cystal manteision i gadw i fynu y defodau coffaol o'r dylif, gerllaw yr Arenes yn Llydaw, ag a fwynhai y Derwyddon Cymreig wrth droed Aren Meirionydd: canys fel hyn y darlunir y lle:—"Tair milldir i'r gorllewin o'r dref hon (*Efalaise*) y gorweddâ Mynydd Arenes; ac yn mhentref Arnes, yr hwn sydd yn perthyn i'r dref hon, y mae llyn, a borthir gan ffrydiau tanddaearol, yr hwn a sych i fynu weithiau, ac yna a lenwir yn ddisymwth drachefn.†

Mae yr enw "Llyn Tegid" hefyd yn arwyddo yr un peth, fel y gallwn ddeall oddiwrth y traddodiadau perthynol i Tegid ydynt ar gael yn y fflugdreithodau a elwir "*Hanes Taliesin*;" a ganlyn sydd fath o gyfieithiad rhwydd mewn iaith ddiweddar o ran o hono:—

"Yn y cynamserau yr oedd gwr o drâs uchel, yn Mhenllyn. Ei enw oedd *Tegid Foel*, a'i dreftadaeth oedd yn nghanol Llyn Tegid.

"Ei wraig ddywediedig a elwid *Ceridwen*; ac o'r wraig yma bu iddo fab, a elwid *Morfran ab Tegid*: a merch a elwid *Ceirfyw*, yr hon oedd y wryf decaf yn yr holl fyd.

"Ond i'r plant hyn yr oedd brawd, a elwid *Afagddu*, yr hagraf mewn bod. A Cheridwen, mam yr hagr-fab hwn, a benderfynai yn ei meddwl mai siawns fach a fyddai iddo gael ei dderbyn i fysg cymdeithion anrhydeddus, oddieithr ei fod wedi ei ddonio â rhyw wyddion neu ragoriaethau anrhydeddus; canys yr oedd hyn yn y cyfnod cyntaf i Arthur a'r ford gron."

Yn agoriad yr hanes, wele ni ar unwaith wedi ein bwrw ar dir y ffug-chwedlau—yn nghyfead ei dreftadaeth, y darluniad o'i ddynsawd, enw ei wraig, yn nghydag enwau a nodweddau ei blant, yr ydym yn cael hanes ddamegol o'r dylif yn borteiedig ar waelod Cymreig ger bron ein llygaid. Cyfeir treftadaeth Tegid, gwr Ceridwen, yn nghanol Llyn Tegid, y mwyaf o'r llynoedd Cymreig. Rhaid bod yr etifeddiaeth yma yn gyfyngedig i faint *nawf-ynys*, *llong*, neu *fâd*, yr hwn a allai nofio yn y cyfryw sefyllfa; neu yntau rhaid cymmeryd yn ganiataol ei bod wedi ei gorlifo, trwy yr hyn y cadwai ein henafiaid i fynu goffad o ddystryw yr *hen fyd* trwy y dylif. Darlunir Tegid fel gwr tra hybarch ei ymddangosiad, wedi colli ei wallt oddiar ei goryn; canys "*Tegid Foel*" y'i gelwir; ac yn hyn y mae yn cyfateb yn hollol i'r hen dduw cenedlig Sadwrn, yr hwn a addefir yn gyffredin yn gynnychiolydd Noa, ac a ddarlunir fel priod *Rhea*, yr hyn aid yw namyn enw arall ar Ceridwen, neu *Cêd*, elfod yr Arch. Ni oddef

\* Davies's Mythology, pp. 192, 193.

† Ib. p. 195.



fy ffiniau i mi o'r hain y golygiad yma yn mhellach ar hyn o bryd; ond fe all y cywrair gael ei foddhau trwy ymfyn â'r gwaith a grybwyllais amryw weithiau o'r blaen, sef "*The Mythology and Rites of the British Druids*," gan y Parch. Edward Davies.

Yn mhen rhyw yspaid, y mae yn ymddangos i'r Pheniciaid ddechreu agor trafniadaeth â'r ynyssoedd oeddynt oddiallan i benrhyn Cernyw a Dyfneint, o'r lle y cloddid alcan—yr hwn ddelid, o herwydd ei brinder, ydoedd dra gwerthfawr. Y Pheniciaid hyn a gyfaneddent dueddu Syrff a Galilea, a chan fod eu tiriogaeth yn estyn yn hir ar lan Môr y Canoldir, daethant yn fordwywyr medrus yn foreu, ac yn enwog am eangder eu trafniadaeth fasnachol, fel y dywedir fod masnach yr holl fyd adnabyddus yn eu llaw unwaith. I'r bobl hyn y perthynai y dinasoedd blodeuog *Tripolis, Berytus, Tyrus, Sidon, Ptolemais*, ac amryw ereill oeddynt dra enwog yn y cynesoedd. Yr oeddynt yn enwog hefyd am eu dysgeidiaeth a'u gwybodaeth athronyddol; ond yr oeddynt mor nodedig am eu heilunaddoliaeth ag oeddynt am ddim arall. Mae Whittaker, yn Hanes Manceinion (lyfr i. pen. 11, adr. 2,) yn dyweyd fod y Pheniciaid wedi dechreu masnachu â Phrydain o leiaf bum' can' mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol, ac yn mysg eu heilunod yr oedd Baal, Asteroth, Hercules, Tamuz, Apolo, &c. Y rhai hyn o'r diwedd a ddygasant eu crefydd drosodd i'r ynys hon, ac a enillasant ddysgybllion i'r grefydd newydd—yn gyntaf, efallai, yn Nghernyw a Dyfneint, lle y gallem gasglu iddynt sefydlu eu defodau crefyddol mewn cryn rwyg; ond yn cael eu gwiliad â llygaid tra eiddig gan drigolion y parthau ereill o'r wlad, y rhai oeddynt yn dra phenderfynol dros hir amser i sefyll dros eu hen grefydd; canys yr ydym yn deall eu bod yn galw y rhai a gofieidient y grefydd newydd, "Dallben;" a'r wlad lle y ffynai yr egwyddorion hyn a alwent "Glyn Dallwyr." Heblaw hyn, fe'n hysbysir yn yr hen draddodiadau dammegawl, i'r grefydd newydd yma gael ei chadw dros yspaid hir o fewn Glyn Dallwyr, yn Nghernyw; a chan gynted ag y dechreuodd eppilio, neu gynnyrchu dychweledigion, dywedir i Arthur (nid y brenin Arthur, yr hwn a fu yn ei flodeu ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid o'r ynys hon, ond Arthur y ffug-chwedlau, pen cyfriniol hen grefydd y wlad,) gynnnull ei luoedd trwy yr holl ynys, er mwyn llwyr ddystrywio y grefydd newydd yma, a gwaredu y wlad oddiwrth ei chefnogwyr: ond aſwyddiannus hollol a fu ei gais; canys y grefydd newydd a ennillodd dir, ac a ymledodd yn lled gyffredin dros y wlad. Yn ol y grefydd hon, cyfodid yr haul, y lleuad, a'r ser, yn wrthddrychau addoliad, yn lle yr hen Dwyfan a Dwyfach, Tegid, a Cheridwen, a'u defodau dysyml er cofiad o Noah a'i dylwyth, y dylif a'r arch, &c.

Er dangos fy seiliau dros y crybwyllion uchod, cyfeiriai eich sylw at y Triad canlynol, a dylunaf ef â rhai sylwadau eglurhaol arno:—"Tri Gwrddfeiciaid Ynys Prydain:—*Cyntaf* fu Pryderi fab Pwyl Pendaran, Dyfed, a getwis foch ei dad, tra ytoedd yn Annwn; ac yn Nglyn Cwch, yn Emlyn, y cewtis efe wynt. *Ail*, Coll ab Collfrewi, a getwis hwch Dallwaran Dallben a ddoai yn ngorddodwy hyd yn Mhenrhyn Penwedig yn Nghernyw, ac yna myned yn y Môr; ac y lle y daethoedd i dir, Abararogi yn Ngwent Iscoed; a Choll mab Collfrewi ag ei law yn y gwrych ffordd bynnag ydd elai, ai ar fôr, ai ar dir; ac yn maes gwenith yn Ngwent y dodwes dri gwenithyn, a thair gwenynen; ac er hyn y mae goreu gwenith a mêl yn Ngwent: ac o Went y cerddai hyd yn Nyfed, ac y dodwes ar heiddyn a phorchellan; ac er hyn y goreu haidd a moch yn Nyfed; ac yn Llonio Llonwen y dodwes y rhai hyn. Gwedi hyn y cerddwys hyd yn Arfon, ac yn Lleyn y dodwes ar y gronyn rhyg; ac er

hyny, goreu rhyg yn Lleyn ac Eifionydd. Ac ar ystlys Rhiw gyferthwch y dodwes ar geneu blaidd, a chyw yr eryr; a rhoi yr eryr a wnai efe i Frynach Wyddel, o Ddinas Affaraon; ac y blaidd y rhoddes efe i Fenwaed, arglwydd Arllechwedd: a llawer o son sydd am eryr Brynach, a blaidd Menwaed. Ac oddiyna myned yd y Maen du yn Arfon, lle y dodwes ar geneu cath; a Choll mab Collfrewi a ei teffis yn Menai; a hono oedd y Gath Balwg a fu yn ormes yn Mon wedi hyny. *Trydydd*, Trystan ab Tallwch, a getwis foch March fab Meirchion, tra aethai y Meichiaid yn gennad at Essyllt i erchi oed â hi; ac Arthur, a Merchell, a Chai, a Bedwyr, a fuant eill pedwar ar ymgais a chyrch, ac nis gallynt gael cymmaint ag banw, nac o rodd, nac o bryn, nac o dwyll, nac o drais, nac o ledrad: sef achaws eu gelwid y Gwrddfeichiaid, am nas gellid nac ennill na gortrech arnynt am un o'r moch a gedwynt; eithr eu dadfer a wnaynt ar eu llawn gynnydd idd y rhai ag eu pieufynt."

Mae yn ddiau y bydd llawer o'm cydgenedi, annghyfarwydd yn henafiaethau eu tadau, yn barod i'm beio am roi chwedl mor afresymol a'r un uchod i fewn; ac yn wir ni buaswn yn gwneyd hyny, oni buasai fy mod yn credu y cynnwysa ryw draddodiad pwysig o barth i ffyniant coelgrefydd yn ein gwlad, o'r hyn nid oes un hanes arall ar gael; a'm bod yn barnu y gellir rhoddi eglurhad boddhaol ar y rhan fwyaf o honi, er ei bod wedi ei gwisgo yn iaith gyfriniol yr hen athrawon derwyddol.

Er ein galluogi i ddeall rhyw gymmaint o'r Triad uchod, y mae yn angenrheidiol i ni gofio fod yr hen Frythoniaid yn cyfrif Noa fel yr un a ddysgai i'w tadau aredig tir gyntaf; ac yn gyson â hyny y dywedir yn yr Hanes Sanctaidd, i Noa yn fuan wedi y dylif ddechreu bod yn *llafurwr* (Gen. 9. 20); ac am hyny, pan nad oedd ganddynt ysgrifen, ond y cludent eu meddyliau o oes i oes trwy ddarluniau, hwy a'i darlunient ef drwy faedd, am fod y creadur hwnw yn aredig y ddaear â'i drwyn, gan ymlid ar ol y pryfed, ac felly yn arddwr mwyaf naturiol: rhoddent barch addol-adwy i'r arch, neu elfod yr arch, dan yr enw Cêd neu Ceridwen, yr un a *Ceres* y Groegiaid, fel duwies llawnder, am mai o'r arch y caed had i hau y ddaear, wedi anrhaith mawr y dylif; a hwy a'i galwent hi weithiau "Ogyrwen Amhad," ac a'i darlunient dan y nodwedd o *hwch*, ei hoff ddysgybl a elwid *porchellan*, ei harchoffeiriad a elwid *twrch*, neu *gwydd-hwch*, sef *baedd y llwyn*, ei hoffeiriad a elwid *meichiaid*, neu geidwaid moch, a'i chynnulleidfaoedd a elwid *moch*; ac felly, ar gyfrif eu dyhewyd crefyddol o'r cynoesoedd, y cyfenwid y Monwysion "Moch Mon." Mae rhai o'r hen ffug-chwedlau a elwir y "Mabinogion," sef chwedlau a gyfansoddid gan yr athrawon derwyddol mewn iaith gyfriniol, i ddyysgu eu dyagyblion trwyddynt yn eu hathrawiaethau a'u cofion crefyddol, yn gynnorthwyol i frwr goleu ychwanegol i'r ymofynydd chwilfydig ar y crybwyllion uchod: ond ni oddefir i mi ddyfynu nemawr o honynt o fewn terfynau y Ddarlith hon.—Y cyntaf o'r tri gwrddfeichiaid a grybwyllir uchod yw "*Pryderi*," sef *dwys ystyriaeth*, a chan y'i cyfenwir "Gwynfarfad Dyfed," neu *Dderwydd Dyfed*, y mae yn hawdd i ni ganfod mai cyfundraith ei grefydd oedd testyn ei ddwys ystyriaeth. Ei dad oedd "*Pwyll*," sef *rheswm*, neu *gallineb*; a gallem feddwl mai nid enwau personol oeddnynt y rhai hyn; ond yn hytrach enwau cyfriniol, er dynodi y cymhwysderau gofynol i wneyd meichiad da, neu swyddog crefyddol effeithiol yn y cyflawniad o'i swyddogaeth. Cadarnheir fy meddwl yn y golygiad yma drwy ddernyn hynod o farddoniaeth yr hen DALIESIN, a elwir "*Preiddeu Annwn*," sef "Yspeilion y Dyfnder," neu "Gofion Crefyddol y Dylif," lle y dywaid mai wrth gynghor Pwyll a Phryderi yr aeth yr hen batriarch i'r arch. Fel hyn y mae—

"Golychaf wledig, pendefig, gwlad ri.  
 Pa ledas y penaeth dros draeth *Mundi*;  
 Bu cywair carchar Gwair\* yn Nghaer Sidi,  
 Trwy ebostol Pwyll a Phryderi,  
 Neb cyn nog ef nid aeth iddi.  
 Y gadwyn dromlas, cywirwas a'i cedwi;  
 A rhag preiddeu annwfn tost yd geni;  
 Ac yd frawd, parhau yn Bardd weddi;  
 Tri lloned Prydwen ydd aethem ni iddi;  
 Namyn saith ni dyrraeth o Gaer Sidi."

Er mwyn y sawl a allant fod yn annglyfarwydd yn iaith cyfansoddiadau y prif-feirdd, dodaf yma aralleiriad rhydd o'r deryn uchod:—

"Addolaf y penadur, goruchaf reolydd y tir. Ped estynai ei arglwyddiaeth dros eithafoedd y byd; eto cyweirid carchar Gwair yn Nghaer Sidi, trwy gyngor Pwyll a Phryderi, nid aeth neb iddi o'i flaen ef. Dyoddefaist y gadwyn dromlas, O ŵr cyfiawn! ac am yspeilion y dyfnder, tost yw dy gwyn, a hyd ddydd brawd y'i cofir yn ngweddiau beirdd. Aeth tri llonaid Prydain i'r dyfnder; ond ni ddychwelodd namyn saith o Gaer Sidi."

Dywedir yn y Mabinogion, fod Pwyll, arglwydd saith dalaeth Dyfed, pan yn *Arberth*, neu yr Uchel Iwyn, wedi penu dydd hela, hyny yw, debygid, adeg arbenig i gyfiawni cyfrinion eu crefydd; a'r lle a ddewisai i hyn, oedd *Glyn Cwch* (y båd, neu yr arch.) A phan oedd Pwyll ar ganol ei helwriaeth, yn gwranddo ar swm ei fytheiaid, efe a glywai yn eglur swm bytheiaid ereill, hollol wahanol eu goslef i'w rai ei hun, ac yn dyfod yn gymhwys i'w herbyn. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at ryw ddefodau crefyddol hollol wahanol i'r eiddo Pwyll a'i henafiaid:—Ai tybed nad oes yma ryw gyfeiriad, er yn dywyll, at lygriad a gwyrriad yr hen Gymry oddiwrth swmlrwydd eu crefydd gynteig, yr hon oedd yn llawer mwy cydweiddol â synwyr ac ystyriaeth ddirifrol na'r lluaws defodau coegion ac eilunaddolgar yr ymlithrai y genedl i'w harfer yn fuan?

Am Coll fab Collfrewi, ete a ddarlunir fel nai a dysgybl Rhuddlwm Gawr, neu y *Cawr coch esgyrniog*, fel yr arwyddoca yr enw, yr hwn nis gall fod yn neb amgen na'r Masnachydd coch o Phenicia, yr hwn oedd Ganaanead o un tu, ac Edomiad o'r tu arall, ac a drafnidiai i ynysioedd yr alcan, ger Cernyw. Coll fab Collfrewi, debygid, a olygir yn y Triad fel athraw y grefydd newydd yma; a'r gyfundraith a ddysgid ganddo a ddarlunir dan y gyffelybiaeth o *hwch*, i'r hon y priodolir *dodwy*, neu adael o'i hol, neu gynnrychu mewn amrywiol wledydd yn ei ffordd, amryfal bethau neu effeithiau, fel olion ei hymweliad. "Yn Ngwent dodwes dri gwenithyn a thair gwenynen." Nis gwn a allai hyn gynnwys rhyw amnaid bod *Coll* a'i gyfundraith newydd wedi cael derbyniad lled roesawus yn Ngwent; neu efallai ei fod yn rhoddi ar ddeall fod yr athraw hwn wedi bod o gryn wasanaeth i drigolion Gwent, trwy eu hyfforddi i wellhau amaethyddiaeth eu gwlad, ac felly gynnrychu cynnalïaeth a chysuron einioes yn helaethach nag o'r blaen. Heblaw hyny, y mae y rhai ydynt yn hyddyg yn nghoelgrefyddau y prif oesoedd yn ein hysbysu fod gwenyn yn cael lle mawr yn eu temlau mewn cysylltiad â rhai o'u defodau: ac am hyny, oni allwn ni gasglu bod athraw y grefydd newydd hon yn ŵr tra dichellgar; a'i fod, dan y gochl o ddysgu y Gwenhwyson yn y gelyfddydd werthfawr o amaethyddiaeth, wedi cael cyfle i ddwyn ei syniadau a'i ddefodau crefyddol i fewn ar yr un pryd.

\* Un o enwau Noa ydoedd *Gwair* (adnewyddiad) fab *Gwestyl* (y dymhestl fawr.)

Yn Mhenfro drachefn y dodwes ar heiddyn a phorchellan; tra yn dysgu amaethyddiaeth i drigolion Dyfed, cynnyrchai ei rhyw ei hun o grefydd yn eu plith hwythau.

"Yn Arfon, ar ystlys Rhiw gyferthwch, y dodwes ar genau blaidd, a chyw yr eryr." Yr oedd blaidd y flug-chwedlau, medd Mr. Bryant, yn perthyn i addoliad yr haul; \* a'r eryr hefyd oedd un o'r einlunod Aiphtaid, cysegredig mewn modd arbenig i'r haul. † Y mae yn anhawdd penderfynu yn bresenol pa le a olygir wrth "ystlys Rhiw gyferthwch;" ond fe debygid mai rhyw le bliin iawn i'w dramwy ydoedd; canys ystyr yr enw Rhiw gyferthwch, yn iaith gyffredin y dyddiau hyn, yw *Rhiw dyheuaad*; ac y mae lle i feddwl ei fod yn rhyw le yn y ffordd o Leyn i'r rhan honno o Arfon sydd ar gyfer Ynys Fon, a bod dinas Affaraon yn gyfagos iddo. Wedi yr ymchwil manylaf a ellais ei wneyd, y mae yn rhaid i mi addef nas gallaf feddwl am un lle yn cyfateb i'r darluniad yn well na'r esgynfa o Neñin heibio i Lithfaen, i Gwm Coryn, neu y lle a elwir yn awr Bwlch Llanaelhaiarn, gynt Bwlch y ddau fynydd; a cherllaw i'r Rhiw hwnw y mae hen ddinas neu amddiffynfa gref dros ben, yn mynyddau yr Eifl, a elwir yn bresenol "Tre'r Caerau," yr hon oedd yn anhygyrch oddieithr ar un ystlys, ac ar yr ochr honno yr ydoedd yn ddiffynedig gan dri o furiau cedyrn; o ba rai y mae cryn olion yn aros hyd heddyw: ac o'i mewn y mae olion lluaws o adeiladau. Dywedir bod Coll wedi anfon yr eryr yn anrheg i Frynach Wyddel o ddinas Affaraon, a'r ceneu blaidd i Fenwaed, arglwydd Arllechwedd. Yr oedd arglwyddiaeth Arllechwedd yn nghymydogeaeth y Penmaen Mawr, ac yno, mewn lle a elwir Braich y Ddinas, y mae adeilion hen amddiffynfa ac adeiladau tra chyffelyb i'r rhai yn yr Eifl. Barnai y Parch. Edward Davies bod yr adeilion olaf a grybwyllwyd yn cynnwys olion hen deml i Beli neu Baal—yr haul. Onid ellid casglu oddiwrth y Triad dyfynedig, bod rhyw orsaf arbenig i'r grefydd newydd yma wedi ei sefydlu gan Frynach Wyddel yn ninas Affaraon, a chan Menwaed yn arglwyddiaeth Arllechwedd? a'm barn ostyngedig fy hunan ydyw bod yr hen adeilion, ar y ddwy uchelfa grybwylledig, yn cynnwys olion temlau i lu y nef, a gyfodwyd gan ein henafiaid yn yspaid ffyniant y gyfundraith grefyddol a ddygwyd yma o Phenciaia gan Rhudd-lwm Gawr, ac a ledaenwyd wedi hyn yrwy offeryniaeth Coll fab Collfrewi; er y dichon eu bod wedi eu defnyddio mewn oesoedd diweddarach fel gorsafau milwraidd, i'r hyn yr oeddynt yn dra manteisiol. ‡

\* Bryant's Analysis, vol. i., p. 73. † Ib. p. 19.

‡ Yr ydwyf yn meddwl y gall y ddau sylw canlynol yn mhellach gadarnhau fy ngolygiad, mai y lle a elwir Tre'r Ceiri, neu Tre'r Caerau yn bresenol, ydoedd hen ddinas Affaraon.—1. Y mae traddodiad bod hen dref gynt heb fod yn nepell o'r lle hwnw, a elwid *Caer Arianrhod*, yr hon a orliffwyd gan y môr ers llawer oes; ond o'r hon y mae yr olion i'w gwelw weithiau ar ddystyll drai eto, meddir. Ond am Arianrod, dywedir mai yr *enyfys* a gynnrychiolai, ac fe'i gelwir yn ferech Beli, neu yr haul. Ac os y golygwn yr hen adeilion yn yr Eifl yn olion teml i Beli, y mae yn naturiol i ni chwilio am dref Arianrhod yn agos: ac wele, er ei gorlifo gan y môr, y mae ar gael eto yn nhraddodiadau yr ardal!

2. Y mae traddodiad arall yn y wlad, ddarford i fytheiad rhyw foneddwr, yn yr hen amseroedd, gyfodi rhyw filyn rhyfeddol, a alwant "Aur Frychyn," yn agos i Lyn Cader, a chudynau o flew arno yn dysgleirio fel aur, yr hwn wedi ei hela dros amser, a oddrweddyd ac a laddwyd yn agos i'r lle a elwid Nantlle, ac iddo frestfu mor uchel pan y'i daliwyd nes rhywgo y creigiau. Efallai bod yma gytairiad tyrrall at ddiwedd *Brychan* neu *Brychyn* o ddinas Affaraon; canys gwelwn bod ei gyfeiriad yn gymhwys o gymydogeaeth Llyn Cader tua'r lle a nodasom fel dinas Affaraon. Dywaid Davies mai yr enw Prydeinaidd am y *Cabiri*, prif offeiriad y Phenciaid,

“Y Maen du yn Arfon, lle y dodwes ar geneu cath,” ydoedd y Maen du yn yr Arddu, efallai, yr hwn sydd yn agos i Lanberis. Am y cynnyrchriad olaf yma o eiddo yr hwch gyfriniol, dywedir mai “cath balwg,” neu “gath fraith” ydoedd, a bod Coll wedi ei bwrw o ben y Maen du i'r Menai, a bod meibion Balwg yn Mon wedi ei chymmyrd i'r lan a'i magu, ond iddi wedi hyn ddyfod yn un o dair brif gormes Mon.

Efallai fod hyn yn rhoi ar ddeall i ni fod dygiad y grefydd newydd yma i'r ynys wedi achosi blinder ac amrafaelion yn mysg y trigolion, os nad rhyfel cartrefol. At ryw draddodiad o'r natur yma oedd ar gael yn ei amser ef, ond oddid, y cyfeiriai Taliesin yn y geiriau hyn—

“Ys trabluddir y Gath Fraith  
A'i hanngyfeithion.”

Ac oddiwrth y crybwylliad yna o eiddo Taliesin, gallwn gasglu mai rhyw estroniaid o genedl ac iaith oeddynt brif swyddogion y grefydd hon; canys efe a'u geill yn “anngyfeithion.”

Y trydydd gwrddeichiad y sonid am dano ydoedd “Trystan ab Tallwch,” neu “gyhoeddwr y dirgeledigaethau,” fel y mae ei enw a'i nodwedd yn arwyddo; ac felly rhaid i ni ei olygu yntau hefyd yn athraw cyfundraith newydd o grefydd. Ond rhag blino amynedd rhai nas meddant nemawr flas at chwedlau dammegol dwydraith baganaidd, nis gwnaf ond crybwyll yn fyr, bod lle i gasglu mai o Gernyw y cyfodai y gyfundraith newydd hon hefyd—ei bod yn gynnwysedig o ryw fath o gydgorphoriad o'r ddwy gyfundraith flaenorol, sef yr *Archaid* a'r *Heulaid*; neu grefydd ddsymyl a diaddurn y Cymry, a defodau mwy rhwysgfawr y grefydd a ddygasai y masnachwyr Pheniciaidd yma; yr hyn a arddangosir trwy yr alleg o gytaliaeth anngyfreithlawn Trystan ac Essyllt, neu Fyngwen; a bod ymdrech led egmiol wedi cael ei wneyd yn erbyn yr athrawiaeth newydd hon hefyd—canys fe'n hysbysir fod pedwar o wyr “wedi myned ar ymgais a chyrch,” ac yn eu mysg yr oedd *Arthur* yn un, yr hwn, yn y ddwydraith dderwyddol a ddarlunir yn wastadol fel penaeth crefydd y wlad, ond y mae yn ymddangos mai hollol aflwyddiannus a fu y cais a'r holl ymdrechion; canys ni allai y pedwar gwyr hyn, er eu holl ymroad, gael cymmaint ag un o ddysgybllion Trystan i'w adael: ac o dipyn i beth, cytal y ddwy grefydd a fu i raddau lled helaeth; fel yr oedd yn hawdd canfod, yn y Dderwyddiaeth a ganfu Caisar yma, amryw o olion pob un o'r

neu eu gwroniaid dwyfyddol, a seilwyr eu crefydd, oedd *Pharaon*; a bod eu hoffeir-iaid yn cael eu galw *Pheryll*, am eu bod yn dra chyfarwydd mewn delidyddiaeth, ac a wnaent ryw fath o ddelwau neu fathodynau, y rhai a roddent i'r bobl fel gwystron o gynnorthwy goruchnaturiol. At y rhai hyn y cyfeiria Taliesin, pan ddywaid—

“Gwneynt eu perion  
A ferwynt heb don;  
Gwneynt eu delidau  
Yn oes oesau;  
Dyduth dyddyccawd  
Oddyfuweddyd gwawd.”

“Yna y parasant i'w ffyrnau ferwi heb ddwfr, ac a barotoisant eu *delidau celyd* i barhau yn oes oesoedd. Y *tuthiur* (march, un o'r delwau a wnelid ar eu bathodion yn aml) a ddygid allan oddiwrth ddyfn feithrinydd y gân.”

Ai'r drigias y Pheryllt celfyddgar hyn yma yr ydys yn ddyledus am yr enw *Lliu hfaen* ar yr ardal *hasarnol* hon, lawer oes cyn bod Ewropiaid yn gyffredin yn gwybod dim am ansodion y tynfaen?

ddwy grefydd y ceisiasom roddi bras ddarluniad o honynt eisoes, megis yn biith draphlith—Noah yn marchogaeth yn ngerbydd tanlyd yr haul, ac yn cael ei ddilyn gan Arianrod, a Cheridwen yn oeri ei phair yn y lloer!

Dyma ni wedi dyfod yn awr at yr unig gyfundraith o grefydd baganaidd yn mysg ein henafiaid ag y meddwn nemawr o "Gof Llyfr" yn ei chylch, sef yr un a elwir "y Dderwyddol;" a chan iddi fod mewn bri mor arbenig yn mysg ein cenedl, a bod cynnifer o'i holion a'i chofion eto yn yr ynys, ceisiaf roddi crynodeb mor gywir ag y gallaf o'i daliadau a'i defodau.

Llenorion, neu athrawon y genedl, a elwid weithiau dan yr un enw cyffredinol—*Beirdd*, a phryd arall, *Derwyddon*; ac a wahaniaethid yn dri dosparth, yn gyfatebol i'r amryfal swyddau a gyflawnid ganddynt, a gelwid hwy *Beirdd*, *Ofyddion*, a *Derwyddon*: ac islaw y tri dosparth yna yr oedd un arall, a elwid *Awenyddion*, neu ddysgyblion, y rhai oeddynt yn rhwym i fyned drwy gylch o ddysgyblaeth dra manol a llem, cyn y gellid eu derbyn i un o'r dospeirth rheolaidd.

Prydyddion, achwyr, a haneswyr, oedd y *Beirdd*; a'r sawl a fyddai wedi ei dderbyn i'r radd yma yn rheolaidd, a elwid *Bardd Braint*, a *Bardd Trwyddedawg*, ac weithiau *Trwyddedawg Braint*; ac wedi ei fod yn llywyddu mewn tair gorsedd, efe a elwid *Bardd Gorseddawg*, neu *Fardd Ynys Prydain*. I'r cyfryw y perthynai yr hawlfraint i gyhoeddi a chynnal gorseddau; rhoddi derbyniad i Ddysgyblion ac Ofyddion; myned ar genadwriaeth rhwng penaduriaid, neu fyddinoedd gelynl; gweinyddu addysg i iuencid yn egwyddorion moesoldeb a chrefydd, &c. Ond pan oedd y grefydd dderwyddol yn ei bri, nid ystyrir yn briodol i Fardd ddwyn arfau, gan mai *Cenad Heddwch* y'i cyfrifid ef. Yr oedd yn rhwym hefyd i gadw cyfrinach i'r manylrwydd eithaf rhwng y pleidiau y'i gelwid i weinyddu negeseuon o ymddiried rhyngddynt; ac ystyrir yn anghyson â'i nodweddiad ef i gefnogi unrhyw ymblaidd neillduol mewn crefydd na gwlad-ddysg. Pan fyddai Bardd Trwyddedawg yn gweini ei swydd, efe a wisgai ei wisg awyrlas unlliw yn wastadol, wrth yr hon yr adnabyddid yr urdd hon; ac amcenedi y lliw yma ar ei wisg yn arwyddlun o heddwch a gwirionedd.

Cyfrifir bod yr urdd farddawl wedi ei seilio ar yr athrawiaeth o heddwch cyffredinol, ac ewyllys da; gan nad oedd Bardd yn ol gosodiadau y grefydd dderwyddol i ddwyn arf, na bod yn ymbleidiwr, fel y crybwyllwyd uchod, ac nid oedd arf noeth i gael ei ddwyn yn ei wyddfod; canys efe a olygid yn gysegredig fel cenad heddwch, dan yr enw *Bardd Ynys Prydain*;" a'r canlyniad oedd, y gallai un o'r gradd yma, yn ei wisg swyddol, fyned o'r naill ran o'r wlad i ran arall a fyddai yn elynol iddi, heb fod mewn perygl i neb ei lesteirio; i.e., od elai efe allan rhwng dwy fyddin arfog ar ganol brwydr, hwy a ymatalient yn y fan, ac a roddent glust i'w genadwri, fel cenad heddwch; a rhoddiid y blaen i'r hyn a ddywedai ar yr eiddo pawb arall: canys "gair ei air ef ar hawb."

Yr *Ofyddion* oeddynt radd arall yn mysg eu dysgedigion, y rhai oeddynt physisgwyr, sywedyddion, a cherddorion; a'r prif gymhwysderau gofynol i ymgeiswyr am yr urdd hon, ydoedd hyddysgrwydd yn y celfion a'r gwyddion a ystyrir yn fwyaf gwerthfawr. Yr oedd yn ofynol i'r gradd yma hefyd ymgydnabod âg egwyddorion barddoniaeth, a'u bod yn gyfarwydd yn nhraddodiadau y genedl. Yr oedd gwsg yr *Ofyddion* i fod oliw gwyrdd, er bod yn arwyddlun o ddysgeidiaeth a gwirionedd.

Gradd arall ydoedd y *Derwyddon*, y rhai hefyd a elwid weithiau *Derwydd-feirdd* a *Gwyn-feirdd*; a hwy a neillduid o un o'r ddau ddosbarth

arall, i weini yn mhethau mwyaf cysegredig crefydd; ac o ganlyniad, y prif gymhwysderau yr edrychid am danynt mewn un, cyn y'i gelwid i weini swydd Derwydd, oedd crefyddolrwydd buchedd, ac enwogrwydd am ddoethineb. Efe hefyd oedd i fod a'r gofal mwyaf arno am addysgiaeth yr ieuentyd, ac o ganlyniad yr oedd yn ofynol fod pob Derwydd yn Fardd Braint. Gwisg swyddol Derwydd oedd i fod yn glaerwen, lliw y goleuni, neu yr haul; ac felly yn arwyddlun o burdeb a gwirionedd.

Yr *Awenyddion*, neu y dysgyblion, a wisgent wisgoedd amryliw o las, gwyrdd, a gwyn; a chyn y derbynid neb yn aelod rheolaidd i'r dosparth yma, yr oedd yn ofynol ei fod o foesau dichlynaidd; canys yn gyntaf oll, yr oedd yn rhaid ei fod yn *ddyn da*; ac anfynych y dechreuid ei ddysgu mewn unrhyw gyfrinach o bwys, hyd oni byddai y prawfion llymaf wedi eu gwneud ar ei ddeall, ei serchiadau, ei foesau, a'i egwyddorion yn gyffredinol. Sylwid yn fanol ar weithrediad ei nwydau a'i alluoedd, pan fyddai efe yn dysgwyl leiaf am hyny; ac felly, yn ddiarwybod iddo, yr oedd ei galon yn cael ei phrofi, ei egwyddorion yn cael eu pwyso, a galluoedd ei feddwl yn cael eu mesur: ac yn ganlyniol i'r boddlonrwydd a geffid ynddo, trwy y cyfryw brawf ac ymchwil, yr agorid dorau eu dirgeledigaethau iddo.

Dros yspaid ei arosiad yn y cyfryw gyflwr o brawf, gorfyddai ddysgu penillion, doetheiriau diarhebol, a thraddodiadau hanesyddol; a chyfansoddi ereill eu hunain ar unrhyw destyn hanesyddol, athrawiaethol, neu foesol.

Fe'n hysbysir gan yr hen hanesydd Rhufeinaidd *Ammianus Marcellinus*, bod llawer o gyffelybrwydd rhwng y gyfundraith dderwyddol a'r gyfundraith a ddysgai Pythagoras i'w ddysgyblion; ac yn wir y mae amryw awdwyr yn dal allan yn gryf bod Pythagoras ei hunan wedi bod yn mysg y Derwyddon yn Ngâl, yn cael ei hyfforddi yn eu hathroniaeth; ac os felly, gellir casglu ei fod wedi cael rhan fawr o'i wybodaeth a'i ddoethineb oddiwrth ynt hwy.

Dywaid Diodorus Siculus, Strabo, Mela, ac ereill, eu bod yn arfer trafod llawer cangen ddyeithr o wybodaeth yn eu hysgolion, megis yn nghylch ffurf a maint y cyfanfyd yn gyffredinol, a'r ddaier yn neillduol, yn gystal ag amryw o ddirgelion arddunawl anian. Tystir hefyd eu bod yn hyddysg mewn seryddiaeth, serddewiniaeth, rhifyddiaeth, mesuregaeth, a daiaryddiaeth, cystal ag yn y gobeirion. Gellir cael prawf o'r olaf yn yr amryfal weddillion o'u gorchestion a ganfyddir eto mewn amryfal fanau, lle y mae rhai cerig o ddim llai na deugain tunell o bwysau wedi eu cyfleu i ryw berwyl ganddynt drwy rym celyddyd. Yr oeddynt hefyd yn efrydu llawer ar athroniaeth naturiol, llysieuaeth, meddyginiaeth. Mae Cicero yn gystal a Caisar yn rhoi gair uchel iddynt am ehangder, dwfn, a gwerthfawrogrwydd eu gwybodaeth. Y blaenaf a ddywedai ei fod ef yn adnabyddus bersonol âg un o Dderwyddon Gâl, sef *Divitiacus*, gwr o fonedd yn ei wlad, a broffesai ei hyddysgrwydd trwyadl yn neddfan anian. Mae *Strabo* wedi cadw un o'u daliadau anianyddol o barth y cyfanfyd;—sef, nad oedd byth i gael ei ddystrywio neu ei ddifodi; ond ei fod i fyned trwy olyniad o gyfnewidiau a chwyldroadau mawrion, y rhai a gynnyrchid weithiau gan rym gorfodol dwfr, ac weithiau yr eiddo tân. *Pomponius Mela* a ddywaid ei fod wedi cael allan y ban canlynol o athrawiaeth Derwyddon y cyfandir:—

“Rhagori mewn rhyfel,  
Bod yr eneidiau yn anfarwol,  
A bod buchedd arall iddynt.”

Triad athrawiaethol arall o'r eiddynt a grybwyllir gan Diogenes Saertius, yn y geiriau canlynol:—

—“Addoli y duwiau,  
Peidio gwneuthur drwg,  
Ac arferyd gwrolder.”

Un amcan mawr o gysylltu y departh barddonawl mor agos â swyddog-  
aeth y grefydd dderwyddol, debygid, ydoedd er mwyn rhydd ymholiad i  
bob rhyw beth a dueddai i gael allan wirionedd a doethineb, fel y gallwn  
gasglu oddiwrth yr arwyddair hwnw o'r eiddynt—“Coeliaw dim, a choeli-  
aw pob peth:” hyny yw, coeliaw pob peth a geir yn seiliedig ar reswm a  
phrawf, a gwrthod coeliaw dim heb hyny. Yr oedd y Bardd i fod yn eofa  
hefyd yn achos y gwirionedd; canys arwyddair arall o'i eiddo ydoedd—  
“Y gwir yn erbyn y byd.” Heblaw hyny, yr oedd cyhoeddasrwydd  
mawr i fod yn perthyn i weithbrediadau swyddol y Beirdd; canys eu holl  
gyfarfodydd mawrion, a elwid *Gorseddau*, a gynnelid yn yr awyr agored,  
ar le eglur, rhwng cyfodiad a machludid haul, fel yr oeddynt i wneyd pob  
peth “*Yn wyneb Haul, a llygad goleuni.*” Y lle a neulduid trwy ffurfio  
cylch o feini, a chareg fawr yn y canol, garllaw yr hon y safai y Bardd a  
lywyddai; a'r cyfryw gylch a elwid “cylch cyngrhair;” a'r meini o'r  
rhai y'i ffurfid, a elwid “meini cyngrhair,” “meini crair,” neu “meini  
gwynion;” a'r gareg ganol a elwid “maen gorsedd,” “maen hog,” neu  
“crair gorsedd.”

Mae rhai o'r henafiaethwyr sawocaf yn dal bod y Derwyddon yn  
profesu crediniaeth o'r athrawiaeth fawr o fodolaeth un Duw Goruchaf,  
Crëydd a Llywydd y cyfanfyd, yr hwn a lanwai bob lle; o'r hyn y dygant  
amryw o'u doethenïau fel prawfion: ac yn mysg ereill y canlynol:—“Nid  
dim ond Duw, nid Duw ond dim;” yr hyn a gyfethbai yr Athraw W. O.  
Pughe fel y canlyn:—“*God cannot be matter; and what is not matter  
must be God.*” Eu hathrawiaeth mewn perthynas i'r enaid oedd ei fod yn  
rhagfodoli mewn cyflwr o gyanydd graddol, trwy drawsfudiad o'r naill gorpa  
i'r llall, a'i fod yn anfarwol.

Yr oedd ebyth dyhuddiadol hefyd yn gwneyd i fyru ran o grefydd y  
Derwyddon, fel y rhan fwyaf o grefyddau y cynosoedd; ac weithiau  
offryniad aberthau dynol, y rhai gan mwyaf a wnelid i fyru o'r drwg-  
weithredwyr a gymerid yn garcharorion, am eu bod yn barnu bod yn  
angenrheidiol eu rhoddi i farwolaeth er dyhuddo digofaint dwyfol; ac  
ereill, debygid, a'u cyflwynent eu hunain yn wirfoddol i gael eu hoffrymu,  
gan feddwi mai dyna y ffordd rwyddaf, os nid yr unig ffordd, i ymryddhau  
oddiwrth euogrwydd, a chyrrhaedd dedwyddwch.

Onid gan fod y rhan fwyaf o'r hyn a ddywedai Caisar, am grenlonerau  
defodau crefyddol y Derwyddon, yn ffirwyth ei sylwadau ar y cyfryw  
ddefodau fel y'u harferid yn Nhir Gâl, neu Ffrainc, a'i fod yn wirionedd  
profadwy, fel y dengys Carnhuanawc ac ereill, fod Derwyddiaeth Tir Gâl  
wedi ei llygru yn fawr trwy ymgymmysgiad y trigolion â llwyth o Roeg-  
iaid, y rhai a ymsefydlasant tua'r Marseilles er's hir amser cyn Iwi Caisar;  
nid oes genym nemanwr o seiliau teg i wneyd ein casgladau am ddefodau  
crefyddol yr hen Brydainwyr oddiwrth yr eiddynt hwy. Er hyny, rhaid  
addef am Frydain fel gwledydd ereill, yn nhywyllwch paganiaeth, mai  
trigian trawader ydoedd i fesyr helaeth: ac ni wnaeth dyfodiad y Rhufein-  
iaid i'w mysg, tra y cymmerynt arnynt arwydo rhag amryw o'u defodau  
crefyddol, namyn llygru eu pethau mwyaf canmoladwy, heb ddiwreiddio  
o'u plith eu harferion mwyaf anwar ac annynol.

Mae y Ddarlith hon eisoes wedi ei chwyddo yn fwy nag y bwriadwn ar  
RHIF. 2.



y dechreu, am hyny terfynaf yn ebrwydd, gydag ychydig o gaagliadau byrion yn unig.—

1. Gwelwn mor fuan ac mor drplwyr yr ymlygra dynolryw oddiwrth wir wrthddrych addoliad, yn gystal a'r iawn ffurf o'i gyflwyno iddo, oddi-eithr bod rhyw fagwyr uwch na thraddodiadau rhyngddynt a chyfeiliorni. Yr oedd yr hen Omeriaid wedi derbyn gwybodaeth draddodiadol am y gwir Dduw, a'r ffordd briodol i'w wasanaethu, eto buan yr aethant hwy fel ereill i chwilio allan lawer o ddychymygion.

2. Oddiwrth y crybwyllion blaenorol, gallwn yn rhesymol gasglu, er pelled yr oeddynt wedi myned ar ŵyr oddiwrth y gwirionedd, mewn pethau crefyddol, nad oeddynt wedi suddo yn ts na'r cenedloedd ereill o'u deutu i anwareidd-dra ac annynoliaeth; ac nad oeddynt mor amddifad o athrylith gynhwynol a dysgeidiaeth gelfyddydol ag y mynai rhai eu darlunio: y mae yr hyn a ddywedwyd eisoes am ddysgyblaeth y gyfundraith dderwyddol yn profi i'r gwrthwyneb; ac fe dystiai Caisar ei hunan y byddai eu dyagyblion dros ngain mlynedd dan addysg, ac addefai y byddai meibion penaduriaid a phendefigion o wledydd y cyfandir yn cael eu hanfon i dderbyn addysg yn yr ynys hon; yr hyn sydd brawf diwad bod clod y Derwyddon, fel athrawon, yn gyhoeddus trwy wledydd Ewrop.

3. Gwelwn fod egwyddorion y grefydd dderwyddol yn gyfryw ag oeddynt yn dra manteisiol i ledaeiniad Cristionogaeth yn mysg ein henafiaid, yn gymmaint a'u bod yn rhwym i ymfyn am y gwirionedd; ac wedi ei gael allan, i roddi derbynriad diragfarn iddo; yr hyn sydd un rheswm, efallai, am dderbyniad croesawus Cristionogaeth mor foreu yn yr ynys hon, a'i choleddiad yn mysg teuluoedd mwyaf urddasol y genedl ar y dechreu, fel yr amoenir dangos yn y bedwaredd Ddarlith.

Mae y sylwadau canlynol o eiddo Whittaker, awdwr Hanes Mancosinion, mor hynod o gyfaddas i'm pwrpas, fel nas gallaf lai na'u defnyddio yn y fan hon:—"Yn nghanol y crwydriadau hyn o eiddo crefydd gyfeiliornus, oedwid y ddwy brif ordinhad ddwyfol o offeiriad ac aberth, a'r tair cangen bwysig o athrawiaeth—goruwchreolaeth rhaguniaeth, dinystr cyffredinol y byd yn y diwedd, a pharhad yr enaid mewn bodoliaeth ddyfodol—yn dra gofalus gan y Prydeiniaid. A'r tair cangen athrawiaethol uchod oeddynt gyfyngedig i'n cenedl ni yn unig, o'r bron, o'r holl genedloedd paganaidd; ac yr oeddynt yn gymhelliadau cryfion iddynt i ymarweddiad moesol. Ond yn ansawdd lygredig y meddwl dynol nid oedd nerth y cyfryw gymhelliadau ond llesg; ac felly ar yr athrawiaeth o anfarwolder yr enaid, impid y syniad cyfeiliornus o drawsymfudiad; yr offeiriad a halogid ag ebyrth dynol; a'r bobl oeddynt euog o'r ymgymysgiad rhywiau a'r llosgach ffeiddiaf."\*

4. Ni a welwn ein dyled fawr i gydnabod daioni Duw yn ei waith yn gofalu am ein cenedl mor foreu, gan ddefnyddio yr hyn a gyfrifai ein tadau yn aifwydd blin, sef goresgyniad eu gwlad, a'u gorthrechriad hwythau gan y Rhufeiniaid, yn achlysur i ddwyn newyddion gwerthfawr yr efangyl i seinio yn ein brÿydd, a goleuni y gwirionedd i dywynu ar ein hynys; trwy yr hyn y datguddid i'n hynafiaid synedig, a ymbalfalent yn nhywyllwch coelgrefydd, iachawdwr Hollddigonol; un cymhwys i gyfryngu trwy berdeb ei ewyllys, a galluog i wneyd iawn trwy urddas ei natur—yn ddyn i eiriol dros ddynolryw colledig, a Duw i ddyhuddo y Duwdod a ddiogiasid—cyfaill wedi disgyn o orsedd y nef, a Gwaredwr i'n tywys i ddedwyddwch y wlad dda hono.†

\* Whittaker's Manchester, book. I., ch. 11., s. 2., p. 396, quarto edition.

† Ibid, p. 396.

## DARLITH III.

### GORESGYNIAD YNYS PRYDAIN GAN Y RHUFEINIAID.

Cwm dechreu adrodd hanes goresgyniad Ynys Prydain gan y Rhufeiniaid, efallai na byddai yn amhriodol i ni geisio cael allan ryw fras olwg ar gyflwr y brodorion ar y pryd hyny.

Y mae amryw o'r haneswyr Seisnig yn cymmeryd yn ganiataol nad oedd nemawr o drafnidiaeth rhwng y Prydeiniaid a chenedloedd ereill, ac nad oeddynt prin yn adnabyddus ar wledydd y Cyfandir cyn dyfodiad Caisar i'r ynys: ond yr ydwyf yn meddwl nad yw yn anhawdd profi mai cyfeiliornus hollawl yw y cyfryw olygiad. Mae yn ddiau bod yr ynys hon yn dra adnabyddus i amryw o genedloedd y Cyfandir yn mhell cyn hyn; yn enwedig y Galiad a'r Belgwys, y rhai a arferent anfon eu gwyr ieuainc yma, i dderbyn addysg yn athrofâu y Derwyddon, y rhai oeddynt yn glodfawr iawn am eu doethineb a'u dysgeidiaeth. Addefai Caisar ei human gymmaint a hynyna; ac y mae gwaith Caswallon yn arwain byddin o dringain mil ac un o arfogion, i gynnorthwyo y Galiad yn eu rhyfeloedd a'r Rhufeiniaid, yn brawf o fod cydnabyddiaeth a chyfathrach rhwng preswylwyr yr ynys oedd hyn a'r cenedloedd agosaf iddynt ar y Cyfandir.\*

Heblaw hyny, y mae Carte,† Sammes,‡ ac yn enwedig Whittaker,§ ar seiliau da, yn profi bod yr hen genhedloedd masnachol enwog, y Pheniciaid a'r Carthaginiad, yn masnachu a'r ynys hon, lawer o oesoedd cyn i'r Rhufeiniaid gyrrhaedd y rhanau gorllewinol hyn o Ewrop, na gwybod fod y fath le ag Ynys Brydain mewn bod—Fel hyn y dywaid Whittaker ar hyn:—Dechreuad trafnidiaeth y Prydeiniaid a achlysurid drwy gyrrchad y Pheniciaid i'w glenydd. Yr anturiaethwyr eofn hyny mewn mordwyaeth a thrafnidiaeth, a sefydlaasant drefedigaethau yn Carthage, a Cadiz, ac ar hyd glenydd cefnfor mawr anhygyrch y Gorllewin, hyd at beurhynau de-orllewinol Prydain. Hynodrwydd arbenig, a phwysigrwydd masnachol y fordaith, a barai glod mawr i'r swyddog a'i harolygai; ac a achlysurai i enw Midacritus|| gael ei gadw mewn cof anrhydeddus trwy yr oesau dyllynol. Efe a ddygai y llestr Pheniciaidd gyntaf i'r glenydd hyn, ac a agorai drafnidiaeth gyntaf rhwng y Pheniciaid a'n tadau. Efe a gafodd allan fod y wlad yn cynnwys helaethrwydd o alcan, yn enwedig Penrhyn Cernyw a'i ynys oedd. Yr oedd y Pheniciaid wedi deall yn foreu fod y delid yma yn dra defnyddiol i amryw berwylion; ond yn brin iawn; am hyny efe a bwrcasai ryw gymmaint o hono gan y Prydeiniaid, ac a ddychwelai adref a llwyth gwerthfawr o hono.¶ Yn y canlyniad i ddychwelid Midacritus at ei bobl gyda'i longlwyth gwerthfawr, yn nghyd a'r adroddiad a roddes efe am y delid i'w gydwladwyr, ymroddodd y Pheniciaid i anfon eu llongau yn rheolaidd i ororau Cernyw, neu yn hy-

\* Rev. Elieser Williams's Works, p. 269, 270

† Carte's Gen. Hist. of England, vol. i., pp. 28.

‡ Aylett Sammes's Britania Antiqua Illustrata, pp. 40—98.

§ Whittakers

Hist. of Manchester, b. 1., chap. 11.

|| Pwy a allai y "*Midacritus*" yma fod? Enw Groegoldd ydyw; ond nid all mai Groegwr oedd y cyntaf a ddog alcan oddiyma; am hyny y barnaf *Bocharius* mai *Micacritus* y dylasai fod, yr hwn oedd un o enwau adnabyddus *Hercules*.

¶ Pliny, lib. vii., c. 86.

trach, yr ynysocedd gerllaw pen tir Cernyw, y rhai a elwid y Scilly, neu Ynysocedd y *Tin*. Yr oedd hyn cyn amser *Herodotus*, o leiaf bum can' mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol: a chan fod y fasnach yma yn dwyn elw mawr i'r Pheniciaid, hwy a gadwent eu llwybr mor guddiedig ag y gallent rhag y cyffredin; ac ar yr un cyfrif yr oedd yr holl alluocedd masnachol a gyfaneddent ar lenydd Môr y Canoldir, yn ddyfal yn eu hymdrechion i gael allan ffynhonell eu helw. Y Groegiaid o Marseilles oeddnt y cyntaf efallai i ddilyn hynt y mordwywyr Phenicaidd, ac o ddeutu dau gant a haner o flyneddoedd cyn y cyfnod Cristionogol, hwy a ddechreuasant gyfranogi â'r Pheniciaid yn y drafnidiaeth enillgar mewn alcan.\* Y nwyddau a dderbynai y Prydeiniaid yn gyfnewid am eu halcan, oedd llestri pridd, halen, a nwyddau pres.

Tua'r pryd hyn, yr hyn oedd yn mhell cyn i'r Rhufeiniaid ddyfod yma, yr ydys yn cael lle i gasglu fod trafndiaeth yr ynys yn dra ehang: canys yr oedd dwy brif ffordd wedi eu gwneyd ar draws yr ynys; y naill o Sandwich i Gaerynarfon ar un ochr, yr hon a elwid "Sarn Gwythelin," neu *Watling Street*, am ei bod yn fanteisiol i'r drefedigaeth Wyddelig, a ymsefydlaai yn y Werddon, i ddwyn eu hanifeiliaid ar hyd-ddi, i gyfarfod masnachwyr y Cyfandir, y rhai a fynychent swydd Caint; a'r llall o swydd Dorset i Suffolk, ar yr ochr arall, yr hon a elwid "Sarn yr Uch-Cyniaid," neu *the Icening Street*, am ei bod yn wasanaethgar i drafnidiaeth rhwng y llwyth a elwid yr Uch-cyniaid ág Ynys Gwyth, lle yr oedd eisteddle marchnaduddiaeth yr holl ynysocedd hyn unwaith.

Erbyn hyn yr oedd y masnachwyr tramor yn cludo o'r ynys hon, nid yn unig yr alcan, ond aur, arian, haiarn, a phlwm; crwyn ac anifeiliaid, yd a chaethion;† cŵn, gamau, oregyn, a pherlau: o leiaf, dyna dystiolaeth Whittaker ar y matter, ac y mae yn ei chadarnhau drwy dystiolaethau llusaws o awduron Groegaidd, Lladinaidd, a Seisnig.‡ Dywaid *Strabo* am danynt, gan ddarlunio y rhai a breswylent ranau gorllewinol yr ynys yn neillduol, eu bod yn ddyfnion corphol, eu gwallt yn ddu ac yn grychlyd, eu lliw yn lled dywyll, ac yn arfer gwisgo math o wisg rydd, laes, hyd haner eu coesau; a chan bob un ffon lawr yn ei law, yn nghanol yr hon y cydiai wrth gerdded; ond er fod yr olwg arnynt yn lled gethin fel hyn, efe a ddywaid eu bod o dueddfryd addfwyn a charedig, ac yn hynod o deg a gonest yn eu hymddygiadau. A *Diodorus Siculus* a ddywaid am danynt nad oeddnt yn ddichellgar a thwyllodrus, fel rhai oenedhoedd eraill; ond yn bobl ddsysml, cywir a theg eu trafodaeth.

Tua chan' mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol, y genid un *Julius Cæsar* *Cæsar*, a elwir yn yr hen ysgrifau Cymreig yn gyffredin "Iwl Caisar;" yr hwn oedd yn hanu o hen deulu anrhydeddus yn Rhufeain; ac yn ei ieuencydyd efe a gafodd bob manteision dysgeidiaeth a ellid yn yr oes hono, er ei gymhwysio i lenwi y swyddau uchelaf yn y wladwriaeth. Yr oedd efe yn un o'r tywysogion milwraidd enwocaf; ond ei falchder a'i uchelfrydigrwydd, oedd yn ddiahebol, yr hyn o'r diwedd a barodd i Brutus, a chydradwyr eraill, ei ladd yn y Senedd, yn yr unfed flwydd ar bymtheg a deugain o'i oedran.

Tra yr oedd efe yn llywodraethu fel rhaglwr ar y taleithiau Rhufeinig a

\* *Carte's Gen. Hist. of England*, vol 1., p. 38.

† Parheid i ddwyn caethion o'r ynys hon fel nwyddau masnachol, nid yn unig tra fu Paganiaeth yn arglwyddiaethu yma, ond wedi dygiad Cristionogaeth i fsg y brodorion.

‡ Whittaker's *Hist. of Manchester*, book 1., ch. 11.

furfasiad oddeutu yr Alpau, ac yn ymdrechgar i ddarostwng y gweddill o'r llwythau Almaenaidd a Galaidd o dan iau Rhufain, efe a ddaeth i wybodaeth am Ynys Prydain, a chan fod yn awyddus i ychwanegu at ei enwogrwydd fel cadlywydd anturiaethus, efe a ddisgwyliai yn ddyfal am ryw esgus teg dros arwain ei lengau drosodd i oresgyn yr ynys hon; yr hyn a gafodd efe yn fuan trwy waith y Cymry yn anfon cynnorthwyon drosodd i'w caredigion yn Llydaw, i'w wrthladd, o'r hyn y gwnaed crybwylliad yn y Ddarlith gyntaf, t.d. 8.

Dechreuai Caisar wneyd pob ymholion ar a allai â'r masnachwyr a arferent drafnidio rhwng gwledydd y Cyfandir a phorthladdoedd Prydain, yn nghylch sefyllfa yr ynys a'i thrigolion, &c.: ond nid ymddengys ddarfod i'r rhai hynny gymmeryd arnynt wrtho eu bod yn gwybod nemawr am y wlad na'r trigolion, eu defodau na'u hanianawd; felly efe a anfonodd long i chwilio ar hyd gorau Prydain am y man hwylusaf i dirio; ac ar yr un pryd a barotodd yn mhorthladdoedd Gâl, llynges gref er cludo ei lengau milwraidd drosodd. Yn y cyfamer, masnachwyr y Cyfandir a anfonent hysbysiad o'i fwriadau i'r Prydeiniaid, y rhai gan arswydo y galanastra a wnelai rhyfel yn eu gwlad, a anfonasant genhadau ato, i ddeisyf amodau heddwch ganddo, a dadgan eu parodrwydd i ymostwng yn dangnefeddus i lywodraeth Rhufain. Efe a roddes dderbyniad tra hynaws i'r cenhadon hyn, ac wedi rhoddi iddynt addewidion teg, a'u cyngtori i barhau yn yr un meddwl, efe a'u gollyngodd adref, a chyda hwynt un o'r enw *Comius*, gŵr adnabyddus yn Mrydain, medd rhai, i'r hwn y gorchymynasai Caisar, ar ymweled o hono a chynnifer o'r taleithiau ag a allai, gan eu hanog i ymgynghreirio â'r Rhufeiniaid, a bod yn barod i roesawu Caisar, yr hwn a diriai yn eu gwlad ar fyrder, a'i gynnorthwyo i ddarostwng yr holl ynys dano ef.\*

Nid oedd y newyddion hyn mewn un modd yn foddhaol gan y Cymry, y rhai a obeithient eu bod wedi gwneyd digon er atal y maeslywydd Rhufeinig i feddwl am lano ar eu tir; a dywed rhai ddarfod iddynt gadwyno Comius, a'i gadw yn garcharor, er dangos, efallai, nad oeddynt hwy yn arswydo rhag y Rhufeiniaid, yn gymmaint ag y gallasai Caisar gasglu oddiwrth eu cenadwriaeth atto.

Ond Volusenus, y swyddog a anfonasai Caisar mewn llong i wneyd arsylwadau ar lenydd Prydain, a ddychwelodd yn ol yn mhen yohydig ddyddiau, ac a roddes yr adroddiad goreu a allai i Caisar, yr hwn a bryurui i hwylio drosodd cyn i'r gauaf ei oddiweddyd: ac felly efe a hwyliodd mewn pedwar ugain o longau o borthladd ar oror tir Gâl, a elwid *Wissan*, rhwng *Calais a Boulogne*, wyth mildir o Calais, yr hon a alwai y Rhufeiniaid yn *Portus Itius*, gan adael gorchymyn i ddeunaw o longau ereill oedd ganddo yn mhorthladd Calais, i droi allan gyda'i feirchfilwyr, fel y gallai y ddwy ran o'i llynges gyfarfod, ac felly gydlanio ar yr ynys y wnedid ei goresgyn. Y cyfan o'i fyddin ar yr anturiaeth hon a gyfriir tua deuddeng mil o wŷr cynnesin a rhyfel, a medrus ar drin arfau.† Ereill a farnant fod dwy leng yn cynnwys o Rufeiniaid a'u cynghreirwyr bum' mil ar hugain o wŷr traed, a phedair mil o phum' cant o wŷr meirch.‡

Ar ol gwneyd pob peth yn barod, hwyliai Caisar a'i llynges, fel y crybwyllwyd, o borthladd *Wissan*, tuag un o'r gloch yn y boreu, ar y 26ain o Awst, c.o. 55 mlynedd, ac a gyrhaeddodd oror Prydain, yn agos i'r lle a elwir *Dever*, tua deg o'r gloch y boreu, heb ddysgwyl yn amgerach, mae

\* Owen's Hist. of the Ancient Britons, b. II., pp. 2, 3.

† Hanes Cymru, t.d. 57.

‡ Aylett Sammes's *Britania Antiqua Illustrata*, p. 157.

yn debyg, nag y gallasai ddywedyd yn briodol am Frydain fel y dywedasai am wledydd ereill—"Deuais, gwelais, gorchfygais;" ond yr oedd yr ynys hon y pryd hyny, fel y dywedai Napoleon am danj yn ddiweddarach, yn cynnwys "*caletach cawn*" nag a dybiasai y Rhufeiniaid; felly, erbyn eu dyfod yn agos i'r lan, hwy a welent y llechwedduau yn orchuddiedig gan fyddinoedd o arfogion, penderfynol i rod-di derbyniad mwy twym i lengau y goresgynwr nag a fynasai efe. Felly, efe a angorodd ei llestri encyd oddiwrth y lan, hyd dri o'r gloch brydnawn, fel y gallai y llestri a gludent ei feirchfilwyr ddyfod i fynu; ac yna efe a hwyliodd tuag wyth milldir oddiyno, i fan lle yr oedd y traeth yn wastad a'r lan yn agored, gerllaw i'r man a elwir yn bresenol *Deal*, yn swydd Caint; lle ni byddai crystal mantais i'r ynyswyr wrthsefyll glaniad ei filwyr: ac yno y bu yr hen Frython yn tynu y dorch gyntaf âg arglwyddi y byd; ac yn ol addeffiad Caisar ei hunan, un o'r brwydrau caletaf a brofodd y dewrion Rhufeinaidd erioed a fu hono; canys yr ynyswyr, wrth weled cyfeiriad ei lygea, a anfonasant eu meirch a'u cerbydau, neu *car rhodau*, fel y'u galwent, o'r blaen, a'r troedwyr a'u canlynet, a chyda dewrder dihafal gyrent i'r môr, ac ymosodent arnynt yn eu llongau, gan eu lladd yn ddiarbed can gynted ag y cynnygient ddisgyn o honynt i lanio.

O'r diwedd, Caisar yn gweled bod y Rhufeiniaid ar fin rhoddi ffordd i'r gelynon dewrion a ymosodent arnynt mor bybyr, a archodd ryddau ei rwyflongau ysgeifn a hirion oddiwrth y llestri trymion, a chan gyfiebu peiriannau tafl a saethyddion ynddynt, a'u gweithio â nerth mawr gan luaws o rwyflwyr ar draws y milwyr Brythonaidd, fe'u taflwyd i radd o ddyrswch, ac yn y cyfnod hwnw, llumanwr y ddegfed leng, wedi galw yn gyntaf ar ei dduwiau am lwyddiant ar ei anturiaeth, a lefai â llef uchel—"Gydfilwyr, gadewch eich lluman os mynwech, a bradychwech ef i'r gelyn; o'm rhan i, myfi a gwblhaf fy nyledswydd i'r wladwriaeth ac i'm mae-lywydd;" ac ar hyny efe a neidiodd i'r môr, a'r eryr yn ei law, gan wynebu y gelynon; yna y milwyr yn unfryd, pan welasant hyn, a ddilynasant eu blaenor gwrol; ac wedi i'r corph yna gychwyn, minteioedd o'r llestri ereill a ddilynasant eu hesiampl, gan ruthro ar y gelyn. Ar hyn dechreuai ymladd llymdaer o bobtu dros hir amser; ond y fyddin Rufeinaidd a laniodd o'r diwedd, eto nid heb gael ei cholledu yn ddirfawr: a'r Prydeiniaid a encilliasant yn rheolaidd, nid fel rhai wedi eu gorchfygu, i gael galw cynghor yn nghyd, er ystyried pa beth a fyddai yn oreu iddynt ei wneyd rhagllaw.

Nid yw yn annhebyg bod gradd o ymraniadau yn mysg y Prydeiniaid, a bod plaid o rai ffafriol i'r Rhufeiniaid ar gynnydd yn eu mysg; yr hyn, efallai, a barai iddynt benderfynu i anfon cenhadon at Caisar i'r gwersyll, i ddeisyf amodau heddwch, gan addaw rhoddi y gwystlon a ofynai iddo; a chyda'r cenhadon hyn yr anfonent *Comius* o *Arras*, yr hwn, fel y crybwyllwyd, a anfonasai Caisar o'i flaen i Frydain, ond a garcharesid gan y trigolion fel yspiwr: a'r hwn yn awr, er mwyn enill ewyllys da Caisar, y maent yn ei ddychwelyd yn ei ol, gan ddywedyd eu bod hwy wedi ei garcharu: ef mewn ufudd-dod i lais y lluaws, ac atolygu, os gwnaesthant yn annoeth yn hyny, ar fod yn wiw ganddo faddeu eu cyfeiliornad. Yntau oedd yn llawer mwy ewyllysgar i'w hesgusodi a maddeu iddynt, nag auturio i frwydro â hwy eilwaith dan ei anfanteision presenol; am hyny, wedi beio arnynt am rod-di yr achlysur cyntaf o ryfel trwy garcharu ei genhadwr, a hwythau cyn hyny wedi anfon cenhadon heddwch ato i'r Cytandir, efe a addawai ymheddychu â hwy, ond doddi o honyt wdstlon priodol iddo. Deuai rhai o'r gwystlon a ofynai efe i'r gwersyll yn ddioed, tra yr anfonid yn mhellach i'r wlad am y lleill, y rhai yr addewid eu cael

yn barod yn mhen ychydig ddyddiau: ac fel hyn ystyrid yr heddwch wedi ei benderfynu, a'r tywysogion Prydeinaidd a ollyngent eu milwyr i ddychwelyd bawb i'w man, ac a ddychwelent eu hunain, amryw o hon-nynt, i wneyd eu hymostyngiad yn bersonol i Caesar, yn ei wersyll; yr hwn tebygir, ydoedd tus'r lle a elwir *Barham Down*. Ond tra yr oedd pethau yn y sefyllfa yma, cyfododd vstorm fawr, yr hon a barodd lawer o niwaid i'r llongau Rhufeinig, gan ddryllio amryw o honnynt, yn enwedig o'r deunaw hyn a gludent y gwŷr meirch drwodd, y rhai ni laniasent eto, er eu bod yn ngolwg y gwersyll er ys meityn; ond rhai o honnynt a gurwyd yn ol i'r Cyfandir, a'r lleill a wnaed yn ddrylliau ar lenydd creigiog yr yny. Pan welodd y Prydeiniaid gyfyngdar Caesar, a bod y Goruchaf ei hun megys yn ymladd yn ei erbyn, yna y rhai o honnynt a ddaethant i'r gwersyll Rhufeinaidd fel gwystlon, neu o ran chwilfrydedd, a ddechreuent encilio oddiyno yn lladradaidd bob yn un ac un, gan gymmeryd eu gwragedd a'u plant, a'u hanifeiliaid, yn uwch i'r berfeddwlad, ac anog y naill y llall i wneyd un ymdrech eto at enill rhyddid eu gwlad, gan fod yn ddiamaheul os gallent atal dychweliad y Rhufeiniaid, a'u distrywio, na feiddiai neb drachefn gynnyg goresgyn eu gwlad.

Caesar yntau, wrth waled fod y gwystlon wedi encilio yn lladradaidd o'r gwersyll, a welai fod drwg yn cael ei ddarpar iddo, felly efe a brysurodd i gynnwll yn nghyd gymmiant a allai o arlwy o ŷd, ac adgyweirio ei lynges oreu y gallai, fel y gallai gludo ei fyddin yn ol i'r Cyfandir. Tra yr oeddid ar y gwaith yma, a nifer o filwyr y seithfed leng wedi myned i gynniwair ar hyd y wlad am ŷd, mynegwyd i Caesar fod ychwaneg o lwch nag arferol yn cyfodi o'r cyfeiryd tuag at yr hwn yr aethai y lleng: am hyny, Caesar a gymmerth ddoesparth o filwyr, ac a gyflymodd tus'r lle, ac yno efe a welai y Rhufeiniaid mewn cyfyngder mawr gan ymosodiad eu gelynyon, wedi eu crynhoi yn nghyd yn dorf, ac arfau yn cael eu hergydio atynt o bob tu. "Oblegyd," medd Caesar, "gan fod y cwbl o'r ŷd wedi ei fedi yn y manau ereill, ac un rhan yn unig wedi ei adael, y gelynyon yn rhag-dybieid y byddai i'n gwŷr ni ddyfod yno, a ymguddiasent eu y coed. Yna, pan oeddynt wedi eu gwasgaru oddiwrth eu gilydd, ac wedi doddi eu harfau i lawr, ac wrth eu gorchwyl o fedi, yn ddisymwth y cyfododd y gelynyon, ac a laddasant rai, ac a derfysgasant y lleill, gan eu hamgylchynu ar unwaith a gwŷr meirch ac a cherbydau." Yna y mae efe yn myned rhagddo i ddarunio dull y Brythoniaid o ymladd ar yr achlysur yma a'r cyffelyb:—"Dyma eu dull o ymladd o'u cerbydau: yn gyntaf, gyrant ar hyd pob tu, ac ergydiant eu harfau, a thrwy ddychryn o'r meirch a chrochdrwat yr olwynion yn unig, ydynt yn fynych yn llwyddo i derfysgu y cadresau. Ar ol ymwithio i blith tyrfaoedd y marchwyr, neidiant allan o'r cerbydau, ac ymladdant ar eu traed; gyrrwyr y cerbydau yn y cyfamsar a giliant ychydig o'r frwydr, ac a ymsefydiant eu hunain yn y fath fodd ag y gall eu cyfeillion, os y'u trechir gan eu gelynyon, gael eu derbyn yn ol yn ddioed. Felly, meddiannant mewn brwydr, fudiadrwydd marchogion yn nghyda safedigrwydd gwŷr traed; a thrwy gynnefndra a thrafod-iaeth feunyddiol, y maent mor fedrus ag yr arferant, mewn lle goleddol a serth, atal y meirch gyredig, eu rheoli, a'u troi mewn byr amser; hefyd, rhedeg ar hyd y trostan, a sefyll ar yr iau, ac oddiyno ddychwelyd i'r cerbyd gyda'r cyflymder mwyaf."

Ar ymddangosiad Caesar a'i wŷr yn gynnorthwy i'r seithfed leng, y Prydeiniaid a enciliasent, gan gyfrif eu bod wedi gwneyd digon am y dydd hwnw; a Caesar yntau a farnai mai doethach oedd iddo ef ddychwelyd i'r gwersyll, tra yr oedd ei wŷr mor frawychus, na chynnyg ymddial ar y gelyn, ac felly y gwnaeth.

Ar ol hyn bu amryw o ddyddiau tra thymhestlog, yr hyn a barai i'r Rhufeiniaid ymgadw o fewn eu hamddiffynfeydd, ac yn y cyfamer ni chynnngiodd y Prydeiniaid ymosod arnynt; ond defnyddient yr adeg i anfon cenhadon i bob cwr o'r ynys, gyda'r hysbysiad o'r fath leihad a wnleaid ar fyddin y gelyn, a'r seiliau da oedd iddynt ddysgwyl am yspail werthfawr, ac am allu llwyr waredu eu gwlad dros byth oddiwrth y cyfryw oregynwyr blin, os byddai iddynt guro y Rhufeiniaid o'u gwerayll, a'u llwyr ddistrywio, gan wneyd siampl ofnadwy o honynt i holl genedloedd y byd; yn y canlyniad, ymgynullodd nifer mawr o wŷr traed a gwŷr meirch yn nghyd, i ymosod ar y gwerayll Rhufeinaidd; a'r Rhufeiniaid gan eu hymgyfarfod mewn brwydr, a'u gorthrechasant, ac wedi eu hymlid mor belled ag y gallent, a lladd amryw, a thanio eu tai, a ddychwelasant i'r gwerayll. Gwedi y dygwyddiad hwn, y Brytaniaid a anfonasant genhadau eto at Caisar; ac yntau, gan farnu na buasai yn ddoeth idde aros yn yr ynys hyd y gauaf, a archodd iddynt roddi gwyatlon iddo, ac yn yr ychydig longau a adawsaid iddo gan y tymhestloedd, efe a ddychwelodd i'r Cyfandir, tua'r 20fed o Fedi, wedi bod yn yr ynys tua thair wythnos eithr heb fyned nemawr oddiwrth lan y môr.

Dywaid yr haneswyr Prydeinaidd mai Caswallawn ydoedd yn teyrnasu yn yr ynys hon, fel rhaglaw dros ei neiaint Afarwy, Tenefan, a Chasnach Wledig, meibion ei frawd Lludd: ac yn y nawfed flwyddyn o'i deyrnasiad ef, y dywedir ddarvoud i Iwl Caisar wneyd yr ymgais cyntaf i oregyn ynys Prydain. Dywedir ddarvoud i Caswallon ladd ei frawd Lludd, yn ei drachwant i arbenigter yr ynys, a rhoddi i'w feibion fân dywysogaethau, tra y gweithredai efe ei hunan fel penteyrn; a'i draha parhaus tuag at Afarwy, etifedd cyfawn y goron, a barodd i hwnw o'r diwedd ffoi at Caisar i'r Cyfandir am nodded, ac am ymddial ar y gormesdeyrn; am yr hyn y crybwyllir yn yr adroddiad o ail gadgyrchiad Caisar. Er hyny rhaid i mi addef fod Caswallon wedi amddiffyn ei deyrnas gyda gwroldeb canmoladwy yn erbyn yr estroniaid; ac oni buasai bod ei ymddygiadau blaenorol wedi peri cryn ymranïadau yn yr ynys, ac achlyauro i blaidd ymfurfio o olygiadau cyffelyb i Afarwy, y rhai a fuasant yn chwennyoh yn hytrach fod dan nawdd y Rhufeiniaid, buasai gorthrechgu Caswallawn yn ormod gorchest i Caisar.

Pan gyflwynai *Comius* o *Artas* gennadwri Caisar i Caswallawn, yn yr hon y gofynai am warogaeth ac ymddarostyngiad i'r amberodraeth Rufeinig, yn nghyda rhyw gymmaint o doyrnged, Caswallawn a atebai fel y canlyn:—"Y mae uchelgais y Rhufeiniaid yn anniwalladwy, gan nas goddefant i Frydain (yr hon sydd fath o *fyd newydd*, wedi ei chyfleu gan natur yn y cefnfor, a thu hwnt i ffiniau eu hamerodraeth) i orwedd yn llonydd. Y mae teyrnged yn nod o wasiaeth; ond y mae uchel fonedd y Prydeiniaid, a'u cyfathrach mewn gwaed a'r Rhufeiniaid, yn peri ffeiddio ymddarostyngiad iddynt. Os derbyniwch ein *cyfeillgarwch*, yr ydym yn barod i'w roddi; ond os y mynech ein hamddifadu o'n rhyddid, gwybyddwch hyn, ped ymdrechai y duwiau eu hunain wneuthur hyny, nis gallm lai na'u gwrthsefyll."

Ond *Comius* ni fynai yr ateb yma i'w ddwyn at Caisar, ac am ei drahauder efe a gymmerwyd yn garcharor trwy orohymyn Caswallawn; yr hwn a ymbarotodd i wrthsefyll Caisar yn wrol, yr hyn a wnaeth hefyd, fel y clywsocch eisoes; canys er fod yr haneswyr Prydeinaidd yn gwahanïaethu ychydig yn eu hadroddiad am yr ymgyrch oddiwrth yr haneswyr Rhufeinaidd, y mae y naill a'r lleill yn addef mai colledwr, yn hytrach nag ennillwr, a fu Caisar yn mhob ystyr ar ei gadgyrchiad cyntaf hwn.

Ond ni chydwedda i balchder y Rhufeiniaid, gymmeryd eu baeddu

gan drigolion rhyw ynysig fel hyn, y rhai a gyfrifid ganddynt hwy yn farbariaid; a'r rhai yn wir nid oeddynt ond anhyddyng yn y celfion milwr-aidd mewn cydmariaeth i'r Rhufeiniaid; gan hyny Caesar a barodd wneyd parotoadau dirfawr yn ystod y gauaf, at wneyd ail gais i oreagn Wynedain yn yr haf dyfodol. Felly yn y mis Mai c.c. 54, efe a hwyliodd drachefu tua Phrydain, gyda phum' lleng o wŷr traed, a dwy fil o wŷr meirch, heb law lluaaws mawr o gynghreirwyr, mewn o wyth cant i fil o longau; ac efe a laniodd ei llynges fawr tua'r un fan ag o'r blaen, sef yn *Deal*; a'r Cymry y tro hwn, wedi eu brawychu yn yr olwg ar y fath llynges gref, yn gorchuddio wyneb y môr, a enciliaasant i'r berfeddwlad, heb farnu yn ddoeth cynnyg gwrthsefyll eu glaniaid.

Bernir bod nifer byddin Caesar y tro yma, rhwng milwyr Rhufeinig a milwyr cynghreiriol, yn ddeugain mil o wŷr traed, a phedair mil a haner o farcagon; ac wedi glanio, efe a sefydlodd ei wersyll yn agos i'r lle a elwir Richborough; a chan adael y llynges dan ofal Atrius, yr hwn a gyfodai y lluman cooh, ac a gyfesai bedair mil o wŷr traed, a thri chant o wŷr meirch, i amddiffyn y llynges a'r gwersyll, Caesar a arweiniodd ei fyddin i fynu i'r wlad, i chwilio am y gelyn, ac wedi teithio tua deuddeng milldir, daeth o hyd i'w gwersyll mewn coedwig, lle yr oedd ganddynt amddiffynfa gref, ar lan yr afon Stour fel y tybir, yn swydd Caint; ac yno y bu brwydr galed rhwng y lloedd; ond wedi hir ymladd, milwyr y seithfed leng wedi ymfurfio megis un oorph, a'u tarianau fel to yn eu gorchuddio, a ennillasant yr afon heb gollu nemawr o waed, ac yna llwyddodd y Rhufeiniaid i ddystrywio Coedgaer y Cymry, fel y bu raid i'r hen frodorion dewrion encilio o flaen undeb, dysgyblaeth, ac arfogaeth ragorach y Rhufeiniaid. Ond ni feiddiai Caesar eu harlyn, gan ei fod hyd yma yn ddeythr i'r wlad, a bod ei wŷr yn flinedig, a lled ddigalon wedi yr ymdrech galed y daethent drwyddi eisoes; am hyny efe a farnodd yn ddoethach iddo dreulio gweddill y diwrnod i amddiffyn gwersyll arall i'w fyddin, ac i roddi gorphwysdra ac ymgeledd i'w filwyr lluddedig. Ychydig a feddyhodd Caesar, nad oedd holl rym byddin y Cymry yn ymladd ag ef y diwrnod hwnaw; ond erbyn tranoeth gwelid nad oedd y gwrthasafad a wnelid iddo yno yn ddim amgen na dichell o'u heiddo, i gadw ei sylw yn ddigon llwyr, tra fyddai mintai ddetholedig o honynt yn ymosod ar y llynges a'r gwersyll dan warchodaeth Atrius. Boreu dranoeth, pan oedd Caesar yn dechreu cyohwyn ei lengau i ymlid ar ol y brodorion, dygid y newydd iddo oddiwrth Atrius o ddystrywiad y llynges, yr hyn a briodola yr haneswyr Rhufeinig i'r tymhestloedd: ond pan gafodd Caesar y newydd crybwylledig, efe a aroddd i'w holl filwyr ddychwelyd at y llongau ar frya; yr hyn ni buasai yn angenrheidiol, pe na buasai ond eisiau gwneyd a ellid i achub gweddill y llynges, rhag ei ddystrywio gan y dymhesti, gan fod Atrius yn meddu tua phedair mil a haner o wŷr dan ei ofal i'r perwyl hyny, a'r rhai hyny yn cynnwys yn eu mysg yr holl rai cyfarwydd ar drin llongau, &c.

Dywedir fod deugain o'i longau wedi eu llwyr ddinystrio ar yr achlysur yma, ac ereill wedi eu niweidio yn dirfawr; ond yn y cyfryw gyflwr ag y gellid eu hadgywefrio; at y gorchwyl hwn gan hyny y trodd Caesar yr holl ddwyllaw gallung ar saerniaeth, ac anfonodd genadwri i'r Cyfandir at ei raglaw Labienus, i erchi iddo yntau ymroi i adeiladu cynnifer o longau ar a allai, gyda phob brys, a'u hanfon drosodd at ei wasanaeth ef. Ac er anhawes oedd y gorchwyl, rhoddodd ei lengau ar waith i lusgo yr holl longau a adawsid iddo, a'u cyfleu o fewn y ffoesydd, yn y gwersyll. Felly treuliodd ddeg neu ddeuddeg diwrnod yn y gorchwylion hyn, gan gadw ei filwyr ar waith ddydd a nos yn ddidor, hyd oni chafodd ei holl llynges i ddiogelwch,



a'i wersyll wedi ei gadarnhau yn y modd diogelaf.\* Yna, wedi gadael yr unrhwyf warchawdlu yno ag a adawsal o'r blaen, efe a ddychwelodd gyda'i fyddin i erlyn y Prydeiniaid; ac yn agos i'r fan lle y'u cyfarfuasai o'r blaen, efe a'u cafodd eilwaith, wedi ail ymgynnull yn llawer lluosocach na chynnt. Yr oedd y Prydeiniaid, mewn cynghorfa gyffredinol o daleithiau y parth deheuol o'r ynys, wedi ethol *Caswallon*, neu, fel y'i gelwir gan rai haneswyr, *Cassfelyn* (am ei fod yn gwisgo helm o brès, meddir) yn bennlyddiwr i'w byddinoedd. Yr oedd ei diriogaethau ef yn cael eu ffinio ar y deheuol gan yr afon Tafwys, yr hon a'u gwahanai oddiwrth daleithiau Caint a Surrey: yr oedd y gŵr hwn yn rhyfelwr dewr a medrus, fel y cafodd Caisar a'i wŷr brofi lawer gwaith. Tra yr oedd y fyddin Rufeinaidd yn myned i fynu i'r wlad gyda glenydd y Tafwys, Caswallon a ruthrai yn awr ac eilwaith, a'i farchogion ac a'i gerbydau, ar eu marchogion, gan wneyd cymmaint o anrhaith arnynt ag a allai trwy y cyfryw ruthr; yna enciliai yn ol i'w lochesau yn y coedwigoedd a'r brynau, ac yna pan fyddai y Rhufeiniaid yn eu herlyniad o honynt wedi tori eu rhengau rheolaidd, dychwelent yn ddisymwth arnynt weithiau, gan ladd amryw o honynt, a chymmyrd nifer fawr o garcharorion; a throos yspaid cedwid y Rhufeiniaid mewn braw mor ddiaball gan gynllwynion Caswallon iddynt: ond o'r diwedd, cawsant beth seibiant, a chan gasglu fod y brodorion wedi rhoi i fynu eu gwyllo a'u blino, dechreuasant ffurfio eu gwerysll; ond pan oeddynt ar ganol y gwaith, ac yn eu tybied eu human yn fwyaf diogel, disgynai y Prydeiniaid fel lleifiriant dinystriol ar eu traws, gan wneyd anrhaith fawr arnynt, a llenwi calonau y glewaf o'r hen filwyr Rhufeinaidd â braw a synedigaeath, gan eofndra a sydynwydd eu rhuthriadau; ac yn y rhuthr hwnw laddwyd *Quintus Laberius Durus*, yr hwn oedd swyddog melfraidd urddasol.

Gyda golwg ar hyn, y mae Caisar yn gwneyd y cydnabyddiaeth a ganlyn:—"Yn y cyfan o'r dull hwn o ymladd," medd Caisar, "yr hyn a ddygwyddodd o flaen ein llygaid, a cherbron y gwerysll, deallwyd am ein gwŷr ni, eu bod o herwydd pwysau eu harfau, canys ni allent ganlyn y rhai a glient, ac ni feiddient ymadael â'u banieri, yn anghlymmys â gyfarfod â'r cyfryw elynion. A'r gwŷr meirch a ymladdent gyda mawr berygl, o herwydd y Brytaniaid, trwy gyduniad, a glient yn eu hol, a phan y canlynai rai o'u gwŷr ni hwy ychydig oddiwrth y fyddin, neidient allan o'u cerbydau, ac ymdrechent â hwy ar eu traed, mewn ymladdfa anghyfartal. Felly, o achos y dull hyn o ymladd, yr un berygl a ddygwyddai i'r marchwyr; pa un ai canlyn ai cilio a wnaent; ac beblaw hyn oll, ni ymladdent fyth mewn byddin grynoedig, eithr yn wasgaredig, ac agoriadau llydain rhyngddynt; yr oedd ganddynt befyd finteioedd gwedi eu dulliaw yn y fath fodd ag y gallent gynnorthwyo eu gilydd yn rheolaidd, a'r gwŷr newyddion gymmyrd lle y rhai blin a luddedig."†

Mae y defnydd doeth a wnelai Caswallon o'r manteision hyn, yn brawf diddadd o'i fod ef yn rhyfelwr profiadol a medrus; a throos yspaid o amser, mid oedd Caisar nemawr amgen na charcharor yn nghamol ei lengoedd, a gyfrifid ar y cyfandir yn anorchfygol; canys y cadlywydd Prydeinaidd nis goddefai iddo encilio yn ol i'w wersyll, yn *Rutupe*, neu *Rieborough*, na myned rhagddo at ei gyfaill Mandebrog, pensaeth y llwyth estronol a gyfaneddent Lundain a'i hamgylchoedd, a'r rhai oeddynt mewn cynghrair â'r Rhufeiniaid. Gyda'r gwylhadwriaeth manylaf, trwy anhawderau

\* History of Wales, by John Jones, LL.D., p. 7. Hist. of Ancient Britons, by the Rev. J. Owen, vol. 1, pp. 8, 9. Aylett Sammes, p. 166.

† Hanes Cymru, gan y Parch. T. Price, t.d. 61.

dirfawr, a bron trwy ryw led oddefiad achlysturel gan Caswallon, yr eafgynodd y fyddin Rufeinaidd ar hyd y Tafwys cyfuwch a'r ddwy Gored, a elwid gan yr ymsafydlwyr Saesomidd *Tweywicken*, ac a elwir gan y Saeson presenol, *Twickenham*; ac o'r tu isaf i'r coredau, neu yr argaeau yma, ceisiai y Rhufeinaidd groesi yr afon ar drai; ond trwy gynnyf fe'u colledwyd yn ddirfawr; canys ar ddychweliad y llaw, deschreuai Caswallon fine yr el-fyddia, yr hon oedd eto heb fyned trwodd; ac felly bu raid iddynt drwy berygl dirfawr, ymdrechu i groesi ar hyd polion yr argae, yr hyn a roddes achlysur i Caisar i ddyfeisio y chwedl fod y Prydeiniaid yn eu henciliad wedi gyru polion i'r Tafwys i rwystro ei fynediad trwodd; a gallasai y cyfryw adroddiad gaal ei dderbyn yn rhwydd yn Rhufain, gan nad oedd gan y Rhufeinaid y fath beth a choredydd, nac enw cyfatebol yn yr iaith Lladin.\*

Wedi llafur maawr, a chyfyngderau di eilfydd, cafodd Caisar arlyw i'w fyddin newynog oddiwrth Mandebrog, a'r trefedigion estronaidd a gyfaeddent Lundain a'i chyffiniau, y rhai a ymgystlynent a'r Rhufeinaid yn erbyn cynfroderion yr ynys. Ond er y cymhorth prydlawna yma, teimlai yn rhy analluog, neu ei filwyr yn rhy lesg a gwangalon i ymgymeryd ag unrhyw orclawyl o bwys, ac am hyn yn yspaid ei arosiad o ddau neu dri mis yn Llundain, y gorchwyl penaf a wnaeth ydoedd cymmeryd Verulam, neu Gwerlain, neu ifel y mae yn fwyaf tebyg, Wallingford, neu Caerleua, math o araddiffynfa gynnwysedig o wrthglawdd a ffos, wedi eu gwneyd o amgylch llwyn o goed, a elwid gan y Prydeiniaid Llan, a chan y Rhufeinaid *Appidum*. Dywaid rhai haneswyr mai prif ddinas Caswallon ydoedd hon; ereill a farnant nad ydoedd yn ddina amgen nag amddiffynfa led gref, yn yr hon y cadwai ei arlyw rhyfel. A llwyddodd i gynnweryd hon trwy frad y Tranofanwys ac yehydig lwythau ereill, y rhai a ymgynghreiasent a'r gelynyon; a chaf bellod ag y gallaf gasglu oddiwrth yr haneswyr amwyaf crededwy, yr oedd y llwythi bradwrus hyn yn cael eu gwneyd i fynd, nid o "Gymry o waed ooch cyfan," ond o ryw ddyfodiad diweddarach i'r ynys, y rhai o'r herwydd, efallai, nid oeddynt mewn cydfod da o'r blaen a'r cynfroderion; am y cyfryw y dywedir yn y Trioedd:—

"Tair Ciwdawd Ormes a ddaethynt i Ynys Prydain, ac nid aethant fyth o honi. Cyntaf oedd y Coraniaid, a ddaethant o wlad y Pwyl. Ac ymgystlynu a wnaethant a'r Caisariaid, onid aethant yn un." A thrachefia y dywedir am eu hymddygiad bradwrus mewn oes ddiweddarach:—"A zyned yn un a wnaeth y Ceraniaid a'r Saeson." Oni buasai y brad yma, y mae yn dra thebyg y buasai Caswallon o dipyn i beth wedi gwasgu cymmaint ar Caisar a'i lengoedd, fel y buasai yn rhaid iddynt roddi eu harfau i lawr, a'u rhoddi eu hunain yn garcharorion rhyfel i'r Brython dewrwyf Caswallon; ond y bradwriaeth yma yn nghanol y wlad, a wahanai freichiau Caswallon, ac a gryfhai yr eiddo Caisar yn fawr.

Pan welodd Caswallon y pethau hyn, efe a anfonodd genhadau at benaethiaid Caint, sef *Cingetorix*, *Carnilius*, *Toximagus*, a *Sergonax*, i ddeisyf arnynt gynnwyl eu gwyr yn nghyd i ymosod ar y gweryll arforol; ond os gwir a ddywaid Caisar ei hnnau, bu yr ymosodiad hwan yn hollol aflywyddiannus, a chymmerwyd un o'r penaethiaid Cymreig, sef *Cingetorix*, yn garcharor yn y tro. Pan gyrhaeddai y newydd o'r aflywydd yma i glustiau Caswallawn, efe ya gweled wneyd o hono gymmiant ag a allasai dyn ei wneyd er gwaredigaeth ei wlad, ac yn cael ei ddigalon wrth weled cynifer o ddinasoedd a thaleithiau yn troi yn fradwrus, ac yn cefnogi y gelyn, a anfonodd at Caisar i gymmryd dyfod i amodau heddwch, ac ni ddygwyd

\* Jones's History of Wales, p. 8.

gwell newydd na hyny erioed i glustiau Caisar, yr hwn oedd yn fawr ei awydd am ryw esgus i ddychwelyd i'r cyfandir; canys er ei fod ef yn ei adroddion am ei gadgyrchion i Brydain, yn rhoddi y lliw goreu ar a allai ar bethau, er mwyn ei glod ei hun, o'r hwn yr oedd efe yn dra chwannog; yr ydym yn meddu seiliau digonol i gredu na chafodd efe y fath driniaeth yn un man arall trwy ei holl oes ryfelgar, ag a gafodd efe yn yr ynys hon; canys y mae *Lucan*, bardd Rhufeinig, a ysgrifennai yn mhen tua chan' mlynedd ar ol hyn, yn dywedyd iddo ddangos ei gefn dychrynedig i'r Brytaniaid ymlidiawl. Fel hyn y geiriai—"*Territa quæsitis ostendit terga Britannis.*" Ac y mae *Tacitus*, pan yn traethu hanes Caradawg, yn dywedyd i'r gwron hwnw, pan yn cyfarch ei filwyr, cyn ei frwydr ddiweddaf, "alw enwau eu hynafiaid, y rhai a yrasent y Penllwyiaudwr Caisar ar fo."—"*Vocabatque nomina majorum, qui Dictatorem Cæarem pepulissent.*" Heblaw hyny, meddwn hanes Gymreig yn y Brut, o'r ymosodiad yma o'r eiddo Caisar, neu fel y'i geilw yr hen haneswyr Cymreig ef, "Iolo Foel," yn yr hwn y'n hysbysir, y bu yn un o'r brwydrau rhwng y Cymry a'r Rhufeiniaid, ymdrech law-law rhwng Nyniaw, brawd Caswallon, a Caisar, yn yr hwn y collai y Rhufeiniwr balch ei gleddyf, wedi rhoddi o hono ar-choll i'r Cymro, o'r hwn y bu farw yn mhen y pymtheng niwrnod—i'r rhan fwyaf o'r Rhufeiniaid oeddynt yn y frwydr hono gollu eu bywydau, ac i Gaisar gilio o'r maes, ac wedi ei dyfod yn nos, fyned o hono gyda y gweddill o'i fyddin i'w llongau, gan fod yn llawen ganddo gael y môr yn lle castell. Ac am ei ail gadgyrch y dywaid y Brut fel hyn:—"Ac wedi darfod i Wlkesar barotol pob peth ar oedd raid iddo, efe a gychwynys ar y môr yn nghyd ag aneirif amlder marchogion, gan ddarmerth ac awyddaw gwneyd damwnedig aerfa o'r Brytaniaid; ac hyny heb amheu a wnaethai pe elasai y llynges yn iach i'r tir. Ac wrth hyny ni allws ef ddwyn ei ddyhwedwr ar weithred; canys hyd tra yr oeddynt yn hwyliaw ar hyd canol Themys, yn cyrchu parth a Llundeyn, hyd aeth eu llongau ar y polion heieirn, ar y dywedasom ni uchod, a chan y rhai hyny y dyoddefasant ddigyfyd berygl angeuawl, hyd pan foddasant hyd ar filoedd o farhogion. Canys wedi tyllu y llongau ar y polion heieirn hyny, y daeth dwfr i mewn, a suddaw y llongau dan y weilgi." Yna y mae y Brut yn chwaneu, i Caisar ar ol brwydr waedlyd, hwylio yn y llongau a adawyd gyda gweddill ei fyddin eilwaith i Gâl. A Chaswallon er llawenydd am y fuddugoliaeth, a diolchgarwch i'r duwiau am waredu ei wlad oddiwrth y Rhufeiniaid, a wnaeth wledd fawr, ar ba un y cynnelid amryw gampau, yn ol arfer ein hynafiaid; yn y rhai y dygywyddodd i ddau bendefig ieuanc fynd i ymdrech u' tu gilydd; un o honynt oedd Hirlas, nai Caswallon, a'r llall oedd Cuhelyn, nai Afarwy. Mewn canlyniad i'r ymdrech chwareuol, hwy a ymgynhenasant, a Chuhelyn a laddodd Hirlas yn fwiadol a'r cleddyf; ac am na roddai Afarwy ei nai i fynu i'w gosbi yn gyfreithlawn, Caswallon a ddechreuodd aurheithio ei diriogaethau ef; yntau wedi cythruddo, a anfonodd genhadon at Gaisar, i'w wahodd drosoedd drachefn, gan addaw cynorthwy iddo; yntau yn falch o'r fath gyfleusdra, a ddaeth yma y drydedd waith; ac ar ol dechreu ymladd â gwŷr Caswallon, a lladd llawer o bob ochr, Afarwy a ddaeth â phum' mil o wyr, ac a ruthrodd ar fyddin Caswallon o'r tu cefn; yr hyn a barodd iddo gilio i ben bryn, lle gwarchaeid arno gan y Rhufeiniaid a gwŷr Afarwy. Fel hyn, trwy frad yn unig y gorchyfygwyd y dewr frython Caswallon, ac y'i gorfodwyd i roddi addewid a gwystion y talai deyrnedd fyddeiddol i'r Rhufeiniaid. Afarwy o herwydd hyn, a elwir yn y Trioedd, yn un o'r "Tri charnfradwr Ynys Prydain." Y ddau erill oeddynt—"Gwrtheyrn Gwrtheneu, a wahoddes y Sæson yma; a Medrawd ap Llew, a drodd yn fradwr yn erbyn y brenin Arthur."

Gellid meddwl mai yr un ydoedd yr *Afarwy* uchod o eiddo y Brut, a *Mandebrog* yr haneswyr Rhufeinig; er nas gwyddom yn iawn pa fodd i gysoni y ddau adroddiad am yr achlysur, o drangwydd at Caswallon; canys yn y naill dywedir fod Caswallon wedi gosod brenin y Tranofanwys, *Imanentius*, tad *Mandebrog*, i farwolaeth, ar yr hyn y ffoai y mab at Caesar, am nawdd, ac y'i perswadiad i ddyfod drosodd yma yr ail waith, gan addaw cymhorth iddo. Ond y Brut, fel y gwelir uchod, a edrydd hanes yr amgylchiad yn wahanol, ac heblaw hyny a ddarlunia y cadgyroh yma y trydydd i Caesar, ac nid yr ail. Pa fodd bynag, y mae ymadawiad disymwth Caesar gyda'i wŷr yn y nos, yn fuan, os nad yn y fan wedi brwydr waedlyd a ymladdasai â'r Cymry, ac nas gadawsai ryw gynnifer o filwyr i gadw meddiant o ryw amddiffynfa yn yr ynys, yn arwyddo yn lled debyg ei fod hyd yn nod wedi cael ei guro o'r ynys y waith olaf hon hefyd; er ei fod wedi cael gan Caswallon addaw talu rhyw gymmaint o deyrnged flyneddol i'r Rhufeiniaid: pa fodd bynag ni soniodd Iwl Caesar byth mwyach am ddyfod drosodd i Frydain; ac nis meddwn nemawr iawn o hanes y Prydeiniaid am yn agos i gan' mlynedd ar ol hyn. Dywed y Brut i Gaswallon farw yn mhen y saith mlynedd, a'i gladdu yn Nghaer-efrog, ac i Denefan fab Lludd, duc Cernyw, a brawd *Afarwy*, deyrnasu yn ei le ef; gan fod *Afarwy* wedi myned drosodd gyda Chaisar, heb feiddio aros yma, debygid, oblegyd ei frad i Gaswallon. Dywedir am Tenefan ei fod yn filwr da, ac yn gweinyddu cyfiawnder a barn gyda manylirwydd rhagorol. Ar ol Tenefan, daeth ei fab Cynfelyn, brenin y Tranofwysion, i'r profeyrnaeth ar y rhan hono o'r ynys. Yr oedd hwn yn filwr dewr a phroffadol, ac wedi ei ddwyn i fynu yn Rhufain; felly ceir bathau arian, a'i enw arnynt, wedi ei ffurfio yn ol y dull ac mewn llythrensau Rhufeinaidd, *Cymbelina*.

Yn nyddiau teyrnasiad y brenin hwn y ganwyd ein Hiachawdwr Iesu Grist.

Bu i Gynfelyn ddau fab, Gwydyr a Gweyryd: a phan ddaeth Gwydyr i'r oesedd, pallodd a thalu teyrnged i'r Rhufeiniaid, am ba achos y penderfynodd yr amherawdwr *Claudius Caesar* anfon byddin i Brydain; ac y mae *Dion Cassius* yn dywedyd iddo ddyfod i'r cyfryw benderfyniad trwy anogaeth Brython bradwrus, o'r enw *Bericus*, neu Meurig, yr hwn oedd wedi gadael Ynys Prydain, a ffoi i Rufain. Hwn, er dial am ei alltudiaeth ei hun, a fynych gymhellai yr amherawdwr i anfon byddin drosodd, gan haeru ei bod yn adeg gyfius, trwy fod y wlad yn llawn ymbleidiaeth, i'w llwyr ddarostwng dan iau Rhufain. Felly *Claudius* a anfonodd orchymyn i un o'i raglawiaid galluog, *Aulus Plautius*, i baratoi y fyddin oedd dan ei lywyddiad yn nhir Gâl, a gwenthur pob brys i oresgyn yr ynys: gan hyny, *Plautius* wedi cynnull ei luoedd yn nghyd, a'u hysbysai o'r gwaith oedd wedi ei dori iddynt, trwy orchymyn yr amherawdwr; ond y milwyr Rhufeinaidd, heb anghoŷio y driniaeth a gawsai eu tadasu dan lywyddiaeth Iwl Caesar, yn Ynys Prydain, a'r amrhudded bychan a emillasai y byddin oedd Rhufeinaidd trwy eu cadgyrochiadau hyny yma, a ddywedent nad oeddynt hwy yn foddllawn i gymmeryd eu harwain i "*fyd newydd*," ac i gario y rhyfel yn mlaen o'r tu allan i gylch y ddaear; canys felly y cyfrifent yr ynys hon: ac mor gryf oedd eu gwrthysigrwydd i ymgymmeryd â'r cadgyrohiad, fel y danfonai yr amherawdwr genad arbenig, o'r enw *Narcissus*, un o'i wŷr llys urddasol, i'w heddychu, ac i'w darbwyllo i ymgymmeryd â'r anturiaeth, â'r hyn y cytunasant o'r diwedd. Yna y oedlywydd, *Plautius*, a ranodd ei fyddin yn dair mintai, gan beri iddynt hwylio allan yn gynnifer o lyngesau gwahanol, er sicrhau eu glaniad diogelach, wrth eu bod megys yn cynnyg ymcosod ar yr ynys mewn tŷ o

wahaned fanau, na phe buasent yn ceisio glanio oll yn yr un parth. Ond wedi eu myned allan i'r môr, fe'u ourid yn ol gan groeswntoedd a hia dymhestlog, yr hyn a ddigalonai y milwyr mor fawr, fel y buasent yn sicr o roddi yr anturiaeth i fynu, oni buasai ymddangosiad gorchonion tanlyd, yn ergydio o'r dwyrain, yr hyn a esponid fel argbel da wedi ei antaf gan y duwiau i gyfarwyddo eu cyrch tua'r ynys, ac i arwyddocau iddynt y byddai llwydd i'w hantur. Yn y cyfamser, y Prydeiniaid, wedi eu hysbysu o'r gwrthryfel yn y fyddin Rufeinaidd, a feddylasant nad oedd un perygl arnynt; ac felly a ymddiofalsant, fel nad oedd ganddynt un fyddin yn bared i wrthsefyll gianiad y gelyn; am hynny cafodd Plautius arfod i lamio ei holl wŷr, a thaeffu ei fyddin yn fanteisiol, heb neb i'w llesterio; ac yn fuan efo a arweinai ei fyddin i'r wlad, i chwilio am y gelyn; a chyn hir, cyfarfu â Charadawg, ya blaenori rhyw fyddin fechan, llawer rhyw egwan i roddi unrhyw wrthsefiad effeithiol i gadwysg y Rhufeiniaid; ac ya fuan wedi hynny, cyfarfyddent â byddin arall gyfelyb, dam dywysiad Togodunnus, mab Cynfelyn, yr hon hefyd a orchfygwyd yn rhwydd gan y gorsegywyr, yr hyn a ddengys y niweid a ddeilliai o ymraniadau gwladwriaethol.

Y buddugoliaethau hyn a barai i'r Rhufeiniaid ymgalonogi yn ddirfawr, a thwyddent byddai unrhyw amhawsder yn eu ffordd i ddarostwng yr holl ynys; ac ar y tu arall, effeithiai y buddugoliaethau hyn ar rai o'r llwythi brodorol, er peri iddynt lwfrhau; ac yn inysg ereill, fe'n hysbysir yn bendant bod y Tafawnyson (*Dobani*,) y rhai a gyfaneddent swydd Gaerloyw, a glynoedd swydd Rhydychain, ar y tu gogleddol i'r afon Tafwys, wedi ymostwng i'r Rhufeiniaid. Fe'm tueddir ya gryf i greu, fod y rhai hyn, fel y Trafounyson a funat fratwrus yn amser Iwi Caisar, o hiliogaeth y Coraniaid neu y Belgiaid, ac nid yn rhai hanedig o'r cynffrodrion. Ond er fod rhai llwythi fel hyn yn ymostwng yn rhwydd i'r gorsegywyr, yr oedd rhai o'r tywysogion Cymreig dewrwyd yn cadw y maes, gan gynnwll atynt gynnifer ar a allent o'r ieuengetyd, er amddiffyn eu gwlad a'u hiaunderau; a'r fyddin hon a wersyllar ar lan rhyw afon gref—yr Hafren, medd rhai; ond ya fwyaf tebygol, y Tafwys; a chan nad oedd rŷd i groesi yr afon ar gyfer eu gwerayll, hyderasant na feiddiai neb ymosod arnynt; ac felly, ni chynnallasant wyliaidwriaeth addaa. Ond y Germaniaid, y rhai a wasanathent dan y cadlywydd *Flavius Vespasian*, a'i frawd *Sabinus*; yn y fyddin Rufeinaidd, y rhai a arferent nefio yr afonydd gwylltaf yn eu harfogaeth, a nofasant ar draws yr afon, ac a laddasant feirch y Prydeiniaid, fel na allai eu cerbydau fod o un gwasanaeth iddynt, gan ladd llawer o'u milwyr gwasgaredig ac anwyliaidwriaeth hefyd; ond ni roddai y Cymry i fynu iddynt ar ychydig chwareu, er eu holl aflwydd; felly, ar doriad y dydd dranoeth, ymgylfarfuant â'r Rhufeiniaid eilwaith, lle y bu ymladd caled a gwaedlyd, a thros amryw oriau yr oedd yn amheus i ba ochr y troai y fuddugoliaeth; ond o'r diwedd, arfogaeth a dysgyblaeth ragorach y Rhufeiniaid a orfuant ar ddewrder y Cymry; y rhai oeddynt dan yr anfantaio o orfod ymladd y frwydr hon yn noethion mewn cydmariaeth, a llawer o honynt yn fechgyn ieuaine, heb fod mewn brwydr etallai erioed o'r blaen, ac wedi colli gwasanaeth eu cerbydau rhyfel, ar y rhai y rhoddent eu hyder fwyaf am y fuddugoliaeth, ya erbyn heni wroniaid, wedi eu gorohuddio â'r arfogaeth fwyaf celfydd, a'u dysgybiu i ryfel yn y modd perffectaif.

Oddiyno enoethai y fyddin Gymreig tuag aber Tafwys, i forfeydd Essex, lle yr ymladdwyd amryw frwydrau celyd rhwng y ddwy fyddin, yn y rhai y colodd y Rhufeiniaid llawer o'u gwŷr: ond yn un o honynt, ewympodd Togodunnus y Brenin, a lladdwyd nifer mawr o'i wŷr.

Ond Plautius, yn gweled bod y Prydeiniaid yn myned yn fwyfwy dewa-  
 ion, a bod ei gyflwr ystau a'i fyddin yn y tanlyniad yn myned yn fwy  
 peryglus, a chan ystyried fod y fyddin Rufeinaidd wedi ei gwanhau yn  
 ddirlawr, tra yr oedd y fyddin Brydeinaidd yn cryfhau beunydd, a farn-  
 odd yn ddoeth anfon at yr amherawdwr Claudius a Rufain, gan daer erfyn  
 arno ddyfod & byddin gref-ganddo yn ddiacedi, i'w gynnorthwyo i oresgyn  
 yr ynys. Ac yn y cyfarnas efe a wrelai ei oreu i gadw meddiant o'r  
 rhanau o'r wlad a oresgynasai, gan gyfleu gwarchawdluoedd yn y bylchau  
 mwyaf angearheidiol cadw meddiant o honnys; ac a'r gweddil o'i wfr,  
 efe a ymwersyllodd wrth aber Tafwys, er diogelu glaniad cynhorthwyo  
 newyddion. Claudius Caisar, wedi ei frawyehu gan adroddiad y cen-  
 hadon am ddewrder dihafal y Cymry, a benderfynodd ddwyn hyddin graf  
 i'w ganlyn, cynnwysedig o amryw o'r lleengoedd Rhufeinig enwocaf, yn  
 nghyda nifer fawr o gynghreirwyr Germanaidd a Galaid, ac yn chwaa-  
 egol at hyny, dywedir iddo ddwyn llawys o elephantaidd arfog, wedi eu  
 dysgu i ymladd, i'w ganlyn, trwy ddefnyddio pe-rai yr oedd y Rhufeiniaid  
 wedi enill rhai buddugoliaethau modedig mewn gwledydd eraill; ac y mae  
 yn ymddangos i'r ddechell yma lwyddo yn dda; canys wedi iddo lanio, a  
 gosod ei wfr bob yn ugain neu ddeg ar hugain ar gefa pob elephant,  
 gwasgerid meirho rhyfel y Prydeiniaid yn rhwydd, a pherid anghrefa  
 erchyll trwy eu holl fyddin, fel y cafodd y Rhufeiniaid fuddugoliaeth  
 rwydd arnynt y waith hon. Gallwn ddeddlu fod yr olwg ar y cawrlod  
 dysithrol yma yn dre arswydas i'r hen Gymry dysydl, a phrin y gallent  
 ddyfalu pa un af duwiau y Rhufeiniaid, ai rhyw ellyllou llog ganddynt,  
 oeddynt yn ymymud dan y cestyll a'r saethyddion i'w cytarfod, gan  
 ddehrynu eu meirch, a churo eu gwfr cryfaf i'r llawr. A'u darun, fel y  
 ewympid oawn dan blaer: at yr amgylchiad yma y cyfarini Bardd Nanctegyn  
 yn y llunhau canlynol:—

"Gaiwyd kynt i'r hynt fawr hon  
 Dawch allu heb diebllon;  
 Arfogwyd a llogwyd llo,  
 Dorf fawr oll, dirflawr allu:  
 A phwyntlaw elephantaidd  
 Gaiwyd i'r meirch, gaeafllwm haid;  
 Yn ddrigel iawn, chwyrnlawn chwant,  
 A throedd y rhathrasant.  
 Ar y Brython gwirion, gwyf,  
 Byd eogaeth, heb eu dygwyl;  
 Yn halarawl, blyagawl, haid,  
 Ac aetylch rif locustiaid."

Claudius Caisar, wedi enill y fuddugoliaeth hon mor rwydd, a ddy-  
 chwelodd yn fuan i Rufain, gan adael Plautius, a'i raglaw Fespasian, i  
 gario y rhyfel yn mlaen: ond er fod Plautius, a'i olynwr Ostorius, wedi  
 meddiannu y rhan o'r ynys a orweddal o'r tu deheuol i'r afon Hafren,  
 lle y trigianai y dyfodiaid diweddaraf i'r ynys, sef, y Lloegrwys a'r Belg-  
 wys, gan sefydlu trefedigaethau Rhufeinig yn eu mysg, er eu cadw dan-  
 odd, yr oedd y Syllyrwyys a'r Gordofigwys, y cyafrodorion, y rhai a  
 gyfancedent Ddeheubartha a Gogledd Cymru, yn benderfynol i sefyll yn  
 wrol dros eu hannibyniaeth, yn erbyn holl gryfder Rhufain, dan y dewr-  
 wych Garadawg, fab Bran ab Llyr, yr hwn wedi ymladd dag brwydr ar  
 hugain a'r Rhufeiniaid, gydag amryfel lwyddiant, a fradychwyd i'w dwy-  
 law o'r diwedd, gan Aregwedd Foeddawg, brenines y Brigantwys, at yr  
 hon y ffoisai am nawdd ar ol ei frwydr olaf a'r Rhufeiniaid, yr hon a gym-  
 merodd le fel y tybir yn Nghaer Caradog yn swydd yr Amwythig; ac yn

yr hon y cymmerasid gwraig a merch Caradawg yn garcharorion gan y Rhufeiniaid; ac efallai eraill o'i geraint. Y Brigantwys a gyfaneddent y rhanau o'r ynys a adwaenir yn awr wrth yr enwau swyddi Caerefrog, Caerhirfryn, Durham, Westmoreland, a Chumberland; a dywed rhai hynafiaethwyr bod Aregwedd Föeddawg, eu brenines, yn ferch Afarwy ab Lludd, yr hwn a fradychai Gaswallon i Iwl Caesar; ond nid yw hyny yn debyg, gan fod tua chan' mlynedd rhwng y ddau gyfnod; y mae yn haws meddwl mai ei wyres a allasai hi fod: pa berthynas bynag a allasai hanfodi rhyngeddi ág Afarwy yn naturiol, yr oedd hi yn eithaf merch iddo yn ei nodweddiad, ac y mae caffadwriaeth y ddau yn dra ffaidd gan bob Cymro gwladgarol hyd heddyw.—Dywedir i'r fenyw ysgeler yma ddyfod i flinder nid bychan cyn pen hir ar ol hyn, trwy ei hymddygiadau anniwair: canys hi a ymadawodd á'i gŵr, *Fenusius*, ac a gymmerodd un o'i weision, o'r enw *Fellocatus*, yn ei le; eithr ei gŵr, wedi enill ogydmeimlad y bobl, a'i dug i gyfyngder mawr: hithau a geisiodd gynnorthwy gan y Rhufeiniaid, a'r rhai hyny wedi amrywol frwydrau a lwyddasant i waredu y frenines ei hun allan o berygl; ond gorfu arnynt adael y deyrnas yn meddiant *Fenusius*.

Pa beth a dueddai y fenyw ysgeler hon i draddodi y penlluyddwr dewr a ymladdasai gynnifer o frwydrau dros ei wlad, gan sefyll yn erbyn holl gaderind Rhufain am naw mlynedd, yn rhwym mewn cadwynau i ddwywylaw ei elynion, sydd yn fwy nag a allwn ni ei ddyfalu yn awr.

Mae yr hanesydd Rhufeinig enwog *Tacitus*, yn sylwi fod clod Caradawg "wedi estyn dros yr holl wledydd cymmydogaethol, ac yr oedd yn enwog hefyd trwy yr Eidal; a dymument weled y gŵr, yr hwn dros gynnifer o flyneddoedd, a ddirmygodd ein byddinoedd. Ac nid oedd enw Caradawg yn ddianrhydedd hyd yn nod yn Rhufain ei hunan. A'r amherawdwr, tra yr oedd yn derchafu ei anrhydedd ei hun, a yohwanegodd hefyd ogoniant i'r darostyngedig; oblegid y bobl a alwyd yn nghyd, megis at ryw ar-ddrychiad mawrygus. Y byddinoedd amherodrol a safent dan eu harfau yn y maes cyfnesol; yna daeth yn mlaen ddeiliaid Caradawg, a chludwyd yr arfau, a'r seirch, a'r tyrch, a'r pethau a enillasai efe mewn rhyfeleoedd. Yn y man, daeth yn mlaen ei frodyr, a'i wraig a'i ferch; ac yn olaf o'r cwbl, ymddangosai Caradawg ei hun. Y lleill mewn modd gwael a roisant le i erfyniadau, trwy ofn; eithr Caradawg ni ofynodd am drugaredd, naill na thrwy ostwng ei ben, na thrwy eiriau; ond safodd ger bron yr orseddfaine, a llafarodd yn y dull canlynol:—'Pe buasai mesur fy llwyddiant yn gyfartal i'm huchel fonedd a'm cyflwr genedigol, gallaswn ddyfod i'r ddinas hon yn gyfaill yn hytrach nag yn garcharor; ac ni fusai tithau yn cael dy ddianrhydeddu trwy dderbyn i amod heddwch, un wedi deilliaw oddi-wrth hynafiaid clodwif, ac yn rheoli amryw genedloedd. Fy rhynged breenol, fel y mae yn anfodus i mi, felly y mae yn fawrygus i tithau. Yr oedd genyf feirch, rhyfelwyr, arfau, cyfoeth; pwy ryfeddod os oeddwn yn anfoddlawn i'w colli? Oblegid os chwyohwi a fynwch lywodraethu ar bawb, a yw yn canllin fod i bawb dderbyn caethrawd? Pe buaswn yn ymddarostwng yn uniongyrch, ni fusai na fy nghyflwr i, na dy ogoniant dithau yn ymenwogi, ac annghof a ganlynasai fy narostyngiad; eithr yn awr, os arbedi fi yn ddiwiweid, byddaf yn anghraifft dragywyddol o diriondeb.'"

Yr araeth hon, yn cael ei thraddodi gan y glewddyn Cymreig yn ei gadwynau, a effeithiai yn dra grymus ar yr holl fonedd, a'r amherawdwr ei hun hefyd, fel nas gallent ymatal rhag wlyo, a dywedyd, "Yn mhob gwlad

\* Hanes Cymru, gan y Farch. T. Price, t.d. 73, 74.

y megir glew." A'r amherawdwr a arehai ddatod cadwynau y penaeth Prydeinaidd, a'r eiddo ei berthynasau. Ar ol yr hyn y gwnaethant eu meos ymostyngiad i'r amherodres *Agrippina*, yr hon a eisteddai ar yr orsedd rwysefawr i dderbyn yr unrhyw; gan gyflwyno eu diolchgarwch a'u clodfaredd iddi hi, megis y gwnaethant i'r amherawdwr. Ac yr oedd gorlledd dirfawr drwy Rufain, o achos ymddangosiad Caradawg yno; "nid llai," medd Tacitus, "na phan ddygwyd y brenin *Syphas* yno gan *P. Scipio*, neu y brenin Maccedonaidd *Perses*, gan *Lucius Paulus*; neu neb un o'r brenin-oddol ereill a ymddangosasant yno yn garcharorion."

Deallwn oddiwrth rai o'r Trioedd Cymreig, i Claudius Caisar gymmeryd tad Caradawg, sef Bran ab Llyr Llediaith, yn wystl dros ei fab enwog; ac iddo fod yn Rhufain dros oddeutu saith mlynedd fel carcharor aarhyddus.—

"Tri Menwedigion Teyrnedd Ynys Prydain: Bran Fendigaid ab Llyr Llediaith, a ddygwys gyntaf ffydd yn Nghrist i Genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yn ngwystl ei fab Caradawg, a ddug gwyr Rhufain yn ngharchar, gwedi ei fradychu trwy hud, a thwyll, a chynllwyn Areg-wedd Fô-ddawg."—*TRIL* 35.

Pa beth a dlaneth o Caradawg ar ol hyn nis gellir ei wybod, yn bresenol, ond yr hyn sydd fwyaf tebygol yw, os y cafodd efe ddychwelyd yn ol i'w wlad, ei fod wedi parhau mewn heddwch a'r Rhufeiniaid, yn ol ei addewid; canys nid ydym yn cyfarfod â'i enw mwyach mewn cysylltiad âg ymdrechion y Prydeiniaid yn erbyn y Rhufeiniaid.

Tu'r flwyddyn 51 neu 52 y tybir yn gyffredin y'i cymerwyd yn garcharor; ac oddeutu y flwyddyn 58, yn ol barn amryw, y cymerwyd Paul yn garcharor y waith gyntaf i Rufain, felly nid ydyw yn anhygoel y gallasai Bran, tad Caradawg, gael y cyfleusdra i wrando yr Apostol enwog yn dadlenu egwyddorion gogoneddus y grefydd Gristnogol.\*

Er i'r Essyllwyr gael eu trechu a'u baeddu yn dost yn mrwydr olaf eu tywysog dewrwyth Caradawg, ac er colli o'honynt eu cadflaenor enwog trwy frad, fel y crybwyllwyd yn barod, eto, ni chollasant eu calondid a'u hysbryd annibynol; eto parhausant mewn arfau, gan wneuthur ymosodiadau dibaid ar y byddinoedd Rhufeinig:—"Oddiwrth hyn," medd Tacitus, "y bu aml frwydrau, ac fynychaf ar dull lladradaith, trwy goedydd, trwy ffosydd, fel y digwyddai. Weithiau yn ddisymwth, ac weithiau yn rhagddarparus; weithiau o achos digasedd, a phryd arall er mwyn yspail; ambell waith trwy orchymym y blaenoriaid, a phryd arall yn ddarwybod iddynt."

Yr oedd y penllwydd Rhufeinaidd *Ostorius*, yn cael ei fino gymmaint gan jstyfnigrwydd yr Essyllwyr, dan eu cadlywydd *Arefog*, fel y bygythiai lwyd ddileu eu henw oddiar wyneb y ddaiar, megis y gwnelid â llwyth o Germaniaid, o'r enw Sugambri, gynt: ond yr oedd yn "haws dweyd mynydd na myned drosto;" felly dewrder diblygu yr Essyllwyr, a'u rhuthriadau parhaus o'u llochesau ar y llengau Rhufeinig, fel nad oeddynt yn ddiogel ddydd na nos, a effeithiodd gymmaint ar *Ostorius*, fel y bu farw o dorcalon, cyn pen nemawr gyda blwyddyn wedi cludiad Caradawg yn garcharor i Rufain.

Wedi hyn, am oddeutu ohwe' mlynedd, o dan lywyddiad *Didius*, a *Ferrianus* yn Mrydain, nid yw yn ymddangos bod dim ymladd, gwerth ei gronico, wedi bod rhwng y ddwy genedl: ai tybed nad ellid priodoli hyny i ymddygiad tyner Caisar at Caradawg, a thrigias Bran yn Rhufain fel ei wystl?

\* *Horæ Britannica*, pp. 19, 28.



Dilynid y ddau wŷr hyn yn y llywyddiaeth gan wŷr call, a milwr galluog, sef *Suetonius Paulinus*. Deallodd y gŵr hwn yn fuan wedi dyfod drosodd yma, fod ynys Fôn yr eisteddle llywodraeth grefyddol, a phrif gyngorfa y genedl; mai yno y trigai eu patriarch, neu yr Arch Dderwydd; ac mai yno y meithrinid ac yr addysgid eu tywysogion a'u pendefigion ieuainc, mewn gwybodaeth anianyddol a moesol: ac am hynny, barnai mai y ffordd oreu i ddarostwng y genedl yn gryno, ydoedd taro dynod hyd adref ar eisteddle eu bywyd gwladyddol, trwy oresgyn yr "Ynys Sanctaidd," fel y'i cyfrifid: felly efe a arweiniodd ei fyddinoedd ar hyd y brif-ffordd a elwid "Sarn Gwyddelin," efallai, hyd yn agos i Gaernarfon, neu Gaer Seiont; ac yno, er trosglwyddo ei fyddinoedd dros gulfor y Menai, efe a barodd wneyd lluwais o fadau a gwaelodau gwastad iddynt, y rhai a alwai y Rhufeiniaid *Scapae*, oddiwrth yr hwn enw, efallai, y cawsom ni y gair ysgraffau, ac a'r rhai hyn y parai gludo ei wŷr traed drosodd, o Lanfairisgaer i Lanidan, gan erchi i'w farchogion groesi trwy chwilio am rŷd, neu trwy nofio. Meddyliai yr hynafiaethydd enwog, y diweddar Barch. Henry Rowlands o'r Plagwyn, mai rhwng y lle a elwir Pwll y fuwch a Llanidan y glaniai y Rhufeiniaid yn yr ynys, y waith gyntaf hon: y mae rŷd, lle y gallasai eu marchogion groesi, odditan Lanidan; ac nid yw yn annhebyg bod y fan lle y glaniodd eu gwŷr traed yn cael ei nodi hyd heddyw gan yr enw "Pant yr ysgraffau." Heblaw hynny, y mae bryn neu domen gelfyddydol yn un o'r meusydd, o fewn tua thair esgdy saeth o'r môr, ar gyfer y lle hwn, ar yr hwn y tybir fod y Derwyddon yn offrymu eu haberth mawr, er dyhuddo eu duwiau, a chael ganddynt gwblhau eu rhegfeydd ar y Rhufeiniaid, a oresgynent eu hynys gysegredig mor ddiachos, a'u hamddiffyn hwythau rhag trais yr estroniaid. Ond er fod y Rhufeiniaid yn syrn yn ddiau yn yr olwg arnynt, y gwragedd mewn laeswisgoedd duon, a'u gwallt llaes yn hongian dros eu hysgwyddau, a fflagenau yn eu dwylaw, yn rhedeg oddiamgylch, fel pe y buasant yn orphwyllog, a'r Derwyddon a'u dwylaw yn ddrychafedig tua'r nefoedd, yn tywallt allan eu rhegfeydd, ac yn galw am ddialedd eu duwiau arnynt; hwy a luthrasant arnynt yn ddiarbed, ac a'u dinystriasant â lladdfa fawr; gan fwrw llawer o honynt i'r tanau a gynneuasent eu hunain, i'w difa ynghyda'u hebyrth.

Y Derwyddon, pan welsant aneffeithiolrwydd eu holl aberthau, eu defodau crefyddol, a'u rhegfeydd, a enciliaasant—rhai o honynt a lechasant yma a thraw yn eu llwyni cauadfrig, a thebygir i amryw o honynt ymsefydlu yn y cwr arall o'r ynys, tua Llanciliau, lle y mae amryw o olion hen orsaf Dderwyddol, a lle a elwir "Maen Dryw," ac efallai i rai o honynt hwylio ar yr achlysur yma o'r parth dywededig o'r ynys i Fanaw, a rhai fe ddichon i'r Iwerddon.

Mae yn agos i'r lle y tybir i'r alanestr hon gymmeryd lle, olion dwy neu dair o drefydd neu amddiffynfeydd Cymreig; y naill yn agos i'r Bryn Siencyn, a elwid "Hendref," ac un arall ar ben Bryn Gwyddfryn, a elwid "Caer Idris," a'r dreydd ar fryn gerllaw Porthamel, yr hon y mae ei henw wedi myned ar goll.

Nid yw yn annhebyg mai ar ben Bryn Gwyddfryn, yn y gymmydogaeth hon, yr adeiladai y Rhufeiniaid amddiffynfa gref, yn yr hon y cyfiteai Suetonius warchawdlu, er cadw arswyd ar y trigolion. Yr oedd y sefyllfa yma yn un dra manteisiol i wneyd amddiffynfa gref arni, ac yn ngolwg rhan fawr o'r ynys hefyd. Y mae enw un o gymmydau yr ynys, "Tal y bolion," ac enwau rhai lleoedd ynddi, megis "Pant y polion," "Pentre polion" &c., yn rhyw gofion, debygid, o'r ymweliad yma o eiddo Paulinus â Mon: ac efallai iddo drefnu amddiffynfa arall ar yr hen Ddin Sulwy, lle y buasai amddiffynfa Gymreig o'r blaen, yn agos i'r lle a elwir Pentre'

polion, yr hon a fuasai yn orsaf arall dra manteisiol i warchawdlu, yn enwedig fel yr oedd yn ngolwg yr agorfa ddwyreiniol i'r afon: o leiaf, y mae y bathau Rhufeinig a geir yno o bryd i bryd, yn brawf diwad i'r lle fod yn orsaf Rufeinaidd ar ryw achlysur.

Ond cyn i Paulinus orphen darostwng yr holl ynys, dygid y newydd cyffrous iddo am wrthryfel yr Uch-cyniaid, dan eu Brenines Buddug, a'r dystryw ofnadwy a wnelid ganddi yn y trefedigaethau Rhufeinaidd; yr hyn a barai iddo wneyd pob brys i gynnull ei filwyr, gan adael nifer fach yn unig i gadw yr amddiffnyfeydd crybwylledig, y rhai, yn ol pob tebyg, a syrthiasant yn fuan i ddwyllaw yr ynyswyr. Ond cafodd Paulinus lon'd ei ddwyllaw o waith i geisio darostwng y gwrthryfel a dorasai allan mor rymus yn mharthau deheuol Prydain, fel nas gallodd ddychwelyd i orphen ei waith yn Mon; ac y mae yn debyg i'r Monwysion o'r herwydd gael seibiant am oddentu pymtheng mlynedd, sef o ganol teyrnasiad Nero hyd yr wythfed flwyddyn i Fespaasian.

Yr achlysur o'r gwrthryfel crybwylledig dan Buddug, ydoedd trais a gormes ysgeler *Catus*, pencasglwr y cyllid dan y Rhufeiniaid, yn y parthau o Frydain a ddarostyngasid dan y Rhufeiniaid; cawn y darlunaid canlynol o'r achos gan rai awdwyr:—*Prasutagus*, brenin yr Uch-cyniaid, a fuasai yn ddyfal dros lawer o flynyddoedd yn casglu cyfoeth dirfawr, ac er ei ddiogelu i'w ddwy ferched, efe a wnelai yr amherawdwr yn gydetifedd a hwy yn ei ewyllys diweddat, gan ddysgwyl y buasai y fath amlygiad o'i ewyllys da i'r amherawdwr yn sicrhau i'w deulu ddiogelwch rhag trais, ac yn peri na feiddai y swyddogion Rhufeinig ddiarnhydeddu ei ferched. Ond i'r gwrthawyneb yn llwyr y bu; canys dan rith cymmyrd meddiant o ran yr amherawdwr, anrheithiwyd ei deyrnas gan y canwriaid, a'r casgliyddion a chwilenasant ei holl dŷ, gan ymddwyn yn y modd mwyaf trahaus; gweddw y brenin, Buddug, a ffrewyllasant, a'i ferched a dreisiasant, &c. Prif benaethiaid y deyrnas a ddfieddiannasant o'u hen etifeddiathau, a throisiant y teulu breninol o'r anedd freninol, gan eu trin fel pe y buasant yn gaethion. Y cyfryw drahausder annyoddefol a enynai ysbryd gwrthryfel yn yr Uch-cyniaid, ac ar yr un pryd, yr oedd y Tranofwysion, llwyth cryf arall o'r brodorion, yn gruddfan dan iau galed y Rhufeiniaid, y rhai y sefydlasant drefedigaeth yn eu tiriogaethau, sef yn Nghamlan, a elwir yn awr Malden, yn Essex, ac a fwriasant y brodorion o'u tai, gan drawsfeddiannu eu tiroedd a'u meddiannau; ac ymddwyn tuag atynt yn gymhwys fel pe buasant yn garcharorion rhyfel neu gaethweision.

Y deml a gyfodasid er anrhydedd i Claudius Caisar hefyd, oedd yn ddolur llygaid gwastadol i'r Prydeiniaid, gan ei bod fel arwydd o'u gwarogaeth bythol i'r Rhufeiniaid, a bod yr offeiriaid a weinyddent ynddi, dan y rhith o gynnul offrymau crefyddol, yn gorthrymu y bobl yn dost; a *Seneca* hefyd, yr hwn y gellid tybied oddiwrth ei ysgrifeniadau, y rhai ydynt eto ar gael, ei fod yn un o'r rhai mwyaf haelfrydig o blant dynion, a chwaneodd at yr anfodlonrwydd, trwy wasgu yn greulon am daledigaeth disymwth swm mawr o arian a fenthyciasai efe ar lŷg i rai o'r tywysogion Cymreig, er ei fod wedi addaw iddynt amser rhesymol i'w talu. Dan yr amgylchiadau gofidus hyn, cydyngynghorai y Cymry, gan ddywedyd, "Gwelir nad ydyw ein dyoddefgarwch yn enill dim i ni, namyn peri i'n gormeswyr farnu am danom ein bod yn fflyiaid hawdd ein trin, ac am hyny y mae ein beichiau yn cael eu chwaneagu beunydd. Gynt, ni osodai y Rhufeiniaid ond un tywysog i arglwyddiaethu arnom; ond yn awr wele ddau wedi eu doddi ganddynt i sugno ein gwaed, y Rhaglwg a'r Cynnullwr trethi: a pha un bynag ai cytuno a'u gilydd neu anghytuno y byddo y penaethiaid hyn, y maent yr un mor niweidiol i ni: y naill yn ein gormesu

ff'i fyddinoedd, a'r llall a'i orfaeliaeth; fel y mae pob peth heb eithriad yn ddarostyngedig i'w cybydd-dod a'u trachwant, a'r hwn a allo yspeilio mwyaf a ystyrir y milwr glewaf. Iô, yr ydym wedi dyfod mor ddiymadferth, fel yr ydym yn goddef i'n tai gael eu tori a'u hyspeilio gan y dyhirod mwyaf diegwyddor; a'n plant eu dwyn oddiarnom, a'u cyfresu yn myddinoedd ein gelynion, fel pe y byddont yn gymhwys i farw unrhyw farwol-aeth, ond a fyddo dros eu gwlad eu hunain. Mor deneu a fyddai y fyddin Rufeinaidd, pe byddai i'r holl Frythoniaid ymadael a'u harglwyddi! Mae y Siermaniaid wedi ysgwyd yr iau ymaith, er mai gan afon yn unig y diffynir hwy, ac nid gan y cefnfor, fel nynt: a phaham nas gallwn ninau wneyd yr un peth, y rhai y mae ein hachos yn llawer ardderchocach, sef gwaredigaeth ein gwlad, ein gwragedd, a'n rhiant? ac ar du ein gelynion, nis gellid dadleu unrhyw esgusion ond trachwant ac uchelgais. Pe byddai i'ni ond ymdebygu i ddewrder ein hynafiaid, nynt a allem hela y gormeswyr hyn o'r ynys, fel y gwnaeth ein tadau â Chaisar: a phe y gallem oddef llymder onid un neu ddwy o frwydau, nid oes un amheuaeth nas gwelid dewrder y truenus a'r diobaith yn fwy na hyder y beilchion trahaus. Mae y duwiau eu hunain yr awrhon mal ped amlygent dosturi at y Prydeniaid, gan gadw y Tywysog Rhufeinaidd a'i fyddinoedd ar waith yn ddiogel mewn ynys arall, a rhoddi i ni un arfod eto, yr hyn oedd y ffarf fwyaf, i gydyngynghori o barth ein cyflwr, yr hyn ond ei iawn ddefnyddio, a allai fod o wasanaeth i ni; ond os amgen, cawn weled y bydd yn fwy peryglus i ni ymddiddan am ein hadfyd nag a fyddai i ni ymdrechu i gael ymwared oddiwrthynt."\*

A'r cyfryw ymadroddion a'r rhai uchod yr anogent y naill y llall, ac yn gyntaf yr Uch-cyniaid, preswylwyr y rhan o'r ynys a elwir yn awr Norfolk, Suffolk, Caergrawnt, a Huntingdon, a gymerasant arfa i ddial camwri eu brenines, a dianrhydedd ei merched: yn nesaf y Tranofwysion, preswylwyr Essex, a Middlesex, a rhan o Surrey, a ddaethant i'r maes; ac yn fuan ymledai y gwrthryfel i'r gwledydd cylehynol fel tân gwyllt. Buddug hithau, yn gweled arfod manteisiol i ddial y traha a gawsai ar ddwyllaw y Rhufeiniaid, a aeth allan i flaenori y lluoedd yn bersonol. Dywedir am y fenyw hon, ei bod o "hiliogaeth freninol, ac o ysbryd tra derchafedig; yr ydoedd o gorpholaeth uchel a hardd, o wynebpryd gerwin, tremiad sarug, a llais gorarw; yr oedd ei gwallt melyn hir yn cyrhaedd hyd ei chluniau, a dygai am ei gwddf dorch aur fawr, a dilladid hi hefyd â gwisg amryliw, a thros hono bilyn trwchus, &c."

Taenid chwedlau ar led, er cryfhau ofergoeldd y trigolion, a'i enill yn mhlaidd yr ymgyrch: o'r rhai, gall a ganlyn fod yn rhyw enghraifft. Dywedid fod delw *Buddugoliaeth* yn Nghamlan, wedi cwmpo o honi ei hun, ac wedi troi ei chefn, fel pe buasai ar adael y Rhufeiniaid i fyned at eu gelynion; a bod gwagedd mewn math o orphwylltra yn tramwyo y dref gan ddatgan fod dystryw yn dyfod. Dywedid fod ocheneidiau ac udiadau dy-eithriol i'w clywed yn y cynghordy a'r chwareudy, a bod rhyw ddrychiol-aethau ofnadwy yn ymddangos yn yr afon, a'r môr gerllaw; y cyfryw chwedlau dieithriol, pa mor gelwyddog a disail bynag oeddynt, a lanwent y Rhufeiniaid o fraw, ac ar y llaw arall a galonogent y Prydeniaid yn ddirfawr, y rhai erbyn hyn oeddynt yn lluoedd mawrion dan dywysiad Buddug, wedi dystrywio rhai gwarchawdluoedd gwasgaredig, yn prysuro i ymosod ar brif orsaf y Rhufeiniaid yn Nghamlan. Pan glybu y drefedigaeth am eu dyneshad, anfonasant genadwri at *Catus Decianus*, i ddeisyf arno anfon i'w cynnorthwyo yn ddioced, gan nad oedd yn ddichonadwy i *Suetonius* gyr-

\* Tacitus Vit Agric.—A. Sammes, p. 224.

haedd o'r fath bellder, ac yn ddigon buan i'w gwaredu: ond nis gallai efe hebgor oddiar ddau cant o wŷr iddynt, a'r rhai hyny nid oeddynt wedi eu harfogi yn y modd goreu; canys efe a'i gwnelsai ei hunan yn wrthddrych atgasrwydd neillduol yn y dalaeth trwy ei anghyfiawnder, fel yr oedd rhaid iddo gadw cryfder o wŷr arfog o'i ddeutu er ei ddiogelwch personol. Felly y Prydeiniaid a ymosodasant ar yr orsaf yn Nghamlan, a chan mor ddiotal a fuasai y Rhufeiniaid i gadarnhau eu hamddiffynfeydd, fe'u cymmerwyd ar y rhuthr cyntaf, a'r canlyniad fu fod y ddinas yn eu iueddiant yn ebrwydd: a'r milwyr a ffoisant i'r deml, yr hon a gymmerwyd yn yspaid dau ddiwrnod, a'r adeilad orwech a wnaed yn domen, a'r oll oedd ynddi a roddwyd i'r cleddyf.

Tra yr oedd y Prydeiniaid yn nghanol y llwyddiant yma, ac yn llawn calondid, cyfarfuant â *Petilius Crealis*, rhaglaw y nawfed lleng, yn prysuro i gynnorthwyo gwarchawdlu Camlan, ymosodasant arno, a lladdasant ei holl wŷr traed, gan ei orfodi yntau a'i farchogion i ymfyn diogelwch yn ei amddiffynfa. Erbyn hyn, *Catius Decianus* yn gwybod yn dda mai efe a fuasai y prif achos o'r holl aflwydd yma, a wnaeth y goreu o'i ffordd i dir Gâl; ond *Suetonius* gyda di-mwadalwch a dewrder canmoladwy, a arweinai ei fyddinoedd o ymys Fon, drwy ganol gwlad y gelyn tua Llundain, yr hon oedd yn llawn o drigolion a masnachwyr Rhufeinaidd, er nad oedd mewn enw yn drefedigaeth Rufeinig: ac yr oedd yn lle enwog hefyd am ei llawnder o bob arlywion angenrheidiol. Wedi bod yma dros yspaid yn adgyfnerthu ac yn adnewyddu ei filwyr wedi eu taith flinderog, efe a benderfynodd arwain ei fyddin allan o'r ddinas, yn hytrach na gadael i'r gelyn gael y fantais o ymosod arno ynddi: ac yn fuan wedi ei ymadawiad, y Prydeiniaid a ruthrasant ar y ddinas, ac a'i hanrheiriasant yu ddiarbed, gan ladd y gwraegedd a'r plant; a'r un ffunud y difrodasant breswylwyr Verulam; canys y Prydeiniaid, heb ofalu am ymosod ar yr amddiffynfeydd, lle yr oedd y gwarchawdluoedd arfog, a anrheithiant y lleoedd mwyaf diamddiffyn, gan fod yn fwy awyddus i gymmeryd yspaid fawr oddiar eu gelynyon, nag i gymmeryd eu hamddiffynfeydd, a gwanychu eu grym milwraidd, yn yr hyn yr oeddynt yn cyfeiliorni.

Yn yr yspaid yma, dywaid *Tacitus* fod tua deng mil a thriugain o'r Rhufeiniaid a'u cyngrheirwyr wedi eu lladd: canys y Prydeiniaid nid arbedant hen nac ieuainc; ond ymddygent tuag atynt fel drwgweithredwyr yn hytrach nag fel gelynyon.

O'r diwedd llwyddodd *Suetonius* i gynnull tua deng mil o arfogion yn nghyd, a phenderfynodd roddi brwydr i'r Prydeiniaid mor fuan ag y gallai, tra yr oedd ei filwyr yn enyn gan ysbryd ymddial am waed eu ceraint a'u cyfeillion: ac efe a gyfeodd ei fyddin mewn nant gul, a choedwig fawr o'r tu cefn iddo, fel nas gallasai y gelyn gael cyfle i ymosod arno o'r tu ol, a gwastadedd mawr o'i flaen, lle y gwersyllai y Prydeiniaid, yn llu mawr annysgyblaidd, eto yn dra hyderus y byddai iddynt drwy eu nifer mawr enill buddugoliaeth rwydd ar fyddin fechan *Suetonius*: a dygasent eu gwraegedd a'u plant mewn pedrolfeni i'r maes, i fod yn dystion o'u buddugoliaeth, ac yn gyfranogion o'r yspaid a addawent iddynt eu hunain.

Cyn y frwydr, Buddug, gan sefyll ar ei cherbyd, a gwaewffon yn ei llaw, a gyfarehai ei byddin fel y canlyn:—"Y mae yn adnabyddus i chwi, yn awr, pa faint y mae rhyddid yn rhagori ar gaethwasanaeth; canys os bu neb o honoch gynt yn anwybodus pa un sydd oreu, gan gael eu twyllo trwy addewidion gwneithus y Rhufeiniaid; yr awrhon yn ddiâu, gan brofi yr hyn sydd oreu, yr ydych wedi dysgu pa mor bell y cyfeiliornasoch, gan barchu gormesiad estronol uwchlaw defodau eich gwlad; yr ydych yn wybodus faint y mae tlodi y rhyddfreniol yn rhagori ar olud y caethwas.

Pa beth sydd fwy gwaradwyddus, pa beth yn fwy blin, na'r hyn a ddyoddefasom er y pryd yr edrychasant hwy gyntaf ar Brydain? Oni ddfuddir ni o'n holl feddiannau goreu a helaethaf, ac o'r gweddill oni thalwn y dreth? Onid ydym, heblaw hyn oll, yn aredig ac yn trin y tir iddynt hwy, ac yn talu trethiad corphorol yn flyneddol iddynt?

"Pa faint gwell a fyddai, unwaith ymddarostwng i angeu, na pharhau dan ffugiol enwau rhyddid? Pa faint gwell gael ein llwyr ddyfetha, na dwyn oddiamgylch benau trethedig? Eithr paham y llefaraf yn y modd hyn? Nid oes rhyddhad oddiwrth drethiad i'r trancedig; ond y mae hyd yn nod y meirw yn drethedig. Yn mhlith dynion ereill, y mae angau yn rhydd hâu oddiwrth drethiad; eithr gyda y Rhufeiniaid, y mae y meirw yn byw tuag at eu trethu, &c.\*"

"Eithr nynt ein hunain, os dywedaf wirionedd, oeddynt yr achlysur o'r drygau hyn oll; y rhai yn y dechreu a oddefasom iddynt esgyn i'r ynys, ac na yrasom mo honynt ymaith yn ddiatreg o'r ynys, megis y gwnaethpwyd i *Julius Caesar*, ac fel y gwnaethom i *Augustus* ac i *Gaius Galigula*,† gan ddangos iddynt mai peryglus oedd ceisio mordwyo yma."

Ar ol amryw sylwadau i'n un defnydd, y Frenines a frysiodd i fynegi y modd yr oedd ei chydwladyr yn rhagori ar y Rhufeiniaid:—"Hwynt-hwy," ebai hi am y Rhufeiniaid, "ni allant gan bwys eu harfau, nag ymlid na ffoi; ac os cyrchant allan ar unrhyw bryd, yn y man, ffoant i ryw le nodedig, ac yno y gyrrir hwy genym, ac y'u cauir, megis mewn ffâu. Ac yn enwedig yn y pethau hyn y maent o lawer yn waelach na nynt; sef na allant oddef na newyn na syched, nac oerni na gwres, fel nynt; eithr arnynt hwy y mae angen am dai a dillad, ac f'd malariedig, a gwîn, ac olew; ac oni fwyntant y pethau hyn, trengu a wnant. Eithr i ni, pob llysieun a phob gwreiddyn sydd fara, pob gwlybwr sydd olew, pob dwfr sydd win, a phob pren sydd dŷ. Ac hefyd y mae yr holl leoedd yn adnabyddus i ni, ac yn gyfeillion a chydryfelwyr; ond iddynt hwy y maent yn ddyeithr ac yn elyniaethol. Nynt yn noethion a nofiwn yr afonydd; eithr hwyntwy, braidd y croesant mewn llongan. Am hyry ymosodwn arnynt yn hyderus a llwyddiannus: dangoswn iddynt mai ysgyarnogod a chadnoaid ydynt, yn ceisio llywodraethu ar gwn a bleiddiaid."

A chan ddywedyd y geiriau hyn hi a ollyngodd o'i mynws ysgyarnog, er gweinyddiaid argoel; a phan redodd hono mewn modd a ddaroganaid lwyddiant iddynt, yr holl dyrfa a floeddiasant gan orfoledd. A Buddug gan gyfodi ei dwylaw tua'r nef, a gyfarchai dduwies rhyfel yn y modd difrifolaf;‡ ac yna a arweinai ei byddinoedd i gyfarfod y Rhufeiniaid: yr oedd yn dilyn ei lhuman erbyn hyn tua chan' mil; ond bod llawer, os nid y rhan fwyaf o honynt yn wragedd a phlant, y rhai oeddynt wedi eu cythruddo trwy sarhad eu rhyw yn mhersonau Buddug a'i merched. Y rhai hyn a allasant wneyd rhywbeth yn eu hymosodiadan ar y Rhufeiniaid gwagareidig yn yr amryfal drefedigaethau; ond erbyn iddynt gyfarfod a'r fyddin reolaidd, wedi ei chyfleu mor ddoeth a manteisiol ag yr ydoedd gan Suetonius, yr oeddynt yn fwy o rwystr nag o gymhorth. Yn y frwydr hon yr oedd Buddug yn dwyn ei dwy ferch a dreisiaid gyda hi yn ei cherbyd; a phan oedd y lluoedd ar daro, hi a gyf-

\* Cyfeiriad yma, debygid, at ymddygiad y Rhufeiniaid tuag at ysgrif ewyllys ei gwr, Prasutagus.

† Mae lle i feddi oddiwrth hyn i'r ddan amberawdwr crybwylledig, nid yn unig fwriadu, ond cynnyg ymosod ar Frydain.

‡ Gwel Hanes Cymru, gan y Parch. T. Price.

archai ei milwyr drachefn, gan ddywedyd, ei fod yn beth arferol gan y Brytaniaid gael eu harwain i ryfel gan fenyw, eithr yn awr nad oedd hi ddim yn eu blaenori fel un wedi hanu oddiwrth hynafiaid ardderchog, er enill ei theyrnas a'i chyfoeth; eithr megis un o'r werin, er dialu am ffrewylliadau ei choroph, a'i sarhadau ei hunan a'i merched. Dywedai fod y duwiau eisoes wedi dangos y cospid y cyfryw anghyfiawnder, gan fod un leng wedi syrthio yn barod, yr hon a ryfygasai eu hwynebu mewn brwydr. a dywedai y byddai i'r lleill yn fuan, naill ai ymguddio o fewn eu caerau neu ffoi o'r wlad. A pha beth bynag a ddygwyddai, mai ei bwriad hi y dydd hwnw ydoedd naill ai buddugoliaeth neu syrthio; dyna oedd ei phenderfyniad fel menyw. Am y gwŷr, os dewisent yn hytrach, byddent fyw yn gaethweision.

Yr oedd Suetonius yntau, ar y llaw arall yn dra egniol yn anog ei wŷr i beidio cymmyrd eu brawychu gan derfysg y barbariaid, ond i ymwroli yn hytrach yn eu herbyn.

Yna y lluoedd a gydruthasant i'r frwydr, y Prydeiniaid a ddeuent yn mlaen gyda bloeddiadau croch; ond y Rhufeiniaid mewn dystawrwydd a threfn, nes dyfod yn ddigon agos i dafu eu picellau, ac yno y bu rhuthr echryslon. Y milwyr traed o bob tu a ymdrechent â'u gilydd, a'r marchwyr yn yr un modd. Y saethyddion Rhufeinig a ergydient at y cerbydau Brytanaidd, a'r rhai hyn a yrent i blith y Rhufeiniaid; eithr y Brytaniaid, gan eu bod heb lurigau, a ddyoddefasant niwed mawr oddiwrth y saethyddion. Yn mhen ychydig gwelid y Prydeiniaid yn ymderfysgu, ac yn cychwyn ffoi, ond yn cael eu luddias gan eu cerbydau eu hunain, y rhai â'u rhwystrant i encilio, fel nad oedd dim i'w wneyd ond ymostwng i'r lladdfa, yr hon a fu mor ofnadwy, fel y dywedir i bedwar ugain mil gymydo yn feirw ar y maes cyfng hwnw: canys nid arbedai y Rhufeiniaid na rhyw nac oed, ond lladdent bawb a syrthient i'w dwylaw: a dywedir am Buddug, er iddi ddianc â'i heinioes ganddi o'r maes gwaedlyd hwn, ei bod gan ym cywilydd a gofid o herwydd y fath golled, wedi rhoddi terfyn buan ar ei heinioes trwy gymmyrd gwenwyn. Felly dywaid *Tacitus*; ond y mae *Dion Cassius*, yr hanesydd Groegaidd, yn d'weyd na ddarfu i'r Rhufeiniaid enill y fuddugoliaeth hon mor rwydd ag y mynai eu haneswyr hwy eu hunain i ni greu; ond bod y fuddugoliaeth wedi bod dros gryn yspaid yn dra amheus, a bod y Prydeiniaid, er fod llawer o honynt yn anghelyfdd ar drin arfau rhyfel, wedi sefyll eu tir yn dra dewrwyth yn erbyn ymosodiadau y llengau dysgyblaidd. Efe a ddywaid hefyd i lawer o'r Brytaniaid ddianc o'r alanastr yma, ac iddynt ymroddi i ryfel â'u gelynyon drachefn; ond i Buddug yn y cyfamser farw o gleyfd, ac i'w chydwladyr ei chladdu gyda pharch ac anrhydedd o'r nwyaf. Efallai iddi gilio ar ol y faeddfa uchod tua gwlad y Gordofigwys, ac mai pan yn eu mysg hwy y bu hi farw, yn rhywle heb fod yn mhell o gymmydogaeth Caerwys, lle efallai yr ymladdodd *Agricola* y frwydr derfynol a lwyf ddarostyngodd y llwyth rhyfelgar hwnw; canys y mae yn y gymmydogaeth hono olion amryw hen orsafau milwraidd Prydeinaidd a Rhufeinaidd; ac yn agos i dref Caerwys y mae maengolofn arw, a elwir hyd heddyw, "*Careg bedd Buddug*," ac arno yn gerfedig mewn hen lythyrenau lled anghelyfdd, y geiriau hyn yn Lladin—"HIC JACIT ERBO . . . OBIT." Heblaw hyny, rai blyneddau yn ol, caed aur-dorch werthfawr, mewn lle a elwir Bryn Siôn, ar dir y diweddar Mr. Thomas, o'r Downing. Y diweddar Ardalydd Westminster a'i prynai, am bedwar cant o bunnau, ac y mae yn nghadw mewn bri mawr yn *Heaton Hall*: a gwelsom yn y crybwyllion blaenorol fod Buddug yn gwisgo y cyfryw addurn.—Bod rhyfeloedd gwaedlyd wedi bod yn y gymmydogaethau crybwylliedig, sydd eglur oddiwrth

enwau lleoedd, megis "Bryn y saethau," "Bryn y lladdfa," lle y mae esgyrn dynol yn dyrrau, fel y cludid y pridd er's blyneddau yn ol i'w ddechfyddio yn wrtaith; a dywedaf un gŵr iddo wedd yn baliad rhaw o esgyrn dynol digymmysg. . . id yn mhell oddiyno hefyd y mae y lleoedd a elwir "Pant y Gwae," "Braich y Dadlen," "Pwll y Crogwydd," "Coetia yr Orsedd," a "Phant erwin;" enwau ydynt oll yn dynodi rhyw aerfa a fu yn y gymmydogaeth yn yr hen amser gynt

Mae hyd yn nod yr haneswyr Rhufeinaidd eu hunain yn addef na ddarfu i'r fuddugoliaeth uchod gan Suetonius, lwy'r ddiwedd yr ysbryd annibynol a enynasid yn yr hen Gymry; ond bod mintioedd o honynt yma a thraw yn dangos tuedd barhaus i wrthryfela. Suetonius o'r herwydd a gadwai ei fyddin yn y maes, gan symud ei bebyll fel y gwelai yr angenrheidrwydd, a Nero a anfonai amryw filoedd o filwyr o'r Almaen i'w gynnorthwyo: ac yntau wedi derbyn y cyfnerthiad yma, a anfonai futeioedd arfog yma thraw i anrheithio â'r tan ac â'r cleddyf yr holl wledydd a wrthryfelasant, neu a ddrwgdybid o fod yn meithrin ysbryd wrthryfel. Ond o'r diwedd, galwyd Suetonius adref, o herwydd annghymeradwyaeth y Llys o'i ymddygiadau creulawn at y Prydeiniaid, medd rhai, a phenodwyd *Petronius Turpilianus* yn ei le; yr hwn, gan ei fod yn ŵr o anian lonydd, ddiegni, ni chyffrodd y Cymry i ymosodiadau gelymol; ac nid ydym yn gwybod am ddim hynod a ddygwyddodd yn ystod ei raglawiaeth ef.

Ar ei ol ef, daeth *Trebellius Maximus* i'r rhaglafiaeth, tua'r flwyddyn 65, fel y tybir: yr oedd yntau o dymher gyffelyb i'w ragflenor, ond ei filwyr ei hun, gan fino ar fywyd segur, a gyfodasant yn ei erbyn, fel y bu raid iddo yntau ymadael â'r ynys; a thua'r flwyddyn 69, daeth *Vectius Bolanus* i'r rhaglafiaeth: ac yntau trwy ei lwfrda, a gadwai y Prydeiniaid yn llonydd; ond a roddai achlysur i'w filwyr ei hun wrthryfela yn ei erbyn; fel y bu raid iddo yn mhen tua dwy flynedd roddi ei raglawiaeth i fyuu.

Fel hyn, mwynhaodd y Prydeiniaid heddwech dros yspaid terynasiad byr *Galba* ac *Otho*, ac yr oedd hyn yn dra dymunol iddynt, gan eu bod yn ystod eu rhyfeloedd â Suetonius wedi esgeuluso trin eu tiroedd, ac o'r herwydd wedi dyoddef newyn to-t; ond pan ddaeth *Vespasian* i'r orsedd amherodrol, efe a anfonodd *Petilius Cerealis* â byddin gref ganddo i'r ynys hon, yr hwn yn fuan a ymosododd ar y Brigantwys, y rhai a gyffid y llwyth cryfaf a lluosocaf o'r genedl Frytanaidd; a bu llawer o frwydrau celyd rhyngddo a *Fenutius*, breuin y Brigantwys, yr hwn a ddaliodd at y Rhufeiniaid yn bybyr, fel y methodd *Petilius* a llwyr oresgyn ei diriogaethau er ei holl ymdrechion, ac er enill o hono ambell i frwydr arno. Ar ei ol ef y daeth *Julius Frontinus* i'r rhaglafiaeth, yr hwn a enillodd amryw fuddugoliaethau ar yr E-syllwyr, ac a dreiddiodd i cithafoedd swydd *Forganwg*; a dywedir fod maen ar fynydd y Gelli Gaer, yn cynnwys rhan o hen argraff, er cof am ei fynediad y ffordd hono, sef "VIE FRONTI," hyn yw, ffordd *Frontinus*. Ar ol y rhai hyn, tua'r flwyddyn 78, daeth *Julius Agricola* i'r rhaglafiaeth. Yr oedd y gŵr hwn yn dra chyfarwydd ar anianawd y Prydeiniaid, gan ei fod wedi dysgu ei egwyddorion milwraidd yn yr ynys hon dan Suetonius, a gwasanaethu yma dan amryw o'r rhaglafiaid a'i dilynasant, yn enwedig Bolanus a *Cerealis*. Efe a wnaeth fwy tuag at ddarostwng yr holl ynys dan iau y Rhufeiniaid, ac enill y trigolion i hofi eu harglyddi estronol, nag a wnelsai neb o'i flaen ef. Dechreuodd ddwyn ei deulu ei hun dan iawn lywodraeth, a'r milwyr Rhufeinig dan lywodraeth o'r fath fanylaf; gan gyfodi rhai i swyddau yn y fyddin, a'r gyfrif eu teilyngdod yn unig, yr hyn oedd yn sicrhau eu fydd-

londeb. Symudodd rai o'r trethi oeddynt yn fwyaf gofidus i'r brodorion, ac a wnaeth ei oreu er atal trais a gormes; perswadiodd benderfigion y Cymry i arfer dull moethus y Rhufeiniaid o fyw a gwisgo, yn hytrach na'u dull dysyml eu hunain; ac fel hyn, llwyddodd i dori a nychu eu hysbryd annibynol a gwladgar, a'u darostwng heb yn wybod iddynt eu hunain yu gaethion yn ngwlad eu tadau.

Ychydig cyn ei ddyfodiad i'r rhaglawaeth, yr oedd y Gordofigwys, pobl Gogledd Cymru, wedi dyfetha llu o farchogion Rhufeinig, y rhai oeddynt wedi eu sefydlu ar eu gororau, ac Agricola a benderfynodd arwain ei wŷr yn eu herbyn, ac ymosododd arnynt yn eu sefyllfa eu hunain yn y mynydd-dir, gan ŷeu dystrywio â lladdfa echrydus, fel y torwyd grym y llwyth yma yn hollol. Ond gan fod amryw o'u penaethiaid wedi encilio i ynys Fon, lle y caffai y Gordofigwys achles yn eu holl gyfyngderau, a'r hon oedd i Ogledd Cymru yn yr oes hono yn ystoria a noddfa, yn gystal a chysegtra grefyddol, am ba achos y'i gelwid "Mon mam Cymru," efe a benderfynodd ddarostwng yr ynysig hono yn hollol dan arglwyddiaeth Ruf-einig; a chan nad oedd ganddo longau at ei wasanaeth, a'i bod eisoes yn rhy bell ar y tymhor ganddo i ymdroi i wneyd cychod i gludo ei filwyr drosodd, wedi gwneyd ymchwil manol am y beisleoedd yn yr afon, efe a archodd i'w wŷr traed gydio yn ngwrthafau y marchogion, ac felly groesi yr afon ar iseldrai, ac ymosod ar yr ynyswyr yn ddiodeg; y cyfryw ymosodiad annysgwyliadwy a lanwodd y Cymry â braw, fel y rhoisant yr ynys i fynu i'w ddwyllaw, ac yr atolygasant am heddwch; gan farnu mai ofer a fuasai iddynt feddwl gwrthsefyll dynion mor wrol, y rhai a groesent y môr mor ddiarswyd i ddyfod i'w gwlad. Dywaid *John Jones, Ysu., LL.D.*, yn ei Hanes Cymru, mai o Aber i'r Beaumaris yr oeddynt yn croesi; ac y mae yr afon yno ar drai isel yn gul a bäs, fel na buasai yn orchwyl an-hawdd, yn enwedig i'r meirchfilwyr a'r milwyr Siernasaidd oeddynt yn myddin Agricola, y rhai a arferwyd o'u mebyd â chroesi afonydd, ag oeddynt oll yn nofwyr medrus. Ond y *Parch. H. Rowlands*, a farnai mai yn agos i'r un fan y croesid y Menai gan Agricola y pryd hwn, ag y'i croesasid bymtheng mlynedd yn ol o'r blaen gan Suetonius, a haera bod y lle a elwir "Crug," neu yn hytrach "Crig," eb efe, wedi ei alw ar enw y rhaglaw hwn, er cof am ei wersylliad yn y lle hwnw. Pa beth oedd seiliau y gwŷr uchod dros eu barn nis gwn, ac y mae yn debyg nad yw yn hawdd penderfynu pa le y croesid y Menai gan y fyddin hon: os trwy wlad yr Essyllwyr yr arweiniai Agricola ei fyddin, gan oresgyn Dyfed yn ei ffordd, fel y dywaid rhai haneswyr, wrth ddarlunio ei ddyfodiad i wneyd yr ymosodiad uchod ar y Gordofigwys, yna y mae yn hawdd i ni gasglu mai ar hyd Sarn Gwyddelin yr arweiniai ei fyddin; ac felly o rywle yn agos i Gaer Seiont yr oedd yn debycaf iddo groesi yr afon. Wedi i Agricola gael yr ynys i'w feddiant mor rwydd fel hyn, efe a drefnodd bethau yn y modd doethaf i gadw meddiant o honi i'r Rhufeiniaid rhagllaw.

Yn agos i begwn gorllewinol yr ynys y mae lle a elwir Crigili, neu "gricil," a elwid felly mae yn debyg er ooffad o'r ymweliad yma gan Agricola: ac nid pell oddiyno y mae y lle a elwir Rhos colyn, neu "Rhos colofn;" efallai, am yr arf-rai y Rhufeiniaid gyfodi cofonau ar derfynau eithaf y gwledydd a ddarostyngid ganddynt. Yn y gymydogeaeth hono y mae *Bodior*, neu breswylfa y Llywydd Rhufeinaidd; ac o fewn ychydig filldroedd oddiyno y *Presaddfed* neu *Presedd fod*, gair a wneir i fynu mewr rhan o'r Lladin *Præsido*, llywydd, a *sedd fod*, ei lys barn; ar yr ochr arall i'r ynys y mae *Castellior*, hen amddiffynfa Rufeinaidd arall. Yr amser a ballai i mi grybwyll ychwaneg o olion arglwyddiaeth Rufeinaidd â ellir ganfod yn Mon.



Mae yn debyg mai ar ei ddychweliad o Fon y bu brwydr rhyngddo a'r Gordogfwys drachefn, yn agos i Foen Fenni, yn y mynyddoedd rhwng Dyffryn Clwgyd a swydd Fflint, ac y mae yno le a elwir "Bwlch Gricil" hyd yr oes hon, er cof o fod Agricola yno: oddiyno deuai rhagddo yn fuddugol trwy diriogaethau y Coreineifwys, a breswylent sir Gaerlleon, ac yn y flwyddyn 70, cymmerodd feddiant o *Mainceinion*, tref ac amddiffynfa ydoedd yn meddiant llwyth o Gymry a elwid *Syddynwys*, am mai ar drin tir a chadw anifeiliaid yr oeddynt yn byw. Yr oedd gan y llwyth yma orsaf neu dref fechan o fythod crynion rhwng yr afonydd Medlock ac Irwell, tua'r lle a elwir yn bresenol *Castle Field* yn *Manchester*, a seiliau yr hen amddiffynfa Gymreig a wnelaid o gerig a ddygasid yno o gloddfa *Collyhurts*, y rhai a drwsair yn rhwydd, ac a edrychant yn dda, am hyny y'i gelwid *Mainceinion*; ond y Rhufeiniaid, er Lladineiddio yr enw, a'i galwent *Mancunium*. O fewn yr amddiffynfa hono yr oedd tai eu hanifeiliaid, y rhai a borent y dydd yn y dyffryn, trwy yr hwn y dolena yr Irwell, lle y mae *Pel's Park* a'r rhedegtae newydd; ac o'i amgylch yr oedd amryw amddiffynfeydd bychain, o ba rai y gwelir ôl un ar lethr y *Kersal Moor*; yr oedd un arall yn y fan lle y mae castell Irwell yn bresenol; ac un arall yn ochr Pendleton. Ar yr un lle ag y gorweddai hen dref Gymreig *Mainceinion*, yr adeiladai y Rhufeiniaid amddiffynfa gref, ac o'i deutu y sefydasant dref-edigaeth, yr hon a fu yn enwog dros oesoedd am ei masnach mewn moch, y rhai a fegid ganddynt ar fês y coed derw a gesglid yn y coedwigoedd derw mawrion a amgylchynent y dref grybwylliedig: ac y mae tri maes ar ochr y *Kersal Moor*, a elwir eto ar y cyfrif hwnw, *Hog's Hey*, neu "Coetiau y Moch." Yr oedd un amddiffynfa Rufeinaidd gref yn nghwr plwyf Prestwich, o fewn ychydig filldroedd i dref *Manchester*, lle y gwelir ei holion yn amlwg eto, yr hon a elwir *Lowcaster*, ond a elwir yn awr *Castle Hill* (Bryn castell.) Y mae o gwbl yn yr ochr ogleddol i ddinas *Manchester*, ac yn agos iddi, olion chwech o amddiffynfeydd Rhufeinaidd, yr hyn a brawf fod yr hen *Mancunium* yn orsaf bwysig ganddynt.

Yn ystod y chwe' blynedd ganlynol, tra yr oedd Agricola trwy ei lywodraeth gyflawn, a'i ymddygiadau tirion at y llwythau Prydeinaidd a ddarostyngasid dan iau y Rhufeiniaid, yn gwneyd mwy nag a wnaed gan neb o'i flaen i'w henill i gydymffurfio â defodau y Rhufeiniaid, a pharchu eu hawdurdod, efe a estynodd ei fuddugoliaethau yn mlaen tua'r Gogledd, hyd y *Grampian Hills*, yn mhell yn yr Alban. Yn y drydedd flwyddyn o'i raglawiaeth, darostyngodd yr ynys can belled a'r afon *Tay*; a'i arswyd oedd wedi disgyn ar yr Albaniaid i'r fath raddau, fel nad oedd ynddynt galon i'w lesteirio i adeiladu amddiffynfeydd yn eu gwlad, hyd yn nod mewn amgylchiadau a fuasai yn fanteisiol iddynt; a chyda golwg ar ei amddiffynfeydd, y mae rhai cyfarwydd a chraff yn dywedyd nad amlygodd unrhyw gadlywydd erioed fwy o synwyr a barn yn adeiladaeth ei amddiffynfeydd, a detholiaid eu sefyllfeydd. Nid oes genym hanes i gymmairt ag un amddiffynfa o'i eiddo, gael un amser ei chymmyrd trwy draë, ei rhoddi i fyny i ddwylaw y gelynion, neu ei gadael trwy ffoedigaeth; ond efe a'u hystoriai oll â digon o arlwy am flwyddyn gyfan, fel y gallai ei wŷr wneyd rhuthriadau mynych o honynt ar y gwledydd cyfnesol, ac os y gwarchaeid arnynt ynddynt, y gallent ddysgwyl yn amyneddus am ymward. Trwy hyn yr oedd ei filwyr yn gallu treulio y gauaf yn ddiöfn, gan fod y naill amddiffynfa yn cynnorthwyo y llall, ac felly y gelyn, yr hwn yn wastad a amcanai wneyd i fynu y gauaf yr hyn a gollasid yr haf, a siomid yn ei amcanion, ac a ddyrysid yn ei gynlluniau. Fel hyn yn ystod y bedwaredd flwyddyn o'i raglawiaeth, efe a orphenodd res o warchadgaerau, rhwng yr afonydd *Clyde* a'r *Fforth*, fel y cadwai y gelynion o'r tu ol iddynt, megis mewn nyys.

"Yn y bummed flwyddyn o'i ryfeliad, Agricola, gan fyned drwodd yn y gadrwyg gyntaf ar fôr, a oresgynodd lwythau anadnabyddus hyd y pryd hyny, mewn amryw frwydrau llwyddiannus, ac a blannodd filwyr yn yr ardaloedd gyferbyn a'r Iwerddon."

Yn yr haf canlynol, sef tua'r flwyddyn 83, efe a anfonodd ei lynges yn mlaen ar hyd yr oror, ac a ganlynodd ar y tir gyda'i fyddinoedd, ac a gafodd amryw gyfarfodydd â'r trigolion. Ond yn wyneb hyny, llwythau y Celyddon a ymgynnullasant yn arfog, gan benderfynu gwneyd ymdrech egniol dros eu gwlad, a gwnaethant amryw ruthriadau mor fymrig a'r wersylloedd y Rhufeiniaid, nes eu llenwi â braw, fel y ceisiai y rhai ofnog o honynt berswadio Agricola i ddychwelyd yn ol; yntau yn gwybod y byddai i'r Celyddon ruthro arnynt â byddinoedd lluosog, a ranai ei wŷr yn dri dosparth; yr hyn pan wybu y Celyddoniaid, newidiasant eu cynllun, ac ymosodasant ar y nawfed leng yn y nos, a rhwng cwsig a dychryn, cawsant gyfle i ladd y gwylwyr, ac i ruthro i mewn i ganol y gwersyll, lle yr oedd- ynt yn lladd yn eu cyfer; ond Agricola, can gynted ag y gwybu, a anfonodd gyfnerthiad o farchogion a gwŷr traed yno ar frys, ac yna y bu yno ymladd caled; ond o'r diwedd, bu raid i'r Celyddoniaid encilio, a cheisio lloches yn y coedwigoedd. Ond er mor ddinystriol a fuasai y frwydr hon, nid oedd yr un o'r ddwy blaidd yn foddolawn i roddi i fynu, felly treulient y gauaf i ymbarotol i ryfel eilwaith; ac yn nechreu haf y flwyddyn 84, Agricola a anfonodd ei lynges drachefn tua gororau yr Alban, ac efe ei hun a ganlynodd gyda'i fyddinoedd, hyd oni ddaeth at y fynyddes a elwir y *Grampians*, lle yr oedd y Celyddonwys yn gwersyllu, yn benderfynol i ymdrechau hyd yr eithaf dros eu gwlad a'u rhyddid. Y Celyddonwys a feddent yn eu byddin ddeng mil ar hugain o arfogion, dan dywysiad cadflaenor dewr o'r enw *Gwallauc*; y fyddin Rufeinaidd, er nad oedd mor luosawg, ydoedd wedi ei harfogi yn well, ac yn llawer mwy celfydd yr drin arfau rhyfel. Bu yma ymladd taer, hyd oni roddes y nos derfyn i'r frwydr, a dywaid *Tacitus*, yr hanesydd Rhufeinaidd, yr hwn oedd fab yn nghyfraith i Agricola, fod tua deng mil o'r Prydeiniaid wedi eu lladd yn y frwydr hon, a dim ond tri chant a thrugain o'r Rhufeiniaid, yr hyn a ddangosai ragoriaeth arfogaeth dda. Erbyn goleu y dydd dranoeth, ni chanfyddid yr un o'r brodorion; yr oedd dystawrwydd dwfn trwy yr holl wlad, ac ni welid ond bryniau anial, a mwg tai llosgedig, y rhai yr oedd y trigolion eu hunain wedi eu rhoddi ar dân ar eu ffoedigeth o'r ardal.

Pan ddaeth yr hysbysiaid o'r llwyddiant yma i Rufain, yr amherawdwr Domitian a lanwyd o eiddigedd tuag at Agricola, o herwydd y mawrglod yr oedd wedi ei enill, ac efe a orchymynodd iddo roddi i fynu raglawiaeth Prydain, a dychwelyd i Rufain, dan y rhith o amcanu ei anrhydeddu; a chyn hir, bu y cadfridog enwog yma farw, yn bedair mlwydd a deugain oed; nid heb arwyddion lled amlwg ei fod wedi ei wenwyno, yn ol gorchymyn yr amherawdwr eiddigus; yr hwn a ofnai iddo fod yn fwy poblogaidd nag ef ei hunan gyda y Rhufeiniaid.

Gellir dywedyd mai hon oedd y fuddugoliaeth oresgynol olaf a enillodd y Rhufeiniaid yn Ynys Prydain; oblegyd gosodasant derfyn eu llywodraeth wrth y gwarchodres-gaerau, rhwng y Clwyd a'r Fforth. Ond y llwythau a drigiant ar y tu gogleddol i'r caerau hyny ni chydnabyddent eu rheolaeth; ond yr oeddylt yn byw yn annibynol yn eu mynyddau a'u coedydd, fel cyn dyfodiad yr estroniaid i'r ynys; ac ni ddarostyngwyd erioed mo honynt. Meddylia *Chalmers* mai y rhai hyn oeddylt y bobl a ymddangosent yn yr oesoedd canlynol dan yr enw Brithwyr, a'u bod o waedoliaeth Cymreig, yr un ffunud a'r rhai a breswyliant ar yr ochr ddeheuol i'r Clwyd; ac un rheswm efallai am eu dygasedd at y Cymry

mewn oesoedd dyfodol, ydoedd eu bod hwy wedi cydymffurfio a chydymgorphori megis â'r Rhufeiniaid, a'u cynnorthwyo ond odid yn eu hymosodiadau ar y Celyddonwys.

Ni wyddys ond y nesaf peth i ddim am helynt yr ynys hon dan y rhaglawiaid a ganlynasant Agricola yn y llywodraethiad o honi, am oddeutu deng mlynedd ar hugain, tebygir ei bod mewn cyflwr o heddwch cyffredinol dros yr yspaid crybwylledig; ond gorthrymder y swyddogion Rhufeinig o'r diwedd a gyffroodd anfodlonrwydd mawr yn mysg y trigolion, a dinstriwyd rhai o'r caerau Rhufeinig rhwng y Fforth a'r Clwyd, a gorthrechasant y fyddin Rufeinig mewn brwydr; ac yr oedd y fath derfysg wedi ymgyffraw yn y wlad, fel y barnodd Adrian yn angenrheidiol iddo ddyfod drosodd ei hunan i geisio adferu pethau i iawn drefn; yr hyn a wnaeth yn y flwyddyn 121; ar ol gyru y Celyddonwys i gilio yn ol i'w rhan eu hunain o'r ynys, efe a gyfododd warchodglawdd neu fur o bridd, o'r afon Tyne hyd at y Solway, yn 80 milldir o hyd. Ar ol marwolaeth Adrian daeth *Antoninus Pius* i'r orsedd amherodrol, yn y flwyddyn 138. Yn amser ei deyrnasiad, dechreuodd y llwythau Celyddonaidd aflonyddu yr ardaloedd Rhufeinig drachefn: a'r amherawdwr a anfonodd *Urbicus* yn rhaglaw ar yr ynys hon yn y flwyddyn 140, a byddin gref ganddo; a hwn hefyd a lwyddodd i yru y Celyddonwys yn ol drachefn, ac adeiladodd fur arall o bridd neu dywarch, ar sail o gerig, rhwng y Fforth a'r Clyde, ar hyd yr un tir a rhes caerau Agricola. Y mur hwn oedd dros ddeng milldir ar hugain o hyd, yn 20 troedfedd o uchder, a 24 o led. Yr oedd ffos ar y tu gogleddol iddo, yn 40 troedfedd o led, ac 20 o ddyfnder; ac yr oedd ffordd lydan dda ar y tu deheuol, i'r milwyr dramwy o gaer i gaer, o ba gaerau yr oedd 19 ar hyd y mur. Y fath weithfeydd mawrion a wnaed gan y Rhufeiniaid er diogelu eu meddiant o'r gwledydd a ddarostyngasant! Y wlad rhwng y muriau, sef deheudir yr Alban, a warchadwyd yn y modd cyfyngaf gan y Rhufeiniaid—yr ydoedd yn lawn ffyrdd milwraidd yn ei chroesi yn mhob cyfeiryd, ac amddiffynfeydd lluosawg, yn y rhai y cyfeid gwarchodluoedd Rhufeinig; a hyn a fu ei chyflwr dros agos i 300 mlynedd; er hyny, nyni a ganfyddwn fod y trigolion, sef Cymry Ystrad Clwyd, wedi cadw eu hiaith gysefin yn dra dilwgr, fel pe na buasant erioed dan lywodraeth y bobl hyny, yr hyn sydd eglur a diwad oddiwrth gyfansoddiadau *Aneurin, Llywarch Hen, &c.*, y rhai oeddynt o'r rhan hono o'r ynys.

Cafwyd maen mynor yn adfeillion hen fur Adrian, a'r argraff canlynol arno, er coffau y cyfnod dan ein sylw;

M. F. CL. PRISCO IGINIO ITALICO LEGATO  
 AUGUSTORUM PR. PR. PROV. CAPPADOCLE  
 PR. PR. PROV. BRITANNIE LEG. IIII GALLICÆ  
 PRÆF. COH. IIII. LINGONUM VEXILLO MIL.  
 ORNATO A DIVO HADRIANO IN EXPEDITIONE  
 JUDAIC.  
 Q. CASSIO. DOMITIUS PALUMBUS.\*

Wrth yr argraff-faen uchod, deallwn i sicrwydd fod *Priscus Licinius* wedi bod yn rhaglaw yn yr ynys hon yn ystod teyrnasiad Adrian. Y mae hefyd ddarn o arian bathawl o deyrnasiad Adrian, ar un wyneb i'r hwn y mae darlun o'r amherawdwr yn nghyda thri o filwyr, y rhai, yn ol barn *Camden*, a gynnrychiolent y tair lleng a wneient i fynu y fyddin Rufeinig yn yr ynys hon y pryd hyny: a thano yr argraff canlynol, "EXER BRITANNICUS." Ac un arall i'r un penadur, a'r arwyddair canlynol arno, "RESTITUTOR BRITANNI."

\* A. Sammes. p. 254.

O'r diwedd, aeth ymosodiadau y Celyddonwys ar y dalaeth Rufeinig, nesaf atynt, mor flin, fel y barnai yr amherawdr *Sefer* yn angenrheidiol iddo ddyfod drosodd i drefnu moddion i'w gwrthsefyll; ac yn nghylch y flwyddyn 208, efe a arweiniodd fyddin gref i gopsi y Celyddonwys: ond wedi ymdrafferthu yn fawr rhwng y mynyddoedd a'r coedydd a'r corsydd, heb allu gweled gelyn, gan fod y Celyddonwys yn rhy gyfrwys i ddyfod o'u cuddfeydd i gyfarfod â'r Rhufeiniaid mewn brwydr, efe a orfu ddychwelyd yn ol yn golledus. Y cadgyrchiad yma o'i eiddo a ddarlunir yn fywiog gan *Dion Cassius*, yr hwn a ddywaid—"Tra yr ydoedd yn treiddio trwy y wlad, cafodd drafferth annhraethadwy; gan dori coedydd, darostwng bryniau, gwneuthur pontydd dros yr afonydd, a chloddiau dros y corsydd; ond ni ymladdodd un frwydr, ac ni welodd fyddin o'r gelynyon; eithr hwynt-hwy a osodent ddefaid a gwartheg ar y ffordd, fel pan grwydrai y milwyr ar eu hol, i'w dal, y'u maeldid yn hawdd gan y broderion a gynllwynent iddynt. Blinid hwy yn ddirfawr hefyd gan y dyfroedd, a chan ymwasgaru oddiwrth eu gilydd, caent eu maglu; a rhai yn anallnog i ganlyn eu taith, a leddid gan eu cyfeillion, fel na syrthient i ddwylaw y gelynyon: ac yn y modd hyn, trengodd *deng mil a deugain* o'r milwyr." Yr oedd *Sefer* ei hunan y pryd yma mor fethiant gan y gymmalwat, fel yr oedd yn rhaid ei ddwyn oddiamgylch mewn cludai; eto cymmaint oedd ei awydd am ddarostwng y gweddill o'r ynys hon, fel y treiddiodd efe hyd ei heithafoedd gogleddol yn y cyffwr hwnaw: eto bu raid iddo ddychwelyd fel y darluniwyd; heb gwblhau ei amcan: ac wedi dyfod i Gaerefrawg, efe a barodd adgyweirio mur *Adrian*, gan ei adeiladu oll o feini yn lle tywarch; ac er ei fod wedi amcanu gwneyd ail gadgyrchiad yn erbyn y Celyddonwys, efe a fu farw yn Nghaerefrog, yn y flwyddyn 211, cyn rhoddi yr amcan hwn mewn gweithrediad; a'i fab *Caracalla* a ddyohwelodd ar frys i *Rufain*, rhag ofn y collai yr amherodraeth.

Gwnelid *Sefer* yn dduw gan y Rhufeiniaid: ond gwelwn mor ddbareh y'i trinidad gan hen *Gymry* yr *Alban*. Dywaid rhai fod ei gorph wedi ei gludo mewn rhwysg mawr oddiyma i *Rufain* i'w gladdu; ond y mae ereill yn haeru i'w gorph gael ei losgi yn *Mrydain*, ac mai ei ludw yn unig a gludid i *Rufain* mewn llestr aur, ac a gyflewyrdd yn meddrod *Antoninus*. Ar ol hyn, ni chlywn nemawr am ymosodiadau y Celyddonwys ar y Rhufeiniaid, canys boddlonent debygid ar eu curo yn ol hyd hen fur *Adrian*, ac enill iddynt eu hunain gymmaint o helaethiad ar eu tiriogaethau. Ond yn amser *Constantius*, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 306, gwelir hwy drachefn ar y maes dan yr enw y *Pictiaid*, neu y *Brithwyr*; dan yr hwn enw y'i darlunir o. hyn allan, ac nid dan yr enw Celyddonwys.

Dywaid amryw o'r hen haneswyr i Custeint wneyd heddwch trwyadl â'r Prydeiniaid, ac ymbriodi o hono ág *Elen*, merch i un o'r tywysogion *Cymreig* a elwid *Coel*, ac yn y canlyniad wedi dyfod yn benadur *Frydain*, ac yn gydamherawdwr â *Galerius*, i'r hwn y gadawai daleithiau yr *Eidal* ac *Affrica*, am eu bod yn rhy bell o *Frydain*, lle yr hoffai efe drigo. Efe a fu farw yn Nghaerefrog, wedi teyrnasu un mlynedd ar ddeg ar *Frydain*, a dwy flwydded fel amherawdwr y Taleithiau *Gorllewinol*. Dangosai Custeint gareddigrwydd nid bychan i'r *Cristionogion*, y rhai, cyn ei ddyfodiad ef i'r llywodraeth, a ddyoddefasant erledigaethau llymion. Dywedir am dano ddarfod iddo ar un achlysur, er profi didwyllder ei lyswyr, beri hysbysu fod aberth cyhoeddus i gael ei offrymu i'r duwiau, a phwy bynag a fyddent yn absenol o'r ouchelwyl, ac a omeddant offrymu i'r duwiau, y byddai iddynt gollu ffafr y llys; ond y byddai i'r rhai a gyddfurfient gael parhad o'r ffafr. Yn wyneb y cyfryw gyhoeddiad, amryw o'r rhai a gymmerent arnynt o'r blaen fod yn *Cristionogion*, a gydymffurfient â chyhoeddiad y tywysog;

yntau yn y fan a fwriodd bob un o'r cyfiw rai o'i wasanaeth, gan ddywedyd, fod y sawl a allai fod yn anffyddlaw i Dduw yn sicr o fod yn anffyddlaw i'w dywysog; a chymmerth i'w wasanaeth, ac i'w ffaf, y Cristionogion hyny a fuasent yn ffyddlaw i'w profes yn nydd eu profed-igneth. Ei' wraig ef ydoedd Elen Luyddawg, a elwid felly, meddir, am iddi yn ei hen ddyddiau (dan deimladau crefyddol, ond trwy gamarweiniad yr athrawon crefyddol, y rhai y pryd hyny oeddynt yn dechreu ymlygru yn brysur) fyned â llu mawr ganddi i'r Tir Sactaidd, i chwilio am y groes, ar yr hon y dyoddefasai Prynwr y byd.

Mab Custeint o hon, medd rhai, oedd Cystenyn, yr hwn hefyd a elwir "Cystenyn Fawr," ac weithiau "Cystenyn Fendigaid." Dywedir ei fod ef yn Rhufain gyfa'r amherawdwr Galerius, pan y clubu efe am glafychiad ei dad, ac efe a brysurodd oddiyno, fel y gallai weled ei dad cyn ei farw; yr hyn hefyd a gafodd, er ei lawenydd mawr. Dywedir fod ei dad Cuseint, pan y canfu ei fab yn yr ystafell, wedi cyfodi yn ei eistedd yn y gwely, a darod iddo yn mhresenoldeb ei gynghorwyr lefaru fel hyn— "Mae genyf yma fedd-argraff a chofadail fawr, sef fy mab fy hun, yr hwn yr ydwyf yn ei adael i'm dilyn yn y llywodraeth; a'r hwn, drwy gymhorth Duw, a sych ymaith ddagrau y Cristionogion, ac a'u diala ar eu gormeswyr: ac yn hyn, uwchlaw pobpeth yr ydwyf yn ymgysuro." Ac wedi dywedyd y geiriau hyn, Custeint a fu farw, a'i fab Cystenyn a gyfodwyd i'r llywodraeth yn ei le, trwy ddewisiad brwdfrydig y fyddin Brydeinaidd; a chyn pen hir efe a enillodd yr holl amherodraeth orllewinol a dwyreiniol hefyd, ac a symudodd y llys amherodrol o Rufain i Byzantium, yr hon yn y canlyniad a alwyd ar ei enw, Caercystenyn.

Nid oes genyf ddim rhyw lawer o hanesion gwerth eu cronico am Frydain, yn y cyfwng, o'r pryd hwn hyd oni ddaeth Gratian i orsedd orllewinol Rhufain; canys er uno yr amherodraeth yn Nghystenyn Fawr, hi a ranwyd drachefn yn ei feibion, ac a barhaodd yn rhanedig wedi hyny, y nail a'i llys amherodrol yn Ngaercystenyn, a'r llall yn Rhufain. Nid oedd Gratian yn llanc ieuanc efe dechreuodd efe deyrnasu, heb fawr o egui cynneddfol, ac efe a ymollyngodd i fuchedd ofer ac anfuiddiol, gan dreulio ei amser mewn helwriaeth, o'r hwn ddifyrwch yr oedd yn dra hoffus, a gwelid yn fuan nad oedd efe yn feddiannol ar y cymbwysderau angenrheidiol i gynnal y llywodraeth, yn enwedig yn y dyddiau hyny, pan wesgid ar yr amherodraeth o bob tu, gan ei gelynicion barbaraid.

Y pryd hyny yr oedd yn llywydd ar y byddinoedd Rhufeinig yn Mrydain, swyddog o'r enw CLEMENS MAXIMUS, yr hwn a elwir yn yr hanesion Cymreig, MACSEN WLEDIG, yr hwn, yn ol tystiolaeth rhai, oedd yn anedig o'r Hispaen; ond yn ol ereill, oedd yn anedig o'r ynys hon, ac o waedoliaeth Cystenyn; ac wedi bod yn gwasanaethu gyda chlod dan y blaenor Theodosius, mewn amryw ryfeloedd yn Mrydain ac ar y cyfandir. Ymddengys fod Macsen yn ŵr o anianawd tra uchelfrydus, ac iddo gael ei drangwyddo yn fawr trwy i Gratian gyfodi Theodosius i'r amherodraeth, tra y cyrifai ei hun yn deilyngach o'r anrhydedd hwnw: a chan ei fod yn dra phoblogaidd gyda'r fyddin Rufeinaidd oedd dan ei lywodraeth, efe a ryfygodd, yn y flwyddyn 383, wrthryfela yn erbyn ei hen feistr Gratian, a chymmeryd ei gyhoeddi yn amherawdwr gan y byddinoedd Prydeinaidd. A chan ei fod yn ymwybyddus nas gallai gadw ei sefyllfa yn hir, gyda y meddiant o Ynys Prydain yn unig, efe a benderfynodd gymmeryd meddiant o'r amherodraeth orllewinol oll.

Mae yr hanesion Cymreig yn dywedyd ei fod wedi priodi HELEN, merch EUDAF, pendefig cadarn o Gaer Seiont, neu Gaerynarfon; ar enw yr hon y mae lle gerllaw y dref hono yn myned hyd heddyw, sef "COED HELEN."

Yr oedd i'r bendefges hon frawd a elwid CYNAN, Arglwydd MEIRIADAWG, yn awr Arglwyddiaeth Dinbych, yr hwn ar y cyfrif hyny a elwid yn yr hen ysgrifau Cymreig, CYNAN MEIRIADAWG. A thrwy gynnorthwy a dylanwad y blaenor hwn, cyfodwyd byddin gref o Gymry i gynnorthwyo y byddinoedd rheolaidd; a Macsen, yn nghyda'i fyddinoedd, a aeth drosodd i'r cyfandir, ac a diriodd yn Llydaw, lle y bu rhai brwydrau rhyngddo a byddinoedd Gratian; y rhai a orchfygid ganddo, a chyrcchai yn fuddugoliaethus tua Pharis, lle yr oedd yr amherawdwr penwan hwnw yn ymddifyru mewn helwriaeth, yn lle blaenori ei fyddinoedd i wrthsefyll cadgyrchiad Macsen. Wedi i Gratian gael ei orchfygu mewn brwydr, a'i adael gan ei filwyr, efe a ffodd tua'r Eidal; ond goddiweddyd ef yn neheubarth Gál gan rai o wŷr Macsen, y rhai a'i rhoddasant i farwolaeth.

Yr unrhyw hanesion Cymreig a'n hysbysant yn mhellach, fod Macsen ar hyn wedi rhoddi i Cynan Meiriadawg, a'r Cymry oeddynt dan ei flaenoriaeth, diroedd yn Llydaw, yn wobrwyr am eu gwasanaeth, ac felly iddynt wladychu yno yn lle dychwelyd yn ol i Frydain. Ond Macsen ei hun a gyrciodd gyda'i fyddinoedd tua'r Eidal: ond Theodosius, amherawdwr y Dwyrain, a gyrciodd yn ei erbyn â byddin gref, ac a'i gorchfygodd; ac yn yr ymgyrch yma lladdwyd Macsen, yr hyn a ddygwyddodd yn y flwyddyn 388. Y mae chwedl yn gysylltiedig â hanes sefydliad Cynan yn Llydaw, yr hon a gawn yn y Brut; sef ar ol iddo ymsefydlu yn Llydaw, gan nad oedd y Prydeiniaid yn dewis ymgyfathrachu gyda phobl y wlad hono, anfonasant i Brydain am wragedd; ac yn ganlynol i'w eais, ddarod i dywysoges o'r enw URSULA, yn nghydag 11,000 o forwynion pendefigol, a 60,000 o rai o iselradd,\* hwylio tua gororau Llydaw; ond cyfododd tymhestr fawr, drwy yr hon y drylliwyd amryw o'r llongau, ac y gyrwyd y lleill ar hyd y moroedd, nes iddynt syrthio i ddwyllaw GWYNWAS, brenin yr Huniaid, a MELWAS, brenin y Pictiaid, gan ba rai, am nad ymostyngai y morwynion i'w trachwant, y cawsent eu llofruddio yn ddirugaredd; ac er cof o hyn y cedwir "Gwyl y Gwryfion."

Mae y Trioedd Cymreig yn crybwyll am y cadgyrchiad uchod o eiddo Macsen a Chynan yn y modd canlynol:—

"Tair Cyforddwy a aethant o Ynys Prydain; cyntaf, yr un a aeth y gan Ur (Yr) ab Erin Luyddawg o Lychlyn; ac efe a ddaeth i'r ynys hon yn amser Gadiol ab Erin, i erchi cymorth yr ynys hon, dan adduned na cheisiai o bob prifgaer, namyn y rhif a ddelai ganthaw iddi: ac ni ddelai ganthaw amgen nag un i'r gaer gyntaf, namyn ei hun a'i was Mathatta fawr, ac o hono, cael dau, ac i'r eilgaer, pedwar, ac o'r drydyddgaer, myned yn wyth, ac o'r nesaf, unarbymtheg: a herwydd hyny o gyfredyd o bob caer arall, hyd onid o'r gaer diweddfaf, nis gellid eu rhif yn yr holl ynys. A chydag ef y daeth triugeint ac un mil, ac nis gellid iddo fwy na hyny yn yr holl ynys o wŷr cyfalleu, gan nad oedd namyn plant a henafgwyr ar ei ol. A lhwyrta llyudd a fu erioed oedd Ur ab Erin Luyddawg; ac ar ddiystyrdod y bu gan genedl y Cymry roddi hyny iddaw dan adduned anesgorawl, canys o hyny cafas y Coraniaid le i ddwyn cyrch gormes i'r ynys hon. Ac o'r gwŷr hyny ni ddaethant drachefn yr un o naddynt, nag o lin, nag o eppil iddynt. Sef ydd aethant ar gyrc cyforddwy hyd yn Mor Groeg, ac aros yno yn nhir Galas, ac Afena hyd heddyw, a myned yn Roegiait.—Ail Cyforddwy a ddyweinwyd y gan Caswallawn ab Beli ab Manogan, a Gwenwynwyn a Gwanar, meibion Lliaws ab Nwyfre, ac Ar-

\* Mae ereill, gyda mwy o debygolrwydd i fod yn gywir, yn dweyd 11,000 o gwbl, sef wyth mil o radd isel, a thair mil o rai pendefigalldd.

Ianrod, ferch Beli, eu mam. Ac o Arllechwedd Galedin, ac Easyllwg, ac o Gydwelyddion y Belenwys ydd han-oddynt; a rhif y gwyr hyny oeddynt driugeint ac un mil; a myned a wnaethant y gyda Chaswallawn eu hawythr, ar ol y Caisariaid drwy Fôr, hyd yn nhir Geli Llydaw, a hau-oeddynt o Rial y Cymry: ac ni ddaeth un o honynt na'u heppil yn eu hol i'r ynys hon, eithr aros a wnaethant yn ngwlad Gwasgwyn, yn mysg y Caisariaid, lle y maent hyd yn awr; ac yn nghylch dial yr orddwy hono y daethant y Caisariaid gyntaf i'r ynys hon.—Trydydd Cyforddwy a ddyweiniwyd o'r ynys hon y gan Elen Luyddawg a Chynan ei brawd, Arglwydd Meiriadawc, hyd yn Llydaw, lle y cawsant diroedd, a chyfoeth, a theyrnedd y gan yr Ymherawdr Maesen Wledig, am ei ganlofi (gyn-northwo) yn erbyn gwŷr Rhufain. A'r gwŷr hyny a hannodd o Dir Meiriadawc, ac o Dir Seisyllwg, ac o dir Gwyr a Gorwenydd; ac ni ddaeth yn eu hol yr un o honynt; eithr aros yn Llydaw ac yn Ystere Gyfaelawg a wnaethant hwy, gan wladychu yno. Ac achos hon o gyforddwy y bu wanhad a diffyg gwŷr arfawc ar Genedl y Cymry, onid aethant y Gwyddyl Ffichti yn ormes arnynt; ac o hyny y gorfu ar Wrtheyrn Gwrthenau gyrchu Saeson i ladd (ynladd) yr ormes hono. A'r Saeson yn gweled gwendid y Cymry, a droisiant yn Fradormes drwy gystlyniad y Gwyddyl Ffichti, a'r gwŷr difrawd a hwynt, a dwyn eu tiroedd oddiar y Cymry, a dwyn hefyd oddiarnynt eu baint a'u coron.

A *Thair Traha Gadarn* Cenedl y Cymry y gelwir y tair cyforddwy yma; a hefyd y *Tri Ariannlu*, achos dwyn o honynt o'r ynys yr aur a'r ariant hyd y gellid eu cael o dwyll a dichell a difrawd, yn gystal ag o iawn a bodd; a'r *Tair Annoeth Luyddawg* a'u gelwir, am wanhad drwyddynt yr ynys hon gymmaint ag y rhoed lle drwy hyny i'r Tair Gormes Gadarn, sef y Coraniaid, a'r Caisariaid, a'r Saeson"—*TRI. 14.*

Mae yr hen hanesydd *Nennius*, yr hwn a ysgrifennai yn y ddegfed ganrif, yn dwyn ei dystiolaeth i'r ymfudiad hwn, gan ddywedyd, "Y rhai hyn ydynt y Brython Armoricaidd, ac yno yr arosant hyd y dydd heddyw; a achos eu habsenoldeb, Prydain a oesgynwyd gan genedloedd estronol, a'i hetiffeddion a fwrwyd allan, *hyd nes caniateir cynnorthwy oddiwrth Dduw.*"\*

Y mae yn y Mabinogion hefyd chwedl a elwir "Breuddwyd Maesen Wledig," yn cyfeirio at yr un peth; ac er fod y lreuddwyd dywededig yn ymddangos o gyfansoddiad mynachaid, mor ddiweddar efallai a'r 14eg ganrif, ac yn dryfrith o ffigiadau ofergoelus, y mae yn brawf fod traddodiad byw yn mhlith y genedl trwy yr oesoedd am y cyfryw ymfudiad o Gymry mewn cysylltiad a chadgyrchiad Maesen Wledig. Dywedir hefyd bod *Elen* merch *Eudaf ab Caradawg*, yr hon a briodasai Maesen, wedi peri gwneyd amryw ffyrdd trwy yr ynys, y rhai a elwir ffyrdd neu "Sarnau Elen;" y mae un o'r cyfryw, neu yn hytrach olion o honi, i'w gweled yn nghymyddogaeth Dolyddelen.

Y mudiad crybwylledig o gynnifer o arfogion allan o Frydain, a adawodd yr ynys mor egwan a diamddiffyn, fel nas gallai y trigolion a adawais ynddi wrthsefyll rhuthriadau y gelynyon barbaraid a ddefnyddiasant yr arfod yma yn chwannog i'w blino: ond *Theodosius*, yr hwn a ddaethai i'r orsedd amherodrol ar ol Maesen, a ystyriai Ynys Prydain yn rhan ry werthfawr o'r amherodraeth i fod yn ddiofal yn ei chylch; ac felly efe a anfonodd gynnorthwyon drosodd, drwy y rhai y gorfodwyd y Scotiaid a'r Pictiaid i encilio i'r parthau gogleddol o'r ynys eto unwaith; a thrwy ystod teyrnasiad yr amherawdwr galluog hwnw, cafodd y rhai a gyfanoddent y rhan Rufeinig o'r wlad lonyddwch oddiwrth eu gelynyon. Ond bu

\* Gwel Hanes Cymru, gan y Parch. T. Price, t.d. 144.

farw Theodosius, pan nad oedd ei fab a'i etifedd, *Honorius*, namyn bachgenyn meddal, llog mlwydd oed; a phenodwyd un o'r enw *Stilio* i fod yn warcheidwad iddo, neu raglaw i ddwyn y llywodraeth yn mlaen tra fyddai dan oed. Hwn drwy ei uchelfrydedd, a andwyodd ei hunan a'i benadur ieuanc, ac a lanwodd yr amherodraeth âg ysbryd gwrthryfel, fel y bu raid galw y milwyr Rhufeinaidd o Frydain, i amddiffyn rhannau ereill o'r amherodraeth, nês at y brif ddinas. Yna y Prydeiniaid, pan welant nad gwiw iddynt ddysgwyl cynnorthwy o Rufain, a ffurfiasant llywodraeth annibynol yn eu plith eu hunain, ac a etholasant un o'r enw *Marcus* yn amherawdwr, yr hwn, fel y bernir, oedd yn rhaglaw Rhufeinig yr ynys y pryd hnw; ond hwn a'u hanfoddlonodd yn fuan, trwy ryw ymddygiadau o'i eiddo, fel y cyfodasant yn ei erbyn, ac y'i rhoddasant i farwolaeth. Yna yr etholasant un arall o'r enw *Gratian* i'r llywodraeth; ond yn mhên y pedwar mis, rhoddwyd hwn hefyd i farwolaeth. Yna yr etholasant filwr o radd isel, medd rhai: ond ereill a ddywedant ei fod yn frawd i *Aldroen*, brenin Llydaw; \* ei enw oedd *Cystenyn*, ac ar gyfrif poblogrwydd ei enw, a'i egui cynneddfawl, efe a enillodd arglwyddiaeth dra thrwyadl ar y Prydeiniaid. Dywedir ddarford iddo gymmeryd yn wraig bendeifges Rufeinaidd, o'r hon, yn ol y *Liber Landavensis*, y bu iddo ferch, yr hon a briodai Pebiau, fab Erb, brenin Gwent ac Ergyng, yr hwn oedd yn gefnderw i Tewdrig ab Teithfallt, brenin Morganwg, a thaid St. Dyfrig. Nid yw yn anhebyg mai y Cystenyn hwn a seliodd eglwys Llangystenyn yn Ergyng, gan ei gwaddoli, a'i daw Pebiau a'i rhoddes wedi hyny i Landaf, o'r hyn roddiad y cair prawf yn y *Liber Landavensis*, t.d. 814.

Bu i Cystenyn amryw feibion hefyd, yr henaf o ba rai a lwai *Constans*, yr hwn a ddaeth i'r llywodraeth ar ol ei dad. Dywedir mai ei feibion ef hefyd oeddynt Emrys Wledig, ac Uthr Bendragon.† Dywedir i un o'r Pictiaid: yn mhên tua deng mlynedd, dan y rhiith o geisio rhyw ymddiddan cyfrinachol âg ef, ei hudo i ymrodio mewn llwyn o goed neillduedig, lle y'i gwanodd â dagr, neu gyllell hir, fel y bu efe farw.

Wedi marwolaeth Cystenyn, fe ddywaid rhai o'n haneswyr fod cryn ymryson wedi bod rhwng y pendeifigion yn nghylch yr olyniaid i'r llywodraeth, gan fod *Constans*, mab hynaf Cystenyn, yn mynachdy Caerwynn, wedi ei neillduo i fuchedd eglwysig; ond *Gwrtheyrn* a'i cymmerodd o'r mynachdy, ac a fynodd ei wneuthur yn frenin, gan sicrhau iddo ei hunan yr holl wir awdurdod, fel ei raglaw: a chyn pen hir, efe a gafodd gyfluedra bradwrus i lofruddio y brenin ieuanc, ac heb gydsyniad pendeifigion ereill yr ynys, efe a drawsfeddiannodd yr orsedd. Ond gan y daw hanes *Gwrtheyrn* a'i weithredoedd dan ein sylw yn naturiol mewn darlith arall, nid ynzhel-aethwn ar hyn yma.

Odddeutu y pryd yma, debygid, y Brytaniaid yn cael eu blino yn barhaus gan y llwythau gogleddol, ac anghydfod yn eu plith eu hunain yn eu gwneyd yn rhy weiniaid i'w gwrthsefyll, a anfonasant unwaith eto i ofyn cynnorthwy gan eu hen gyfeillion, y Rhufeiniaid; ac y mae *Gildas* wedi cadw crynodeb o'r llythyr a anfonent at y llywydd *Atius*, ar yr achlysur, yr hwn sydd fel y canlyn:—

“At *Atius*, tair gwaith Consul; ocheneidiau y Brytaniaid. Y Barbariaid a'n gyrrant i'r môr, a'r môr a'n gyrra yn ol at y Barbariaid; rhwng y rhai hyn, cyfoda dau fath o drancedigaethau, naill a'i fe'n cigyddir, neu fe'n boddir.”

\* Girald. Cambrensis, lib. vi. p. 43. Owen's Hist. of Wales, p. 112. Warrington's History of Wales, p. 32.

† Williams's Biographical Dictionary of Welshmen.



— Ond ni dderbyniodd yr ynys hon gynorthwy mwyaoh o Rufain; canys yr oedd gan ei byddinosodd fwy na digon i wneuthur, i wrthsefyll rhuthrau eu gelymion barbaraidd yn nghalon yr amherodraeth; canys yr oedd rhyw gyffroad rhyfeddol yn awr wedi dyfod i gynhyrfu cenedloedd y ddaear, a'u gyru yn unfryd yn erbyn amherodraeth Rhufain. Felly, y ddiwaidaf o'r byddinosodd Rhufeinaidd a ymadawodd o'r ynys hon tua'r flwyddyn 446, ac yn y flwyddyn 476 y llwyr ddfioddwyd amherodraeth y Gorllewin, dan deyrnasiad Augustulus, yr olaf o amherawdwy'r Rhufain.

Dyma ni wedi bod yn ceisio rhoddi brasddarluniad o'r "bwyatfil ofnadwy ac erchyll, a chryf ragorol," a weisai Daniel: yr hwn yr oedd iddo ddannedd mawrion o haiarn, ac oedd yn bwyta, ac yn dryllo, ac yn sathru y gweddill dan ei draed; yn rhoddi ei bawen ofnadwy ar Ynys Prydain, gan wasgu ein hynafiaid dewrion yn arswydus.

Y mae hanes trigias y Rhufeinaid yn yr ynys hon, effeithiau y trigias hwnw ar iaith, moesau, ac amgylchiadau y cynfrodorion, dadfeiliad eu rhwysg cyffredinol, a'u henciliad o Frydain, yn cynnwys testynau y buasai yn ddiFYrus ymchwilio yn llawer pellach iddynt nag y cawsom ni hamdden i wneyd yn narpariad y Ddarlith hon: ond ni oddef y ffiniau a osodasom i ni ein hunain, i ni ymhelaethu, gan hyny, terfynwn y Ddarlith yma, gyda rhai casgliadau oddiwrth yr hyn a fu dan sylw:—1. Gwelwn nad oedd diffyg o ddewrder personol yn mysg ein cyndadau; canys er nad oeddynt ond noethion o ran arfogaeth mewn cymhariaeth â'r Rhufeiniaid, ac anngyfarwydd hefyd ar y celfyddydau milwraidd, ni chafodd y Rhufeiniaid, gymmaint o orchest i oresgyn holl wledydd Ewrop, ag a gawsant i oresgyn Ynys Brydain. Ac yn nodweddion Caswallon a Charadawg, Buddug a Gwallawc, ac ereill o'u pendefigion, cawn enghreifftiau o'r gwladgarwch mwyaf twyn, a'r dewrder mwyaf difafal, fel nad wyl yn meddwl y gall yr oesoedd diweddar ddangos eu haelfydd, a chymeryd i ystyriaeth eu hanfanteision, ac enwogwydd milwraidd y rhai a wrthsaent.

2. Gwelwn mai y *prif*, os nad yr *unig* achos i'r Rhufeiniaid allu cael gorphwysdra i wadn eu troed o fewn ein hynys, oedd annglytundeb yr amryfal lwythi yn eu plith eu hunain, ac eiddgedd y mân benaethiaid o'u gilydd; fel y cyfodai bradwyr, yn enwedig o fysg dychwledigion diweddar i'r ynys, megis y Belgwys, y rhai nid oeddynt wedi cydymgorphori yn drwyadl â'r cynfrodorion, gan y rhai y cawsent hwy nawdd a chroesaw yn eu cyfyngderau mwyaf.—Y mae coffa y gwroniaid gwladgarol a fyddlawn yn hyfryd, a'u henwau eto yn aroglu yn beraidd i'w holafiaid; tra y mae enwau bradwyr ein gwlad a'u cenedl yn fliaidd, a'n coffa yn cynhyrfu dygasedd o'u mewn.

3. Gwelwn ddoethineb y Llywydd goruchel, a'i ddaioni tuag at ein cenedl, yn ei waith yn goruwch-lywodraethu ysbryd uchelfrydig a chalon drachwantus y Rhufeiniaid, yn eu hymosodiad ar Frydain, i fod yn foddion gwanychiaid gefynau eu coelgrefydd, a'u parotoad i dderbyn yr Efyngyl, ac egwyddorion gwir grefydd. Trwy fradychiad Caradawg gan Aregwedd Föeddawg, achlysurwyd dwyn ei dad Bran ab Llyr yn wystl dros ei fab i Rufain, lle y dlywodd yr efyngyl, ac y'i dysgwyd yn egwyddorion y grefydd Cristionogol: a thrwy oresgyniad Ynys Fôn gan Suetonius yn gyntaf, ac yn llwyrach gan Agricola, dystyriwyd yr Athrofa Dderwyddol, a chwaliwyd yr athrawon, fel nad oedd cymmaint o rym gwrthwynebol i ledaeniad egwyddorion Cristionogaeth yn y tir.

## CYWYDD AR DDEWRDER CARADOG,

GAN R. DAVIES, NANTGLYN.

Pwy yw'r dyn o'r Prydeiniaid  
 Uchaf a threchaf wrth raid,  
 Fw'n cadw ei wlad rhag brad bron  
 Dystryw caethiwed estron?  
 Yn ol cofiant honiant hawl  
 Gywir hanes gorhenawl,  
 Fôr nodawl, Mab Bran ydoedd,  
 Cred a gair CARADOG oedd.

Pan fu ymgaïs Iwl Caisar  
 Dros y byd am drais a bâr,  
 A'i fawr chwant i'w feddiant fo  
 Gael tyniad pob gwlad tano,  
 A phenau coronau crain  
 Yn wyr rhif dan iau Rhufain;  
 Ac wedi difrodi'n frau  
 Doreithus wladwriaethau,  
 A darostwng i dristyd  
 Amryw fan yn y mawr fyd,  
 Troes ei gledd trwy duedd dig  
 At Frydain, hynt friwedig:  
 Llythyr gyrai, mal sai'r son,  
 Atgas oll at Gaswallon,  
 Am ufudd-dod hynod hêr,  
 I'mostwng i'w rymusder,  
 Trwy anfon gwystlon yn gain  
 A'u trofa'n ddeiliaid Rhufain,  
 Am lawn deyrnged, addfed un,  
 Neu ryfel ddiwarafun.

Galwodd y call Gaswallon  
 Y gwyr o fraint ger ei fron,  
 Eang hyrwydd gynghoriaid,  
 Prif Frython, blaenion ei blaid,  
 I gael rhoi i glyw y rhai'n  
 Y dymhestl oedd yn damwain,  
 A'r taranau briwiau brad  
 O Gaisar a'i agosiad.  
 Y dewrion Frython un fryd  
 Yn ddyfrys wnai ddiotryd  
 Am ateb gwyneb di gél  
 I Rhufain, mam y rhyfel,  
 Ac ateb pawb yn gytnun,  
 Oll o'u sedd, oedd fel llais un:—  
 "Ein tud ni a'n tadau'n ol  
 Yw Prydain, fraint priodol,  
 Cadwn ynghyd hefyd hon  
 O laesdrais cenedl estron,  
 Heb ofn geirian gau un gŵr,  
 Na gwarth rwymau gorthrymwr,

Na bloedd lawn, wydlawn, waedlyd,  
 Treisiwr a diboblwr byd:  
 Teyrnged na gwystl, taer ungais  
 Nis talwn, trechwn bob traïs,  
 Nid awn dan iau beichiau bâr,  
 Na gweision byth i Gaisar."

Ar hyn Caisar lachar lu,  
 A'i ddir oll, a'i ddewr allu,  
 Gynnullodd ogni hollawl  
 I'w fawr fost a'i ofer fawl,  
 Tua Frydain gain ei gwedd  
 Moriasant mewn mawr rysedd.

Y Brython hybar hwythau,  
 A môr i'w cylch fel mur cau,  
 Gyda'u brenin glasfin gledd  
 Ar y maes mewn grymusedd;  
 Gwelent, pan edrychent draw,  
 Y mileiniaid am laniaw;  
 Cadawg fyddinaï'r cedyrn,  
 Gân restru 'nol canu'r cyrn,  
 A'r môr i'w gyfor a gaid  
 Ar ei fin o Rufeiniaid;  
 Ac i'w mysg, uwch terfysg ton,  
 Brathawl ergydiaï'r Brython  
 Bicellau a ssethau sig  
 Yn gawodau gwaywedig,  
 Nes trywanu'r estroniaid  
 Yn gwdd gnif i'r llif a'r llaid;  
 O! ellylled archollion,  
 Gorwaed oer du'n gwrido'r don!  
 Gwelai'r Caisar mai da'r daith  
 Droï i olwg adre' eilwaith.

Drwy gronfa d'ai'r gŵr anferth  
 Yma'n ol â mwy o nerth.  
 Glaniai a thiriaï'r waith hon  
 Heb wir waethaf y Brython;  
 Lladdfa ddirfawr folltawr fu  
 Yn ddi atal o'r ddeutu;  
 Ac er tiriaŵ'r gwyr taerion  
 Hir-ddrain fu Brydain i'w bron,  
 Troi a wnaent yn mhen tro'n ol  
 Yn ddyinion aŵwyddiannol.

Rhufain yn mhen rhyw enyd,  
 Gan uchder balchder ei bryd,  
 Oedd eto am dirio'n deg  
 I Frydain, y firo wiwdeg,

Ar hyder cael gafael gu,  
Modd unwaith i'w meddiannu;  
Galwyd gynt i'r hynt fawr hon,  
Dawch allu pob dichellion;  
Arfogwyd, a llogwyd llu,  
Dorf fawr oll, dirfawr allu,  
A phwyntiau elephantiaid  
Geirw yn lle meirch, groenllwm haid;  
Yn ddirgel iawn chwyrnlawn chwant,  
A throsgodd y rhuthrasant  
Ar y Brython gwirion gwyl,  
Byd esgaeth, heb eu dysgwyl;  
Yn haiarnawl, blyngawl blaidd,  
Ac estylich rif locustiaid.

Cynfelyn, cawn ei foli,  
A dewrion Frython o fri,  
I'w hatal drwy'n hardal hon  
Ar y maes fu rymusion:  
Ond Caradog, d'wysog da,  
Fawr alarch, fu wrola';  
Gŵr o aerwr goreuwyw,  
Tyst ei nerth, ein testyn yw;  
Gŵr glanbryd o ysbryd iau  
Anorfod yn ei arfan:  
Difalch fryd mewn gwynfyd gwaith,  
Dilwrff mewn adfyd eilwaith;  
Diddryngnaws yn achaws neb,  
Diweniaith, na dau wyneb;  
Carwr ei wlad fad a fu,  
Gwron, a'i wlad i'w garu;  
Rhyfelwr hoyw o filoedd,  
Fab a dawn o'i febyd oedd;—  
Deg ar hugain, filain fodd  
Rhagorwyth, brwydr a gariodd,  
Ar Rufeiniaid haid di hedd.  
Treiswyr yn dilyn trawsedd;  
Tros saith mlynedd a'i gledd glain  
Pridawl ddiffynodd Prydain,  
Yn erbyn grym cyndyn certh  
Enynfa Rhufain anferth.

Wrth selu rheithus olwg  
Ar fryn lu'r gelyn lawn gwg,  
A'i fod i'w gyfarfod fo  
A mawr gad am ergydio,  
Caradog odidog don,  
Fe areithiodd i'w Frython:—  
"O frodyr, ein hyfrydweh  
Yw cadw'n gwlad rhag triniaid trweh;  
Ein bywydau heb oediad,  
Rhown dros freiniau, gleiniau'n gwlad;  
Gafaelwch, anwog filwyr,  
Cedwch i'ch bron galon gwyr:

Cofiwch ddewrder grynder graid,  
Uwch nifer, eich henafiaid;  
Ymnerthwch yma'n wyrthiaw!  
Am eich bro, 'ch eiddo, a'ch hawl:  
I lawr, i lawr maturiwch  
Y taerion ladron i lwch;—  
Atynt yn awr, laddfawr lu!"  
Ac erchyll yr ymgyrchu;  
Hir bu yno ddarnio'n ddig,  
Dyblu gwaed diblygedig;  
Y taer Rufeiniaid diradd  
Dros eu lle, am drais a lladd,  
A'r Brython liawnion en llid,  
Mor haeddol am eu rhyddid.

Tra Caradog freiniog frig,  
Llywydd oed, yn lluddedig:  
Curtis Fyddu, fagiddu fodd,  
Bryd uchel a'i bradychodd;  
Och! golled ar led i'w lu  
Fu'r dichell o'i fradychu;  
Ei drosglwyddo'n eiddo wnaid  
Ar y fan i'r Rufeiniaid;  
Eu llu'n hyn fu'n llawenhau  
O'i dyniad i gadwynau;  
Ei wraig a'i blant aethant oll,  
Ran erch! dan yr un archoll,  
A'i frodyr oon i'r un rwyd,  
A mawrion wŷr gymmerwyd,  
Drusain! i Rufain heb rus,  
Eu cludwyd ger bron Claudus.  
Dygwyd ei weinidogion  
A'i eirf heirdd i'r yrfa hon,  
Ei euraidd goron orwyth,  
A'i dyrch aur, rhagoraur gwyth,  
I ddangos llwydd, sicrwydd sain,  
Y rhyfel ger gwydd Rhufain.  
Caradog, hy' wr ydoedd,  
Ofni dyn o'i fewn nid oedd;  
Pob caeth oedd ddilathr athrist,  
A salw dremt benisel drist;  
Ond Caradog sirioeg sel,  
Heb och, oedd wyneb uchel;  
Dywedodd yn ei didau,  
O lafar rhydd, heb lwfrhau,  
Yn hyf, ac o flaen hefyd,  
Senedd, a phen bonedd byd.

"Claudus Caesar, llefaraf  
Air atad, os cenad caf,—  
Ynys Prydain, gywraïn gais,  
Hoff anwog a ddiffynais:  
Prif anel fy rhyfeledd  
A'm dyled i'm deiliaid oedd:

Wyf etifedd gorsedd gain  
 Priodol goron Frydain.  
 Nid rhyfedd bod nod fy nerth  
 I'w chynnal fel ei channerth;  
 Nid am sel ac uchel gais,  
 Ond am ryddid ymroddais:  
 Os da'r ymdrechais, a doeth,  
 Gwir i'ch cof goren'ch cyfoeth;  
 Caled fy heiyrn coeliwch  
 Am waith brad, i'm hoff wlad fflwch:  
 Oeddw'n barchen diweddar  
 Goludon a gweision gwâr;  
 Trysorion rhagorion, gant,  
 Milwyr mewn rhwysg a moliant,  
 A rhyfelfeirch rif hwylfawr,  
 Byd mwyth, a cherbydau mawr—  
 Ni feddaf heddyw'n foddion  
 Dan haul, ond y gadwae hon!  
 O golli'm gwlad glodadwy,  
 Mae'ch plaid Rufeiniaid, yn fwy;  
 Os cedwch, wyf i' cadwyn,  
 I'm ynghyd fy mywyd mwyn,  
 Byddaf yn dystiant bywdda  
 O'ch tynerwch, degwch da."

Rhyfedd gan ddoethion Rhufain  
 A dwys oedd glywed ei sain;  
 Ar y gair yr agorwyd  
 Pob bron yn rhyddion o'u rhwydd,  
 A rhyddid prid i Fab Bran,  
 Hollawl o hyny allan.  
 A dyna'r pryd, hyfryd hedd,  
 Gywir fael er gorfoledd,  
 Gyda thylwyth briglwyth Bran,  
 Fel enaint nefol anian,  
 D'ai'r ddoeth Efengyl goeth gain  
 Fawredig gynta'i Frydain.

Hyn sydd gof hen oesoedd gynt  
 Dyddiau terfysgelyd oeddynt;  
 Gwae ar wae, hirwae o hyd;  
 Poen ar boen, pwn hir beand;  
 Ing ar ing, angu ar waith;  
 Galar ar alar eilwaith;—  
 Iolwn Ner, rhag traweder trweh,  
 Mae'n haeddol am ein heddwch.

Ychwanegwn rai rhannau o Gywydd Arobryn ar "Ymdrech Buddug yn ebyn y Rhufeiniaid," gan y diweddar Barch. E. Hughes, Bocffari.

\* \* \* \* \*  
 Gwawriodd dydd—a haf-ddydd hwn,  
 A roi wendeg ar wyndwn,  
 Ac eurwisg ar bob goror,  
 Ochrau maith, a chyrau môr.  
 Pan roed bloedd gyhoedd drwy'r gâd  
 Ar filoedd i ryfeliad,  
 Ebrwydd, ar arwydd, hir rif,  
 Benerawg, byw, aneirif,  
 Cerbydau, a charnau chwyrn  
 Meirch y gad, mawrwych gedyrn;  
 Y darian, a'r pladuriau,  
 Dros y tir, gwelir yn gwau:  
 Torf wasgar, lawn terfysgoedd,  
 Pob cerbyd fal yspryd oedd!  
 Ar y gelyn oer gilwg,  
 Rhuthrent, a gyrent mewn gwg:  
 Yntau'n ddur, a mur un modd,  
 Un enaid a'i henynodd.  
 Y Fanon, un eon, oedd  
 Blaenores y blin yroedd;  
 Ac ar gerbyd tanlyd hon,  
 Aflonydd, fyw olwynion;  
 Ei dwy ferch, diau o fodd,  
 Cain lumiau, a'i canlynodd.

Eu llygaid yn danbaid ynt,  
 A'u galar oll a gelynt:  
 Dial a roes, do, ail wrid  
 A'r ruddiau'r rhai'n o Ryddid!  
 A'u bronau, caerau cariad,  
 Yn noethion, gwynion trwy'r gad,  
 Eu gyriad sydd ar gorwynt,  
 A'u gwallt yn droellau'n y gwynt!

Gwroniaid myg yr ynys,  
 Milwyr o fraint, mal ar frys,  
 Wrth weled hyfed yw hynt  
 Yr eiddil dair ymroddynt;  
 Eu holwynion dilynant,  
 Ail fywyd ac ysbryd gânt.  
 Weithiau o'u bwau busin,  
 Syth yr héd saethau y rhai'n;  
 A'r hirbell bicell i'w bôn,  
 I galonau gelynyon.  
 Pladuriau (arfau erfawr  
 Poethion olwynion) i lawr  
 Megys ŷd, (och waedlyd chwant!)  
 Mil o eraill maluriant:  
 Tra gyran, troau gorwyllt,  
 Trwy lu blin byddin fal byllt.

yr ynysodd hyn, y rhai oeddynt, yn rhwym mewn oerni a rhew, ac mewn bro belleniog o'r byd, yn mhell oddiwrth yr haul gweledig, a dderbyniasant belydrau o oleuni, sef hyfforddiadau sanctaidd Crist, y gwir haul, yr hwn a ddangosai i'r holl fyd ei ogoniant, nid yn unig o'r ffurfafen dymhorol, ond o uchelder y nef-oedd, yr hon sydd yn tra rhagori ar bob peth tymhorol, yn y rhan olaf, fel y gwyddom o deyrnasiad *Tiberius Caisar*, gan yr hwn y lledaenid ei grefydd yn ddirwyst, a bygythid âg angu y rhai a ymyrent â'i phroffeswyr." Dyna dystiolaeth *Gildas*. Ac yn mbhellach y dywaid ef—"Y pelydrau hyn o oleuni a dderbyniwyd & meddyliau claiar gan y trigolion, ond er hyny, hwy (sef egwyddorion yr Efyngyl) a wreiddiasant yn mysig rhai o honynt, i raddau mwy neu lai, hyd y naw mlynedd erledigaeth dan *Dioclesian*, pan y dymchwelwyd yr eglwysi drwy yr holl fyd, y llosgwyd cynnifer o gyfysgrifau ar a ellid gael o'r Ysgrifysau Sanctaidd yn yr heolydd, a bugseiliaid detholedig diadell Duw a gigydd-lywd yn nghyda'r praidd fel, o byddai bossibl, nas gadewid mewn rhai taleithiau ddim o olion crefydd Crist."

Yr *Egob Stillingfleet* hefyd, yn ei *Orgines Britanice*, a ymresymai fel hyn:—"Mae yn sicr fod Paul wedi enill dychweledigion lawer ar ei ddyfodiad i Rufain, am ba achos y soniai efe am saint yn nhylywrth Caisar; ac nid yw yn annhebyg fod rhai o'r caethion Prydeinaidd, a ddygasid drosodd gyda Charadawg a'i deulu, o'u nifer; y rhai yn ddiau a fuasant yn awyddus am weled dychweliad eu gwlad trwy Paul, apostol enwog y Cenedloedd."

Pan ystyriom fod yr esgob dysgedig yn rhwym o fod yn hollol anadnabyddus o dystiolaethau y Trioedd, a'r Achau, pan gyfansoddai ei lyfr, y mae cyd-darwriad y casgliad uchod â'r cyfryw dystiolaethau, yn teilyngu ystyriaeth arbenig.

Mae yn wir bod amryw haneswyr, ac yn eu mysig y diweddar *Dr. Burgess*, *Egob Ty Ddewi*, yn dadleu yn gryf bod yr Apostol Paul ei hunan wedi bod yn pregethu yr Efyngyl yn Mrydrain; dodaf yma rai o'i resymau er mwyn y chwilyfrdig:—"Yn gyntaf, y mae yr Apostol yn Rhuf. 15. 28, yn dweyd ei fod ef yn bwriadu myned i'r Hispaen, 'Mi a ddeuaf heibioch i'r Hyspaen.' Ac y mae *CLEMENS ROMANUS*, yr hwn oedd gyfaiil a chydweithiwr i St. Paul, ac yn dywedyd i'r Apostol hwnw yn ei bregethiad o'r Efyngyl '*deithio hyd derfynau eithaf y Gorllewin*;' ac y mae amryw awdurdodau i ddangos fod Ynys Prydain yn cael ei chyfrif yn mhlith ardaloedd eithaf y Gorllewin. Er enghraifft, y mae *CATULLUS* yn ei galw '*yr ynys bellaf o'r Gorllewin*.' Ac y mae *EUSEBIUS*, yr hwn a ysgrifennai rhwng 270 a 340, yn dywedyd '*i rai o'r Apostolion groesi y môr i'r Ynysodd Prydeinaidd*.' Hefyd y mae *HIERONYMUS*, neu *Jerome*, yn yr un ganrif, yn dywedyd i St. Paul, ar ol iddo fod yn yr Hispaen, '*fyned o fôr i fôr, a phregethu yr Efyngyl yn yr ardaloedd gorllewinol*.' Ac y mae yn rhoi ar ddeall mewn man arall, ei fod ef yn cyfrif Prydain yn mhlith yr ardaloedd gorllewinol. Yn y chweched ganrif, y mae Prydydd o'r enw *VENANTIUS FORBURNATUS*, yn dywedyd i St. Paul '*groesi y môr, a myned hyd Ynys Prydain*.'"

Crynhoad yr *Egob dysgedig* oddiwrth y mynegiadau hyn, yw fod yr apostol wedi ymweled âg Ynys Prydain; a thrwy lawer o ymchwiliad hanesyddol, y mae efe yn dangos fod yr unig amser yn yr hwn y gallasai yr apostol gyflawni y daith hon, yn cyd-daro mor agos â dychweliad Caradawg o Rufain, fel yr haera yn hyderus iddo ddefnyddio y cyfle hwnw i ddyfod drwodd i'r ynys hon.

Myn rhai hefyd, fod cadarnhad i'r golygiad uchod yn ganfyddadwy yn enw eglwys gadeiriol Llundain, sef *St. Paul's*, gan fod eglwysi cyflwynedig i'r apostol hwn mor anaml, meddyliant fod yr eithriad hwn yn arwyddoceanu rhyw achos penodol i beri dewisiad o'i enw yma, a chasglant mai er cofiadwriaeth o'i weinidogaeth yn y lle hwnw y rhoddwyd ei enw ar yr eglwys.

O'm rhan fy hun, wedi gwneuthur o honof lawer o ymchwiliadau mas meddaf ofod i'w hadrodd yn fanol yn y Ddarlith hon, nis gallaf lai na barnu mai trwy weinidogaeth yr Apostol Paul yr enillwyd y dychweledigion cyntaf o'r Prydein-

iaid i ffydd Crist, a hyny yn Rhufain; mai efe a awdurdododd ac a anfonodd y cenhaden cyntaf i bregethu yr Efengyl yn Ynys Prydain, gyda Bran ab Llyr, ar ei ddychweliad o Rufain i wlad ei dadau, a'i fod yn teimlo pryder mawr yn achos cyflwr brodorion yr Ynys hon; ond y mae yn anhawdd genyf feddwi y buasai amgylchiad mor bwysig ag ymweliad apostol mawr y Cenedloedd a'n gwlad, mor ddiaylw yn ein hen gofion cenedlaethol, tra y maent yn cynnwys crybwylliadau o amgylchiadau eraill, llai pwysig, o'r unrhyw gyfnod.

Nid oes genym un crybwylliad, ar gof a chadw, er cadarnhau y dyb o fod y gwron Caradawg wedi ei enill i'r ffydd Gristionogol, ac nid yw hyny yn debyg, os barnwn fel y crybwyllais o'r blaen, ei fod ef wedi dychwelyd i'w wlad yn y fan ar ei ryddhad gan Caisar: ac mai ar ei farwolaeth ei y dychwelodd Bran, yr hwn yn nghyda'i deulu a arosent yn Rhufain, yn wystlon o'i ffyddlondeb i'r llywodraeth hono, tra fu efe byw: ond crybwyllir am *Eigen*, ferch Caradawg ab Bran, fel y fenyw gyntaf o'r saint Prydeinaidd. Yr oedd hi yn byw hyd yn agos i ddiwedd y ganrif gyntaf, a phriododd ag un *Sarllug*, Arglwydd Caer Sarllug, a elwir yn awr *Old Sarum*. Crybwyllir hefyd am *Cyllia*, fab Caradawg, fel un o'r prif Gristionogion Prydeinaidd. Pa un a oedd y rhad hyn wedi aros gyda'u taid yn Rhufain, ag iddynt gael eu henill i gredu yr Efengyl yno, ai ynte ar ddychweliad eu taid o Rufain y derbyniasant Gristionogaeth, a'u bod felly yn mysg blaenffwrth buddugoliaethau yr Efengyl yn yr ynsoedd hyn, nis gellir ei benderfynu. Y mae amryw awdwyr hefyd yn barnu mai merch i Caradawg ydodded *Claudia*, yr hon a grybwyllir gan Paul yn ei Epistol at Timotheus (2 Tim. 4. 21.) yn briod a phendefig Rhufeinaidd, o deulu Caisar, o'r enw *Pudens*; a pha Gymraes a fuasai mor debyg o gael ei hanrhydeddu drwy undeb priodasol a phendefig Rhufeinaidd uchelradd a merch y gwron enwog Caradawg? Mae yr Archeshob Usher yn dra phenderfynol ar hyn, ac yn dadleu mai hi oedd y gyntaf o'r Prydeiniaid a dderbyniodd Gristionogaeth, ac mai drwy ei hofferynoldeb hi yr enillid y lleill o'r teulu i wrandaw a derbyn yr Efengyl.—Cyfansoddai bardd Eidal-aidd o'r enw *Martialis*, ychydig o linellau o glod iddi, y rhai a gyfieithir fel y canlyn gan awdwr hyawdl "Drych y Prif Oesoedd." Fel hyn y maent—

"Mae Gwladys Ruffydd gywrain  
A ddaeth o Ynys Prydain,  
Mewn glendid, dygiad, dysg a dawn,  
Mor llawn a neb o Rufain.

Mor lan ac odiaeth fanol  
Yw ei lwynebpryd grasol;  
Ni wn i fod mewn cwr o'r byd  
Wynebpryd mor ragorol.

Boed y genfigen wammal,  
Rhwing gwragedd Groeg a'r Eidal,  
Gwladys yw eu pen, a'u dawn,  
Pa le y cawn ei chystal?"

Heblaw hyn, nid oes genym un sail i ameu na allasai fod ambell i Gristion yn mysg y Rhufeiniaid a ddeuent drosodd i breswyllo yn y trefedigaethau a sefydlid gan eu tywysogion yn yr ynys hon, neu y milwyr a anfonid drosodd, i ymladd eu rhyfeloedd, y rhai a allasant fod yn offerynol i ledauen yr Efengyl yn mysg eu cydnabod, oddeutu y trefedigaethau neu eu gorsafau milwraidd. Y mae un amgylchiad tra nodedig yn cael ei grybwyll gan ROWLANDS, yn ei lyfr ar Hynafiaethau Mon, yr hyn a duedda i brofi bod rhyw rai a garent yr Arglwydd Iesu yn y fyddin gyntaf a arweinai Suetonius drosodd, i oresgyn Ynys Fôn, yn y flwyddyn 61: canys

yn adfeilion hen adeiladau Derwyddol, a ddystrywid gan *Suetonius* yn y cadgyrchiad cyntaf hwnw, y cafodd yr hynafiaethydd uchod, wrth agor bol yr adfeilion crybwyllledig i chwilio am ryw hynafiaethau, yn y flwyddyn 1723, fathoddo o'r Gwaredwr; ar un ochr iddo, yr oedd pen ág wyneb, wedi ei ddylunio yn hardd, ac ar ei wyneb atall, argraff Hebraidd hardd, yn cynnwys ymadroddion o'r ystyr yma—"HWN YW IESU CRIST Y GWAREDWR."

Pa fodd y deuai y bathodyn crybwyllledig i'r fath le, oddieithr ei gollu yn ngerfysg y frwydr a fu rhwng y Rhufeiniaid a'r Derwyddon ar eu glaniad gerllaw Porthamel, neu yn wir, gwmp ei berchenog yn nghanol adfeilion yr hen deml Dderwyddol, lle y bu y dystiolaeth yma o'i gariad at Crist yn gorwedd gyda'i esgyrn dros un oant ar bymtheg a haer o flyneddoedd, sef hyd onis caed ef gan *Rowlands*, wrth gloddio a chwilio yr hen adfeilion crybwyllledig.—Drwg iawn genyf ychwanegu fod y deryn dyddorol uchod o hynafiaeth wedi ei gollu, tra yn cael ei ddwyn gan ryw genad oddiwrth *Mr. Rowlands* i ryw hynafiaethwr arall i'w weled.

Efallai y goddefa y darlennydd i mi droi ychydig o'r ffordd yn bresenol, i adrodd un hanesyn, neu yn wir, gwmp ei byrach chwedl fechan, am *Bran* a'i chwaer *Bronwen*, yr hon a geir yn y Mabinogion.—Dywedir fod Bronwen yu preswyllo yn Harlech, swydd Feirionydd, yr hwn le a elwid oddiwrthi gynt, "Twr Bronwen." Matholwch, brenin y Werddon, a'i ceisiodd ac a'i cafodd yn wraig; ond yn mhen yspaid, wedi ei myned gydag ef i'w wlad, eie a ymddygai yn frwnt ati, ac a'i tarawai ar ei grudd, am ba achos y gadawai hi y wlad hono, i ddychwelyd i'w hen gartref; ond pan y tiriodd ar oror Mon, tua Phorth Fadog, ger Llanfwrog efallai, dywedir iddi edrych yn ol tua'r Iwerddon, yr hyn a adnewyddodd yr adgof o'r trahausder a gawsai yno yn y fath fodd ag y bu hi farw o dor calou: ac y mae y chwedl yn chwaganu darluniad o'i beddrod; gan ddywedyd—"Bedd petrual a wnaed i Frownen, ferch Llyr, ar lan Alaw, ac yno y claddwyd hi." Yn y flwyddyn 1813 gwnaed darganfyddiad tra dyddorawl, yr hyn a brawf fod hyd yn nod y ffugchwedlau Cymreig, a elwir y Mabinogion, yn seiliedig ar ffeithiau hanesyddawl. Rhyw amaethwr a drigianai ar lan yr afon Alaw, mewn angen am gerig at ryw wasanaeth, a aeth i'w helpio ei hun o hen garnedd oedd ar lan yr afon, ac a elwid "yr Ynys Foel," ac weithiau "Ynys Bronwen." Wedi symud llawer o gerig, daeth yr amaethwr o'r diwedd at gistaen orchuddiedig gan lechfaen mawr: ac erbyn symud y caead, gwelid yn y gistaen lestr pridd (*urn*,) tua throedfedd o ddyfnder, wedi ei chyfleu a'i genau yn isaf, yn llawn o ludw, a darnau llosgedig o esgyrn.—Y mae tyfeiriad yn y Trioedd hefyd at yr amgylchiad yma, gan ddywedyd fod Bran wedi cynnull llu mawr i fyned drosodd i ddial traha ei chwaer ar Matholwch. Nid yw yn aanhebyg bod yr amgylchiad yma wedi cymmeryd lle pan oedd Bran yn lled ieuanc, o leiaf cyn i'w fab Caradawg ddyfod i enwogrwydd, ac o ganlyniad, cyn iddo yntau wybod dim am Gristionogaeth. Gellir meddwl bod y cadgyrchiad yma wedi bod yn ofnadwy o ddinystriol; canys fe ddywedir na ddychwelodd o'r cadgyrchiad ofnadwy namyn *sauth* yn fyw, wedi agos ddiobli y Werddon.

Ond i ddychwelyd at ein testyn, yr ydym yn cael lle i feddwl mai penadur ar yr Eessyllwyr, y rhai a gyfaneddent Ddeuheubarth Cymru, ydoedd Bran, pan y'i cymmerwyd ef ynghyda'i fab Caradawg yn garchar-orion, ac nid yw yn aanhebyg iddo ar ei ddychweliad o Rufain, fyned i'r un wlad i gartrefu, yn mysg ei bobl a'i geraint; ac felly, gyda'r Eessyllwyr y gellid meddwl i'r Efengyl gael ei phregethu gyntaf o fewn yr ynys hon, ac oddiwrthynt ymdaenai y gwirionedd yn lled fuan at y llwythau cyfnesol, yn enwedig y Gordofigwys, y rhai oeddynt mewn cyfathrach

o'r agosaf a'r Essyllwyr, os nid yn ddeiliaid yr un penadur tua'r pryd dan sylw.

Mae yn anhawdd i ni beidio gollwng yr awenau i'n dychymygiion, a goddef iddynt bortreiaidau golygfa a allesid gael yn fynych yn y ganrif gyntaf, ar-rai o lanerchau ein hen wlad hoff.—Dacw un o'r prif genhadon, ai *Cyndaf*, *Ilid*, neu *Arwystli* yw, nis gwn, yn sefyll dan gysgod y dderwen gauadfrig, ar lethr y bryn draw, ac wedi ei ddoniaw & gallu i lefaru & thafodau, yn dysgu yr hen Gymry yn eu hiaith eu hunain, am yr unig wir Dduw, a'r hwn a' apfonodd efe, Iesu Grist, ein Hiachawdwr ni; yn ymresymu â'r Derwyddon, gan wrthbrofi eu dychymygiion fol, a'u dwyfyddiaeth anghyson; a'r gwirioneddau rhyfedd a draethid ganddo gyda'r fath symlryddd a thanbeidrwydd, dan ddylanwad dwyfol, yn cario argyhoeddiad i feddyliau y gwrandawyr, ac yn peri hyd yn nod i'r athrawon Derwyddol, y rhai yn ol eu hegwyddorion eu hunain oeddynt yn rhwym i brofi pob peth, a dal y gwir yn erbyn y byd, synu uwch ben y ddysg newydd a ddygid i'w clustiau, ac yn encilio i'w celloedd, neu eu *myfyrianau* neillduedig, i ddwys ystyried y tystiolaethau rhyfedd a glywsent; ac yna, wedi eu gorchfygu a'u henill i greu y gwirionedd, yn ymwasgu â'r Cristionogion, fel y'u dysgid yn fanylach yn ffordd Duw y gwirionedd.

Ond pan ystyriom ansawdd derfysglyd y wlad, y rhyfeleodd parhaus a ffynent rhwng y naill lwyth a'r llall, neu rhyngddynt a'r Rhufeiniaid, a'r anfantais o ddiffyg ffyrdd cyfleus i gynnal cymundeb rhwng y naill ran o'r wlad a'r llall, nid yw yn debyg i'r grefydd newydd ymdaenu gyda rhyw gyffymdra hynod a chyffredinol. Ac â hyn y cytuna tystiolaeth *Gildas*,\* yr hwn a ddywedai:—"Y pelydr hyn o oleuni a dderbynid â meddyliau claiar gan y preswylwyr, ond er hynny (egwyddorion y gwirionedd) a wreiddiasant yn mysg rhai o honynt i raddau mwy neu lai, hyd y naw mlynedd erledigaeth dan y creulawn Dioclesian, pan ddymchwelid yr eglwysi drwy yr holl fyd, y llosgid yr holl eiliadon o'r Ysgrhythrau Sanctaidd a ellid gael yn yr heolydd, ac y llofruddid etholedig fygelliaid praid Duw yn nghyda'u praid diniwed, fel nas gadewid, o byddai bossibl, ddiim o olion crefydd Crist yn rhai o'r taleithiau."

\* *Gildas* ydoedd fab i *Caw*, tywysog gogleddol, ac *wyr Geraint ab Erbin*, tywysog Dyfnaint. Efe a anwyd tua'r flwyddyn 500, yn mysg Cymry Ystrad Clwyd, efallai, neu Brydeiniaid Cambria, am ba achos y'i gelwir weithiau *Gildas Albanicus*. Tua chanol y chweched ganrif, gormesal y Saeson gymmaint ar drigollon Cambria ac Ystrad Clwyd, fel y bu raid i *Caw* a'i deulu symud oddiyno, ac ymofyn am nodded yn Nghymru. Yr hen dywysog a ymsefydlai yn Mon, lle y terfynodd efe ei ddyddiau; a dywedir fod y rhan fwyaf o'i feibion wedi encilio i wlad yr *Essyllwyr*, lle y'u derbynid yn roesawus gan Arthur Frenin, hoff drigle yr hwn ydoedd yn Nghaerlleon ar Wysg. Amryw o honynt a ymroisiant i fuchedd grefyddol, ac yn eu mysg *Gildas*, yr hwn a ymnaai & chynnullaidda Catwg Ddoeth, yn Morgaawg, yr hwn sefydlai a gychwynaidd gan *Garmon*, er gwrthsefyll egwyddorion Morganaeth. Dywedir fod *Gildas* wedi agoryd athrofa yn Nghaerbeddon tua'r flwyddyn 555, am ba achos y'i gelwir weithiau *Gildas Badonicus*; canys y mae lle cryf i feddwl nad oedd dau *Gildas*. Mae amryw hynafiaethwyr craffus yn barnu mai efe ydoedd y bardd enwog Aneurin Gwawdrydd; ac os felly, efe a syrthlodd drwy law llofrudd; canys tywysog o'r enw *Eidyn*, er ymddial efallai am y rhyddid a'rferasai y bardd yn ei sylwadan ar wŷr mewn awdurdod, camweddan y rhai a ddyneithid ganddo yn ddiarbed, a'i laddodd trwy ei daro yn ei ben & bywall. Yr oedd ei fab *Cennydd* yn benathraw *Cor Cennydd*, a elwir yn awr Llanguenyd yn Mro Gwyr. Ymddengys fod gan Cennydd dirogaethau yn *Seinghenydd*, hen enw *Caerphilly*, ac efallai i'r lle gael ei enw presenol oddiwrth ei fab *Ffla*, yr hwn hefyd oedd ŵr mewn urddau eglwysig, ag oedd yn oest tua dechren y seithfed ganrif.—*The Cambro British Biography*," by WILLIAM RICHARDS, LL.D.,



Mae yn anmhosibl i ni, ar hyn o bryd, allu cael allan i foddlonrwydd, i ba raddau y ffynodd Cristionogaeth yn mysg ein hynafiaid ar yr adeg dan sylw: ond tebygym y gallwn gasglu ar seiliau teg ei bod wedi cymmeryd gafael gref yn nhylyth Bran tad Caradawg; canys yn mhen tua chan' mlynedd wedi dygiad yr Ffengyl i Frydain, yr ydym yn cael hanes am un o'r gwehlyth yma, sef *Lleirwg ab Coel ab Cyllin ab Caradawg*, yn frenin Cristionogol, ac yn offeryn hynod er adfywiad Cristionogaeth yn mysg ei gydgenedl; ac ar gyfrif y daioni a wnaeth efe i'w gydgenedl, efe a gyfenwir fynychaf *Lles ab Coel*; ac weithiau "*Lleufer Mawr*," neu y Goleuad Mawr, ar gyfrif ei offerynoldeb i adfywio a lledaeu goleuni Cristionogaeth drwy yr ynys. Dyma y crybwylliad a gawn ni am dano ef yn Nhrïoedd Ynys Prydain:—"Tri Menwedigion (bendigedigion) teyrnedd Ynys Prydain; Bran Fendigaid ab Llyr Llediaith, a ddygwys gyntaf ffydd yn Nghrist i genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yn ngwystl ei fab Caradawg, a ddog gwyr Rhufain yn ngharchar, gwedi ei fradychu trwy hud, a thwyll, a chynllwyn Aregwedd Föeddawg. Ail, *Lleirwg ab Coel ab Cyllin*, Sant, a elwir *Lleufer Mawr*, a wnaeth yr eglwys gyntaf yn Llandaf; a hono fu'r gyntaf yn Ynys Prydain; ac a ddodes fraint gwlad a chenedl, a brawd a briduw (tyngiad) ar a fyddant o'r ffydd yn Nghrist."

TRI. 55. A thracfefn:—"Tri Archegobawd Ynys Prydain; Cyntaf, Llandaf, o ddawn *Lleirwg ab Coel ab Cyllin*, yr hwn a roddes dïroedd a braint gwlad idd y rhai a gystlynant gyntaf ág y ffydd yn Nghrist; Ail, *Caer Efrawg*, o ddawn Cystenyn emherawdwr, sef oedd efe y cyntaf odd yr emherodron yn Rhufain a ymgystlynwys ág y ffydd yn Nghrist; Trydydd, *Llundain*, o ddawn yr emherawdr *Macsen Wledig*; a gwedi hyn y buant, *Caer Llïon ar Wysg*, ac y *Gelliwig*, yn Nghaerwyn, a *Chaer Rhianedd* yn y Gogledd; ac yn awr y mae Mynyw, a *Chaer Efrawg*, a *Chaer Gaint*."—TRI. 66. Y mae y ddau *Driad* dylynol yn taflu peth goleu debygid ar yr un blaenorol. Gwel *Cambro Briton*, vol. ii. p. 195.

*Lleirwg*, yn gwybod mai o Rufain y daethai yr *Ffengyl* gyntaf i'r ynysodd hyn, yn amser ei orhendaidd, ac yn deall hefyd, etallai, fod yn y ddinas hono amryw o Gymry urddasol ar y pryd, yn profesu Cristionogaeth, a anfonodd at un *Eleutherius*, yr hwn oedd y pryd hyn yn Esgob yr Eglwys Gristionogol yn Rhufain, gan daer erfyn arno anfon gwyr cymhwys drosodd, i ddysgu ffyrdd Duw yn fanylach i'r Prydeiniaid; a'r hyn y cydsyniodd efe yn garedig, gan anfon dau ŵr galluog drosodd, y rhai a elwid *Dyfan* a *Ffagan*, at y rhai y mae yr Achau Cymreig yn chwaneu dau ereill, sef *Medwy* ac *Elfan*; ac wedi tirio o honyt yma, cawsant bob cefnogaeth a chynnorthwy gan *Lleirwg* i ddwyn yn mlaen y gwaith gogoneddus o efengyleiddio y Prydeiniaid. Y mae genym le cryf i feddwl fod un o'r pedwar cenadon hyn yn Gymro, ac o'r un gwehelyth fyth a'r hen Bran Fendigaid, er iddo gael ei ddyseidiaeth grefyddol efallai yn Rhufain; canys fel hyn y cawn achau *Dyfan*, "ab Alwn Aflerw, ab Ysbwyth, ab Manadwydan, ab Llyr."

Y mae eglwys yn Morganwg yn gyssegredig i goffadwriaeth *Ffagan*, sef *St. Ffagan*; a gellid meddwl fod *Dyfan* wedi dyoddef merthyrdod yn y diwedd, canys ar ei ol ef y gelwir lle yn yr un sir, *Merthyr Dyfan*; coffeir *Medwy* hefyd yn *Llanfedwy*. Dywedir fod *Elfan* wedi llafurio yn benaf tua Gwlad yr Haf, a Dyfneint. Y mae yn amlwg oddiwrth ansawdd crefydd yn y blynyddoedd canlynol, a'r amrywiol eglwysi a gyssegrwyd i'r gwyr enwog hyn, eu bod yn gymmeradwy iawn gan Gristionogion, ac i'w llafur hwynt gael ei fendithio i raddau helaeth.

Y mae *Dr. W. Richards* yn barnu am y pedwar cenadwr hyn mai Cristionogion Prydeinaidd oeddynt, wedi derbyn addysg yn Rhufain, ac ymsef-

ydlu yno, fel y sylwasom eisoes mewn perthynas i un o honynt: os felly, yr oeddynt yn gymhwysach i'r gwasanaeth at yr hyn y'u hanfonid, gan y buasant yn y fan yn alluog i lefaru yn iaith y brodorion.

Gyda golwg ar drefn eglwysig y cyfnod hwn ar Gristionogaeth, dywaid y diweddar *D. Peters* o Gaerfyrddin, fel y canlyn:—"Yn y cant cyntaf o Gristionogaeth, nid oedd ond un gweinidog neu esgob yn mhob eglwys trwy y byd Cristionogol; a dewisid ef i'w swydd gan aelodau yr eglwys yn unig. Ac i'r dyben i'w gynnorthwyo ef yn y gorchwyl pwysfawr o ofalu am y praid, dewisid rhai o'r aelodau i fod yn henuriaid, a diaconiaid, yn gyfatebol i amgylchiadau yr eglwys. Fe barhaodd eglwysi Crist yn y dull anymddibynol hwn, heb unrhyw rwymyn undeb rhyngddynt ond cariad, dros ran fawr o'r ail gant. Ond cyn diwedd yr ail gant diddymwyd y drefn apostolaidd hon, a chafodd holl gynnulleidfaeodd yr un dalaeth eu huno yn un corph eglwysig; gweinidogion pa rai a ymgysgarfyddent ar amserau gosodedig, i drefnu mesurau cymhwys, i ddwyn yn mlaen gysur ac adeiladaeth gyffredinol yr holl gorph taleithiol, a chanddo awdurdod ar holl esgobion, neu weinidogion y dalaeth hono. Y sefydliad hwn a ddechreuodd yn gyntaf yn myg y Groegiaid, ac a ymdaenodd yn fuan oddiwirrhwynt hwy, dros yr holl fyd Cristionogol. Bu y cyfnewidiad hwn yn foddion i leihau rhagortfreintiau y byd yn gyffredinol, ac i gynyddu awdurdod yr esgobion. Oblegid, er fod y gweinidogion ar eu hymddangosiad cyntaf yn y cymmanfaeodd hyn yn addef nad oeddynt ond cenhadau eu hamrywiol eglwysi, ac mai yn enw a thrwy osodiad eu pobl yr oeddynt yn gweithredu, newidiasant yr iaith ostyngedig hono yn fuan; ac a haerasant fod Crist wedi rhoddi awdurdod iddynt wneuthur rheolau ffydd a moesau i'w pobl. Pan gyfarfyddai esgobion yr amrywiol daleithiau mewn cymmanfaeodd, bernid yn gymhwys i wisgo un o honynt âg awdurdod uwch, fel blaenor y gymmanfa; a daeth y blaenoriaid hyn yn raddol i fod yn archesgobion; ac felly y diddymwyd y cystadledd ag oedd rhwng yr esgobion o'r dechreuad."\*

Nid ydym yn deall fod un lle neillduedig wedi ei adeiladu at wasanaeth crefydd yn Ynys Prydain, hyd amser Lleurwg; ond yr hyn sydd yn fwyaf tebyg yw, y byddai y cynulleidfaeodd, y rhai nid oeddynt ond bychain, yn cyfarfod mewn tai annedd, neu dan gysgod y derw tewfrig. Efallai, fel y crybwyllir yn un o'r Trioedd, mai yr adeilad gyntaf a gyfodwyd at wasanaeth crefyddol yn hollol, oedd yr un a gyfodwyd yn Llandaf, trwy haelioni Lleurwg, brenin yr Easylwyr, preswylwyr Morganwg a Mynwy, a'r un gŵr, "o gariad at Grist, ac eneidiau dynion," meddir, "a roddodd diroedd a breintiau" gwladol i'r rhai a broffesent y grefydd Gristionogol, fel anogaeth iddynt i helaethu achos Crist yn y wlad. Ac nid yw yn rhyfedd os darfu i Gristionogion mewn enw luosogi yn ddirfawr yn y wlad yn y canlyniad; ac y mae lle cryf i ofni fod y flairau breninol dywededig wedi bod yn achles gref i ragrith.

Y mae seiliau cryfion i farnu fod llawer o'r rhai a gymmerent arnynt fod yn grefyddol yn nyddiau Lleur, er mwyn cyfranogi o'r breintiau a drefuai efe er cefnogi Cristionogaeth, wedi tafu yr hug ymaith ar ol ei farwolaeth ef; ac yn y canlyniad, y Paganïaid a gyfodasant erledigaeth lem ar y Cristionogion; ac yn yr erledigaeth hon, yn mysg ereill a gwmpasant, meddylir fel y crybwyllwyd yn barod, fod Dyfan enwog, ar ol llafurio yn ddyfal i'w henill i ffydd Crist, wedi cael ei ferthyru ganddynt. Pa nifer heblaw hyn o rai mwy aunghyhoedd a farwolaethwyd am eu crefydd y pryd hwn, nis gallwn feddu unrhyw fantais i amgyffred: ac yn wir, nis

\* Gwel Hanes Crefydd yn Nghymru, t. d. 67, 70.

meddwn ond y nesaf peth i ddim o wybodaeth am ansawdd Cristionogaeth yn Mrydain, o'r pryd hwn, sef tua diwedd yr ail ganrif, hyd yn agos i ddiwedd y drydedd ganrif. Dioclesian a esgynodd yr orsedd yn y flwyddyn 284, ac yn mhen y pum' mlynedd, unwyd *Custeint Clorus* ág ef yn ngwein-yddiad y llywodraeth. Dan y dyweddig Dioclesian y bu y ddeddf erledigaeth ar y Cristionogion, yr hon oedd yn fwy gwaedlyd a dinystrïol na'r naw ereill. Nid yw yn ymddangos fod rhyw lawer o rym yr erledigaethau ereill wedi cyrhaedd yr ynys hon, a thybir fod amryw o'r Cristionogion erlidgedig o Rufain, a gwledydd ereill y cyfandir, yn ffai i Frydain am loches rhag y dymhestl, y rhai felly a allasant fod yn offerynol i fesur lled helaeth i ledauen egwyddorion yr Efengyl yn Mrydain; ond mór benderfynol ydoedd Dioclesian i lwyr ddileu Cristionogaeth oddiar wyneb y ddaear, fel yr anfonai ei orchymyn awdurdodol, wedi ei argraffu ar ddalenau pres, at y swydd-gion Rhufeinig oeddynt yn Mrydain, i erchi iddynt lwyr ddyfetha adeladau a llyfrau y Cristionogion yn yr ynys hon; ac na adewid papuryn heb ei losgi, a gynnwysai athrawiaeth yr Iesu Grist, neu ddim o hanes bywyd y prif Gristionogion; a thyma y dystryw cyntaf y gwyddys am dano a fu ar ysgrifeniadau gwerthfawr ein hen dadau; yr hyn, efallai, yw y prif reswm fod can lleier ar gael yn bresenol o gofion crefyddol y Cymry am yr oesoedd blaenorol i hyn.

Tua dwy flynedd, debygid, y parhaodd grym yr erledigaeth hon yn Mrydain; ac yn yr adeg ddyweddig, yr oedd y Swyddogion Rhufeinig Paganauidd yn ymddifyru yn y cyflawniad o orchymyn gwaedlyd eu meist'r Galerius a Dioclesian; a chan gael eu oefnogi yn chwannog yn eu milein-waith gan y paganiaid brodorawl, arferent y creulonderau mwyaf i'w harteithio a'u marwolaethu. Meddwn enwau rhai o'r merthyron hyn ar gof a chadw; ond diau fod cannoedd wedi eu rhoddi i farwolaeth, am y rhai nid oes genym unrhyw goffhad.

Cymmerrth yr Archesgob Usher lawer o drafferth i gasglu yn nghyd gymmaint ag a allsedd gael o grybwyllion am yr erledigaeth hon; ond y mae yn aniwg fod yr hyn a gynnullodd efe yn nghyd, lawr iawn o ffugchwedlau yn gymmysgedig â'r ffeithiau; gan hyny, yndrechaf hyd y gallaf i grynhof o'r crynswth, gymmaint ag a ymddengys i mi yn fwyaf tebygol i'r gwirionedd.

Yn mys y rhai a seliasant dystiolaeth eu ffydd a'u gwaed yn Mrydain, yn ystod yr ystorn dan sylw, yr ydoedd Alban, Amphibal, Julius, ac Aaron. Meddylir fod Alban o deulu Rhufeinig; ond yn frodor o *Verulam*. Dywedir ei fod wedi gwasanaethu saith mlynedd mewn gwledydd tramor, fel swyddog milwraidd yn myddinoedd Dioclesian; ond wedi ei ddychweliad i Frydain, duwioldeb hynod gweinidog o'r enw Amphibal, a effeithiodd ar ei feddwl yn fawr, ac efe a'i cymhellodd i ymgartrefu yn ei dŷ ef yn Verulam, fel y'i dysgid yn fanylach ganddo yn ngwirioneddau Efengyl Crist. Wedi i orchymyn yr amherawdwr, Galerius a Dioclesian, yr erbyn y Cristionogion, gyrhaedd Prydain, fe'i gosodwyd mewn gweithrediad gan yr awdurdodau, yn ngwahanol barthau ywiad yn ebrwydd; a chan fod Alban yn bryderus am allu celu ei athraw duwiol rhag cynddarodd yr erlidwyr, y rhai a wyddent am dano yn dda, ac a anfonent filwyr i'w ddal, Alban a ymwisgodd fel gweinidog ei hunan, ac a aeth allan i'w cyfarfod; ac efe a ddygwyd yn y fan o flaen y barnwr, neu y *Pro-pætor*, yr hwn oedd ar y pryd yn offrymu aberth i eilunod Rhufain. Wedi ei gythruddo yn ddirfawr at ymddygiad Alban, y barnwr a orchymynai ei lusgo at ddelwau y gau dduwiau hyn, gan ddywedyd ar yr un pryd, "Gan dy fod di wedi llochesu gwrthryfelwr a chyssagr-spellydd, a'i atal ef i

dyddoddef y gospedigaeth ddyledus iddo fel ddistyrwr y duwiau, rhaid i ti dy hunan fynes dan y gospedigaeth hono, os ydyw yn wirioneddol dy fod yn euog o unrhyw gamweddau." A chan fod Alban yn ymddangos yn hollol ddiarswyd yn wyneb y gygythion hyn a'u cyffelyb, y barnwr a ofynai iddo yn sarug, o ba deulu neu wehelyth yr oedd efe. I'r hyn yr atebai y pendefig, Cristionogol; "Ni pherthyn i ti wybod hynny: ond os ydwyf yn ewyllsio gwybod rhyw beth am fy nghrefydd, bydded hysbys i ti fy mod yn Gristion, ac yn rhwym gan ddyledswyddau Cristionogol." Yna y barnwr a ddywedai, "Yr ydwyf yn gofyn dy enw, mynega ef i mi yn y fan." I'r hyn yr atebodd, "Fe'm gelwir Alban gan fy rhieni, ac yr ydwyf yn addoli y gwif a'r bywiol Dduw, yr hwn a greodd bob peth." Yna y barnwr, wedi ei enyn gan ddigllonedd, a ddywedai, "Os myni di fwynhau dedwyddwch ac estyniad einicos, nac oeda offrymu aberth i'r duwiau mawrion." Alban a atebodd, "Ni ddichion yr aberthau hyn fod o un gwasanaeth i'r rhai y'u hoffrymir iddynt, y rhai mewn gwirionedd ydynt gythreiliaid, ac yn hollol analluog i gyflawni dymuniadau ac ewyllsiau eu haddolwyr: ond i'r gwrthwyneb, pwy bynag a offrymont aberth i'r tyfryw eilunod, a dderbyniant gospedigaeth dragwyddol yn uffern." Y barnwr, wedi ei gythruddo yn ddirfwr gan yr ymadroddion hyn, a orchymynai i'r dihenyddwyr ffrewyllu y carcharor, gan dybied y gallasai felly siglo y dianwadalwch calon hwnw nas gallasai ffynu arno trwy eiriau. Alban a ddyoddefai y cyfan, nid yn unig yn amyneddus, ond hefyd yn llawent; gan ei chyfrif yu fraint gael dyoddef dros enw yr Arglwydd ei Waredwr. Y barnwr yn canfod nad oedd dim a siglai ei fydd, a archai ei arwain i'r dienyddle; felly efe a arweinid allan o'r ddinas, a thorwyd ei ben af fryn cyfagos; lle, wedi hynny yr adeiladwyd mewn oesbedd diweddaraeth, grefydd-dy ysplenydd, er anrhydedd i'r merthyr, yn y tref a elwir hyd heddyw ar ei enw, *St. Albans*.

Yn fuan wedi dienyddiad Alban, ymddengys bod Amphibal naill ai wedi ei rhoddi ei hunan i fyny i'r awdurdodau Rhufeinig, neu wedi ei gymmeryd yn garcharor ganddynt; a'i fod ef, yn nghyda naw o'i gyd Gristionogion, wedi eu marwolaethu yn gyfagos i *St. Albans*. Trwy'r un pryd, Aaron a Julius, dau ddinesydd o Gaerlleon ar Wysg, ac amryw ereill mewn amtywiol barthau o'r wlad, yn wfr a gwagedd, a ddyoddefasant yn yr un achos gogoneddus.

Adroddaf yma ddau draddodiad lleawl, y rhai a allant dafu peth golau ar y cyfnod yma ar Gristionogaeth yn ein gwlad. Ar gyffiniau plwyfau Llanfihangel Dinsylwy yn Mon, y mae diphwys ofnadwy yn nghreigiau glan y môr, a elwir "Nant Dienydd," a'r traddodiad yn y gymylogaeth yw, y rhoddiad Cristionogion i farwolaeth yno mewn rhyw oes, trwy eu rhoddi mewn barllau, trwy y rhai y byddai picellau heilyn wedi eu gyru, a'u blaenau llymion i fewn, ac yna y'u treiglid dros y dibyn arswydol i waered i'r môr. Yn agos i'r dienyddle ddywededig, y mae hen orsaf filwraidd Rufeinig, a elwir "Dinas Sylwy," lle y cafwyd, rai blyneddau yn ol, amryw fathiadau, a rhai eilunod Rhufeinig; ac heb fod yn nepell, yn mhlwyf Llaniestyn, y mae lle a elwir "Pen yr orsedd," lle ond odid y cynnallai y barnwr ei frawdlys.

Yr ail draddodiad sydd yn y deryn canlynol, a nodais o Newyddiadur Caerynarfon am Gorph. 24, 1847:—"Yr wythnos ddiweddaf, fel yr oedd rhai bechgyn yn ymddifyru wrth droi rhyw gerig rhyddion ar y Mynydd Mawr, yn agos i dyddyn o'r enw Castell Goronwy, uwchlaw Nantlle. hwy a gawsant, mewn hen lestr *tin*, nifer o syltau, o fathiad Harri VIII.; un o ba rai a welson, ac yr oedd mewn cadwriaeth ragorol. Mae amryw le-odd teiwlwg o sylw yr hynafiaethydd yn y gymydogiaeth; un o'r cyfryw

yw '*Pen yr orsedd*,' yr hwn oedd unwaith yn lle o fri, fel y mae ei enw yn arwyddocau; yn gyfagos i hwn y mae '*Cwm Cerwin*,' lle y dywaid traddodiad yr arferid cyflawni cospedigaeth yn yr hen oesoedd trwy fwrw y troseddwr mewn baril, neu gerwin bioellog, i dreiglŷ i waered ar hyd ystlys y Mynydd Mawr, i Gwm Cerwin. Y mae lle nodedig arall hefyd heb fod yn nepell, ar fynydd y Cilgwyn, a elwir '*Mynydd Twrog*,' lle y mae amryw gerig mawrion ar eu penau, yn amgylchedig â phentwr o rai bychain, y rhai, meddir, a ddefnyddid i labyddio troseddwy. Mae y rhan fwyaf o gerig mawrion, lled luniaidd, wedi eu symud yn ddiweddar, a'u defnyddio i adeiladu y tai lluosog sydd wedi eu cyfodi gan y chwarel-wyr ac ereill ar y mynydd. Gwelir olion ffordd Rufeinig hefyd yn y gymmydogaeth hon, yn amgylchu godrau y Mynydd Mawr, gan gyfeirio o'r orsaf Rufeinig yn Ninas Dinlle, efallai, tua rhai o'r gorsafodd oedd-ynt yn swydd Feirionydd, trwy Garn Farchnad, ar yr ochr arall i'r nant, efallai, lle y cyfarfyddai trigolion Meirionydd ac Arfon i gyfnewid eu nwyddau. Cafwyd rhai hen fathau hefyd yn gyfagos i'r lle dywededig, rai blyneddau yn ol. Nid yw y cyfiredin yn deall, efallai, fod tŷ ffarm presenol Nantlle wedi bod unwaith yn rhan o lys breninol Iorwerth I. Y mae yn gorwedd ar wastadedd rhwng dau lyn, a'i hen enw ydoedd '*Bala Deulyn*,' ac oddiyma y dyddiai y penadur hwnw rai o'i gyfreithiau ydynt ar gael eto."

Oddiwrth y crybwyllion hyn y mae yn lled hawdd i ni gasglu bod erledigaeth hyd anghu, mewn amryw ffyrdd creulawn, wedi bod ar Gristionogion yr ynys hon yn foreu; canys nid oedd y ddulliau o farwolaethu a grybwyllir yn y traddodiadau uchod mewn arferiad, hyd y deallais i, yn yr erledigaethau Pabaid; ond yr oeddynt yn yr erledigaethau Paganaid. Heblaw hyny, y mae lle a elwir '*Pen yr orsedd*' yn agos i'r dda le, a gorsafau Rhufeinig hefyd; ac yn agos i un man y mae mwynt, lle y cleddid cyrph maluriedig y merthyron, efallai; ond yn y fan arall, nid oedd angen claddfa, gan fod y môr yn eu cymmyrd ymaith.

Gyda golwg ar yr erledigaeth hon ar yr eglwys ieuanc egwan yn Mrydain, y dywedai yr *Archegob Usher*: "Lluaws mawr o wyr a gwragedd mewn amrywiol ranau o'r ynys, a ddyoddefasant y poenau mwyaf creulawn, a chan orfoleddu yn eu dyoddefiadau, a orchymynasant eu hysbrydoedd i ddwyllaw Ceidwad fyddlawn. Eraill a ffoisant i'r coedwigoedd, ac a ymgyddiasant mewn ogofeydd a mynyddoedd, nes i Dduw eu gwaredu hwynt oddiwrth lidiawgrwydd eu gelynon."

*Clarke* yntau, yn ei Ferthyrdaith, a ddywaid, "Er na pharhaodd yr erledigaeth greulon hon ond tua blwyddyn a haner yn Mrydain, laddwyd cynnifer o Gristionogion, llosgwyd cymmaint o'r Ysgrhythrau, a thynwyd i lawr gynnifer o'r addoldai yn yr yspaid hyny, fel braidd na ddiwreiddiwyd Cristionogaeth o'r wlad."—Dywed eraill, i filoedd o wrywod a benywod ddyoddef merthyrdod yn Mrydain ar yr adeg hon.\*

O'r diwedd, Dioclesian a roddodd i fynu y swydd amherodrol, a chyn hir llwyddwyd i gael gan ei gydamerawdwr, Maximian Hercules, wneyd yr un peth: ac ar hyny, Galerius a'i cyhoeddodd ei hun yn amherawdwr y Dwyrain, a chafodd Custeint Clorus ei wneyd yn amherawdwr y Gorllewin; ac erbyn iddo ef gael yr arbenicter yma, efe a barodd ataf a yr erledigaethau trwy y gwledydd hyn yn fuan; canys er nad oes genym lle i farnu ei fod ef wedi ei oleuo â goleuni yr Efyngyl, yr oedd efe yn ŵr o dymher dda a hynaws, ac felly dangosodd diriondeb mawr at y Cristionogion, fel y dychwelodd y rhai a enciliasant, o'u llochesau, ac y dechreu-

asant ail adeiladu yr addoldai a ddymchwelasid, a'u calonau a lanwyd o lawenydd a gorfledd am ddaioni Duw. Gosodwyd dyddiau hefyd i'w treulio mewn ympryd a gweddi, o goffadwriaeth am y rhai enwocaf o'u brodyr a roisid i farwolaeth yn ystod yr erledigaeth.\* Dyma ydoedd dechreuad y Gwylmabsaint a gynnelir mewn amrywiol leoedd yn ein gwlad, i ddybenion ac mewn dull tra gwahanol i'w gosodiad cyntaf. Y Rhufeiniaid a'u galwent, "*Festi Memoriae Sanctorum*," a'r Cymry a'u galwent "Gwyliau Mybyr Sant;" ac oddiwrth yr enw hwn y daeth Gwyliau Mab Sant.†

Er y myn rhai o bleidwyr Eglwys Rhufain haeru fod y llusern Gristionogol wedi ei llwyr ddiffoddi yn Mrydain dan yr ysturm grybwylledig, ac na ail oleuwyd mo honi hyd amser Awstin Fousach, y mae yn hawdd profi i'r gwrthwyneb: canys yn nyddiau Cystenyn Fawr, fab Custeint, yn y flwyddyn 314, gorchymynai yr ymherawdwr i esgobion yr amrywiol dal-eithiau ymgylfarfod mewn cymafia yn Arles, tref yn Ffrainc, i gymmeryd dan eu hystyriaeth ddadl a gyfodasid yn eglwysi Affrica, gan blaid a elwid y *Donatistiaid*, ac oedd yn bresenol yn y gymmaniaf hono dri o esgobion Cymreig, sef *Ifor*, esgob Caerfrog, *Rhustyd*, esgob Llundain, a *Brawdol* neu *Cadfraud*, fel y'i gelwir mewn rhai hen gofion, esgob Caerlleon ar Wysg; a'r tri esgob hyny a law-nodasant y rheolau a wnaethpwyd yno: a chyda yr esgobion uchod yr oedd yn wyddfodol, fel cenhadon o Frydain, *Sacerdos* yr henuriad, ac *Armin* y diacon, o Gaerlleon ar Wysg. Y mae y rheolau y cytunwyd arnynt yn y gymmaniaf uchod, ac a law-nodwyd gan y cenhadon crybwylledig o Frydain, yn fanteisiol i ni i ffurfio barn am ansawdd yr Eglwys Gristionogol yn Mrydain yn nechreu y bedwaredd ganrif. Dyma hwy:—

1. Fod y Pasg i gael ei gadw ar yr un amser flwy. yr holl fyd; a bod esgob Rhufain, fel arferol, i roddi gwybodaeth o'r diwrnod.

2. Nad oedd i un esgob sathru ar esgob arall.

3. Fod esgobion teithiol i gael caniatad i gyflawni eu swydd yn y dinas- oedd i ba rai y deuent.

4. Nad oedd un i gael ei gyssegru yn esgob, heb fod tri esgob, o leiaf, yn bresenol.

5. Fod y gweinidogion a roddent arian allan ar log, i gael eu hygygym- muno.

6. Nad oedd y gweinidogion ddim i ymadael a'r eglwysi lle yr oeddynt wedi cael eu hurddo.

7. Na chai y diaconiaid ddim gweinyddu yr ordinhad o Swper yr Ar- gliwydd.

8. Yn gymmaint a bod yr erledigaeth gwedi darfed, fod y rhai a wrth- odent barhau yn yr alwad o filwyr, i gael eu hatal o gymmundeub.

9. Fod y rhai oedd yn gyru cerbydau mewn rhedegfeydd, ac yn dyn- wared mewn chwareudai, i gael eu troi o gymmundeub.

10. Fod y Cristionogion hyny a fyddai yn cael eu gosod yn llywodraeth- wyr mewn lleoedd pellenig, i ddwyn gyda hwynt lythyr cymmeradwyaeth oddiwrth eu hesgob eu hunain, ac na fyddai iddynt gael eu hatal o gym- mundeub, oddieithr eu bod yn ymddwyn yn groes i ddysgyblaeth yr eglwys.

11. Fod y personau hyny, gwragedd pa rai a ddelid mewn godineb, i gael eu cynghori i beidio priodi drachefn tra byddent byw.

12. Fod y gwyrffon a briodent anghredinwyr i gael eu hatal o gym- mundeub dros amser.

\* Bede, llyfr 1., pen. 8.

† Rowland's *Mons Ant.*, p. 184.

13. Ns chai y rhai a gangyhuddent eu brodyr, ddam eu derbyn i gymundeb tra y byddent byw.

14. Nad oedd i neb ag oedd wedi ei ysgymuno mewn un lle, i gael eu derbyn mewn lle arall.

15. Nad oedd i un gwrthgiliwr gael ei adferyd i gymundeb mewn clefyd: ond bod iddo aros hyd oni wellhái, a phrofi ei ddiwygiad.

16. Gan fod y Donatistiaid, ac ereill, yn ail fedyddio y rhai a fedyddiasid gan eu gwrthwynebwy'r, penderfynwyd nad oedd y rhai oeddynt wedi eu bedyddio yn enw y Drindod Sanctaidd, i gael eu hail fedyddio."

Ba wedi hyn gymmanfeydd yn Nicea, Sardis, ac Amminium, y rhai a elwid yn nghyd ya benaf yn achos cyfalloimadau Arius, a bernir fod amryw esgobion o Frydain yn bresenol yn mhob un o'r cymmanfaoedd uchod, y rhai trwy eu pleidleisiau a brofent fod yr eglwysai Cymreig hyd yn hyn yn uniawngred.

Tua'r flwyddyn 380, ysgrifennai Crystostom, gan ddywedyd, "Tafodiaith y Prydeiniaid sydd drwagl eschyll; ond y maent yn seinio yn hyfryd yn eu barn yn neghlych crefydd; yno y maent yn bersaidd ac yn gywir. Eu iaith yn wir sydd wrthua, hags arw; ond eu moesau sydd lariaidd a sanctaidd." Yr oedd efe yn barnu bod eu hiaith yn drwagl, ac yn arw, am nad oedd efe yn eu deall; neu ynte, sfallai ei fod ef yn cyfeirio at ddull trwagl yr esgobion Prydeinaidd yn llefaru mewn iaith estronol yn y cymmanfaoedd, pan yn traethu eu barn ar bynciau y ffydd: canys er eu bod yn gyfarwydd fel dysgedigion ar y Lladin a'r Groeg, nid yw yn debyg y gallent droi eu tafodau mor rwydd i lesaru yr iaith hono yn ystwyth. Tystiai *Athanasius* a *Hilarus* fod esgobion Prydain yn rhydd oddiwrth Ariaeth: ond y mae Gildas yn dweyd i'r heresi yma gael eu dwyn drosodd i Frydain rhywfodd, a chynnyrchu yr effeithiau mwyaf niweidiol, a'r ymrsonau chweraf. Y mae lle cryf i feddwl fod y syniadau Ariaidd wedi llygru llawer ar eglwysai yn Mrydain, er y gellir meddwl bod yr esgobion, neu weinidigion yr eglwysai, wedi ymgadw ya lan oddiwrthynt. Yr oedd Arius a'i syniadau mewn cryn ffafr gyda Chystenyn ac yn ei lys, ac y mae genym heb lle i gaelu fod amryw o benedigion ieuainc yr ynys hon yn treulio llawer o'u hamser yn ac o ddentu y llys amherodrol yn amser Cystenyn; a pheth oedd yn fwy tebyg nag y buasai i'r rhai hyn ddwyn yr heresi yma "dros y môr" (chwedi Gildas) i Frydain.

Mae y sylwadau canlynol yn cael eu gwneyd gan awdwr dysgedig yr *Horae Britannicae*, ar ansawdd Cristionogaeth yn Mrydain yn ystod y ganrif hon, sef y bedwaredd:—"Barnwyd yn gyffredinol fod y grefydd Cristionogol wedi gwreiddio yn ddwfn yn Mrydain yn ystod teyrnasiad Cystenyn Fawr, a chyfranogi o'r nawdd breninol, fel taleithiau ereill o'r amherodraeth. Mae yn wir y gwellhái y Cristionogion Prydeinaidd yn y gwycheder allanol a ddynodai ffyniant crefydd dros yspaid y tymhor heulawg yma ar yr eglwys; yr adeiladau neillduedig i addoliad cyhoeddus a addurnid a gradd o wycheder cyfaddasedig i grefydd sefydledig yr amherodraeth: a'r gwyr llen a berchid, ac a anrhydeddid a sylw a mawrion. Ond yr archlwyisiaeth a ffynai mewn gwledydd ereill, dan aden gysgodol ffaf amherodrawl, ni chyfarfyddai a daer mor gydnaws yn yr ynys hon; ac y mae yn lled anhawdd penderfynu a oedd yn y wlad hon lywodraeth eglwysig esgobawl reolaidd yn fynu yn y canrif yma. Mae yn wir fod esgobion yn amryw o'r trefydd a'r dinasoedd mawrion; ond nid oedd y rhai hyn eto yn llwythog ág urddau tymhorol a chyllidau mawrion. Nyni a allwn furfio rhyw ddyfaliad o barth eu sefyllfa oddiwrth yr hyn a ddy-

wedtr am yr esgobion Prydeinaidd yn nghyngherfa Arminum; canys tra yr oedd yr esgobion eraill oeddynt yn bresenol yn dwyn eu traul eu hunain, hwy yn unig a dderbyniasant o haelioni yr amherawdwr, ac y dygwyd eu traul gan y llywodraeth.

"Yr oedd yr eglwys yn cael ei gwneyd yn agored i beryglon newyddion yn nhyrnhor llwyddiant allanol. Yr oedd cydffurfiaid â'r byd, yr hwn ya awr a wenai arni, yn dechreu cael effaith dra niweidiol ar len a lleyg. Llygrid symrlwydd crefydd, trwy ei llwytho â defodau chwyddedig, dan yr eagus teg o enill y Paganïaid drwy hyny i goffeidio croes Crist: ac felly y cafodd dynion dycëithr i rym tufewrol crefydd rywbeth yn ei le mewn ffurfiau allanol. Dygid amrywiaeth mawr o ddefodau i'r addoliad dwyfol, a meddai pob talaeth o'r bron ryw hynodrwydd o'r eiddo ei hun, yr hyn mewn amser a barodd lawer o ymrysonau chwerwon. Ond efallai fod tlodi yr eglwysi Prydeinaidd yn foddion i'w cadw i ryw fesur rhag rhedeg i'r unrhyw ryseid ag eglwysi ereill. Er hyny, os nad ymadawodd ein tatau oddiwrth y symrlwydd cyntefig can belled ag eglwysi yr Eidal a'r Dwyrain, yr oeddynt hwythau hefyd yn dra choelgrefyddol. Yn mysg y lluaws a ymdeithiant i Jerusalem, i ymweled â bedd ein Gwaredwr, ar yr hwn yr adeiladai mam Cystenyn eglwys ysblenydd, yr oedd amryw o'r Brython. Crybwyllir bod rhai o honynt hwy hefyd yn mysg y pelerinion a deithiant i Syria, i ymweled â rhyw wallgokddyn crefyddol, a elwid Simon y Golofn, am ei fod, meddir, wedi byw ar ben colofn uchel dros ddwy flunedd ar bymtheg ar hugain. Fel hyn y dywaid *Theodore*, 'Deuai llawer i'w weled o eithafoedd y gorllewin, yn enwedig o'r Hispaen, Gâl, a Phrydain.'

"Mae rhai awdwyr yn dal fod meadwyaeth wedi ei dddwyn i'r wlad yma cyn diwedd y ganrif hon: ond nid ymddengys ei fod wedi ffyn nemawr yma hyd y ganrif ganlynol. Dechreuwyd cymmeradwyo y rhyw yma o sefydliad yn yr Eidal a Gâl, neu Ffrainc, yn ystod y bedwaredd ganrif; ac yn Ffrainc yr oedd Martin o *Tours* yn gefnogwr galluog ar y ddysgyblaeth fonachaid. Ond nid oedd y sefydliad monachaid ar y dechreu yn gymmaint arwydd o adfeiriad crefydd, ac o ymlygrïad yr eglwys, ag y gellid meddwl oddiwrth yr hyn y dirywiodd y sefydliad hwnw iddo wedi hyny; oblegyd nad oedd y gosodiadau hyny wedi eu llychwino â'r rhwysg a'r llygredd hyny a ymddangosodd ynglŷn â hwynt dan lywodraeth Pabyddiaeth. Sefydlwyd hwynt ar y dechreu er hyrwyddo dysg, a meithriniaid dauwioledeb, fel y gellid dwyn i fynu ddyinion addas i weinyddu yn ngwasanaeth crefydd. Y monachod a ymgynallient drwy dria tiroedd gwylltiau a roddid iddynt gan y boneddigion a tywysogion; gweddient ac ymprydient yn fynyoh, a'u holl ymddygiad ydoedd ddiargyhoedd: ac yn wir, ymddangosa i'r holl gyfandrefa yn dra ohyfaddas i amgylchiadau terfysgïd yr amseroedd hyny."

Dros ran fawr o'r bedwaredd ganrif, sef yn ol y *Dr. W. O. Pughe*, o'r fl. 328 hyd y fl. 389, yr oedd *Cunedda Wledig* yn teyrnasu. Yr oedd efe yn benadur Brython Ystrad Clwyd, a thrwy ei fam, Gwawl, ferch Coel Godhebwg, yr oedd iddo etifeddiaethau eang yn Nghymru. Pan orea-gynwyd y rhai hyn, ac y'u trawsfeddiannid gan y Gwyddelod, Cunedda, gan yr hwn yr oedd teulu mawr, a anfonodd amryw o'i feibion i Gymru, i'r dyben o geisio adenill eu tiriogaethau oddiarnynt, yn yr hyn y buont yn dra llwyddiannus, a hwy a sefydlasant eu hunain yn y wlad. *Tybiawm*, ei fab henaf, a fu farw yn Ynys Manaw; ond *Meirion ab Tybiawm*, ei fab, a gafodd gantref Meirion, yr hwn a alwyd felly ar ei enw ef; *Arwystl ab Cunedda* a gafodd Arwystli; *Einion* a gafodd Caer Einion, yn sir Drefalawya; *Ceredig* a gafodd Geredigion; *Dunod* a gafodd Deunodig, yn



swydd Gaerynaron; *Edeyrn* a gafodd Edeyrnion, yn swydd Feirionydd; *Mael* a gafodd Ddinmael, yn str Dinbych; *Coel* a gafodd Goelion; *Dogfael* a gafodd Ddogfaelin; *Rhufon* a gafodd Rufoniaiwg, oll yn sir Ddinbych; ac *Oswail* a gafodd Oswelin, yn str y Mwythig. Amryw ereill o'i feibion a'i wryion a ymroddasant i wasanaeth cysegredig, wedi eu hamddifadu o'u tiriogaethau gan y Pictiaid a'r Sacsoniaid; am ba achos y mae tylwyth Cunedda yn cael eu crybwyll yn y Trioedd fel un o dri gwelygordd sanctaidd Ynys Frydain; y ddau ereill oeddynt eiddo Bran a Brychan. Nid yw yn annhebyg fod Cunedda, wedi bod dros rai blynyddoedd cyn ei farwolaeth yn meddu arbenieter yr holl ran o'r ynys o Ystrad Clwyd hyd eithaf Gwynedd, a thylbiaf mai ar y cyfrif hwnw y'i cyfenwid *Cunedda Wledig*. Yr oedd Cunedda yn gangen oddiar hen gyff Bran ab Llŷr, ac fe ymddengys i mi, trwy gymmaint a allais gael o'i hanes, ei fod yn caru crefydd Crist, ac yn eiddgeddu dros ei llwyddiant; canys dywedir ei fod wedi dwyn ei blant i fynu yn egwyddorion crefydd Crist, a rhoddi tiroedd a breintiau gwladol i'r rhai a broffesent y ffydd yn Nghrist, a'r rhan fwyaf o'i feibion a ymglyfwynasant i'r Arglwydd, ac a fuant yn llafurus a ffyddlawn yn eu hoes gydag achos crefydd; ac ereill o'i hiliogaeth a fuant achlesawl i grefydd, a chymmwynasgar i Weinidogion y Gair.

Caswallon Law Hir oedd wŷr i'r dywededig Cunedda Wledig, mab i Einion Yrth ab Cunedda. Y gŵr hwn a ymladdodd amryw frwydrau a'r Gwyddelod, ac a'u llwyr orchfygodd mewn brwydr ofnadwy, yn agos i'r fan lle y mae Caergybi yn gorwedd yn bresenol. Dywedir ei fod wedi hualu ei wŷr yn y frwydr hono, fel y gwrthsafent ruther eu gelymion fel un gŵr, ac yno efe a laddodd eu blaenor *Serigi* a'i law ei hun, ac felly a orphenodd waredu Gogledd Cymru oddiwrth eu gormes.

Mewn canlyniad i'r fuddugoliaeth fawr hon, ac fel ecydnabyddiaeth o'i ddiolchgarwch i'r Duw Goruchaf, efe a adeiladodd addoldy neu gapel yn y fan lle y cwympasai Serigi Wyddel, yr hwn a elwid "Capel y Gwyddyl," a'r ardal a elwid "Llan," neu "Glan y Gwyddyl." Wedi hyn y mae yn ymddangos i Caswallon adeiladu iddo ei hun un llys yn y bryn a elwir Mynydd Eilian, lle y mae lle a elwir hyd heddyw "Llys Caswallon;" a thebygir bod ganddo dreigle tywysogaidd arall yn y Creuddin, ar lan afon Gonwy, y lle a elwir hyd heddyw "Bod Caswallon."

Yn ei ddyddiau ef y sefydlwyd tri chor, neu dair athrofa, yn Ynys Fôn, er dwyn gwŷr ieuainc crefyddol yn mlaen mewn dysgeidiaeth a'u cymhwysai i weinidogaeth y Gair; y naill yn Llan y Gwyddyl, dan lywyddiaeth *Cybi*, am ba achos y'i gelwid *Cor Cybi*, ac mewn amser Caergybi; y llall yn mharth gogleddol yr ynys, dan lywodraeth *Elian*, oddiwrth yr hwn y galwyd y lle *Llanelian*; a'r drydedd yn mharth dwyreiniol yr ynys, y lle a elwid Penmon, dan lywyddiaeth *Seiriol*, ac ar ei enw y gelwid ynys fechan gyfagos yn *Ynys Seiriol*; ond "Ynys Glanach" y'i gelwid o'r blaen.

Cybi ydoedd fab Selyf ab Geraint ab Ebrin, a Gwen ferch Gynyr o Gaer Gawch. Yr oedd ei dad yn benadur yn Nghernyw; ond efe, wedi cael blas ar wybodaeth, a adawai lys ei dad, ac a elai drosodd i Ffrainc, lle y treuliodd gryn yspaid gyda'r hybarch *Hilary*, esgob Poitiers, yr hwn, wedi cael perffaith foddlonrwydd yn ei ddysg a'i dduwioldeb, a'i hordeiniodd i weini mewn pethau cysegredig. Efe a arosodd yn Poitiers yn gynnorthwywr i'r hen esgob da, hyd oni fu efe farw, yna y dychwelodd Cybi i'w wlad ei hun; ond nuor gythryblus oedd y wlad hono ar y pryd, fel y'i gadawodd, er ei fod yn etifedd y benaduriaeth; ac wedi iddo hwylio allan i'r môr, efe a laniodd gyntaf yn *Mhenrhyn Menafia*, a alwyd yn ddiweddarach *Ty Ddewi*: ond gan nad oedd efe yn dewis aros yma, efe a

groesodd y brigwyn i'r Iwerddon, lle y dywedir iddo aros dros bedair blynedd. Gallwn gasglu oddiwrth hyny, fod Cristionogaeth wedi ei phlanu eisoes yn yr Iwerddon; gan nad yw yn ymddangos fod Cybi wedi ymfudo yno er troi y Paganiaid at Gristionogaeth, ond yn hytrach i ymofyn am le tawel i ymroddi i fywyd crefyddol mewn neillduath, ar ynys fechan, lle yr adeiladai grefydd-dy bychan iddo ei hun. Wedi ei aflonyddu, efallai, yn ei ddeuwistan neillduedig, efe a groesodd y môr drachefn ac a ymsefydlodd yn agos i Lan y Gwyddyl, ar borthyn gorllewinol Ynys Fôn; ac yno, medd *Leland*, efe a adeiladodd ryw le bychan iddo ei hun ar y dechreu; ond Caswallon, gan dosturio wrth waeledd ei dreigle, a roddes gastell oedd yn y gymmydogaeth iddo, a thiroedd at ei wasanaeth; ac mewn canlyniad i'r dyroddiad hael hwn, sefydlwyd monachlog fechan yn y lle, yr hwn a alwyd ar ei enw Caergybi. Dywaid *Leland* yn ymhellach, fod yn ei amser ef, yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed, Gynonwyr a Chor-weinyddion, y rhai oeddynt yn enwog am eu lletygarwch i rai ar eu taith drwy y lle i'r Iwerddon.

*Elian*, a gyfenwid *Elian Geimlad*, neu y *pererin*, ydoedd fab Gallgu Rieiddawg ab Carcludwys ab Cyngu ab Yabwys ab Cadrod Calchfynydd. Ei fam oedd Canna ferch Tewdwr Mawr ab Emyr Llydaw. Efe a ymsefydlodd, fel y crybyyllwyd eisoes ar oror ogleddol Ynys Fôn, yn y lle a elwir ar ei enw Llanelian, yn amser Caswallon Law Hir, yr hwn, debygid, oedd yn dra hoff o hono, ac a roddes lawer o ddiroedd a breintiau iddo, gan wneuthur ei grefydd-dy yn *noddfa*. Y mae llawer o draddodiadau hynod yn cael eu cadw ar gof yn y gymmydogaeth, o berthynas iddo hyd heddyw. Un o honynt yw, fod Caswallon wedi erchi i *Elian* ollwng ei gi ar ol carw i'r tywysog; a pha faint bynag o dir a amgylchai y carw o fiasn y ci, y rhoddid hyny at wasanaeth crefydd yn y rhan hono o'r wlad; ac felly, meddir, y nodwyd allan blwyf Llanelian yn Môn; ac y mae yno aber fechan yn agos i Borth Eilian, a elwir hyd heddyw "Llam y Carw," yn goffadwriaeth am y rhedfa uchod.

*Seiriol* ydoedd gâr agos i Caswallon, debygid, canys fel hyn y cawn am dano yn "Achau y Saint:"—"Seiriol ab Owain Danwyn ab Einion Yrth ab Cunedda Wledig." Yr oedd ganddo ef gapel a elwid "Capel Seiriol" yn Mhenmon, a chrefydd-dy yn Ynys Seiriol, gerllaw; dywedir fod ganddo ef athrofa enwog, ac y byddai meibion pendefigion a thywysogion o wledydd pellenig yn dyfod i dderbyn addysg ganddo. Yr oedd y tri wŷr hyn yn dra enwog am eu duwioldeb a'u symrlwydd, ac yn treulio eu holl amser yn llwyr mewn ymprydiau, gweddïau, a llafur crefyddol. Dywedir yr arferent gyfarfod ar amserau gosodedig yn agos i Glorach, lle y mae ffynonau ar enwau dau o honynt, i ymgynghori pa fodd oreu i ddwyn yn mlaen achos crefydd yn y wlad, ac anog eu gilydd i gariad a gweithred-oedd da; a chan y byddai yr haul i wyneb Cybi yn wastad wrth ddyfod yn y boreu, ac wrth ddychwelyd yn yr hwyr, a'r un modd i gefn Seiriol, gelwid y maill "Seiriol Wyn," a'r llall "Cybi Felyn," medd y traddodiad.

Tua'r cyfnod yma, neu efallai ychydig yn foreuach, yr oedd Morgan, yr hwn sydd yn fwy adnabyddus wrth ei enw Lladinaidd *Pelagius* yn blino eglwysol cred â'i athrawiaethau cyfeiliornus, a diau iddo wneuthur llawer o niwaid i wir grefydd mewn rhai parthau o Gymru. Dywedir iddo gael ei ddwyn i fynu yn Athrofa Bangor is y Coed,\* a chyfrifid ef yn un o'r

\* Y mae llawer yn meddwl mai Lles ab Coel a sefydlodd yr Athrofa yn Mangor is y coed yn yr all ganrif; a bod Dunod Fawr, mab Fabo, yn nghyda'i feibion Deiniol, Cynwyl, a Gwathan, wedi ei hadnewyddu, a rhoddid tiroedd at gynnalïaeth y sefydliad, tua'r chwched ganrif.

dynion dysgedigaf yn y byd yn ei oes. Priodolir y cyfeillionwadau canlynol iddo ef:—

1. Fod Adda wedi ei greu yn greadur marwol, ac y buasai efe marw pe y buasai heb bechu.

2. Nad oedd pechod Adda o un anfantais ond iddo ef yn unig.

3. Fod y Gyfraith yn cymhwyso dyn i deyrnas nefoedd, ac wedi ei selio ar ogyfuwch addewidion a'r Efengyl.

4. Fod rhai dynion cyn dyfodiad Crist yn byw yn ddi-bechod.

5. Fod babanod yn yr un cyflwr ag Adda cyn y cwmp.

6. Mai nid anufudd-dod Adda yw yr achos o farwolaeth holl ddynolryw; ac nad yw yr adgyfodiad cyffredinol yn deilliaw trwy rianwedd adgyfodiad Crist.

7. Pe byddai dyn yn ymdrech, y gallai efe gadw holl orohymynion Duw heb un anhawdra; a chadw ei hun mewn cyflwr o ddiniweidrwydd perffaith.

8. Er i gyfoethogion gael eu bedyddio, a byw yn rhinweddol, nas gallant fyned i'r bywyd heb iddynt ymadael a'u holl olud.

9. Nad ydyw gras a chymhorth Duw yn cael eu rhoddi i gyflawni pob gweithred foesol; ond fod rhyddid yr ewyllys, a gwybodaeth o ddyfod-awydd, yn ddisgonol i ateb y dyben.

10. Fod gras Duw yn cael ei roddi yn gyfatebol i haeddiant dyn.

11. Na all neb gael eu galw yn blant i Dduw oddisithr eu bod yn berffaith ddi-bechod.

12. Mai trwy ryddid ei ewyllys, ac nid drwy gymhorth Duw, y mae i ddyw gael buddugoliaeth ar ei brofedigaethau.\*

Tybia amryw fod Morgan wedi cael llawer o'r syniadau hyn o hen athroniaeth y Derwyddou;† ond y mae eraill yn barnu mai o'r Dwyrain y daethant, ac yn haeru eu bod i'w canfod eisoes yn ysgrifeniadau *Origen*, &c. Ond er mor anysgrythyrol oeddynt, cawsant dderbyniad rhywyd a chymradwyaeth helaeth yn y byd, fel y bu yr eglwys mewn perygl o lygriad cyffredinol oddiwrthynt. Morgan, a chyfaill iddo, o'r enw *Coelestius*, gŵr tra dysgedig o'r Iwerddon, o'r un daliadau ag yntau ei hun, a aethant i Rufain, ac a fuant mewn bri mawr yno dros amser. Wedi hyny hwy a ymadawsant o Rufain a daethant i Sicily, ac oddiyno yr aethant i Affrica, lle y lledaenent eu daliadau yn fwy eofs. Ond Awstin, yr hwn wedi hyny a fu yn esgob Hippo yn Affrica, a gyfodwyd i'w gwrthwynebu, a thrwy ei ysgrifeniadau nerthol llwyddodd i gyffroi yr eglwys i ystyried ei pherygl, a'r canlyniad fu cynnal amryw gynghorau cyffredinol o bryd i bryd i wrthladd lledaeniad y syniadau hyn o'r eiddo Morgan a'i gefnogwyr.

Nid yw yn ymddangos i Forgan ei hun ddychwelyd i Frydain, ond ei ddaliadau a daenid yma yn ddyfal, yn enwedig gan un o'r enw *Agricola*, mab i'r esgob *Sverianus*, yr hwn efallai a orfuasai ffoi o wlad Gal mewn canlyniad i orchymryn yr ymherawdwr Valentinianus; ac ymddengys eu bod yn ymledu mor brysus yn y wlad hon, fel y teimlai yr eglwys yn Mrydain yr angenheidrwydd i wneyd rhyw egnai anaghyffredin i'w gwrthsefyll.

Efallai fod ymadawiad y Rhufeiniaid a'r ynys hon, yn nghyda mynych ruthriadau y llywthan barbaraid, wedi peri cymmaint o niwed i achos crefydd a llenyddiaeth yn yr ynys hon, fel ag yr oedd y pryd hyn yn amddifad iawn o ddwyfyddion a dysgedigion galluog i wrthsefyll y llifeiriant

\* Hanes Crefydd yn Nghymru, t.d. 111, 112.

† Dr. Richard's Account of Morgant or Pelagius, p. 105.

o gyfeillorni oedd yn bygwth gorsegyn yr holl wlad. Felly anfonid i Gal am gymorthydd oddiwrth yr eglwys Gristionogol yno; ac yn ol eu cais, anfonwyd *Garmon a Bleiddyn*, y cyntaf yn esgob *Auzerre*, a'r olaf yn esgob *Troyes*, a'r ddau yn dra hyddysg yn yr holl ddiadl berthynol i'r gyfundraith Forganiaidd, ac yn nodedig am eu duwioldeb personol, a'u sel dros y gwirionedd. Cawn hysbysiad am *Garmon*, ei fod yn fab i *Rhedyu*, ac ewythir i *Emyr Llydaw*, ac felly o waedoliaeth Cymreig; ac nid yw yn annhebyg fod *Bleiddyn* o'r unrhyw waedoliaeth. Meddytir fod y ddau wr dysgedig hyn wedi tirio yn Mrydain tua'r flwyddyn 429, a dechreuasant deithio o gwyrbwy gilydd i'r wlad, gan bregethu y gwirionedd i gynnulliaidfaoedd lluoedd awg a gyrchent i'w gwrandaw pa le bynag yr elent. O'r diwedd, blaenoriaid y *Morganiaid* a'u cyfarfuant mewn cymanfa gyhoeddus yn *Verulam*, i ddaedleu ar y pynciau yr amgbytuant mewn perthynas iddynt, a lluwais mawr o bobl a ddaethant yn nghyd, i wrandaw y ddaedl, ac i farnu drostynt eu hunain, gan hwy yr oedd y gwirionedd. Y *Morganiaid* yn gyntaf a maddiffynasant eu daliadau hyd eithaf eu gallu; ond *Garmon* a *Bleiddyn* a dywalthasant y fath lleifariant o resymau oedyn ac ysgrhythrol yn erbyn eu hathrawiaeth, gan ddynoesithi ysgelerder eu cyfeillornadau yn y fath fodd, fel nad oedd rym yn y *Morganiaid* i'w hateb, a tharwy anhawser yr atelid y bobl rhag rhuthro arnynt.\*

Yn fuan ar ol y gymanfa uchod, yr oedd *Garmon* a *Bleiddyn* ar eu taith drwy y wlad i hyfforddi y Cymry, pan y daeth y *Pictiaid* a'r *Saeson* yn dorffeydd mawrion o Scotland, gan anrheithio y rhan ogleddol o Gymru. Ac fel yr oedd lluwais o'r Cymry wedi cyfarfod yn y rhan hono o'r wlad, i wrando ar y gwyr enwog hyn yn pregethu, mynegwyd iddynt fod byddin y gelymion yn neshau; a *Garmon* yn llawn gwroldeb a sel, a dynodd, a'r lluwais dysgyblion yn ei ddilyn, i nant, yn agos i'r *Wyddgrug*, sir *Pfint*, yr hon a elwir hyd heddyw "*Maes Garmon*," ac wedi peri i'r Cymry ddysgwy! yn dawel am ddyneshad y gelymion, efe a orchymynodd iddynt gydgryfodi pan roddai efe yr arwydd iddynt, a gwasddi "*Aleluwia*," dair gwaith. Felly, ar y munydyn yr oedd y fyddin eynol yn dyfod i'w golwg dros ael y bryn, ar fedr rhuthro arnynt, *Garmon* a roddodd yr arwydd, a'r Cymry a gyfodasant yn llu mawr, gan lefain & llef uchel, hyd oni ddaedseiniau y bryniau o'u dentu, "*Aleluwia, Aleluwia, Aleluwia!*" Pan glybu y *Pictiaid* y rhoedd nerthol hon, hwy a ddychrynasant yn ddirfawr, fel y'u tafwyd i'r dyrswch mwyaf, rhai a fwriant eu harfau o'u dwylaw, ac eraill, yn eu ffwdan i ffoi, a laddent eu cymdeithion, a llawer o honynt a foddwyd yn afon *Alun*, yr hon oedd dra uchel y pryd hynny, a'r hon a gressasant yn y boreu. Felly, y Cymry, trwy ddaioni *Duw*, a gawsent y fuddugoliaeth lwyraf ar eu gelymion y pryd hynny, heb dynu y cleddyf o'r wain. Er nad ydym am ddilyn rhai o'r hen haneswyr *Pabaidd*, a ddaedleu fod yn y tro yma gyfryngiad gwyrthiol er gweini gwaredigaeth i'r Cymry, nis gallwn lai na ohydnabod daioni *Duw* i'n tadau yn y tro.

Y mae colofn wedi ei chyfodi yn y gymnyddogaeth hono, ar y lle y bernid yr emillwyd y fuddugoliaeth ddywededig, yn y flwyddyn 1786, gan *Nehemiah Griffith*, *Ysw.*, ac arni yn argraffedig y mynegiad cryno a ganlyn am y tro:—"Yn y flwyddyn 420, y Saeson a'r *Pictiaid*, wedi uno eu lluoedd, a ymosodasant ar y *Prydeiniaid*, ac wedi eu cyfarfod ar y llaneroch hon, yr hon hyd heddyw a elwir *Maes Garmon*, fel yr oedd blaenoriaid y *Prydeiniaid*, *Garmon* a *Bleiddyn* ar ddechreu y frwydr, Crist ei hunan a ymladdodd yn y gwersyll. Tair gwaith y bloeddiodd y fyddin *Brydeiniaid* '*Aleluwia!*' Y byddinoedd gelymol a dafwyd i derfysg; a'r *Prydein-*

\* Bode, *Uyfr i. pen. 17.*—*Usher de Eccles. Brit. p. 329.*

iaid a gawsant fuddugoliaeth ar eu gelynion heb dywallt gwaed. Felly ffydd, ac nid nerth, a enillodd y fuddugoliaeth. Er cof o'r fuddugoliaeth Aleluiaidd, Nehemiah Griffith a gyfododd y golofn hon, o.c. 1736." Yn agos i'r lle hwn y mae ffynon, ja elwir "*Ffynon Gwaed*," yr hwn enw a gafodd oud oddiwrth y frwydr hon. Gellid meddwl fod rhyw gofion ereill yn y gymmydogaeth o ymweliad y ddau wr crybwylledig, megis Llanarmon, Pont Bleiddyn, &c. Y mae hefyd amrywiol leocedd creill cysegredig i'w cofadwriaeth yn ngwahanol barthau y dywysogaeth; megis Bettws Garmon, Capel Garmon, Llanfleiddian, &c. Mae rhai o'r hen haneswyr yn dywedyd ddarfod i *Garmon* adeiladu addoldy o gangenau y coed, y rhai a blethid a gwial, yn yr hon y cynnalai efe a'i ddylynwyr Wyliau y Pasg, ac y bedyddiai efe ran fawr o'r fyddin Gymreig, y rhai a fuasant yn ymlynedig wrth baganiaeth hyd yr ymweliad hwn, oyn eu harwain i gyfarfod eu gelynion; a barnai yr Athraw Rees, mai ar y fan lle y safai yr adail wial hon yr adeiladwyd *Llanarmon yn Ial* wedi hyny.\* Y ddau wr enwog hyn, wedi bod yn yr ynys hon tua blwyddyn o amser, a llwyddo yn eu hymdrechiadau i waredu y Cymry oddiwrth eu gelynion ysbrydol a chnawdol, i fesur mawr, a ddychwelasant i'w gwlad, ac at eu diadellau eu hunain, y rhai oeddynt yn hiraethu yn fawr am danynt. !

Gan fod y ddarlith hon eisoes wedi myned yn faith, a'n bod wedi dyfod hyd y cyfnod yn hanes ein cenedl, y bydd y bummed Ddarlith i ddechreu, terfynaf gyda rhai sylwadau adolygol.

1. Gwelwn oddiwrth yr hyn a adroddwyd, mor ddîrgel yw ffydd Duw i gyflawni ei amcanion. Ei waith yn gollwng y gwaedgwn Rhufeinaidd ar ein hynafiaid—yn peri eu bod yn fwy anniben yn goregyn yr ynys hon nag y buasant yn goregyn holl wledydd Ewrop, a rhanau o Asia—yn cyfodi Caradawg, a'i ddoniaw a'r fath ddewrder dihafal i sefyll cyhyd, ac mor ddewrwyob, yn erbyn eu holl gadernid—yn goddef i Frenines y Brigantwys yn y diwedd ei fradychu i'r Rhufeinaid—yn rhoddi ffafur iddo ger bron Caisar drahaus, a'i bendeigion uchelfrydig, fel y cymmerid ei dad, Bran yn wystl anrhydeddus drosto i'r ddinas amherodrol—a pheri i hyn gymmeryd lle ar yr adeg yr oedd Paul, apostol mawr y cenedloedd yn y ddinas hono, fel ag y perid fod digon o atyniad mewn Cristionogaeth i enill sylw yr alltudion Prydeinaidd—oeddynt oll fel cynnifer o dorchrwyau yn y gadwyn, er dwyn Cristionogaeth yn foreu i Frydain.

2. Gwelwn anfarwoldeb yr egwyddor Gristionogol; canys, er mai mewn amseroedd blinion ar ein cenedl i dygwyd yr Efengyl i Frydain, ac i lawer gelyn dyngu mewn balchder y'i diwreiddiant o'r ynys, ac o'r byd, y mae wedi gorfucheddu yr holl ystomydd, a gorchfygu yr holl wrthwynabiadau; a thra y mae ei hen erlidwyr wedi pydru yn mhiddellau y glyn, y mae Cristionogaeth yn blodeuo drwy holl Frydain, ac wedi myned yn bren mawr, gan ledi ei changau dros y byd, a dyferu ei ffrwythau i bob gwlad.

3. Gwelwn ein rhwymedigaethau arbenig ni i fod yn ddiolchgar i'r Arglwydd am yr anrhydedd hwn a roddes efe ar ein tadau, a'r caredigrwydd neillduol a ddangosodd efe tuag at ein cenedl ni, trwy anfon y gwirionedd yn ei symlwrwydd mor foreu i ni, a pheri i'r Efengyl gael derbyniad mor roesawus gan ein tadau.

\* Rees's Essay on the Welch Saints, sect. 7. p. 125.

## DARLITH V.

HELYNT WLADOL Y CYMRY O YMADAWIAD Y RHUFEINIAID  
A'R YNYS, HYD FARWOLAETH CADWALADR FRENIN.

Wedi i'r Rhufeiniaid fod mewn meddiant o ranau o Ynys Prydain dros fwy na phedwar can' mlynedd, trwy fynych ymrysoniadau eu tywysogion uchelfrydig am yr orsedd amherodrol, a chadruthrau diorphwys yr Huniaid a'r Gothiaid ar ranau o'r amherodraeth, bu raid iddynt alw eu holl lengau milwraidd o Frydain; ac ar yr un pryd cydgorphorasant filoedd o ieuentyd Cymru yn eu byddinoedd, er ceisio eu gwrthsefyll, a chadw calon eu teyrnas rhag syrthio yn ysglyfaeth i'r anwariaid: a thrwy hynny, gadewid yr ynys hon yn dra diamddiffyn ar y pryd, ac mewn cyflwr hynod o ddi-  
allu i wrthladd gelynyon a ruthrent arni o umrhyw barth.

Yn yr adeg yma, gallem feddwl fod y Prydeiniaid yn dychwelyd yn rhwydd i gydnabod uchafiaeth eu penau cenedl eu hunain, achyddiaeth y rhai a gedwid yn gywir yn nghaniadau eu beirdd: canys yr ydym yn cael ar ddeall bod ein cenedl, er yn foreu iawn, yn rhoddi pwys mawr ar gadwraeth achyddiaeth yn ddfylchau, fel rhwymedigaeth anhebgor ar dlawr a chyfoethog, er rhoddi hawl iddynt i fwynhau eu hiawnderau gwladol; ac fel hyn yr oedd yr hen gyfraith am benteulu neu bencedl:

"Tri anhebgor pencenedl: bod yn wr cyfallwy; a bod yn hynaf o wfr cyfallwy ei genedl hyd yn mhen y nawfed ách; a bod yn benteulu, sef yn wr gwraig, a phlant o briodas deilwng; a phob un o'r genedl a fydd yn wr ac yn gár iddo; a gair ei air ef ar air pob un o'r genedl." Allan o'r penau cenedl, neu y penau teuluoedd crybwylledig, y dewisid, ar amgylchiadau o berygl, un i weithredu fel "Penteyrn," neu "Frenin Cymru oll;" felly, tebygid, y dewiswyd Caswallawn, pan oedd Iwl Caisar yn ymosod ar y wlad, a Charadawg wedi hyny yn amser Claudius Caisar: ac yn fuan wedi i'r brodorion gael eu rhyddhau oddiwrth yr awdurdod amherodrol, nyni a'u canfyddwn yn dechreu troi i ymgynghori yn nghylch y priodoldeb o ddewis brenin neu benteyrn arnynt.

Ar y cyntaf, meddyliem fod y Lloegrwys a'r Rhufeiniaid, neu y bobl euronol gymmysg a gyfaneddent barthau deheuol yr ynys, yn benderfynol i osod un o'honynt eu hunain yn yr arglwyddiaeth; ac felly y bu *Marcus, Gratianus, Constantinus, Gerontius, &c.*, yn arglwyddiaethu ar Frydain, bob un yn ei dymhor; a rhai o'honynt hyd yn nod yn amcanu gwneyd defnydd o'u hawdurdod yn Mrydain, i ymgyrhaedd at yr orsedd amherodrawl. Meddylir mai Llundain ydoedd eistedde y llywodraeth hon, yr hon ydoedd yn ddinas fasnachol enwog y pryd hyny, ac yn gorwedd yn nhiriogaethau y Lloegrwys, y rhai a ymgymysgasent â'r Rhufeiniaid yn llawer mwy nag y gwnelsai y cynffrodorion Cymreig pur; ac efallai bod hyny yn fanteisiol iddynt dros dymhor i gael y penteyrniaid o'u plith eu hunain. Ond yr hen lwythau Cymreig, yn eiddig o'u hanrhydedd priodol fel cynffrodorion, a ddalient bod yr awdurdod freninol yn perthyn yn naturiol iddynt hwy, fel meddianwyr cyntaf yr Ynys, y rhai yn lletygar a roddasant dderbyniad a nawdd i'r Lloegrwys i ororau eu gwlad yn eu cyfyngder. Orlheiniant yr hawlfraint benteyrnol hefyd i

adeg foreu fawn, yn mhell cyn i'r Rhufeiniaid sengl ar lanau yr ynys, pan y darfuasai i Gymro o'r enw Prydain ab Aedd Mawr, uno yr holl lwythau yn yr ynys dan un penteyrn, a threfnu yn ddeddf sefydlog, fod i'r awdurdod freninol aros yn dreftadol dros byth yn ei genedl ei hun, fel y gwelir yn y Triad canlynol:—

“Tair prif ardal Ynys Prydain · Gymru, Lloegr, ac yr Alban; a braint teyrnedd a ddyld i bob un odd y tair. A than unbenaeth a rhaith gwlad ei gwladoler, herwydd dosbarth Prydain ab Aedd Mawr; ac ar genedl y Cymry y mae doddi yr unbenaeth wrth raith gwlad a chenedl, herwydd braint a dyled gyssffin: ac yn nawdd hyn o ddsbarth y dylid teyrnedd yn mhob gwlad yn Ynys Prydain: ac yn nawdd rhaith gwlad pob teyrnedd, sef achaws hyny y dywedir ar ddiareb, ‘Trech gwlad nog arglwydd!’”

Tua'r amser yma yr oedd yn mysg y Cymry benau cenedl, y rhai, debygid, y mynasent eu rhoddi yn mlaen o bryd i'w gilydd, yn *benteyrniaid*; megys Cunedda Wledig, Brychan Brycheiniog, Cadrod Calchfynydd, Emrys Wledig, &c., ond y Lloegrwys a fynasant osod i fynu un o honynt eu hunain, o'r enw Gwrtheyrn Gwrtheneu, yn benteyrn; a'r ymrysoniad yma am benteyrnedd yr ynys a achlysuodd ryfel cartrefol ofnadwy, trwy yr hyn y gwanheid yr holl wlad yn ddirfawr, fel yr oedd y llwythau estronol a ruthrent arni, yn ei chael yn ysglyfaeth rwyddach. Yn wyneb y rhuthriadau hyn gan y Brithwyr a'r Ysgodgiaid o'r gogledd, a'r minteioedd morladronaidd o ororau yr Almaen, anfonai Gwrtheyrn am yr holl bendefigion Prydeinaidd, i gynghorfa gyffredinol, er ceisio eu perswadio i ymuno âg ef, er gwrthladd y gelynlion hyn: ond gan fod llawer o honynt, yn enwedig y pendefigion oeddynt o'r hen gyff Cymreig, yn ei anngghymedawdy fel penteyrn, nis gallai eu cael i gytuno â'i olygiadau; am hyny efe a benderfynodd, heb gydsyniad y Cymry, logi byddin o filwyr estronol i'w gynnorthwyo i wrthladd ei elynion; a phan ydoedd newydd ddyfod i'r penderfyniad yma, dygwyddai i dair llong yn llwythog o grwydriaid Almaenaidd, dan lywyddiad dau frawd, o'r enw Hengist a Horsa, lantio ar ororau dwyreiniol Caint, yn gyfagos i'r lle y glaniaasai y Rhufeiniaid o'r blaen: a'r peth mwyaf tebyg yw eu bod wedi glanio yn yr ynys yma, y pryd crybwyllledig, fel trafniwyr yn hytrach nag fel morladron. Eu henw cenedlaethol oedd *Gheles*, neu *Jutes*, ac yr oeddynt mewn cynghrair â'r llwythau ereill a gyfaneddent y broydd arforawl o'r tu gogleddol i'r afon *Elbe*; ac ymgyfenwent yn *Sacsoniaid*, neu wŷr y cleddyfau byrion.\* Pan ddeallodd Gwrtheyrn am eu glaniad, efe a anfonodd genadwri at Hengist a Horsa, i gynnyg eu llogi hwy, a byddin o'u cydwladwyr, i ymladd ei frwydrau; a chan mai rhyfel oedd eu prif alwedigaeth, nid oedd dim yn ddyeithr yn y cyfryw gynnygiad iddynt; felly hwy a gytunasant yn rhwydd i'w gynnorthwyo â byddin gref, dan yr amod o gael Ynys Danet, ar oror Caint, yn wobrwyr am eu gwasanaeth. Yn fuan, hwyliai y drefedigaeth filwraidd newydd hon drosodd, mewn dwy ar bymtheg o longau; ac ymsefydlasant yn Ynys Danet, gan gael pob peth angenrheidiol i'w cynnal yno gan Gwrtheyrn; a mynych yr ymladdasant yn ddewrion a ffyddlawn drosto, yn erbyn y Brithwyr a'r Ysgotiaid, y rhai a faeddwyd yn dost ganddynt; a thrwy hyny daethant i ffafr fawr gyda Gwrtheyrn a'i bobl. Ond nid hir y parhaodd y teimlad da hwn rhyngddynt; canys ryw bryd rhwng y flwyddyn 449 a'r flwyddyn 455, y cynnorthwyyr milwraidd hyn a geisiant fwy o ddiogaeth, mwy o arlwy, a mwy o arian, nag a addawsid iddynt yn eu cyflogiad; gan fwg-

\* Gwel “Thiery's History of the Norman Conquest.”

wth tori iddynt eu hunain trwy drais, oni chyflawnid eu cais yn rhwydd; ac fel y byddent yn barod i roddi eu bygythiad mewn gweithrediad, gwahoddent ychwaneg o arfogion o'u cenedl eu hunain i ymuno â hwy yn Mrydain, fel y ffurfiid yn fuan drefedigaeth gref o honynt ar ororau Caint, y rhai a droisant yn fradwrus i'w hen feistri, a chan ymgynghreirio â'r Brithwyr, hen elynion greddfol y Prydeiniaid, hwy a wnaethant gais teg am drawsfeddiannu y rhanau goreu o'r wlad: ond ar hyn, y Prydeiniaid a ymwrolasant, gan eu gwrthladd yn egniol, ac wedi amryw frwydrau gwaedlyd, hwy a drechasant y Saeson yn deg, gan eu gyru i'r môr, fel y bu raid iddynt hwylio yn eu llongau tua'u gwlad eu hun: ond yr oeddynt wedi cael cymmaint o flas ar yr ysglyfaeth, fel y dychwelasant yn fuan drachefn, a llawer o'r un giwed drachwantus i'w canlyn; a hwy a feddiannasant wlad eang ar y tu deheuol i'r afon Tafwys, o'r hon nis gallwyd eu difeddiannu byth. Lladdwyd un o'r ddau frawd, sef Horsa, mewn brwydr, a'r brawd arall, Hengist, a ddewiswyd gan y Sacsoniaid yn frenin arnynt yn eu tiriogaeth newydd, yr hon a alwent yn eu hiaith hwy "*Kent-wara-ric*," neu "Freniaeth gwyr Caint."

Nid oedd gwaith Gwrtheyrn yn llogi y milwyr estronol hyn ar y dechreu yn gymmeradwy gan nemawr o'r pendefigion Cymreig; a'i waith yn rhoddi tir iddynt i ymsefydlu ar gŵr eu gwlad, a chaniatâd i adeiladu dinas,\* a gyffroai eu heiddigedd yn fwy. Hengist, yn ddigon cyfrwys i weled ei fantais, ac i wneyd y defnydd goreu o honi, a ymroddai i gryfhau drwgdyb ac eiddigedd y brenin yn eu herbyn; gan haeru eu bod yn awr, pan heb achos i ofni y Gogleddwyr mwyach, mor dra eofn a choledd amcan i ddwyn y goron oddiarno, a'i rhoddi i arall; a bod ganddo lawn cymmaint o achos i ofni gwrthryfel ei ddeiliaid ei hun ag ymosodiadau y Brithwyr a'r Ysgotiaid; ac mai y ffordd oreu iddo i'w ddiogelu ei hun rhag y naill a'r llall, oedd anfon am ychwaneg o Sacsoniaid drosodd i'w gynnorthwyo; felly tua'r flwyddyn 450, deuai un ar bymtheg o longau drosodd yn llwythog o fyddin newydd o ymfudwyr Sacsonaidd, am y rhai yr anfonasai Hengist trwy gydsyniad y Brenin; ac yn mysg yr ymfudolion hyn, yr oedd Escus a Rowenna, mab a merch henaf Hengist. Y Rowenna hon a elwir gan yr ysgrifenyddwyr Cymreig, Rhonwen, a bu wedi hynny yn fagl ac yn felldith i'r brenin. Hengist a wnaeth wledd fawr yn ei ddinas newydd, i'r hon y gwahoddai y brenin, er dangos, fel y dywedai, ei ddiolchgarwch iddo am ei garedigrwydd, a'i barch diffuant i'w fawrhydi; a pharai i'w ferch Rowenna weini ar y brenin drwy ystod y wledd, dan y rhith o'i anrhydeddu, ond mewn gwirionedd, er cynhyrfu ei nwydau, a'i lygad-dymu; a bu y fenyw ysgeler hon yn rhy lwyddiannus yn ei dichellion: canys er fod gan Gwrtheyrn wraig eisoes, yr oedd tegwch ac ystrywiau Rowenna wedi cyffroi ei drachwant mor angerddol, fel na phetrusodd ei gofyn gan Hengist yn wraig; ac er symmud pob rhwystr o'i ffordd, efe a ysgarodd â'i wraig gyfreithlawn, o'r hon y buasai iddo amryw blant; ac wedi addaw i Rowenna gyflawn ryddid i ymarfer ei defodau crefyddol ei hunan, efe a waddolodd Hengist a Horsa â thywysogaeth Caint, gan ganiatau iddynt ryddid cyflawn i'w phoblogi â Sacsoniaid fel y mynent. Pan glybu Gwrgant, iarll Caint, ac amryw o'r pendefigion Cymreig ereill,

\* Dywedir fod Hengist wedi atolygu y flafr gan Gwrtheyrn, o ganiatad i adeiladu amddiffynfa ar ryw ran o'r diriogaeth a roddasid iddo, gymmaint ag a amgylchynai creion eiddon; â'r hyn y cydsyniodd Gwrtheyrn yn rhwydd. Yna Hengist a dorodd groen yr eiddon mwyaf a allai gael, yn gareiau meinion, ac â'r rhai hynny amgylchodd y tir ar yr hwn yr adeiladodd ei amddiffynfa, yr hon o'r herwydd a elwid *Thong-Castor*, neu Gaer y Garrai, tua phedair milldir o Grimsby, yn swydd Lincoln



am y gweithrediadau hyn o eiddo y brenin, hwy a lanwyd o ddigofaint tuag ato; ac nid oedd neb a deimlent yn ddwysach yn y tro na'i feibion, Cyndeyrn a Gwrthefyr, y rhai yn nghyda'u mam a ddiystyrasid mor ddigywylydd. Y canlyniad a fu i'r tywysogion Cymreig ddiorseddau neu ymrwrthod â Gwrthefyr fel eu pentyrn, gan ddewis ei fab Gwrthefyr, yn ei le; a bu ymiadd caled rhwng y Cymry dan Gwrthefyr, a'r Sacsoniaid dan Hengist, yn cael ei gynnorthwyo gan Gwrthefyr; ond y Sacsoniaid a lwyr orchfygwyd mewn pedair o frwydrau—y gyntaf o ba rai a ymladdwyd yn agos i'r afon Darwent; yr ail ger Rhyd y pysgod, neu fel y'i gelwir gan rai o'r hen haneswyr, Syddyn y ceubal, yr un fel y tybir ag Aylesbury ar lan y Medway, yn yr hon y lladdai Cyndeyrn fab Gwrthefyr, a Horsa, un o dywysogion y Sacsoniaid, y naill y llall; y drydedd a ymladdwyd ar lan y môr, ar ol yr hyn y fodd y Sacsoniaid i Ynys Danet; ond fe'u dilynid yno hefyd gan Gwrthefyr, fel y bu raid iddynt adael eu gwragedd a'u plant, a ffoi yn eu llongau tua'u gwlad eu hunain. Ond pan ddeallodd Rhonwen fod ei thad a'i phobl wedi cael eu baeddu mor drwyadl gan Gwrthefyr, hi a lwgr-wobrwyodd wr ieuanc o arddwr, neu o leiaf o ymrithiad felly, i wenwyno y brenin, yn yr hyn y bu efe yn rhy lywddiannus. Y brenin yn deall ei fod wedi ei wenwyno, a bod angau yn agoshau, a alwodd y penderfegion Cymreig, a'r prif swyddogion milwraidd a ymladdasant dano, yn nghyd; ac wedi rhanu ei holl drysorau rhyngddynt, efe a'u cynghorodd i fod yn un â'u gilydd, ac yn dra phenderfynol i a'mdiffyn eu gwlad a'u breintiau rhag trais estroniaid. Gorchymynodd hefyd iddynt losgi ei gorph, a rhoddi ei ludw mewn delw efydd o hono yn mhorthladd *Stonar*, gan chwaneu y byddai yr olwg ar ei lun yn ddigon i ddychrynu y Sacsoniaid, a pheri iddynt ddychwelyd yn ol i'w gwlad ond ni wnaeth y tywysogion ei gais olaf hwn, eithr claddasant ef yn Nghaerludd: ac yn fuan wedi ei farw, adferwyd ei dad Gwrthefyr i'r orsedd drachefn, yr hyn sydd yn achos o'syndod eu bod mor anwadal ag adferu un i'r benteyrniaeth, yr hwn a ddfreiniasant mor ddiweddar am fradychu eu gwlad i ddwyllaw estroniaid; ond efallai fod hyn, fel llawer tro anffodus arall yn eu hanes, i'w briodoli i ysbyrd ymblaid, ac annghytundeb yn eu mysg, o barth i'r un cymhwysaf i gael yr orsedd. Ni bu Rhonwen yn hir heb anfon i hysbysu ei thad Hengist o'r pethau hyn, yr hwn a ddaeth drosodd drachefn, a nifer mawr o ddilynwyr arfog yn ei ganlyn, mewn triugain o longau, yr hyn a frawychodd y Prydeiniaid yn ddirfawr, fel y taer atolygent ar y brenin Gwrthefyr eu gyru yn ol; ond y Sacsoniaid, wedi clywed hyn, a anfonasant genadwri at Gwrthefyr, i'w hysbysu ef a'i gynghorwyr, na ddaethent hwy drosodd gydag unrhyw amcan gelyndol tuag ato ef, nad oeddynt hwy gymmaint ag wedi clywed am farwolaeth Gwrthefyr, ond gan feddwl ei fod eto yn fyw, eu bod wedi dwyn y llu mawr hwnw drosodd er hunanddiffyniad. Ond gan fod Gwrthefyr wedi marw, atolygent ar y brenin benderfynu ar yr amser a'r lle y gallent gydymgyfarfod yn heddychlawn, er penderfynu pa nifer o honynt a ganiateid i aros yn y tiriogaethau a roddasai efe iddynt am eu gwasanaeth blaenorol; ac yna y dychwelai y lleill yn ol i'w gwlad eu hunain. Yn y canlyniad, penderfynwyd i'r cyfryw gyfarfod gymmeryd lle ar ddydd Calanmai, ar wastadedd eang, lle yr arferid cynnal cynnadeddau cenedlaethol; ac er gochel unrhyw amryfusedd, cytunid eu bod oll i gyfarfod yn y lle dywededig yn anafog. Ond Hengist, yn ol ei hen arfer fradwrus, a archodd i bob un o'i ddilynwyr ef gymmeryd cylllell hir gydag ef, wedi ei chuddio dan ei wisg, a phan y byddai iddo ef roddi y gair—*Nemht i'wre Saxes*, eu bod ar unwaith i'w tynu allan, a lladd y Prydeiniaid. Wedi dyfod y dydd, y brenin a'i bendefigion a ddaethant

yno ar un tu, a'r Sacsoniaid ar y tu arall. Y Prydeiniaid a ddaethent i'r cyfarfod yn ddiarfog a diddichell, a phan oeddynt wedi ymollwng i wleda, ac i yfed yn helaeth, Hengist a roddai ei arwyddair, yn iaith ei wlad, sef "Tynwch allan eich cyllill!" ac yn y fan, pob Sais a laddai un o'r pendefigion Cymreig a eisteddai yn nesaf ato; y rhai, gan eu bod yn anarfog ac yn feddwon, ni allent amddiffyn eu hunain, ac felly cwmpodd, meddir, yn y gyllafan hono, bedwar cant a thriugain o oreugwyr y Cymry, a Hengist a gymmerodd y brenin Gwrtheyrn fel ei garcharor. Dywedir na ddiangodd ond un o'r pendefigion Cymreig o'r gyllafan yma, sef *Eidiol*, iarll Caerloyw, yr hwn a gafodd drosol ar lawr dan ei draed, ac â'r trosol hwnw a laddodd ddeng ŵr a thriugain o'r Saeson, ac felly a lwyddodd i ddianc o ddwyllaw y lleiddiaid, a'i fywyd yn ysglyfaeth ganddo. Bernir i hyn gymmeryd lle tua 473; mewn cyfeiriad at y bradwriaeth gwaedlyd yma, y canai Iolo Goch, gan ddywedyd—

"Gwae ddydd anedwydd nodir,  
Gwae rhag yr hell gyllell hir!  
Cyllell hir cuell a llem,  
Callestr-fin helldrin hyll-drem.  
Dagr garnwen, gethrea gythrawl,  
Neddai ddu a naddai ddiawl;  
Yn ei efall y' th luniwyd,  
Dart y diawl a'i hawl ef wyd." \*

Wedi y traha yma, y Saeson a drawsfeddiannasant Gaerludd, Caerwynt, a Chaerfrefog, fel pridwerth y brenin Gwrtheyrn; a chan ei alltudio ef o Loegr, hwy a feddiannasant y rhan hono o'r ynys yn gyfangwbr iddynt eu hunain. Gwrtheyrn yntau a grwydrai trwy Gymru, gan geisio rhyw gilfach ddiogel, lle y gallai adeiladu dinas ac amddiffynfa iddo ei hun. Prïodolir amryw leoedd iddo, fel ei encilfeydd yn y cyfnod yma arno; megys "Nant Gwrtheyrn," yn nhesail yr Eifl, gerllaw Nefyn, un o'r lleoedd mwyaf anhygyrch o fewn Cymru, lle yr oedd hen feddrod carn-eddawl, yr hwn y dywedai traddodiad ei fod yn perthyn i'r hen benteyrn anffodus yma; a phan y'i hagorwyd, rai blyneddau yn ol, cafwyd cistfaen o'i fewn, yn cynnwys esgyrn gŵr o gorpholaeth hir. Mae ereill yn dywedyd mai "Dinas Emrys," ar odrau y Wyddfa, ychydig o'r neilldu i Beddgelert, oedd ei encilfa; ereill, ei fod wedi adeiladu math o gastell yn nghanol creigydd anial, ar lan afon Teifi; ac y mae lle a elwir hyd heddyw "Craig Wrtheyrn," tua haner y ffordd rhwng Castellnewydd yn Emlyn a Llanbedr pont Stephan—lle, medd y traddodiad, y disgynodd tân o'r nefoedd, gan ysu yr adeilad, a phawb o'i fewn, yn ulw.

Efallai mai y gwahanol chwedlau hyn o barth i ddiwedd Gwrtheyrn a achlysurai y sylw a gynnwysir yn un o Englynion y Beddau, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Y bedd yn Ystyfachu,  
Y mae pawb yn ei amheu,  
Bedd Gwrtheyrn Gwrtheneu."

Tra yr oedd Hengist a'r Saeson yn ymorfoleddu eu bod wedi enill tiriogaethau mor eang a breision, a thra yr oedd Gwrtheyrn yntau yn ffoi o fynydd i nant, gan ofni ei gysgod ei hun, ac yn ei adfyd yn ymgyngori â'r dewiniaid, deuai Emrys Wledig, fab Cystenyn Fendigaid, yr hwn a etholasid yn frenin y Prydeiniaid wedi i'r Rhufeiniaid adael yr ynys, o Lydaw, lle y buasai efe a'i dylwyth dros ysbaid teyrnasiad Gwrtheyrn; ac i'w ganlyn fyddin o ddeng mil o ŵyr, i waredu y Cymry

\* Gwel Drych y Prif Oesoedd, t.d. 75.

yn eu cyfyngder, i arhoni ei hawl i'r benteyrniaeth, o'r hyn yr ystyrirai ei hun, ac y'i hystyrid gan ereill, yn etifedd cyfiawn; ac i ddial gwaed ei genedl ar y Saeson. Can gynted ag y llledaenydd y newydd am ei laniad, y Cymry, er mor ddigalon oeddynt cyn hyny, a gyrchent yn lluoedd i ymrestru dan ei luman: ac mewn lle a elwir Maes Beli, efe a gyfarfu Hengist a'i wyr wedi ymfyddino yn drefnus, gan obeithio gallu disgyn ar Emrys yn annysgwyladwy: ond Emrys a drefnodd ei fyddin i ymosod arnynt, gan ffurfio corph y fyddin o'r Llydawiaid a'i ddeiliaid ei hun, a chyfleu y deheuwyry, y rhai oeddynt fedrus gyda'u gwaywffyn, ar yr uchelderau, a'r gogleddwyr, y rhai a ragorent fel saethyddion, yn y coedwigoedd, fel na byddai yn hawdd i'r Saeson ddianc un ffordd: a llawer a gwmpasant o bob tu. O'r diwedd Hengist a fodd hyd Gaer Cynan, lle y'i hymldiwyd, a chynnifer o'i ganlynwyr ar a oddiweddyd gan Emrys, a laddwyd; o'r diwedd llwyr ddrylliwyd rhengau y Saeson, a thafwyd hwy i'r annhrefn mwyaf. Yn y frwydr hon, Eidiol, iarll Caerloyw, a chwiliai yn ddyfal am Hengist; gan fod yn awyddus i ymddial arno am ei holl ffalder at y Cymry, yn enwedig cyflafan y cyllill hirion; ac wedi ei gyfarfod o'r diwedd, hwy a ymladdent mor ffrochwyllt, nes oedd y tân yn gwreichioni fel meltt oddiar eu hârfwisg. Tra yr oeddynt yn ymladd fel hyn, daeth Gwrlais, iarll Cernyw, i fynu, ac a yrodd y Saeson a ymladdent oddeutu eu blaenor i ffoi: ac Eidiol, wedi ei adfywio trwy hyn, a gydiodd yn marf a llurig Hengist, gan ei lusgo i ganol y milwyr Prydeinaidd, a gweiddi, "Ymddielwch yn awr ar y Saeson fföedig, canys wele Hengist yma." Y rhan fwyaf o'r fyddin Sacsonaidd, dan dywysiad Octa, fab Hengist, a fodd i Gaerefrog; ac Ossaf ei ewythr, a fodd gyda'r rhan arall i Alclwyd. Wedi y frwydr hon, cymmerth Emrys yr amddiffynfa rag-grybwylledig, Caer Cynan, lle y gorphwysodd ei fyddin dros dri diwrnod i gladdu y meirw, i ymgeleddu y clwyfedigion, ac adgyfnerthu ei fyddin.

Yna Emrys a alwodd ei gynghoriaid yn nghyd, i ystyried pa beth a wnelid o Hengist, ac yn y gynghorfa hon yr oedd yn bresenol Eldad, esgob Caerloyw, ac Eidiol ei frawd, a phan welodd yr esgob hen elyn ei genedl yn sefyll yn y cynghor, efe a ddywedodd, Pe y buasai yr holl gynghor yn penderfynu ei ollwng yn rhydd, y buasai efe, er ei fod yn esgob, yn ei ddarnio â'i law ei hunan, megys y gwnelasai Samuel y prophwyd âg Agag gynt; ac ær hyny, Eidiol, iarll Caerloyw, a ruthrodd arno, ac a'i lladdodd.\* Ond y mae awdwr "Drych y Prif Oesoedd" yn dweyd mai Dyfrig, archesgob Caerlleon ar Wysg, a gynghorai felly.

Wedi hyn, Emrys a arweiniodd ei fyddin fuddugol i warchae ar Octa a'i wyr, y rhai oeddynt yn Nghaerefrog: ond Octa, yn deall mai ofer a fyddai iddo geisio gwrthsefyll y fath fyddin, a benderfynodd ei fwrw ei hun a'i ddilynwyr ar drugaredd y brenin, a chan gymmeryd cadwynau yn eu dwylaw, a phridd ar eu penau, hwy a'u rhoddasant eu hunain i fynu iddo. Emrys gan hynny a alwodd gynghor i ystyried pa beth a wnelid o honnynt; ac yn y cynghor hwnw, un o'r esgobion (Dyfrig, medd rhai) a gynghorodd gan ddywedyd, "Pan ddaeth y Gibeoniaid i erfyn am drugaredd yr Israellaid, fe i caniatawyd iddynt; gan hyny, na fydded ein trugaredd ni yn llai na'r eiddo yr Iuddewon." Ac felly arbedwyd, eu bywydau; a hwynt-hwy, yn gystal ag Ossaf a'r gwyr oeddynt gydag ef, a gawsant diriogaethau dan wriogaeth yn Iscoed Celydaon.

\* Gwel "The Chronicle of the Kings of Britain," gan y diweddar Barch. Peter Roberts, Rhiwabon, t.d. 124. "Hist. of the Ancient Britons," gan y Parch. John Owen, vol. i., p. 155.

Yna Emrys a drodd ei arfau yn erbyn Ella, brenin y Sacsoniaid deheuol, byddinoedd yr hwn a orchfygwyd ganddo, ac efe a adenillodd ddinasoedd Caerefrog, Caerludd, Caerwynt, a Chaer Caradog, fel yr oedd ei orsedd wedi ei sefydlu mewn heddwch. Ac wedi gwyisio cynghor cenedlaethol o'r holl bendefigion a'r archesgobion i ymgylfarfod yn Nghaerefrog, ar draul y brenin, anfonwyd gorchymyn allan wedi ei law-nodi a'i selio gan y brenin, yn erchi i'r addoldai a ddistrywiasai y Saeson pagan-aidd trwy y deyrnas gael eu hail-adeiladu, i'r cyfreithiau gorthrymus gael eu diwygio, i'r tiroedd a ddygasid yn anngyfiawn oddiar eu perchennogion gael eu hadferu, ac i gyfiawnder gael ei weinyddu trwy yr holl dir. Oddiyno efe a aeth i Gaerwynt, lle y gwnaeth efe yr un ffunud, gan ymholi, yn nghyda'i gynghoriaid, i gwynion ei ddeiliaid yn y rhan hono o'i deyrnas. Ac oddiyno, yr un ffunud, symudodd ef a'i gynghorwyr i Gaer Caradog, lle y buasai cyflafan y cylllil hirion : yn gyfagos i'r hwn le y buasai teml Dderwyddol fawr unwaith, ond wedi i Gristonogaeth oresgyn y wlad, ymddengys fod addoldy Cristionogol wedi ei gyfodi yn y lle. Y pryd hwn efallai y darfu iddo ef gyfodi Gwyddfa y tywysogion yn y lle, er cof am gynnifer o honynt a gwympasant yn trwy frad Hengist. Yn y gymmanfa a gynnaliwyd yn y lle hwn, y coronwyd Emrys yn benteyrn Prydain, ac y gosodwyd Dyfrig yn Archesgob Caerlleon ar Wysg, ac un o'r enw Samson yn Archesgob Caerefrog.

Yn y cyfamser, yr oedd Pasgen, trydydd mab Gwrtheyrn, yr hwn ar ddiorseddiad a gwarthruddiad ei dad, a encillasai yn llawn soriant i'r cyfandir, wedi llwyddo i gynnwll byddin yn yr Almaen, er adenill Prydain oddiar Emrys fab Cystenyn ; ac efe a laniodd gyda'i fyddin ar ororau Iscoed Celyddon, gan ddysegwyl y buasai y Saeson a gyfleasai Emrys yn y broydd hyny yn ymuno âg ef : ond can gynted ag y clywodd Emrys am ei ddyfodiad, efe a gynnulodd ei wŷr yn nghyd i fyned i gyfarfod âg ef, ac efe a yrodd Pasgen a'i wŷr ar ffo yn fuan ; a chroesi y môr i'r Iwerddon a wnaeth Pasgen, lle y'i derbynid yn roesawus gan y brenin Cilamwri, yr hwn a gytunodd i'w gynnorthwyo â byddin drachefn, i geisio goresgyn Prydain, ac wedi cydhwyllo drosodd i'r deheubarth, hwy a anrheithiasant Dŷ Ddewi, a'r wlad oddiamgylch.

Y pryd hyn yr oedd Emrys yn gorwedd yn glaf yn Nghaer Went, ac am hynny efe a anfonodd ei frawd Uthr gyda byddin i'w gwrthwynebu ; hwythau wedi clywed am afiechyd Emrys, a logasant ddyhiryn o'r enw Eppa, yr hwn, er ei fod yn Sais o waedoliaeth, oedd yn gyfarwydd yn iaith a defodau y Cymry, ac yn hyfforddus yn y gelfyddyd feddygol, i ymrithio megys mynach, a chynnyg ei wasanaeth i Emrys, fel meddyg medrus, fel y caffai gyfleustra trwy hynny i wenwyno y tywysog : yn yr hyn y bu y bradwr yn llwyddiannus ; ac wedi rhoddi y ddiodlyn wenwynig iddo, efe a ddiangodd o'r llys, dan y ffug o fyned allan i'r maesydd i gasglu llystiau meddygol. Ond Uthr a ymladdodd frwydr galed a gwaedlyd â Phasgen a Chilamwri, y rhai o'r diwedd a lwyr orchfygwyd ganddo : ac yntau, ar farwolaeth ei frawd, a goronwyd yn frenin ar yr ynys. Claddwyd Emrys o fewn " Cylch yr Arwyr," yn agos i Gaer Caradog, a thrwy gydsyniad yr holl bendefigion a'r llenorion, etholwyd ei frawd Uthr yn benteyrn yn ei le. Oddeutu yr amser hwnw, ymddangosai rhyw seren wib aruthrol, yr hon a ddychymygid gan y lluaus ofergoelus ei bod yn gyffelyb i ddraig, ar yr hyn yr ymgynghorai Uthr â Merddin ddewin ; yr hwn a ddywedai, " O ! feibion Prydain, yr ydych chiwi wedi cael colled anadferadwy ; canys yn awr yr ydych chiwi wedi gwneyd yn weddwo o Emrys : er hyny chiwi a gewch frenin. Brysia di Uthr gan hyny i ymosod ar y gelyn ; canys yr holl ynys a fydd eiddot ti. Canys tydi, Uthr, a ddynodir drwy y seren hon

a'r pen draig," &c. Ac Uthr, wedi ei goroni yn frenin, gan gofio geirian Merddin, a barodd wneuthur dwy ddraig ysplenydd o aur, ar lun y seren a ymddangosasai, ac a gyfleodd un o honynt yn yr eglwys benaf yn Nghaer Went, a'r llall a wnaeth efe yn lluman i'w chludo o faen ei fyddinoedd; ac ar y cyfrif hwnw, medd hen haneswyr, y'i gelwid o hyny allan yn "Uthr Bendragon."

Yn y cyfnod yma, Octa, fab Hengist, ac Ossa, gan eu hystyried en hunain yn rhydd oddiwrth eu hymrwymiad i Emrys, a ddechreusant ymgynhyrfu, gan anfon i'r Almaen, ac at Pasgen, am gyfnerthiad i geisio adenill argwyddiaeth ar yr ynys; ac wedi cynnull byddin gref, gwnaethant gadruthiad ar Loegr, a daethant yn lled ddiwrthwynebiad can belled a Chaerfrog: ond tra yr oeddynt yn ymosod ar y ddinas hono, daeth Uthr a'i fyddin ar eu gwarthaf, lle y'u llwyr orchfygasant, gan eu gyru i fywydd *Dannet*, neu *Damen*, fel y'i gelwir yn rhai o'r hen goflyfrau. A'r noson hono Uthr a alwodd ei gynghorwyr yn nghyd i ystyried pa beth a wnelet yn mhellach, i'r hyn y cynghorai Gorlais, iarll Cernyw, gan fod y nos yn dywell, a'r fyddin Brydeinaidd yn llai ei nifer na'r fyddin elynol, bod iddynt wneyd ymosodiad annysgwyladwy ar wersyll y Saeson y noson hono; a'r hyn y cydsyniwyd; ac wedi cyrhaedd o honynt ben y mynydd, gwnaethant laddfa fawr yn eu mysg, gan gymmeryd llawer o honynt yn garcharorion, yn mysg y rhai yr oedd Octa ac Ossaf, a'r gweddill o'u byddin a wasgarwyd.\*

Wedi y fuddugoliaeth hon cafodd Uthr beth seibiant, yr hwn a ddefnyddiodd efe i ymwelod â gwahanol ranau ei deyrnas, er cadarnhau ei lywodraeth, a sicrhau gwneinyddiad barn a chyfiawnder yn mysg ei ddeiliaid. Ond cyn pen hir cymmerwyd Uthr yn glaf; a'r penaethiaid Seisnig trwy lwgr-wobrwyo eu ceidwaid, a ddiangasant o'r carchar, ac wedi llwyddo i gyrhaedd drosodd i Almaen, cyfodasant fyddin newydd o'u cyd-genedl, gyda'r hon yr hwyliasant drosodd i Frydain, a bu brwydr waedlyd drachefn rhyngddynt a'r Cymry yn agos i ddinas Ferulam, yn yr hon y cludid Uthr mewn gwely i lywyddu ei fyddin; canys nid oedd gan y milwyr ymddiried digonol yn ei fab yn nghyfraith, Llew ab Cynfarch, yr hwn a bennodasai efe yn faeslywydd yn ei le, o herwydd ei afiechyd ei hun; ac yn y frwydr hon lladdwyd Octa ac Ossaf; a'r lleill o'r penaethiaid Seisnig a yrwyd ar ffo: ond hwy a gynnulasant eu byddin yn nghyd drachefn ar ffiniau yr Alban, ac a adnewyddasant y rhyfel. Dymunai Uthr eu herlyn yno; ond cynnyddai ei anhwyldeb yn gymmaint, fel nas gallai oddef ei gludo o amgylch mwyach, a'r Saeson wedi deall ei fod yn arfer yfed dwfr bob boreu o ryw ffynon neillduol, a anfonasant genhadon ato, dan y rhith i ofyn amodau heddwch ganddo; ond mewn gwirionedd fel y caffent gyfleustra i wenwyno dwfr y ffynon hono; yr hyn hefyd a wnaethant. Yn y canlyniad, bu farw Uthr, ac ereill o dylwyth ei lys, y rhai a yfasant o'r dwfr. Fel hyn y terfynwyd einioes Uthr, wedi bod o

\* Y mae rhai haneswyr yn dweyd mai ger Caerbaddon yr ymladdwyd y frwydr hon, a meddylir mai ati y cyfeiriai Taliesin yn y llinellau canlynol:—

"Gwae hwynt-hwy yr ynfydion,  
Pan fu waith Faddon;  
Arthur ben haelion,  
(Y llafnau bu gochion)  
Gwnaeth ar ei alon  
Gwaith gwyr gewynion."

Und o'm rhan fy hun, y mae yn haws genyf goelio eu bod yn cyfeirio at un o frwydrau ei fab Arthur, am yr hon y cawn grybwyll eto.

hono ddwy flynedd ar bymtheg yn llywodraethu ei genedl mewn llwyddiant ac anrhydedd mawr; ac efe a gladdwyd yn "Nghylch yr Arwyr," lle y claddesid ei frawd o'r blaen. Y Saeson a gawsant gyfnerthiad ychwanegol o'r cyfandir, ac a ddechreuasant anrheithio y wlad, gan feddwl mai prin y byddai calon na grym gan y Cymry i'w gwrthsefyll mwyach, wedi marwolaeth Uthr. Nid oedd Arthur fab Uthr ond bachgen ieuanc, pymtheg mlwydd oed, pan fu farw ei dad; ond yr oedd yn feddiannol ar gynneddfau tywysogaidd: gan hyny, wedi i bendeffigion y Cymry ymgynnull i gynghorfa yn Nghaerfydau (*Silchester*,) hwy a benderfynasant ei wneyd yn frenin yn lle ei dad, ac efe a goronwyd gan Dyfrig, archesgob Caerlleon.

Y mae yn dra anhawdd rhoddi hanesiad cywir am Arthur a'i weithred-iadau, gan fod myneich y canoloesoedd wedi llunio pentyrau o chwedlau oelwyddog, a'u tadogi ar ei enw ef, y rhai ydynt daenedig, a hygred i fseur mawr, yn mysg gwerin holl wledydd y cyfandir o'r bron. Yn y ddeuddegfed ganrif, dywedai un ysgrifenydd o'r cyfandir fel y canlyn am dano:—"Canys i ba le ni ddygprwyd ac ni chyhoeddwyd enw Arthur y Prydeiniaid, gan glodfforedd hedegawg belled ag y cyrhaedd ymherodraeth Cristionogrwydd? Pwy, meddaf, ni siarada am Arthur y Prydeiniaid, gan braidd nad ydyw yn fwy adnabyddus i genedloedd yr Asia nag i'r Prydeiniaid, megys y traethir i mi gan ein pererinion, yn dychwelyd o'r ardaloedd dwyreiniol? Y dwyreiniaid a siaradant am dano, ac felly y gwnant y gorllewinwyr, a hwyntwy yn ranedig oddiwrth eu gilydd led y ddaiar oll. Yr Aipht a siarada am dano, a'r Bosphorus nid yw ddystaw; Rhufain, arglwyddes y dinasoedd, a gana ei orchestion ef; ac nid ydynt ryfeloedd Arthur yn guddiedig oddiwrth ei chydymgeisydd gynt, Carthage. Ei weithredoedd ef a folychir gan Antiochia, Armenia, a Phalestine."\*

Onid nid ei wir hanes, eithr y flugchwedlau am dano, a daenid felly drwy yr holl wledydd: ac yn y rhai hyny efe a ddarlunid, nid fel blaenor ar ryw lwyth bychan o bobl, mewn rhyw gŵr neillduedig o'r ddaear; ond fel penadur goruchel annghydmorol, yn tramwy trwy y gwledydd gyda rhwysg goresgynydd anwrthladdadwy; ei lŷs yn ymgynnullfa i ddewrion y byd; ei farchogion ef yn ddewraf o honynt, ac yntau ei hun yn rhagori arnynt oll mewn dewrder a phob camp filwraidd. Gwelwn ef hefyd yn cael ei amgylchynu gan fodau tra annghyffredin eu hanianawd—dewinion, ellyllon, a'r tylwyth teg. Ei enw a geir yn nglŷn a chestyll, mynyddoedd, a meini, yn y fath fodd na ddigwyddodd i unrhyw ddyn arall erioed. †

Parai hyn i amryw haneswyr sobr ameu a fu y fath un a'r gwir Arthur erioed: ac o ameu, haeru na bu, cyn gwneyd yr ymchwil briodol i'n hen gofion hanesyddol, trwy y rhai y gellir profi i foddlonrwydd fod y fath un, a'i fod yn rhyfelwr dewr a medrus, ac iddo gael ei ethol yn benteyrn tua'r flwyddyn 517, fel yr arweiniai fyddinoedd unedig y Cymry yn erbyn y Saeson a'u cynghreirwyr: ac y mae Nennius, hen hanesydd o'r nawfed ganrif, yn crybwyll am ddeuddeg brwydr a ymladdodd efe yn fiddugol yn erbyn y Saeson. Yn y Trioedd hefyd, darlunir ei nodwedd filwraidd fel y canlyn:—

"Tri rhuddfanogion Ynys Prydain; Arthur, Morgan Mwynfawr, a Rhun fab Beli: sef, pan ydd elynt i ryfel, ni fynai neb aros gartref, rhag maint y'u cerid; ac nid oedd na rhyfel na maes nas enillynt, lle ni bai frad na chynallwyn; am hyny, diareb yw—Tri gŵr a wnaint wŷr lle'dd elynt; Arthur, Morgan Mwynfawr, a Rhun fab Beli. Tri wŷr a wnaint

\* Gwel "Hanes Cymru," gan y Parch. T. Price, t.d. 258, 259. † Ib. t.d. 262, 263.

wŷr lle i byddynt; gwŷr Arthur, gwŷr Morgan Mwynfawr, a gwŷr Rhun fab Beli."\*—31. Ac er prawf o'i rwyg a'i benteyrnedd, gallem grybwyll a ganlyn o'r Trioedd:—Tair priflys Arthur; Caerlleon ar Wysg, yn Nghymru; Gelliwig yn Nghernyw; a Phenrhyn Rhionydd yn y gogledd: ac yn y tair hyn, cynnal y tair prifwyl arbenig—nid amgen, y Nadolig, y Pasg, a'r Sulgwyn."† Yn y fan, wedi ei goroni, Arthur a gynnulodd lu mawr, ac a'i harweiniodd tua Chaerefrog, yn erbyn ei elynion; ac ar lan afon a elwid y Dulas, ymladdwyd brwydr galed, lle yr enillodd y Cymry y maes; a'u gelynlion a encillasant i Gaerefrog, lle y gwarchaeai Arthur arnynt yn ddyfal, gan atal pob arlwy oddiwrthynt. Pan glybu Baldolf, brawd y blaenor Sacsonaidd, am hyn, efe a ddaeth rhagddo, gyda chwe' mil o wŷr, hyd o fewn tua deng mildir i Gaerefrog, ar fedr ymosod ar y Cymry yn y nos; ond Arthur, wedi clywed am ei amcan, a anfonodd Cawdor, iarl Cernyw, a chwe' chant o feirch-filwyr, a thair mil o wŷr traed, i'w wrthladd, yr hyn a wnaed yn dra llwyddiannus; yna Baldolf, wedi methu yn ei ymgais hwn i ryddhau ei frawd, a amcanodd wneyd hynny trwy ystrw; ac wedi ymrithio fel telynor, efe a aeth drwy y fyddin Gymreig, a'i delyn yn ei law, a hyd at furiau y ddinas, lle y canai yn uchel, rai o hoff donau ei genedl, rai yr hyn y'i hadnabyddid gan y gwarchaedigion, ac felly hwy a'i tynasant i fynu â rhaffau i'r ddinas, lle yr ymgynghorai â'i frawd yn nghylch rhyw ffordd o ddiangfa iddo. Yn y cyfamser, dygid hysbysiad i Arthur, fod Cleddic, tywysog Sacsonaidd, wedi glanio ar erorau yr Alban, a byddin gref ganddo, i gynnorthwyo ei gydgenedl yn Mrydain; am hynny, barnodd Arthur a'i gynghoriaid yn ddoeth iddynt encilio o Gaerefrog i Gaerludd, a gwysio cyngor cenedlaethol yn nghyd, i ystyried pa beth a wnelid yn y cyfwng hwn; a'r penderfyniad y daethpwyd iddo oedd anfon cenadwri at Howel, fab Emyr Llydaw, o chwaer i Arthur, i erfyn ei gynnorthwy; ac hefyd, bod iddo erchi cymhorth Caron, brenin yr Alban; Maelgwyn, brenin Gwynedd; Meirig, brenin y Deheubarth; a Chattwr, duc Cernyw. Dywedir bod Howel wedi dwyn pymtheng mil o'r Llydawiaid gydag ef i gynnorthwyo ei ewythr, er llawenydd mawr i Arthur a'i wŷr. Yna, wedi cael ei gyfnerthu fel hyn, efe a arweiniodd ei luoedd hyd Gaer-lwyd-coed (*Lincoln*,) lle yr ymladdwyd brwydr waedlyd, yn yr hon y lladdwyd chwe' mil o'r Saeson; a'r rhai a ddiangasant a ffoisant i Goed Celyddon, lle y'u dilynid gan Arthur, ac yr ymladdwyd brwydr waedlyd arall; ac yn fuan fe'u gorfodwyd i roddi eu harfau i lawr i Arthur, a rhoddi gwystlon iddo y rhoddent eu holl feddiannau a'u hysbail i fyny iddo, ac y dychwelent i'w gwlad eu hunain. Ond wedi eu myned allan i'r môr, hwy a edifarhasant am yr amodau a addawsent i Arthur, a throisant yn ol i Frydain, gan lano yn Totness, ac anrheithio y wlad, oddiyno hyd at yr Hafren, ac o Hafren hyd at Gaerbaddon, ar yr hon y gwarchaeasant. Ond pan glybu Arthur hyn, efe a ddychwelodd o'r gogledd ar frys, ac wedi peri crogi y gwystlon yn ddioed, prysurodd tua Chaerbaddon, i ymofyn y gelynlion; ac wedi ymladd caled dros ben, fe'u llwyr orchfygwyd unwaith eto, gan ladd Colgrin a Baldolf ei frawd, a miloedd o'u gwŷr. Yna efe a ddychwelodd ar frys yn ol tua'r gogledd, i gynnorthwyo ei gâr Howel, a'i fyddin Lydawaidd, y rhai oeddnt yn ymladd a'r Pictiaid a'r Ysgotiaid: ac wedi llwyddo i ddarostwng y gelynlion hyn hefyd, yn gystal a Chilamwri a'i wŷr a ddaethent drosodd i'w cynnorthwyo, efe a ranodd eu tiriogaethau rhwng ei swyddogion, sef Arawn, Llew, ac Urien ab Cynfarch; a'i nai Howel a'i wŷr a ddychwelasant i'w gwlad eu hunain.

Onid hir y mwynhaodd Arthur a'i deyrnas heddwch; canyis Cerdic, yr hwn, er pan y'i baeddadid yn mrwydr Caerbaddon, a fuasai yn dra llonydd yn ei driogaethau ei hunan yn Ynys Danet, o'r diwedd a dderbyniodd gyfnerthiad o'r Almaen, ac a ddechreuodd anrheithio tiriogaethau y Cymry eto; ac Arthur, er ei fod wedi ei wanychu yn fawr trwy ei ryfel-oedd blaenorol, a ymdrechodd trwy bob moddion yn ei allu i wrthladd y fath elyn cadarn; a thros hir amser yr ydoedd yn dra anhawdd dirnad pa blaidd a fyddai drechaf; ond o'r diwedd, Cerdic a enillodd fuddugoliaeth drwyadl; a'r Cymry ar hyny a lwfrhasant yn ddirfawr, gan lwyrr anobeithio y gallent byth ddarostwng y Saeson. Yn wyneb hyn, ac yn ofni llwyr deulio nerth y gweddill o'i filwyr, gwelodd Arthur yn angenrheidiol iddo ddyfod i amodau heddwch â Cherdic, a chaniatau rhan o'i diriogaethau iddo, yn hytrach na pheryglu y golled o'r cyfan trwy ryfel: ac felly y terfynwyd y ryfel, a Cherdic a sefydlodd y freniniaeth a elwid *Wessex*, neu y Sacsoniaid Gorllewinol.

Yn fuan ar ol hyn, daeth haid fawr o bobl oedd a'u trigias yn fwy dwyreiniol tua glenydd y *Baltic*, y rhai a elwid *Anghels*, neu *Angles*, drosodd, dan dywysiad rhyf:lwyr o'r enw *Ida*, a'i ddeuddeng mab; a glaniodd eu llynges fawr rhwng genau y *Forth* a'r *Tweed*; ac er gwneuthur eu llwyddiant yn eu hymosodiad ar Brydeiniaid y rhan hono o'r ynys yn sicrach, hwy a ymgynghreiriasant â'r Brithwyr; a chan fyned rhagddynt o'r dwyrain tua'r gorllewin, parasant y fath arswyd ar y brodorion, trwy ladd a llosgi, ac anrheithio y wlad y ffordd y cerddent, fel y galwai yr hen feirdd Cymreig eu tywysog yn *Fflamddwyn*. Ond er creuloned oedd *Ida*, a chryfed ei fyddin, efe a gyfarfu ág arwr digon dewr i'w wrthladd yn Ystrad Clwyd, sef Urien, tywysog Rheged, neu *Cumberland*, fel y tybir. Y mae yn ngwaith Taliesin awdl ar frwydr *Argoed Llwyfain*, yr hon a ymladdfa rhwng Urien ac *Ida*; oddiwrth yr hon y gallwn weled fod yr ymladdfa grybwylledig wedi bod yn un galed iawn. Bernir fod Arthur y pryd hwn drosodd yn Llydaw, yn cynnorthwyo ei gâr cymmwynasgar Howel, i ddarostwng gwrthryfel a dorasai allan mewn rhyw ranau o'i diriogaethau.

Gan fod yr Awdl grybwylledig yn ddernyn o farddoniaeth hanesyddol hen a gwerthfawr, ac yn anadnabyddus i'r nifer fwyaf o ddarllenwyr y Darlithiau hyn, dodaf hi i fewn yma, yn nghydag aralleiriad o honi mewn iaith ddiweddarach. Dyma fel y mae hi—

" Y bore Dduw Sadwrn, cad fawr a fu,  
 O'r pan ddwyre haul hyd pan gynnu:  
 Dygryswys Fflamddwyn yn bedwar llu,  
 Goddeu a Reged i ymddullu,  
 Dyfwy o Argoed hyd Arfynydd,  
 Ni cheffynt eiryoed hyd yr undydd.—  
 Atorelwys Fflamddwyn, fawr drybestawd,  
 A ddodynt yn ngwystlon, a yn parawd.  
 Yr atebwys Owain ddwyrain flossawd,  
 Nid dodynt, nid y'nt parawd;  
 A Cheneu mab Coel, byddai cymwyawg lew.  
 Cyn ataliai o wystl nebawd.—  
 Atorelwys Urien, Udd yr echwydd,  
 O bydd yn nghyfarfod am garenydd,  
 Dyrchafwn eidoed odduch mynydd,  
 Ac ymportawn wyneb odduch emyl,  
 A dyrchafwn beleidr odduch ben gwyr,  
 A chyrchwn Fflamddwyn yn ei llydd,  
 A lladdwn ag ef a'i gyweithydd.



A rhag gwaith Argoed Llwyfain  
 Bu llawer celain,  
 Rhuddei frain rhag rhyfel gwŷr,  
 A gwerin a gysswys gan ei newydd,  
 Arinaf y blwyddyn, nad wyf cynydd,  
 Ac yna y fallwyf hen,  
 Ym dygn angu, angu;  
 Ni byddif ym dyrwen  
 No molwyf Urien!"

Nid oes un amheuaeth nad yw yr Awdl uchod o gyfansoddiad Taliesin, ac felly yn gynllun teg o'r iaith a arferid yn Ngwynedd dri chant ar ddeg o flynyddoedd yn ol. Ond er ei gwneyd yn fwy dealladwy i'r cyffredin o'n darllenwyr, dodwn yr aralleiriad canlynol o honi:—

"Boreu ddydd Sadwrn, brwydr fawr a fu,  
 O godiad haul hyd oni fachludodd:  
 Cyrchodd Fflamddwyn gyda phedair byddin,  
 I ymladd â gwŷr Goddeu a Rheged.  
 Cyrhaeddent o Argoed hyd Arfynydd,  
 Ond ni chwasant einfoes yn hwy nag undydd.  
 Crochlefa! Fflamddwyn mewn mawr ffrwst,  
 'A roddant hwy wystlon? A y'nt parawd?'  
 Atebws Owain loyw gledd,  
 'Ni roddant wystlon—nid ydynt parawd;  
 A Cheneu ab Coel a fyddai lew cyfröedig  
 Cyn y talai o wystl i nebun.'  
 Crochalwodd Urien, blaenor y llu,  
 'Bydded ymgynnulliad carenydd,  
 A dyrchafwn ein banier oddiar y mynydd,  
 A chodwn ein wynebau tua'r gororau,  
 A dyrchafwn ein gwaywffyn uwch benau gwŷr,  
 Rhuthrwn ar Fflamddwyn a'i luoedd,  
 Dystrywiwn ef a'i gynnorthwyr.'—  
 A rhag brwydr Argoed Llwyfain y bu llawer celain,  
 Y brain a liwiwyd yn goch gan waed rhyfelwyr,  
 A'r werin a daenasant y newydd drwy y wlad.  
 Nodaf y flwyddyn hon hyd fy nhranc,  
 Ac hyd oni phallwyf gan henaint,  
 A bod fy angu yn anocheladwy,  
 Na wenwyf, oni folaf Urien."

Tra fu Urien Rheged fyw, ni chafodd yr Eingyl dan Ida, a'u cynghreirwyr, ond y gwaethaf yn mhob brwydr; ond o'r diwedd llofruddiwyd Urien trwy frad un Llofan. Wedi marwolaeth Urien, dywedir i'w fab Owain ladd Ida â'i law ei hun mewn brwydr. Oddiwrth yr Eingyl, am y rhai y buom yn son uchod, y cafodd y Saeson eu galw *English*. Ond dychwelwn i roddi bras olwg ar ddiwedd hanes Arthur. Ymddengys iddo gael ei daer gymhell i fyned eilwaith i Lydaw, i gynnorthwyo ei gâr Howel i wrthladd rhyw eilynion yr ofnai iddynt oresgyn ei wlad; ac iddo, cyn hwylio drosodd, appwyntio ei nai, Modred ab Llew ab Cynfarch, i gymmeryd gofal ei deyrnas, a pherson ei wraig Gwenhwyfar. Ond Modred yn anffyddlaw, wedi ei faglu gan degwch Gwenhwyfar, a'i priododd yn gyhoeddus; a chan ymgynghreirio gyda Cherdic, a rhoddi arglwyddiaeth Cernyw a holl ddeheubarth Lloegr iddo, efe a gymmerth arno ei hun yr enw o frenin y Cymry.

Wedi bod yn absenol o'i wlad bum' mlynedd, dychwelai Arthur yn ol; ond nid oedd yma fawr o gysur yn ei aros; canys ei nai ei hun, yr hwn a

oesodasai efe yn rhaglaw ei deyrnas, ac i'r hwn yr ymddiriedasai ei drysorau penaf, ydoedd wedi troi yn dwyllodrus iddo—wedi dwyn ei wraig, a thrawsfeddiannu ei orsedd—ac er ei hunanamddiffyniad, wedi myned i gyngrhair â'r Brithwyr ac â'r Saeson, i wrthladd Arthur pan ddechwelai. Gan hyny, pan y daeth efe drosodd, yr oedd yn rhaid iddo â'r ychydig wŷr oedd ganddo wrthladd byddinoedd unedig Modred a'i gynghreirwyr; ond trwy ei athrylith anhysbyddawl, galluogid ef i ddwyn y rhyfel yn mlaen yn lled llyyddiannus yn erbyn yr holl elynion hyn; ond o'r diwedd, wedi erlyn ei elynion o fan i fan, efe a'u gyrodd i Gernyw, ac yno yr ymladdwyd brwydr waedlyd Camlan. Yn y frwydr hon, cyfarfu Arthur â'r bradwr Modred, ac ymladdent â'u gilydd gyda chynnddeiriogrwydd ofnadwy; lladdwyd Modred ar y maes gan Arthur ei hunan; ond archollwyd yntau mor dost fel y bu farw yn mhen ychydig ddyddiau.

Ni allodd y Cymry wneyd ond gwrthasafiad egwan i ymsefydliad y Saeson yn y parthau deheuol o'r ynys byth mwyach; a'r peth mwyaf tebyg yw, i'r rhan fwyaf o'r Lloegrwys ymostwng iddynt yn lled rwydd, ac ymgystlynu â hwy, fel y gwnaethent â'r Rhufeiniaid o'r blaen.

Y mae y Trioedd canlynol yn cyfeirio at ymsefydliad y Saeson yn y wlad hon, ac yn rhoddi gradd o oleuni ar yr amgylchiadau, am hyny dodwn hwy i lawr yma.

"Tair brad ormes Ynys Prydain; cyntaf, y Gwyddyl Coch oc y Werddon, a ddaethynt idd yr Alban; ail, y Llychlynwys; a thrydydd, y Saeson. Sef y daethynt idd yr ynys hon yn nhanc a chenad cenedl y Cymry, ac yn nawdd Duw ac ei wirionedd, ac yn nawdd gwlad a chenedl, ac a wnaethynt ossawd o frad a direidi ar genedl y Cymry, a dwynt i arnynt a ellynt o gyfoeth teyrnedd Ynys Prydain, a chyd ymwerinaw âg eu gilydd a wnaethynt yn Lloegr ac yr Alban, lle yr arosasant hyd yr awr hon: ac yn oes Gwrtheyrn Gwrtheneu y buad hyny."—TRI. 9.

"Tair gormes gadarn Ynys Prydain, a gystlynynt yn un, ac o hyny ydd ayt yn un ormes a ddygai oddiar y Cymry eu braint, ac eu coron, ac eu tiroedd: sef cyntaf y Coraniaid, ac ymgystlynu a wnaynt âg y Caisariaid onid ayt yn un; ac ail odd y tair y bu y Caisariaid; trydydd oeddynt y Saeson, ac ymgystlynu âg y ddwy ereill a wnaynt yn erbyn y Cymry. Ac o Dduw y bu hyn, er dial tair traha gadarn cenedl y Cymry: can nas gellid o gyfiawnder eu cynghyd."—TRI. 13.

Cawn grybwylliad hefyd yn yr unrhyw awduriaeth am frad Medrod:—

"Tair bradgyfarfod Ynys Prydain: \* \* \* trydydd, cyfarfod Medrawd ac Iddawc Corn Prydain a'u gwŷr yn Nanhwynain, lle y gwnaethant frad Arthur, ac o hyny cadernid i'r Saeson yn Ynys Prydain."—TRI. 20.

"Tri charnfradwr a fuant achaws i'r Saeson ddwyn coron Ynys Prydain oddiar y Cymry: \* \* \* ail ydoedd Medrawd, a rodde ei hun a'i wŷr yn un â'r Saeson, er cadarnhau iddaw y deyrnedd yn erbyn Arthur; ac achaws hyny o frad, ydd aethant laweroedd iawn o'r Lloegrwys yn Saeson."—TRI. 45.

"Tair aerfa ddrud Ynys Prydain: cyntaf, pan aeth Medrawd i Gelliwig, ni edewis ef yn y llys na bwyd na diawd a borthai wybedyn, eithr ei ysu a'i dreulïaw i gyd, ac a dynes Wenhwylar o'i rhiein-gadair, ac a wnaeth anniwreiddeb â hi; ail ydoedd, pan aeth Arthur i lys Medrawd, ac yno ni adewis na bwyd na diawd nas difethai, ac a leddis bob byw yn y cantref, yn ddyn ac yn ysgrubl."—TRI. 52.

Trachefn, cawn grybwyllïadau am frwydr anffodus Camlan yn y Trioedd.

"Tair ofergad Ynys Prydain: \* \* \* trydydd fu ylgad Gamlan, rhwng Arthur a Medrawd, lle y llâs Arthur, a chydag ef can' mil o wŷr, yn oreuon cenedl y Cymry; ac achaws y tair ofergad y bu i'r Saeson ynill

gwlad Loegr i ar genedl y Cymry, sef achaws nad oedd wŷr rhyfel a allaf wrthosod y Saeson."—*Tr.* 50.

\* \* \* "Ymgystlynu â'r Saeson a orug Medrawd, a pheri ymladd y gâd Gamlan, lle y llas Arthur a'i wŷr namyn tri; ac o byny allan ydd aethant y Saeson yn ormesgyrch ar deyrnedd Ynys Prydain, a lladd a deol o genedl y Cymry y neb nad elai ganthynt, ac ni chaid namyn ciwdodau gwlad Cymru a fynnt wrthladd gormes y Saeson."—*Tr.* 100.

Bellach dychwelwn i fwrw golwg yn fwy neillduol ar helynt y Cymry yn y rhan o'r Ynys a elwid "gwlad Cymru," ac yn enwedig y rhan ogleddol o'r wlad hono.

*Cunedda Wledig* oedd fab i Edeyrn ab Padarn Beisrudd, o Gwawl, ferch Coel Codhebawg. Yr oedd efe yn frenin Prydeiniaid Ystrad Clwyd, lle y dechreuodd efe deyrnasu tua'r flwyddyn 328, ac yn hawl ei fam meddai etifeddiaethau eang yn Nghymru. Pan oresgynwyd rhan fawr o Wynedd gan y Gwyddelod, y rhai a drawsfeddiannent diriogaethau Cunedda yn y wlad hono, gan fod ganddo lawer o feibion, efe a roddes fyddinoedd o arfogion dan lywodraeth rhai o honynt, ac a'u hanfonodd i'r wlad hono, i yru y goresgynwyr o honi, ac i adfeddiannu ei diriogaethau, yn yr hyn y buant yn dra llwyddiannus; a hwyntwy eu hunain a ymsefydasant yn y wlad, gan feddiannu arglwyddiaeth rhandiroedd eang o honi, y rhai a elwir ar eu henwau hyd heddyw. Ei fab henaf, Tybiawn, a fu farw yn Ynys Manaw: ond ei fab ef, Meirion ab Tybiawn, a feddiannodd gantref Meirion, ac ar ei enw y gelwir un o siroedd Gwynedd hyd y dydd hwn, "Sir Feirionydd;" Arwystl ab Cunedda a gafodd Arwystli; Einion a gafodd Gaer Einion, yn sir Drefaldwyn; Ceredig a etifeddodd Geredigion, yn sir Aberteifi; Dunod a gafodd Dunodig, ya sir Gaerynaron; Edeyrn a gafodd Edeyrnion, yn sir Feirionydd; Mael a gafodd Dinmael; Coel a gafodd Coeleion; Dogfael a gafodd Dogfaelin; Rhufoen a gafodd Rhufoeniawg, yn sir Ddinbych; ac Oswal a gafodd Osweilin, yn sir yr Amwythig.

Mab i Einion Yrth, arglwydd Caer Einion, oedd Caswallawn, a gyfenwid Llaw hir, am orchestion yr hwn, a'i ymsefydliad yn Mon, y rhoddais beth hanes yn y bedwaredd Ddarlith. Ynddo ef y dechreuodd goruchafiaeth unbenaethol teulu Cunedda yn Ngwynedd, ac efe a deyrnasodd o'r flwyddyn 443 hyd y flwyddyn 517, fel y bu efe yn frenin y Cymry, a chanddo hawl i wisgo yr hualau aur, fel anrhydedd a gwobrwy am ei wrhydri yn Ngerig y Gwyddel, pan y gorfododd y gweddill o'r Gwyddelod a flinent y wlad, i groesi Môr y Werydd yn ol i'w gwlad eu hunain; a mwynhaodd yr anrhydedd dros y tymhor maith o 74 o flyneddoedd.

Efe a ddilynd yn y llywodraeth gan ei fab, Maelgwyn Gwynedd; ac efe a deyrnaseodd dros dair a deugain o flyneddoedd—naw neu ddeg ar hugain o ba rai y bu efe yn frenin Gwynedd; a'r gweddill, debygid, sef o gwmp Arthur, yn benteyrn y Cymry oll. Y mae amryw o'r haneswyr yn rhoddi gair da iddo, fel gŵr synwrol, dewr, a chyfiawn; ac iddo ddarostwng amryw freninoedd, fel yr oedd ganddo ehwech o deyrnaseodd tramor yn cydnabod ei uchafiaeth, sef y Werddon, Ynys yr Iâ, yr Alban, Orkney, Norway, a Denmark. Dywaid Gildas am dano, mae yn wir, ei fod yn ŵr creulawn, a chyhudda ef o fod yn euog o Sodomiaeth: ond y mae rhai yn haeru fod yr hen Gildas wedi ei ddigio yn fawr gan Faelgwyn, am ei fod yn dangos mwy o dueddgarwch at y Beirdd nag at y gwŷr crefyddol.

Gellir golygu dyddiau Maelgwyn yn ddyddiau genedigaeth yr awen Gymreig; canys cyfarfyddwn âg enwau Aneurin, Taliesin, Llywarch Hen, &c.; Aneurin a Llywarch Hen oeddynt feirdd tywysogaidd o fysg Prydeiniaid

Ystrad Clwyd; ond Taliesin ydoedd fardd o Wynedd, ac y mae lle i feddwl iddo fod dros yspaid o leiaf yn fardd y llys i Faelgwyn. Dywedir y chwedl draddodiadol a ganlyn am ddygiad Taliesin i sylw Maelgwyn:—"Gwyddno, un o bendefigion llys Maelgwyn, oedd yn preswyllo yn y gymydogeaeth, a chanddo gored ragorol, yr hon a elwir *Gored Gwyddno* hyd heddyw, ac a berthyna i Fod Caswallon. Elphin ab Gwyddno oedd ŵr ieuanc uchelfrydig ac afradus, ac felly daeth tloidi i wasgu ar ei gôd, fel y bu raid iddo atolygu i'w dad ganiatau yr hyn a ddelid yn y gored am un noswaith iddo: ond pan aed i edrych pa beth a gynnwysai y gored, er siomiant bliin Elphin, ni chaed un pysegodyn o'i mewn; ond mewn rhyw gongl o honi, canfyddai un o'r gweision fath o gorwgl, neu gwch croen, ac o'i fawn ŵr ieuanc, yr hwn ar gyfrif tegwch ei wedd, a alwai Elphin, pan y'i dygid ato, yn *Daliesin*: ac yn athrist o herwydd ei afluwydd, cymmerth Elphin y gŵr ieuanc dyeithr wrth ei sgil, ar ei farch ei hun adref; ac ar y ffordd, medd rhai, y canai y bardd ieuanc y llinellau a elwir "*Dyhuddiant Elphin*:" ac Elphin, wedi eu clywed, a feddyliai nad llwyr ddiwerth a fuasai ei helpa. Gan fod y "*Dyhuddiant*" yn ddyeithr i lawer o ddarllenwyr y Darlithiau hyn, dyma efe iddynt:—

"Elphin deg, taw a'th wyllo,  
Na chabled neb yr eiddo;  
Ni wna les drwg obeithio,  
Ni wyl dyn ddim a'i portho,  
Ni bydd coeg weddi cynllo,  
Ni thyr Duw ar addawo:—  
Ni chaed yn ngored Gwyddno  
Erioed cystal a heno.

Elphin deg, sych dy ddeurudd,  
Ni weryd bod yn rhy brudd;  
Cyd tybiaist na chefaist fudd,  
Ni wna les gormod cystudd.  
Nac ameu wyrthiau Dofydd,  
Cyd bywyf bychan, wyf gelfydd,—  
O foroedd, ac o fynydd,  
Ac o eigion afonydd,  
Y daw Duw a dâ i ddedwydd.

Elphin, gynneddfau diddan,  
Anflwraidd yw dy amcan,  
Nid rhaid it ddirfawr gwynfan,  
Gwell yw Duw na drwg ddarogan;  
Cyd bywyf eiddil a bychan,  
A'r gorferw mor dylan,  
My a wnaaf yn nydd cyfyrdan,  
Yt well na thrychau Maran.

Elphin, gynneddfau hynod,  
Na sorr ar dy gaffaelod:  
Cyd bywyf gwan ar lawr fy nghôd,  
Mae rhinwedd ar fy nhafod.  
Tra fwyf fi i'th gyfragod,  
Nid rhaid yt ddirfawr ofnod;  
Drwy goffau enwau'r Drindod,  
Ni ddichon neb dy orfod."

Ond i ddychwelyd at ein traddodiad.—"Yn ngwyliau y Nadolig, pan oedd Maelgwyn yn cael ei amgylchynu gan ei bendefigion oll, a'i bedwar prif fardd ar hugain ger ei fron, yn ymorchestu am y goreu i wenieithio iddo, gan gyd dystiolaethu ei fod yr harddaf, y doethaf, a'r galluocaf o

949203A

benaduriaid; a bod ei frenines yn tra rhagori ar bob gwragedd, mewn wgwch a lledneisrwydd; mewn gair, bod ei filwyr y dewraf, ei feirch a'i gŵn y cyflymaf, a'i feirdd y dysgedicaf a'r goreu yn y byd, &c.: Elphin yn wylaidd a ddywedai, nas dylai neb ond brenin ymgystadlu â brenin, pe amgen y buasai efe yn beiddio haeru mai ei fardd ef, *Taliesin*, oedd "ben beirdd," &c. Maelgwyn, yn chwyddedig gan y gweniaith a gawsai, ac efallai dan ddylanwad mëdd, neu win hefyd, pan glywodd y geiriau hyn a ffrimodd yn ddirfawr, ac a archodd rwy mo Elphin, a'i fwrw yn ngharchar, hyd oni phroffid gwirionedd ei haeriad; yr hyn pan glybu *Taliesin*, efe a benderfynodd ryddhau ei gyfaill a'i noddwr; ac felly, yn anadnabyddus, efe a aeth i lys Maelgwyn, yr hwn oedd yn Deganwy, ar lan afon Conwy, a thrwy ei awen rymus, a'i arabedd dihafal, efe a orfuodd holl feirdd y llys, ac a enillodd y fath ffafr yn ngolwg Maelgwyn frenin, fel y rhyddhawyd Elphin, ac y'i hadsefydlwyd yn ffafr ei dywysog yn fuan; ac am hyny y gelwid *Taliesin* mwyach yn "*Dahiesin* ben beirdd."

Mae Hanes *Taliesin* yn y Mabinogion rywbeth yn debyg i'r un uchod, ond ei bod yn cyfleu llys Gwyddno tua thriogaethau Cantref y Gwaelod, a'r gored crybwylledig yn agos i arllwysiad yr afon Dyfi i'r môr. Rhaid addef fod yn gysylltiedig â hanes *Taliesin* lawer o fflugchwedlau, o ddyfais myneich y canoloesoedd; ond yr ydwyf yn credu fod gwir hanesiaeth yn rhedeg fel edefyn euraidd drwyddynt oll, ac y byddai ceisio ei hohrhain a'i thynu allan o'r pentwr dyrlyd yn ddyddorawl, ac efallai na byddai yn anmhossibl.

Dywedir i Maelgwyn adeiladu cestyll Deganwy; Digoll, a elwir yn awr Amwythig; Cyffin, neu Gonwy; a Chollwyn, a elwir yn awr Harlech. Efe hefyd a waddolodd esgobaeth Bangor â thir ac âg amryw ryddfreniaid, ac a adeiladodd dref Bangor.\* Heblaw hyny, priodolir iddo seiliad priordy Penmon ac athrofa Caer gybi yn Mon; ond gan fod y rhai hyn wedi eu sefydlu yn amser ei dād Caswallon, ac o dan ei nawdd, y mae yn fwy tebyg mai eu gwaddoli a wnaeth â thiroedd ac â breintiau. Efe a fu farw yn y flwyddyn 560, yn eglwys Llandrillo yn Rhos, lle yr encilliasai, meddir, i ochel y fâd felen—rhyw fath o haint dra angeuol a gynniweiriaid y wlad y pryd hyny: ond er ei fod ef yn ddigon ofergoelus i ddysgwyl y buasai cysegredigaeth y lle yn ei gadw, mae yn ymddangos iddo farw o'r haint yn y noddfa a ddewisasai. Dywaid rhai mai yn eglwys Llanrhos y'i claddwyd; ond haera ereill mai yn Ynys Seiriol y dodwyd ei lwch i orwedd; ac er cadarnhad o hyny, crybwyllir y dyfyniad canlynol o Gronick Abatty Basingwerc:—"Maelgwyn, brenin y Brytanied, sydd yn gorwedd yn Ynys Seiriol, a wnaeth Briordy Penmon, a Chlaswrdd Caer-gybi."

Meddylir yn gyffredin mai yn ystod teyrnasiad Maelgwyn yn Ngwynedd, ac Arthur yn y Deheubarth, y gorlifai y môr dros y rhan oren o Geredigion, a elwid Cantref y Gwaelod—tiriogaeth fras a gyrhaeddai o dref bresenol Aberteifi hyd Sarn Badrig. Dywedir mai prif ddinas y rhandir hon oedd Caer Wyddno, ar deryn Sarn Cynfelyn, ac oeddent deuddeng milldir o Aberystwyth. Priodolir yr afwydd yma i feddwod Seithinyn fab Sandde, ceidwad y dyfrddorau; brawd, fel y tybir, i'r esgob Dewi ab Sandde. Tywysog Ceredigion, pan orlifwyd y rhan yma o'r wlad, oedd Gwyddno Garan Hir. A'r hynafiaethydd enwog Lewis Morris, neu Lewelyn Ddu o Fon, a gafodd gareg ar oror swydd Feirionydd, yn y tywod, tua chan' llath goris distyll, ac arni yn doredig mewn

\* Gwel "Warrington's History of Wales," 4to, p. 80. "The Chronicle of the Kings of Britain, by the Rev. P. Roberts," 4to, p. 173.

llythrenau Rhufeinaidd y geiriau canlynol—" *Hic Jacit Calixtus Monedo Regi*,"—" Yma y gorwedd Cychwr y brenin Gwynddo:" ac oddiwrth hyn gellid meddwl mai *Gwynddo*, ac nid *Gwyddno*, oedd enw priodol Garanhir.\* Mae rhyw sylwadau lled wahanol ar y gareg hon i'w gweld yn y trydydd cyfilyr o'r *Archæologia Cambrensis*, gan Mr. Jones o Madryn, a Mr. Westwood. Ac nid yw yn annhebyg mai tua'r un adeg y gorllŷd y gwastadedd maith oedd rhwng y Conwy a'r Menai, a elwir yn bresenol Traeth y Lafan.

Y mae y traddodiad canlynol, yn gysylltiedig â'r amgylchiad uchod, yn cael ei gadw yn fyw oddeutu y lle, yn Mon ac Arfon:—" Helig ab Glanog, arglwydd y gwastadedd bras hwn, ydoedd wr tra annuwiol; ac yn nodedig fel gormeswr y gweddwon a'r amddifaid. Ond fel yr oedd yn dychwelyd tua'i lŷs, un noswaith, ar draws y gwastadedd maith yma, efe a glywai ryw lef ryfedd yn yr awyr yn ei gyfarch, gan ddywedyd, "*daw dial, daw!*" Wedi ymdrechu i ymgaledu, a bwrw y peth heibio yn ddi-sylw dros dro, ei gydwybod a ymgynhyrfai ynddo, ac efe a ofynai yn gyffrous, "*Pa bryd y daw?*" Yna y llef a atebai, "*Yn oes dy feibion, dy wyrion, dy orwyrion, a'th yscynyddion.*" Yntau a weniethiai iddo ei hunan, oni ddeuai y dialedd hyd oes ei yscynyddion, y byddai efe oddiar y ffordd yn ddiogel: ond efe a gaffai hir ddyddiau, ac wedi anghofio y rhybudd difrifol, efe a barhai yn ei annuwioldeb rhyfygus, ac a ymlawenhai yn lluosogiad ei hiliogaeth yn genedl gref o'i ddeutu; ac ar un achlysur, fel yr oeddid yn cynnal gwledd ar enedigaeth yscynydd iddo, a'i holl hiliogaeth, hyd bedair neu bump o genedlaethau, wedi ymgynnull er bodddhad yr hen batriarch. Fel yr oeddynt yn y gyfeddach feddwl ganol nos, un o'r llawforwynion, wrth fyned i'r feddgell i gyrchu ychwaneg o ddioid, a welai y llawr yn orchuddiedig gan ddwfr, a chan ofni yn y fan fod y môr yn dechreu gorlifo y lle, rhoddai amnaid i'r telynor teuluaid, yr hwn oedd ei chârwr, a chyddoisant tuag ucheldiroedd y Penmaen: o'r lle, wedi ei myned yn ddydd, y gwelent yr holl wastadedd wedi ei orchuddio gan y dyfroedd mawrion; a dialedd dwyfol, er hirymaros, wedi goddiweddyd Helig ab Glanawg.

Wedi marwolaeth Maelgwyn, daeth ei fab Rhun i'r llywodraeth, yr hwn o ran ei gynneddau rhagorawl ydoedd fab teilwng i fod yn olynwr y fath dad. Gelwir ef yn gyffredin Rhun ab Maelgwyn; a chartrefai, fel y bernir, yn Nghaer Rhun, heb fod yn mhell o lŷs ei dad. Efe a ddaeth i'r llywodraeth yn y flwyddyn 560, ac a fu farw yn y flwyddyn 586; a bu rhyfeloedd blinion rhyngddo a'r Saeson o barthau gogleddol yr Ynys. Yn rhai o'r rhyfeloedd hyny, ymddengys i wŷr Arfon, trwy eu dewrder, enill iddynt eu hunain lawer o glod a breintiau gwerthfawr, fel gwladwyr; at yr hyn y cyfeiriai Taliesin yn un o'i bryddestau:—

"Cyglyw wrth wres eu llafnau,  
Gan Run, yn rhudder byddinau,  
Gwŷr Arfon rhuddion i'w rhyddhau."

Ac y mae coffadwriaeth anrhydeddus am Rhun yn y Trioedd hefyd, fel hyn:—

"Tri aur-hualogion Ynys Prydain, Rhiwallon wallt Banhadlen, a Rhun mab Maelgwyn, a Chadwaladr Fendigaid; sef y rhodded iddynt wisgaw hualau euraidd am eu breichiau, ac am eu gluniau, ac am eu gyddfau: ac ar hyny y rhodded braint teyrnedd yn mhob gwlad a chyfoeth yn Ynys Prydain." Wrth hyn galleu gasglu bod Rhun wedi ei ddewis yn benteyrn ar ol marwolaeth ei dad.

\* Gwel "History of Wales," gan John Jones, Yswain, p. 38.

Wedi teyrnasu o RUN AB MAELGWYN dros chwe' blynedd ar hugain, efe a fu farw, er galar cyffredinol y genedl, a'i fab BELI a'i dilynodd yn y freniniaeth, ac a deyrnasoedd am oddeutu tair blynedd ar ddeg. Nid wyf yn gwybod fod dim hynodrwydd yn ei nodweddiad na'i hanes ef, ac nid yw yn debyg ei fod ef yn benteyrn, na dim amgen na brenin ar Wynedd.

Dilynwyd ef yn y freniniaeth gan ei fab IAGO, a elwid IAGO AB BELI, yr hwn a adeiladodd fonachlog Bangor, ac a gyfranodd yn dywysogaidd tuag at ei chynaliaeth. Wedi teyrnasu o hono dros dair neu bedair blynedd, efe a laddwyd trwy ddyrnod bwyall yn ei ben; gan un a gyfenwid "Cadafael Wyllt." Ni ellais i gael allan pa beth a achlysurai y gyflafan yma, ond galleu gasglu oddiwrth un o'r Trioedd nad oedd Cadafael o waedoliaeth Gymreig; canys fel hyn y dywedir am dano:—

"Tri eilldeyrn Ynys Prydain, Gwrgai fab Gwrien, yn y gogledd; a Chadafael fab Cynfedw, yn Ngwynedd; a Hyfaidd Hir fab Bleiddan Sant, yn Morganwg; sef y rhodded teyrnaedd iddynt am eu campau, a'u cynneddfau clodforion a rhadforion."—TAR. 26.

A chyda golwg ar yr adwyth grybwylledig uchod, dywedir yn un o'r Trioedd:—

"Tair anfad fwyelldawd Ynys Prydain: bwyelldawd Eiddyn ab Ein-ygan yn mhen Aneurin Gwawdrydd; a bwyelldawd a roddes Cadafael Wyllt yn mhen Iago ab Beli; a'r fwyelldawd a rodded yn mhen Colyddan Fardd, achaws y halfawd a roddes efe ar Gadwaladr Fendigaid."—TAR. 48. Y mae lle yn Mon yn dwyn enw y lleiddiad hwn, sef "Bryn Cadafael," yn agos i Lanallgo.

Yn y flwyddyn 603, debygid, y lladdwyd Iago, a'i fab CADFAN a etifeddodd ei anrhydedd ef. Yn nheyrnasiad y tywysog hwn, y Saeson, dan flaenoriaeth Edelffrid, neu Ethelfrith, brenin Northumberland, trwy anogaeth Awstin Fonach, fel y tybir, balchder yr hwn a gawsai archeoll tost drwy ymddygiad annibynol yr Esgobion Cymreig mewn cynnadledd ychydig ddyddiau cyn hyny, a ymosodasant ar diriogaethau Brochmael Ysgythrog, tywysog Powys. Myneich Bangor is y Coed, wedi eu brawychu wrth ddynehad y fath fyddin o baganiaid, ac yn cofio bygythion Awstin, ond odid, a ffoisant at Brochmael, yr hwn yn nghyda'i fyddin a wersyllai yn Nghaerlleon Gawr: ond yr oedd byddin Ethelfrith yn llawer lluosocach na'r eiddo Brochmael, ac felly yn fuan efe a yrwyd i ffoi, ac erbyn hyn yr oedd myneich Bangor wedi eu gadaw yn hollol ddiameddifyn. Y brenin yn gweled nifer mawr o wŷr anarfog, ac o ymddangosiad tra dyeithriol, a ymholai pwy oeddynt, ac wedi cael hysbysiad mai dynion crefyddol oeddynt, y rhai a weddient am lwyddiant eu cydwladwyr, efe a ddywedai—"Os ydynt hwy yn llefain ar eu Duw yn ein herbyn, yna y maent yn ymladd yn ein herbyn â'u gweddïau." Yna efe a archeodd i'w wŷr ruthor arnynt, a'u lladd yn ddiarbed; a dywedir i ddeuddeg cant o honynt gael eu lladd; ond ereill a ddywedant mai dau cant oedd eu nifer, ac y mae hyny, debygid, yn fwy hygoel. Ar ol hyny, Ethelfrith a aeth hyd at athrofa Bangor is y Coed, ac a lwyr ddiffieithiodd y lle, gan losgi a dinystrio y cyfan, yn nghyda'r llyfrgell odidog a gwerthfawr. Yna wedi cyflawni y gorchwylion ysgeler hyn, yn chwyddedig gan lwyddiant, efe a geisai ymwithio yn mlaen i ganol Cymru; ond erbyn hyn yr oedd byddin gref o'r Cymry wedi ymgynnull i'w groesawu, gan benderfynu dial ei draha a'i greulonder ar ei ben ei hun. Y fyddin hon a roddid dan lywyddiad Cadfan, brenin Gwynedd, fel penteyrn, ac yn ei gynnorthwyo yr oedd Meredydd, brenin Dyfed, Bledrws, tywysog Cernyw, a Brochmael Ysgythrog; ac mor bybyr yr ymosodasant ar fyddin Ethelfrith, fel y lladdasant ddeng mil o honynt, ac y gyrasant y gweddill i ffoi

tua'u gwlad eu hunain can gynted ag y gallent. Yn y canlyniad i'r frwydr hon bu Cadfan yn meddu penteyrnïaeth Cymru weddill ei oes: a chan y cyfrifid y baeddiad amserol yma a gafodd Ethelfrith, gan grefyddolion yr oes hono, yn ddialedd cyfiawn am gyflafan yn myneich, pŵrchid Cadfan a Meredydd yn fawr dros ben; ac y mae maen-gofion am danynt ar gael eto.\* Prif drigias Cadfan ydoedd Caer-seiont, sef Caerynarfon, ac efallai fod iddo lys arall yn Mon; canys fe addefir yn gyffredin iddo gael ei gladdu yn Llan Ael, yr hon wedi hyny a alwyd Llangadwaladr, gan ei chysegru i'w ŵyr ef, Cadwaladr Fendig-aid; ac y mae yno gareg, yn gappan y drws deheuol i'r eglwys hono, ar yr hon y mae yn gerfiedig, mewn hen lythyrenau o'r fath a arferid yn y seithfed ganrif, eiriau a ddynodant hyny. Haera ereill, mai yn Ynys Enlli y claddwyd Cadfan, ond darfod i Cadwaladr symud ei gorph ef i'r fan yma, gan adeiladu yr eglwys ar ei fedd, tua'r flwyddyn 650.

Yn y flwyddyn 630, y bu farw Cadfan, a'i fab CADWALLAWN a ddaeth i foddiant o'r orsedd fel brenin Gwynedd, ac a'i dilynodd yn mhenteyrnïaeth y Cymry oll, debygid, hefyd; a chan belled ag y meddwn ni fantasia i ymgydnabod â'i nodweddiad, yr ydym yn rhwym i gasglu fod ynddo lawer o deilyngdod i lenwi y sefyllfa urddasol hono; ond bu blyneddau cyntaf ei deyrnasiad yn dra chymylawg ac ystormus; canys cyfododd rhyw ymrafael rhwng Edwyn, brenin Deifyr, âg ef, er eu bod yn gyfeillion calon yn nyddiau eu hieuenctyd; canys dywedir mai yn llys Cadfan y magesid Edwyn, pan yn ddeoleddig o'i wlad ei hun trwy drais Ethelfrith; ac y mae yn dra thebyg ei fod yn ddyledus am ei adferiad i'w orsedd hefyd i Gadfan tad Cadwallawn; ond wedi i ymrafael dori rhyngddo â Chadwallawn, efe a gafodd amryw o freninoedd y Saeson a'r Ysgotiaid yn ddigon parod i ymunaw âg ef yn erbyn brenin y Cymry; a'i guro yn dost a wnaethant mewn brwydr waedlyd a ymladdwyd mewn lle a elwir Dinwydr, yn Neifyr: a chan fod ei elynion mewn nerth mawr, wedi cau rhyngddo a'i wlad ei hun, efe a orfuwyd i ffoi ar draws yr Alban, a chroesi y môr i'r Iwerddon, lle y bu ef a'i gymdeithion yn alltudion dros saith mlynedd, am yr hyn y coffeir yn y TRIOEDD.

"Tri theulu diwair (neu ffyddlaw) Ynys Prydain: Teulu Cadwallon eil Cadfan, a fuant gydag ef saith mlynedd yn y Werddon; ac yn hyny o amser, ni ofynasant na thâl nag iawn yn y byd, rhag gorfod arnaddynt ei adaw, ac nis gallai efe yr iawn a ddylesynt."

Ni wyddys pa faint a ddyoddefodd y Cymry ar yr adeg yma, pan oedd eu brenin a'u goreugwyr yn alltudion, a'u gwlad yn cathrfa i'w gelynyon: ond aeth yr ystorn hon heibio, a Chadwallon wedi cael cymhorth gan ei gâr, Solomon, brenin Llydaw, ac wedi gorchfygu Peuda, brenin y Mer, yr hwn yn y canlyniad a ymrwymodd i'w wasanaethu yn ei ryfeloedd, efe a aeth rhagddo yn erbyn Edwyn, yr hwn, yn nghyda'i fab Osfrith, ac agos ei holl fyddin, a laddwyd mewn brwydr ofnadwy a ymladdwyd gerllaw Hethfield, neu *Hatfield*, fel y bernir, yn swydd Gaerefrog; a thros yspaid mwy na blwyddyn, bu yn arllwys ei lid ar ei gaseion yn ddi-arbed, gan anrheithio holl Ogledd Lloegr; ond o'r diwedd Cadwallon ei hunan a laddwyd, mewn brwydr âg Oswald, yr hwn a ddaeth i'r orsedd Deifyr a Bryneich, yr hon a ymlleddid, fel y bernir yn Denishourne, yn *Northumberland*; a'i fyddin a yrwyd ar ffo. Digwyddodd hyn tua'r flwyddyn 634, medd y Parch. T. Price. Ond y mae hen Gronicl Tysilio yn rhoi ar ddeall iddo orfucheddu Oswald flyneddodd, a marw mewn heddwch.

\* Gwel "History of Wales," gan John Jones, Ysw., p. 41.



Cyfansoddai Llywarch Hen farwnad odidog iddo, yr hon a egrw drwy grybwyll ei amrywiol frwydrau :—

“Cadwallawn cyn noi ddyfod,  
A'i gorug a'n digonod, pedair prifgad ar ddeg,  
Am briffdeg Prydain, a thriugain cyfarfod.”

Yr oedd y Dr. W. O. Pughe yn barnu mai tua'r flwyddyn 646 y cwmpodd Cadwallawn; os felly, gellir ystyried y cyfansoddiad hwn yr olaf o eiddo yr hen fardd hybarchus, gan iddo ef ei hunan farw yn fuan ar ol hyny.

Crybwyllir yn y Bryddest am bedwar ar ddeg o leoedd, megys gweryslladau lluoedd Cadwallawn :—

“Lluest Cadwallawn ar *Gaint*,  
Lloegyrdres ormes ar naint,  
Llaw dillwng ellwng oed fraint.

Lluest Cadwallawn ar *Yddon*,  
Afar anwar ei alon,  
Llew llwyddaw ar Saeson.

Lluest Cadwallawn ar *Hafren*,  
Ac o'r tu draw i *Dygen*,  
A breiaid yn llosgi *Meigen*.

Lluest Cadwallawn ar *Wy*,  
Maranedd wedi mordwy,  
A ddylynad cad cylchwy.

Lluest Cadwallawn ar *Ffynawn Fedwyr*,  
Rhag milwyr magai dawn,  
Dangosai Gynon yno haeru iawn.

Lluest Cadwallawn glodrydd  
Yn ngwarthaf *Digoll Fynydd*,  
Seithmis, a seithgad beunydd.

Lluest Cadwallawn ar *Dyffyrdd Afon*,  
Gwnaeth eryron yn llawn;  
Gwedy trin dywyneu dawn.

Lluest Cadwallawn ar *Deif*,  
Cymmysgai waed a heli;  
Angerdd Gwynedd, gwynygai.

Lluest Cadwallawn ar *Gowin*,  
Llew lluddedig ar awin;  
Gwyr Lloegr, lluosawg eu cwyn.

Lluest Cadwallawn heno  
Trathir yn nhymmyr *Penfro*;  
Am nawdd fawr, anhawdd i ffo.”

Wedi dyfynu y rhanau uchod o farwnad Cadwallawn, y mae CARNHUAN-awc yn sylwi, “fod agos yr holl leoedd a enwir yn y Farwnad yn Nghymru, mor belled ag y maent yn adnabyddus; ac nad oes un crybwylliad am frwydrau Cadwallawn yn Neifyr a Bryneich, nac am y lle y syrthiodd. Ac oddieithr bod *Caint* yn arwyddocau yr afon Kent, yn Ngogledd-dir Lloegr, nid oes dim yn cyfeirio at ei gadrwysg yn erbyn Osric. Ond gan fod y Farwnad hon, megys pob cyfansoddiad o eiddo Llywarch Hen, yn dwyn arnodiadau ei bod yn cyfeirio at wir amgylchiadau, ac nid yn ffugiad prydyddol, y mae yn ddilys fod y mynegiadau, y rhai a gynnwysa yn gysson â gwir hanesyddiaeth. Ac yn ganlynol i'r egwyddor hon, os ceisir

cyfrif am y cyfyngiad hyn o sylwadau y Farwnad, at weithredoedd Cadwallawn yn Nghymru, yr unig ateb a allaf ddychymyg yw, fod sylw y bardd wedi ei droi mewn modd neillduol at y rhyfeloedd a gynnalwyd gan y blaenor hwn yn ei wlad ei hunan. Ac y mae yn ddilys genyf bod Edwin, ar ol gyru Cadwallawn ar ffo, wedi cymmyrd meddiant o amrywiol leoedd o fewn i gyffiniau Cymru; a bod Cadwallawn, ar ol ei ddychweliad, yn gorfod ymladd ei ffordd bob yn droedfedd, i feddiant o'i deyrnas drachefn, ac ymlid y byddinoedd Seis'nig allan o'r lleoedd y rhai yr oeddynt wedi gafaelyd arnynt, neu i'r rhai y ciliant rhag ei ddialedd." Tua'r flwyddyn 654 y bernir farw Cadwallawn, a'i fab Cadwaladr a'i dilynodd yn y llywodraeth. Efe oedd yr olaf o'r tywysogion Cymreig a elwid yn benteyrniaid, neu freninoedd Cymru oll. Yn un o'r Trioedd, efe a elwir yn "un o'r tri Aur-hualogion," neu un o'r tri thywysogion a wisgent yr hualau aur, y rhai oeddynt nodau o'r awdurdod benaf; ac a wisgid am y gwddf, y breichiau, a'r gliniau. Mewn Triad arall efe a gyfenwid yn "un o'r tri menwedigion teyrnedd," neu y tri penadur bendigaid, o herwydd y nawdd a roddai i'r ffoaduriaid Cristionogol, pan y'u halltudid o'u hetfeddiaethau, ac y'u hysbeilid o'u meddiannau, gan y Saeson pagan-aid.

Gan iddo gael y deyrnas mewn cyflwr mor flodeuog mewn canlyniad i wrhydri ei dad, y mae yn ymddangos iddo fwynhau tangnefedd dros y rhan flaenaf o'i deyrnasiad. Ond y mae yn ymddangos i haint dynistriol dori allan yn yr Ynys tua'r flwyddyn 664, trwy yr hwn yr anrheithiwyd y wlad, sef holl Ynys Brydain a'r Iwerddon; ac yn mysg ereill a laddwyd ganddo, yr oedd Cadwaladr yn un, medd Nennius. Ond y mae tystiolaeth y Brutiau Cymreig yn dra gwahanol; yno fe'n hysbysir fod yr haint wedi parhau i anrheithio y wlad, a newyn tost yn ei ddilyn, tros un mlynedd ar ddeg, fel y ciliai pawb a allent o'r ynys, gan ymofyn am nodded yn rhai o wledydd y Cyfandir. Yn mysg ereill, dywedir i Gadwaladr gilio at Alan, frenin Llydaw; lle y cafodd loches groesawus dros yspaid adfyd ei wlad: a darfu i'r Saeson, ar ymadawiad yr haint, anfon at eu ceraint i'r Almaen, i'w gwahodd i ddyfod drosodd, a meddiannu yr ynys yn ei gwendid presenol, tra yn deneu ei thrigolion, ac heb frenin arni. Cadwaladr, wedi deall bod y Saeson yn dyfod drosodd fel mintai o fwystfilod rheibus i oresgyn ei wlad, a barotodd fyddin o'i ddeiliaid ei hun a giliasent i'r Cyfandir, ac o gynnorthwywyr Llydawaid, gyda'r bwriad o hwylio drosodd i waredu ei wlad o grafangau ei gelynyddion: ond tra yr oedd y llynges yn cael ei pharatoi, efe a ddychymygodd neu a freuddwydiodd ei fod yn cael ei rybuddio gan angel o'r nef i roddi gofalon a rhwysg bydol o'r neilldu, ac encilio i Rufain, fel y derbynai urddau sanctaidd gan y Pab. Efe a fynegodd y dychymyg neu y breuddwyd hwn i Alan, brenin Llydaw, yr hwn yn y fan a gymmerth fantasia ar feddwl coelgrefyddol Cadwaladr, a hygoledd ei bendefigion, gan ei anog i ufuddhau i'r cymhelliad nefol. Felly Cadwaladr a aeth i Rufain, lle y'i derbynid yn roesawus gan y Pab Sergius; ac wedi eillio ei ben, a'i dderbyn i urdd y myneich gwynion, efe a fu byw yn Rhufain wyth mlynedd o fywyd meudwyaidd; tra yr oedd Alan, brenin Llydaw, yn chwerrthin yn ei ddyrnau, ac yn gobeithio y llwyddai i enill penaduriaeth yr ynys i'w fab Ifor, gan fod Idwal Iwrch, mab ac etifedd Cadwaladr, dan oed. Dyna y peth tebycaf i wirionedd, o hanes Cadwaladr, a ellais i ei gasglu o ganol y chwedlau mynachaid a bentrywyd ar ei goffadwriaeth.

Yn gyssylltiedig â'r enciliad hwn o eiddo Cadwaladr, y diffoddwyd unbenaeith y genedl Gymreig; a'r rhai a'i dilynodd yn llywodraeth y Cymry, nis gellwid mwyach yn freninoedd, ond tywysogion Cymru; ac

oddeutu yr un amser, cyfyngwyd terfynau Cymru yn agos i'r peth ydynt hyd y dydd hwn, a sefydlwyd cyffiniau gwlad y *Mers* neu *Mercia*.

Yn gyssylltiedig â'r tymhor a fu dan ein sylw, y cyfansoddai y Beirdd amryw bryddestau hanesyddawl, y rhai ydynt ar gael eto, ag ydynt o werth mawr yn eu cyssylltiad â hanesyddiaeth ein cenedl.

O'r rhai hyn y mae dwy yn rhagori — y gyntaf yw y *Gododin*, o gyfansoddiad Aneurin Gwawdrydd, ac y mae yn dda genyf ddeall fod y Pârch. J. Williams, A. C. (*Ab Ithel*), yn bwriadu cyhoeddi y *Gododin*, yn nghyda chyfieithiad o honi, a nodiadau arni; ac nis gwn am neb cymhwysach i'r gwaith na'r gŵr parchedig sydd wedi ymgymmeryd âg ef: a gobeithiaf y caiff ei lafur ei werthfawrogi yn deilwng gan ei gydgenedl. Yr ail ydyw *ARYMES PRYDAIN FAWR*, yr hon fel y tybir a gyfansoddwyd gan Golyddan, bardd Cadwaladr: a chan fod y Bryddest hon, er ei hened a'i gwerthfawroced fel deryn hanesyddol, yn dra dyeithr i'r cyffredin o ddarlennwyr Cymru, hyderaf na fydd ddrwg gan neb i mi ei dodi i fewn yma, yn nghydag aralleiriad, ac ychydig nodiadau wedi eu cymmeryd yn bônaf o'r *Cambrian Register*.

Bernir fod y Bryddest hon wedi ei chyfansoddi tua'r flwyddyn 630, er cyffroi cenedlgarwch y Prydeiniaid gogleddol i ddyfod allan i ymunaw â'r fyddin unedig o amryfal lwythau Celtaidd, oedd yn dyfod rhagddi dan dywysiad Cadwallawn, a'i raglaw Cadwaladr, i wrthladd gormes y Saeon, arhoni eu hannibyniaeth, ac ymysgwyd oddiwirth iau y goresgynwyr. Cyfansoddwyd y Bryddest hon, fel y *Gododin*, yn nhafodiaith y Prydeiniaid gogleddol, ac am hyny y maent yn fwy annealladwy i ni na rhai Pryddestau cyfoesol ereill.

#### ARYMES PRYDAIN FAWR.

Dysgogan awen! dygobryssyn!	
Maranedd a maenedd, a hedd genhyn,	
A phenaeth ehelaeth, a ffraeth unbyn;	
A gwedy dyhedd, anhedd yn mhob mehyn.	
Gwŷr gwychyrr yn trydar casnar dengyn:	5
Escaud yn gnofud ryhyd dyfin:	
Gwaethyl gwŷr hyt Gaer Wair gwascarawdd allmyn.	
Gwnahawnt gorfoledd gwedy gwehyn;	
A chymmmod Cymry â gwŷr Dulyr,	
Gwyddyl Iwerddon, Mon, a Phrydyn,	10
Cernyw, a Chludwys, eu cynnwys genhyn.	
Atporion fydd Brython pan dyorphyn.	
Pell dysgoganer amser dybyddyn	
Teyrnedd, a bonedd eu goresgyn,	
Gwŷr Gogledd ynghyntedd yn eu cylchyn,	15
Ymherfedd eu rhagwedd a ddisgynyn,	
Dysgogan Merddin. Cyferfydd hyn.	
Yn Anber Peryddon, meirion mechdeyrn,	
(A chyn ni bai unrhaith) llaith a gwynyn:	
O un ewyllys bryd, ydd ymwrthfynyn.	20

#### CYNGHRAIR ARFOG MAWR PRYDAIN.

Rhagfynega yr awen ddyneshad prysur  
 Y llu sydd yn meddu cyfoeth a hedd,  
 Arglwyddiaeth helaeth, a ffraeth unbensethiaid;  
 Ond wedi tawelwch, bydd terfysg yn mhob man.

<b>Gwŷr gwychion yn ymryson â chas anwar :</b>	<b>5</b>
<b>Ysgodogiaid yn penderfynu gwneyd cadgyrch,</b>	
<b>Yr afonyddwyr hyd Gaer Wair gwasgarai'r ellmyn ;</b>	
<b>A gwnant orfoledd wedi eu gwehynu allan ;</b>	
<b>A chymmодent y Cymry â gwŷr Dulyn,</b>	
<b>Gwyddyl y Werddon, Mon, a Phrydyn,</b>	<b>10</b>
<b>Cernyw, ac Ystrad Clwyd, i'w derbyniad i'n mysg.</b>	
<b>Yn y diwedd, y Brython fyddant arbenicaf,</b>	
<b>Er ys talm y rhagfynegwyd y deuant</b>	
<b>Yn dywysogion ; a bonedd eu goresgyniad,</b>	
<b>Pan fyddo i wŷr y Gogledd, y rhai a gyfaneddant ar eu ffiniau,</b>	<b>15</b>
<b>Ddisgyn i berfedd eu gwyddfod.</b>	
<b>Darogan Merddin. Fe fydd hyn.</b>	
<b>Yn Aber Peryddon, cenhadon y tywysog,</b>	
<b>Hyd yn nod cyn bod cytundeb, a gyffroisant alanas,</b>	
<b>Trwy un ewyllysfryd y gwrthdynamant.</b>	<b>20</b>
<b>Meirion eu trethau, dychynnullyn,</b>	
<b>Yngnedoedd Cymry nad oedd a delyn :</b>	
<b>Y sydd ŵr dyledawg a lefair hyn—</b>	
<b>“ Ni ddyfai a dalai yngheithiwed.”</b>	
<b>Mab Mair, mawr ei air ! Pryd na thardded</b>	<b>25</b>
<b>Rhag penaeth Saeson, ac eu hoffed !</b>	
<b>Pell bwynt cychmyn i Wrtheyrn Gwynedd !</b>	
<b>Ef gyrhaut Allmyn i alltudedd.</b>	
<b>Nis arhaeddwy neb, nis dioes daear ;</b>	
<b>Ni wyddynt py dreiglynt ymhob aber.</b>	<b>30</b>
<b>Pan brynasant Danet, trwy filed calledd,</b>	
<b>Gan Hors a Hengys oedd yn eu rhyasedd ;</b>	
<b>Eu cynnydd bu y wrthym yn anfonhedd ;</b>	
<b>Gwedi rhin dilein, ceith ym ynfer.</b>	
<b>Dychymmydd meddawd mawr wirawd o fêdd !</b>	<b>35</b>
<b>Dychymmyd angeu angen llawer !</b>	
<b>Dychymmydd anaelau, dagrau gwragedd,</b>	
<b>Dychyffroy edgyllaeth penaeth lledfer !</b>	
<b>Dychymmydd tristyd byd a ryher,</b>	
<b>Pan fydd cechmyn Danet an teyrnedd !</b>	<b>40</b>
<b>Gan ofyn a chynnull teyrnged,</b>	
<b>Ond y Cymry a benderfynent na thelynt.</b>	
<b>Gŵr awdurdodawl a lafarai fel hyn—</b>	
<b>“ Ni ddaw a dalo i gaethiwed.”</b>	
<b>Mab Mair, mawr ei air ! Gwae'r pryd na ddaethom</b>	<b>25</b>
<b>I wrthladd arglwyddiaeth y Saeson, ond y'u hoffed.</b>	
<b>Yn mhell y bo cochwyr Gwrtheyrn Gwynedd !</b>	
<b>Gallasai ef alltudio yr Ellmyn oddiyma,</b>	
<b>Ni chyrrhaedd neb ddim nas dioesa daear ef,</b>	
<b>Nis gwyddent beth oedd yn cymmeryd lle yn mhob aber.</b>	<b>30</b>
<b>Pan brynawdd yr Ellmyn Danet trwy arfer dichell,</b>	
<b>Yn yr hyn y rhagorai Hors a Hengist,</b>	
<b>Eu cynnydd hwy a fu yn warthruddiad i ni :</b>	
<b>Gwedi cydlunio ein dilead, dychwelai y saethion.</b>	
<b>Adgofiwch y meddwod yn y fêdd loddest fawr !*</b>	<b>35</b>
<b>Adgofiwch gyflafan llawer o'r gwesteion !</b>	
<b>Adgofiwch y creulonderau, a dagrau gwragedd.</b>	
<b>Pan gyffrowyd galar penadur egwan ! †</b>	
<b>Dwyu tristyd byd fydd orllin,</b>	
<b>Pan gaffo llechwy'r Danet y deyrnedd arnom !</b>	<b>40</b>

\* C. 'eima' at frad y cyllill hirion. † Gwrtheyrn e'ala'i a elwir "penaeth lledfer."

- Gwrthodet Trindawd dymawd a bwyll—  
 I ddileu gwlad Frython, a Saeson yn anedd!  
 Poet cynt eu rheges yn alltudedd,  
 Na myned Cymry yn ddiifröedd.  
 Mab Mair, mawr ei air! Pryd nas terddyn 45  
 Cymry, rhag göeir breyr ag unbyn!  
 Cyneirheid, cyneilweid, unrhaith cwynyn!  
 Un gör, un gynghor, un eisior ynt.  
 Nid oedd er mawredd nas lleferynt;  
 Namyn er hepcor göeir nas cymmodynt. 50  
 I Dduw ac i Ddewi ydd ymorchymynynt;  
 Taled gwrthodet ffled i Allmyn!  
 Gwnawnt hwy aneireu eisiau trefyddyn;  
 Cymry a Saeson cyferfyddyn,  
 I amlan ymdreuliaw ag ymwrthryn. 55  
 O ddirfawr fyddinawr pan ymbrofynt,  
 Ag amallt lafnawr a gawr a gryn,  
 Ag am Gwy gair cyfergeir, y am Peurllyn,  
 A lluman a ddaw, a garw ddisgyn;  
 A mal balaon Saeson syrthynt. 60
- Gwrthdröed y Drindawd y dynawd crybwylledig—  
 I ddileu o'n gwlad Frython, a'i haneddu gan Saeson!  
 Boed cynt eu tynged hwy yn alltud,  
 Na myned o'r Cymry yn ddiyfroydd.  
 Mab Mair, mawr ei air! Gwae y pryd nas gwrthsafodd 45  
 Y Cymry gynghorion gwaelion breyrion a thywysogion!  
 Cydwysier, cynnuller, cyfodant yn unfryd.  
 Un gör, un gynghor, ag un achos cyffredin iddynt ynt.  
 Nid mawredd a'u hataliai i lafaru;  
 Ond er atal eu cydsyniad â ffol gynghor nas cymmeradwyynt. 50  
 Gorchymynant eu hunain i Dduw a Dewi;  
 Taled, ond gwrthodet gorlan i Allmyn.  
 Dyrused ein gelynion o eisiau llywydd.  
 Ond cyfarfydded y Cymry a'r Saeson yn y maes,  
 I derfynu eu holl ymrysonau egniol. 55  
 Pan brofo y gelyn ein byddin alluog,  
 Pan grynai y gelltydd gan floedd y rhyfelwyr,  
 Pan gydiar y cyfergyr am Gwy, a Gwlad y llynnau,  
 Y lluman a ddaw, a garw ruthriad;  
 Ac mal blodeu coed y syrth y Saeson. 60
- Cymry cynnyrheid cyfun Ddullyn,  
 Blaen wrth fon granwynion, cyfyng oeddyn,  
 Meirion, yngwerth eu gau, yn eu creinhyn.  
 Eu byddyn yngwaedlin, yn eu cylchyn;  
 Ereill ar eu traed trwy goed Cilhyn, 65  
 Trwy fwch y ddinas foras ffoyn:  
 Rhyfel heb ddychwel i dir Prydyn,  
 Attor, drwy law gynghor, mal morlithryn.  
 Meirion Caer Geri ddiifr cwynant,  
 Rhai i ddyffryn a bryn nis dirwadant; 70  
 I aber Peryddon ni mad ddoethant;  
 Anaelau drethau dychynnullant:  
 Naw ugain kannwr a ddisgynant;  
 Mawr watwar, namyn pedwar nid atcorant.  
 Dyhedd i eu gwragedd a ddywedant; 75  
 Eu cryseu yn llawn creu a aroclant.  
 Cymry cynnyrchaid, enaid dichwant,—  
 Gwyr dehau eu trethau a amygant.

Llym llifeid llafnawr, llwyr y lladdant :  
Ni bydd i feddyg mwyn o'r a wnaânt. 80

Y Cymry a ymnerthent trwy gyfun fyddiniad.\*  
Blaenfyddin yr estroniaid a fwrdd ar draws y fonfyddin,  
Nes y gwelwent mewn cyfyngder, ac y'u tybaeddid yn eu gwaed,  
Yn wobr eu twyll; a'u byddin a orweddai o'u cylch mewn llyn o waed.  
A'r gweddill ar draed trwy goed Cilhyn, 65

A thrwy adwy yn amgaer y ddinas a ffoynt.  
Ni ddychwel y rhyfel hwn mwyach i dir Prydyn,  
Treigla ymaith wrth amnaid fel tòn y môr.  
Meibion Caer Geri a gwynant yn alaethus,  
Rhag y rhai ni wadant eu hawl i'w dyffrnoedd a'u brynian. 70

Nid da fu eu dyfodiad i Aber Peryddon;  
A blinion oedd y trethi a gynnulent.  
Naw ugain kannwr a gadgyrchent.  
Er mawr warthrudd, ni chaid ond pedwar a ddychwelodd.  
Dywedent f'w gwragedd fod heddwch, 75

Ond hwy a aroglent eu crysau yn llawn gwaed.  
Cynnuller y Cymry, yn ddibris o'u heinioes,—  
Gwŷr y Dehau a'u diffynant eu hunain rhag trethau.  
Lliferydd y cleddyfau yn llymion; llwyr ddystrywiant.  
Ni bydd elw i feddyg ar a wnant hwy.† 80

Byddinoedd Cadwaladry cadyr i deuant,  
Rhyddyrchafwynt Cymry, cad a wnant—  
Llaith, anolaith, ryddysgyrchasant.

Yn gorphen eu trethau, angeu a wadant.‡  
Ereill ar osgail ryphlanasant. 85

Oes oesau eu trethau nid esgorant.  
Ynghoed, ym maes, ym mryn,  
Canwyll yn nhywyll a gerdd genhyn—  
Cynan yn rhagwan ymhob disgyn.

Saeson rhag Brython gwae a genhyn. 90  
Cadwaladry yn baladry gan ei unbryn,  
Trwy synwyr yn llwyr yn eu dychlyn,  
Pan syrthwynt eu clas dros eu herchwyn,  
Yghystudd a chreu rhudd ar rudd Allmyn.

Yn gorphen pob angrheith, anrheith dengyn, 95  
Seis ar hynt, hyd Gaer Wynt, cynt pwy cynt techyn.

Byddinoedd Cadwaladr a yngadresant,  
Ymddyrchafed y Cymry, a lladdfa a wnant—  
Cyflafan dra dinystriol a dra chwennychasant;  
Yn niwedd eu traha, angeu a brofasant.

Mewn ereill, mynych blanasant eu picellau.§ 85  
Ond yn oes oesoedd ni thelir iddynt eu teyrniged.

Yn y goedwig, yn y maes, yn y mynydd,  
Canwyll a'u dilyn yn y tywyllwch,  
Cynan yn flaenrhed yn mhob rhuthr.

Y Saeson, rhag y Brython, a ganant eu gwaegan; 90  
Cadwaladr fydd golofn yn mys ei dywysogion;  
Trwy synwyr y'u llwyr wasgara,

Pan ddisgynont dros finiau eu cyssegrfa,  
Yn gystuddiol, a'r cochwaed ar eu gruddian.

Ac fel hyn y rhydd efe derfyn i'w trais a'u hanrhaith annynol; 95  
A'r Saeson, yn eu hynt tua Chaer Wynt, a ffoant am y cyntaf.

\* Neu—"Y Cymry a gyfuertid trwy gyfunwyr o Ddilyn."

† Am na adawent rai wedi eu harcholli yn ysgafn iddynt i'w meddyginiaethr.

‡ Wadant, Dr. W. O. Pughe. § Neu—Trophlanasant estroniaid yn y tir.

Gwyn eu byd hwy Gymry pan adroddyt  
 Rymgwarawd y Drindawd o'r trallawt gynt.  
 Na chryned Dyfed na Glywysyg,  
 Nis gwnahol molawd meirion mechdeyrn; 100  
 Na chynghorion Saeson cefyn ebryn.  
 "Gwnaw, meddnt, meddawt genhyn,  
 Heb dalu o dynged." Maint a geffyn  
 O ymddifeid feibion, ac ereill ryn.  
 Trwy eiriawl Dewi a saint Prydyn, 105  
 Hyd firwd Argelo ffohawr allan.  
 Dysgogan awen. Dyddaw y dydd  
 Pan ddyffo i wŷr, i un gyssul,  
 Un gôr, un gynghor—a Lloegr llosgyd;  
 Yr gobaith Arreiraw ar yn phrydaw llüydd; 110  
 A cherdd arallfro, a flo beunydd;  
 Mi wŷr cwdd yn dda, cwdda cwdd fydd.  
 Dychyrwynt gyfarth, mal arth o fynydd,  
 I dalu gwynieth, gwaed eu henydd.  
 Atoi peleidral dyfal dyllydd, 115  
 Nid arbetwy car corph eu gilydd.

Gwyn eu byd y Cymry pan adroddant  
 Fel y gwaredodd y Drindawd hwynt o'u tralod gynt.  
 Na frawyched Dyfed na Glywysyg,  
 Ni bydd i genhadon y brenin enill dim mawl; 100  
 A blaenoriaid y Saeson ni chant ebran.  
 "Nid ennillwn feddiant yn eu mysg;" meddynt,  
 "Heb dalu teyrnged tynged." Lluaws a gaffont  
 O feibion amddifaid—o ereill ychydig iawn!  
 Trwy gyfryngaeth Dewi a saint Prydyn, 105  
 Hwy a ffoant o'r tir can belled a firwd Argelo.  
 Dywaid y gân brophwydoliaethol, y daw y dydd  
 Pan ymgynnulla gwŷr unol mewn cynghor,  
 Ag un galon, un amcan—a Lloegr a anrheithir â than;  
 Arreiraw a ymddibyna ar ein lloedd llifeiriawi; 110  
 Yr estroniaid a symudant—hwy a yrir i ffoi;  
 A da y gwn bod llwydd yn ein haros, pa beth bynag a ddygwydda.  
 Rhuthred y Cymry i'r gâd, fel arth o fynydd,  
 I ddial llofruddiad bradwrus eu henaflaid;  
 Ac wrth grynhoi y picellau dyfal dreiddiol, 115  
 Nac arbeded ceŷaint gyrph eu gilydd.

Atoi pen gafflaw heb emenydd:  
 Atoi gwragedd gweddw, a meirch gweilydd;  
 Atoi'r brein uthr rhag uthr cedwyr,  
 A lluaus llaw amhar cyn gwascar llüydd. 120  
 Cenhadau angeu dychyferfydd,  
 Pan safwynt galanedd wrth eu henydd.  
 Ef dialawr ar werth ei dreth beunydd,  
 A'r mynych genadau, a'r gau lüydd.  
 Dygorfu Cymry trwy gyfergyr, 125  
 Yn gywair, gydair, gydson, gydfydd:  
 Dygorfi Cymry i beri cad,  
 A llwyth lluaus gwlad a gynnullant,  
 A lluman glân Dewi a ddyrchafant,  
 I dywys Gwyddyl drwy Lieingant: 130  
 A gynheu Dulyn genhyn a safant,  
 Pan ddyffont i'r gad nid ymwadant.

Lluosogant benau diymenydd Allmyn, Lluosogant eu gweddwon a'u meirch difarchogion, Lluosogant y brain gwancus o flaen y cadwyr glewion, A bydded llawer llaw anafus cyn gwasgar ein lluoedd.	120
Cenhadon angeu a gyfarfyddant y gelyu; Pan bentryer celaneddau ei wŷr o'i amgylch, Fe'n dielir arno am ei dreth ormesol, Ei fynych genhadon a'i fyddin fradwrus.	
Y Cymry a orfuant yn y gadrwysg Yn gywir i'w hachos, unair, uniath, unffydd.	125
Y Cymry a orfyddant eto, gan ofyn cad, A'u llwythau, luaws y tir a gynnullant, A lluman glân Dewi a ddyrchafant, I dywys y Gwyddyl drwy y Mor-gylch:	130
A phenaethiad Dulyn a safant gyda ni, Pan ddelont i'r frwydr, ni wadant yr achos.	

Rhag y grwgnacha ein darllenwyr am gymmeryd o honom ormod o'n gofod i fynu â'r Bryddest hon, er ei hened a'i rhagored, ymataliwn ar hyn: ond nis gallaf lai na datgan fy ngobaith y bydd i'r Parch. J. Williams (*Ab Ithel*), yr hwn sydd yn parotol y "Gododin" i'r Wasg yn bresenol, gael y fath gefnogiad, fel ag y'i cymheller i gyhoeddi amryw o'r hen Bryddestaf, yn nghydag aralleiriad, er eu gwneyd yn ddealladwy i gyffredin yr oes hon, a nodiadau hanesyddol yn eu canlyn.

## DARLITH VI.

### LLYGRIAD YR EGLWYS GYMREIG GAN BABYDDIAETH.

Yn y bedwaredd Ddarlith rhoddais ychydig o hanes dygiad Cristionogaeth i Frydain, a'i ffyniant yn y canrifoedd cyntaf yn mysg ein tadau; ac yn awr yr ydwyf yn cynnyg ymgymmeryd â'r gorchwyl o olrhain llygriad Cristionogaeth yn mysg ein cenedl gan Babyddiaeth.

Mae gen ym y seiliau cryfaf i greu fod sylmrydd mawr yn gydfynedol â sefydliad cyntaf Cristionogaeth yn mysg y Cymry; canys er bod y grefydd newydd wedi ei derbyn gan rai o'r penaethiaid ar y dechreu, nid oes genym un lle i feddwl bod y rhai hynny wedi cynnyg defnyddio eu hawdurdod dywysogaidd i orfodi eu deiliaid i gydffurfio â hwy; ond yn unig noddol y rhai a'i pregethent, ac ymdrechu i ddiogelu i'r rhai a'i profffesent, eu rhyddid, a'u hiawnderau gwladol.

Y cenhadon a ddaethant drosodd gyda *Bran* i gyhoeddi yr *Efengyl* yn Mrydain, oeddynt *Iud*, *Cyndaf*, ac *Arwystli Hen*, tri o wŷr enwog am eu duwioldeb, a'u sel dros ledaeniad y gwirionedd. Y ddau gyntaf, meddir, oeddynt Iuddewon crediniol; a'r olaf oead Rufeiniad, yr un, fel y tybir, ag *Aristobulus*.



Mewn hen gyfysgrif o "ACHAU SAINT YNYS PRYDAIN," a gyfodai *Iolo Morganwg* o lyfr Thomas Hopcin o Langrallo, a hwnw yn un o lyfrau Thomas ab Ifan o Dre' Bryn, yn yr un plwyf, a ysgrifenydd gantho yn nghylch y flwyddyn 1670, cawn y crybwyllion canlynol am y ddau gyntaf—"Cyndaf Sant, gŵr o'r Israel, a ddaeth i Ynys Prydain gyda Bran Fendigaid ap Llyr Llediaith."

"Ilid Sant, gŵr o'r Israel, a ddaeth i Ynys Prydain gyda Bran Fendigaid, a'i eglwys ef, Llanilid, yn Ngwent."

Gan mai yn Neheubarth Cymru yr oedd cartref *Bran*, yr hen dywysog a'u dyg drosodd i'w ganlyn, y mae yn dra thebyg mai yn y rhan hono o'r ynys y pregethwyd yr efengyl gyntaf; ac nid yw y dyb yn anhygoel mai Llanilid, rhwng Llantrisant a Phenybont, yn swydd Forganwg, oedd y lle yr adeiladid rhyw fath o dŷ gyntaf at wasanaeth y grefydd Gristionogol o fewn yr ynys: a'r hyn a rydd radd o gadarnhad i'r golygiad yna yw, fod yn agos i'r lle hwnw dyddyn a elwir *Trefran*, lle y'n hysbysir gan draddodiad, fod Bran ei hun yn cartrefu. Meddylia rhai hefyd fod *Llantrisant* wedi ei chyssegru i goffadwriaeth y tri wŷr uchod; a hyn, efallai, am mai yn agos i'r llanerch hono y dechreuent ar eu llafur cenhadol.

Dywaidd rhai hen ysgrifenyddwr am Ilid, mai efe oedd yr *esgob* cyntaf ar yr eglwys yn Mrydain; a'r Groegiaid a ddywedant am *Aristobulus*, ei fod yn frawd i *Barnabas*, ac yn un o'r deg dysgybl a thriugain—iddo gael ei urddo yn esgob gan *Barnabas*, neu *Paul*, yr hwn a ganlynododd efe yn ei deithiau—iddo gael ei anfon i Frydain, lle y llafuriodd efe yn helaeth, gan fod yn offeryn bendithiol i droi llawer i'r ffydd.

Oddiwrth yr amryfal grybwyllion uchod, gellid casglu mai yn agos i drigias y tywysog duwiol *Bran* y sefydlid yr eglwys, neu y ffurfiad y gyn-nulleidfa Gristionogol gyntaf yn Mrydain—bod *Ilid* wedi ymgartrefu yno, a chymmeryd arno fugeiliaeth yr eglwys hono yn arbenig, ac mai ar y cyfrif hwnw y dywedid, "mai efe oedd yr esgob cyntaf ar yr eglwys yn Mrydain;" neu, yn hytrach, *mai efe oedd esgob yr eglwys gyntaf yn Mrydain*; ac y gelwid yr addoldy a gyfodid at wasanaeth Cristionogaeth yn agos i lys yr hen *Fran*, *Llanilid*, o barch i goffadwriaeth y cyn-athraw hwn: ond ymddengys bod *Arwystli* a *Chyndaf* yn esgobion mor wirioneddol ag yntau; ond eu bod, efallai, yn fwy teithiol yn eu llafur, fel cenhadon. Mae tuedd yn ein haneswyr eglwysig i gymmeryd y gair *Esgob*, wrth ysgrifenu am y prif Gristionogion yn aml, yn yr ystyr a roddir iddo fynychaf yn yr oesoedd diweddaraf hyn, ac felly y maent yn myned ar gyfeiliorn eu hunain, ac yn arwain eu darllenwyr ar gyfeiliorn yr un ffunud. Arwyddocad priodol y gair *esgob* yw *arolygwr* neu *fugail*; ac ar y dechreu, cyn llygru Cristionogaeth gan rodres ddynol, a defodau cnawdol, arferid y gair i ddynodi arolygwr neu fugail eglwys yn unig, ac nid arolygwr gweinidogion talaeth; ac y mae pob gweinidog sydd yn arolygwr neu fugail ar eglwys, pa un bynag ai bechan neu luosawg fyddo, o ran nifer ei haelodau, yn meddu crystal hawl o'r enw *esgob*, a gwell na neb o'r rhai a gyfenwir yn Arglwyddi ysbrydol, y rhai ni chyflawnant unrhyw swydd ddarluniedig yn neddflyfr yr eglwys Gristionogol. Fel na feddylio neb mai rhyw haeriad disail yw yr un uchod, crybwyllir y rhesymau canlynol er profi ei wirionedd:—

1. Y nifer fawr o esgobion y dywedir eu bod yn gynnulledig mewn rhai o'r cynghorau boreuol—*chwech* neu *saith gant* o honynt wedi eu cynnull o gylch heb fod yn llawer mwy nag ychydig o'n siroedd mwyaf ni yn nghyd; a phan ystyriom gyfynged oedd ffyniant Cristionogaeth ar y pryd, y mae dychmygu bod y rhai hyn—oll yn esgobion taleithiol, tra nad oes namya chwarter cant yn Mrydain Fawr oll yn brësennol, yn hollol afresymol.

2. Y nifer fach o eneidiau a ystyrir dan ofal esgob. Yr oeddynt yn byw yn aml mewn pentrefi bychain, agos i'w gilydd, fel na allasant feddu mwy nag ychydig gannoedd o eneidiau dan eu gofal. Sonir am un *Gregory Thaumaturgus*, yr hwn nid oedd ganddo fwy na 17 o Gristionogion profsedig dan ei ofal: ac er hyny, gelwid ef yn esgob!

3. Byddai y gynulleidfa yn cydgyfarfod ar etholiad esgob, ac ordeinid ef yn eu gwydd, yr hyn sydd ffaith hollol annghysson âg esgobyddiaeth taleithiol.

4. Darlunir yr holl henuriaid perthynol i esgob, yn perthyn i'r un gynulleidfa ag ef, ac yn cydeistedd âg ef, pan ddelai y gynulleidfa yn nghyd i'r addoliad cyhoeddus: yr hon sydd ffaith arall mor ænnghysson â'r cyfryw esgobyddiaeth.

5. Mae yr ysgrifenyddyr boreuol yn darlunio yr esgob megys yn cydfafaneddu â'i henuriaid. A yw hyn yn gysson â'r golygiad diweddar a roddir i'r gair esgob?

6. Y mae natur y gwasanaeth y'i darlunid yn ei gyflawni, yn ein harwain i wneyd yr unrhyw gasgliad. Yn lle bod fel yr esgobion diweddar, yn brysyr yn unig yn nghylch llywodraeth eglwysig, arholiad, ac ordeiniad gwyr ieuainc i'r weinidogaeth, &c., efe a ddarlunir yn pregethu yn rheolaidd, yn gweinyddu y sacramentau, yn ymweled â'r cleifion, yn gweinyddu yr ordinhad o briodas: ac, mewn gair, yn cyflawni holl swyddau arferol gweinidog cynulleidfaol neu blwyfol.

Oddiwirth y ffeithiau eglur uchod, a all un dyn diduedd wneyd unrhyw gasgliad amgenach nag mai gweinidog cynulleidfa, neu fugail eglwys yn unig, a olygid wrth esgob ar y dechreu?

Yn mhenderfyniadau *Cymmanfa Arles* hefyd, yr hon a gynnellid yn nechreu y bedwaredd ganrif, pan oedd yr eglwys wedi dechreu llygru yn hyn, sonid am *esgobion teithiol*, y rhai oeddynt i gael caniattad i gyflawni eu swydd yn y dinasoedd lle y delent; a phenderfynid "nad oedd i un esgob sathru ar esgob arall." Yn wir, gellir profi o ysgrifeniadau y Tadau, a'r prif Ddiwygyr Protestanaidd, mai trwy lygriad graddol yr Eglwys gyda chyfodiad Anghrist, y daeth esgobion i'r uchafiaeth rwysegfawr a arhonant yn bresenol: ac mai parhad o'r cyfryw lwgr er y Diwygiad, yn Eglwys Loegr, ydyw ei ffurf esgobyddol, cystal ag amryw bethau gofidus ereill a berthynant iddi.\*

Ar y cyntaf, fe debygid mai arfer y Cristionogion yn Mrydain, fel yn Jerusalem a Rhufain, oedd cyfarfod i addoli Duw mewn tai anedd: a chan fod y grefydd Cristionogol yma, fel mewn llawer o wledydd ereill, yn gweithio ei ffordd drwy anfanteision mawrion, tra yr oedd y brodorion mewn rhyfeloedd parhaus â'r Rhufeiniaid, a than arglwyddiaeth gref eu hen syhiadau a'u defodau coelgrefyddol, mae yn amlwg mai yn dra araf y gweithiai ei ffordd yma ar y cyntaf, ac o ganlyniad, gellid meddwl nad oedd cynulleidfaoedd y Cristionogion yn lluosawg, fel ag y galleid eu cynnwys mewn lleoedd bychain.

Ychydig iawn a feddwn ni o hanes Cristionogaeth dros y can' mlynedd cyntaf wedi ei dygiad i'r ynys hon: ond gallwn gasglu ei bod mewn cyflwr isel a nychlyd tua'r flwyddyn 156,† pan ddarfu i Lleurwg ab Coel, ab Cyllin, ab Caradog, ab Bran Fendigaid (y'r hwn hefyd a gyfenwir Lleur Mawr, a Lles ab Coel, gan y Prydeiniaid, a *Lucius* gan y

\* Gwel Dr. Miller's *Letters on the Christian Ministry*, pp. 130--134.

† Barna eraill mai tua y flwyddyn 167 neu 170 y bu hyn. Gwel *Usher, Stillingfleet*.

Lladinwyr) anfon at esgob Rhufain, i ddeisyf am gynnorthwy oddiyno, i adferu Cristionogaeth yn mysg ei ddeiliaid.

Mae yr haneswyr Pabaidd, oddiwrth y ffaith yna, wedi ceisio profi bod yr eglwys Gristionogol yn Mrydain, yn ymddibynol ar, a darostyngedig i eglwys Rhufain o'r dechreuad; ac er ceisio ategu y cyfryw haerid, casglasant gruglwyth o ddychymygion mewn cyssylltiad â hyn, fel y mae yn anhawdd deholl y gwirionedd allan o'r fath gymmysgfa.—Dyma enghraifft allan o Frut *Gruffudd ab Arthur*:—"Ac wedi hyny, mab a aned iddaw, ac y sef oedd enw hwnw, LLES FAB COEL; ac wedi marw y tad, a chymmeryd o honaw yntau goron y deyrnas, holl weithredoedd da ei dad a efelychws ef eu gwneuthur, megys y dywedid mai ef oedd COEL: ac oddiyna ef a fynnes geisiaw gwneyd y diwedd yn well no'i dechreu; ac wrth hyny, cenhadau a ollyngws ynteu hyd yn Rhufain at Eleuter Pap, i erchi iddaw anfon attaw, gwyr fyddlawn, dysgedig yn Nghristionogawl fydd, trwy bregeth a dysg y rhai y gallai yntau gredau yn Nghrist, canys y gwyrtheu a'r anrhyfeddodau a gylweï ef trwy pregethwyr Crist ar led y bydoedd rydaroedd iddynt eglurhau a golchau i galon ynteu wrth gredau i Grist iachwydawl. Ac wrth hyny o'i war ddeisyfedigaeth ef, ufuddhau a orug y Pab hwnw, ac anfon a orug ddau ddysgawdwr credyfus, ac ysef oeddynt y rhai hyny Dwyfan a Phagan; a'r rhai hyny a bregethasant iddaw ef ddyfodedigaeth Crist yn y cnawd; ac a'i golchasant ef o'r lân ffynawn fedydd, ac a'i hymchwelasant ef at Grist. Ac yna, heb un gobyr o bob gwlad, y bobloedd, o angrheiffit eu brenin, a ymgynullent, ac o'r unrhyw ffynawn fedydd hono, ymlanhau ac ymygysylltu â theyrnas nef.

Ac wedi darfod i'r gwynfydedig ddysgodrion hyny, olchi a dileu anghred drwy lloll Ynys Prydain, hayach y temlau, y rhai oeddynt aberthedig yn aurhydedd y gau dduwian, y rhai hyny a roddes yntau ac a gyssegrws i'r Hollgyfoethawg Dduw, ac i'w saint ynteu; ac yn y temlau hyny, amrafaelion genfeinoedd urddasedig, i dalu cynefodig wasanaeth dyledus i Dduw a osodasant. Ac yn yr amser hwnw yn Ynys Prydain yr oeddynt wyth esgobty ar hugain, a thri archesgobty; ac i'r tri archesgobty hyny ydd oeddynt yr wyth esgobty ar hugain yn ddarostyngedig weddawl i dalu dyledus ufudd-dawd iddynt. A'r rhai hyny trwy orchymyn ac awdurdod Pab Rhufain, gwedi dileu yr anghred oddiarnynt, a gyssegrasant megys y dywedpwyd uchod, yn anrhydedd Duw a'r saint. Ac yn y tri dinas boneddicaif yn Ynys Prydain ydd oeddynt y tri archesgobty, nid amgen, Llundain, a Chaerefrog, a Chaerllion ar wysg; ac wrth hyny, y tri lle hyny a ranwyd yr wyth esgobty ar hugaint. Ac i archesgobty Caerefrog y dygwyddws Deifyr a Bryneich, a'r gogledd oll, megys y gwahana Hymyr iwrth Loegy; ac i archesgobty Llundain y parthwyd Lloegy i gyd, a'i therfynen, a Chernyw gyda hi: a'r ddwy archesgobawd hyny a wahana Hafren a Chymru, i'r hon y parthwyd archesgobawd Caerllion ar Wysg.

Ac o'r diwedd, wedi darfod i'r gwyr da hyny luniaethu ac urddaw, a gosod pob peth yn weddus yn herwydd Cristionogawl fydd, y ddau esgob hyny a ymchwelasant drachefn hyd yn Rhufain; a phob peth ar a wnaethant, hwy a'i datgasasant i Bab Rhufain; a chwedi cymryt cadernid a theilyngtawd y gan y Pab i'r pethau hyny oll, hwy a ymchwelasant, a llawer o gymdeithion ereill gyda hwynt hyd yn Ynys Prydain: ac o ddysg y rhai hyny ar fyr yspaid y cadarnhawyd fydd a Christionogaeth yn mhliith y Brutaniaid. Enwau hagen a gweithredoedd y gwyr, pwy bynag a fydo eu gwbybod, ceisied yn y llyfr a ysgrifenas GILDAS

o fuddugoliaeth Emrys Wledig; a'r peth a draethws y gŵr hwnw mor eglur a gloyw a hyny, nid rhaid i minau ei adnewyddu. \* \* \*

Ac oddiyna, yn mhllith y gweithredoedd da hyny, y gogoneddus ac ardderchawg Frenin hwnw, LLES AB COEL, wedi gwleud o honaw ef ddiwyll gwir fydd a Christionogaeth yn echdywynnygu yn ei deyrnas, dirfawr lawenydd a gymmerth ynddud; a'r cyfoeth, a'r breiniau, a'r tiroedd a berthynent i demlau y gau dduwian, y rhai hyny a ymchwelws yntau yn arfer a oedd well, ac a gadarnhaws i'r eglwysu ac i'r saint. A chan ys mwy o anrhydedd ac addurn a ddyleid i'r gwir Dduw, ac i'w saint a'i ebystl, ynteu a achwanegws roddion o dir a daiar, ac eisteddfaen, ac o holl ryddydd eu heddychu ac eu cadarnhau, ac eu harddrychafael trwy bob rhyddydd gan y breninawl anghendawd."

Pwy oedd Awdwr y Brut uchod, ni wyddys; ond ei fod wedi ei gyfieithu gan offeiriad Pabaidd dysgedig, a gyfenwid Sieffry o Fynwy, o'r Gymraeg i'r Lladin, yn y ddeuddegfed ganrif, sydd sicr; ac nid yw yn annhebyg iddo ychwanegu peth at y gwir hanes a gynnwysai, er mwyn ei wneuthur yn fwy darllenadwy yn mysg dysgedigion Pabaidd.

Y mae y chwedl uchod yn peri i LLES AB COEL ymddangos yn bendadur llawer galluocach nag y gallasai fod mewn gwirionedd, pan oedd y Rhufeiniaid yn eu rhwysg mwyaf yn yr ynys hon. Nid amheusaf nad oedd efe yn dywysog ar ryw ran fechan o'r Ynys, megys Gwent a Morganwg, gwlad yr Essyllwyr, dan warrogaeth i'r Rhufeiniaid; ac efallai ei fod, fel *goruwr* y dewrwyth Garadawg, yn cael edrych arno gyda gradd o barch gan bennaethiaid y man lwythi cymmydogawl: ond nid oedd ef, nag un Cymro arall yn yr oes dan sylw, yn meddu y fath awdurdod gyffredinol ar Ynys Brydain, ag y gellid casglu oddiwrth yr hanes uchod, fod *Lles* yn ei feddu.

Paham yr anfonasai i Rufain yn hytrach nag i ryw wlad neu ddinas arall, am addysg fanylach ei hunan yn y grefydd Gristionogol, ac am y cymhorth angenrheidiol i'w lledaenu yn mysg ei gydgenedl, sydd ymholiad teilwng o'n sylw. Mae y Pabyddion yn ceisio cyfodi prawf oddiyma dros uchafiaeth a rhagoriaeth esgob Rhufain; ac amcenid at hyny gan yr hen hanesydd yma, "Sieffry o Fynwy," fel y mae yn yr hanes a ddyfynasom yn son am *Eleuter* fel *Pab*, ag awdurdod gyffredinol ganddo yn yr Eglwys Gristionogol: ond y gwir yw, nad oedd gan esgob Rhufain, o ganol i ddiwedd yr ail ganrif, unrhyw awdurdod ar eglwysi ereill, allan o'r Eidal, fel y gwelir oddiwrth y dystiolaeth ganlynol am ffurf y llywodraeth eglwysig yn yr ail ganrif:—"Dygid y ffurf lywodraeth eglwysig, yr hon y gwelsom ei dechreuad yn y ganrif flaenorol, i radd fwy sylweddol a sefydlog yn hon. Un arolygwr neu *esgob* a arlywiai ar bob cynulleidfa Gristionogol, i'r hon swydd y'i hetholid drwy lais yr holl bobl. Yn y swydd yma yr oedd efe i fod yn wylladwrus a darbodus, gan fod yn effro i angenion yr eglwys, a gofalus am eu gwneyd i fynu. Er ei gynnorthwyo yn ei swydd lafurus hon, efe a ffurfiai gynghor o *henaduriaid*, yr hwn nid oedd i gael ei gyfyngu i unrhyw nifer pendant, ac i bob un o'r rhai hyn y trefnai efe ei orchwyl, ac y pennodai ei orsaf, yn yr hon yr oedd i ddwyn llesion yr eglwys yn mlaen. I'r esgobion a henaduriaid, yr oedd y gweindogion neu *ddiaconiaid* yn ddarostyngedig; a dosbarthid yr olaf yn amryfal ddoseirith, fel yr oedd gwahanol amgylchiadan yr eglwys yn gofyn.

Dros y rhan fwyaf o'r ganrif yma, yr oedd yr eglwysi Cristionogawl yn anymddibynnawl y naill ar y llall, ac nid oeddynt yn gydieidig a'u gilydd drwy gymdeithasiad, cyngreiriad, nac unrhyw rwymanu ond car-

iad. Yr oedd pob cynulleidfa Gristionogawl yn fath o deyrnas fach, llywodraethedig gan ei chyfreithiau ei hunan, y rhai a weithredid, neu o leiaf, a gymmeradwyid gan y gymdeithas. Ond, yn nghwrs amser, holl eglwysi Cristionogawl talaith a ffurfid yn un corph eglwysig mawr, y rhai fel taleithiau cynghreiriedig, a ymgyfarfyddent ar amserau gosodedig i ymgynghori mewn perthynas i lesion cyffredinol y cyfan, &c. &c.\* A chon mai dyma ydoedd ansawdd gyffredinol yr eglwysi Cristionogol yn yr ail ganrif, a yw yn debyg y buasai cenhadon esgob Rhufain yn cynyg esfydlu glwyslywiaeth mor drefnus a rhwysgfawr yn Mrydain, ar ddygiad Cristionogaeth i mewn iddi, hyd yn nod pe caniatuem y meddai Lles ab Coel ddylanwad digonol ar yr holl ynys, i awdurdodi y fath raniad eglwysig arni. Un o freuddwydion mynachauidd Sieffrey yn ddiaw yw y glwyslywiaeth godidog uchod o dri archesgobty ac wyth esgobty ar hugin, wedi eu trefnu yn Mrydain gan genhadon y Pab yn amser Lles ab Coel, ac yn ei freuddwyd cam amserai ei ffeithiau amryw gannoedd o flynedd-odd.

Ond gallasai Lles ab Coel gael ei dueddu i anfon i Rufain yn hytrach nag i un man arall am gymhorth yn wyneb cyflwr isel Cristionogaeth yn Mrydain, gan amryw ystyriaethau.

1. Am fod Rhufain yn eisteddle y llywodraeth wladol yr oedd Lles ei hun dan warogaeth iddi, ac felly yn eisteddle dysg a gwybodaeth yr amherodraeth.

2. Am fod trafndiaeth mynychach, a mwy uniongyrchol, rhwng Ynys Brydain a Rhufain nac ag un ddinas fawr arall allan o'r ynys y pryd hyny, yn gymmaint a bod swyddogion Rhufeinaidd, a rhyw gynnifer o'r milwyr Rhufeinaidd yma yn barhaus; a'r un ffunud, yr oedd amryw o ieuentyd Prydain yn cael eu hanfon i Rufain i dderbyn addysg.

3. Gwyddai Lles ab Coel yn dda, mai o Rufain y dygaisid yr Efengyl gyntaf i Frydain, yn amser ei hynaif, Bran ab Llŷr, a bod amryw o'r Prydeiniaid wedi bod yn amlwg ac yn enwog yn yr eglwys yn Rhufain, o'r pryd hyny hyd ei ddyddiau ef: ac yn enwedig, os gwir yr hyn a haerir yn gryf gan rai haneswyr, mai Cyllin ab Caradawg, taid Lles ab Coel, a fuasai yr esgob cyntaf yn Rhufain, nid rhyfedd fod yn haws gan y brenin Cristionogol hwn anfon i Rufain, nag i un man arall, am gymhorth i efengyleiddio ei wlad.

4. Yn olaf, fe ddywedir yn y Brutiau, am Coel, tad Lles, "ac yn Rhufain y magesid Coel, a moes gwŷr Rhufain a'u defawd a ddysgasai, ac wrth hyny ydd oedd ei fron yn rhwymedig o'u cariad hwynt, ac yn talu teyrnedd iddynt heb ei warafun; canys yr holl fyd a welsai yr amser hwnw yn ddarostyngedig iddynt: ac ar fyrder, ni fu yn Ynys Prydain frenin gwell, a anghydeddai dylyedogion y deyrnas, na Choel, nac a'u cadwai yn heddychach; ac un mab a aned iddaw, sef oedd ei enw LLES.†

Y mae y rhesymau uchod yn ddigonol, debygid, am waith Lles yn anfon am gymhorth i efengyleiddio Prydain o Rufain, heb feddlw am wneyd hyny mewn un modd yn brawf o uchafiaeth eglwys Rhufain yn mysg yr eglwysi Cristionogol, a rhagoriaeth ei hoesgob hi ar esgobion ereill, fel Pab.

Nid yw yn debyg i eglwysi Cymru gael eu llygru i nemawr o raddau gan y cyfeiliornadau oeddynt yn ffynu yn eglwysi y Dwyrain a'r Gorllewin dros y tri chan' mlynedd cyntaf wedi dygiad yr efengyl yma: ond, yn y

\* Mosheim's Eccl. Hist., Cent. II., part 2, sect. 1, 2

† Myv. Arch., vol. ii., p. 196.

bedwaredd ganrif, y mae yn ymddangos i'r eglwysi yn Mrydain gael eu blino i raddau, trwy fod amryw yma wedi coffeidio athrawiaeth Arius. Pa un ai rhyw rai o esgobion Prydain a fuasant drosodd yn Nghymmanfa *Ariminum* (lle, trwy ddylanwad yr amherawdr, y cymmeradwyasid cyffes a duedda'i i ffafrio Ariaeth,) ai ynte rhyw rai ereill, a fuont yn offerynol i'w dwyn yma, sydd ry anhawdd ei benderfynu yn bresenol. Ond bod Ariaeth wedi ffynu yma dros rai blyneddau, a pheri blinder mawr i Gristionogaeth a Christionogion uniawngred, sydd amlwg oddiwrth dystiolaethau *Gildas* a *Beda*. Y cyntaf, yr hwn a ysgrifennai fel y bernir yn y chweched ganrif, sef yn mhen tua dau can' mlynedd wedi y cyfnod dan sylw, a ddywedai—“Mewn llai na deng mlynedd wedi yr erledigaeth uchod (sef yr un dan Dioclesian,) a phan oedd y cyfreithiau gwaedlyd hyn yn dechreu myned yn ddirym mewn canlyniad i drancedigaeth eu hawdwyr, holl ddysgyblion ieuainc Crist wedi y fath noswaith anaifaidd faith, a ddechreuasant weded gwerthfawr oleuni y nef: ail adeiladasant yr addoldai a wnelaid yn gyd-wastad â'r llawr, ac adeiladasant eglwysi newyddion i goffadwriaeth y merthyrion sanctaidd; ac yn mhob lle, dangosasant eu llumanau fel arwyddion o'u buddugoliaeth; cynnalient eu gwyliau, a derbynient y sacramentau, â chalonau a gwefusau dihalog: a holl feibion yr eglwys a orfoleddent, megys yn mynwes mam laethog; canys ffynai yr u dechreusant hwn rhwng Crist, eu pen, âg aelodau ei eglwys, hyd oni ddaeth y brad Ariaidd, yn niweidiol fel sarph, gan fwrw ei wenwyn o'r tu hwnt i'r môr; gan beri ymrysonau marwol rhwng brodyr a gydyfaneddent, ac fel hyn, mal pe y gwnelsid ffordd ar draws y môr, fel gwyllfilod o bob math, ac yn ergydio gwenwyn pob heresi o'u safnau, hwy a barasant archollion ofnadwy i'w gwlad, yr hon sydd yn chwannog yn wastad i glywed rhyw beth newydd, a heb lynu yn ddiau wadal yn hir wrth ddim.”

*Beda* yntau, yr hwn oedd yn ei flodau tua diwedd y seithfed ganrif, a ddywaid—“Yn ei amser ef (sef Cystenyn,) y torai yr heresi Ariaidd allan, ac er ei nodi a'i cholffarnu yn Nghymmanfa Nicea, er hyny hi a lygrodd, nid yn unig holl eglwysi y cyfandir, ond eglwysi yr ynysodd hefyd, â'i hathrawiaethau gwenwynig a marwol.”†

Y cyfeillionad mawr nesaf a fu yn blino eglwysi Cymru oedd *Morgan-iaeth*. Dadleuir yn gryf gan lawer mai Cymro ydoedd Morgan, a ddyg-asiad i fynu yn Athrofa Bangor Is-y-coed; ond y mae yn lled anhebyg fod yr athrofa hono mewn bod mor foreu a'r bedwaredd ganrif. Pa le bynag y'i cyfodwyd, y mae yn ymddangos ei fod yn ŵr o athrylith gref, ac o ymarweddiad moesol diargyhoedd. Efe a adawodd wlad ei enedigaeith, ac a aeth i Rufain, lle derbyniodd addysg helaethach, ac yno efe a gyfarfu â Gwyddel a gyfenwid *Celestius*, yr hwn wedi hyny a fu ei gydweithiwr penaf. Yr oedd hwn wedi bod ddeng mlynedd ar hugain yn y Dwyrain, lle y llyncasai gyfeillionadau *Origen*; ac os oedd *Morgan*, neu fel y'u galwai y Lladinwyr ef *Pelagius*, yn Gymro, ac o ganlyniad yn adnabyddus o hen athrawiaethau y Derwyddon, galledd feddwl ei fod o gymmaint a hyny yn fwy parod i dderbyn syniadau Origen. Prif wrthwynebydd daliadau Morgan ar y cyfandir, a fu Awstin, nid y monach; ond yr hwn wedi hyny a fu yn esgob Hippo yn Affrica. Ysgrifeniadau nerthol y gŵr hwn a fuant yn effeithiol i gyffroi yr eglwys i ystyried ei pherygl oddiwrth athrawiaeth Pelagius a Celestius; a galwyd amryw gynghorau cyffredinol er ceisio rhoddi attalfa ar lednaeniad yr athrawiaeth gyfeillionus hon: ond er colffarnu ei ddaliadau, eto Morgan ei hun, trwy ei atebion cyfrwys, a ddiangai yn ddigerydd dros hir amser.

\* *Gildas's History*, sect. 12.

† *Bede's Ecclesiastical History*, b. i., c. 8.

Nid ymddengys i Forgan ei hun ddychwelyd i Frydain : ond efe a aeth o Rufain i Affrica, ac oddiyno i Jersusalem ; a dywedir ei fod yn gyfaill mawr âg Ioan, esgob Jersusalem. O'r amryfal leoedd hyn, ac hyd yn nod drwy yr amryfal gymmanfaeodd a gynnelid ar ei achos, cafodd gyfleusdra i enill duwinyddion gwledydd lawer i'w farn, ac felly i daenu ei syniadau yn mhell ac yn agos. Yr oedd llawer o Gristionogion goludog o Frydain, a gwledydd gorllewinol eraill, yn arfer cyrchu i Jersusalem y pryd hyny, ar fath o bererindod, er gweled y llanerchau lle y gwnelsid pethau rhyfedd gan Awdwr ein iachawdwriaeth ; a gellid casglu ar seiliau cryfion, mai drwy y rhai hyn y dygid Morganiaeth i Frydain ; ac efallai fod rhai Morganiaid selog o Lydaw wedi bod a llaw ganddynt yn y gwaith hwn hefyd ; canys fel hyn y dywaid Beda ar hyn—" Dygid heresi Morgan drosodd gan Agricola fab Sefer, esgob o Gâl, yr hwn oedd Forganiad, a llygrwyd fydd Cristionogion Prydain â'i dylanwad heintus. Ond er nad oedd y Cymry yn barod i dderbyn yr athrawiaeth wyr hon, oedd yn rhoddi y fath sarhad ar Ddwyfod ras, gan nad oeddynt yn feddiannol ar y pryd ar ddwyfyddion digon galluog i wrthateb dadleuon cyfrwys ei chefnogwyr, hwy a benderfynasant yn ddoeth anfon at eu brodyr uniongred yn Llydaw am gymhorth ; mewn canlyniad i'r hyn y gelwid cymmanfa yn nghyd yno, er ymgynghori pwy a fyddai gymhwysaf i'w hanfon drosodd ar y fath genadwriaeth ; a'r etholiad a ddisgynodd ar Garmon, esgob Auxerre, a Bleiddyn, esgob Troyes." A thrwy gymmaint a feddwn o hanes llafur a llywyddiant y cenhadon uchod, ar eu hymweliad â'r ynys hon, er fod llawer yn ddiau o chwedlau Pabaidd wedi eu llunio yn yr oesoedd tywyll, a'u tadogi arnynt, y mae genym seiliau da i gasglu eu bod yn ddyinion tra chanmoladwy am eu dysg, eu doniau, a'u duwioldeb. Teithiasant trwy Gerny a Chymru, gan bregethu y gwirionedd gyda nerth a goleuni awdurdodol ; nes oedd cefnogwyr Morganiaeth yn gorfod tewi a chywilyddio, a'r holl wlad yn cael ei chyffroi i ystyriaeth o bethau Dwyfod : ac y mae cofion o'u cymmeradwyaeth yn mysg ein tadau i'w cael yn ein gwlad hyd y pryd hwn. Yn mro Morganwg y mae addoldy cysegredig i goffadwriaeth Bleiddyn, sef *Llan Bleiddian*, ac y mae amryw yn gyssegredig i goffadwriaeth Garmon, megys Llanarmon yn Rhaiadr, swydd Faesyfed ; Llanarmon Dyffryn Ceiriog, a Llanarmon yn Iâl, yn swydd Dinbach, yn nghydag amryw leoedd a elwir Capel Garmon.

Y mae hefyd yn gyfagos i'r Wyddgrug le a elwir Maes Garmon, ar un ochr i'r dref ; ac ar yr ochr arall, ar y ffordd i Gaergwrley, y mae Pant Bleiddyn. Mae Beda yn rhoddi hanes am dro rhyfedd a fu yn y lle a elwir Maes Garmon ; sef bod i'r Cymry, dan arweiniad yr esgob duwiol hwnw, gael buddugoliaeth hynod yno ar fyddin o'r Brithwyr a'r Gwyddelod a ddaethent o'r gogledd i anrheithio eu gwlad, yn unig trwy floeddio "HAELLUWIA:" ac y mae yno golofn, a gyfodwyd yn y ganrif ddiweddar, er coffa am y tro, yr hon a welir ar fryncyn, ar y llaw aswy i'r hen ffordd o'r Wyddgrug i Ddinbach, tua haner milldir o'r dref flaenaf.

Bernir fod Lles ab Coel wedi sefydlu athrofeydd mewn rhai manau, er cymhwyso gwŷr ieuaine i fod fel cenhadon dros Grist at eu cydgenedl ; megys yr un yn *Nghaer Worgorn*, yn ei diriogaethau ei huan yn Morganwg ; a'r un yn Mangor Is-y-coed, er meithrin y weinidogaeth Gristionogol yn mysg y Gordofigwys : ac wedi ei amser ef, bu Theodosius yr amherawdr yn noddwr da i'r cyfryw sefydliadau, a chyfranwr haelionus tuag at eu cynnalïaeth. Ond yn y dyddiau blinïon a ddilynai ymadawiad y Rhufeiniad oddiyma, trwy ymosodiadau parhaus y llywthau barbaraid ar ein henafiaid, a'u hymrysonau gwaedlyd yn eu mysg eu hunain, cafodd gwyr grefydd ei nychu, a'r athrofeydd eu hesgeuluso i raddau mawr ; felly

gan hyny, un o orchwyllion naturiol y ddau genhadwr uchod, heblaw gwrthladd cyfeiliornadau, a cheisio adnewyddu crefydd trwy y wlad, oedd adnewyddu yr athrofeidd, er meithriniaid dynion cymhwys i'r weinidogseth. Fel hyn y dywedir am lafur Garmon yn hyn gan un o olygwyr y *Myfyrian Archaialog*, o hen lyfrau yr Achau:—"Yn yr amseroedd hyny, ydd oedd cyfeiliorn mawr ar grefydd yn ein ynys ni, achos hud a thwyllfarn un o'n gwlad ein hunain, a elwid *Pelagius* yn Lladin, ac yn Gymraeg *Morgan*. Bu hyn yn achos i rai o'r ychydig nad aethant ar gyfeiliorn, ddanfon am w'r duwiol a dysgedig, o'r tu draw i'r môr, a elwid *Garmon Sant*. Efe a ddaeth i'n gwlad ni, ac a bregethwys yr efengyl yn ei phurdeb; ac er dysgu ereill yn y pethau angenrheidiol idd eu gwneuthur yn ddysgodron gwirionedd, efe a ddodwys ysgolion da i fyny mewn llawer man. Y penaf o honynt oedd rhai *Caerllion ar Wysg*, a *Llancarfan*, a *Llanilltyd Fawr*. Enw y gŵr cyntaf a ddodwys Garmon ar ysgol Llancarfan oedd *Dyfrig Sant*. Fe ddywedir mai yn y *Garnllwyd* yr oedd e yn byw; ac y mae ffynon yno fyth a elwir *Ffynon Dyfrig*. Wedi hyny gwnaethpwyd *Dyfrig* yn esgob *Llandaf*, ac ar hyny dodwyd *Catwg* yn ben ar ysgol Llancarfan. Enw y fonachlog oedd *Llanfeithyn*, a'r enw hyn y sy fyth ar y lle. Fe ddywedir i *Gatwg* fyw yno nes oedd yn gant ac ugain oed; yn hynod dros ben am ei ddysg, ei ddoethineb, a'i dduwioldeb."

Yr athrofeidd hyn mewn amser a dröed yn fynachlogydd; ac oddiwrthynt, efallai, y cafodd Pabyddiaeth yr achles grefaf i wreiddio yn mysg ein cenedl, fel y gwelir rhagllaw. Ond yma caniatiaer i mi ddodi y dyfyniadau canlynol o hen gofion Cymreig, y rhai a daflant ryw gymmairt o oleu ar y cyfnod dan sylw o hanes ein cenedl.—

"O amser Lles ab Coel hyd amser Coel Godhebawg, saith ugain mlynedd; a'r Coel Godhebawg hwnw a fu frenin, a merch iddaw, a elwid Elen Lueddawc, a hono a aeth i Gaersalem, ac yno hi a gafas y groes fendigaid, ac a'i dyg i Ynys Prydain; sef y dodes bardd hyny ar englyn yn llynn:—

Diboen ferch Coel Godeboc  
I gred a ddyges y Groc:  
Ugsin, trichant, a'i w'rantu,  
Oedd oed Iesu, Dduw d'wysoc.

O amser Coel Godebawc hyd amser Macsen Wledig, can' mlynedd a deuddeg; a'r Macsen hwnw a fu yn amherawdr Ynys Prydain, ac yn Rhufain; ac a ddodes fraint teyrnedd freiniawl ar Ynys Prydain, ac a wnaeth lawer o eglwysi a gwyndai crefydd yn yr ynys hon, ag addysg gwybodau dwyfolion a gwladolion ynddynt. Ac efe a ddodes diroedd a breiniau i genedl y Cymry yn Llydaw, a Chynan Meiriadawc yn dywysawc arnynt; ac yno ydd aethant ugain mil o genedl y Cymry, yn amgen gwragedd a phlant, ac yno ydd arhosasant hyd y dydd heddyw.

O amser Coel Godebawc hyd amser Cysteint ab Aldwr Brenin Llydaw trugain mlynedd, ag achaws nad oedd ef Tywysog o baladr rhai o genedl y Cymry, nis mynnet ef yn Frenin arnynt, ac nis ymwrhaent iddaw, a Gwrtheyrn Gwrtheneu yn dywysawc iddynt, a'r Gwrtheyrn hwnw a wnaeth frad a chynllwyn, a lladd Cysteint, ag a wahoddes y Saeson yn gyfnerth iddaw i Ynys Prydain, ag a ddodes diroedd a dâoedd, a breiniau iddynt yn yr Ynys hon, nid amgen no thiroedd gwyr o fonedd Rhufain yn Ynys Daned a gwlad Cent, ac ereill o wledydd; a'r Saeson a arasasant yn yr ynys hon hyd heddyw, yn un o dair gormes anrhaith Ynys Prydain. Ac yn amser Cysteint y bu Teilaw sant yn benesgob Ynys Prydain, ac a ddug lawer o'r paganiaid i'r ffydd yn Nghrist, ac a ddug dan nawdd a



dawn y Brenin, dau esgob duwiol i'r ynys hon, nid amgen na Garmon a Bleiddan i wellhau ac adnewyddu cred a bedydd a gwybodau dwyfolion."\*

A thrachefn y cawn a ganlyn—Bl. O. C. 380, "Cyfergyd a'r amseroedd hyn y bu Cwstenin Amherawdr yn ymherodraethu yn Ynys Prydain, ac yn gwared y ffydd yn Nghrist rhag a'i gwaharddai. A goreu a golychwydoccaf o'r holl amherodron y bu ef; ac Elen, ferch Coel Godebog, Brenin Penrhaith Ynys Prydain oedd ei fam ef, yr hon a gafas y Groes fen'ligaid y dan y garn a fwriesid arni gan yr anffyddloniaid, yn Iddewon a phaganïaid.

"Cyfergyd a'r amseroedd hyn y bu Morien ap Argad Fardd yn ddysgediccaf o neb yn y byd, ac efe a fu yn ammau bedydd ac aberth corph Crist, ac achos hyny y bu casineb ac ymrysonau ac ymladdau nid bychain, ac Hud Morien a fu un o dri hud ddargoll Ynys Prydain; cyntaf oedd Hud Urb Luyddawg o Lychlyn, a ddug agos bawb a fedraint wrth arf a rhyfel o Ynys Prydain, a'u dwyn ar ddargoll yn Ngwledydd y Môr Marw; ail y bu Hud Morien, sef o'i achos y colled bedydd ac aberth yn Ynys Prydain, ac ydd aeth holl werin yr ynys yn Iddewon difedydd. Trydydd Hud oedd Gwydion ap Don yn Ngwynedd, a gafas o dwyll fraint coron a phendefigaeth ar Fon, ac Arfon, a'r Cwmwd, y gan amherawdr Rhufain, am yru cenedl y Cymry o'u tiroedd, a rhoddi y tiroedd hyny i'r Gwyddelod a gwŷr Llychlyn.

390.—Cyfergyd a'r amseroedd hyn y bu Cwstenyn ymherawdr yn gyfnoddwr y ffydd yn Nghrist, ac y bu Martin escob yn gwrthammau Hud Morien yn yr Eidal, ac yn ynys Prydain; ac yn dysgu bedydd ac aberth, modd a'u dysgwyd gan Bawl Abostol, sef y dywed Pawl wrth yr esgyb a'r offeiriad, bedyddier pob dyn yn y byd yn enw y Tad o'r nef, ac yn enw y Mab rhad, ac yn enw yr Ysbryd glan, yr hwn a fydd fal terydr y tes yn gyru goleuni Duw i'r man y delo, a'r man ydd agorer calona a chydwybod iddo, &c. &c.

410.—Cyfergyd a'r un amseroedd y dodes yr Amherawdr Tewdws fraint ar ddysg a gwybodau anrhydeddus yn Ynys Prydain, ac y bu Badric Sant yn benathraw cenedl y Cymry yn nawdd y freint hono; a'r gwyddydd giffachog a ddaethant am ben y lle ydoedd, ac a'i dygasant yn anrhaith i'r Werddon, lle y bu ef yn Sant gloywaf yn y byd, yn dysgu'r ffydd yn Nghrist i'r gwyddydd, a chyn hyny paganiaid difedydd oeddynt.

425.—Y daeth Garmon Sant o dir Gâl, a chydag ef Bleiddian Sant, i Ynys Prydain, i adnewyddu bedydd ac aberth, a chred gyfiawn ar y ffydd yn Nghrist, ac lle ydd oedd wedi myned ar edwin.

430.—Daeth y gwyddydd Fitchi i Fon ac Arfon, a gwyddydd y gwledydd hyny yn ymuno â nhwy yn erbyn coron Ynys Prydain, a breninoedd a thywysogion Cymru yn eu herbryn, a gyda nhwy y ddau Sant, nid amgen Garmon a Blaiddan; a gweddio Duw a wnaethant, a Duw a wnaeth erddynt eu nerthu yn erbyn y brad a'r estroniaid yn hylgwydd, a rhoi y gorau iddynt ar eu gelynyon; a bu mawl gorfoledd yn archlod i Dduw am y fuddugoliaeth hono yn holl Ynys Prydain gan genedl y Cymry, er gwaethafoedd gwŷr Rhufain yn cyfarddal y Gorddwy brad a estrawn.

Cyfergyd a'r un amser y llosgwyd Caerllion ar Wysg, ac y gwnaethpwyd Llancarfan, a hono a fu'r Fonachlog freiniol gyntaf a gad yn Ynys Prydain, sef nid Monachlog Bangor Dewdws yn Nghaerworgorn, eithr ysgol freiniol i ddangos a dysgu gwybodau anrhydeddus, a chelfyddydau

\* O "Amseroedd oef a chyfrif"—Iolo Manuscript, p. 30.

ardderchogion, fel ag ydoedd yn ninas Rhufain, a chan y Rhufeiniaid yn Nghaerlleon ar Wysg.

Cyfamser a hyn y bu morlif mawr, a colled holl forfaoedd Gwynedd a Dyfed, a Chernyw, a Dyfnaint, a gwlad yr Haf, a Morganwg, a Gwent, a llawer iawn yn y gogledd.

436.—Gwnaethpwyd Dyfrig Sant yn Archesgob yn Llandaf, ac Iltud Sant yn ben athraw yn Mangor Dewdws, a elwid o'i enw ef, Bangor Iltud, yn awr Llanilltud Fawr, a Llanilltud y Frô; ac am hyn o amser y bu haint mawr yn Ynys Prydain, yn ddial Duw am bechodau y Cymry, ac ereill o genhedloedd Ynys Prydain, a'r gwyddyl Fichti a ddaethant i Gymru: ond drwy weddïau Saint caffïd y goreu arnynt, a gwared da.

448.—Y gwnaed Gwrtheyfyr Fendigaid yn frenin coronog Ynys Prydain; ac y doded Dyfrig yn Archesgob yn Nghaerlleon ar Wysg; ac wedi hyn y lladd Gwrtheyfyr Fendigaid, a gwisgaw coron y deyrnas am ben Gwrtheyrn Gwrtheneu, a hanpu gwaeth o hyn y genedl y Cymry, sef y bu achos cyn pen diwedd, dwyn braint coron y deyrnas oddiarnynt, lle y bu yn eu braint er pan ddaethant gyntaf i Ynys Prydain, pymtbeg can' mlynedd cyn dyfod Crist yn nghuawd.

450.—Dug Gwrtheyrn Gwrtheneu y Saeson i Ynys Prydain yn bleiddiddion iddaw yn erbyn a ddylit y goron iddaw, nid amgen nag Uthr Ben-dragon mab Gwrtheyfyr Fendigaid.

452.—Gwrtheyrn Gwrtheneu a ys-gares a'i wraig, ac a gymmerth yn wraig iddaw nid llai na phaganes ddifedydd, nid amgen nag Alis Ronwen ferch Hengist, tywysog y Saeson, a rhwymaw coron y deyrnas i fab a aned o honi; ac enw y mab hwnw oedd Octa, ac yn ei hawl ef ydd achubasant y Saeson goron teyrnas Ynys Prydain, ac a'i cadwasant yn sachlud hyd y dydd heddyw, a blinaf o bob gormes y bu gormes y Saeson yn Ynys Prydain.

453.—Y llas pendefigion y Cymry gan y Saeson yn Mynydd Ambri, a elwir Mynydd Caer Caradawg, yn mhendefigaeth Caersallawg; lle a'u dygynnullwyd ynô yn heddwch Duw, a thangnefedd gwlad a shenedl."\*

Y blyneddoedd hyn, fel y gwelir wrth y dyfyniadau blaenorol, oedd yr adeg ffin ar Gymru, pan ddarfu i Wrtheyrn wahodd y Saeson drosodd i'w gynnorthwyo yn erbyn y Brithwyr, pan nad oedd y pendefigion Cymreig yn rhyw unol i gydnabod ei benteyrniaeth, ac felly y rhoddid mantais iddynt i ddechreu gwladychu yn ean hynys; y canlyniad o'r hyn a fu iddynt mewn amser drawsfeddiannu y rhanau goreu o'n gwlad, ac arbenicter yr holl ynys. Yn fuan ar ol hyn y bu y gyflafan echryslon a adwaenir wrth yr enw brad y cyllill hirion, ac at yr hyn y mae y cyfeiriad yn y dyfyniadau olaf uchod. Mae darluniad manylach o'r cyfryw gyflafan yn y *Brut*:—"Sef a orug Hengist, erbyn y dydd hwnw prydu twyll, nid amgen na rhoddi cylllell hir i bob gŵr o naddynt yn ei hosan, gyda'i esgeir, a rhoddi yn arwydd i'w wŷr, pan fynei dynu eu cyllyll o naddynt, dywedyd o honaw ef namyn *draweth hwy sexus*, neu *onwer saxes*; sef yw hynny, "cymmerweh y'ch cyllill:" a phan doetey ef hyny, lladd o bob un o naddynt a ellynt fwyaf o'r Brytanyeid. Ac yr oedd dydd y doethynt i'r lle ydd oedd eu cynnady!; a phan fu amser gan Hengistyr, doetey a orug yr arwydd o hyd ei lef; ac yna yn ddiannot y cymmerth y Saeson eu cyllill a lladd y Brytanyeid yna o rifedi o naddynt, triugeinwr a phedwar sant, o dywysogion, a barwnyeid, a marchogion: canys pawb o naddynt

\* Iolo Manuscripts, pp. 43, 44, 45.

a ddoethant yno heb arfau, gan y meddyltnt 'ddim namyn tangnefedd a'r Saeson. Ac hwynteu trwy eu brad a ddoethant yn arfawg, wrth hynny hawdd iddynt ladd y gwŷr ereill yn ddiarfot. Ac eisoes nys cawsant yn rhad; canys llawer o honynt hwynteu a las yna: canys y Brytanyeid a gymmerynt y meini o'r ddaear a'r trosolion; ac felly y lladdasant lawer o'r bradwyr Saeson. Ac yno ydd oedd un Eudol, iarll Cayaw, sef yw hono Caerloyw, a phan welys ef y damwain hwnw, y lladdodd Eudol ddeng wŷr a thriugeinwyr o'r Saeson, heb anafod o naddynt."

Pan oedd Dyfrig yn hen iawn, wedi bod yn hir yn esgob Llandaf, ac wedi hynny yn archesgob Caerllion, a Morganiaeth yn ail enill dylanwad yn mhllith y Cymry er nychdod i wir grefydd, cynelid cymmanfa yn Llanddewi brefi, yn yr hon y pregethai amryw o Ddwyfyddion goreu y genedl ar y pynciau mewn dadl, gyda grymuder ac eglurder mawr: ond Dewi esgob Mynyw a ragorai arnynt oll, fel y'i dewisid ef cyn diwedd y gymmanfa yn archesgob, yn gymmaint a bod Dyfrig, o herwydd ei henaint a'i lesgeidd, yn gystal a blinder yr amseroedd, yn dewis rhoddi y swydd i fynu, ac encilio i dreulio gweddill ei oes mewn llonyddwch a chymdeithas â Duw yn Ynys Enlli.

Tua diwedd y gymmanfa hon, amlygai amryw o'r gwŷr duwiol oeddynt yn bresenol, eu dymuniad i fyned gyda Dyfrig i Enlli, fel y gallent addoli Duw mewn llonyddwch, heb ofni brad na thrais y Saeson; ond dymument gael cyngor Catwg Ddoeth yn gyntaf; yntau a'u cynghorodd hwynt i fod yn ddiwyd yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol; ac i ymostwng i'w ewyllys ef dan bob amgylchiad, gan fod yn hyderus y byddai iddo ef amddiffyn a gwaredu pawb a ymddiriedont ynddo ar lwybr eu dyledswydd.

Dyma gyngor Catwg iddynt:—

"Pan oedd saint senedd Frefi,  
Yn ol gwiw bregeth Dewi,  
Wrth arch pryfiwn prophwydi,  
Yn myned i ynys Enlli,  
Er ymward o bob rhwystri,  
A hir gymhell cymhelri:  
Yna dywedes Gybi,  
Pa fyd a geir yn ngweilgi?  
Pa fwyd yn ymborth i ni  
Yn nghanol y môr heli?  
Catwg a ddywaid wrth Ddewi,  
Fal y gwnai y prophwyd Eli:—  
Duw a ro gyngor i chwi,  
Ar foroedd a daieri;  
Goddefwch bob caledi,  
Nid ellir lles o ddiogi.  
Trech doethineb no gwegi;  
Trech llafur na direidi;  
Dirwest, a chred, a gweddi,

A orfydd ar bob cyfyngi.  
Mil canhaws gan Dduw roddi,  
No chan ddynd diddim erchi;  
O chredir llyfr Generi,  
Yr hwn a wiria ini,  
Na chafas ddynd ei eni  
Heb gael gan Dduw ei borthi.  
Gwellwell Duw o'i addoli,  
Gwaethwaeth y diawl o'i berchi.  
Nag ofnwch a ddaw ichwi,  
Mwy na'r fwyalch yn Ngelli,  
Nid ardd, nid erddir iddi,  
Nid llawenach neb na hi.  
Archwn bawb i Dduw Celi,  
Arglwydd yr holl arglwyddi,  
Er Iesu a'i bum' weli,  
Ein dwyn drwy bob cyfrwystri,  
A'i gael yn ganllaw ini,  
Ac ni bydd raid i neb ofni."

Oddiwrth duedd Dyfrig a'r duwiolion ereill i encilio i Ynys Enlli, er cael hamdden i fyw buchedd o ddyhewyd, allan o drwst y byd, gwelwn yr ysbryd mynachaid yn dechreu dangos ei hunan; ond meddyliem fod y Cymry hyd yma yn iach yn y ffydd; canys ni chrybwylla Catwg uchod am gyfryngodol neb ond yr eiddo Crist croeshoeliedig, i nesau drwyddo mewn gweddi at Arglwydd yr arglwyddi. A ganlyn hefyd yw aralleiriad Catwg o Weddi yr Arglwydd:—

## GWEDDI Y ÉADER : SEF, GAIR DUW YN UCHAR.

“Ein Tad Hollalluog, gwiredgar a thirion,  
 Sy'n trigo'n y lleoedd a'r pethau nefolion;  
 Glân ydwyf, a sanctaidd—dy enw mawr sancteiddir,  
 Hyd eitha'r holl endid, lle treigla'th hynawder.  
 Deued arnom dy deyrnas, a bydded dy 'wyllys  
 Fel y mae yn y nef, ar y ddaear yn ddilys.  
 Rho, Dad, i ni beunydd ein bara beunyddiol.  
 Boed i ni fyth ynod ymddiried yn hollol.  
 Rho di'r un faddeuant i bawb o blant dynion  
 Ag y rhoddwn ni'n ddiwyll i'n lliidiog elynion.  
 Bydd drugarog i'n gwared rhag hud ein pechodau;  
 Rhag a'n ennyg ar gam—rhag pob anian o ddrygau.  
 Ti, Frenin gogoned, yw perchen y deyrnas,  
 A'r nerth, a'r gwir glod, a phawb mawl i ti'n addas.  
 Bydd di'n Amddiffywr, a'n Deddfwr, a'n Llywydd,  
 Hyd oesoedd diderfyn, hyd fyth, yn dragywydd.”—Amen.

Dyna i chwi gynllun o athrawiaeth iachus, ddisothach Cristionogion Cymru, tua dechreu y chweched ganrif; canys cynnelid y Gymmaufa uchod yn Llanddewi brefi, tua'r flwyddyn 519. Yn mhen tuag ugain mlynedd wedi hyn, nyni a welwn yr ysbryd mynachaidd wedi cryfhau yn ddirfawr yn eu mysg, o'r hyn y mae a ganlyn yn brawf:—*Cyndeeyrn Garthwys*, mab Owain ab Urien, a anwyd yn yr Alban, ac a ddygwyd i fynu dan olygiad Serfan, yn athrofa Culros. Yr oedd Cyndeeyrn yn un mor hynod am addfywynder ei dymherau a'i ymddygiadau, fel y'i cyfenwid ef *Mwyngu*. Dywedir ei fod yn byw ar lysiau a llaeth, gan lwy'r ymwrthod â chigfwyd yn ymborth, ac â phob math o ddiodydd cedyrn; ond er hyn oll, ei grefydd a dynodd erledigaeth yn ei ben yn yr Alban, fel y bu raid iddo gilio o wlad ei enedigaeth; ac at Ddewi y daeth efe, a chydag ef y cartrefodd dros beth amser; ond o'r diwedd, trwy anogaeth y gŵr duwiol hwnw, efe a gyfododd Athrofa ar lan yr afon *Elwy*, yn Ngwynedd; a bu y cynnygiad yn dra llywyddiannus; canys dywedir fod gan Cyndeeyrn *naw cant a phymtheg a deugain* o frodyr yn ei athrofa, neu grefydd-dy, y rhai a wasanaethent Dduw â llawer o wresowgrwydd; ond nid oeddynt hwy oll yn ddynion dysgedig, neu lenorion; canys fe'n hysbysir fod *tri chant* o honynt yn trin y tir, ac yn edrych ar ol yr anifeiliaid a berthynent i'r sefydliad; *thri chant* ereill yn darparu lluniaeth, ac yn gweini mewn pethau ereill, angenrheidiol er cysur y frawdoliaeth; *tri chant a phymtheg a deugain* ereill oeddynt yn myfyrio ar wirioneddau crefydd, ac yn blaenori yn y gwasanaeth Dwyfol, a gyflawnid yn y sefydliad beunydd; canys yr oeddynt wedi eu trefnu yn y fath fodd, fel ag yr oedd addoliad parhaus a diorhwyys yn cael ei gyflawni ganddynt.

Buasai Cyndeeyrn yn esgob, os nad yn archesgob Cymry Ystrad Clwyd, a'r pryd hyny efe a gyfanneddai yn Glasgow; ac oddiwrth ei gyfenw crefyddol, *Mwyngu*, y cafodd y prif addoldy yno ei alw *St. Mungo*. Ond wedi ei orfodi, fel y crybwyllwyd, i adael ei bobl a'i drigias, trwy greulondeb ei elynion paganaidd, y Brithwyr, efe a ymsefydlodd dan nawdd Maelgwyn Gwynedd, ar lan yr Elwy, ac a seiliodd esgobaeth Llanelwy: ond yn mhen yspaid o amser, Rhydderch, tywysog Ystrad Clwyd, a'i gwahoddai i ddychwelyd yn ol, gan addaw ei noddi rhag pob traha; â'r hyn y cydsyniodd yntau, gan adael gofal yr athrofa a'r esgobaeth i'w hoff ddysgybl *Asaph*, ar enw yr hwn y gelwir yr esgobaeth gan y Saeson yn *St. Asaph*. Yr *Asaph* hwn ydoedd fab i Sawyl Benuchel, ab Pabo, o

Gwenaseth, ferch Rhufon Rhufionawg. Efe a ddilynodd Cyndeyrn yn yr esgobaeth, ac yn llywyddiaeth yr athrofa, yn y flwyddyn 560. Dywedir am dano ei fod yn bregethwr diwyd, ac yr arferai ddweyd yn aml, fod y sawl a wrthsafai bregethiad gair Duw, yn cenfigenu wrth iachawdwr iaeth eueidiau dynion. Efe a ysgrifennodd Lyfr Ordinhadau ei eglwys, Buchedd Cyndeyrn, a rhai cyfansoddiadau ereill. Trwy ei lafur ef, debygid, y sefydlwyd eglwys Gristionogol gyntaf yn y lle a elwir Llanasa, yn swydd Fflint.

Rhaid i mi addef gyda'r Parch. J. Williams, nad oedd y sefydliadau mynachaidd yma yn un arwydd o adfeiliad crefydd, ac o ymygriad yr eglwysi, hyd yn hyn, can belled ag y gallaf fi ddeall hanesyddiaeth, ac nad oedd y gosodiadau hyn wedi eu llychwyno â'r rhwysg a'r llygredd hyn y ymddangosodd yn nglyn â hwynt dan arglwyddiaeth Pabyddiaeth. Sefydlid hwy ar y cyntaf, debygid, er hyrwyddo dysgeidiaeth, a meithrin duwioldeb, fel y gellid dwyn i fynu ddyinion addas i'r weinidogaeth. Y mynachod a ymgynallient ar lafur eu dwylaw eu hunain, trwy drin tiroedd gwylltion a adawai pendefigion a thywysogion iddynt. Gweddient ac ymprydynt yn fyny, a'u holl ymarweddiad oedd yn dra diargyhoedd. Yn wir, ymddangosai y gyfundrefn drwyddi yn gyfaddas hynod i amgylchiadau teifysglyd yr amseroedd hyny.

Yr oedd oes Maelgwyn Gwynedd yn un dra hynod, debygid, am y symbyliad a roddid i addysg, a lluosogiad y cyfryw athrofaau a'r un uchod, mewn amryw barthau yn Ngwynedd, neu adnewyddiad a gwaddoliad rhai a sefydlasid yn nyddiau ei dad, megys Cor Cybi, Claswrwy Penmon, &c.

Ac yr ydwyf yn methu deall bod esgobion yn Nghymru hyd yn hyn yn meddu awdurdod daleithiol: ond y gelwid y sawl a fyddai fel gweinidog neu fugail sefydlog cynnullidfa o Gristionogion mewn ardal yn *esgob*: ac felly y cawn fod *Afan*, fab Cedig, ab Caredig, ab Cunedda, yr hwn a sefydlodd ddwy gangen eglwys yn swydd Frycheinog, yn y chweched ganrif, yn cael ei alw yn esgob. Efe a gladdwyd yn Llanafan Fawr, ac ar ei gareg fedd y mae y geiriau hyn:—" *Hic Jacet sanctus Avanus Episcopus.*" "Yma y gorwedd Sant Afan, esgob:" ond nis gellir profi ei fod yn meddu arglwyddiaeth eglwysig ar ddim mwy na'r gymmydogaeth hono. Ac am Dyfrig a Dewi, er y gelwir hwynt yn archesgobion, nid oeddynt yn gyffelyb i'r archesgobion presenol, mewn golud, rhwysg, nac awdurdod, hyd y gallaf fi ganfod mewn hanesiaeth: yn unig, ar gyfrif eu doniau rhagorach, fe'u dewisid gan y gweinidogion yn gyffredinol yn eu cynnulliad cymmanfaol, i gyflawni swydd gyffelyb i'r eiddo Cadeirydd (*Moderator*) eglwysi Henadurol yr Alban, neu Lywydd (*President*) cynnadledd y Trefnyddion Wesleyaidd, yn ein hoes ni; ond yn unig nad oeddynt i'w hethol yn flyneddawl: eto addefwn fod yr etholiad crybwylledig ar un i weini swydd archesgob neu benesgob dros ei oes, wedi achlysuero dechreuad y llygriad a'r gwyrni mewn trefn eglwysig, trwy yr hyn y daeth esgobion taleithiol i fod: a'r arfer hon, debygid, a ddygwyd drosodd yma yn gyntaf gan Garmon, oddiwrth eglwysi Gâl, y rhai oeddynt wedi dechreu cydffurfio â dull eglwys Rhufain yn y peth hwn yn gynt na'n henafiaid ni.

Yr ydym erbyn hyn yn neshau at y cyfnod yn mha un y dygid Pabyddiaeth drwyadl drosodd i Frydain gan Awstin Fonach, a'i gydlafurwyr. A'r pryd hyny y mae genym brofion sicr fod yr eglwys Brydeinig yn aymddibynol ar eglwys Rhufain, ac yn ei defodau a'i hathrawiaethau yn hollol groes i gyfeiliornadau Pabyddiaeth: ac yr ydys yn hyderu y gellir dangos hyny yn eglur yn yr hanes ganlynol:—

Yn y ganrif hon, sef y chweched, y darfu i wŷr duwiol, o'r enw *Dunawd Fawr*, trwy gynorthwy ei feibion enwog *Deiniol Wyn*, *Cynwoyl*, a *Gwarthan*, sylfaenu athrofa enwog Bangor Is-y-coed, yr hon a waddolid yn haelfrydig â thiroedd lawer, gan *Cyngeu ab Cadell Deyrnallwg*, tywysog Powys; a'i fab *Deiniol* yn fuan a sefydlodd athrofa ar lan y Menai, yr hon a waddolid gan Maelgwyn Gwynedd, ac a elwid Bangor, a Deiniol a benodid yn ben y côr, neu esgob cyntaf y lle hwnw. Efallai fod rhyw fath o sefydliad i weinyddu addysg yn Mangor Is-y-coed o'r blaen; gan yr haerid fod Morgan yn un o'r rhai a dderbynient addysg yno mor foreu a'r bedwaredd ganrif; ond ddarford i Dunawd a'i feibion adnewyddu y sefydliad yma, gan ei drefnu yn fwy cydwedd âg arfer yr oes, ac yn fwy tebyg i'r mynachlogydd diweddarach. Enwogrwydd Dunawd a'i feibion, am ddysg a duwioldeb, a fu yn effeithiol i gyrchu torfeydd o ieuentyd crefyddol atynt o bob cwt ar Gymru, fel y daeth Bangor Is-y-coed yn fuan yn enwocaf o'r holl athrofaau Cymreig. Yn y cyfamser, yr oedd un *Teiliaw* yn wŷr tra enwog yn yr eglwys Gymreig, ac efe a gyfrifir yn gyffredin yn esgob cyntaf Llandaf, am ba achos y gelwir y lle hwnw gan hen haneswyr yn "blwyf Teiliaw" weithiau, ac "esgobaeth Teiliaw" bryd arall. Yn gyfoesawl âg ef yr oedd gŵr duwiol ac enwog iawn yn ben athraw Cor Llanilltud, yr hwn oedd yn nai o fab chwaer i'r brenin Arthur—ei enw ef oedd Samson; ac y mae maen golofn er anrhydedd i'w goffaduriaeth i'w chanfod eto yn Llanilltud Fawr, yn naw troedfedd o hyd, 27 modfedd o led yn y pen uchaf, ac 28 modfedd yn y pen isaf, a phymtheng modfedd o drwch; a'r geiriau hyn yn ddarllenadwy arni:—IN NOMINE DI SUMMI INCIPIT CRUX SALVATORIS QUÆ PREPARAVIT SAMSON PRO ANIMA SUA ET PRO ANIMA JUTHAELI.\* Barna rhai bod yr argraph uchod yn brawf fod y Cymry eisoes yn euog o dueddu i'r cyfeiliornad o weddio neu eiriol dros y meirw; er nad oedd y cyfeiliornad Pabaidd o barth y purdan wedi ei ddyteisio eto.

Dywedir fod Gregory Fawr, ryw bryd cyn ei ddyrchafu i'r orsedd Babaidd, fel yr oedd yn tramwy heolydd Rhufain, wedi dygwydd sylwi ar nifer o ieuentyd teg yr olwg arnynt, yn cael eu cynnyg ar werth gan ryw gaethfasnachwr; a phan ymholai o ba wlad y'u dygid, deallai mai o Frydain; ac wedi ei hysbysu yn mhellach mai paganiaid oedd eu pobl, wedi oeheneidio yn ddwys, efe a ddywedai, "gresyn fod pobl mor deg yn ddeiliaid i dywysog y tywyllwch!" Wedi gwneyd ychwaneg o ymholiadau yn eu cylch, efe a aeth at y Pab, gan atolygu caniatad i fyned i Loegr, i ddychwelyd y bobl at Gristionogaeth; yr hyn a ganiataodd y Pab. Ond gan ei fod ef yn anwylddyn pobl Rhufain, bu raid i'r Pab anfon i'w alw yn ol, er ei fod wedi cychwyn i'w daith ers tri diwrnod. Yn mhen ychydig wedi hyny, efe a ddyrchafwyd i'r gadair babaidd, ac yna efe a anfonodd *Austin*, a gyfenwir yn gyffredin *Austin Fynach*, ar y genadwri yr amcansasi unwaith ei chyflawni ei hunan: a hyn a fu tua'r flwyddyn 597.

Yr oedd gydag *Austin* tua deugain o gynnorthwywyr, ac wedi teithio ar hyd y tir trwy Ffrainc, hwy a gymmerasant long a chyfieithwyr o Ffrainc gyda hwy, ac a diriasant yn ddiogel yn Ynys Thanet, o'r lle yr anfonid cenadwri at Ethelbert, brenin y rhan hono o Loegr, i'w hysbysu o'u dyfodiad i'w wlad, a'r neges oedd ganddynt mewn golwg. Ac wedi llwyddo i enill ffafwr Ethelbert, a pherswadio amryw o'i ddeiliaid, sef trigolion Caint, i dderbyn Cristionogaeth, y fath ag a feddai i'w chynnyg iddynt, a chael yn wobrwyr am ei lafur, ei gyssegru gan y Pab yn archezogob Caer-

\* *Juthael*, neu *Iuthael*, oedd arglwydd Gwentllwg yn swydd Fynwy, ac a roddes dirededd gwerthfawr i'r eglwys, medd Llyfr Llandaf.

gaint, efe a benderfynodd wneyd a allai i enill esgobion y Cymry i addef uchafiaeth y Pab, fel Pen gyffredinol yr eglwys : ac i'r perwyl hyny, efe a anfonodd atynt, i erchi arnynt ei gyfarfod ef mewn cymmanfa ar gyffiniau swydd Gaerwrangon (*Worcestershire*), mewn lle a alwyd yn y canlyniad "Derwen Awstin."

Gwedi cyfarfod yn y lle, ar yr amser gosodedig, Awstin a ddechreuodd ymresymu â hwy, a'u cynghori i roddi ufudd-dod i'r Pab, ac i dderbyn y ffurf o athrawiaeth a llywodraeth eglwysig oedd mewn ymarferiad y pryd hyny yn eglwys Rhufain : ond gan fod y Cymry yn golygu fod eglwys Rhufain y pryd hyny wedi dirywio yn mhell oddiwrth burdeb yr Efengyl, nid oedd dim a ddywedai Awstin yn ddigonol i'w denu i gytuno â'i gais : eithr gan nad oedd ond ychydig o honynt yn bresenol ar yr achlysur hwn, fel na byddai iddynt ymddangos yn fyrbwyll yn eu penderfyniad, cytunasant i gadw cymmanfa gyffredinol yn yr ym lle drachefn, i ystyried y pethau hyn. Ac ar yr amser gosodedig, esgobion Caerwrangon, Henffordd, Llandaf, Llanbadarn fawr, Bangor, Llanelwy, a Chaer-gybi, yn nghyda Dunawd Fawr, pen athraw Bangor Is-y-coed, a lluosau mawr o athrawon a dysgedigion, o Wynedd, Powys, a Deheubarth, a ymgyfarfuant yn y Gymmanfa : ac ar y ffordd wrth fyned yno, medd yr hanes, galwasant gyda gŵr duwiol a doeth, a gofynasant iddo, Pa beth a gynghorai efe iddynt ei wneuthur pan ddelent i'r Gymmanfa ? pa un a fyddai goreu iddynt, a'i gwrthod cydsynied â cheisiadau Awstin, gan gymmeryd y canlyniadau, pa beth bynnag a ddygyddai ; neu ynte, gytuno âg ef ? Yntau a'u hatebai, gan ddywedyd, "Os gŵr Duw yw Awstin, dylynwch ef : ac wrth hyn y gwybyddwch pa un ai gŵr Duw ydyw ai peidio : y mae yr Arglwydd yn dywedyd, 'cymmerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf, canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon.' Fe allai fod Awstin ei hun yn dwyn iau Crist, a'i fod yn chwennych i chwithau ei dwyn hi : ond os yw efe yn greulawn ac yn falch, y mae yn amlwg nad yw efe o Dduw, ac nad oes un angenrheidrwydd i chwi i wrando arno. Ac i'r dyben i gael allan pa un ai ei fod yn ostyngedig ai peidio, gadewch iddo ef a'i gyfeillion fod yn y gymmanfa o'ch blaen chwi ; ac os cyfyd efe ar ei draed pan fyddoch chwi yn myned i mewn, gwybyddwch mai gwas i Grist ydyw, a rhoddwch wrandawriad parchus i'r hyn a ddywedo efe wrthyh. Ond os diystyra efe chwi, ac ni chyfyd i'ch croesawu, a chwithau y nifer mwyaf lluosog, na wrandewch arno ef." Gwedi cael y cynghor hwn, hwy a ymadawsant, ac a wnaethant fel y gorchymynwyd iddynt.\*

Erbyn i gynnrychiolwyr yr eglwys Gymreig ddyfod i'r gymmanfa, hwy a gawsant Awstin yno, yn eistedd yn ei gadair, mewn agwedd rwysgafwr, ac er anrhydeddus oedd y cynnrychiolwyr, ni chyfododd efe i gyfarch iddynt : a hwythau pan welant ei ymddygiad trahausfalch, a ffromasant wrtho, ac ni fynent wrandaw arno : ond tra yr oedd efe â'i holl egni yn eu cymhell i ymostwng i awdurdod y Pab, a chydnabod uchafiaeth eglwys Rhufain, *Dunod Fawr* a safodd i fynu, a chan gyfarch Awstin a'i gyfeillion, efe a ddywedodd—"Bydded hysbys i chwi, ein bod ni oll yn ufudd ac yn ostyngedig i eglwys Dduw, ac i'r Pab o Rufain, ac i bob *gwir Gristion* ; a'n bod yn cofeidio pawb yn ol eu gradd, mewn cariad perffaith, gan eu cynnorthwyo drwy air a gweithred i fod yn blant i Dduw : ac ni wn i fod unrhyw ufudd-dod amgenach na hwn yn ddyledus i'r hwn yr ydych yn ei alw yn *Bab*, neu *Dad* y *Tadau* ; a'r ufudd-dod hwn yr ydym ni bob amser yn barod i'w roddi iddo ef, ac i bob cristion arall. Hefyd, yr ydym ni

\* Hanes Crefydd yn Nghymru, t.d. 192, 193. Bede, L. ii., ch. ii.

dan lywodraeth Archeshob Caerlleon ar Wysg,\* yr hwn sydd olygwr dan Dduw arnom ni, i wneuthur i ni gadw y ffordd ysbrydol.”

Pan glybu Awstin y cyfarchiad dewrfryd hwn, efe a ddywedodd wrth y Cymry :—“ Er eich bod chwi yn gwneuthur llawer o bethau yn groes i'r defodau a dderbynir genym ni, a chydsyniad yr eglwys gyffredinol; os bydd i chwi gadw y Pasg yr un amser a ninau, a gweini yr ordinhad o fedydd yn ol defod eglwys sanctaidd ac apostolaidd Rhufain,† ac uno â ni i bregethu yr Efenngyl i'r Saeson, ny ni a oddefwn bob peth arall yr ydych chwi yn eu cyflawni yn annghytunol â'n defodau ni.” Ond hwy a atebasant, nas gwneient ddim o'r pethau hyny, ac nas derbynient ef ychwaith fel eu harcheshob; canys dywedent yn eu mysg eu hunain, “ Onis gwnelai gymmaint a chyfodi ger ein bron yn awr, pa faint mwy y'n dirmygai, fel yn llwyr anheilwng, pe y dechreuem fod yn ddarostyngedig iddo?” Ar hyny, Awstin wedi cythruddo, a ddywedai yn fygythiol, “ Gan nad ydych chwi yn foddlon i ymgysylltu mewn undeb â'ch brodyr, yr ydych yn debyg o gael rhyfel â'ch gelynon, a chan na phregethwch chwi ffordd y bywyd i'r Saeson, chwi a gewch ddyoddef cosp marwolaeth trwy eu dwylaw hwyt.” †

Yn yr hanes flaenorol gwelwn ysbryd trahaus a gormesol eglwys Rhufain, yr hwn sydd yr un yn mhob oes, yn dra amlwg; mor annhebyg ydoedd Awstin i'r hwn y cymmerai arno ei fod yn Weinidog iddo! yr hwn y dywedir am dano, “ At yr eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun ni derbyniasant ef!”—“ Yr hwn pan ddfenwyd ni ddfenwodd drachefn, pan ddyoddefodd ni fygythioedd.” Ie, yn lle bygwth ei erlidwyr â dialedd, efe a weddiai dros ei leiddiaid, gan ddywedyd, “ O Dad, maddeu iddynt; canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur.” Ai tybed bod un o ysbryd mor daeogaidd ag Awstin yn ddysgybl i'r fath un? Ac yn yr unrhyw adroddiad hefyd, gwelwn ysbryd tra theilwng yn cael ei amlygu gan yr esgobion Cymreig; eu gwroldeb canmoladwy i sefyll dros annibyniaeth eu heglwysi; gan ommedd, yn gadarn, er yn foneddigaidd, ymstwng i geisiadau trahaus esgob Rhufain, a'i genhadwr Awstin Fynach.

Wedi i Awstin fethu yn ei amcan i gael gan ddysgedigton ac esgobion Cymru roddi eu gyddfau dan ei draed ef, a chydnabod ei feistr, y Pab, yn ben eu heglwys, efe a achwynai arnynt yn dost wrth ei noddwr *Ethelbert*, yr hwn ag efe eisoes yn dra llawn o ddygasedd at y Cymry, ac awydd i'w llwyr ddyfetha fel cenedl o bob cwr o Ynys Prydain, fel y caffent hwy, y Sacsoniaid, gyfle i helaethu eu tiriogaethau, a gydsyniodd âg Awstin i anog Ethelfrith, a gyfenwid “ Y gwyllt,” brenin *Northumberland*, yr hwn

\* Yr oeddynt yn parhau i'w alw felly, er fod yr archeshob yn preswyllo yn Nhŷ Ddewi y pryd hyny.

† Yr oedd eglwysi Cymru yn parhau i gadw y Pasg ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis, neu y llawn lloer, yn ol trefn yr Iuddewon; ond yr oedd eglwys Rhufain, mewn ufudd-dod i Gymmanfa Nicea, yn cadw y Pasg ar y Sabbath a ddygwyddai ar, neu yn nesaf yn ol y llawn lloer cyntaf wedi yr 21ain o fis Mawrth. Yr oedd eglwysi Cymru hefyd yn parhau i weini bedydd i fabanod a dynion mewn oedran yn ol y drefn apostolaidd, heb gyflawni yr holl ddefodau chwanegol oeddynt wedi dyfod i ymarferiad erbyn hyn mewn amryw wledydd: ond yr oedd gweindogion eglwys Rhufain, wrth weini bedydd, yn cyflawni y defodau canlynol; megys 1. Nodi y bedyddiedig âg arwydd y groes. 2. Rhoddi llaeth a mel iddynt. 3. Taffu halen i'w genau. 4. Eneinnio eu cyrph âg olew. 5. Eu gwisgo â dillad gwynion dros saith niwrnod. Dyma y pethau y mynai Awstin i esgobion Cymru eu gwneuthur wrth weini bedydd.—*Parch. Dr. Peters.*

‡ Bede, L. ii. ch. ii.



ypoedd yn dychwelyd yn fuddugoliaethus gyda byddin gref, o frwydro â'r Ysgotiaid, i anrheithio gororau Cymru; ac felly Ethelfrith a arweiniodd ei fyddin i diriogaethau Brochwel Ysgythrog, Tywysog Powys, yr hwn, pan ddeallodd fod y fath fyddin gref yn dynesu tua'i wlad, a antonodd ato i ddeisyfu ammodau heddwch: ond y brenin paganaid gwaedlyd ni wrandawai arno, eithr rhuthrodd arno ef a'i fyddin, yn agos i Gaerlleon ar Dydfrdwy, gan ei orfodi i encilio, a gadael mynachlog Bangor Is-y-coed yn ysglyfaeth i'r goresgynwr; yr hwn pan welodd fintai o'r athrawon a'r efrydwyr, mewn gwisg grefyddol, ac yn anarfog, a ofynai pwy oeddynt, a pha beth oeddynt yn ei wneuthur; ac wedi ei ateb mai gwŷr crefyddol oeddynt, yn gweddio dros eu cydgenedl, efe a orchymynodd eu lladd yn ddirugaredd, gan ddywedyd, "Os ydynt yn llefain ar eu Duw yn ein herbyn, yna y maent yn ymladd i'n herbyn â'u gweddiau." Dywed rhai fod *deuddeg cant* o'r gwŷr anarfog hyn, y rhai oll, oddieithr tua haner cant, a aberthwyd i'r cleddyf: ond yr haneswyr Seis'nig a ddywedant mai *dau gan* oedd eu nifer. Anrheithiwyd Bangor Is-y-coed mor drwyddi ar yr achlysur yma, fel na chyfododd ei phen byth mwyach. Dywaid *Giraldus Cambrensis*, fod y pentyrau mawrion o adfeilion oeddynt weledig yn ei amser ef yn dystiolaeth ddigonol i wirionedd yr enwogrwydd a briodolidd gan draddodiadau y genedl i'r hen sefydliad hwn; a *Leland* a ddywaid fod amgylchedd yr Abatty yn dref gaerog, a bod yn aros yn ei oes ef enwau dau o'r pyrth—y naill, ar y tu gogleddol, a elwid "*Porth Hogan*;" a'r llall, ar y tu deheuol, a elwid "*Porth Clais*;" a chan fod y Dydfrdwy er y pryd hyny wedi newid ei gwely, ei bod yn ei oes ef yn llifeirio trwy y canal rhwng y ddau borth—y rhai, meddai, oeddynt tua milldir o bellder y naill oddiwrth y llall.\* Ond Brochwael, wedi ei gyfnerthu gan amryw dywysogion Cymreig ereill, a ddychwelodd, ac a ymosododd ar Ethelfrith, yr hwn a lwyf orchfygodd, gan ladd tua deng mil o'r Saeson; a phrin y gallodd Ethelfrith ei hun, yr hwn a glywfasid yn yr ymgyrch olaf hwn, ddianc rhag cwmpo i ddwyllaw ei elynion.

Y gweinidogion a ddiangasant o gyflafan Bangor Is-y-coed a ymsefydlasant mewn amryfal fanau yn Ngwynedd, yn enwedig yn Ynys Fon; a gellir casglu i lawer o honynt fod yn offerynol i blanu eglwysi mewn lleoedd na chyhoeddasant yr Efyngyl ynddynt o'r blaen: ac felly, efallai i'r ehwalfa ar fynachlog Bangor fod yn achlysur o ddaioni mawr i lawer o ardaloedd ereill.

Hyd yn hyn yr oedd yr eglwys Gymreig yn hollol annibynol ar eglwys Rhufain, ac yn anghydfurfiol â hi hefyd yn ei defodau mwyaf coelgrefyddol, megys y nodwyd eisoes am y dull o weinyddu y bedydd: ac ar y cyfan, gellid meddwl fod y Cristionogion Cymreig yn "dala dirgelwch y ffydd mewn cydwybod bur:" o leiaf, yr oedd eu syniadau yn llawer mwy uniawngred yn y chweched a'r seithfed ganrif na'r eiddo eglwys Rhufain, fel y gellid profi drwy luaws o ddyfyniadau o waith perf feirdd yr oesoedd crybwylledig. *Taliesin* a ddywaid—"Gwae ni chred i'r Drindawd." A thrachefn, ar iawn Crist dros bechod y gwelwn y sylwadau canlynol:—

"O'r diwedd y dyfu  
Iachwyddawl Iesu  
Hyd yn Ierosolyma,  
Y cymmerth crog a chathrau,  
A ffreyllau ac angau,  
Y cymmerth un mab Maria,  
I obrynu llawer o law Satana."

\* Turner, vol. i, p. 135.

Am gyfyngdod ac eiriolaeth Crist hefyd y dywedai yn un o'i brydd-  
setau—

Pwy enw y porthawr?  
Pwy y periglwr?  
Y Fab Mair mwynfawr."

Iawn y sylwodd un Awdwr parchedig\* ar hyn, gan ddywedyd:—  
"Mor groes yw hyn i athrawiaeth eglwys Rhufain, yr hon sydd yn  
gwneuthur Pedr yn borthawr, ac yn rhoddi iddo ef yn unig agoriadau  
nefoedd ac uffern. Nid ydym yn cael dim yn nghaniadau y Bardd hwn  
a'n tuedda i feddwl fod ein henafiaid Cristionogol y pryd hyn yn gweddio  
ar Mair, Pedr, neu ereill o'r saint, nac yn addoli delwau a chreiriau."  
Yn bytrach, medd efe—

"A'm crair yw Mab Mair, mawr arnaw fy mryd,  
Canys delir y byd bob awr iwrthaw."

Llywarch Hen hefyd oddeutu yr un amser a ddywed—

"Ar Dduw yn unig rhown oglud."

A'i fab claf ef yr un modd a dystia—

"O bob creff, a phob campeu,  
Gweddio Duw sydd oreu."

Gellid ychwanegu y rhanau canlynol hefyd o "Gyffes Taliesin" †  
Dduw, gan yn ystyried ei ddiwedd, er egluro yr un peth.

"Benedicte Dominus. Drwy nerth Ieäu, fab Alpha,  
I'r wyf yn cydnabod i Dduw, a'r Drindod goracha',  
Fy mod yn wir bechadur i'r penadur cadarns',  
O air, meddwl, a bryd, a bywyd amherffethia',  
Camdreulio fy mhwm' synwyr, mewn cyferwyr a thraba,  
Ac arfer o'r saith brifwyd heb boenyd na dirwestfa,  
Esgeuluso iawn fuchedd, a saith rinwedd Ecclesia,  
Misere mei Deus, i ti, f'Arglwydd, erfynia',  
Ieäu, er dy bum' archoll, am hyn oll i'r archa',  
Maddeu fy holl gamwedd cyn myned i orweddfa.  
Pan ddel angau i'm calon, ao oer loesion a chrynsa,  
Dwyn poenyd dros fy mhechod, a rhoddi nis galla';  
Efrydd, mud, byddar, a dall, ac anghall fydda';  
A'm cynghorau, a'm trysor, a'm anwylyd adaws',  
A'm gweithredoedd a'm canlyn, a'm gelyn a'm cyhudda. \* \* \*  
Pwy yna sydd oludog ond y Tywysog pena'?  
Arglwydd, er dy bum' archoll, am hyn y'rh weddia',  
Am hyn, Duw gogonedd, cyn fy myned oddiyma,  
Pen Teyrn y deyrnedd, dy drugaredd a archa'."

Pa un bynag ai *Taliesin Benbeirdd*, ai ynte rhyw un diweddarach yn  
ffugiau Taliesin, a gyfansoddai y llinellau blaenorol, mae yn amlwg nad  
oedd yr awdwr wedi ei lygru â syniadau cyfeillionus eglwys Rhufain, am  
gyfryngaeth y saint, &c.

\* Y Parch. J. Williams, A. C. (*Ab Ithel*.)

Mewn dernyn arall o Bryddest a briodolir i'r un awdwr, efe a ddywaid fel hyn—

“Gwae offeiriad byd  
Ni angreiffia gwyd,  
Ni phregetha;  
Ni warcheidw ei gail,  
Ac ef yn fugail,  
Nis areilia;  
Ni ddifer ei ddefaid  
Rhag bleiddiau Rhufeiniaid,  
A'i ffon gloppa.”

*Myrddin Wyllt* hefyd, gan gyfeirio at yr offeiriad Pabaidd yn dra amharchus, a ddywedai fel y canlyn mewn atebiad i *Gwennydd*, ei chwaer, yr hon a geisiai ei berswadio i gymmeryd y cymmun o'u dwy-law—

“Ni chymmeraf gymmun  
Gan ysgymmun fyneich,  
Ac eu twygeu ar eu clun,—  
A'm cymmuno, Duw ei hun.”

Mae yn wir fod y galanastra a wnaed ar flaenoriaid ac athrawon yr eglwys Gymreig yn Mangor Iscoed, drwy anogaeth Awstin, wedi gwneyd y Pabyddion yn dra atgas yn ngolwg ein hen dadau; ond y mae genym seiliau da i farnu eu bod yn cael eu dylanwadu hefyd gan wir wrthwynebiad i ofergoelion y grefydd Babaid. Cawn brawf o hyn mewn hen Frut y cyfeiriai yr Esgob Davies ato yn ei lythyr at Archesgob Parker—“Yr oedd un hanesyn hynod yn y Brut,” medd yr esgob, “yn dangos y modd, wedi i'r Saeson gael yr oruchafiaeth, y parhaodd rhyfel gwastadol rhwng y Brython (y rhai oeddynt drigolion y deyrnas y pryd hyny) a'r Saeson; y Brython yn Gristionogion, a'r Saeson yn Baganiaid. Yn ol fel y dygwyddai achlysuron, cynnallent weithiau am heddwch, yna cydgyfarfyddent, ac ymgoment â'u gilydd, a bwytaent ac yfent gyda'u gilydd; ond wedi i'r Saeson, trwy foddion Awstin, ddyfod yn Gristionogion, o'r cyfryw fath ag y gwnaeth Awstin hwynt, ni wnai y Brython ar ol hyny na bwyta nac yfed gyda hwynt, na chyfarch gwell iddynt; o herwydd iddynt lygru gwir grefydd Crist ag ofergoelion, delwau, ac eilunaddoliaeth.”

Cawn dystiolaeth arall i'r un perwyl, tua diwedd y seithfed ganrif, gan yr Abad Abdelm, yr hwn mewn llythyr a ysgrifennai efe at Geruntius, tywysog Cernyw, yn erfyn arno wneuthur ei oreu i ddwyn esgobion y Cymry, y rhai oeddynt yn ei dalaeth ef, i gydymffurfio â defodau eglwys Rhufain, a dystia fel hyn am eu casineb at Babyddiaeth:—“Y maent yn tybed eu hunain mor sanctaidd, fel na chyfeillachant â neb o honom ni. Ni unant â ni ychwaith mewn gweddian; ac ni chymmunant â ni ar y bwrdd; ac mor ffiadid ydym yn eu golwg, fel nad yfant o'r un cwpan a nyni, heb ei ysgwrio ef yn gyntaf.” Dywed hefyd eu bod yn “gwrrhod gwneuthur ymarferiad o eilliad St. Pedr, tywysog yr apostolion; a'u bod yn amddiffyn eu hunain trwy ddywedyd eu bod yn eillio eu penau yn ol defod eu tadau oeddynt yn ddynion enwog mewn gras.”—Nad oeddent ychwaith yn “cadw y Pasg ar yr amser y cytunwyd arno gan Gymmanfa Nicæa, ac yn ol dull Eglwys Rhufain.” Yn yr un llythyr, dygir tystiolaeth grogryw o Barth purdeb athrawiaeth eglwys y Cymry y pryd hyny;

"Nid gwiw," medd efe, "i weinidogion Cymru ymesgusodi, ac amddiffyn eu hunain trwy ddywedyd eu bod hwy yn parchu o'u calon holl orchymynion a rheolau yr Hen Destament a'r Newydd; a'u bod yn credu a'u holl galon fod y Duwdod yn hanfodi yn dri pherson, ac eto yn un Duw anfeidrol: a'u bod yn pregethu i'r bobl ddirgelwch cnawdoliaeth, marwolaeth, adgyfodiad, ac esgyniad Crist: a'u bod yn cyhoeddi gyda diwydrwydd, fod barn i ddyfod, pan y bydd i bawb gael eu pwyso yn y glorian a derbyn yn ol eu gweithredoedd: a'u bod hwy yn gobeithio, trwy fydd yn Nghrist, gael ymddangos yn mhllith ei ganlynwyr glân ef, ar ei ddeheulaw, mewn gogoniant."

Erbyn yr wythfed ganrif yr oedd y Saeson yn gyffredinol wedi eu henill i fod yn Babyddion selog: a'r Pab, gan gymmeryd achlysur ar hyn, a'u hanogai i daenu eu hegwyddorion cyfeiliornus trwy yr holl ynys, ac ymroddi i ddarostwng yr eglwys Gynreig trwy rym arfau, oni allent eu dwyn diwy ryw ffordd arall i gydymffurfiaid: a'r canlyniad a fu i'r cyfnod hwn fod yn dymhor blin iawn ar Gristionogion Cymru; trwy fod eu gelynyon yn gwneyd rhuthriadau mynych arnynt, ac ymrafaelion blinion yn tori allan rhwng eu tywysogion hwy eu hunain yn aml, fel nad oeddynt yn cael hamdden i gynnnyddu mewn gwybodaeth, na meithrin yn eu mynwesau y grasusau a'r rhinweddau gogoneddus hyny, y rhai ydynt yn tueddu i nawseiddio tymherau ffyrnig y natur ddynol lygredig. Er hyny, nid oedd yr Arglwydd eto wedi eu llwyr adael: ond yr oedd yr athrofaau yn parhau i fwrw allan lawer o ddynion duwiol a dysgedig; ac er nad ydoedd ond ychydig o ychwanegiad at rifedi yr eglwysi, yr oedd y rhan fwyaf o'r rhai oedd wedi eu sefydlu yn y ddau cant diweddaf yn parhau yn iach yn y fydd, ac yn ddifeitws yn eu bucheddau. Ond cyn diwedd y cant hwn, eglwysi Cymru a goffeidiasant gyfeiliornadau Pabyddiaeth i raddau pell.

Yn y flwyddyn 720, rhuthrodd haid o'r Saeson i Ddeheubarth Cymru, a lladdasant Aidan, esgob Llandaf, a dynystriasant eglwysi Llandaf, Mynyw neu Dy Ddewi, a Llanbadarn; ond Cristionogion y gwledydd hyny a ymwrolasant, ac a adgyweiriasant eu haddoldai drachefn.

Tua'r flwyddyn 755, trosglwyddwyd Elfod, un o hiliogaeth Caw, yr hwn a fuasai yn esgob Caergybi, i esgobaeth Bangor, a chan ei fod ef yn fwy ffafrawl i eglwys Rhufain nag oedd esgobion Cymru yn gyffredinol y pryd hyny, efe a ordeiniodd fod y Pasg i gael ei gadw yn Ngwynedd o hyny allan, yn ol defod eglwys Rhufain: ac am na chydysynia esgobion ereill Cymru a'r cyfnewidiad hwn, y Saeson a wnaethant gadgyrchiad drachefn i'r Deheubarth, a bu brwydr ofnadwy rhwng y ddyw genedl mewn lle a elwid Coed Marchan, lle y trodd y fuddugoliaeth yn drwyadl o du y Cymry, a hwy a ymlidiasant eu gelynyon Pabaidd o'u terfynau.

Er hyny y Saeson Pabaidd yn parhau yn eu llid at y Cymry a'u crefydd, a barhaent i wneyd mynych rhuthriadau i'w gwlad, gan faeddu a llofruddio eu gweinidogion, a distrywio eu haddoldai hyd y gallent. Tua'r flwyddyn 810, llosgasant Mynyw; yn 831, llosgasant Fonachlog Senghenydd; yn 860, torasant i lawr yr holl grefydd-dai yn Ngwent, Morganwg, Dyfed, a Cheredigion; 870, lladdasant esgob Bangor; yn 872, ar farwolaeth Einion, esgob Mynyw, gwthiasant Hubert, *Sais*, i'w le. Y Daeniaid hefyd, yn 893, a losgasant Lanilltud Fawr, Cynffig, a Llancarfan.

Ond er yr holl anrheithiadau hyn, y mae yn amlwg fod amryw ddygedigion enwog yn mysg y Cymry tua'r amser yma: canys Alffred, brenin Lloegr, yn awyddus am feithrin gwybodaeth a dysg yn mysg ei ddeiliaid diddysg, a anfonai i Fynyw, am Aser, Ioan Menefensis, ac Ioan Erigena, i'w gynnorthwyo i sefydlu athrofa Rhydychain: a bu y triwyr hyn yn athrawon yn Rhydychain, sef Aser yn athraw Ieithyddiaeth ac Areith-

yddiaeth, Ioan Menefensis yn athraw Rheasmeg, Rhifydddeg, a Cherddoriaeth; ac Ioan Erigena yn Athraw y Celfyddydau.

Y brenin crybwylledig, Alffred, a ranodd Loegr yn siroedd, ac allan o gyfreithiau Dyfnwal Moelmud, y rhai a gyfieithiasid gan Gildas o'r Gymraeg i'r Lladin, efe a gyfansoddodd gorph o gyfreithiau addas i angenrheidiau ei ddeiliaid.

Yn y ddedfed ganrif, anrheithiwyd eglwysi a chrefydd-dai Cymru yn fawr gan y Saeson a'r Daeniaid, am na chydymffurient âg eglwys Rhufain. Yn y flwyddyn 906, difrodwyd Mynyw; yn 944, lladdwyd Lambert, esgob Mynyw, gan y Saeson; yn 961, gwenwynwyd Rhodri ab Morgan, o herwydd iddo gael ei wneuthur yn esgob Llandaf o anfodd y Pab. Yr un flwyddyn gwnaeth y Pab brawf ar ufudd-dod y Gweinidogion Cymreig i'w awdardod a'i lywodraeth ef, drwy orchymyn iddynt beidio a phriodi: ond cafodd wybod yn fuan eu bod yn deall eu dyledswyddau, ac yn gwerthfawrogi breintiau eu heglwys yn rhy dda, i ofalu am gyflawni ei orchymyn ef. Wedi hyny yn y flwyddyn 978, anrheithiodd y Saeson y crefydd-dai yn Lleyl, a Chlynog Fawr yn Arfon. Yn 980, anrheithiwyd eglwys Mynyw, gan y Daeniaid. Yn 986, llosgodd y Daeniaid Gor Cenydd, yn nghyda llawer o grefydd-dai ereill; a'r flwyddyn ganlyndl, distrywiasant Lanbadarn, Llandyoch, a Llanrhytyd: a diffeithiasant eglwys Mynyw drachefn, gan ddwyn ei thlysau o honi: ac wedi hyny, Cor Illtyd, Cor Cattwg, Cor Cyngar, Llandaf, ac amryw ereill o'r crefydd-dai goreu yn y wlad. Yn 991, diffeithiwyd Mynyw gan y Saeson; yn 996, y Daeniaid a losgasant Fynyw, ac a laddasant Forgenu, yr esgob.

Rhwng y difrod parhaus oedd ar yr athrofaau a'r crefydd-dai, yn nghyd ag anwybodaeth a thrachwant llawer o'r esgobion, yr oedd achos crefydd yn isel iawn yn mhlieth ein henafiaid yn nechreuad y cant hwn. Yr esgobion, i'r dyben o gyfoethogi eu hesgobaethau, a ysgymunedd arglwyddi a phendefigion Cymru am y drygau lleiaf: ac nid adferent hwy i heddweh yr eglwys, heb gael llawer o'u tiroedd a'u meddiannau fel iawn am y trosedd. Yr oedd esgobion Llandaf yn nodedig am yr ymddygiad pabaid a thra arglwydddaidd yma, a thrwy hyny cynnyddodd yr esgobaeth hono i faintioli a chyfoeth mawr. Pan ddinystrid yr athrofaau gan ryfelwyr anfoesgar yr oes, yr oedd y llyfrau yn cael eu llosgi, a'r athrawon yn nghyd a'u dysgyblion yn cael eu hymllid ymaith, neu eu gosod i farwolaeth; a thrwy hyny yr oedd anwybodaeth ac anhrefn yn cynnyddu; ac felly yr oedd egwyddorion eglwys Rhufain yn parhau i sefeinio Cristionogion Cymru hyd yn nod pan oeddynt hwy yn tybied eu bod yn eu gwrthsefyll yn bybyr; oblegyl tra yr oeddynt yn gwrthsefyll honiad y Pab o arglwyddiaeth ar yr eglwysi yn Nghymru, yr oeddynt yn ymlithro bron yn ddiamwybod i lawer o'r unrhyw gyfelliornadau a'r Pabyddion. Mae yn wir mai Ioan Erigena, Cymro o Athrofa Mynyw, ydoedd un o'r rhai cyntaf a ysgrifennodd yn erbyn yr athrawiaeth babaidd o draws-sylweddiad, ac y mae Mosheim yn ei gyfrif yr egluraf a'r galluocaf o wrthwynebwyr y cyfelliornad hwn; ac nid yw yn annhebyg fod y Pabyddion eu hunain yn teimlo oddiwrth y cyfansoddiad hwn; canys yn Nghymmanfa Vercelli, yr hon a gynneld yn y flwyddyn 1150, fe ddyfernid y llyfr dywededig ganddynt, fel yn cynnwys gau athrawiaeth. Er hyny, yr oedd Pabyddiaeth wedi cynnyddu cymmaint yn Nghymru, erbyn yr unfed ganrif ar ddeg, fel y cyfrifid taith o bererindod i Rufain yn iawn digonol am lawer o bechodau. Dywedir i un Caradawg, tua chanol y ganrif hon, pan oedd Herwallt, pabydd trwyadl, yn esgob Llandaf, fel arwydd o'i edifeirwch, a shyda bwriad i wneyd iawn am ei bechodau, fyned ar bererindod i Rufain,

ac addaw treulio saith mlynedd o benyd, a rhoddi tir i esgobaeth Llandaf. Ac offeriaid Cymru a ddaesgent y werin i barchu Dewi a'i goffadwriaeth, fel yr oedd parch mawr yn ffynu yn mysg eu cenedl i eglwys Mynyw, neu Dy Ddewi; a chyfrifent fod cymmaint o haeddiant yn y weithred o fyned i ymweled â Thy Ddewi ddwywaith, a myned i ymweled â Rhufain unwaith: ac yn y canlyniad i'r grediniaeth goelgrefyddol yma, yr oedd pederinion o amrywiol leoedd yn cyrchu i ymweled â Thy Ddewi: a phan oedd Sulien yn esgob Ty Ddewi yr ail waith, sef tua'r flwyddyn 1080, William y Gorchfygwr, Duc Normandi, wedi clywed am sancteiddrwydd y lle, a chredu fod llawer o rinwedd a haeddiant yn y weithred o ymweled â'r eglwys gadeiriol, lle y buasai Dewi yn gweinidogaethu, a aeth ar daith o bererindod i ymweled â Thy Ddewi: a phan oedd efe ar y daith hon efe a roddodd lawer o roddion i eglwysi, esgobion, ac offeriaid Cymru, ac i'r mynachlogydd.

Yn amser Harri y cyntaf y collodd yr archesgobaeth mewn gweithred, cystal ag mewn enw, o Dy Ddewi; ac o'r pryd hyny allan, daeth holl esgobaethau Cymru yn ddarostyngedig i Archesgob Caergaint.\* Ac yn y teyrnasiad nesaf, aeth Baldwin, archesgob Caergaint trwy Gymru, ar y neges broffesedig o bregethu rhyfel y groes: ond mewn gwirionedd, fel y gallai, drwy ddarllen y gwasanaeth yn eglwysi cadeiriol Cymru, gadarnhau awdurdod Caergaint drostynt oll: ond y mae yn ymddangos nad oedd yr archesgob yn dra diofn yn cyflawni y gwasanaeth hwn, a thebygid fod amryw o'r Cymry yn gweled ei ddicheill trwy ei hug, ac yn amlygu eryn radd o anfodlonrwydd iddo: canys yn y bore, gyda'r wawr, y darllenodd efe y gwasanaeth yn eglwys Llandaf; ac er fod gwell, a llai o ffordd i Abergwaun o Goed Gronwy, efe a gymmerodd y ffordd hwyaf, a mywasf anhawdd ei theithio, a hyny yn ol pob tebyg, er gochel perygl. Dywedir hefyd iddo ddarllen y gwasanaeth yn eglwys Mynyw, neu Dy Ddewi, ac ymadael oddiyno cyn goleuo y dydd: ac nis gallwn gael un rheswm am yr ymddygiad hwn, ond yn unig ei fod mewn ofn am ei fywyd. Yn Mangor, darllenodd y gwasanaeth, a gorfododd yr esgob i gymmeryd rhan yn rhyfel y groes: ond yn ei holl daith trwy Gymru, er iddo gael wyneb y tywysogion oll, oddiethr Owain Gyfeiliog, ac er ei fod yn addaw gwobrwyon mawrion mewn byd arall am ufudd-dod i'w gais, ac yn bygwth penydiau ofnadwy am anufudd-dod, a'i fod yn cael ei gefnogi gan rai o urddasolion penaf yr eglwys Gymreig, ni lwyddodd i gael nemawr fwy na *thair mil* o wŷr i ymgymeryd â rhyfel y groes: yr hyn a brofai nad oedd rhyw danbeidrwydd mawr yn y Cymry i ymgymeryd â'i genadwriaeth.

Ond er fod llawer o gyfeiliornadau Pabyddiaeth wedi ymlusgo i mewn i eglwysi Cymru, trwy fod Pabyddion wedi ymwithio i'r swyddau uchaf ynddynt, a bod anwybodaeth a choelgrefydd wedi cymmyrd meddiant trwyadl o'r werin yn nghyfnod terfysglyd yr oesoedd canol, y mae yn deilwng o sylw fod aml un o'r beirdd a'r dysgedigion Cymreig trwy yr holl oesoedd, yn cadw i fyny dystiolaeth led glir i wirioneddau pwysicaf yr esengyl; a hyny, efallai, i fesur helaethach nag y galleid canfod yn mysg odid i genedl Ewropeidd arall, fel y dengys y dyfyniadau canlynol allan o lawer ereill a allesid eu chwanegu.—Padrig Maenwyn a anwyd yn Aberllychwr, tua'r flwyddyn 400; dewiswyd ef yn llywyd ar Gor Illtud, ar gyfrif ei dduwioldeb a'i dalantau. Oddiyno efe a gaethgludwyd i'r Werddon, lle y llaforiodd yn helaeth, ac y trodd lawer i'r ffydd Gristionogol, o herwydd yr hyn y'i galwyd ef yn Apostol y Gwyddelod.

\* Hanes Crafydd yn Nghymru, t. d. 272, 273.

Myn y Pabyddion ei fod ef yn credu athrawiaeth y Purdan; ond dengys traethawd o'i waith, nad oedd efe yn dychymygu am un lle arall o'r tu draw i'r bedd, heblaw nef ac uffern; canys fel hyn y dywaid efe:—"Y mae tair trigfan dan allu Duw Hollalluog; y gyntaf, yr isaf, a'r ganol. Yr uchaf o ba rai a elwir *Teyrnas Dduw*, neu *Deyrnas Nefoedd*; yr isaf a elwir *Uffern*; a'r ganol a elwir y *Byd presenol*, neu y *Bellen Ddaearol*. Y mae yr eithafon hyn yn llwyr groes i'w gilydd, heb eu huno âg unrhyw gymdeithas; canys pa gymmundeab a ddichon fod rhwng *goleuni a thywyllwch*, a pha gyssondeb rhwng *Crist a Belial*? Eithr y mae rhyw gyffelyb-rwydd rhwng y *ganol* a'r *eithafon*; oblegyd y mae cymmysgedd o ddrwg a da yn y byd hwn. Ond yn nheyrnas Dduw nid oes neb drwg, eithr pawb yn dda; ac yn uffern nid oes neb yn dda, eithr pawb yn ddrwg. A'r ddau le hyn a ddiwellir o'r canol; canys o ddyinion y byd hwn y cymmerir rhai i fynu i'r nef, ac ereill a lusgir i uffern; ac felly, unir cyffelyb â chyffelyb—hyn yw, y rhai da a'r rhai da, a'r rhai drwg a'r drwg: dyinion dynion cyfiawn âg angelion cyfiawn, a dynion drygionus âg angelion drygionus; gweision Duw â Duw, a gweision diafol a'r diafol. Gwahoddir y rhai bendigedig i'r deyrnas a barotowyd iddynt er seiliad y byd; a gyrir y rhai melldigedig i'r tân tragwyddol a barotowyd i ddiabol ac i'w angelion."

Cyffelyb hefyd oedd syniad Taliesin pan ddywaid—

"Peryf nef a beris pob da;  
A beris present i blant Adda;  
A beris *Paradwys* yn gynnwys i'r sawl fo da,  
Ac *Uffern* i'r rhai drwg er eu difa."

Yr hen Gatwg ddoeth, Athraw ysgol Llangarfan, wrth ddarlunio ei *gas-bethau*, a nodai a ganlyn yn eu mysg:—

"Esgob heb ddyseidiaeth;  
Cenedyl heb wybodau;  
Plwyf heb addysg;  
Mab heb ddysg;  
Ysgolhaig heb lyfrau."

Pa le yma y mae syniad cyffredin eglwys Rhufain, mai "Mamaeth duw-ioddeb yw anwybodaeth?" Y dywededig athraw a dystia yn mhellach—

"Heb athraw, heb ddysg;  
Heb ddysg, heb wybodau;  
Heb wybodau, heb ddoethineb;  
Heb ddoethineb, heb ddwyfoldeb;  
Heb ddwyfoldeb, heb Dduw;  
Heb Dduw, heb ddim."

Ac yn mhen rhai cannoedd o flyneddoedd wedi hyn, nyri a ganfyddwn nad oedd y Cymry wedi cyfnewid dim ar eu barn yn nghylch y peth hwn; canys fel hyn y dywident:—"Tri harddwch gwlad, Ysgubawr, eglwys, ac *ysgol*."

"Tri pheth gwaradwyddus mewn gwlad; Bardd heb urddas, *Llandref* heb *ysgol*, a chenedl heb gywilydd."

Dywed eglwys Rhufain y dichon dyn wneuthur ychwaneg o ddaioni nag a ofynir ganddo, a bod y gweithredoedd gorhaeddiannol hyn yn myned i wneuthur i fynu ddiffyg rhai ereill; ond daliai y Cymry syniad llawer mwy cysson â gair Duw, "Gwedi i chwi wneuthur y cwbl oll ar a

orchymynwyd i chwi, dywedwch, Gweision anfuddiol ydym." Canys fel hyn y dywedent—"Tri pheth y dylai dyn fod bob amser yn ddiymatal yn eu gwneuthur; gweithredoedd daionus, dysgu gwybodau, a darostwng ei wyniau; canys er maint a wnelo efe o'r pethau hyn, ni wna efe byth ei ddigon, ac a ddylai."

Am gyfryngaeth Crist, dywaid Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Fychan fel y canlyn:—

"Ni all angel penfelyn,  
Na llu o saint, un lles in';  
Na dyn byw wedi'i eni,  
I'r nef a'n swcra ni;  
Na neb, ond Un a'i aberth,  
A roes i ni ras a nerth."

A chyda golwg ar Swper yr Arglwydd, dywed yr un bardd, yr hwn oedd yn ei flodau rhwng y flwyddyn 1470 a'r fiwyddyn 1520, fel y canlyn—

"Cof nefol o'i farwolaeth  
Y nos cyn ei ddyoddef wnaeth;  
A'i ddeddfol apostolion,  
A garai fry, ger ei fron.  
Bara bendigaid buriad  
Gym'rai—diolchai i'w dad:  
D'wedai'n brudd, a'i roi iddyn'  
I'w fwyta—bara i bob un:  
*'A hwn yn fara i'w henwi,*  
*O wir ffydd, yw fy nghorph i.'*  
Ac eilwaith, y gŵr gwiwlan  
A roddai draw, a'i law lân,  
Iddyn' hwy ruddwin hefyd—

*'Cym'ruch ac yfuch i gyd;*  
Am hwn win, yn mhoen iawn-waed,  
D'ai angau im', ydyw 'ngwaed,  
Yr hwn ollyngir yn rhaif,  
Gwers oerbrudd, ar groes hirbraff,  
Er maddeu oll i'r hollfyd  
Bechodau a beiau'r byd.  
Bob amser pan gymmerir  
Y bara a'r gwin, burair gwir,  
Ei gur a'i farwolaeth dan go'  
A ddaliwch oni ddelo;  
Gwnewch chwithau'n ol fy nolur,  
Hyn yma i'm coffa o'm cur."

Tua chan' mlynedd cyn i Luther ddechreu lluchiau ei belenan tanllyd yn erbyn eglwys Rhufain, yr oedd Sion Cent yn protestio mor gadarn yn erbyn llygredigaethau Pabyddiaeth, ag y gwnaeth yr un o Ddiwygwyr y cyfandir wedi hyny: ac er ei fod mewn urddau eglwysig, ni alwyd mo honaw i gyfrif; oddiwrth yr hyn y gellir casglu bod ar urddasolion llygredig yr eglwys ofn y bobl; gan fod y lluaus yn cyfrif yr Ioan hwn megys prophwyd. Dyma y modd y dywaid efe am iawn Crist:—

"Nid oes nerth ar a berthyn,  
Onid Duw, i enaid dyn.  
Iesu wrth gyfraith Moesen,  
Awr brid, a'n prynodd ar bren."

Ac yn lle dywedyd y gallai dyn gael ei wared o'r purdan drwy roddi arian i'r offeiriad am weddio dros ei enaid ar ol marw, dywed fel hyn—

"Am y trosedd a wneddyw,  
A'r camoedd, tra f'oedd yn fyw,  
*Rhyhwyr* fydd yn y dydd du,  
Od wyf ŵr, i 'difaru."

Yn y llinellau canlynol dynoetha yr afresymoldeb o dybied y gall yr offeiriad Pabaidd, er arian, leshau dim ar enaid dyn; ac ar yr un pryd, nid erbyd eu moesau anfad yn y dyddiau hyny:—



"Dig yw'r gwŷr llen a'r menaich,  
 Dygn fyth, dwyn digon o faich.  
 Truth noeth, traethu a wnaethost,  
 Na chant hwy, gwn achwyn tost,  
 Groen du ffol, graen yw dy ffed,  
 Gaerydd nef yn agored!  
 Meddir, o bydd cywir cant,  
 I minau, hwy a'i mynant;  
 Arian glew, ar a glywais,  
 Orddwy drud, ar Dduw a draia.  
 Pob un, heb na llun na lles,  
 Ofer iawn, â'i feiriones.  
 Ei weddi, miloedd wiwdda,  
 I wlad nef, medd ef, ydd â.  
 Minau, o'm dysg a'm hanian,  
 A thrwy liw'r Ysgrythyr lân,  
 Mi a gaf gwiraf gwarant,  
 O'i gwrs ef y goreu sant,  
 Na lewas gwiwras gwerin  
 Dewi ar ei weddi win;  
 Na gwisgaw crys gwiw ysgawn,  
 Na phais ond yr unbais rawn;  
 Na llanw, yn ddi salw ei sain,  
 Y pot, na rhuthro putain.  
 Gwn gyfraith euriaith arab  
 Y Tad, eiriau mad, a'r Mab,

I nifer hwy nef ar hynt,  
 Am ei gael ymogleynt!  
 Astud wyf, ystod ofwy,  
 Ystyru twyll, ystyriant hwy,  
 Nad o wledau gau gymen  
 Ydd eir i nef, ddiouer nen!  
 Rhyfalach ydynt yn rhwyfaw,  
 Rhyfyg, Duw yn ddig a ddaw;  
 Pan ddel dydd barn arnam,  
 A chosh dros bechod a cham,  
 Am yr hawl a'r mawr hwyliaw,  
 Y farn ddig ar frys a ddaw.  
 Pob plaid dyfynir, pob blin,  
 Gar ei fron, y gwir Frenin;  
 Ni dddichon brawd, ŵr tlawdgall,  
 Na'r llaw ymddiried i'r llall;  
 Er pwyth byd, er peth bydawl,  
 Er da ydd â'r dyn i ddiawl!  
 Profais i megys prif-fardd,  
 Pawb o'r byd, ŵr hyfryd hardd;  
 Profais yn rhwydd arglwyddi,  
 Tlawd, cyfoethawg, rhywiawg rhi:  
 Nid cywir gradd o naddyn—  
 Nid oes iawn gyfaill, ond Uw!  
 Er neb ni thores Iesu  
 Ei lân gyfeillach â'i lu."

Gŵr boneddig mawr o gymmydogaeth Llanelwy, sef *Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Fychan o Lannerch*, yr hwn oedd un o brif luwyddion yr Eisteddfod Fawr a gynnelid yn Nghaerwys yn y flwyddyn 1513, a gyfodai ei lef yn cofn yn erbyn cyfeiliornadau Pabyddiaeth, rai blyneddoedd cyn i Luther gael ei oleuo am y gwirionedd, gan ddywedyd—

"Pa da fai y byd a fu?  
 Bai oedd heb ei wybyddu.  
 Byw yn ddall o'r ffydd allan:  
 Bai mawr, heblaw beiau mân!  
 Beth a dâl i'r diofala,  
 Bod yn ddal, a'r byd yn dda?  
 Nid yn ddallfol heb olwg,  
 Ond yn ddall drwy ddeall drwg.  
 Dyma'r dallder arterwyd,  
 Delwau oedd well na Duw lwyd.  
 Esg'luso Duw byw o'n bodd,  
 Mawrhau diawl, mawr hudolodd,  
 A rhoi addoliant ar ddeulin,  
 A ddylai Grist, i ddelw grin.  
 Ffânio Gwenfrewi ffynnon—  
 Ffâidd a hyll yw'r ffydd hon.  
 Eilian a offrymid eilwaith,  
 Ar grog o gaer—gorwag waith!  
 Felly, mewn blin grediniaeth,  
 Yr huded cun ofid caeth!

Gwelwn, cymmerwn g'wilydd,  
 Mor ffol yr aethom o'r ffydd.  
 Ffydd dduwiol apostolion,  
 Hoffai Dduw hael y ffydd hon.  
 Trown ninas i gyd, byd bedydd,  
 O ran a pharch i'r un ffydd;  
 A rhown heibio, tro trymddig,  
 Ganwylau a delwau dig,  
 A'r turs cwyr, a'r llaswgrau,  
 A'r gleintiau o brenau brau.  
 Cadwn ddefosiwn heb ddig,  
 Gyda'r gŵr bendigedig.  
 Gwnaethom ormod pechodau—  
 Galwn help Duw i'n glanhau.  
 Ni all angel penfelyn,  
 Na llu o saint, un lies in':  
 Na dyn byw wedi'i eni  
 I'r nef a'n swera ni;  
 Na neb, ond Un a'i aberth,  
 A roes i ni ras a nerth."

Nid ychwanegaf; canys yr wyf yn barnu y digona y dyfyniadau uchod i brofi nad oedd Cymru yn y nos dywyllaf a fu arni dan ormes Pabyddiaeth, heb ambell i seren yn rhagddangos dyneshad dydd y Diwygiad Protestanaidd: am yr hyn y mae yn ddyledus i ni gydnabod Duw yn ddioleghar.

## DARLITH VII.

## HELYNTION GWLADOL Y CYMRY DAN EU TYWYSOGION.

Yn y Bummed Ddarlith ymdrechais olrhain hanes ein cenedl, o ran o'helyntion gwladol, hyd at amser Cadwaladr, a gyfenwir gan haneswyr yn gyffredin, "Cadwaladr Fendigaid;" ac yn awr yr ydwyf yn cael arfod naturiol i ddwyn i fewn, yn nghwrs y Darlithoedd hyn, eu helynt wladol dros y cyfnod a elwir "*Oes y Tywysogion Cymreig.*"

Y cyntaf ar restr y tywysogion Cymreig yn gyffredin ydyw *Ifor* mab *Alan*, frenin Llydaw. Yr oedd Alan yn gefnder i Gadwaladr, ac i'w lys ef yr encillasai yr hen frenin Cymreig, yn nghyda'i deulu, pan oedd y pla ofnadwy yn anrheithio Cymru. Wedi i'r pla ddechreu lliniaru, pan oedd y genedl yn ei gwendid wedi y fath ymweliad, a'i brenin a'i phendefigion yn ffoduriaid i wledydd tramor, tybiai y Saeson eu bod yn gweld cyfle manteisiol i drawsfeddiannu y wlad, yr hyn a wnaethant hefyd i raddau helaeth. Pan ddeallai Cadwaladr hyny, teimlai awydd cryf i ddyfod drosodd i waredu ei wlad rhag trais estroniaid; ac i'r pwrpas hyny, atolygai ar ei gâr Alan ei gynnorthwyo â milwyr ac â llongau, yr hwn a gyd-synnai â'i gais, gan ddechreu gwneyd darpariadau mawrion tuag at hyny. Eithr yn y cyfamser, *angel* a ymddangosodd i Gadwaladr, ac a warafunodd iddo fyned yn mlaen yn ei amcan, gan nad oedd yn ganiataol i'r Brython deyrnasu yn hwy yn yr ynys, hyd oni ddelai yr amser a ddaroganasai Myrddin ger bron Uthr a cher bron Arthur. Gorchymynodd hefyd iddo fyned i Rufain, at y Pab *Sergius*, lle, wedi dwyn ei benyd, y caffai ei gofreu yn mhllith y seintiau. Y mae lle cryf i feddwl fod Cadwaladr o dymher a thuedd dra ofergoelus, ac efallai ei fod wedi myned yn fwy felly mewn canlyniad i'w ffoedigaeth o'i wlad rhag yr haint. Ar y llaw arall, yr ydwyf yn casglu am Alan ei fod yn wr o alluoedd meddwl cryfion; canys fe'n hysbysir ddarfod i Gadwaladr, wedi cael y weledigaeth uchod, fyned at Alan yn ddioed i'w mynegi, ac i ymgynghori âg ef; a bod hwnw yn y fan yn myned i chwilio mewn amryw lyfrau, megys prophwyddolaeth yr eryr, a brophwydodd yn Nghaer Septon, a chathlat y Sibylla, a daroganau Myrddin, i weled a oedd y datganiad i Gadwaladr yn cytuno â'r daroganau hyny; ac yn y diwedd, efe a'i cynghorodd i gyflawni gorchymyn yr angel.

Yn hyn oll, myfi a debygaf fy mod yn canfod dichell Alan; yr hwn ag efe yn gydnabyddus â daroganau Myrddin, ac yn gwybod y dylanwad a feddent ar feddyliau y lluaus o'n cenedl; ac yn adnabyddus hefyd o wendid meddwl Cadwaladr, a barodd i ryw un ymddangos iddo, a llafaru wrtho yn rhith angel; ac felly, wedi cael ei amcan drwy symud rhwystrau o'i ffordd, efe a anfonodd lynges gref, dan lywyddiad ei ddau fab ei hun, *Ifor* ac *Ynyr*, i adfeddiannu y tiriogaethau Cymreig oddiar y Saeson; hwy a lamasant yn Nghernyw, lle yr oedd gan y Saeson fyddin fawr wedi ei chynnull yn nghyd i'w gwrthladd; a brwydr waedlyd a gymmerth le

*awg*, brenin Gwynedd, a *Meredydd*, brenin Dyfed. Haerir mai ar yr achlysur yma y cyfansoddid yr hen dŏg Gymreig a elwir "Morfa Rhuddlan."<sup>\*</sup>

Yn y flwyddyn wyth gant, medd y *Brut*, y bu y frwydr anffodus yma, ac yn fuan wedi hyny y bu farw Offa. Pa beth a ddeuai o Cynan Tindaethwy, yr hwn a gyfenwid yn frenin Cymru oll, yn yr adeg yma nid yw amlwg, canys ni chawn air o son am dano ef yn y mynegiadau am yr ymrysonau parhaus rhwng y Cymry a Saeson yr ymylon. Prin y gallaf feddwl ei fod ei hun, na neb yn ei oes ef, yn bwrw hawl i bennaduriaeth Cymru oll; ond bod yr anrhydedd hwnw yn cael ei roddi iddo gan haneswyr diweddarach, o herwydd ei darddiad o waedoliaeth Cadwaladr, ac hefyd am ddarffod i rai o'i hiliogaeth ymddyrchafu i'r sefyllfa anrhydeddus hono mewn gwirionedd. Gallem feddwl mai yn y rhandir o Fon a elwir *Tindaethwy*, yr oedd etifeddiaeth neillduol Cynan; a'i fod yn honi hawl o lywodraeth holl ynys Fon, yn nghyda rhyw ranau ereill o Wynedd.

Yr oedd gan Cynan frawd o'r enw *Hywel*, yr hwn yn ol yr hen gyfraith a elwir *Gavel-kind* (o'r Cymraeg "Gafael gynt, medd rhai, neu y Saesneg "Give all kind," medd ereill, trwy yr hon y rhoddid i bob un o'r plant hawl gyfartal i feddiannau ei dad) a honai ei hawl o ynys Fon, fel ei ran, ar ol ei dad Rhodri; ond â hyn ni chydsyniai Cynan, ac am hyny y ddau frawd a ymbarotoent i fyned i ryfel â'u gilydd am yr ynys. Oddiwyth y crybwylliad a gawn ni o'r amgylchiad yma yn y *Brut*, fe ymddengys mai yn Llanfaes, yn agos i Beaumaris, y bu y frwydr hon, llanerch yr ymladdwyd llawer brwydr waedlyd arni wedi hyny:—

"Wyth gant a deg, y bu waith Llanfaes, yn Mon, ac y tloded breniniaeth Fon a breniniaeth Dyfed, oblegyd rhyfel a fu rhwng *Hywel Fychan* a *Chynan* ei frawd, ac y goresgynodd Hywel ynys Fon, gan orfod o hir ymladd arni."

Ond ni chafodd fwynhad parhaus o'i feddiant yno; canys *Cynan* a'i cyfarfu mewn ail frwydr, ac er iddo gael ei orchfygu y tro hwnw hefyd, a cholli llawer o'i wŷr, efe a ymadnerthodd drachefn, ac a ymladdodd drydedd brwydr âg ef, yn yr hon y llwyr ddyrchwelwyd gallu Hywel, fel y bu raid iddo ffoi am ei einioes i ynys Manaw.

"Yn y flwyddyn 814, y bu ryfel yr ail waith rhwng *Hywel* a'i frawd *Gynan*, ac a laddes lawer o'i wŷr ef, ac yna *Cynan* a gynnulles attaw hu niferawg dros ben, ac am ben ei frawd *Hywel* y rhuthres, a'i yru o *Fon yn Manaw*."

Cyn nemawr fwynhad o sfrwyth y fuddugoliaeth hon, bu farw *Cynan*, a chan nad oedd hiliogaeth ar ei ol ond un ferch, o'r enw *Essyllt*, yr hon oedd yn briod â phendefig o'r enw *Merfyn Frych*, yr hwn oedd yntau o waedoliaeth tywysogaidd, i hwn, yn rhinwedd ei briodas, y daeth etifeddiaeth ac anrhydedd y tywysog trengedig. Y pendefig crybwylledig oedd fab i Gwyrriad ab Ellidyr, yr hwn a ddisgynai mewn llinach uniawn o *Beli* frawd *Brân ab Llyr*; a'i fam oedd *Nesi* ferch *Cadell Deyrnllwg*, yr hwn oedd fab i *Brochwel Ysgithrawc*. *Trigias* y tywysog hwn, yn ol rhai o'r hen haneswyr, oedd yn y Penrhyn, Llandegai; ac y mae *Lewys Mon*, yn ei awdl i Syr William Griffith o'r Penrhyn, yn y flwyddyn 1500, yn dywedyd fod ei arfogaeth *bwysig* yn crogi yn y neuadd fawr yno y pryd hyny; a gresyna pob gwir hynafiaethwr na buasant yno eto.

\* Heblaw fod y Cymry wedi colli y frwydr ar Forfa Rhuddlan, fe ddywedir i'r rhai a geisient ffoi o'r frwydr foddii yn y morfa, ac i Offa yn ei gynddaredd erchi lladd, mewn gwaeid oer, yr holl wŷr a phlant a syrthiasai i'w ddwyrlaw, fel na ddi-angodd ond ychydig fenywod rhag dilynstr a galanas.—*M. Paris*.

Nis cawn un crybwylliad ddarfod i Hywel gynnyg gwrthddadleu hawl Merfyn o orsedd Cynan; ond cafodd waith mawr i'w wneyd i wrthsefyll gelyn galluog arall, sef *Egbert*, brenin y Saeson gorllewinol, yr hwn a oresgynai Wynedd â byddin gadarn, gan gymmeryd arglwyddiaeth Rhufoniawg, yn swydd Ddinbach, ac anrheithio yr holl wlad, hyd fynyddoedd Eryri; yna efe a aeth drosodd i ynys Fon, ac yn Llanfaes ymlleddid brwydr waedlyd rhwng Merfyn a'r penadur galluog a grybwyllwyd, dan yr hwn yr unid y saith freniniaeth Seis'nig; ac wedi brwydr waedlyd iawn, Egbert a enillodd y fuddugoliaeth, ac yn y canlyniad a gymmerth feddiant o'r ynys; ac efe a orchymynodd nas gelwid hi mwyach yn *Mon*, ond *Anglesey*—sef, ynys yr Eingyl. Er hyny nid hir y bu yr ynys yn meddiant y Saeson, canys y Cymry a gryphasant eu byddin, ac a'i hadenillasant yn fuan. Yn y flwyddyn 818 y bu y frwydr hon, yn Llanfaes. Ymladdodd Merfyn Frych lawer brwydr galed â'r Saeson ar ol hon, ac mewn un o honynt o'r diwedd efe a gollodd ei fywyd. Crybwyllir rhai o honynt fel y canlyn:—

“Oed Crist 838, gwaith Cyfeiliawc, lle y bu ymladd tra thost rhwng y Cymry a *Berthryd*, brenin y Mers; ac yno y lladdwyd Merfyn Frych, brenin y Brytanieid. Ac yn amser Merfyn y gorfu ar y Brytanieid oedd yn Lloegr yn byw, ymroddi yn Saeson, neu adael eu gwlad a'u cartrefoedd yn mhen tri mis. Yn yr un flwyddyn y bu Waith *Fferyllwg*, rhwng Gwy a Hafren, lle bu llaw uchaf y Cymry.”\*

“Oed Crist 840, y bu ail Waith *Fferyllwg*, lle y lladdwyd llawer o bob tu, fel nas gellid barnu y llaw uchaf, nac i'r un na'r llall o honynt.”

Mae hynafiaethwyr ereill yn barnu mai yn mrwydr *Cetell*, rai blyneddoedd yn ddiweddarach nag a nodir uchod, sef tuag 843, y cwmpodd Merfyn, wrth ymladd â *Berthryd*, brenin y Mers.

Wedi marwolaeth Merfyn, meddiennid ei orsedd gan ei fab *Rhodri*, a gyfenwid “*Rhodri Mawr*,” a hyny yn benaf, efallai, am ei fod yn meddiannu agos y cyfan o freniniaethau Cymru fel ei eiddo priodol ei hunan—meddiannu *Wynedd* fel etifeddiaeth o du ei fam *Essyllt*, ferch Cynan Tindaethwy; *Dyfed* a ddaeth iddo fel etifeddiaeth ei wraig Angharad, merch ac etifeddes *Meyric* ab *Dynwal* ab *Arthur* ab *Sitsyllt*, brenin *Ceredigion*; *Powys* a ddaeth iddo fel etifeddiaeth ei nain o du ei dad, yr hon oedd chwaer ac etifeddes i Cangen ab *Cadell*, brenin *Powys*.

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth efe wedi meddiannu y llywodraeth, oedd rhanu Cymru yn dair talaith—sef, *Aberffraw*, *Dinefawr*, a *Mathrafal*—y rhai a lywodraethid gan fath o raglawiaid teyrngedawl iddo ef. Efe hefyd a sefydlai ei brif lys breninol yn *Aberffraw*. Ond ni chafodd ef mwy na'i dad nemawr o heddych i fwynhau ei diriogaethau; canys *Berthryd*, wedi y fuddugoliaeth a enillasai yn *Nghetell*, a chwmp y gwron *Merfyn Frych*, a feddyliai na byddai yn orchest galed iddo orchfygu un mor ieuanc a dibrofiad a *Rhodri*; ac fel hyn y cawn y mynegiad am yr helynt:—

—“843. *Rhodri Mawr* ab *Merfyn Frych* a ddechreuws wladychu ar y Cymry, a gorfod amddifadu â'r Brytanieid oeddylt yn byw yn Lloegr, a myned yn un â'r Saeson a wnaethant hwy. A rhyfel mynych a mawr a fu

\* *Egbert* a gymmerodd Gaerlleon ar *Ddyfrdwy* oddiar y Cymry, yr hon hyd hyny a fuasai yn brif ddinas Gwynedd; ac efe a barodd frwr i lawr ddelw bres *Cadwalloen*, brenin y Brytanieid, a'i hanurddo, a gorchymyn nas cyfodid hi drachefn gan neb, dan boen marwolaeth. Efe hefyd a warafunai alw yr ynys mwy yn “*Brydain*,” ond *England*—“*Tir yr Eingyl*.” Wedi ei farwolaeth, teyrnasodd ei fab *Ethelwulf*, yr hwn a roddes ei ferch yn wraig i *Berthryd*, brenin y Mers.

rhwng Rhodri a Berthrwyd, brenin Mers; yr hwn Ferthrwyd a fynwys gynnorthwy gan Ithelwlff ei frawd, ac a ddaeth a llu dirfawr i Fon, gan ddiffeithiaw gwlad y ffordd y cerddynt, fal y gwnai y Paganïaid digred a bedydd. Myned a wnaeth Rhodri yn eu herbyn, a llu dewisawl o'r Cymry gydag ef; ac yn gynnorthwy iddaw y daeth Meurig ab Hywel, brenin Morganwg, â llu cadarn; a'r Meurig hwnw a laddwyd yn y frwydr hono. Eithr gyru ffo ar y Saeson o'r diwedd, gwedi ymladd tost a chreulawn."

Wedi hyn, cafodd Berthrwyd fwy na digon o waith i gadw ei diriogaethau ei hunan o grafangau y Daniaid, y rhai a eilw yr hen haneswyr Cymreig, y "Paganïaid duon," ac weithiau, y "Llu du." Math o forladron ysglyfaethus oeddynt o Denmarc a'r Llychlyn, y rhai, oddeutu y flwyddyn 846, a oresgynasant ran fawr o Loegr, gan orchfygu Athelstan, brenin Caint, a brawd i'r Ethelwlff a grybwyllwyd uchod; ac wedi hir ymladd â'r giwed yma, y rhai oeddynt yn ymgyf hâu yn y wlad, er ei holl ymdrechion, Berthrwyd a adawodd ei deyrnas, ac a encilliodd i Rufain, lle y bu efe farw cyn nemawr o amser, o dor calon; ac nid hir y bu Ethelwlff heb ei ddilyn yr un modd, gan adael y deyrnas i'w feibion.

Ond yr oedd y Saeson wedi cael gormod blas ar y gwledydd breision a ddygasant drwy drais oddiar yr hen Gymry druain, i roddi i fynu eu meddiant o honynt i'r Daniaid yn rhwydd; felly dal i ymladd yn ofnadwy a wnaethant, hyd onid aeth y nyth yn rhy boeth i'r Daniaid i aros yn eu plith; felly hwy a enciliasant i'w llongau, gau benderfynu anrheithio rhyw ranau o Gyfnru. Bu Rhodri yn ymladd brwydrau celyd â hwy amryw weithiau; canys fe'n hysbysir yn yr hen hanesion Gwyddelig, i *Gorm*, neu *Gurmund*, blaenor y "llu du," gael ei ladd gan Rodri frenin Cymru, tua'r flwyddyn 855. A thrachefn, nyni a gawn y mynegiadau byrion a ganlyn o'r hen gronicleau Cymreig:—

"Oed Crist 860, y bu cad Wythen, lle lladded llawer o'r Cymry a'r Saeson, fal nas galled y llaw uchaf nac i'r naill na'r llall o honynt. A'r un flwyddyn y daeth y Paganïaid i dir Gwyr, ac a'u gyrwyd ymaith gyda galanasdra mawr."

"Oed Crist 865, y lladded *Cynan Nawdd Nifer*, neu *Nant Nefer*, y dewraf a'r ardderchocaf yn ei ddydd o ryfelwyr Cymru."

"868, Y bu gwaith Brynnonen, ac y daeth y Paganïaid duon lawer gwaith yn yr un flwyddyn i Gymru a Lloegr, a chael y gwaethlaf yn mhob gossawd."

"870, Y bu waith Llangollen, a lladdfa fawr yno."

"Yn yr un flwyddyn y boddes Gwgan ab Morydd ab Llywarch Llwyd, brenin Ceredigiawn, yn morio dros aton Llychwr yn Ngwyr, er gyru y Paganïaid duon o'r wlad hono."

"Yn yr un flwyddyn y bu waith Bangor, lle y lladdwyd y Saeson wrth y niferoedd, a'r meini a dreiglwyd arnynt oddiar y brynïau; ac yn mhlith ereill, esgob Bangor."

"872, Y bu waith *Bangoleu* yn Mon, lle y gorfu Rhodri a'r Cymry ar y Paganïaid duon, mewn brwydr galed; a gwedi hyny, yn yr un flwyddyn, gwaith *Manegid* yn Mon, lle difethwyd y Paganïaid duon."

Yr ydwyf yn meddwl mai tua chymmydogaeth y lle a elwir Pen y graigwen, yr ymladdwyd y frwydr a elwir gwaith Bangoleu; ond nis gellais lwyddo i gael allan tua pha gwr o'r ynys y mae y lle a elwir *Manegid yn Mon*; ond gallef feddwl oddiwrt y dyfyniad uchod fod Rhodri wedi caffael buddugoliaeth drwyadl ar fyddin y Daniaid yn y fan hono, beth bynag.

Tua'r un pryd yr oedd byddin arall o'r Daniaid wedi tirio yn Neheubarth Cymru, dan arweiniad dau gadflaenor o'r enw *Haldane* a *Hungare*,

gan anrheithio y wlad y ffordd y cerddent, a distrywio pob peth o'u blaen yn ddiarbed; ond y Saeson gorllewinol a'u cyfarfuant yn swydd Dyfnaint, lle y lladdwyd eu dau gadfaenor, a deuddeg cant o'u gwŷr; ac felly y cafodd y Cymry a'r Saeson ymwared dros amser oddiwrth ormes y Daniaid: ond yn fuan wedi i'r Saeson gael ymwared oddiwrth ormes y gelynydd blinion hyn, hwy a ddechreusant gwerylu eilwaith â'r Cymry; a thua y flwyddyn 877, aeth byddin luosawg o'honynt i ymosod ar Rhodri yn Mon, a brwydr waedlyd a gymmerodd le rhwng y ddwy genedl, yr hon a elwir mewn hen hanesion, "Gwaith Duwsul yn Mon." Yn y frwydr hono lladdwyd Rhodri Fawr, a'i frawd *Gwriad*, a *Gweirydd* fab Owain Morganwg. Yr alanas hon a barodd i wragedd Mon ymgyffro mor fawr, fel y cymmerasant arfau, ac y rhuthrasant ar y Saeson mor bybyr, mewn lle, debygwyf, a elwir "*Pen bod ail frau*," yn agos i Amlwch, gan eu lladd yn ddirugaredd, fel y bu raid i'r gweddill ffoi o'r ynys.—Y mae amryw leoedd yn y gymydogeaeth hono yn dwyn arnynt enwau a ddyndant ymyrsonfa waedlyd—megys, "Rhos yr ormes," "Rhyd yr alanastra," "Rhyd gwaed gwyr," neu *Gwriad* efallai.

"Yr un flwyddyn y bu waith *Rhiw Saeson*, yn Morganwg, lle y gorfu y Cymry ar y Saeson, a'u lladd yn aruthrawl."

Yr ydym wedi crybwyll yn barod fod Rhodri wedi rhanu Cymru yn dair talaith; a chyn ei farwolaeth, efe a drefnasai fod i'w dri mab henaf etifeddu y taleithiau dywededig yn y drefu ganlynol:—i *Anarawd* y trefnid *Aberffraw*, a'r pymtheg cantref cyssylltiedig â'r dalaith hono, o For Werydd hyd afon Dyfi; i *Gadell* y rhoddai *Ddinefwr* a'i phymtheg cantref, yn eyrhaedd o safn afon Dyfi hyd enau yr Hafren; ac i *Merfyn* y rhoddes *Bowys* a'i phymtheg cantref, o afon Dyfrdwy hyd y bont ar Hafren, yn Nghaerloyw. Ac efe a drefnodd ar fod i Anarawd a'i olynwyr dalu yr hen deyrnged i goron Lloegr, a bod i'r ddau ereill a'u hetifeddion gyd-nabod uchafiaeth tywysog Aberffraw; a bod iddynt gynnorthwo ac amddiffyn y naill y llall yn wyneb unrhyw gadruthrau gelymol a wnelid arnynt. Efe a drefnodd hefyd yn mhellach, os digwyddai i unrhyw amrafael gyfodol rhwng tywysog Aberffraw a thywysog Aberteifi, neu Ddinefwr, fod i'r tri thywysog gyfarfod ar *Fwch y Paul*, a bod i dywysog Powys fod yn athrywynwr rhyngdynt, er penderfynu eu dadl. Ond os tywysog Aberffraw a thywysog Powys a gympent allan â'u gilydd, yr oeddynt i gyfarfod eill tri ar *Ddol Rhianedd* (yr un, fel y tybir, a Morfa Caer, ar lan afon Dyfrdwy, yr hwn a elwir weithiau "Morfa Rhianedd,") a thywysog Dinefwr i benderfynu eu dadl. Ac os rhwng tywysogion Powys a Dinefwr y byddai yr amrafael, yna trefnid cyfarfod y tri thywysog i fod yn *Llys Wen*, ar lan yr afon Wy, a thywysog yr Aberffraw i weinyddu rhan athrywynwr.

Ac er rhoddi atalfa fwy effeithiol i gadruthrau y Saeson, efe a ordeiniaid fod i'r holl gestyll a'r amddiffynfeydd, trwy y tair talaith, gael eu hadgyweirio a'u cadarnhau: ordeiniaid hefyd fod i'r eglwysi a'r crefydd-dai gael eu hadnewyddu a'u haddurno; a bod i Hanes Prydain, wedi ei chofrestru a'i hadysgrifiaw yn fyddlawn, gael ei chadw ynddynt. Mae yn ddiaw mai amcan mawr Rhodri, trwy y pethau hyn, oedd diogelwch a chadernid y genedl; fel, a hwy yn gyd-dylwyth yn Ngwynedd a Deheubarth, y gallent gydfod fel brodyr, ac os byddai raid, gydgynnnull eu lluoedd yn erbyn y gelyn cyffredin. Ond i'r gwrthwyneb yn hollol y bu; canys yn benben â'u gilydd yr aethant o hyny allan, a'u cecraeth barhaus a achlysurai lawer o dywallt gwaed, ac felly drygwyd a gwanhawyd y genedl yn ddirfawr. Gyda golwg ar y trefniadau hyn y canai Dafydd Nanmor, tua ehanol y bymthegfed ganrif, fel hyn:—

Tri mab i Rodri mewn tremyn—eu cad,  
Cadell, 'Narawd. Merfyn :  
Rhanodd ef yr hyn oedd un,  
Rhoddiad holl Gymru rhy'ddyn.

Wyth gant llawn a'i w'rantu,—pen rhinwedd,  
Pan ranwyd holl Gywru,  
A saith deg, llawn waneg llu,  
Eisoes oedd oed yr Iesu.

Rhanodd a gadodd er gwell,—dawn ufudd,  
Dinefwr i Gadell ;  
Y mab hynaf o'i 'stafell—  
Pena' o wŷr! pwy un well ?

Anarawd gwastawd dan go'—yn gyfan  
A gafas Aberffro :  
A daioni Duw yno,  
Fe biau breinniau a bro.

Gwir, gwir a dd'wedir i ddyd,—paun ifangc,  
Powys gafas Merfyn :  
Llyna'r modd yr adroddyn',  
Treiri rhwng y triwyr hyn.

Gwelwn fod y bardd yn golygu mai *Cadell*, ac nid *Anarawd*, ydoedd cyntafanedig Rhodri ; ond pa fodd y cydsaif hyny â phenodiad Anarawd yn frenin Aberffraw, a'r trefniad i'w frodyr ereill dalu teyrnged iddo, nis gwn. Efallai fod Rhodri yn gweled rhyw gymhwysder rhagorach yndo i'w olynu ef yn ngorsedd Gwynedd, os nad efe oedd y mab henaf ; ac mai hyny a fu yn brif achos o fod ei ragdrefniad crybwylledig mor aflwyddiannus ; canys cyn pen nemawr o amser ar ol marwolaeth Rhodri, Cadell a ddechreuai anfoddloni ar ei ran, a chan gasglu ei fyddinoedd yn nghyd, efe a ymosododd yn gyntaf ar ei frawd Merfyn, gan ddwyn talaith Powys oddiarno ; a thrwy hyny, efallai, y bwriadai ymgadarnhau yn ddiagonol i ymosod cyn hir ar ei frawd Anarawd, a dwyn y benteyrnedd oddiarno ; canys y mae yn hawdd i ni gasglu oddiwrth gymmaint a feddwn o grybwyllion am dano, ei fod ef wedi meddwl cael myned yn frenin y dywysogaeth oll.

Yn fuan ar ol marwolaeth Rhodri, bu i lawer o Gymry Ystrad Clwyd a Chumberland, y rhai oeddynt yn cael eu blino a'u gwanhau yn ddirfawr trwy gadruthrau parhaus y Saeson, yr Ysgotiaid, a'r Daniaid, arnynt, adael eu gwlad, dan arweiniad un Hobert, a dyfod i Wynedd yn nechreu teyrnasiad Anarawd, o flaen yr hwn y dodasant eu cwyn, gan atolygu caniatad ganddo i wladychu mewn rhyw gwr o'i dalaith ; yntau, gan docturio wrth eu cyflwr, a roddes genad iddynt i feddiannu yr holl wlad rhwng Caerlleon a Chonwy, sef Maelawr a Dyffryn Clwyd, Rhufoniawg, a Thegeingl, os gallent yru y Saeson ymaith, y rhai a drawsfeddiannasant y broydd hyny yn ddiweddar. Hwytthau, gan fod yn ddiolchgar am y fath gynnygiad, a ddechreusant ar eu gorchwyl yn bybyr, ac nid hir y buant cyn gyru y trawsfeddiannwyr Seisnig ar ffo, ac enill yr holl randir hono iddynt eu hunain ; ac y mae yn debyg mai hiliogaeth y 'dewrion hyn yw y rhan fwyaf o breswylwyr y broydd dywededig hyd heddyw.

Ond nid hir y cawsant feddiannu eu tiriogaeth newydd mewn heddwch, canys *Edryd*, duc Mersia, deiliaid yr hwn a drawsfeddiannasant yr ardal-oedd uchod, nis gallai oddef y fath ddyrnod i'w ysbryd uchel, heb wneyd ymdrech egniol i'w hadenill ; ac i'r perwyl hyny, efe a wnaeth barotoadau mawrion. Ond y Cymry, wedi cael hysbysiad o'i amcanion, a gynnulas-

ant eu holl anifeiliaid a'u da, ac a'u cludasant dros afon Gonwy, er eu cyfleu mewn gwell diogelwch; ac Anarawd a gasglodd ei holl filwyr yn nghyd i'w cynnorthwyo, ac a drefnodd ei fyddin ar lanau afon Gonwy, mewn lle a elwir Cynwyd, lle y cyfarfu y Saeson ág ef, gan fod yn dra hyderus o'r fuddugoliaeth drwy nerth eu byddin; ond wedi ymladd caled, Anarawd a gafodd fuddugoliaeth drwyadl ar y Saeson, ac a'u hymldiodd hyd eu gwlad eu hun; ac felly cafodd y Cymry breswyllo y rhandiroedd crybwyllledig mewn heddwch, dros yspaid hir ar ol y frwydr hon. Galwyd y fuddugoliaeth yspenydd yma "Dial Rhodri," am fod Anarawd wedi cael cyfleustra teg ar yr achlysur yma, i ddial gwaed ei dad Rhodri ar y Saeson.

Yn mhen peth amser wedi hyn, daeth cenfaint o'r Daniaid, wedi cael curfa lem gan y Llydawiaid, ac a ymdywalltasant ar Wynedd, ar fedr dial y sarhad a gawsant yn Llydaw, ar garedigion y Llydawiaid yn Nghymru. Ond o'r diwedd, llwyddodd Anarawd i gael ymwared o'r pla blin yma unwaith eto: ac yna, wedi cael llonydd oddiwrth estroniaid oddiallan, nynt a'i cawn yn cynnull ei wŷr, ac yn adnewyddu ei fyddin, i wynebu tua'r Deheubarth, yn erbyn ei frawd Cadell, ac yn anrheithio Ceredigion ac Ystrad Gwy. Efallai mai y prif reswm am y cadgyrchiad yma ydoedd anufudd-dod Cadell i drefniad ei dad Rhodri, i gymmeryd penderfyniad ar y ddad rhyngddo â'i frawd Merfyn, gan y trydydd brawd Anarawd. A gallem gasglu i'r moddion llym a ddefnyddiodd tywysog Gwynedd, ar hyn o bryd, fod yn effeithiol i orfodogi y trachwantus Gadell i adferu Powys i'w thywysog cyfiawn, Merfyn. Ond yw yn debyg fod Merfyn yn hoffus gan ei bobl ei hun, canys fel hyn y'n hysbysir am ei ddiwedd yn y Brut:—

"O. C. 892, y daeth Narawd, brenin Gwynedd, i ddifeithiau Ceredigion, sef cyfoeth Cadell ei frawd; ac a losges yr holl dai a'r ydau yn Nyfed ac Ystrad Tywi yn greulawn iawn. Yr un flwyddyn y llâs Merfyn brenin Powys, gan ei wŷr ei hun."

Tua'r flwyddyn 900, y tiriodd *Igmond*, â hyddin gref o'r Daniaid, yn ynys Fon; a'r Cymry a ymarfogasant, ac a ymgynnullasant ar frys i'w gwrthladd, a hwy a'u cyfarfuant mewn lle a elwir "Maes Rhos Meilion," er cof, efallai, am y frwydr hon. Nid wyf yn deall fod un lle yn yr ynys yn myned dan yr enw hwnw yn bresenol: ond mewn hen ddarlunlen o Gymru, gwelais y lle yn cael ei nodi yn y rhan o'r wlad a elwir Rhoscolyn, ychydig i'r deheu o Gaerdybi, lle yr oedd porthladd manteisiol i'r Daniaid lano.

Bu Anarawd fyw tua thair blynedd ar ddeg ar ol yr helynt hon; a chan fod yr holl hen gofion mor ddystaw yn ei gylch, dros yr yspaid crybwyllledig, hyderwn ei fod wedi cael prydawn lled dangnefeddus, ar ol y bore blin ac ystormus a fuasai i'w deyrnasiad.

Yn yr adeg yma hefyd yr oedd *Alfred Fawr* yn teyrnasu yn mysg y Saeson, ac efe oedd frenin doeth a dewr, a gwnaeth fwy tuag at wellhau moesau y Saeson, a meithrin llenyddiaeth yn eu mysg, cystal ag er eu gwaredu oddiwrth ormes y Daniaid, nag a wnelsai un brenin o'i flaen ef.

Wedi iddo lwyddo i ddarostwng y Daniaid, efe a gynnulodd o'i ddeutu rai o'r gwŷr doethaf a dysgedigaf a feddai y cenedloedd cylchynawl iddo, ac yn mysg ereill efe a lwyddodd i gael gan Gymro dysgedig o'r enw *Asser*, yr hwn oedd yn archesgob yn Mynwy, sef Ty Ddewi, i ddyfod ato i fod yn athraw; a'r gwŷr hwnw, ar ei gais, a gyfieithodd hen gyfieithiau *Dyfnwal Moelmud*, i dafodiaith y Saeson, yn nghyda'r rhwy o'r cyfieithiau Cymreig oeddynt mewn bod y pryd hyn; ac o'r rhai hyn yn benaf y ffurfiodd *Alfred* egwyddorion deddfwriaeth i'w ddeiliaid, fel y mac yn



dra eglur mai math o gyfieithiad o'r hen gyfreithiau Cymreig yw yr hen ddeddflyfr Seisnig a elwir *Marsian Law*; gan hyny, y mae y Saeson yn ddyledus i athrylith ein cenedl ni am rai o'r trefniadau cyfreithiol ydynt yn fwyaf o arnhydedd i'w teyrnas hyd heddyw—megys y "Prawf drwy Reithwyr," &c.

Trwy gynghor Asser hefyd y darfu i Alffred sefydlu prif athrofa Rhydychain, er gweini addysg i benedfigion ieuainc ei deyrnas. Meddylir mai yr un oedd yr Asser hwn a "Geraint Fardd glas," neu y "Bardd glas o'r gadair."

Bu Cadell, tywysog Dinefwr, farw yn y flwyddyn 907, sef tua chwe' blynedd o flaen ei frawd Anarawd, gan adael ar ei ol dri o feibion—sef, *Hywel*, a gyfenwir "Hywel Dda," a *Meurig* a *Chlydawc*. Hywel a'i dylynodd yn llywodraeth y Deheudir, ac a drodd allan yn dywysog tra' enwog; ac mewn amser, trwy ei ddoethineb a'i gyfiawnder, efe a gafodd benteyrnedd holl Gymru i'w law.

Yn y flwyddyn 913, bu farw Anarawd, tywysog yr Aberffraw; a'i fab, *Idwal Foel*, a'i dylynodd yn y llywodraeth, ac efe a feddiannodd orsedd Gwynedd dros oddeutu deng mlynedd ar hugain; ond nid ydwyf yn deall iddo enill unrhyw enwogrwydd, nac amcanu chwaith at yr uchafiaeth ym mysg y tywysogion, a berthynai i'w dad.

Efallai fod Hywel Dda, trwy ei ddoethineb rhagorol a'i anianawd heddychlaw, wedi llwyddo i unaw y tywysogion Cymreig mewn heddwch a chyfeillgarwch dros ei amser ef; a thrwy fod y fath undeb, trefn, a chadernid, o fewn ei deyrnas ei hun, fod ei gymmydogion yn arswydo rhag ymosod ar un parth o Gymru yn ddiachos, ac yn dewis ymostwng i'w amodau teg, yn hytrach na chyffroi ei ddigofaint; ac felly i'n gwlad a'n cenedl gael seibiant glew i anadlu mewn tangnefedd ar hyn o bryd.

Yn agos i ddiwedd teyrnasiad Idwal, darfu i Edmwn't, brenin y Saeson, yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad ef, wasgu yn drwm ar y Daniaid, gan adgymmeryd y dinasoedd a drawsfeddiannasant, fel y bu raid iddynt lwyf ymostwng iddo; a chan gymmeryd eu bedyddio i'r ffydd Gristionogawl, hwy a wnaethant gyfamod heddwch ág ef. Yn y flwyddyn ganlynol, carcharwyd pendefig Cymreig, o'r enw Cadell, fab Arthual, gan y Saeson—am ba achos, nis mynegir; ond fe ymddengys fod Idwal yn ystyried y fath weithred yn sarhad arno ef a'i deyrnas; am hyny, efe a'i frawd Elis, neu Elisieu, a gynnullasant fyddin o wŷr, ac a ymosodasant ar y Saeson a'r Daniaid, y rhai oeddynt ar hyn o bryd mewn undeb; ond yn y frwydr fe laddwyd yr hen dywysog Idwal, a'i frawd Elis. Gadawai Idwal, tywysog Gwynedd, chwech o feibion ar ei ol—sef, Meurig, Iefaf, Iago, Cynan, Idwal, a Rhodri; a'i frawd Elis a adawai o'i ol fab a elwid Cynan, a merch a elwid Trawst, mam i Gynan ab Sitsyllt, Gruffudd ab Sitsyllt, a Bledwyn ab Cynfyn—y ddau olaf o ba rai a fuant wedi hyn yn dywysogion ar Gymru.

Bu hyn tua'r flwyddyn 940. Yr oedd Howel, neu *Hywel*, mab henaf *Cadell ab Rhodri Mawr*, a gyfenwid hefyd *Hywel Dda*, wedi dyfod i feddiant o daleithiau y Deheubarth a Phowys yn y flwyddyn 907, ar farwolaeth ei dad; a phan y lladdwyd Idwal Foel, disgynnodd Gwynedd dan ei arglwyddiaeth hefyd. Dichon fod ei enwogrwydd fel tywysog cymmedrol, doeth, a da, yn peri i'r Gwyneddwyr fod yn awyddus am gael bod dan ei arglwyddiaeth, fel na feiddiodd meibion Idwal gyfodi terfysg na gwrthryfel o'r herwydd, er eu bod yn grwgnach yn erbyn uniad Gwynedd â'r ddwy dalaith arall, dan deyrnasiad tywysog Ceredigion, fel gweithred o anghyfiawnder â hwy, etifeddion talaith Aberffraw neu Wynedd.

Y mae yn ymddangos yn dra thebygol fod Hywel wedi mwynhau hedd-

weh â'i gymmydogion i radd helaeth, dros yspaid ei deyrnasiad maith, fel er fod ei enwogrwydd yn hanes ei wlad yn rhagori ar ei gydbenaethiaid, na sonir dim am dano ef yn rhyfela â'i gymmydogion; yn nghanol oes ryfelgar, yr oedd efe yn frenin heddwch; a thrwy ei anianawd heddych-lawn, a'i gynneddfau cryfion, wedi llwyddo i ymgadw rhag ymrysonau â'i gymmydogion, naill ai trwy amodau teg a phrydlawn, neu drwy ddangos y fath drefn a chadernid o fewn ei deyrnas, fel na feiddiai neb ymo:od arno; ac yntau ei hun yn rhy ddoeth i gyffroi gelyniaethau diachos. Ond y mae prif enwogrwydd Hywel yn gyssylltiedig a ffurfiad y rheithres ardderchawg a elwir ar ei enw "*Cyfreithiau Hywel Dda*," yr hon reithres a fu yn rheol lywodraethol i'n cenedl, tra y parhaodd ei hannibyniaeth gwladwriaethol.

Yn y rhagymadrodd i'r rheithres uchod, yr ydym yn cael y rhesymau canlynol am ei ffurfiad, yn nghyda darluniad byr o'r modd y'i ffurfiwyd.—

"HYWEL DDA, MAB CADELL, tywysog Cymru oll, a weles y Cymry yn camarferu o'r cyfreithiau; ac efe a ddyfynodd atto chwe' gwŷr o bob cwmrwd yn y dywysogaeth—pedwar o honyt yn lleygwyr, a dau o honyt yn llenwyr. Dyfynwyd y llenorion cyn cyfarfod o'r lleygwyr, fel nas penderfynid dim yn ngwrthwyneb i'r ysgrifeniadau sanctaidd. A'r amser y daethant yn nghyd, hwy a ymprydiasant; a gwnaethant felly, fel y byddai i bawb a ddeuent yno ymddwyn yn weddus ar y fath adeg ddi-frifol, ac nas gwneleut ddim yn annuwiol ar gyfnod mor ysplesnydd. A thrwy gynghor a chydysniad y doethion, y rhai a ddaethant yno, hwy a chwiliasant yr hen gyfreithiau: a rhai o honyt a ystyrid ganddynt yn deilwng i'w diwygio; ereill a lwyrr ddididmasant, a rhai newyddion a luniasant."

Fe'n hysbysir mai yn y *Ty Gwyn ar Daf, yn Nyfed*, y bu y gynnadledd bwysig grybwyllledig—lle, yn ol Carnhuanawc, yn agos i'r man a elwir *Whitland* yn bresenol, yn swydd Gaerfyrddin. Dywedir hefyd i Hywel Dda fyned i Rutain cyn sefydlu y cyfreithian hyn, i geisio gwybodaeth am gyfreithiau gwledydd ereill, ac yn enwedig am drefn ddeddfawl yr ynys dan lywodraeth y Rhufeiniaid; ond wedi hyn oll, iddo ef a'i gynghorwyr gael allan fod hen gyfreithiau Prydeinig Dyfnwal Moelmuad yn rhagori arnynt oll; ac felly cymmerwyd y rhai hyn yn osail benaf y rheithres newydd. Enwau y lleygion, y rhai a ffurfiasant y cynghor, oeddynt y canlynol:—

Morgeneu Ynad.	Gwgawn Dyfed.	Bledrws fab Bleiddyd.
Cyferth, ei fab.	Rhewydd Ynad.	Gwyn Faer, y gŵr oedd ber-
Gweiri fab Cyhawn.	Iddig Ynad.	chenawg, ac Santafwyn a
Gronwy fab Moriddig.	Gwiberi Hen o Iscenain.	bioedd y ty y gwnaeth-
Meddwon ail Cerisg.	Gwrnerth Llwyd, ei fab.	pwyd y gyfraith ynddo.

Ac at y deuddeng ŵr doeth uchod ychwanegwyd Blegwryd, Archddiagon Llandaf, yr hwn y dywedir am dano ei fod yn dra hyddysg mewn cyfreithiau gwladol ac eglwysig.

Dywedir fod y dysgedigion canlynol gyda Hywel, yn ei ymweliad cyntaf â Rhufain—*Martin*, esgob Mynyw; *Mordaf*, esgob Bangor; *Marchloys*, esgob Teilarw; a *Blegwryd ab Owain*, pencyfeistedd Llandaf, brawd Morgan, brenin Morganwg.

Gwnaed tair cyfysgrif o'r cyfreithiau hyn, fel y cedwid un yn mhob un o'r tri llys taleithiol—*Aberffraw*, *Dinefwr*, a *Mathrafael*. Rhenir cyfreithiau Hywel Dda yn dri dosparth:—1. Defodau a swyddogion y llys. 2. Cyfreithiau y wlad. 3. Troseddau; ac hefyd, Gwerth amryw ddo-ddorfnau, &c.

Wedi i Hywel Dda fod yn teyrnasu mewn llwyddiant a pharch mawr dros ddeugain mlynedd—y saith mlynedd olaf o ba rai y bu yn *Frenin Cymru oll*—efe a fu farw yn y flwyddyn 948; ac fel hyn y crybwyllir am ei farwolaeth yn yr hen Frut:—"Oed Crist 948, y bu farw Hywel Dda, fab Cadell, brenin Cymru oll, y doethaf a'r cyfiawnaf o'r holl dywysogion. Efe a garai heddwch a chyfiawnder, ac a ofnai Dduw, ac a lywodraethai yn gydwybodus, yn mhob iawnder tangnefus, ac efe a gerid yn fawr gan bawb o'r Cymry, a chan lawer o ddoethion y Saeson, a gwledydd ereill; ac achaws hyny y gelwid ef *Hywel Dda*. Ac yna y cymmerth *Owain*, ei fab ef, lywodraeth Ceredigion."

Gadawodd y penadur clodwiw hwn bedwar o feibion ar ei ol—sef, *Owain, Rhun, Rhodri*, ac *Edwyn*; a bu rhyfeloedd hir a gwaedlyd rhwng meibion Hywel Dda a meibion Idwal Foel, drwy yr hyn y drygwyd y wlad yn ddirfawr, fel y dangosir rhagllaw.

Ar farwolaeth Hywel, ymddengys i ddau o feibion Idwal Foel—sef, *Iefaf* ac *Iago*—gymmeryd meddiant o lywodraeth Gwynedd, gan roddi eu brawd hynaf, *Meurig*, o'r neilldu, fel un anngymmwyys i gymmeryd gafael yn y lywodraeth; a'u ceraint, meibion Hywel, a ymfoddolent ar daleithiau Deheubarth a Phowys, gan eu goddef hwythau yn ddirwgnach i fwynhau llywodraeth Gwynedd; ond Iefaf ac Iago a fynnent feddiannu yr arbenicter ar holl Gymru, fel etifeddion talaith Aberffraw; ond yr oedd meibion Hywel yn ystyried eu hawl i Bowys a Deheubarth mor gyfiawn ag y gallasai yr eiddo Iefaf ac Iago fod i Wynedd. Felly yn y flwyddyn 949, cawn fod tywysogion Gwynedd yn arwain eu byddinoedd i diriogaethau meibion Hywel Dda; ac ar fynydd Carno bu brwydr dost rhyngddynt, yr hon a elwid "*Gwaith Carno*;" a meibion Idwal a ddi-ftheiasant Ddyfed yn flain a thost. Fe grybwyllir hefyd am frwydr rhyngddynt, a elwir "*Gwaith Abercegywyn*;" a thrachefu, dywedir fel y canlyn:—

"O. C. 950, y daeth meibion Eidwal yr ail waith i Ddyfed, ac a'i han-rheithiasant, ac a laddasant Dynwallawn, brenin Dyfed. Ac Owain, tywysawg Ceredigiawn, a gynnulles lu gad yn eu herbryn, ac a'u hymludies hwy yn eu hol i Wynedd mor galed, oni foddes lawer o honynt yn afon Dyfi."

Meibion Hywel, gan gydio yn y fantais hon, i dalu y pwyth i'w ceraint angharedig, a wthiasant eu byddin i galon Gwynedd; ac yn Nglyn Conwy (yn gyfagos i Lanrwst, debygid) y bu brwydr galed rhyngddynt, yn yr hon y lladdwyd Anarawd, fab Gwriad, fab Rhodri Fawr, ac Edwyn, fab Hywel Dda; ond y fuddugoliaeth a enillwyd o'r diwedd gan dywysogion Gwynedd, sef Iefaf ac Iago, fel y bu raid i dywysogion y Deheudir encilio i Geredigon, lle y'u hymlidiid yn bybyr gan y gogleddwyr, y rhai a anrheithient y wlad hono yn ddiarbed a'r tân ac a'r cleddyf; ac y mae yn ymddangos i Iefaf ac Iago drawsteddiannu llywodraeth holl Gymru yn y canlyniad i hyn.\*

Ond uchelfrydedd ac anghyfiawnder tywysogion y gogleddbarth a ddygodd ddialedd buan arnynt: canys tra yr oeddynt hwy yn ymladd â'u cyfnesefiaid, ac felly yn gwanhau y wlad er porthi eu trachwant personol, yr oedd eu gelynyion yn ymgadarnhau o bob tu i'w blino, ac i ysglyfaethu eu cyfoeth, fel y gwelwn oddiwrth y dyfyniadau canlynol o'r Brut:—

"960, y lladdwyd meibion Eidwal ab Rhodri gan y Saeson; ac y diffeithiwyd Caergybi, gan feibion Eidwal Dyfed; ac y dystrywiwyd y Tywyn; ac y bu farw Meuryg ab Cadfan; ac yna ynnillodd y Saeson

\* Powell's Hist. of Cambria, 4to, p. 50. Warrington's Hist. of Wales, 4to, p. 191.

arglwyddiaeth meibion Eidwal, ac y lladdwyd Rhodri ab Eidwal, ac y diffeithiwyd y Berffraw : a rhyw faint ar ol hyny, y dalodd Iago ab Eidwal ei frawd Ifan (Iefaf,) ac a'i rhoddes yngharchar, a chwedi hyny efe a'i crogodd."

"961, y daeth meibion Abloic, brenin y Werddon, i Gaergybi, ac a'i diffeithiasant yn gwbl, a dwyn arch Cybi y ganddynt i'r Werddon, lle y bu gan' mlynedd : ac oddiyno aethant i wlad Leyn, gan ei diffeithiaw yn dra thost : a hyny fu o frad meibion Idwal, a hwy yn traws-wladychu ar y cyfoethau yn Ngwynedd a Phowys."

Fe ddywedir yn rhai o'r hen gofion, fod Iago wedi ymddwyn mor greulawn tuag at ei frawd Ifan, wedi iddo ei gymmeryd yn garcharor, fel ag y parodd dynu ei lygaid â heiyrn poethion, er ei anngwymyso i gymmeryd rhan yn ngweinyddiad y llywodraeth : ond Hywel, fab Ieuan, a gyfenwid "Hywel Ddrwg," wedi ei gythruddo yn ddirfawr trwy y traha yma ar ei dad, a gynnullodd gynnifer ag a allai o wŷr, er dial ei gam ; ac anfonodd hefyd at Edgar, brenin y Saeson, am gymhorth : yr hwn a ganiataodd lu mawr o Saeson iddo ; ac yntau, gyda'r fyddin gymmysg hon, a anrheithiai y wlad, heb arbed llys na llan, eithr dwyn daoedd a thlysau eglwysydd a mynachlogydd ; a holl diroedd Iago a drawsfeddiennid gan Saeson, a llawer o honynt a wladychasant yn Ynys Fon o hyny allan.

Ar ol i Hywel lwyddo i yru ei ewythr Iago ar ffo, efe a gymmerth y llywodraeth arno ei hun ; ac er dial dellni ei dad, efe a barodd dynu llygaid ei ewythr Meurig, yr hwn, ond odid, a gefnogasai Iago yn ei ymddygiad ysgeler tuag at Iefaf ; a'r Meurig hwnw a fu farw o doriad calon yn y carchar yn fuan, gan adael dau fab ar ei ol—un o ba rai, sef Idwal, a fu byw i fynyd yn dywysog Cymru, ac i ddial creulondeb annatiriol Hywel ar rai o'i hiliogaeth.

I ychwanegu at drueni y Monwysion, daeth Macht ab Harallt i ynys Fon, a chydag ef fyddin gref o Ddaniaid, ac efe "ddifethwys Benmon, lle ydoedd decaf cyn no hyny yn holl ynys Fon ; ac yn ebrwydd wedi hyny y daeth Gotffrid ab Harallt yn erbyn ynys Mon, ac a'i diffeithes ; ac Edgar a roddes genad i wŷr Gotffrid ym Mon yn gyfaneddawl, ac ymunaw yno â gwŷr Edwin a wnaethant yn un ormes, ac nid aethant fyth o honi, ac nis gellid fyth gwedi hyny gwarded brad o'r ynys ; ac Edgar yn gweled fal ydoedd, dyfod a orug a llu dirfawr i Gaerlleon-gawr, a myned yn erbyn gwŷr Iago, a'u lladd yn greulawn yn holl Gymru ;" yn nghweryl Hywel, efallai.

Mae yn ymddangos mai un prif reswm am weithred ysgeler Hywel yn tynu llygaid ei ewythr Meurig, oedd er ei anngwymyso i gymmeryd y llywodraeth arno ; efe a'i cymmerasai yn garcharor, debygid, yn un o'i frwydrau gyda'i ewythr Iago ; a chan fod ei dad eisoes wedi ei anngwymyso i lywodraethu, ni wnaeth namyn ei ryddhau o'r carchar, a charcharu Meurig yn ei le, gan feddwl ei fod felly yn sicrhau y llywodraeth iddo ei hun.

Iago, wedi ei ddymchweliad, a enciliodd i Loegr, ac a lwyddodd cyn hir i gael gan ei hen elyn Edgar gymmeryd ei achos i fynu, a'i adferu i'r orsedd ; yr hwn, gan ei fod yn awyddus i gadw i fynu ymrysonau rhwng y tywysogion Cymreig, neu i roddi i'r Cymry benadur a fyddai yn ddarostyngedig i'w ewyllys ei hunan, a arweiniodd fyddin gref hyd yn Mangor ; ac yn lle hwnw, Hywel, yr hwn oedd yn analluog i wrthladd y fath gadernid, a addawodd gydsynio â chais Edgar—sef, caniatu i Iago ei ewythr gyfranogi gydag ef yn y llywodraeth. Mewn canlyniad i'r uchafiaeth yma a enillasai Edgar, efe a adeiladodd eglwys yn Mangor, ar ystlys ddeheuol yr eglwys gadeiriol, yr hon a gyssegrodd efe i'r forwyn Fair ; a chan

arhoni arbenicter yr ynys, efe a gadarnhaodd i'r esgobaeth hono ei hen ragorfreintiau, ac a'i gwaddolodd â thiroedd ac â rhoddion gwerthfawr ereill. Fe debygir mai ar ei ddychweliad i Gaerlleon, y tro hwn, y bu Edgar yn llywio ei gwch ar yr afon Dyfrdwy, tra yr oedd wyth o frenin-oedd trethawg yn ei rwyfaw—o'i lys i fonachlog Ioan Fedyddiwr—dau o ba rai, debygid, ydoedd Iago a Hywel, breninoedd Gwynedd.

Onid y mae yn ymddangos na bu hir heddwch rhwng Hywel a'i ewythr Iago, canys fel hyn y'n hysbysir yn y Brut:—"O. C. 978, ydd aeth Hywel ab Ieuan waith arall yn erbyn ymddifferyn Iago ei ewythr, a chydag ef lu mawr o Saeson, ac anrheithiau Lley'n a Chelynog Fawr a wnaethant, a thori yr eglwysi yn aruthr, a dilygeidiaw llawer o gymhleidyddion Iago, a diffeithiau yn greulawn."

"Yr un flwyddyn y dalwyd Iago gan wŷr Hywel ei nai; a Hywel a wladychwys ei gyfoethau. A gwedi hyn y lladdwyd Idwal Fychan ab Idwal Foel, a diffeithiau Lley'n ac ynys Fon; a Chystenyn ab Iago ab Idwal a ddaeth i Fon, a chydag ef lu o'r Daeniaid duon, a chydag ef y codasant y Saeson a'r Daeniaid a wledychynt yr ynys, a diffeithiau'r wlad hono yn dost aruthrawl; a Gotfrid ab Harallt a Chystenyn a aethant oddiyno hyd yn Lley'n, a diffeithiau'r wlad hono hefyd yr un modd; ac yn eu herbyn y daeth Hywel ab Ieuf, a chad dost a fu rhyngddynt, ac yno y llas Cystenyn Ddu yn ngwaith Hirbarth."

Y Daeniaid a ddisgynasant ar y Deheubarth, ac a anrheithiasant Ddyfed, gan yspeilio Ty Ddewi; ond y Cymry, dan arweiniad eu tywysog Einion, debygid, a gyfarfuant â hwy, ac a'u baeddasant mewn cad ofnadwy yn Llanwenawc, fel y bu raid iddynt encilio o'r wlad ar ffwrst.\* Y flwyddyn ganlynol, y Duc Alfred, a byddin fawr o Saeson dan ei dywysiad, a oregynnodd y Deheubarth; ond pan ydoedd newydd ddistrywio tref Aberhonddu, efe a gyfarfuwyd gan fyddin Gymreig, dan dywysiad Einion ab Owain, tywysog y Deheubarth, yn cael ei gynorthwyo gan Hywel, brenin y gogledd; ac yn y frwydr a gymmerodd le, llwyr orchfygwyd y Saeson.

Gallasai y llwyddiant a ddylynai arfau y Cymry, pan ymunent â'u gilydd yn achlysurol fel hyn, yn erbyn y gelyn cyffredin, eu dysgu mai "mewn undeb y mae nerth;" ond yn lle hyn yr oedd yr ymrysonau gwarthus oedd rhyngddynt â'u gilydd yn barhaus, yn eu gwneyd yn yglyfaeth naturiol i'w gelynion gwangus.

Yn fuan wedi y fuddugoliaeth uchod, llofruddiwyd y tywysog Einion gan wŷr Gwent, mewn rhyw derfysg gwrthryfelgar a dorasai allan yno; ac felly y darfu, yn mlodau ei ddyddiau, un y dysgwylid cryn lawer oddiwrtho, ar gyfrif ei rinweddau amrywiol, yn enwedig ei wladgarwch a'i fedrusrwydd milwraidd. Efe a adawodd ddau o feibion ar ei ol—sef, Edwyn a Thewdwr, a gyfenwid Tewdwr Mawr, o'r hwn yr hanodd amryw o dywysogion y Deheubarth.

Yn y cyfamser, Hywel, brenin Gwynedd, a ymroddai i gadarnhau ei fyddin; a'r flwyddyn ganlynol, efe a'i harweiniai i Loegr, er dial ar y wlad hono ei mynych anrheithiadau o'i diriogaethau; ond yn y cadgyrchiad yma efe a laddwyd. Felly y darfu am ei holl uchelgais a'i greulonedd: a chan iddo farw yn ddiblant, ei frawd *Cadwalawr*, ail fab Ieuan, a gymmrth arno benaduriaeth Gwynedd, tra y perthynai o hawl cyfiawnder yn yrtrach i feibion Meurig, ei ewythr henaf; ac er cadarnhau ei hun ar yr orsedd, efe a ymroddes i geisio distrywio ei gefnderwydd. Wedi cael yr henaf, Ionafal, i'w ddwyllaw, efe a barodd ei lofruddio yn ddirgel; ond yr

\* Wynne's Hist. of Wales, p. 61.

ail fab, Idwal, a lwyddodd i ddianc, ac a gafodd fyw i weled cosbedigaeth gyfiawn yn disgyn ar leiddiaid ei deulu; canys prin y cafodd Cadwallaw-fod flwyddyn yn y llywodraeth, a phrin y cafodd gwaed ei garenydd fferu ar ei ddwyllaw, cyn i Maredydd ab Owain, tywysog y Deheubarth, oresgyn ei diriogaethau, a'i ladd ef a'i frawd Meurig.

Mewn canlyniad i'r fuddugoliaeth hon, Maredydd (yr hwn o'r blaen a feddai arglwyddiaeth Powys, yn hawl ei fam) a gymmerth arglwyddiaeth y gogledd hefyd arno ei hunan. Ond ni chafodd yntau hir fwynhad o'i arglwyddiaeth newydd; canys y Daeniaid, dan dywysiad Gotfrid ab Harallt, a oresgynasant Fon y drydedd waith, ac wedi cymmyrd ei frawd Llywarch, a dwy fil o'i wŷr, yn garcharorion, hwy a dynnasant ei lygaid; a Maredydd, wedi ei frawychu gan yr aflwydd yma, a ffodd i'w wlad ei hun, gan adael Gwynedd yn sathrfa i'r goresgynwyr; ac i chwanegu at adfyd y trigolion, fe dorodd pla allan yn mysg eu hanifeiliaid, ac mor fawr oedd yr anrhaith fel mai ychydig iawn a adewid yn fyw iddynt.

Mae amryw o'r haneswyr yn nodi y cyfnod yma fel adeg marwolaeth Ieuan ab Idwal, wedi bod lawer blwyddyn faith yn garcharor unig, ac yn ddall: ond y mae yn anhawdd gwybod erbyn hyn, pa fodd i gyssoni y cyfryw syniad â chrybwyllion ereill yn nghylch ei farwolaeth cynnarach. Y mae yn fwy sicr mai tua'r adeg yma y bu farw Owain ab Hywel Dda, tad Maredydd, tywysog y Deheubarth; a'i fab ieuengaf, y Maredydd uchod, yr hwn oedd eisoes, fel y crybwyllwyd, yn dywysog Powys, ac yn enwog fel rhyfelwr dewr, ond odid, a gymmerodd feddiant o'r llywodraeth, heb ofalu nemawr am hawlion ei neiaint, meibion Einion, ei frawd henaf. Ond yn nechreud ei deyrnasiad, y Daeniaid a oresgynasant y Deheubarth, gan anrheithio y wlad, a distrywio yr eglwysi a'r crefydd-dai yn ddirugaredd; fel hyn y dywedir am y goresgyniad hwn:—

“O. C. 987, daeth y Daeniaid i foroedd y Deheubarth, a dyfod i dir yn Ngheredigion, a diffeithiaw Llanbadarn, a Llandudoch, a Llanrhystyd; a gwedi hyny, myned hyd ym Mynyw, a diffeithiaw yr eglwys, a dwyn ei thlysau; ac wedi hyny, myned ar hyd for Hafren hyd ym Morganwg, a diffeithiaw cor Illtud, a chor Cattwg, a chor Cynghar, a Llandaf, ac ereill o'r eglwysi goreu yn y wlad; a hefyd llosgi ydau, a lladd ysgrubliad, onid aeth newyn angerddawl ar y wlad, ac y bu farw llawer o ddynion achaws hyny.”

Am fod Maredydd yn analluog ar hyn o bryd i'w gwrthladd â grym arfau, efe a brynodd eu heddwch trwy dreth o geiniog y pen, ar ei ddeiliaid: ac nid rhyfedd ei fod wedi ei ddwyn i'r fath gyfyngder, canys ymddengys ei fod mewn gelyniaeth â'r rhan fwyaf, os nid yr oll, o'i gyd-dywysogion Cymreig; ac felly nid yw yn annhebyg fod rhai o'r rhai hyny yn anog, os nad yn cynnorthwyo y Daeniaid yn y cadurthrau hyn. Fe elwid y dreth uchod *Glomael*, medd rhai,\* am ei bod yn cael ei dalu mewn glo, efallai, o'r hwn yr oedd cyflawnder mewn rhanau o'r Deheubarth: pa hyd y bu y Deheuwy'r yn talu y dreth hon, nis gallaf ddangos yn benderfynol; ond er mor gyfyng y bu ar y Gwyneddwy'r lawer gwaith, gellir dweyd hyn i'w clod, nad ymostyngodd un o'u tywysogion erioed i dalu y cyfryw dreth a hon dros eu deiliaid, i'r Daeniaid anwar.

Yn mhen tua dwy neu dair blynedd wedi hyn, cyfodai Edwyn ab Einion fyddin gref o Saeson a Daeniaid, a goresgynodd diroedd Maredydd—sef, *Ceredigion*, a *Dyfed*, a *Gwyr Isaf*, a *Chedweli*; ac er dial am y sarhad yma, Maredydd yntau a ddinystriodd dref Maeshyfaidd, ac a anrheithiodd Forganwg; ond yn ddisymwth, pan oedd fflamau rhyfel cartrefol wedi

\* Jones's Hist. of Wales, pp. 55, 56.

gwneyd y wlad yn anrheithiedig, a pheri newyn tost yn mysg y trigolion, gymmododd y ddau dywysog; a thrwy fod ei unig ei unig Cadwallawn wedi ei ladd yn y rhyfelgyrch blaenorol i Forganwg, yr oedd gobethion Edwyn yn loywach am ei olynu yn y llywodraeth, os byddai iddo ei orfucheddu; ac o hyny hyd ei farwolaeth, cawn Edwyn yn ymladd dan luman Maredydd.

Idwal ab Meurig, iawn etifedd gorsedd Gwynedd, a ffoisai am nawdd at Ithel ab Morgan, tywysog Morganwg; am hyny Maredydd yn eiddigus o honaw, gan ei fod yn gwybod fod tuedd y gogleddwyr ato, a ddaeth i amodau heddwch âg Edwyn ab Einion, fel y caffai ei gynnorthwy i ymosod ar Forganwg, am yr hyn y cawn y crybwylliad canlynol yn y Brut: "Yn yr un flwyddyn ac amser, ydd oedd Maredydd yn anrheithiau cyf-oeith Ithel ab Morgan, tywysog Morganwg; ac yn heddychu rhwng Edwin a Maredydd, a myned â'u holl nerthoedd, ac anrheithiau gwlad Forgan yn aruthrawl; ac yna Hywel ab Morgan, brawd Ithel, a ddangoses ei ewyllys i wŷr y wlad, ac y goflaenai efe hwynt, lle bai onid dau a ddelai gydag ef; ac ar hyny ymgynnullasant bobl y wlad attaw, yn wŷr ac yn wragedd, ac yn feibion ac yn ferched, pob un âg arf a gefid wrth law, ac yn erbyn Maredydd ac Edwyn, a gyru ffo arnynt, a dwyn oddiarnynt eu hysbail, a lladd eu gwŷr yn dost, yn ngwaith *Cors Einion*, lle y llas Cadwallawn, fab Maredydd."

Yn y cyfamser, tra yr oedd y pethau hyn yn cymmyrdd lle yn y parthau deheuawl, y Daeniaid duon a oresgynasant Ynys Fon unwaith eto; a'r trigolion, yn eu cyni, a anfonasant at benedfegion Gwynedd, i ddeisyf arnynt ethol tywysog i feddiannu yr orsedd, ac i'w blaenori yn erbyn eu gelyndon; ac felly gan mai Idwal ab Meurig oedd yr etifedd nesaf o gyf-iawnder i orsedd y gogledd, efe a etholwyd i fod yn ben-lluwyddwr iddynt; ac yntau, wedi derbyn cymborth gan ei noddwr caredig Ithel ab Morgan, a ddisgynodd ar warthaf y Daeniaid, o ba rai y lladdwyd llawer, a lleill a yrwyd ar ffo. Wedi gwaredu y wlad oddiwrth y gormeswyr yma, efe a ymroddes i osod trefn ar y trigolion, gan eu dysgu i'w cyfleu eu hunain a'u gwlad yn y fath gyfiwr diffynol, fel y byddent yn fwy dyogel rhagllaw oddiwrth gadruthrau y Daeniaid, neu unrhyw elynion ereill; a buan y gwelid effeithiau daionus ei drefniadau doeth. Fel hyn y dywedir am danaw:—

"Ac Idwal a fu yn dywysawg clodfawr a chyfiawn, ac a wnaeth lywodraeth ar Wynedd, a threfn a weddai ar heddwch a rhyfel; canys ef a ddysged gan Hywel ab Morgan Mawr; ac efe yn ben doethion y Cymry yn y gwybodeu a ddylai tywysawg eu deall a'u cynnal, tra fu efe ar ffo yn llys Ithel, tywysawg Morganwg, ac yn nawdd cor Llanfeithin, yn Nantgarfan; a mynych y tored y gor hono, yn amcan ei ddal a'i ladd, gan Einion ab Owain, a Maredydd ab Owain, a chan y Daeniaid a'r Saeson."

Fel hyn, gwelwn fod Idwal wedi gwneyd y defnydd goreu o'i ddeoliad, er ei gymhwyso ei hunan i weinyddu llywodraeth Gwynedd, os byth y'i gelwid i'r orsedd; ac wele, y mae efe yn dechreu yn dra chymhwys. Ond ni allai yspryd aflonydd Maredydd oddef gweled arglwyddiaeth Gwynedd yn cael ei dwyn oddiarnaw, heb wneyd unrhyw ymdrech i'w hadenill; am hyny efe a gynnullawdd ei holl luoedd, a chydag Edwyn ab Owain, efe a'u harweiniodd i Wynedd; ond yn Llangwm, swydd Dinbach, fe'i cyfarfyddid gan Idwal a'i fyddinoedd, lle y cafodd ei faeddu yn dost; ac yn mysg y lladdedigion yr oedd Tewdwr ab Einion ab Owain ab Hywel Dda, yr hwn a gyfenwir mewn hanesion, "Tewdwr Mawr."

Dywaid rhai haneswyr hefyd fod Edwyn ab Einion wedi cwympo yn y cadgyrchiad yma, mewn brwydr a ymladdid yn nghymmydogaeth Clynog,

lle y cyfodid croes yn gogolofn iddo, a'r geiriau hyn arni—*Edwini occisio*, “Cwmp Edwyn.” Y flwyddyn ganlynol, bu farw Maredydd ab Owain, ac felly darfu am ei rwysg.

Ond er i Idwal orchfygu ei gydgenedl a'i garenydd a gyfodasant fel hyn i'w erbyn mewn arfau, ni chafodd prin hamdden i dynu ei anadl, a sychu ei chwys, nad oedd mintai elynol o'r Daeniaid, dan dywysiad blaenor o'r enw Swayn, yn dechreu goresgyn ac anrheithio ei wlad, gan fwrriadu, efallai, darostwng Gwynedd dan deyrnedd, megys y gwnaethent â'r Deheudir eisoes: ond Idwal a arweiniodd ei wŷr yn eu herbyn, a'r ddau lu a gyfarfuant yn Mhenmynydd, yn Mon, lle y bu cad galed, ac ynddi y cwmpodd y tywysog Idwal ab Meurig, er galar mawr i'r holl wlad. Efe a adawodd ar ei ol un mab, o'r enw *Iago*; ond yr oedd hwn yn blentyn rhy ieuanc i feddiannu yr orsedd. A'r un ffunud, bu farw Maredydd ab Owain heb adael ar ei ol onid un ferch, *Angharad*, yr hon oedd wedi ei dyweddio i fachgen ieuanc, o'r enw Llewelyn ab Seisyllt, am yr hwn y dywedir nad oedd onid pedair ar ddeg oed pan fu farw ei dad—ynghyfraith—y tywysog Maredydd: a hyn a roddai yr orsedd, fel y sylwa Mr. PRICE, “megys camp-wobr i'r ymgeisydd mwyaf llwyddiannus:” ac yn fuan iawn y gwelid y cyfryw ymgeisyddion trachwantus yn y maes. Y cyntaf oedd *Aeden*, neu *Edwin ab Blegored*, yr hwn a ddechreuodd ei rwysg yn y Deheubarth, gan dywys y Daeniaid i Ddyfed, “trwy gynghor a phorth *Iestyn ab Gwrgan*,” pan y llosgasant Fynyw, ac y lladdasant Morgeneu, esgob Dewi. Dyma y coffa a gawn am *Aeden*, neu *Aeddan*, yn llyfr Aberpergwm:—

“Yr un flwyddyn y bu farw Ithel, tywysawg Morganwg, ac yr aeth *Gwrgan* ei fab yn ei le, a thywysog doeth heddychgar ydoedd efe; ond *Iestyn* ei fab a garai aflywodraeth, ac a fynai ryfel ac anheddwch; ac yn y flwyddyn hono y priodes ei ferch *Bleddyn ab Cynfyn*, tywysawg Powys, a'i henw *Denis*; ac efe a gafas gan Wrgan ei dad, gwmwd Tref Essyllt, ac yno y gwnaeth efe gastell, a doddi arnaw enw *Denis Powys*, ac a gymmerth attaw Aeddan ab Blegwryd ab Morgan Mawr, ac a fwrriadasant ryfel er enill cyfoeth Maredydd, ac ymbarottoi gwŷr at hyny; a danfon a wnaethant at y Daeniaid, a gwahawdd i Geredigion: ac yno y daethant, ac a losgasant Arberth. A'r flwyddyn hono hefyd y priodes Llewelyn ab Seisyllt, arglwydd Maes Essyllt, Yngharad, ferch Maredydd ab Owain, ac efe yn ŵr ieuanc nid mwy nac oed pedair blwydd ar ddeg.”

“O. C. 1000, y dyg Aeddan ab Blegwryd gad hyd yn Ngheredigiawn, ac ynnill cyfoeth Maredydd a orug, herwydd nid oedd Llewelyn ab Seisyllt hyd yn hyn yn oed gŵr, i gael braint ar gyfoeth Yngharad ei wraig; a mynedd hyd yng Ngwynedd y mynai Aeddan, ac yn ei erbyn ef y daeth Cynan ab Hywel, a bu cad ar faes rhyngddynt, lle gorfu Aeddan, ac o hyny ynnill gwlad Wynedd a'i chyfoethau. Wedi ynnill o Aeddan holl Gymru o'r mor beuglydd, efe a beris drefnu llywodraeth a chyfreithiau, ac adgyweiriaw eglwyseu a chorau a dorresid yn rhyfel: a chan nad oedd iddaw fab, efe a drefnwys yn etifedd iddaw, Rydderch, fab *Iestyn ab Gwrgan*.”

Gallwn gasglu fod y Cymry wedi cael gradd o seibiant dros yspaid deg neu bymtheng mlynedd o deyrnasiad Aeddan ab Blegwryd, gan fod y Saeson ar lawn waith gyda'r Daeniaid, y rhai erbyn hyn oeddynt wedi barnu fod yn haws iddynt ddarostwng Lloegr na Chymru; ac felly trôent eu holl egniadau i feddiannu a chadw meddiant o'r rhan hono o'r ynys; canys yn y flwyddyn 1004, *Swayne*, tywysog Denmarc, a laniodd gyda byddin gadarn ar ororau Lloegr, ac a orthrechodd *Ethelred*, brenin Lloegr, gan ei yru ar ffo i Ffrainc: ac efe a feddiannodd orsedd Lloegr, a hi a



gadwyd gan ei gydwladwyr dros dri theyrnasiad ar ei ol—sef, gan *Canute*, *Harold*, a *Haraldanute*.

Yn y flwyddyn 1015, *Llewelyn ab Seisyllt*, yr hwn erbyn hyn oedd wedi dyfod i'w gyflawn oedran, a amcanodd enill yr etifeddiaeth a'r awdurdod a olygai yn eiddo cyfiawn iddo, yn hawl ei wraig, fel merch *Mareddydd* ab *Owain*; ond *Aedan* ab *Blegwryd* a ddaliai yn gyndyn dros ei hawl yn'au, fel un yn hanu o hen freninoedd Cymru—nid amgen na *Bran ab Llyr Llediaith* a'i welygordd. Heblaw hyny, honai *Llewelyn* hawl i arglwyddiaeth *Gwynedd* hefyd, fel un a ddeilliai o freninoedd Cymru, o du ei fam, *Trawst*, ferch *Elise*, ail fab *Anarawd ab Rhodri Mawr*; felly *Llewelyn*, wedi meddiannu rhanau o'r *Deheubarth*, a gyrchodd tua'r gogledd gyda byddin gref; ac mewn brwydr a gymmerodd le yn y canlyniad, lladdwyd *Aeddan* a'i bedwar nai. Nid yw yn annhebyg fod llawer o'r gogleddwyr yn ffafrawl i'r goresgyniad yma o eiddo *Llewelyn*; gan na chyfrifent *Aeddan*, yr hwn a droisai *Iago ab Idwal*—y gwir etifedd—o'r neilldu yn ddisylw, yn ddim amgen na thrawsfeddiannwr eu gorsedd.

*Llewelyn ab Seisyllt* yntau ni ddychwelodd lywodraeth *Gwynedd* i *Iago* ab *Idwal*, ond a'i meddiannodd ei hunan—yn nghydag arglwyddiaethau *Powys* a *Deheubarth*; a bu blyneddoedd cyntaf ei deyrnasiad yn dra llywoddiannus, gan ei fod ef ei hunan yn benadur doeth, tyner, a chyfiawn, ac o anianawd heddychlawn. Ymddengys ddarford iddo osod ei frawd, *Hywel ab Seisyllt*, fel ei raglaw ar *Wynedd*, a llywodraethu holl *Gymru* rhyngddynt yn anrhydeddus a chyfiawn. Ac fel y canlyn y darlunir cyflwr y genedl yn ystod eu teyrnasiad:—"Ac yn yr amser y buant, y bu gyfoethlawg y Cymry, a'r ddaear yn gnydfawr, a'r blynyddoedd yn rhywiawg, a heddwch a chyfraith yn cael eu lle yn y wlad; ac i'r holl deulu-oedd eu tai, ac i'r holl dai eu teuluoedd; ac i bob tir ei lafurwr, ac i bob llafurwr ei dir; fel y daeth llawnder digonol i'r wlad, ac i'r holl wlad ei llawnder digonol."\*

Ond er crystal penadur oedd *Llewelyn*, yr oedd y genedl wedi ymarfer cymmaint â therfysgoedd a rhyfeloedd, fel y gellid meddwl eu bod yn blino yn fuan ar heddwch ac esmwythlder; ac am hyny, yn y flwyddyn 1020, *Meurig ab Arfue* ab *Blegwryd* a lwyddodd i gynnwll nifer mawr o wŷr dan ei luman, mewn gwrthryfel yn erbyn *Llewelyn*, ac fe dr adenill teyrnedd y wlad oddiarno; ond i'r gwrthwyneb y bu, canys *Llewelyn* a ymluyddodd i'w erbyn: ac mewn brwydr a fu rhyngddynt, *Llewelyn* a laddodd y gwrthryfelwr a'i gleddyf ei hun. Eto, yn ystod y flwyddyn ganlynol, daeth rhyw grwydryn dichellgar o *Ysgotyn*, ac a bersvadiodd lawer o bobl y *Deheudir*, ei fod yn fab i'w hen dywysog *Mareddydd* ab *Owain*, ac mai ei enw oedd *Rhun ab Mareddydd*; a chynnullodd fyddin fawr dan ei luman, i gymmydogaeth *Abergwili*. Ond *Llewelyn* a gasglodd ei fyddin o *Wyneddwyr*, ac a'i harweiniodd i gyfarfod *Rhun*, yr hwn erbyn hyn a gefnogid gan holl gryfder y *Deheubarth*; a cherllaw *Abergwili* y bu brwydr galed iawn rhyngddynt,—ond o'r diwedd, y *Gwyneddwyr* a drehasant, gan yru y *Deheuwyr* i ffoi; a chan erlyn ar ol *Rhun*, hwy a'i daliasant, ac a'i lladdasant, er ei holl ddichellion.

*Gallasad* dygwyl y buasai *Llewelyn* yn cael mwynhau cyfnod maith o heddwch bellach; ond gan i'r bradwyr fethu ei drechu ar faes teg, hwy a benderfynasant ddwyn eu hamcanion yn mlaen trwy ystrawgiau; canys fe'n hysbysir fod *Awlaff*, yn arwain y llu du a'r *Ysgotiaid* *Gwyddelig*, wedi dyfod drosodd i *Frydain* y flwyddyn ganlynol—drwy gymhelliaid *Hywel* a *Mareddydd*, meibion *Edwin ab Einion*, debygid—gan ddyrgu ffordd

\* Y Brut, tudal. 34.

y cerddai; ac efe a gyrhaeddodd hyd Dy Ddewi, ac a derodd yr eglwys, ac a anrheithiodd Ddyfed yn dost; a Hywel ab Seisyllt a aeth yn eu herbryn, ac efe a laddwyd yn y frwydr hono.

Yna y daeth yr Ysgotiaid i Gaerfyrddin, a chyda hwynt *Hywel a Mareddydd*, a llu mawr o Ddeheuwy'r gwrthryfelgar; ond Llewelyn ei hun a arweiniodd ei fyddin yn eu herbryn, ac a'u llwyr orchfygodd, gan yru Awlaff a'i fyddin ar ffo: ond yn fuan wedi enill o hono y fuddugoliaeth hon, Hywel a Mareddydd a'i llofruddiasant—naill ai a'u dwylaw eu hunain, neu trwy ddwyllaw rhyw leiddiaid a gyflogasant i'r perwyl. Y tywysog hwn oedd yr hwn a adeiladodd gastell Rhuddlan gyntaf, ac yno y cyfaneddai yn benaf. Efe a adawodd un mab ar ei ol; am yr hwn, dan yr enw *Gruffudd ab Llewelyn*, y cawn draethu eto cyn diwedd y Ddarlith hon.

Y gwarth cysylltiedig â llofruddiaeth Llewelyn ab Seisyllt a barai nad oedd un siawns i Hywel na Mareddydd gael eu dyrchafu i benaduriaeth Gwynedd, gan hyny rhoddid arfod manteisiol i *Iago ab Idwal ab Meurig* i ymestyn am y deyrngadair, ar farwolaeth Llewelyn; felly efe a ddewiswyd i lywodraethu ar Wynedd. Yn y cyfamser, *Rhydderch ab Iestyn* a gymmerth feddiant o orsedd y Deheubarth trwy rym arfau; ac felly, bu raid i Hywel a Mareddydd fod yn dawel dros rai blyneddoedd. Ond o'r diwedd, hwy a aethant drosodd i'r Iwerddon, ac a gyflogasant lu cadarn o'r Ysgodogion Gwyddelig, y rhai a ddygasant drosodd i'r Deheubarth, yn erbyn Rhydderch ab Iestyn, yr hwn a laddwyd ganddynt mewn brwydr, ac felly yr adfeddiannasant lywodraeth y Deheubarth; ond ni chwasant heddwch hir, canys *Iestyn ab Gwrgan*, tywysog Morganwg, a gynnorthwyodd ei wyrion, meib Rhydderch, i ddodi cad ar faes yn erbyn Hywel a Mareddydd, a'r canlyniad fu brwydr Traethwy, neu Hiraethwy, lle y gyrrwyd Iestyn a'i wyrion ar ffo. Y flwyddyn ganlyn, lladdwyd *Mareddydd ab Edwyn*, yn mrwydr Machwy, gan feibion *Cynan ab Seisyllt*, er dial am alanas eu hewythr; ac yn mhen ychydig wedi hyny y daeth y Saeson i Went, a *Charadawg ab Iestyn* a laddwyd, yn ymladd yn eu herbryn: yna yr aeth y Saeson rhagddynt i Forganwg, ac yn Ystradywain y'u gwrthladdwyd drachefn; ond yn y frwydr hono lladdwyd *Cynan ab Seisyllt*, a'i holl feibion. Yna y daeth *Rhotpert ab Seisyllt*, arglwydd Maes Essyllt, a brawd *Cynan*, yn eu herbryn; ac efe a ruthrodd arnynt yn Llanecwynan, gan ladd llawer o honynt, a gyru y gweddill i ffoi yn warthus, a dwyn oddiarnynt eu holl yspail fawr. Ar yr achlysur yma yr ymheddychodd *Iestyn ab Gwrgan* â *Rhotpert ab Seisyllt*; a chan ei fod yn awr yn weddw, efe a geisiodd ferch hynaf Rhotpert, yr hon a elwid *Arddu*, yn wraig; ond ni chydysyniai ei thad â hyny, am fod Iestyn yn ben; ac am hyny Iestyn, wedi gwyllo ei gyfle, a wnaeth yr un sarhad â hi ag a wnelai efe â merched ereill o bendeigion y dywysogaeth. Yr ymddygiad yma a gythruddodd Rhotpert yn dost, ac efe a wahoddodd ei nai, *Gruffudd ab Llewelyn*, i ymosod ar Iestyn, er dial y cyfryw sarhad; yn ol yr anogiad yma, Gruffudd a gynnullodd ato lawer o wŷr, ac wedi cyflawni amcanion ei ewythr yn y Deheubarth, a deall ei fod yn boblogaidd yn y wlad, ar gyirif ei dad clodforus, efe a drodd tua'r gogleddbarth, gan gymmeryd rhyw esgus i ymosod ar Iago ab Idwal—fioedigaeth Hywel ab Edwyn ato, ar ol ei orchfygu gan Gruffudd yn Mhencadair, medd rhai; ac erbyn i Gruffudd gyrhaedd hyd Wynedd, yr oedd ganddo lu dirfawr, ac yn eu mysg rai o filwyr dewisolaf y wlad, y rhai a fuasant yn ymladd dan ei dad enwog lawer gwaith; ac mewn brwydr galed, lladdwyd Iago. Gruffudd erbyn hyn a gymmerth arno lywodraeth Cymru oll, "o for Udd hyd yn mor Hafren." Y tywysog Iago a adawodd fab ar ei ol, o'r enw *Cynan*; ond gorfu i hwnw ffoi i'r Iwerddon.

Prin y cafodd Gruffudd esgyn i'r orsedd, na ddaeth lluoedd unedig y Saeson a'r Daeniaid i ymosod ar ei wlad; yna y tywysog ieuanc a arweiniodd ei fyddin i'w herbryn, ac efe a gyfarfu â hwy wrth *Ryd y Groes*, ar Hafren, lle y rhoddodd gurfa drwyadl iddynt, fel y bu dda ganddynt ddianc i'w gwlad eu hunain, yn golledus a gwaradwyddus. Oddiyno efe a arweiniodd ei fyddin i Lanbadarn fawr, yr hon a lwy'r ddistrywiodd; ac yna efe a aeth trwy yr holl Ddeheubarth, gan dderbyn gwarogaeth y bobl yn mhob man; canys Hywel a ffoisai rhagddo eilwaith, wedi brwydr Llanbadarn, ac a geisiasai nodded gydag *Edwin*, brawd *Leofric*, duc y Mers, yr hwn a'i cynnorthwyodd â byddin gref o Ddaeniaid a Saeson, i dynu y dorch â Gruffudd unwaith eto; ac yn *Mhull Dyfach* y bu cad rhyngddynt; ond *Gruffudd* a enillodd y maes yno hefyd, gan ladd *Edwin*. Ond Hywel a'r rhan fwyaf o'r fyddin a ffoisant; ac fel yr oeddynt yn ffoi, daethant ar draws llu arall o Ddaeniaid a Saeson yspeilgar, y rhai oeddynt yn brysyr yn anrheithiau Dyfed, gan dybied yn ddiâu y cawsent ddwyn eu hysbail i'w llongau, cyn i neb arfogion eu goddiweddyd; ond Hywel a'i wŷr a laddasant lawer o honynt, ac a ddaliasant rai yn garcharorion, a'r lleill a ffoisant i'w llongau, ac a wnaethant eu goreu o'r dwf.

Yn un o'r cadgyrchoedd hyn, dygasai Hywel ei wraig i'w ganlyn, fel y gwelai y modd y buddugoliaethai efe ar Gruffudd; ond i'r gwrthwyneb y bu, a thrwy gyfyngder dirfawr y cafodd Hywel ddianc â'i enioes yn ysglyfaeth ganddo; ond ei wraig a syrthiodd i ddwyllaw y buddugoliaethwr, yr hwn a'i cymmerodd ac a'i cadwodd yn ordderch iddo ei hunan; ac y mae yn ddiâu mai dyma y weithred a warthruddodd fwyaf o bob peth ar enw y tywysog hwn.

Wedi y fuddugoliaeth hon, gwnaeth y tywysog Gruffudd amryw gad-ruthrau ar y cyffindiroedd, oddeutu Henffordd, gan ddwyn yspail fawr yn wastadol.

Tua'r adeg yma, sef 1042, y daeth *Cynan ab Iago ab Idwal*, yr hwn a briodasai ferch brenin Dulyd, a llu mawr o Wyddelod ganddo, drosodd i Wynedd; a thrwy ryw ystryw, efe a ddaliodd y tywysog Gruffudd yn garcharor; ond gwŷr y wlad a gyfodasant arfau, ac a achubasant eu tywysog o law ei elynion, gan ymlid y Gwyddelod, a'u gyru i'r mor, yn fawr eu colled; a bu Cynan yn llonydd am beth amser wedi'r aflwydd hwn.

Er cynnifer gwaith y baeddasiid Hywel, nid oedd wedi digaloni eto; ond efe a gynnulodd fyddin gref eto o Ddaeniaid a Saeson, a chynnifer ag a allai gael i'w gefnogi o wŷr y Deheubarth—yn mysgeirill, fe debygid fod meibion Rhydderch ab Iestyn yn ei gynnorthwyo—a thrwy dwyll a brad, lladdasant gant a haner o oreugwyr y wlad, yn Ystrad Tywi, y rhai oeddynt ffyddlawn i'r tywysog Gruffudd. Ond y tywysog a brysurodd i'w gyfarfod eto, ac ar ol eu herlid hyd Abertywi, ymladdwyd brwydr ofnadwy, yn yr hon y lladdwyd Hywel, ac agos ei holl wŷr; ac fel hyn y cyflawnwyd dialedd llwyr ar Hywel a'i deulu, am lofruddiad Llewelyn ab Seisyllt.

Fe allasid dysgwyl y cawsai Gruffudd feddiant tawel, wedi marwolaeth Hywel, o arglwyddiaeth y Deheubarth: ond *Caradawg a Rhys*, meibion Rhydderch ab Iestyn, a honent eu hawl iddi, am fod eu tad dros ychydig yspaid wedi bod yn y llywodraeth; felly hwy a ddygasant lu mawr o wŷr o Went a Morganwg i'r maes, a'r tywysog Gruffudd a arweiniodd ei fyddin i'w herbryn; ond ni bu mor lwyddiannus y tro hwn ag yr arferai: canys wedi ymladd caled hyd y nos, yr oedd y ddwy fyddin yn rhy luddedig i ail ddechreu ymladd dranoeth; ond dychwelai y ddau lu, bob un tua'u gwlad, i ymofyn adgyfnerthiad. Fel hyn y cofnodir y frwydr hynod hon yn y Brut:—

“Yn y flwyddyn 1050, y daeth Caradawc a Rhys, dau fab Rhydderch ab Iestyn, a llu mawr o wŷr Morganwg a Gwent, yn erbyn Gruffudd ab Llewelyn, er ynnill oddiarnaw lywodraeth Deheubarth—a Gruffudd yn eu herbyn; ac ymladd a fu rhynddynt annhebyg i a fu erioed, namyn y *Gad Gamlan*; a laddwyd cymmaint o bob plaid, oni orfu ar y ddau lu ymchwelyd yn eu hol, heb a ellid ei alw yn ynnill i nac un na'r llall o honynt, a gwaedlytied yr aerfa rhyngddynt.”

Yn union wedi myned y frwydr galed yma drosodd, deallai meibion Rhydderch ab Iestyn fod y Saeson wedi llosgi cestyll *Caradawg*—*sef*, Dindryfan a Threfyfered, yn Morganwg—gan ddwyn yspail ofnadwy o ŷd, a gwartheg, a defaid, a phob rhyw ddaoedd a geffynt; a bu yn llawn bryd iddynt ddychwelyd adref, rhag i ieirll y Saeson ddwyn Morganwg, eu hen dreftadaeth, oddiarnynt. Yn y cyfamser hefyd, hwyliasai Cynan ab Iago unwaith eto o'r Iwerddon, mewn llynges gref, a llu mawr o Wyddelod dan ei dwysiad, ar fedr adenill ei hawl o orsedd Gwynedd; ond cyn cyrhaedd o honynt ororau Cymru, fe'u goddiweddyd gan dymhestl fawr, yr bon a ddrylliodd amryw o'u llongau, ac a chwallowd y lleill, fel y darfu am yr hynt hon heb i Gruffudd ab Llewelyn orfod codi arf yn ei hunanddiffyniad: ac yn y canlyniad i hyn efe a gafodd ychydig seibiant, yr hwn a ddefnyddiwyd ganddo yn ddoeth i geisio ffurfio llynges at amddiffyn rhanau arforawl ei deyrnas, gan brynu rhai llongau o wledydd tramor, a llogi morwyr cyfarwydd o'r gwledydd hyny i'w hwylio: ac yn wir, nis gallwn lai na synu am na fuasai y tywysogion Cymreig o'i flaen, ac ar ei ol hefyd, wedi gwneyd mwy o ymdrech i gyfodi llynges gref—yn enwedig pan feddyliom fod cymmaint o'u gwlad yn gylchynedig gan y môr: ond ar yr un pryd, y mae hyn yn brawf mai eu prif amcan oedd cadw eu gwlad eu hunain rhag estroniaid, ac nid ymosod ar diriogaethau eu cymmydogion.

Yn y flwyddyn 1057, neu yn ol ereill 1054, cyfodai cwmwl du o'r Deheubarth eto yn erbyn Gruffudd ab Llewelyn; canys *Gruffudd ab Rhydderch ab Iestyn* a gynnullai lu tra nifeiriawg, ac a elai yn ei erbyn; “a bu cad ar faes, ac ymladd trwch a gwaedlyd;” ac yn y frwydr hono y lladdwyd *Gruffudd ab Rhydderch*.

Tua'r adeg yma, darfu i Edmwnt, brenin Lloegr, alltudio un o'i benedigion—*Algar*, iarll *Caerlleon Gawr*, yr hwn a aeth i'r Iwerddon, ac a logodd ddeunaw o longau morladronaidd, gyda'r rhai y dychwulodd efe at Gruffudd ab Llewelyn, a hwy a gytunasant i wneuthur cadgyrchiad i Loegr; ac fel yr oeddynt yn ymosod ar dalaeth Henffordd, daeth Ranwlph, nai y breuin Edward, yn eu herbyn â byddin luosog; ond yn y frwydr gyntaf, yr iarll Ranwlph a'i wŷr a ffoisant, a Gruffudd ac Algar a'u hymldiasant, ac a laddasant bum' cant o honynt: ac wedi enill y fuddugoliaeth, hwy a aethant i ddinas Henffordd, a chan ladd amryw o'r cor, llosgasant yr eglwys; ac ar ol lladd rhai o'r dinasyddion, a chymmeryd ereill yn gacharorion, hwy a ddychwelasant adref gydag yspail fawr. Y mae rhai haneswyr yn dweyd, ddarfod i'r brenin, pan glybu am hyn, gyfodi byddin gref, a'i rhoddi dan flaenoriaeth *Harold*, mab *Iarll Godwyn*, i ddial am y sarhad yma; ac i Harold fyned ar ol Gruffudd ac Algar hyd fynyddoedd Eryri; a dywaid y Brut i gad ar faes gymmeryd lle rhyngddynt, yn yr hon y buddugoliaethai y Cymry ar y fyddin freninawl: ac y mae adgymmodiad Algar â'r brenin yn fuan ar ol hyn, dychwelid Harold i Henffordd, a'i ymroad i'w diffynu â chaerau, rhag y buasai y Cymry yn ymosod arni drachefn, yn tueddu i gadarnhau y cyfryw chwedl, debygid.

Yn ebrwydd ar ol hyn, cawn ef yn gwneyd cadgyrchiad arall, gyda'r

cyffelyb lwyddiant; canys fel hyn y dywedir:—"O. C. 1059, daeth *Macht ab Harallt* i Gymru, a llu dirfawr yn ei osgorodd; a'r tywysawg Gruffudd a Macht yn ymgynffwrdd eu lluoedd, a aethant yn erbyn y Saeson, ac a ddi-ffeithiasant wlad Loegr hyd yn mhell yn ei pherfedd, a dychwelasant yn ol i Gymru âg yspail fawr ganddynt."

Ond er mor wrhydrus a llywyddiannus a fuasai y tywysog hwn yn llywodraethu Cymru dros bedair blynedd ar ddeg ar hugain, rhoddwyd pen ar ei einjoes ac ar ei lywodraeth mewn modd gwarthus, trwy frad a thwyll *Madawc Min*, esgob Bangor, yr hwn ddeugain mlynedd yn gynt, debygid, a fuasai yn prif offeryn brad a llofruddiad Llewelyn ab Seisyllt. Dywedir fod Harallt, brenin y Saeson, wedi addaw tri chant o ychain iddo am fradychu Gruffudd ab Llewelyn; ac wedi iddo gyflawni y brad a'r llofruddiaeth, gomeddai y brenin dalu yr ychain iddo; ac o dan y siomedigaeth yma, ac yn ngwyneb y peryglon yr oedd ynddynt o herwydd ei frad, efe a gymmerth long i encilio i Ddulyn, yn yr Iwerddon; ond y llestr a suddwyd yn y mor—eto ni bu colled am fywyd neb ond Madawc Min ei hunan; ac fel hyn y'u goddiweddyd â dialedd dwyfol am ei fradwriaeth.\*

Y mae lle go gryf i farnu bod Harallt, mab Edward frenin, a gyfenwid "y cyffeswr," wedi cael gan amryw o bendefigion y Deheudir ymunaw âg ef yn erbyn Gruffudd; a dywedir fod Algar, iarll Caer, wedi ei ddeoli eithwaith gan frenin Lloegr, wedi myned yn unionsyth am swcwr at Ruffudd ab Llewelyn i Ruddlan, trwy gynnorthwy yr hwn, yn nghyda llynges o Lychlyn oedd tua'r glanau, yr adferwyd ef eto i'w iarllaeth; ond disgynodd Harallt, gyda byddin gref, mor ddisymwth ar warthaf y tywysog yn ei lys yn Rhuddlan, fel nad oedd ganddo hamdden i wneyd y parotoad lleiaf i'w gwrthladd; ac nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond diane mewn llestr fach a ddigwyddodd fod yn ngenau yr afon. I ba le yr aeth y tywysog Cymreig, ar y pryd hwn, nid yw yn hysbys; ond ymddengys fod Harallt wedi erchi i'w llynges amgylchynu gororau Cymru, er ei gwneyd yn dra anhawdd iddo ddychwelyd; ac yn y cyfamser, defnyddid pob ystrywiau i geisio oeri y bobl tuag ato. Yr oedd Harallt hefyd yn cymmyrd mantais ar gyflwr dinerth a digalon pobl y wlad, i'w mathru yn gydwastad â'r llawr. Ond yr haf canlynol, cafodd Gruffudd arfod yn rhyw fodd i gyrhaedd i'r wlad, ac efe a ymroddes yn ol ei arfer i gyffroi y gogleddwyr i gyfodi yn erbyn y gorthrymwr; gan hwylio ei gamrau tua'r Deheudir, lle yr oedd hiliogaeth fradwrus Rhydderch ab Iestyn yn bradychu en gwlad a'u cenedl i'r gelyn. Ond ar y ffurdd yn Mualt, lladdwyd y tywysog *Gruffudd ab Llewelyn*—trwy frad, fel y dangoswyd—gan adael dau fab, *Mareddydd* ac *Ithel*, ar ei ol; a merch o'r enw *Nest*, yr hon wedi hynny a fu yn briod â Thrahaern ab Caradawg, tywysog y gogleddbarth.†

Wedi llofruddio y clodforus Gruffudd ab Llewelyn, fel y darluniwyd, rhanwyd arglwyddiaeth Cymru fel y canlyn, yn yr hyn debygid yr oedd llaw fawr gan y brenin Edward, a'i fab Harallt:—Y Deheubarth a roddwyd i *Mareddydd ab Owain ab Edwyn*, a Gwynedd a Phowys a roddwyd i *Bleddyn ab Cynfyn* a'i frawd *Rhiwallon*, brodyr unfam â'r tywysog blaenorol; fel y canlyn y dywaid y Brut:—

"O. C. 1062, gwedi lladd *Gruffudd ab Llewelyn*, fe ddoded *Mareddydd ab Owain* ab Edwin yn dywysawg Deheubarth gan Harallt, ac Edwart, brenin y Saeson."

\* Iolo Manuscripts, p. 611. Greal, p. 188.

† Wynne's Hist. of Wales, pp. 96, 101. Warrington's Hist. of Wales, pp. 228, 224.

"Brodyr unfam y tywyawg a las, sef Gruffudd ab Llewelyn, a gawsant Wynedd a Phowys—nid amgen, *Bleddyn ab Cynfyn ab Gwerystan*, arglwydd Cibwyr, a *Rhiwallawn* ei frawd; hwy a ddoded yn dywysogion Gwynedd a Phowys, ym mraint etifeddion tywysogion Dinefwr, o Gadell ab Rhodri Mawr. Sef etifeddes y dywysogaeth hono ydoedd *Yngharad*, ferch Maredydd ab Owain ab Hywel Dda, a fu yn wraig briod Llewelyn ab Seisyllt; a gwedi lladd Llewelyn, hi a briodes *Gynfyn ab Gwerystan*, arglwydd Cibwyr, yn Ngwent."

"A'r brodyr hyn, sef *Bleddyn* a *Rhiwallawn*, a ddygasant deyrnedd gwlad Bowys o wehelyth Brochwel Ysgithrawc, peth nid oedd iawn ei fod."

"Yr amser hyn ydd oedd *Cynan ab Iago*, cyfiawn berchen Gwynedd, ar gil yn y Werddon, ac nid oedd neb a elai yn ei blaid yng Nghymru, canys ni cherid ei wehelyth achaws eu creulondorau yn lladd a dilygeidiau a'u gwrthladdent, yn eu hannefodoldeb."

Yn fuan wedi hyn y daeth *William y Goresgynur* i Frydain, ac y dyg ei fywyd a'i goron oddiar Harallt, yn mrwydr *Hastings*: ond nid yw yn ymddangos i'r Cymry gymmeryd un rhan yn yr ymgyrch hwnw, ac y mae yn dra thebyg nad oeddynt yn teimlo nemawr ddyddordeb yn y naill blaid mwy na'r llall. Efallai na feiddiai *Bleddyn* a *Rhiwallawn* wneyd unrhyw ymdrech neillduol ar du eu hen gyfaill Harallt, rhag y buasai meibion Gruffudd ab Llewelyn yn cymmeryd mantais ar y cyfryw achlysur i adfeddiannu etifeddiaeth eu tadau. Pa fodd bynag, nyni a gawn fod *Bleddyn* a *Rhiwallawn* wedi ymunaw âg *Edric*, iarll y Mers, mewn cadgyrchiad i rannau o Loegr, tra yr oedd y brenin *William* drosodd yn Normandi; a hwy a anrheithiasant swydd Henffordd hyd Bont ar Wy, ac a ddychwelasant âg yspail fawr ganddynt. Oud erbyn dychwelyd o honnynt o'r cadgyrchiad yma, yr oedd *Maredydd* ac *Ithel*, meibion Gruffudd ab Llewelyn, wedi cynnull eu cefnogwyr dan arfau, a bu brwydro caled rhwng y ddwy-blaid yn Mechain, swydd Drefaldwyn; yr oedd gan *Bleddyn* a *Rhiwallawn* lu mawr o Saeson yn eu byddin, gan fod llawer iawn o Saeson a enciliasant o Loegr rhag gormes y Normaniaid, wedi cael caniatad y Cymry i gydwladychu â hwy yn Mhowys. Yr oedd byddin *Bleddyn* a *Rhiwallawn* yn ddau cymmaint o rif a'r eiddo *Maredydd* ac *Ithel*, y rhai a wnelid i fynu o wŷr Gwynedd, "eithr gwroldeb a'u cynnalai yn erbyn eu deurif; eithr achaws twyll a brad, colli'r maes a wnaethant." Yn y frwydr hon laddwyd *Rhiwallawn* o'r naill du, ac *Ithel* o'r tu arall, "a gorfu ar Faredydd ffoi, a *Bleddyn* a'i dilynws yn dra chaled, gan ei yru i'r mynyddoedd anialaf yn Nghymru, lle y bu farw o newyn ac anwyd. A gwedi hyny, drwy gyfnerth y Saeson, y gwladychodd *Bleddyn ab Cynfyn* yn unig frenin ar Wynedd a Phowys; a *Maredydd ab Owain ab Edwin*, drwy nerth y Saeson, ya dywysawg Deheubarth."

Yn fuan iawn ar ol hyn, tra yr oedd *Bleddyn ab Cynfyn* wedi cael Gwynedd a Phowys i'w law ei hunan, a'r wlad yn dechreu cael seibiant i gymmeryd ei hanadl mewn heddwch, torodd y danchwa wyllt allan yn y Deheubarth; canys *Caradog ab Rhydderch ab Iestyn*, wedi cyflogi llu cadarn o Normaniaid *William Fastardd*, a'u harweiniodd yn erbyn *Maredydd ab Owain*, ac yn Llanfedwy, yn swydd Forganwg, y bu brwydro caled rhyngddynt, a *Maredydd* a laddwyd yn y gad hono; ac felly yr aeth y llywodraeth i ddwyllaw *Caradawg*. Ond nis mwynhaodd yr anrhydedd yma yn hir: canys yn yr un flwyddyn "daeth y Normaniaid i Ddyfed a Cheredigion, ac a'i diffeithiasant yn filain, a *Charadawc ab Rhydderch* a ddyg lu dewisawl o wŷr Gwent a Morgauwg a Gwyr, yn eu herbyn, a'u gyru yn ol i'w llongau, a dwyn oddiarnynt eu hyspail; a hyn o waith

gwroldebus a ddyg i Garadawc lawer o gariad gwŷr Dyfed a Cheredigion, y rhai cyn no hyny ni charent wehelyth Caradawc." Ond cyn y flwyddyn ar ol y fuddugoliaeth yma, efe a fu farw o archoll a gawsai yn y rhyfel; a'i fab, *Rhydderch ab Caradawc*, a gafodd y llywodraeth yn ei le ef, ac a ddylynodd wrhydi ei dad, mewn gwrthladdiad llwyddiannus i'r Norman-iaid, y rhai a gynnygiasant oresgyn Dyfed a Cheredigion yn fuan dra-cheffn.

Yn mhen tua dwy flynedd ar ol marwolaeth Caradawg, y daeth *Rhys ab Owain ab Edwyn* o Fanaw, lle y buasai yn hir ar gil: a chan gael ei gyn-northwyo gan luaws o bendeifigion Ystrad Tywi a Brycheiniawg, efe a barodd lofruddiad y tywysog *Bleddyn ab Cynfyn*, trwy frad, wedi bod yn teyrnasu ar Ogledd Cymru yn ddoeth ac yn deilwng, dros dair blynedd ar ddeg. Heblaw ei fod yn benadur ar Wynedd a Phowys, y mae yn ymddangos ei fod yn berchenog ar diriogaethau eang o'i eiddo personol, megys yr arwyddoceir yn y llinellau canlynol:—

“Bleddyn ab Cynfyn, bob cwys,  
Ei hun bioedd hen Bowys.”

Er i Bleddyn adael amryw feibion ar ei ol, nid yw yn ymddangos i un o honynt hawlio yr orsedd ar y pryd hwn, ond ei gadael i'w cefnder, *Trahaern ab Caradawc*, yr hwn a briodasai Nest, ferch Gruffudd ab Llewelyn. Mae yn debyg i'r tywysog hwn gael ei ethol i'r llywodraeth gan bendeifigion y gogledd, ar farwolaeth Bleddyn, fel y byddent yn gadarnach i wrthsefyll hawlion *Rhys ab Owain ab Edwyn*, yr hwn a ffeiddid ganddynt ar gyfrif y modd bradwrus yn yr hwn y parasai lofruddiad Bleddyn: a Rhys, pan welodd nad oedd un gobaith iddo am orsedd Gwynedd, a anfonodd at Rydderch ab Caradawc, tywysog y Deheubarth, yr hwn yn hytrach na bod i'w wlad gael ei hanrheithio a'i gwanhau trwy ryfel, a gytunodd âg ef i gyd-lywodraethu y dywysogaeth dros ystod eu bywyd, ac i'r hwn fyddai byw hwyaf gael yr holl lywodraeth i'w law. Ond cyn pen dwy flynedd, lladdwyd *Rhydderch ab Caradawc* gan un o'i geraint ei hun, o genfien a dig am yr amod a wnelasai â Rhys ab Owain: ac o fewn yr un flwyddyn, *Goronwy a Llewelyn*, meibion *Cadwgan ab Bleddyn ab Cynfyn*, a ddaethant i'r Deheubarth, a llu mawr ganddynt, i ddial galanas eu tadcu ar Rys ab Owain; a chyda hwynt yr ymunodd *Caradawc ab Gruffudd ab Rhydderch*, a byddin gref ganddo o Went a Morganwg; ac mewn brwydr a gymmerth le yn y canlyniad, lladdwyd Rhys ab Owain a'i frawd Hywel. Fe ellir casglu oddiwrth rai cofion bod Trahaern ei hunan yn blaenori byddin ei neiaint y tro hwn, er dial galanas ei ewythr ef, a'u taid hwythau.

Erbyn hyn ymddangosai ymgeisydd arall am goron Gwynedd—sef, *Gruffudd ab Cynan ab Iago*, yr hwn a ddaeth o'r Werddon (lle y'i ganesid, tra yr oedd ei dad yn ddeoledig yn achos terfysgoedd blinion ei wlad ei hun,) a llu mawr ganddo, ac efe a oresgynodd Ynys Fon; ond fel yr oedd yn dyfod rhagddo yn ei oresgyniad o Wynedd, Trahaern ab Caradawc a'i cyfarfu yn agos i Harlech, ac a'i gyrodd ar ffo, fel y bu raid iddo ddychwelyd i'r Werddon.

Yn mhen dwy neu dair blynedd—sef, tua'r flwyddyn 1077—daeth *Rhys ab Tewdwr* o Lydaw, gan honni ei hawl i dywysogaeth y Deheubarth, fel yr etifedd cyfiawn; a llawer o wŷr goreu y wlad a ymunasant âg ef, gan fod gair uchel iddo, am ddoethineb, a phob cymhwysderau i fod yn llywodraethwr: ac felly dychwelwyd arglwyddiaeth y Deheudir i'w pherchenog priodol, o hawl a thadogaeth.

Ac er i *Gruffudd ab Cynan* fod yn aflwyddiannus yn ei gadgyrchiad

cyntaf, efe a roddes gynnyg eto yn y flwyddyn 1080, gan ddwyn gydag ef lu mawr o Ysgodogion y Werddon, ac efe a gytunasai â Rhys ab Tewdwr i'w gynnorthwyo yn ei ymdrechion i adfeddiannu ei dreftadaeth oddiar Trahaern; ac ar fynydd *Carno* y bu cad rhyngddynt, lle y lladdwyd Trahaern, a chydag ef luaws mawr o fonedd a gwerin: ac yn y canlyniad i'r frwydr hono, dymchwelodd llywodraeth Gwynedd hefyd i'w chyfiawn berchen.

Tua'r cyfnod yma yr oedd y Normaniaid yn dechreu trachwantu Cymru, fel y gwelsoem grylhwylion yn flaenorol am eu hymdrechiadau drachefn a thrachefn i oresgyn Dyfed a Cheredigion. Tua'r flwyddyn 1070, ar ol goresgyn yr ardaloedd Seisnig cyfnesawl, blaenor o'r enw *Baldwin*, a enillodd ran o Bowys, ar gyffiniau *Clawdd Offa*, ae a adeiladodd yno gastell, yr hwn a alwyd ar ei enw ef; a'r lle a geidw ei enw yn Nghymraeg hyd heddyw—sef, Trefaldwyn—ac y mae yn debyg mai dyma y sefydliad cyntaf o eiddo y Normaniaid yn Nghymru. Y flwyddyn ganlynol gwthiasant yn mlaen; a *Gwilym y Goresgynydd* ei hun a aeth gyda byddin luosawg hyd Gaerlleon-gawr, lle yr adeiladodd gastell cryf, yn yr hwn y gosododd raglaw dan yr enw *Iarll Caerlleon*: a'r blinder mynych a barai y Cymry i'r sefydliad yma, a barai i'r ail iarll a sefydlasid yn y fan hon—sef, Huw Fleiddyn—groesi yr afon Dyfrdwy, a goresgyn rhan o'r wlad, a elwir yn awr swydd Ffiint, gan adeiladu castell yn Rhuddlan, a dodi un o'i swyddogion yn llywydd yno: a chastell arall a adeileddid yn Malpas, ar gyffiniau Cymru, ac a roddwyd i gadwraeth gwarchodlu Normanaidd; a gwarchodluoedd y cestyll hyn a arferent y creulonderau mwyaf at y Cymry, gan eu lladd a dwyn eu meddiannau yn ddiarbed hyd y gallent.

Y mae yn beth tra nodedig na wnaeth y brenin *William y Goresgynydd* un ymosodiad ar Gymru, nac un cynnyg at ddarostwng y wlad dan ei lywodraeth; yn unig efe a aeth drwy ran o honi, ar bererindod i Dy Ddewi yn y flwyddyn 1085, yr hyn a wnaeth gyda rhwyg mawr, a chyda byddin gref; a'r hanesyddion Seisnig a haerant iddo, ar hyn o achos, dderbyn darostyngiad y tywysogion Cymreig; ond y mae yn amlwg eu bod yn camsynied. Pe buasai efe yn gallu bwrw un hawl i Gymru, neu yn barnu y buasai yn alluog i enill y wlad, ni buasai y fath wr ag ef yn esgeuluso ei adeg, ond y buasai yn ddigon awyddus i chwaneu Cymru at ei feddiannau ereill: eithr yr oedd efe yn ddyn synwrol a chraff iawn, a gwelsai yn ddiau ddigon o anianawd y Cymry ar ffiniau Lloegr i beri iddo ymbwyllo rhag cyffroi gelyniaeth y fath genedl ryfelgar i'w erbyn, ac felly beryglu parhad ei feddiant heddychol o Loegr ei hunan; ac os derbyniodd ryw barch, dan rith teyrnged, gan rai o'r pendefigion y teithiai trwy eu tiriogaethau ar ei bererindod, diau ei fod yn gweled yn oreu boddloni ar hyn, heb geisio ychwaneg: yn unig ei ieirll, fel y crybwyllwyd uchod, a geisient ymwithio yn raddol i gyrion Cymru, ar fedr ei goresgyn bob yn ychydig, mae yn debyg.

Yn y flwyddyn 1087, bu farw y *Goresgynydd*, gan adael yr orsedd i'w fab, *William Rufus*, a gyfenwid "Y Brenin Coch;" ac yn ei deyrnasiad ef y gwnaeth y Normaniaid ymosodiad arall ar Gymru, ac a enillasant swydd Forganwg yn y Deheudir, megys y gwnaethent eisoes â swydd Ffiint, yn y gogledd: ac fel hyn yr adroddir y bu:—

Yn y flwyddyn 1087 y bu farw *Cadifor ab Collwyn*, arglwydd Dyfed; a'i feibion ef, *Llewelyn* ac *Einion*, a'i frawd, *Einion ab Collwyn*, a anogasant *Gruffudd ab Maredydd* i gyfodi mewn gwrthryfel yn erbyn Rhys ab Tewdwr, yr hwn oedd eisoes mewn rhyfel ág Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg; ond yr hen dywysog a'u cyfarfu yn Llandudoch, ac yn y frwydr cymmerid Gruffudd ab Maredydd i ddalfa, a lladdwyd Llewelyn



ac Einion, meibion Cadifor; ac Einion ab Collwyn a ffodd at Iestyn, i'r hwn yr adroddodd ei helynt; a chan fod Einion wedi bod yn swyddog yn myddin brenin Lloegr, ac yn ymladd ei ryfeloedd yn Ffrainc a manau ereill, a'i fod yn sefyll yn uchel ei gymmeriad gyda'r brenin a'i farchogion, Iestyn a addunedodd roddi ei ferch yn wraig iddo, os gallai efe lwyddo i gael cyfnerthiad iddo o Loegr yn erbyn Rhys ab Tewdwr, ac y rhoddai arglwyddiaeth Meisgyn yn waddol iddo gyda'r ferch ddywededig.

Felly Einion a aeth i Lundain, ac a amododd â *Robert Fitzhamon*, un o'r tywysogion Normanaidd, a chefnider i'r Brenin Coch, i ddyfod yn gyfnerth i Iestyn yn Morganwg; a hwnw drachefn a enillodd ddeuddeg o farchogion urddasol ereill i ymuno âg ef yn y cadgyrchiad; a hwy a ddaethant, a'u lluoedd arfog gyda hwynt, at Iestyn i Forganwg; ac wedi uno eu lluoedd a threfnu y fyddin, hwy a aethant i wledydd Rhys ab Tewdwr, gan ladd a llosgi y ffordd y cerddynt. Yr hen dywysog dewrywch, er ei fod uwchlaw deg a phedwar ugain oed ar y pryd, a gynnulodd ei filwyr yn nghyd, ac a'u harweiniodd yn bersonol i gyfarfod y gwrthryfelwyr a'u cynghreirwyr; ac ar y mynydd du, Brycheiniog, y bu cad rhyngddynt, a chaled iawn a fu yr ymladd, nes oedd byddin Rhys wedi ei llwyr ddyfetha o'r bron; yna y ffodd yr hen dywysog; ond Iestyn, gan ei ymlid, a'i goddiwedodd yn Nglyn Rhodnen, lle y torodd ei ben; ac o'r herwydd y galwyd y lle "*Pen Rhys*." Dalwyd a lladdwyd *Goronwy ab Rhys* hefyd; a mab arall iddo, o'r enw *Cynan*, a ymlidid mor galed fel y neidiodd i lyn a elwid Cremlyn, gerllaw Abertawe, ac yno y boddodd ef a llawer o wŷr, ac am hyny y gelwir y pwll mwyach "*Pwll Cynan*."

Yna Iestyn a dalodd eu bodd yn aur coeth i Robert ab Amon a'i farchogion, mewn lle a elwir er cof am y peth "*Y filld'r aur*," a hwy a ymchwelasant yn ol tua Llundain. Einion ab Collwyn yntau a aeth at Iestyn i ofyn ei ferch yn wraig, a'r cyfoeth a addawsai yn waddol i'w chanlyn: ond Iestyn a'i gomeddai gan chwerthin, a dywedyd y gwnelai efe yn well o'i ferch na'i rhoddi ar enw bradwr gwlad ac arglwydd. Yn Einion a lidiodd yn ddirfawr, ac a brysurodd ar ol Robert ab Amon a'i osgordd, ac wedi eu goddiweddyd, mynegai iddynt mor ffals a thrahaus yr ymddygasai Iestyn tuag ato; dangosai iddynt hefyd mor anghymeradwy oedd Iestyn yn meddyliau goreuwr y wlad hono; gan alw eu sylw at frasder y wlad, a'r hawsedd i'w henill oddiar Iestyn. Yna *Fitzhamon* a'i farchogion a droisant yn ol, ac a ddisgynasant ar Iestyn yn annysgwyliadwy, gan ei yru ar ffo, a chymeryd meddiant o'i diriogaethau brasaf iddynt eu hunain, a'r rhanau mynyddig a roisant hwy i Einion.

Ac yn y modd canlynol y rhanwyd Morganwg, medd Powel, ar awdurdod Syr E. Stradling:—

1. Robert Fitzhamon.....	Caerdydd.
2. William de Lwmdwn.....	Aberogwr.
3. Riccard Grinfil.....	Castellnedd.
4. Paen Twrbil.....	Y Coetty.
5. Robert de Sancwintin.....	Llanfeiddian Fawr.
6. Riccard Siwart.....	Tal y fan.
7. Gilbert Wmffretil.....	Penmarc.
8. Reinallt Sili.....	Abersele.
9. Rossar Berelos.....	Llandathau.
10. Peter Leswr.....	Llanbedr ar Ffre.
11. Olifer Sainion.....	Abernant.
12. Ieuan Fleming.....	Llanymfelwyn.
13. William Desterling.....	Llanymwerydd.

Wrth weled llwyddiant *Fitzhamon* a'i farchogion yn Morganwg, daeth heigiau o'r Normaniaid gwancus, ac a ymsefydlasant ar hyd y gororan, fel y gwelir wrth y rhestr ganlynol:—

Roger Montgomery .....	Iarll Amwythig.
Huw Fleiddyn .....	” Caer.
Arnwlph, mab Roger Montgomery .....	Arglwyddiaeth Dyfed.
Bernard de Newmarch .....	” Brecheiniog.
Ralph Mortimer .....	” Elfel.
Hugh de Lacy .....	” Ewas.
Eustace Cruer .....	” y Wyddgrug.
Fitzalan .....	” Clunwy.
Drogo de Baladun .....	” y Fenni.
Monthault .....	” Pen ar lág.
Gilbert .....	” Trefynwy.
F. Fitzwarren .....	” y Drewen.
R. le Strange .....	” Elesmere.
Martyn .....	” Cemmes.
De Breos .....	” Buallt.

Y rhai hyn a adeiledynt gestyll yn eu harglwyddiaethau, ac a gadwent warchodluoedd arfog ynddynt, gan ddysgwyl (fel barcutiaid am ysglyf-aeth) am arfod i ddisgyn ar rai o'u cymmydogion Cymreig, er eu hysbeilio; ac nid oes ddawn a ddichon ddarlunio pa faint a ddyoddefodd ein tadau o gam a cholled oddiar eu dwylaw.

Bellach, dychwelwn at hanes *Gruffudd ab Cynan*, yr hwn fel y gwelsom a enillasai arglwyddiaeth *Gwynedd a Phowys* trwy fuddugoliaeth Carno. Yn lled fuan ar ol ei sefydliad yn y llywodraeth, efe a fradychwyd gan un o'r enw *Meirïouen Goch*, i ddwylaw ieirll Caer a'r Amwythig, y rhai a gyfleasant fyddin o arfogion dan gél yn Nghoed Rug, a thra yr oedd Gruffudd yn dyfod yno i gynnalddu â'r ieirll yn heddychol, debygasai efe, rhuthrid arno gan y milwyr, a dygid ef yn rhwym i gastell Caer, lle y'i cadwyd yn garcharor am ddeuddeng mlynedd, medd haneswyr; ac y mae yn ddiâu mai adeg fin dros ben a fu hon ar ein cyndadau, pan oedd-ynt heb dywysog o'r eiddynt eu hunain yn Ngwynedd na Deheubarth, a'r Normaniaid yn ddiwyd a dichellgar yn parhau i dynu careiau o'u gwlad, i'w chwaneu at eu hetiffeddiaethau eu hunain. Ond o'r diwedd, gŵr o Edeyrnion, a gyfenwid "*Cynric Hir*," wedi dyfod i Gaer, ac ychydig gyfeillion i'w ganlyn, i brynu eu hangenrheidiau, a ddyg ei frenin yn ei lyfftheiriau o'r castell, yn mrig yr hwyr, tra yr oedd y ceidwaid yn gwledda, ac a'i porthodd dan gél yn ei dŷ ei hun dros rai dyddiau; yna, efe a ddygpwyd ar hyd nos hyd yn Mon, lle y'i cynnellid dros ychydig ddyddiau gan un *Sandde ab Aere*, ac oddiyno efe a gymmerth long, ar fedr hwylio i'r Werddon; ac wedi dyfod drwy lawer o helyntoedd peryglus, nas goddef fy finiau i mi eu crybwyll yn awr, efe a adenillodd ei wlad; ac yn fuan iawn cyfarfyddwn âg ef—wedi ymosod ar y cestyll Normanaidd oeddnt yn Ngwynedd, a'u dwyn oddiar ei elynion yn dra llwyr—yn wynebu gyda *Chadwgan ab Bleddyn*, a byddin gref danynt, i geisio gwar-edu eu brodyr yn y Deheubarth oddtan yr unrhyw iau ormesol, yn baeddu y Normaniaid mewn amryw frwydrau, ac yn aurheithaw Caer-wrangan, Henffordd, a'r Mwythig, nes oedd eu harswyd wedi disgyn ar drigolion y cyffindiroedd. O'r diwedd, *Gwilym Goch*, brenin Lloegr, a welodd yn angenrheidiol rhoddi ei holl rym ar waith i geisio darostwng y fath elyn; ond er iddo arwain ei fyddin anferth i berfedd y wlad yr oedd

Gruffudd ab Cynan a'i fyddin yn gwylied ei ysgogiadau mor fanol, yn mylchau y mynyddoedd, fel y gwelodd ei fod mewn perygl o golli Lloegr wrth geisio goresgyn Cymru, ac o golli ei fywyd wrth geisio dial ar y tywysog Cymreig; ac am hynny efe a ddychwelodd adref, nid yn unig yn ddilwydd, ond yn golledus a chywilyddus. Y tywysogion Cymreig, ar enciliaid y Saeson, gan ymhyfhau yn eu llwyddiant, a anturiasant i warchae ar gastell Trefaldwyn, yr hwn a gyfrifid yn gryfaf yn Nghymru; ac er dewred y'i hamddiffynid gan y Normaniaid, y Cymry a gloddiasant dan ei sylfeini, ac wedi ei gymmeryd trwy ruthrgyrch, a laddasant yr holl warchodlu â min y cleddyf, ac a wnaethant y castell yn gydwastad â'r llawr; ac yn ystod y cadgyrchoedd hyn, lladdwyd Iarll y Mwythig, Iarll Caerloyw, ac amryw bendefigion ereill.

Y brenin *William*, wedi ymgynnddeiriogi gan golledion a gwaradwydd ei gadgyrchiad blaenorol, a arweiniodd fyddin freninol i Gymru yr ail waith; ond fel yr oedd efe yn neshau i'r mynydd-dir, y Cymry a dorent ymaith ei arlwyon, ac a laddent ei wŷr a'i feirch yn ymylon ei fyddin beunydd, ac eto a ymgadwent o gyrhaedd arllwysiad ei gyuddaredd, fel ag y bu raid iddo ddychwelyd y tro hwn eto, heb elwa dim ar ei daith, ond ychwanegu at ei waradwydd.

Yna ieirll y cyffindiroedd a gyfunasant eu holl nerth, i gyfodi byddin gref, yr hon a roddid dan lywyddiaeth *Iarll y Mwythig*, *Iarll Caer*, ac *Owain ab Edwyn*, arglwydd Tegeingl, a rhai pendefigion enwog ereill o Wynedd, a droisant yn fradwyr i'w brenin; yr hwn, gan fod yn analluog yn y fan i godi byddin ddigon cref i'w gwrthsefyll, ac heb fod yn sicr yn mhwy o'i gydgenedl y gallai ymddiried, gan fod rhai o'i gyfneseifaid a'i brif gynghorwyr wedi troi yn fradwyr iddo, a farnodd yn ddoeth iddo ef a thywysog Powys, *Cadwgan ab Bleddyn*, encilio dros yspaid i'r Werddon; ac yn eu habsenoldeb, yr ieirll dywededig a arferasant y creulonderau mwyaf barbaraidd tuag at y trigolion, yn enwedig yn ynys Fon, lle y bu y ddau iarll yn aros dros beth amser—yn Nghastell Aberllynnau, neu Lleiniog, yn Mhenmon: ond tra yr oeddynt yno, ymddangosai llynges *Magnus*, brenin Llychlyn, yn yr afon, er dial sarhad Gruffudd ab Cynan; a bu brwydr galed goris castell Lleiniog, yn yr hon yr oedd Iarll y Mwythig ar ei farch, yn orchuddiedig (oddiethr ei lygaid) gan arfwig ddur; a Magnus, gan sefyll ar flaen ei long, a ollyngodd saeth ato, gan ei anelu yn ei lygad, fel y syrthiodd yn farw yn y fan. Ar hyn, y lloedd estronol a giliasant o Ynys Fon, a dychwelodd Gruffudd ab Cynan a Chadwgan ab Bleddyn o'r Werddon yn fuan, wedi bod yno ddwy flynedd, a hwy a anfonasant genhadau at Iarll Caer, i ymheddychu âg ef; ac yn y canlyniad i hyn, bu Gruffudd ab Cynan fyw yn llonydd dros amryw flyneddau yn ei diriogaeth ei hun yn Mon, a Chadwgan a gafodd ran o Geredigion a Phowys. Yn ystod y blyneddoedd nesaf, gallem feddwl fod Gwynedd yn mwynhau gradd o lonyddwch; ond yr oedd cyflwr pethau yn fwy terfysgld yn Mhowys a Cheredigion, trwy ddrygedd meibion Cadwgan, a rhyw fan bendefigion ereill.

Yn y flwyddyn 1113, y brenin Harri I., gan benderfynu llwyr oresgyn Cymru—dan yr esgus fod Gruffudd ab Cynan yn esgeuluso talu y deyrnedd iddo; a bod ei wŷr ef, a'r eiddo *Goronwy ab Owain ab Edwyn*, arglwydd Tegeingl, yn anrheithio rhanau o swydd Gaerlleon—a ddyg dair byddin gref yn erbyn y dywysogaeth; un dan arweiniad *Gilbert*, iarll Strigyll, yr hon a gynnwysai holl gadernid pedwaredd ran Lloegr a Chernyw, ac yr oedd i fyned yn erbyn y Deheubarth; yr ail a roddes efe dan dywysiad *Alexander*, brenin yr Alban, a *Hugh*, iarll Caer, ac a gynnwysai lloedd yr Alban a gogledd Lloegr, a'i dyben oedd myned yn

erbyn Gwynedd; y drydedd a gynnwysai luoedd perfeddwlad Lloegr, ac yr oedd dan dywysiad y brenin ei hun. Ond wedi yr holl rwyg yma, dealodd Harri fod y Cymry yn anorchfygol yn y mynyddoedd, ac am hyny arferwyd pob ystrywiau; ac o'r diwedd llwyddwyd i gael gan *Gruffudd ab Cynan* ac *Owain ab Cadwgan* ymgymmodi â'r brenin, ar yr hyn y dychwelodd i'w wlad ei hun, wedi methu cyflawni ei lw, o ladd pob creadur byw yn Nghymru.

Yn ddioced bron wedi terfyniad y cadgyrchiad blaenorol, sef yn y flwyddyn 1116, *Gruffudd ab Rhys*, wedi cyrhaedd y Deheubarth o'r Werddon, lle y magesid ef er marwolaeth ei dad, a gynnulodd ei bleidwyr, ac a warchaeodd ar gastell Arberth, ac wedi ei gymmeryd, efe a'i torodd yn gydwestad â'r llawr; ac wedi ymosod ar gestyll Llanymddyfri ac Abertawe, a llosgi rhanau o honynt, a lladd amryw o'r ceidwaid, aeth cryn son am dano, a lluaws o wŷr ieuainc a ymgynullasant ato, hyd onid aeth ei lu yn fawr iawn: ac efe a wnaeth aml gyrchiadau i Ros a Dyfed, gan ddiffodi ac yspeilio y wlad. Ac o'r diwedd, gwŷr Ceredigion, wrth glywed am ei wrhydri, a anfonasant am dano, ac a'i hetholasant yn flaenor iddynt, gan lawn fwrïadu gyru yr estroniaid gormesol o'u gwlad; a hwy a gymmerasant gastell *Blaen Porth Gwythan*, castell *Ystrad Peithyll*, &c. ac a lwyddasant i adfeddiannu llawer o'u tiriogaethau.

Yn y flwyddyn 1135, bu farw y brenin *Harri y Cyntaf*, a'i nai *Ystephan* a ddaeth i orsedd Lloegr yn ei le; y fan, wedi i'r newydd gyrhaedd Cymru, ymddadebrodd yspryd rhyddid ac annibyniaeth drwy yr holl wlad: ac hyd yn nod *Gruffudd ab Cynan*, yr hwn a ymgadasai cyhyd mor ffyddlawn i'r brenin Harri, fel na chefnogai unrhyw ymdrech o eiddo ei gydgenedl i frwr ei iau oddiar eu gwarau, a'i teimlai ei hun yn rhydd bellach i gefnogi eu gwrthladdiad i'r Saeson; canys yr ydym yn cael fod ei feibion—*Cadwaladr* ac *Owain*, yn nghyda'u byddin—yn cynnorthwyo *Gruffudd ab Rhys*, yn fuan yn y teyrnasiad yma, i yru yr estroniaid o Geredigion; ac mor llwyr y llwyddasant, fel y cawn adroddiad am dano yn gwneyd gwledd freninol ar ei adferiad i'r deyrnedd:—

“Wedi adynnill ei diroedd, fe wnaeth *Gruffudd ab Rhys* wledd anrhydeddus yn Ystrad Tywi; lle y gwahoddes attaw bawb a ddeuent yn heddwch o Wynedd, a Phowys, a Dehenbarth, a Morganwg, a'r Mers; a pharottoi pob moethus o fwydydd a diodydd, a phob ymryson doethineb, a phob diddanwch cerdd arwest a cherdd dannau, a chroesawi prydyddion a cherddorion, a chynnal pob chwareuon hud a lledrith, a phob arddangos, a phob campau gwrolion. Ac i'r wledd hono y daeth *Gruffudd ab Cynan* a'i feibion, a llawer o'r pendeigion ym mhob ardal yn Nghymru: a chynnal y wledd dros ddeugain niwrnod: ac yna gollwng pawb tua'u cartrefi, a dodi rhoddion anrhydeddus i a'u dirperynt o feirdd, a cherddorion, a champusion o bob rhyw.”

“Wedi'r wledd hono, fe ymroddes *Gruffudd ab Rhys* i alw attaw y gwŷr doethion a'r ysgoleigion, a myned yn eu cynghor, a dodi trefn a chyfraith ar bawb o fewn ei gyfoeth, a threfnu llys yn mhob cantref, a rhaglaw yn mhob cwmwd: a'r un peth a wnaeth *Gruffudd ab Cynan* yn Ngwynedd. A drwg fu gan y Ffrancod a'r Saeson weled y pethau hyny, a dodi cwyn yn erbyn y ddau dywysawg at y brenin *Ystyffan* a wnaethant; ac am nas gwyddai *Ystyffan* a fai oreu, ni ddodes ateb i'r ofynau.”

Y mae gwaith y tywysogion yn ymroddi fel hyn i ddiwygio cyfreithiau, a choledd llenoriaeth a barddoniaeth cenedlaethol, yn brawf eu bod yn cael seibiant cymhariaethol gan eu holl elynion: ac nid rhyfedd bod hyn yn ddrwg yn ngolwg yr estroniaid Normanaidd a gyfaneddyt ar ymylau eu gwlad; canys yr oeddynt yn ddigon synwrol i ganfod nad oedd dim

a dueddai gymmaint i'w cryfhau a'u mawrhau fel cenedl, a'r cyfryw gol-eddiad ar egwyddorion iawndrefn, gwybodaeth, a dysg : a phe buasai y Cymry wedi bod yn fwy ymroddgar yn erlyniad yr amcanion hyn, yn lle cymmeryd eu harwain gan bob crach bende : g, i dywallt gwaed eu gilydd mewn brwydrau didor, diau y buasent yn liawer galluocach i gadw treis-wyr estronaidd o'u gwlad.

Yn fuan iawn ar ol hyn y bu farw y ddau dywysog enwog uchod, am yr hyn y cawn y crybwyllion canlynol yn y Brut:—"O. C. 1136, bu farw *Gruffudd ab Rhys*, y gwrolaf, a'r doethaf, a'r trugarocaf, a'r haelionusaf, a'r cyfiawnaf o'r holl dywysogion ; a mawr y bu'r galar o'i farw. A *Rhys* ei fab a gymmerth ei le ; a'i fam ef (sef gwraig *Gruffudd ab Rhys*) oedd *Gwenllian*, merch *Gruffudd ab Cynan*."

Yn dra buan ar ol marwolaeth y tywysog enwog yma yn y Deheubarth, yr hwn nid oedd ond prin haner can' mlwydd oed, y bu farw ei dad-yn-nghyfraith hybarchus, *Gruffudd ab Cynan*, yn bedwar ugain a dwy flywydd oed, wedi bod yn y meddiant o'r orsedd dros yn agos i haner can' mlynedd. Mae yn wir ei fod, dros ran fawr o ddechreuad yr amser hwnw, mewn alltudiaeth—yn ffoedig neu yn garcharor ; eto, y mae yn amlwg na chydabyddai ei genedl ei hun neb arall yn deilwng i gymmyrd ei gadair yn ei absenoldeb : a'r gyfran olaf o'i deyrnasiad oedd yn dawel ac yn llwyddiannus, megys ambell brydnawn tawel a hyfyrd ar ol boreu dryghinawg, fel y darlunir yn y traethawd am ei fuchedd:—"Ac wedi hyn y gwladychodd *Gruffudd* lawer o flynyddoedd yn hyrwydd gyf-oethog, gan arafwch a heddwch, ac yn arfer o gymmydogaeth y brenin-oedd nesaf iddo yn gyfun—nid amgen, *Harri*, frenin Lloegr, a *Murcath*, frenin Iwerddon, a brenin ynysodd Denmarc ; a hynod amlwg fu, yn y teyrnasiad pell oddiwrtho, ac yn y rhai agos iddo : ac felly yr amlhaodd pob rhyw dda yn Ngwynedd, ac y dechreuodd y trigolion adeiladu eglwysydd yn mhob cyfeiryd ynddi, a hau coedydd, ac eu plannu, a gwneuthur perllanau murddin, ac ymborth o ffrwythau y ddaear, o ddef-awt gwyr Rhufain."

Y mae yn amlwg oddiwrth y dyfyniad uchod, fod gwelliannau mawrion wedi cymmeryd lle yn mysg trigolion y gogleddbarth, yn ystod y rhan olaf o deyrnasiad *Gruffudd ab Cynan* ; er nad udgenir ei glod yn gym-maint gan haneswyr a phe y buasai wedi treulio ei oes i wanhau ei dywysogaeth, trwy ryfeloedd didor ag arglwyddi y cyffindiroedd.

Dywedir hefyd ddarfod iddo wneyd amryw ddiwygiadau yn nghyfreithiau ei dywysogaeth, yn enwedig y rhai perthynol i *Gerddoriaeth* : fel hyn y mynegir—"Gruffudd ab Cynan, brenin Gwynedd, a gynnaliodd Eisteddfod at y cyfryw amcan yn Nghaerwys, i ba le y cyrchodd holl gerddorion Cymru, a rhai hefyd o Loegr ac o'r Alban ; pan y dirmygai y Cymry ymarfer â phibau, ac mewn rhan a waherddid ganddynt ; pan yw Ysgod-awg oedd yn rhagori ar bawb yn y cyfarfod hwnw o ganu pib, ac i ba un y rhoddes *Gruffudd ab Cynan* y *Bib Aur*, yn arwydd o'i orchest yn pib-anu. Y cyfreithiau a sefydlwyd yno sydd eto yn parhau, ac y maent y dydd hwn yn gyfarwyddyd i gerddorion holl Gymru. Ni cheisiodd *Gruffudd* ymyru am fraint ar y Deheubarth, am fod estroion wedi cael goresgyndawd yno yn ei amser ef, ac nis gall chwaith tywysogion De-heubarth, drwy gynnal y fath orseddau a chyfarfodau, holi braint yn Ngwynedd, mwy nag yr holes *Gruffudd* yn y Deheubarth, yn Lloegr, neu yr Alban, o ba wledydd cyrchasai amrafaelion gerddorion i'r Eisteddfod hono."

Yn yr oes yma hefyd y ffurfiwyd y defodau achawl, un o ba rai ydoedd sefydliad *Pum' Breninllwyth Cymru*, fel y canlyn:—

<i>Y Talieithiau.</i>	<i>Penau cenedl.</i>
Gwynedd .....	Gruffudd ab Cynan.
Powys .....	Bleddyn ab Cynfyn.
Deheubarth .....	Rhys ab Tewdwr.
Morganwg .....	Iestyn ab Gwrgant.
Fferyllwg, neu y wlad rhwng Gwy a Hafren ....	Elystan Glodrydd.

Gadawodd Gruffudd ab Cynan ei orsedd i'w fab hynaf, *Owain*.

## DARLITH VIII.

HELYNTION GWLADOL Y CYMRY DAN EU TYWYSOGION ;  
 . . O FARWOLAETH GRUFFUDD AB CYNAN, HYD UN-  
 IAD Y DWYWSOGAETH DAN GORON LLOEGR.

YN yr Ddarlith flaenorol, dygais fy mras adroddiad am helyntion gwladol y Cymry dan eu tywysogion i waered hyd ddiwedd oes y tywysog clodwiw Gruffudd ab Cynan. Efe a ddylynid yn llywodraeth Gwynedd gan ei fab henaf, *Owain*, a gyfenwid "*Owain Gwynedd*;" ac ar lawer o olygiadau gellir dweyd am dano, ei fod yn fab teilwng o'i dad; canys y mae ei enw a'i goffadwriaeth yn gyfresedig yn mhllith y tywysogion clodforusaf a fu ar Gymru. Yr oedd efe yn wr o alluoedd meddwl grymus, a gwrolder nodedig; a llywodraethodd ei dalaith yn anrhydeddus dros ddeuddeng mlynedd ar hugain, gan amddiffyn ei diriogaethau yn bybyr a dewr yn erbyn ymosodiadau pob estroniaid. Bu yn llwyddiannus a buddugawl yn ei holl orchwylion a'i ryfeloedd, ac ni chymerodd un weithred mewn llaw nas galluogid ef i'w chyflawni.

Fe grybwyllwyd eisoes ei fod ef, a'i frawd *Cadwaladr*, wedi gwneuthur amryw gadgyrchiadau yn erbyn *Saeson* a *Fflandrwysiaid* y *Deheubarth*, gan gymmeryd eu cestyll a'u llosgi, tra yr oedd ei dad hybarchus yn fyw; ac wedi iddo ddyfod i feddiannu ei gyfran, fel y mab henaf, o gyfoeth ac anrhydedd ei dad, nid ymollyngodd i ymdroi mewn moethau, meddalwch, a diofalwch; ond fel tywysog dewrfryd, a llawn o ysbryd milwraidd, yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, efe a'i frawd a gyrchasant yn arfog tuag yno unwaith eto; a chymerasant gestyll *Ystrad Meurig*, *Llanstyffan*, a *Chaeurfyddin*: a chan gadw *Ceredigion* yn ei feddiant ei hun, a gorfodi *Dyfed* i dalu iddo deyrnged, efe a ddychwelodd yn ol i'w diriogaethau ei hun, wedi enill yspail werthfawr, a chlod nid bychan, iddo ei hun.

Efallai fod y llwyddiant a ddeuai i ran tywysogion Cymru, tua'r pryd hyn, i'w briodoli, mewn mesur o leiaf, i'r ymryson oedd rhwng *Stephan*, brenin *Lloegr*, a'i arglwyddi—amryw o ba rai a gyfodasant mewn gwrthryfel i'w erbyn, yntau a warchaeodd arnynt yn *Nghaer Lincoln*: ac yna rhai o arglwyddi y cyffindiroedd a ddygasant luoedd o'r Cymry gyda hwy

yn erbyn y brenin: *Robert, iarll Caerloyw*, a ddyg lu mawr gydag ef; *Rhanulff, iarll Caerlleon gawr*, a ddyg lu o wŷr Rhufoniawg a Thegeingl; a *Gilbert, iarll Clâr*, a ddyg lu o wŷr Dyfed. Daeth yr arglwyddi Seisnig hefyd a lluoedd cedyrn o drigolion Lloegr, a bu ymladd caled, yn mha un y gorthrechwyd ar y brenin, a chymmerwyd ef yn garcharor. Ac, medd y Brut, "Goreu am wrolder y gwelwyd y Cymry; ac yn yr ymladdfa yno y cymmerth *Iorwerth ab Owain ab Caradawc* y blaen ar *iarll Clâr*, a digiaw yn fawr ei lid a wnaeth yr iarll; ac efe yn gweled *Iorwerth* wrtho ei hunan, yn ymyl afon yn pysgotta, fe aeth attaw, ac a roddes iddaw fon-clust, gan ei alw yn *Gymro* gwladaidd, na wyddai foneddigeiddrwydd; yna *Iorwerth* a darawodd yr iarll â'i ddwrn oni bu farw. A phan glybwyd hyn yn Nghymru, myned a wnai y Cymry yn erbyn castell *Meibion Uchtryd* (lle ydd oedd yr iarll wedi ffoi o gastell *Caerfyrddin*), a gyru ar ffo y castellwyr, a hwy a'i hyspeiliasant ac a'i llosgasant; yna y dyg *Owain ab Gruffudd* holl *Geredigiawn* y danaw, ac a fynes ged ganthynt."

Felly, o'r ymrafael neillduol hyn y tarddodd i fynu ryfel cyffredinol, yn yr hwn y cafodd y Cymry, dan flaenoriaeth *Owain Gwynedd*. feddiant ar y rhanau hyn o *Geredigiawn*, y sawl oeddynt wedi bod yn nwyllaw y Saeson: ac os nad oes cyfeilliorni yn yr hanesiad hwn, eangwyd llywodraeth y gwron hwnw idd ei harferol gyffiniau, tua'r ardal hono, ar hyn o bryd.\*

Mewn canlyniad i hyn, debygid, y terfynodd *Stephan* ar amodau heddwch â'r Cymry, gan ganiatau iddynt gadw meddiant o'r tiriogaethau uchod a enillasant, heb dalu treth na theyrnged; o leiaf, nid yw yn ymddangos fod y cyfryw yn cael ei thalu gan neb o'r tywysogion Cymreig, hyd ddiwedd ei deyrnasiad ef.†

Nis gallaf ymatal yn y fan hon rhag rhoddi y dyfyniad canlynol, er ei fod yn lled faith, o ysgrifeniadau un o'r haneswyr enwocaf, a mwyaf di-duedd, a gyfansoddodd hanes y cyfnod dan sylw. Y mae yn werthfawr yn gymmaint a'i fod yn cynnwys tystiolaeth un o brif ddysgedigion y cyfandir i nodweddiad ein cenedl yn yr oes grybwylledig. Yr wyf yn cyfeirio at *M. Augustin Thierry*, Ffrancwr athrylithgar o'r oes bresenol—yr hwn, fel y byddai yn alluocach i hanesu y "*Goresgyniad Normanaidd*," a gymmerodd boen i ddysgu y *Gymraeg*, y *Saesneg*, a'r *Gaeleg*.‡

"O. C. 1137 hyd 1138. Tra yr oedd y pethau hyn yn myned yn mlaen yn *Ngogledd Lloegr* [cyfeiria yr hanesydd yma at yr hyn a ddywedasai o'r blaen, am gyfodiad yr *Ygotiaid*, dan eu brenin *Dafydd*, yn erbyn y *Normaniaid*,] cenedl y Cymry, yr hon a addawsai gynnorthwyo y Saeson yn eu hymgyrch am waredigaeth [odditan iau *Stephan* a'r *Normaniaid*,] gan gyflawni eu hadduned, er afluwyd yr ymgyrch crybwylledig, a ddechreuasant ymosod ar yr holl gestyll cedyrn a adeiladasai y *Normaniaid* ar eu holl gyffndiroedd. Y Cymry, cenedl o ddynton tabaid a nwyd-wyllt, a gymhellid gan fath o asbri cenedlaethol yn yr ymgyrch disymwth yma: nid arbedent neb a siaradai y dafodiaith *Ffrancaidd*: ond barwniaid, marchogion, a milwyr, mewn meddiant o diroedd Cymreig; offeiriad a myneich a wthiasid i eglwysi Cymreig, ac a gyfoethogasid â thiroedd y Cymry, a leddid yn ddiarbed, neu a yrid ar ffo o'r tiriogaethau a drawfeddiannasant. Yr oedd y Cymry yn greulawn yn yr attreisiau hyn; ond yr oeddynt hwythau wedi dyoddef creulonderau digyffelyb eu hunain, oddiar ddwyllaw y *Normaniaid* Seisnig. Darfuasai i *Huw Flaidd*, a *Robert de Malpas*, ladd neu ddeoli y rhan fwyaf o drigolion swydd *Cellt*, ar ffiniau

\* Gwel Hanes Cymru, t. d. 542, 543. † Warrington's History of Wales, p. 302

‡ *Thierry's History of the Norman Conquest*, pp. 163—166.

swydd Gaerlleon; a Robert o Ruddlan a ddaliasai gynnifer ag a allasai gael yn eu haneddau eu hunain, gan eu gwneyd yn gaethweision; dywad haneswyr yr oes hono hefyd i Robert, iarl yr Amwythig, rwygo y Cymry yn greulawn âg ewinedd o ddur a wisgai am ei fysedd i'r pwrpas hwnw. Nid ymfoddlonai goresgynwyr y genedl Seisnig ar y tiroedd cynnyrchiol a ddygasent oddiar y bobl hyny; ond yn y cyffelyb fodd, yn foreu, hwy a oresgynasant fryniau a morfeydd Cymru hefyd. Blaenoriaid y minteioedd Normanaidd a ymsefydlasant yn y taleithiau gorllewinol, a atolygent ganiatad gan y brenin Gwilym, neu gan ei feibion, i drawsfeddiannu cyfoeth y Cymry, yn ychwanegol at y cyflog addawedig iddynt.—Fe gafodd llawer y cyfryw ganiatad: ond blaenoriaid ereill, heb gael y cyfryw drwyddedau, a ymosodasant ar y Cymry, y rhai a'u gwrthasafent yn ddewr, gan amddiffyn yn wrol bob troedfedd o'u tiriogaethau.

Wedi i'r Normaniaid enill y parthau dwyreiniol o Gymru, hwy a adeiladasant res o gestyll cryfion, yn ol eu harfer, ar y cyffiniau. Y gadwaen hon o gestyll Normanaidd a gyfyngasai yn raddol ar y diriogaeth Gymreig; a phan benderfynodd y Cymry dori drwyddi yn y flwyddyn 1138, yr oedd agos holl ddeheubarth eu gwlad, dyffrynoedd Morganwg a Brycheiniog, a phenrhyn mawr Dyfed, wedi ei ysgaru oddiwrth Gymru hen. Rhwyddesid y goresgyniadau hyn gan amryfal amgylchiadau. (O.C. 1038.) Yn y lle cyntaf, yn amser *Gwilym Goch*, rhyfel cartrefol yn mysg Cymry y Deheubarth, yr hyn oedd amgylchiad rhy fynyh yn mysg y bobl hyny, a fu yn achlysur i ddwyn i fewn i Forganwg, fel cynnorthwyr llog i un o'r pleidiau, fintai o anturiaethwyr Normanaidd, dan dywysiad un Robert Fitz Aymon. Y Robert hwn, wrth ddychwelyd adref i'w diriogaethau ei hun, yn swydd Gaerloyw, wedi bod yn ymladd dros y tywysog Gymreig, a derbyn ei dâl, a fyfyriai ynddo ei hunan am amgylchiadau ei rhyfelgyrch, a'r effaith arswydus a gaffai ei wŷr a'i feirch, gorchuddiedig mewn dur, ar y Cymry—a dueddwyd i fwriadu ymweled fel goresgynwr â'r tywysog a wasanaethasai fel milwr: ac felly, wedi cynnull byddin luosocach, efe a aeth i fro Morganwg, ac a gymmerodd feddiant o'r rhanau nesaf i'r cyffindiroedd Normanaidd. (1088 hyd 1110.) Y goresgynwyr a ranasant y wlad rhyngddynt, yn ol eu gradd.—Robert Fitz Aymon a gafodd dair tref i'w ran, ac a ddaeth yn iarl yr holl diriogaeth newydd a enillasad. Yn mysg ei brif gymdeithion, mae hanesiaeth yn crybwyll *Robert de St. Quentin*, *Pierre-le-Sourd*, *Jean-le-Flamand*, a *Richard-de-Grainville*; cafodd pob un o honynt bentrefi neu dreflanau cyfain, a thiriogaethau mawrion; ac o fod yn filwyr llog cyffredin, hwy a ddaethant yn seilwyr teuluoedd pendefigaidd a galluog. Tua'r un pryd, darfu i un *Hamlin*, fab *Dru de Balaon*, adeiladu castell yn y Fenni. Anturiwr arall o'r enw *Guillaume*, a adeiladodd gastell Mynwy, ac a gymmerth arno yr enw "Gwilym o Fynwy," yr hwn er iachawdwriaeth ei enaid, a ddyroddodd eglwys Gymreig i fynych *St. Florent*, o *Saunur*; ac yn yr un gymmydogaeth, *Robert de Cendos*, neu *Chandos*, a sefydlodd ac a waddolodd nifer o fyneich Normanaidd ar diroedd a oresgynasai.

Drwy yspaid y rhyfeloedd a gyfodid gan yr ymbleidiau lluosog o Normaniaid yn erbyn Gwilym Goch, ac yn erbyn Harri I., yn mhlaid eu brawd henach, Robert—gwahoddai y ddau frenin hyny gynnifer o filwyr llog ar a allent gael o Normandi, Ffrainc, a Belgium, i'w cynnorthwyo. Y rhan fwyaf o'r rhai a groesasant y môr, mewn ufuddod i'r alwad yma, a ofnynt, fel y milwyr a ganlynasent y Goresgynwr, addewid am ryw diriogaethau yn wobrwyr eu gwasanaeth, am y rhai y talent wrïogaeth i'r breninoedd hyny yn mlaen llaw. Ar y dechreu, yr oedd y tiroedd a ddirwyd oddiar Normaniaid y blaidd wrthwynebol, yn cael eu neillduo at



dalu y dyledion hyn; a phan nad oedd y tiroedd hyny o'r diwedd yn ddigonol, gwobrwyd hwy trwy roddi trwyddedau iddynt i yspeilio y Cymry. Amryw o gadbeniaid cadresau rhyddion, y rhai a dderbynent eu cyflog yn y modd crybwylledig, a ddosbarthent y rhandiroedd cyfnesol i Forganwg yn eu mysg eu hunain, hyd yn nod cyn eu goresgyn, ac yn ol arfer yr oes, a alwent eu rhandiroedd ar eu henwau eu hunain: yna, pan y terfynodd tymhor eu gwasanaeth yn Lloegr, hwy a aethant i'r gorllewin, dan eu harfau, i gymmeryd meddiant o'u hetifeddiaethau, fel y dywudent. Yn nheyrnasiad Gwilym Goch, cymmerodd *Bernard de Neuf-Marché* feddiant fel hyn o diriogaeth Brycheiniog; ac ar ei farwolaeth, efe a'i gadawodd i'w ferch Sybilla, fel etifeddiaeth gyfreithlawn, medd y coflyfrau. (O. C. 1110.) Yn nheyrnasiad Harri I., darfu i un *Richard, iarll Eu*, Normaniad o enediggaeth, oresgyn talaith Dyfed, a chan ladd y trigolion yn ddirugaredd, hwy a'i goresgynasant yn rhwydd, gan ranu y tai, y trefydd, a'r tiriogaethau, yn eu mysg eu hunain, ac adeiladu cestyll i'w hamddiffyn eu hunain rhag cadgyrchiadau y goresgynedig. Y Fflandrwysiaid a'r Normaniaid, y rhai a gyfrifid y graddau uchaf yn y fyddin fuddugol, a gaent y rhanau helaethaf a brasaf, a'u hiliogaeth a ddaethant i fod yn arglwyddi newyddion, a thirfeddianwyr goludog y wlad; ac yn mhen cannoedd o flyneddoedd ar ol hyn, yr oedd pendeigion a thirfeddianwyr y wlad hon yn rhagddodi i'w henwau y *de*, neu y gair *file*, neu yn ol yr hen ysgrifddull, *fitz*. Hiliogaeth y Saeson, y rhai a ymrestrasant yn y rhyfelgyrch yma, a ffurfient y canolradd o fân dirfeddianwyr a rhydd dyddynwyr; a daeth eu hiaith yn iaith gyffredin y wlad oresgynedig, a gweithiodd allan yr hen iaith Gymraeg o Benfro, yr hyn a barodd i'r wlad gael ei galw '*Lloegr fach tu hwnt i Gymru*.' Bu yn y wlad uchod gofarwydd hir o'r goresgyniad crybwylledig, sef *ffordd fawr* y gellid ei holarhain ar hyd cribau y bryniau, fel nas gallai neb ddyfod ar warthaf y sawl a'i teithiai, yn un man, heb ei weled ganddynt. Gwnelid y ffordd hon gan y goresgynwyr, er rhwyddhau a dyogelu eu hymdaith o'r naill gw'r i'r llall o'r wlad; a thros amryw flyneddoedd cadwodd yr enw '*Ffordd y Fflandrwys*.'

Wedi eu calonogi gan esampl Richard, iarll Penfro, hwyliai anturwyr ereill allan, a glaniasant yn morgilfach Aberteifi; a *Martin de Tours* a oresgynodd diriogaeth Cemmaes, ac a gymmerth arno ei hunan yr enw *Arglwydd Cemmaes*, fel prif lywydd y rhan hono o'r wlad, lle y gwladychasai ei ddylynwyr arfog. Efe a roddes gyhoeddiad allan y derbynai yn roesawus yr holl Ffrancod, Fflandrwysiaid, neu hyd yn nod Saeson ganedig, a ddenent ato i chwyddo a chryfhau ei drefedigaeth, gan dyngu llw o ffyddlondeb a gwarogaeth iddo ef yn erbyn y Cymry; ac y caent diroedd a'r teitl o *rydd westeiwyr Cemmaes*, ar yr amod o'i wasanaethu. Y dref a ffurfiid gan yr anturiaethwyr hyn a elwid '*Y Dref newydd*;' a'r lle a adeiladwyd gan y blaenor, fel ei brif drigias, a alwyd dros hir amser '*Castell Martin*.' Er sancteiddio ei oresgyniad, Martin a adeiladodd eglwys a phriordy, y rhai a lanwodd efe â llenorion a ddygasai efe drosodd, drwy draul fawr, o fonachlog St. Martin o Tours. Pan fu efe farw, efe a gladdwyd mewn bedd o faen mynor, yn ei eglwys newydd; a'r offeiriad a gyfleasid yn arglwyddiaeth Cemmaes a arganmolent goffadwriaeth eu noddwr i fendithion yr holl eglwys Gristionogawl, am ei fod (meddynt hwy) trwy ei sel dduwiol, wedi adnewyddu ffydd ddirywiedig y Cymry yn y wlad hono. Yr achwyniad hwn, a ddygid o'r blaen gan yr esgobion Normanaidd, er esgusodi eu hymwthiad eu hunain, a gwarthruddiad yr holl lenorion Seisnig, a adnewyddid yn erbyn y Cymry gan yr holl rai a gawsent eglwysi neu abad-dai gan y goresgynwyr. Er rhoddi lliw o gyf-

iawnder ar eu gwaith yn diswyddo esgobion ac offeiriaid brodorawl y wlad, hwy a haerent fod yr holl gorph o honynt yn hereticaid a Christionolion drygionus. Er hyny yr oedd esgobion Cymry wedi ymheddychu âg Eglwys Rhufain er ys talm; ymostyngasant i undeb cyffredinol yr Eglwys Gatholig; ac yr oedd un o'u nifer, esgob Ty Ddewi, wedi ei addurno â'r addurnwsg archesgobawl o Rufain. Am hyny, hwy a anfonent gwynion chwerwon at y Pab, o herwydd trawsfeddianniad eu heglwysi gan estroniaid, y rhai ar yr un pryd oeddynt lwyrr amddifaid o nodwedd-iad crefyddol. Ond y Pab ni wrandawai ar y cwyn hwn, ac nid amheuau am funud fod penaethiaid a milwyr, a adsefydasant y dreth o 'geiniog Pedr,' yn farnwyr rhagorol ar yr hyn oedd dda i eneidiau dynion. Wedi yr apeliad difudd yma, y Cymry, wedi eu gyru i'r eithaf yn awr, a gymmerasant weinyddiad cyfiawnder eglwysig i'w dwylaw eu hunain; ac mewn amryfal fanau gyrasant ymaith, drwy rym arfau, yr offeiriaid estronaidd a ddfeddiannasant y llenorion Cymreig, gan drefnu yr eglwysi fel pe buasant drestadaeth bersonol.

Yr oedd y cyfryw weithredoedd o ddialedd cenedlaethol yn cymmeryd lle yn fynych yn y rhanau arforawl o Gymru, yn mhellach o Loegr, ac oddiwrth ganolbarth yr awdurdod Normanaidd. Ar lan y Menai, ar gyfer Ynys Fon, yr oedd dinas esgobawl a elwid Bangor, yr hon a oresgynwyd ar yr un pryd a'r ynys hono, gan wŷr arfog Iarll Caer; ac yn y ddinas hono yr oedd Harri I. wedi gosod esgob Normanaidd, o'r enw *Herve*; yr hwn, fel y cyflawnai y swydd esgobawl wrth feddlw y brenin, gan wybod yn dda i ba ddyben y'i cyfleasid yn y fath swydd, yn nghanol gwlad nad oedd eto prin wedi ei darostwng, a ddechreuodd dynu y cleddyf dau finig allan, medd hen awdwr, gan gyhoeddi anathemau beunyddiol yn erbyn y Cymry; ac ar yr un pryd, gan flaenori byddin o arfogion, efe a aeth allan i ryfel â hwynt. Ond ni chymmerai y Cymry eu bysgmuno a'u lladd heb wneuthur gwrthsafiad dewr; felly hwy a orchfygasant fyddin yr esgob, gan ladd un o'i frodyr, a llawer o'i wŷr, a'i yru yntau ei hun ar ffo. Dychwelai *Hervé* i Loegr, at y brenin Harri, yr hwn a'i canmolai o herwydd goddef o honaw dros grefydd, ac a addawai ei wobrwyo; a'r Pab Pascal a ysgrifennai lythyr â'i law ei hun at y brenin, yn arganmol i'w ffafwr fwy arbenig eto, y gŵr crefyddol a wnelaid fel hyn yn wrthddrych erledigaeth a chreulondeb barbaraidd.

Er hyny, yr oedd cenedl y Cymry yn llai teilwng o'r enw *barbariaid*, nag un genedl arall yn Ewrop, efallai, yn yr oes hono. Er yr holl gamwri a ddyoddefent beunydd oddiar ddwyllaw y Normaniaid Seisnig, yr oedd pawb a ymwelent â Chymru fel teithwyr, ac yn anarfog, yn sicr o gael y croesawiad mwyaf calonog yn mhob man; derbynid hwynt o'u dyfodiad cyntaf i gyfeillach deuluaid, a chyfranogent beunydd yn nifyrion cymdeithas Gymreig, prif hyfydwch pa rai oedd yn gynnwysedig mewn peroriaeth a chân. Fel hyn y dywaid awdwr a ysgrifennai yn y ddeuddegfed ganrif:—'Y rhai a gyrhaeddant yno yn y bore a ddiffyrr hyd yr hwyr âg ymddiddanion y rhanod, ac a sw'n y delyn. Yr oedd telyn yn mhob ty, pa mor dlawd bynag a fyddai y penteulu; a'r cymdeithion, gan eistedd o amgylch y perorydd, a ganent benillion ar gylch, a'r rhai hyny, weithiau, o gyfansoddiad difyfyrr. Rhoddent her-feiddiad i'w gilydd yn fynych i ganu penillion difyfyrr, gan ymdrechu i ragori mewn dawn farddonawl a pheroriaethol; a beirdd un pentref a ymorchestent yn erbyn beirdd treflan arall.'

Heblaw hyny, yr oedd y bywiogrwydd anianawl i'r llwythau Celtaidd, yn cael ei amlygu yn nodedig yn mhllith y Cymry, trwy eu gorhoffedd o ymddiddan, a ffræthder eu hatebion. 'Mae yr holl Gymry, yn ddi eithr-

iad, hyd yn nod yn mysy y graddau isaf,' medd un hen awdwr,\* 'wedi eu doniaw wrth naturiaeth â fraethder ymadrodd mawr, ac â hyfdra mawr yn eu hatebion ger bron tywysogion a gwyr mawr.'

Y Cymry, fel yr Almaeniaid, ni chynnygient byth ymosod ar diriogaethau cenedloedd ereill, allan o'u gwlad eu hunain, ond a ddymunent, yn ol un o'i hen ddiarebion, fod pob pelydr o oleuni yr haul yn ddagr i drywanu calon y sawl a garai ryfel: nid ymheddychent byth âg estron tra fyddai yn trawsfeddiannu eu tiriogaethau hwy: ie, er iddo fod yn preawyllie arno dros lawer o flyneddoedd, ac yn meddu cestyll, pentrefydd, a threfydd arnynt. Byddai blwydd-wyl llwyr ddistrywiad un o'r cyfryw gestyll, yn ddydd llawenydd cyffredinol: yn ddydd—i ddefnyddio geiriau un ysgrifenydd Cymreig †—ar yr hwn y byddai tad a gollasai ei unig fab yn anghofo ei ofid."—Ni chwanegaf ar hyn o bryd o waith yr awdwr Ffrengig dysgedig hwn, yr hwn a ddyg y fath dystiolaeth ddiuuedd i nod-weddiad ein henafiaid: ond dychwelaf i roddi ychydig o adroddiad mwy neillduol o helynt Owain Gwynedd a'i bobl.

Yr oedd llawer rhan o Gymru mewn cyfiwr tra therfysglyd tuag adeg dechreuad teyrnasiad Owain, a'r ymrysonau mwyaf gwrthun rhwng y naill a'r llall o benaethiaid ein cenedl, lle y dylasant fod fel un gwr yn gwrthsefyll y gelyn cyffredinol: fel y canfyddwn oddiwrth y byr grybwyllion a ganlyn: †—"Yn y flwyddyn 1138, lladdwyd Cynfrig ab Owain Gwynedd, gan Fadawg ab Meredydd ab Bleddyn ab Cynfyn. Ac yn 1140, y llas Hywel ab Meredydd ab Rhydderch, arglwydd y *Cantref Bychan*, gan y Ffrancod: a'r un flwyddyn y llas Hywel ab Meredydd ab Bleddyn, gan ei genedl ei hun. A bu ymryson rhwng Hywel a Chadwgan, meibion Madawg ab Idnerth, ac a laddasant y naill y llall."

Yn fuan wedi hyn hefyd digwyddodd i Anarawd, fab Gruffudd ab Rhys, tywysog y Deheubarth, yr hwn a briodasai â merch i Gadwaladr, brawd tywysog Gwynedd, amrafaelio â'i dad-yn-nghyfraith; a'r amrafael a aeth mor boeth fel yr aethant i ymladd â'u gilydd, a Chadwaladr a laddodd ei ddau Anarawd, etifedd gorsedd y Deheudir, a gobait y rhan hono o Gymru: teimlai Owain yn dra gofidus o herwydd yr ymddygiad annynol yma o-eiddo ei frawd, ac efe a'i fab Hywel a gynnullasant fyddin i ddial y cyfryw sarhad arno, ac a ddfirododd ei diriogaeth, gan losgi ei gastell yn Aberystwyth, a'i orfodi yntau i ffoi am ei einioes i'r Iwerddon: ac yno efe a gyflogodd fyddin fawr o'r Daniaid a'r Gwyddelod, i'w gynnorthwyo i ddial ei gam ar ei frawd Owain; a chyda'r bwriad hwnw, glaniodd ei fyddin yn ochr Arfon i Abermenai. Owain a brysurai i wrthladd y cyfryw oresgyniad annaturiol â byddin gref; ond cyn i'r ddwy fyddin daro, y ddau frawd a ymheddychasant; at yr hyn y cythruddodd y Gwyddelod yn ddirfawr, a hwy a gadwasant Gadwaladr yn garcharor, fel gwystl am y cyflog a addawsai efe iddynt, ac nis gollyngent ef nes rhoddi o hono iddynt ddwy fil o wartheg, heblaw yspail fawr; ond can gynted ag y deallodd Owen fod ei frawd yn rhydd o'u bachau, efe a ruthrodd arnynt yn ddisymwth, a laddodd lawer o honynt, ac a ddygodd yn eu hol yr anifeiliaid a'r holl yspail a gymmerasant; a'r rhai a ddiangasant yn fyw a dychwelasant i'w cartrefi yn gywilyddus a cholledus.

Tua'r flwyddyn ganlynol cynnullodd Hywel a Chynan, meibion Owain Gwynedd, fyddin o wŷr dewisol i fyned i'r Deheubarth, i gynnorthwyo eu ceraint, meibion Gruffudd ab Rhys ab Tewdwr, yn erbyn trais y Normaniaid a'r Fflandrwysiaid, y rhai a gyfarfuant yn agos i Aberteifi; ac ar ol

\* Giraldus Cambrensis. † Cambro Briton, vol. i., p. 137.

† Hanes Cymru, t. d. 542.

brwydr galed iawn, yn yr hon y lladdasant lawer o'r Fflandrwsiaid, y Normaniaid, a'r Saeson, hwy a gymmerasant feddiant o Aberteifi; ac wedi cymmeryd castell Caerfyrddin, a chastell meibion Uchtryd, hwy a ddychwelasant, yn llwythog o anrhaith fawr.

Yn fuan ar ol hyn, ceisiodd *Gilbert de Clare*, iarll Penfro, adenill y rhannau a gollasant o'r wlad; ac felly dyg fyddin fawr i Ddyfed, ac a adeiladodd gastell Caerfyrddin, a chastell meibion Uchtryd. Ond o fewn yr un flwyddyn, sef 1145, Rhys ab Gruffudd, a Chadell ei frawd, a ymroisant yn bybyr yn erbyn yr estroniaid, ac a'u difeddiannasant o gestyll Dinefwr, Caerfyrddin, a Llanstephan, ac a laddasant lawer o'r estroniaid; a chyn diwedd yr un flwyddyn, nynt a gawn y ddau dywysog yn ymosod ar gastell Gwys, yn Mhenfro; ond am fod hwnw yn dra chadarn, nis gallent ei enill. Am hyny hwy a anfonasant at eu car Hywel, mab Owain Gwynedd, i grefu am ei gynnorthwyl, gan ei fod yn rhyfelwr gwych a medrus; yntau a ddaeth, a byddin o wŷr glewion ganddo, at warchaead y castell; ac yno efe a barodd wneuthur peiriannau celfydd a chryffion, y rhai a dorent y muriau yn ofnadwy, ac a dafent gerig aruthrol o faint i'r castell; ac felly enillwyd hwnw hefyd. Yna y dychwelodd Hywel i Wynedd âg anrbydedd mawr.

Yn y cyfamser, nid oedd Owain yn hollol segur—er i gwmwl dudew doi drosto, ychydig cyn hyn, drwy farwolaeth disymwth ei hoffus fab Rhun, yr hwn oedd ŵr ieuanc o gynneddfau ac anianawd tra ardderchog; ac fel hyn y'i dylunir yn y Brut:—"Teg oedd o ffurf a drych, ac hynaws o ymadroddion a huawdr wrth bawb. Rhagwelawdr yn rhoddion, ufudd yn mhlith ei dylwyth, balch yn mhlith estronion, a therwyn gar wrth ei elynion, digrif wrth ei gyfeillion.—A phan ddaeth y chwedl irad angau ef at ei dad Owain, ef a godded ac a dristaed yn gymmair, ag ni ellai dim ei hyfrydu ef—na thegwch teyrnas, na digrifwch, na thaer ddiddanwch gwyrda, nac edrychedigaeth mawr-weirthogion bethau." Ond wrth glywed am ymdrechion dihafal ei neiaint, yn y Dehaudir, er adenill eu tiriogaethau a sicrhau rhyddid eu pobl, efe a deimlai ddymuniad i gydweithredu â hwy; ac felly efe a ymosododd ar gastell y Wyddgrug, yr hwn ydoedd yn lle cadarn iawn, ac yr oedd y gwarchawdlu a'i cadwai yn blino yr holl wlad oddiamgylch; ac er gwarchae ac ymosod arno lawer gwaith, gwrthasfai bob ymosodiad a wnelid arno, gan ei gadarned. "Ond pan ddaeth gwŷr Owain yn ei erbyn y tro hwn, ni ellai nag anian y lle, na chadernid ei furiau, nac ychwaith wrolder ei amddiffynwyr, ei arbed rhag y rhuthrau ffyrnig a wnaethpwyd arnaw, eithr cymmerwyd ef ar ol dirfawr alanastra, a llosgwyd ef i'r llawr. A phan glybu Owain am y gorchestwaith hyn, ysgydwodd ymaith ei holl flinder ar unwaith, o bob meddwl cwynfanus, ac y daeth yn rymus yr ansawdd a oedd arnaw gynt."

Fel hyn yr oedd y Cymry yn dechreu meddiannu cestyll y Saeson, ac hefyd yn adeiladu rhai newyddion iddynt eu hunain.—Yn y flwyddyn 1148, Owain Gwynedd a adeiladodd gastell yn Iâl, a'i frawd Cadwaladr a wnaeth gastell arall yn Llanrhystyd (*Castell Rhodwydd*), ac a roddodd ei ran o Geredigiawn i'w fab *Cadwgan*. Tua diwedd yr un flwyddyn, Madog fab Meredydd ab Bleddyn a adeiladodd gastell Croesoswallt, ac a roddodd ei ran o Gyfeiliog i'w neiaint, Owain a Meurig, meibion Gruffudd ab Meredydd. Y flwyddyn hon y bu farw Barnard, esgob Ty Ddewi; ac ar ei ol ef y daeth Dafydd Fitzgerald i fod yn esgob, yr hwn o'r blaen oedd yn archddiacon Aberteifi.

Ryw bryd yn y blyneddoedd hyn, torodd amrafael blin rhwng *Hywel a Chyman*, meibion Owain, a'u hewythr *Cadwaladr*; ar yr hyn y cynnullasant eu holl nerth, ac a arweiniasant eu byddin i diriogaeth eu hewythr yn

Meirionydd; yr hyn pan ddeallodd y trigolion, dychrynu a wnaethant, a ffoi i'r eglwysi am nawdd; ond y ddau dywysog ieuainc a barasant gyhoeddi drwy y wlad, nas niweidid neb a ymostyngai iddynt hwy. Yna y bobl a ddychwelasant bawb i'w dŷ, a'r holl wlad a ymostyngai yn rhwydd i'w hawdurdod; a hwy a arweiniasant eu lluoedd i warchae ar gastell Cynfael, yr hwn a adeiladasai Cadwaladr, ac a amddiffynasai, gan adael ei gadwraeth ar Morfran, abad y *Ty Gwyn ar Daf*; yr hwn, yn ffyddlon i'w arglwydd, a wrthodai ei roddi i fynu er bygythion na gwobrwyon, fel y bu raid i'r tywysogion ieuainc gymmeryd y lle trwy rym arfau, yr hyn a wnaethant, gan ladd ac archolli yr holl warchawdlu, oddieithr yr abad ei hunan, yr hwn a ddiangodd yn ddirgelaidd, trwy gynnorthwy cyfeillion personol iddo, y rhai oeddynt yn myddin Hywel.

Tua'r adeg yma hefyd yr amddiffynodd *Cadell*, fab Gruffudd ab Rhys, gastell Caerfyrddin, ac oddiyno efe a arweiniodd ei fyddin i Gydweli, gan ddfirodi yr holl wlad; ac wedi dychwelyd o'r rhyfelgyrch yma, efe a ymunodd â'i frodyr, Meredydd a Rhys, ac enillasant y rhan o Geredigion a elwir Is Aeron.

Yn mhen ychydig wedi hyn, torodd amrasael allan rhwng *Randwlff*, iarll *Caer*, ac Owain; a Randwlff a gynnulodd fyddin gref o'i gyfeillion, ac o filwyr llog o bob parth o Loegr, a Madawc ab Meredydd, tywysog Powys, a unai ei allu â'r eiddo yntau, o eiddigedd at uchafiaeth Owain, ac anfodlonrwydd i ddal dim o'i diriogaethau dano ef; a hwy a arweiniasant eu lluoedd cyfunawl i gwr tiriogaethau Owain: ond efe, fel tywysog teilwng, nis goddefai i'w ddeiliaid gael eu hyspello; ond prysurai i roddi cad iddynt, a chyfarfu â hwynt yn Nghwysyllt, yn agos i Ffint; ac am fod ei elynion yn lluosocach ac yn meddu gwell arfogaeth na byddin Owain, yr oeddynt yn barod i'r frwydr, ac yn dra hyderus o'r fuddugoliaeth: ond i'r gwrthwyneb yn hollol y bu, canys Owain a'i fyddin a'u gorthrechasant mor llwyr, fel y bwriasant ymaith eu holl arfogaeth, gan ffoi o nerth eu carnau, a'r Gwyneddwy'r yn eu hymlid mor bybyr fel na ddiangodd o honynt yn fyw ond ychydig o'r penaethiaid, a farchogent ar feirch cyflym.

Heb i mi ymdroi i geisio rhoddi adroddiad manol am holl fân frwydrau yr amryfal dywysogion Cymreig â'u gilydd, tua'r adeg hon, digon i mi grybwyll yma, fod *Rhys ab Gruffudd*, trwy farwolaeth ei frawd Meredydd, a mynediad ei frawd *Cadell* ar bererindod crefyddol i Rufain, wedi dyfod i brif arglwyddiaeth y Deheudir: *Cadwaladr*, brawd Owain Gwynedd, yr hwn a garcharesid gan ei nai Hywel, a dorasaj o'r carchar, ac wedi ceisio enill ynys Fon, a thrwy hyny gythruddo ei frawd Owain yn fwy i'w erbyn, wedi gorfod ffoi i Loegr, at berthynasau ei wraig Alis, ferch Risiart, iarll Clâr: a *Madawg ab Meredydd*, tywysog Powys, yn llawn eiddigedd at dywysog Gwynedd.

Yn y flwyddyn 1154, bu farw Stephan frenin Lloegr, a daeth Harri II. i'r orsedd yn ei le; ac efe oedd wr o egni a dewrder tra rhagorol; yn hynod o synwrol; ond yn dra uchelfrydig. Cadwaladr, brawd y tywysog Owain, a'i hen elyn Madawc ab Meredydd, tywysog Powys, a'i cymhellasant i ymroddi i ddarostwng Gwynedd; yntau a gynnulodd fyddin fawr yn nghyd i'r perwyl hyny, ac a'i harweiniodd hyd yn agos i Gaerlleon, gan drefnu ei wersyll ar y morfa hwnw a elwir *Saltney*; ac mor benderfynol oedd y brenin Harri i gyflawni amcan y rhyfelgyrch yma, fel y dywaid yr hen hanesydd *Matthew Paris*, iddo roddi gorchymyn i bob dau filwr trwy Loegr ychwanegu trydydd, ac felly ychwanegai drydedd ran i'w fyddin; a chyda'r fyddin fawr yma, a llynges gref hefyd, penderfynai ddarostwng Gwynedd yn drwyadl dan ei iau. Ond Owain, yn ol ei bybyr-

wch arferol, a brysurodd gyda'i feibion a'i luoedd, i gyfarfod y gelyn ofnadwy hwn; a gwersyllodd ei fyddin yn y *Maes glas*, ger Treffynon, gan ddysgwyl yno am ddyneshad y Saeson. Eofndra y mudiad yma a barodd i Harri obeithio y byddai i'r tywysog Cymreig anturio brwydr gyffredinol, ac felly efe a onfonodd gorph dewisol o wŷr, dan dywysiad ei ieirll a'i farwniaid, i geisio cymhell y Cymry i frwydr; ond fel yr oeddynt yn myned trwy *Goed Eulo*, yn agos i *Ben-ar-lag*, rhuthrid arnynt gan Dafydd a Chynan, dau o feibion Owain, y rhai gyda mintai o arfogion dewriwn, a oedasant gynllwyn iddynt yn y goedwig hono; ac mor annysgwyladwy a chynddeiriogwyllt ydoedd yr ymosodiad yma, fel y llwyr orthrechwyd y Saeson, a llawer o honynt a laddwyd, a'r gweddill a ffoisant yn yr annhrefn mwyaf tua'r gwersyll breninol. Y brenin, gan fwriadu ymddial am y gwaradwydd yma, a fudodd yn y blaen gyda glan yr afon Dyfrdwy, hyd dref y Fflint, gan feddwl felly dori rhwng y tywysog Cymreig a'i diriogaethau ei hun; ond fel yr oedd y fyddin freninol yn myned trwy nant gyfyng, yn Nghwysyllt, gerllaw Fflint, rhuthrai y Cymry arnynt yn ddisymwth, gan grochlefain yn arswydus, a bwriasant y fyddin Seisnig i'r braw a'r annhrefn mwyaf, heb allu encillio, na gwrthsefyll y fath ymosodiad annysgwyladwy. Yn y terfysg, bu orfod i'r brenin Harri ei hunan ffoi; ac Eustace Fitz John, a Robert de Courcy, yn nghydag amryw bendefigion uchelradd ereill, a laddwyd. Fel yr oedd yr ychydig weddillion o'r flaenyddin, y rhai a ddiangasant rhag cleddyfau y Cymry, yn disgyn yn ol ar gorph y fyddin, oedd yn dechreu cychwyn yn rheolaidd i'r nant, aeth y gair ar led yn mysg y milwyr fod y brenin wedi ei ladd; ac iarl Essex, llumanwr treftadawl Lloegr, wedi ei ddal gan y dychryn cyffredinol, a daflodd y lluman breninol i lawr, gan floeddio â llef uchel, "Y mae y brenin wedi ei ladd!" Ond ar hyny, daeth y brenin ei hun yno, a chan gyfodi ei helm i ddangos ei wyneb i'w filwyr, rhoddodd ail galon ynddynt, fel y gwnaethant wrthsafiad dewr yn erbyn y Cymry, ac y'u curasant yn ol i'r coedwigoedd; a'r brenin a giliodd gyda'i wŷr i ryw amddiffynfa gyfagos—y *Gadlys*, yn ol barn Pennant—ac yno y gwersyllodd efe dros dro. Owain Gwynedd yntau a enciliodd i le a elwir ar y cyfrif yma, "*Cil Owain*," nid yn mhell o Lanelwy; ac fel yr oedd y brenin yn neshau, efe a enciliodd i sefyllfa grefach, mewn lle a elwir "*Bryn y pin*," bum' milldir i'r gorllewin o Lanelwy. Ar yr un pryd, drwy orchymyn y brenin Harri, yr oedd llynges fawr a grynhoasid o Loegr, a Normandi, yr Iwerddon, a Llychlyn, a phob darpariadau rhyfelfawr yn y modd perffeithiaf ynddi, yn ymosod ar ymys Fôn, dan dywysiad y tywysog Cymreig bradwrus—*Madawg ab Meredydd*; tiriodd y milwyr, ac anrheithiasant eglwys Mair a Phedr, ac amryw ereill; ond ni chawsant eu rhwysg yn ddiatalfa yn hir, canys gwŷr Mon a gyfodasant oll yn arfogion, ac a roddasant gad ar faes yn eu herbyn, a bu brwydr dra gwaedlyd mewn lle a elwid *Tal y Moelfra*; yr un lle ag a elwir yn awr "*Tal y foel*," ond odid. Oddiwrth y cofion o'r Llyfr Du a gedwid yn Abatty y Maes glas, ymddengys bod y frwydr wedi bod yn dra dinystriol i'r Saeson:—"Yna y daeth Madoc ap Meredydd, a llawer o lu y brenin gydag ef, a'r llongau, hyd yn Abermenai yn Mon, ac yna yspeilio eglwys Fair a Phedr, yn Rhosfair; a hyny a ddangosoes Duw iddynt dranoeth, pan ddaeth ieuencyd Mon i ymladd ac wynt, a'u gyru ar ffo arnynt, a lladd llawer, a gyru ereill i'w boddi, y llas Harri fab Harri frenin, a thywysogion y llongau oll."

Am y fuddugoliaeth hon y canai bardd cyfoesol—sef, *Gwalchmai ab Meilir*—y bryddest ganlynol, wrth yr hon y gallwn gasglu fod yr alanastr a wnaeth gwŷr Mon ar y Saeson yn y tro yn ofnadwy:—

"Ardwyreaf hael o hil Rhodri,  
Ardwyad gorwlad, gwerlin teithi,  
Teithiawg Prydain,  
Twyth arfduwyt Owain,  
Teyrmain ni grain,  
Ni grawn rei.

Teir lleng a ddaethant, liant lestri,  
Teir praff brif lynges wy bres brofi,  
Un o'r Iwerddon,  
Arall arfogion  
O'r Llychlynigion,  
Llwrw hirion lli.

A'r drydedd dros for, o Norddmandi,  
Ar drafferth anferth, anfad iddi,  
A draig Mon mor ddrud ei eissillydd yn aer,  
A bu terfysg taer i haer holi.

A rhagddaw rhewys dwys dyfysci,  
A rhewin, a thrin, a thranc cymmri;  
A'r gad gad greudde,  
A'r gryd gryd graendde,  
Ac am Dal Moelfre  
Mil fanieri.

A'r ladd ladd lachar, a'r bar beri,  
A ffwr ffwr ffyrfgawdd, a'r ffawdd foddi,  
A Menai heb drai, o drallanw gwaedryar,  
A lliw gwyrar gwyr yn heli;  
A llurygawr glas, a gloes trychni,  
A thrychion yn nhud rhag rheidrudd ri,  
A dygyfor Lloegr, a dygyfranc a hi,  
Ag ei dygyfyno yn astrusi,  
A dygyfod clod cleddyf difri,  
Yn saith ugain iaith wy faith foli."

Gan fod iaith y bryddest uchod yn annealladwy i'r lluaaws, dodaf fath o aralleiriad mor gywir ac eglur ag y gallaf:—

"Clodforaf y gwron hael o hil Rhodri; amddiffynnydd y wlad; un o arwedd pendefigion; gogoniant Prydain. O! fywiogrwydd Owain! Pennadur yw efe nas plyg, ac na cheidw olud.

Tair lleng a ddaethant yn llestri y dyfnder—tair dirfawr brif lynges, i chwyrn ymosod arno—un o'r Iwerddon; arall yn arfog o wŷr Llychlyn—yn dyfod rhagddynt mewn hirion lestri ar y dyfnder.

A'r drydedd a ddaeth ar draws y môr o Normandi, ág ymdrech anferth—ond aflwydd a fu iddi. A llywiawdwr Mon mor ddewr ei hiliogaeth yn y frwydr! A bu terfysg ffyrnig, ac eofn ymgeisiaw; ac o'i flaen ef yr oedd afreolaidd drabludd, a dwys ymgymmysg, a dinystr, ac ymladd, ac angau pendefigion. A byddin yn myddin, yn waedlyd, a dychryn ar ddychryn, yn arswydawl; ar o amgylch i Dal Moelfre, mil o fanieri.

Yno yr oedd lladdfa ar laddfa, gloywiad picellau ar bicellau; a chyrch gyrch gadarn angerddawl—boddi ar fodd. A Menai heb drai o herwydd y mawr lanw gan waedrediad; a lliwid yr heli â gwaed gwyr. A gwelw oedd y llurigwyr, a gloesiad archollion a deimlid; a'r clwyfedig ar y llawr o flaen y pennaeth cochwaewawr. A Lloegr yn dygyfor, a'r ymgyrchu â hi; a'u bwrw i ddyrswch, a dyrchafu clod cleddyf y gwron. Mewn saith ugeiniaith y'i hir ganmolir."

Yn fuan ar ol y frwydr hon, cyfansoddai Hywel ab Owain Gwynedd awdl er coffa am y fuddugoliaeth uchod; ac y mae yn debyg mai at y tywysog hwn y cyfeiriai *Gwaichmai* yn yr awdl flaenorol, dan yr enw "eissyllidd" Owain. Fel hyn y canai Hywel—

"Pan fei lawen frein, pan frysyei—waed,  
Pan wyar waryei,  
Pan ryfel, pan ruddid e thei,  
Pan ruddlan, pan ruddlys losgei,

Pan rudam ruddfflam fflemychei—hyd nef,  
Yn addef ny noddei,  
Hawdd gweled goleulose arnei,  
O gaer wen geir emyl Menei.

Treghiant trydydd dydd o Fei—trichan-llong  
Yn llynges fordei,  
A deg can cymmmain a'u ciliei,  
Kwyaryf heb un faryf ar Fenei."

Oddiwrth y crybwyllion blaenorol galem gasglu bod y tywysog Owain wedi gadael ei wersyll yn Mryn y Pin, i warchawd ysgogiadau y brenin, yr hwn oedd y pryd hyn y aros yn nghastell Rhuddlan, a phrysuro i Fon i wrthladd glaniad y llynges Seisnig aruthrol hon.

Yr holl faeddiadau hyn gan y tywysog Cymreig dewrwych, ar ei fyddin a'i llynges a ystyrid ar ddechreu y cadgyrch yn anorchfygol, a dorai grib y brenin uchelfrydig, ac a barai iddo awyddu am gael rhyw esgus i ddychwelyd adref. Felly efe a dreiodd enill Owain trwy deg, ac a lwyddodd trwy yr ystryw hon i gael gan y gwron Cymreig wneyd rhyw fath o ymosyngiad iddo, gan roddi i fynu y cestyll a'r rhandiroedd hyn yn Nogledd Cymru a ddygasid oddiar y Saeson yn ystod y teyrnasiad blaenorol, ac ymheddychu a'i frawd Cadwaladr, gan adferu iddo ei diriogaethau.

Yn fuan ar ol hyn, daeth y brenin Harri II. i amodau heddwch â holl dywysogion ac arglwyddi Cymru, oddieithr *Rhys ab Gruffudd ab Rhys*, tywysog y Deheubarth; yr hwn, yn llawn gwrhydri ac yspryd annibynol a gwladgarol, ni fynai blygu ei war dan iau estroniaid; a chan ofni dialedd y brenin, efe a archodd i'w holl ddeiliaid symud eu hanifeiliaid a'u medd-iannau i goedwig Tywi, lle y penderfynai efe wneyd gwrthsafiad dewr i'r Saeson, er nad oedd ganddo un cyngreiriwr Cymreig i'w gefnogi, heblaw ei ddeiliaid ei hunan. Nis gallasai Harri lai na mawryg y cyfryw amlygiad o ddewrder diledryw; a chan ofni hefyd, efallai, y buasai y tywysogion Cymreig ereill yn debyg o gydymdeimlo â'u cydwladwr dan y fath amgylchiadau, efe a anfonodd genadwri at Rhys, i'w wahodd i ddyfod i'w lys, i wnethur heddwch âg ef, cyn y byddai i holl gadernid Cymru a Lloegr gael ei ddwyn allan yn ei erbyn—gan addaw derbyniad croesawus a charedig iddo, os denai felly drwy deg; ond os gwrthodai, bygythiai ei drin yn chwewr. Felly, trwy gyngor ei gyfeillion, efe a aeth i lys y brenin Harri, â'r hwn yr ymheddychodd, dan yr amod o fod iddo gael y *Cantraf Mawr*, a chantref arall a fynai y brenin ei roddi iddo yn gyfan, heb ei wasgaru. Ond y brenin, yn ffals a dichellgar, ni chyflawnodd ei addewid iddo, "ond a roddodd iddaw ddryll o dir yn nghyfoeth pob barwn, o ymrafaelion farwniaid;" a hyny, mae yn debyg, er mwyn gwneyd ei allu yn llai peryglus, trwy y cyfryw fân raniadau gwasgareddig ar ei etifeddiath. Er fod Rhys yn ddigon craffus i ganfod y ddichell hon, ni thybiodd yn ddoeth iddo rwnnach ar hyn o bryd, ond efe a benderfynodd gymmeryd y tiroedd a gaffai yn ddystaw, a chadw yr heddwch; canys



gwelai nad oedd ganddo nerth digonol i wrthsefyll y fath frenin galluog yn effeithiol, ac yr oedd dau o'i feibion yn nwylaw y brenin, fel gwystlon y byddai iddo gadw yr heddwch. Ond ni bu heddwch yn hir—cany *Iarl Clâr*, yr hwn oedd bendefig galluog, ac yn dra chwannog o gyfoeth y Cymry, a aeth at y brenin, ac a ofynodd ganiatad i fyned i oresgyn eu tiroedd, yr hyn a roddwyd iddo; ac yna efe a aeth i Geredigiawn, yr hyn nis beiddiai wneuthur cyn ymheddychu o Rys â'r brenin; ac yno efe a gadarnhaodd ac a ddygodd gynnalieath i amryw gestyll—megys, castell Ystrad Meurig, Hwmffrai, Aberdyfi, Dinerth, a Llanrhystyd. Ac wedi ymgadarnhau o Iarl Clâr yn y wlad yn y modd hyn, aeth *Walter Clifford*, yr hwn a biau gastell Llanymddyfri, ac a wnaeth gadgyrchiad i gyfoeth Rhys, a chan ladd llawer o'i wŷr, anrheithiodd ei feddiannau. Anfonai Rhys achwyniad at y brenin o'r cam a gawsai, gan geisio iawn am y sarhad a'r golled. Y brenin, mewn modd twyllodrus, a gymmerth arno erchi gwneyd iawn i Rys, ond nid oedd yn gofalu am i hyny gael ei wneyd: "cany arfer breninoedd Lloegr erioedd dyoedd cefnogi y Saeson yn eu gormesau ar y Cymry; ac ni chai y Cymry yn amser iawn ganddynt, oddieithr trwy law gadarn a nerth arfau."\* Y cyfryw ymddygiad ffals a thrahaus a gyffrodd Rys, fel y penderfynodd fyau iddo ei hun drwy hagr a nerth ei gleddyf, yr hyn y gwelai nas mynai brenin Lloegr ei roddi iddo drwy degwch ac addfwynder; ac felly efe a warchaeodd ar Lanymddyfri, ac a enillodd y castell yn fuan; ac Einion, fab Anarawd, brawd Rhys, gŵr ieuanc dewr, yr hwn yr oedd ei galon yn llosgi ynddo o awydd am ymyrddhaa oddiwrth iau waradwyddus y Saeson, pan welodd bod ei ewythr yn rhydd oddiwrth ei lw i'r brenin, a gynullodd fintai o wŷr ieuanc o gyffelyb feddwl iddo ei hun, ac a ymosododd ar gastell Hwmffrai, yr hwn a gymmerodd efe drwy ruthr, gan ladd yr holl warchawdlu, a dwyn oddiyno yspail fawr o feirch a phob arfau rhyfel; a Rhys, gyda chyflymdra a llwyddiant digyffelyb, a oresgynodd holl Geredigion, gan wneuthur pob castell a berthynai i'w elynion Seisnig drwy y wlad yn gyd-wastad â'r llawr.

Y brenin, wedi clywed am hyn, a ddaeth i'r Deheudir, gan lanio ei wŷr ar dueddau Browyr a Morganwg, ar fedr llwyr ddarostwng Rhys, a gwneyd pen buan ar yr hyn a gyfrifai efe yn wrthryfel. Ond pan welodd efe fod ei holl ymdrechion yn aneffeithiol, a bod y Cymry yn dylifo i mewn i chwyddo byddin Rhys beunydd, gorfu iddo roddi ei fwriad i fyau, a chynnyg amodau heddwch i Rys, gan ganiatau iddo fwynhau yr hyn oll a enillasai; dan yr amod iddo yntau roddi gwystlon i'r brenin, na thorai yr heddwch yn ei absen; a'r brenin a roddes gestyll yn wystlon i Rys, ac a ddychwelodd yn ol o Gymru y waith hon eto heb enill o'i gadgyrchiad nac elw nac anrhydedd; ac efe a barotodd ar frys i fyned i Normandi, megys yr arfaethasai efe eisoes.

Yna Rhys a aeth i gymmeryd meddiant o'r cestyll a roisai y brenin yn wystlon iddo, y rhai mae yn debyg oeddynt yn Nyfed; ond y castellwyr nis gollyngent hwy iddo; am hyny efe a gynullodd ei wŷr, ac a ddiffeithiodd Ddyfed, gan dori yr holl gestyll yn garneddau. Yr ymddygiad yma o eiddo Rhys, er nad oedd pamyn ymdrechu am ei iawnderau ei hunan, a frycheuai ei nodweddiad i ryw fesur; yn gymmaint a'i fod drwy hyny yn gwneuthur y gwystlon a roisai efe i'r brenin yn ddarostyngedig i'r creulonderau a arferid tuag at y cyfryw rai dan y fath amgylchiadau yn yr oes hono: ac fel yr oedd efe yn myned rhagddo yn ei rwyg, gan warchae ar Gaerfyrddin, Iarl Brystei, mab o ordderch i'r brenin, a ymgynghreiriodd

\* Hanes Cymru, td. 561.

âg Iarll Clâr, a rhai feirll ereill, ac a gynnullodd lu dirfawr o Ffrancod, a Normaniaid, a Fflemysiaid, a Saeson; a thrwy fod Cadwaladr, brawd Owain Gwynedd, yn frawd-yn-nghyfraith i Iarll Clâr, efe a'i neiaint—Hywel a Chynan—meibion tywysog Gwynedd, er gwarth bythol i'w oenedl, a ymunasant â'u hen elynion cenedlaethol, yn erbyn eu cyd-wladwr dewrwyd; ond yr oedd Rhys yn rhy gall i gyfarfod â'r fath allu anghyfartal mewn brwydr; am hyny efe a encilliodd gyda'i wŷr i synydd *Cefn Rhestr*, lle y gwersyllodd; a'r gelynyon a ddaethant hyd gastell Din-weilir, lle y gwersyllasant hwythau: ac wedi bod yno enyd o amser, heb feiddio ymosod ar y tywysog Rhys, hwy a aethant ymaith yn waglaw; yna yr ymadawodd yntau o'i wersyllfa, ac a adawodd i'w wŷr ddychwelyd i'w cartrefi. Yn yr holl yspaid yma, yr oedd y brenin Harri yn Normandi, yn rhyfela âg *Iarll St. Giles*, am ddinas ac iarlleth Tholouse.

Yn y flwyddyn 1160 y bu farw Madoc ab Meredydd ab Bleddyn, tywysog Powys, yn Nghaerwynt. Yr oedd y gŵr hwn yn un â gair da iddo fel tywysog yn ei dalaith ei human—fel gŵr crefyddol ac elusengar; ond trwy ei eiddigedd at Owain Gwynedd, efe a ymgystlynai yn ddidor â brenin Lloegr, yr hyn oedd yn frycheuyn gwaradwyddus ar ei nodwedd cenedlaethol. Dygwyd ei gorph i Feifod, lle y'i claddwyd yn anrhyd-oddus. Bu iddo dri o feibion o'i wraig Susanna, ferch Gruffudd ab Cynan, tywysog Gwynedd—*sef, Gruffudd Maylor, Owain, ac Elise*—a merch o'r enw *Marred*; yr oedd iddo fasdarddiaid hefyd—*sef, Owain Brogyntyn, Cynric Efell, ac Eimion Efell*—y rhai a gyfrifid yn wŷr enwog, ac a wnaed yn gyfranogion â'r plant cyfreithlaw'n o etifeddiaeth eu tad. Ar farwolaeth Madoc ab Meredydd, rhanwyd ei etifeddiaeth rhwng tri o'i feibion—*sef, Gruffudd Maylor, Owain Fychan, ac Owain Brogyntyn*—yn y modd canlynol: Gruffudd Maylor a gafodd arglwyddiaethau Bromfield, Iâl, Yatyn, Nanhedwy, Mochnant is Rhaiadr, y Waun, Cynllaeth, a Glyn-dyfrdwy; Owain Fychan a gafodd Mechain Iscoed; ac Owain Brogyntyn a gafodd Ddinmael ac Edeyrnion. Y rhan arall o Bowys, a elwid Powys Wenwynwyn, a berthynai i *Gruffudd ab Meredydd*, brawd Madoc; ac ar ei farwolaeth ef, daeth yn eiddo i'w fab, *Owain Gyfeiliog*.

Wedi gwneuthur y crybwyllion uchod am helyntoedd Deheubarth a Phowys, dychwelaf eto i olrhain helyntoedd Owain Gwynedd.—Parhaodd yr heddwch a wnaethai â Harri II. am tua phum' mlynedd; ac nid rhyf-edd—canys yr oedd dau o feibion y tywysog Cymreig—*Rhys a Chadwallon*—yn wystlon yn llys Harri. Ond tra yr oedd y Cymry yn cael llonydd-dymunol oddiwrth eu gelynyion estronol, yr oedd rhyw ysfa fellddigedig o drachwant a chenfigen yn gyru eu penaethiaid benben â'u gilydd: felly, tua'r flwyddyn 1162, darfu i un *Hywel*, fab Ieuaf ab Cadwgan ab Athelstan Glodrydd, gymmeryd castell Walwern yn Nghyfeiliog, trwy drais, a'i wneuthur yn gydwastad â'r llawr, yr hyn a gythruddodd dywysog Gwynedd yn ddirfawr pan y'i mynegwyd iddo; ac mor ddwys yr ymosodai o'r herwydd, fel nad oedd dim a'i llonai hyd oni chynnullodd efe ei luocedd yn nghyd i ymddial arno ef a'i bobl; felly efe a ddaeth hyd Landdinam yn Arwystli, gan anrheithio yr holl wlad, ac yspeilio y trigolion yn ddi-arbed. Yna pobl y wlad a ymgynnullasant yn fyddin gref, dan dywysiad eu harglwydd Hywel, ac a erlidiasant ar ol yr anrheithwyr hyd lenydd yr Hafren; ond yno, Owain, yn falch o'r fath arfod i ymddial, a drodd ar-nynt fel llew, ac a laddodd y rhan fwyaf o honynt; a'r lleill, yn nghyda'u harglwydd, a ffoisant am eu bywyd i'r coedydd a'r mynyddoedd. Yna y tywysog Owain a ddychwelodd o'i gadgyrch yn llwyddiannus, ac a sil-deiladodd ei gastell drachefn, gan ei amddiffyn yn gadarn.

Tra yr oedd Cymru yn llawn cyffro gan ymrsonau cartrefol, yr oedd y

Nid ym hyn dibyll nam hen deheu,  
 Cynniffeid gyrrhied, ffeinied ffeiddiau,  
 Cynfaran creulawn, creulyd fereu,  
 Glew glyw Mochannwys o Bowys beu,  
 O glew gwnet arnaddynt deu,  
 Achubieit pob rheid rhudd eu harfeu,  
 Echedwynt rhag terfysg eu terfynau,  
 Moliant yw ei ran y rei gwynnau."

Onid wedi gorchymyn i'r gweinydd fyned a'r corn iddynt fel uchod, a'r canmawl am eu rhagoriaethau, y mae y bardd tywysogaidd megys yn gwled eu lle yn wag yn ddisymwth, ac yna yn cofio yn uniongyrchol eu bod wedi syrthio yn y frwydr ragflaenorol, yn tori allan mewn cwynfaniaid am danynt, gan ddywedyd—

"Marwnad fu, nend mi newid y ddau;  
 O gan Grist, mor drist wyf o'r anaelan!  
 O goll Moreiddig, mawr ei eisiau."

Gan fod Harri yn benadur balch ac uchelfrydig, rhaid ei fod yn teimlo yn ofnadwy wrth gael ei wrthladd gan y Cymry mor effeithiol yn mhob cyrch fel hyn o'r eiddo i'w gwlad; ac am hyny, yn llawn o furiadau dialeddol, dychwelodd yn fuan drachefn i Gaerlleon-gawr, gyda phenderfyniad i wneuthur un cynnyg eto i oresgyn y Cymry, a'u cosbi am y gwarth a gawsai oddiar eu dwylaw; ac i'r dyben o gyflawni hyn, parodd gasglu ei holl gadernid llyngesawl ato; ac er cyfnerthu ei ddarpar, cyflogodd longau o'r Werddon—ac hyd yn nod anfonodd am rai yr ail waith oddiyno. Onid wedi yr holl barotoadau drudfawr yma, pan y clybu fod Rhys ab Gruffudd ac Owain Gwynedd yn ymluyddu yn gadarn yn ei erbyn, er dial am ei greulonedd at eu meibion, efe a ollngodd y llongau ymaith, ac a ddychwelodd yn ol i'w gartref ei hun.

Onid er i'r brenin roddi heibio ei fwrriad, eto y Cymry ni lesgasant yn eu hymdrechiadau gwladgar.—Rhys a aeth yn erbyn castell Aberteifi, ac a'i torodd yn ddryllian, a chastell Cilgeran yr un modd; ac wedi cymmeryd Robert Fitz-Stephan, ceidwad castell Aberteifi, efe a ddychwelodd adref gydag anrhydedd a dirfawr anrhaith.

Yn y flwyddyn ganlynol, gwnaeth Fflemysiaid a Normaniaid Penfro amryw ymdrechion i adenill castell Cilgeran; onid Rhys a'u baeddai bob tro.

Yn y cyfamser, yr oedd y tywysog Owain yn myned rhagddo yn ei rwsyg anrhydeddus, gan gymmeryd hyny o gestyll a feddai Harri yn Ngwynedd—sef, castell Basing, castell Rhuddlan, a chastell Prestatyn; ac felly llwyr waredai Wynedd oddiar y Saeson.

Yn y flwyddyn 1169 y bu farw yr ardderchog *Owain Gwynedd*, ar ol teyrnasiad gogoneddus o ddeuddeng mlynedd ar hugain; yn yr hwn yspaid maith ni chyfarfu ág aflwyddiant prin unwaith—gan adael ei wlad yn y fath ystad o dawelwch nas mwynhasai ei gyffelyb ers llawer oes o'r blaen, a'r cyfryw nas mwynhai dros nemawr yspaid yn hwy yn awr ychwaith: gadawodd ar ei ol luaws mawr o blant—enwir ugain gan yr haneswyr Cymreig—o ba rai yr oedd dau ar bymtheg yn gorfucheddu eu tad.

Claddwyd gweddillion marwol y tywysog enwog hwn yn eglwys gadeiriol Bangor, yn Arfon, o flaen yr allor fawr. Onid yn gymmaint a'i fod wedi marw dan ysgymundod *Thomas a Beckett*, am ei fod wedi priodi â'i gyfnither, gorchymynid i'r esgob ofalu am symud ei lwch yn mhellach oddiwrth yr allor, mor fuan ag y gallai—ac yn wir, allan o finiau yr

eglwys; yr hyn a wnaed cyn hir. Ond rhag tynu digllonedd y bobl yn ei ben, trwy y weithred, yr esgob a barodd gloddio ffordd danddaearol o'r eglwys i'r fynwent, ar hyd yr hon y cymerwyd y corph yn ddirgelaidd, i'r lle a ddarparaisid iddo, oddiallan i furiau y llan. Fel hyn gwelwn, os na allai brenin a holl gadernid Lloegr ddarostwng Cymru fel gwladwriaeth, fod estronlywodraeth eglwysig wedi ei gwthio arnynt drwy ddiocell mor foreu a hyn—fel yr oedd dyaithrddyn trahaus, o eithafoedd Caint, yn beiddio bwrw allan dan ysgymundod, lwch tywysog clodwiw, o'r gysegria a amddiffynnodd efe mor wrol dros gynnifer o flyneddau.

Buasai Owain yn briod â *Gwaladus*, ferch Llywarch ab Trahaern ab Caradawg, ac o honi bu iddo blant—Iorwerth Drwyndwn, Cynan, Maelgwyn, a Gwenllian; ac â *Crisiant*, ferch Goronwy ab Owain ab Edwin, o'r hon y cenhedlwyd iddo Ddafydd, Rhodri, Cadwallon (abad Enlli), ac Angharad, yr hon a fu yn briod â Gruffudd Maelor. Heblaw hyny, ganwyd o fastarddiad iddo—Cynan, Llewelyn, Maredydd, Idwal, Rhun, Hywel, Cadell, Madawg, Einion, Cynrig, Phylip, a Ririd (arglwydd Clochran yn Iwerddon.) O'r ugain uchod, fe fu tri feirw o flaen eu tad—sef, Rhun, Llewelyn, a Chynrig.

Ar ol marwolaeth Owain, aeth yn gryn ymryson rhwng ei feibion am yr orsedd: cyfrifid fod anaf *Iorwerth*, o herwydd yr hyn y'i cyfenwid y "*Trogydon*," yn ei annglymmyso i deyrnasu, er mai efe oedd yr etifedd cyfreithlawn, fel y mab henaf. Mae yn debyg iddo ef roddi ei hawl i fynu yn dangnefeddus ar y pryd, gan gyfrif yr anaf crybwylledig yn ei annglymmyso ef ei hunan i lanw y sefyllfa urddasol, ac ystyried fod ei fab *Llewelyn* ar hyn o bryd yn rhy ieuangc a digyfnertiad i ymdaraw yn erbyn yr ymgeiswyr haerllug: ond yn ei dro efe a ddaeth i'r orsedd, ac a fu yn enwog yn ei ddydd, dan yr enw *Llewelyn ab Iorwerth*. Mae yn ymddangos i Iorwerth gael tuag at ei gynnalïaeth, ran o etifeddiaeth ei dad—sef, cantrefi Nanconwy ac Ardudwy, a gwnaeth ei anedd yn nghastell Dolwyddelen. Ond cyn hir wedi hyny, nyni a'i cawn wedi ffoi am noddfa i Bennant Melangell, yn swydd Drefaldwyn; a dywedir ddarod iddo gael ei ladd yn gyfagos yno—mewn lle a elwir *Bwlch Croes Iorwerth*; ac y mae yn y fynwent faen cerfiedig, ac arno lun gw'r arfog yn dwyn tarian, ar yr hon y mae yn gerfiedig, *Hic Jacet Edward*.

Hywel, yr hwn oedd fastardd i'r diweddar dywysog, o Wyddeles, a drawsfeddiannodd y llywodraeth, ac efe a gadwodd feddiant arni dros yn agos i ddwy flynedd. Yr oedd Hywel yn rhyfelwr gwrol a galluog, ac yn fardd a hynafiaethydd athrylithgar: er hyny, ei frodyr ieuengach nag ef nid ymfoddolent iddo gael y llywodraeth, am nad oedd yn fab cyfreithlawn i'r tywysog Owain. Fel hyn y mae yr hysbysiad a gawn ni am dano mewn un ysgrif o'r Brut, allan o *Lyfr Aberpergwm*:—

"Oed Crist 1169, bu farw Owain, tywysog Gwynedd, gwedi gwladychu ddeudeng mlynedd ar hugain; a gwedi hyny ydd aeth ymryson rhwng ei feibion, am a gai fyned yn ei le; eithr *Hywel ab Owain* a gymmerth arnaw y llywodraeth, canys hynaf oedd efe; ei fam oedd *Pyfog*, merch arglwydd urddasawl o'r Werddon; a gwedi bod yn ngoresgynaeath y dywysogaeth ddwy flynedd yn heddwch, bu farw ei chwegrwn, ac efe a aeth i'r Werddon i oresgyn y cyfoeth a gawsai yn hawl ei fam, a'i wraig, canys unig etifeddes oedd hi: a thra y bu efe yno, Dafydd ab Owain, ei frawd, a gynhullawdd genedl—sef oedd hi, *Crisiant*, merch *Goronwy ab Owain ab Ednywain*; a chyda hyny daeth ato lawer ereill ni charent Hywel; a phan weles efe gadernyd yn gyfnerth iddaw, cymmerth arnaw y llywodraeth, a goresgyn Gwynedd. A Hywel yn clywed hyny, efe a ddaeth yn ebrwydd i Wynedd, ac a ddodes gad ar faes yn erbyn ei frawd; eithr

o'i arglwyddiaeth, gan ei fod yn ameu ei fyddlondeb iddo, ac a gymmerth feddiant o'i gastell ei hunan. Ond can gynted ag yr ymadawodd y brenin, Iorwerth, yn dra digofus o herwydd y fath ymddygiad, a anfonodd ei ddau fab, ac ereill o'i garenydd, a nifer o wŷr arfog i'w canlyn, i adgymmeryd y lle, y rhai a lwyddasant i gymmeryd y dref, a'i hanrheithio; ond er pob ymdrechion, buant aflwyddiannus i gymmeryd y castell. Y brenin, gan fyned rhagddo, a ddaeth hyd Benfro, ac yno efe a chwaneodd at diriogaethau Rhys, holl Geredigion, Ystradtywy, Arwystli, ac Eilfael—hyny ydyw, debygid, y rhanau o'r ardaloedd hyny oeddynt yn meddiant y brenin. Yr oedd Rhys y pryd hyn yn Aberteifi—lle a enillasai yn ddiweddar oddiar iarll Caerloyw, ac a amddiffynasai yn gadarn : ac oddi-yno efe a aeth i Benfro i ymddiddan â'r brenin, ac a ddychwelodd yn ol dranoeth; ac yna yr anfonodd efe 86 o feirch i'r brenin, yr hwn a ddewiaodd 36 o'r goreuon o honynt, ac a ddychwelodd y gweddill i Rhys, gyda llawer o ddiolchgarwch. Yr un dydd, aeth y brenin i Dŷ Ddewi, ac wedi offrymu yno, efe a giniawodd gyda'r esgob, *Dafydd ab Gerallt*, cefnder i'r tywysog Rhys; ac yn fuan wedi hyn ymwelai y brenin â'r tywysog Cymreig, yn ei lys yn Tŷ gwyn ar Daf, ac yno efe a roddes ei fab Hywel iddo, yr hwn a fuasai yn wystl gyda'r brenin ers amser maith; ac a omeddodd dderbyn y gwystlon ereill na'r deyrnged ganddo, hyd ei ddychweliad o'r Iwerddon. Tra yr oedd y brenin yn aros yn Nulyn, torodd pla allan yn ei fyddin, yr hyn a barodd iddo ddychwelyd oddiyno yn gynt nag y bwr-ziadau; ac wedi glanio yn Nghymru, efe a dreuliodd wyliau y Pasg yn Mhenfro. Ddydd Mawrth wedi y Pasg, efe a gychwynodd tua Lloegr, a Rhys a'i cyfarfu yn Nhalacharn, i dalu y deyrnged iddo. Ar ei ddychweliad y tro hwn, y brenin a anfonodd at Iorwerth, y pendefig a driniasai mor arw ar ei fynediad, i ddeisyf arno ef, a'i feibion, a'i gyfeillion, ei gyfarfod ef yn heddychol mewn lle penodol ar y cyffiniau, fel y gallai gadarnhau cyfamod heddwch â hwynt; ond fel yr oedd *Owain ab Iorwerth* ar y ffordd yn myned i gyfarfod â'i dad, heb feddwl yn amgenach na'i fod yn berffaith ddyogel, gwarchawdlu Casnewydd ar Wysg a osodasant gynllwyn iddo, ac a'i llofruddiasant mewn gwaed oer; ac er nas meddwn sail i farnu fod gan Harri law yn y fath lofruddiad, pan hysbyswyd y newydd gofidus i Iorwerth, efe a ddychwelodd adref, a'i fab arall Hywel i'w ganlyn, gan lawn fwriadu nad ymddiriedai yn y Saeson mwyach; a chan gynnwyl yn nghyd gynnifer o'r Cymry ag a allai ef a'i gyfeillion ddarbwyllio i gymmeryd rhan yn ei ymrafael, efe a wnaeth gadgyrchiadau i Went, yr hon oedd yn meddiant y Saeson, gan anrheithio yr ardaloedd hyny, a chyffindiroedd Lloegr, hyd byrth Henffordd a Chaerloyw, â'r tân ac â'r cleddyf, yn ddiarbed. Pan glybu y brenin y pethau hyn, efe a benododd Rys ab Gruffudd yn braf farnwr Deheubarth Cymru—hyny yw, yn ol barn y Parch. THOS. PRICE, "y rhan Saesonaeg o Benfro, ac ardaloedd yr arglwyddi cyffindirawl; canys y mae yn ddilys fod Rhys yn mwynhau awdurdod annibynol ar yr ardaloedd y rhai y pryd hyny a ffurfient dalaeth y Deheubarth." Yr oedd y penodiad yma yn anrhydeddus i'r tywysog, gan y profai fod y brenin Harri yn cydnabod ei gymhwysderau i lywodraethu; ac yn anrhydeddus i genedl y Cymry hefyd, gan ei fod yn fath o gydnabyddiaeth ar ran y brenin o'r amhosiblwydd i'w cadw yn llonydd, oddieithr trwy gyfrwng llywodraethwyr o'u gwaedoliaeth eu hunain: ond nis gall Cymro gwladgarol lai nag ymofidio a chywilyddio, wrth feddwl mai amrafaelion diddiwed y tywysogion Cymreig a'u gilydd a ddarostyngodd eu cenedl i'r fath gyflwr, ac a ddarostyngai dywysog dewr a chalonog o fath Rhys ab Gruffudd i dderbyn swydd astronawl o fewn i'r hyn a allasai fod ei dywysogaeth ei hun, er cynnal awdurdod penadur dyeithr. Ond y mae yn ym-

ddangos fod teimladau o gyfeillgarwch hoffus wedi magu o bob tu, rhwng Rhys a'r brenin Harri; ac yn lled fuan gwelwn hyn yn cael ei amlygu yn neillduol ar ran Rhys, trwy ei waith yn anfon ei fab Hywel gyda lluo o wŷr dewisol, i gynnorthwyo y brenin pan oedd gyfyng arno gan wrthryfel ei feibion ac amryw o'i bendefigion galluocaf.

Tua'r adeg yma—sef 1173—y dechreuodd ymrison rhwng *Dafydd ab Owain*, tywysog Gwynedd, a rhai o'i frodyr; ac un o honynt, o'r enw *Maelgwyn*, a gadwai ynys Fon oddiarno. Am hynny efe a dywysodd fyddin gref dros Fennai i'r ynys, ac a'i gyrodd ef a'i bleidwyr i ffoi i'r wlad—rhai o honynt i'r Iwerddon, a rhai i Forganwg; o ba rai yr oedd *Iorwerth*, brawd Dafydd, yn un, yr hwn a ddiangodd i Gaerlleon ar Wysg, at Iorwerth ab Owain ab Caradawg, lle y cafodd noddfa, a chyfyngiad hefyd i'w adferu i gymmod â'i frawd Dafydd. Tua'r pryd hwn y bu farw *Cadwaladr*, brawd Owain Gwynedd, a *Chynan ab Owain*, yr hwn yn amser ei dad a enillasai gryn glod fel rhyfelwr dewr a medrus: felly ymddangosai nad oedd yn debyg y cyfodai neb o ryw ddylanwad i ddadleu ei hawl â Dafydd, yn ngorseidd ei dad—yr enwog Owain: felly y brenin Harri, yr hwn oedd yn *gall* iawn, fel y mae yn naturiol i ni gasglu oddiwrth yr hyn a welsom o honaw yn ei ymdrafodaeth â Rhys ab Gruffudd, a roddodd ei chwær *Emma* yn wraig i Ddafydd ab Owain; ac felly, nid yn unig efe a ddiarfogodd elyn galluog, ond gwnaeth o honaw gyfaill a chynnorthwywr gwerthfawr; ac felly, yn ei ryfelgyrch i Ffrainc, cawn fod Dafydd yn anfon byddin gref o Wyneddwyr yno i'w gynnorthwyo; a thra gwasanaethgar a fuant iddo—cans y brenin a archodd iddynt fyned dros yr afon Seine, i dori ymaith y lluniaeth oedd yn cael ei ddwyn i wersyll y gelynion, o herwydd yr hyn y daeth brenin Ffrainc i gynnaldeidiad, ac yn ebrwydd ar ol hyny sefydlwyd heddwch, a phenaethiaid y gwrthryfel a ymunasant mewn ymostyngiad iddo ef.

Trwy yr amodau hyn yr oedd y tair talaith—Gwynedd, Powys, a Deheubarth—mewn mwynhad o heddwch am beth yspaid yn awr; ond yr oedd rhai terfysgoedd yn Ngwent—cans *Hywel ab Iorwerth*, o Gaerlleon ar Wysg, a ddaliodd ei ewythr, *Owain Pencarn*, drwy dwyll, ac a dynodd ei lygaid, fel na byddai berygl iddo fod yn gydymgeisydd âg ef am y llywodraeth; ond o fewn wythnos o amser, daeth byddin o Normaniaid a Saeson ar ei warthaf yn ddisymwth, ac a enillasant dref Caerlleon, gan yru Hywel a'i dad ymaith. *Gwilym Brews* hefyd, arglwydd Brycheiniog, a wahoddodd luaws mawr o bendefigion Gwent i wledd yn nghastell y Fenni, ac yno mewn brad a'u lladdodd oll, hyd gymmaint a deg a thriugain o ddynion; ac er dial am hyn y drachefn, darfu i feibion ac wyron y llofruddedigion gynnull gwŷr, a chymmeryd meddiant drwy drais o'r castell yn y nos, yr hwn a losgasant â than; ac o herwydd aflonyddwch parhaus y Gwenhwysion, mynai y brenin fyned yn eu herbyn hwy a'u harglwyddi, a'u llwyr ddyfetha; ond trwy eiriolaeth yr arglwydd Rhys, fe'u harbedwyd. Torodd rhyw fân derfysgoedd allan yn Ngwynedd hefyd, trwy fod rhai o geraint y tywysog yn gwrthryfela yn ei erbyn, ac yntau yn amhoblog gan ei ddeiliaid, ar gyfrif ei yspryd trahaus, a'i ymgyfathrach trwy briodas â brenin Lloegr.

Tua'r pryd hyn (1187) yr ymledai yr haint grefyddol a adwaenir wrth yr enw "*Rhyfelgyrch y Groes*," dros y dywysogaeth, megys y gwnelsai dros ranau ereill o Ewrop; ac yn y flwyddyn 1188, daeth *Baldwin*, archezog Caergaint, yn nghyda *Giraldus Cambrensis*, archddiacon Aberhonddu, ar daith trwy Gymru, i bregethu yr angenrheidrwydd o anfon cynnorthwy i'r byddinoedd Cristionogol, yn eu gwrthladdiad yn erbyn y Mahometaniaid; a llwyddasant yn eu hamcan i fesur helaeth, gan i luaws

mawr o'r Cymry ymunaw yn y cadgyrchiad hwnw. Croesawid hwynt yn eu holl daith gan dywysogion, bonedd, ac esgobion Cymru: fe'u croesawid yn anrhydeddus yn ei gastell gan yr arglwydd Rhys, yr hwn hefyd a'u gosgorddiaw mewn rhwysgffawredd hyd ffiniau ei dywysogaeth; ac yna yn Nhywyn daeth *Gruffudd ab Cynan ab Owain Gwynedd* i'w cyfarfod, gan eu gosgorddiaw ar eu taith; ac yn Mon fe'u cyfarfyddid, yn agos i'r Borthaethwy, gan *Rodri ab Owain Gwynedd*, a holl drigolion yr ynys o'r bron gydag ef: y mae yn yr ardal hon gof traddodiadol am yr ymweliad hwn hyd heddyw.—Mewn congl gysegodol yn nghesail craig, heb fod yn mhell oddiwrth y fynedfa i'r grogbont a elwir "Pont Menai," y dywedir y safai yr archesgob i bregethu, a Seisyllt, abad Ystrad Fflur, yn cyfieithu; gaelwir y lle hyd heddyw, "*Cilbegle*:" ac ychydig oddiar hyny, tua haner milldir i'r gogledd, y mae craig uchel, yn ngolwg tair rhan o bedair o'r ynys, yr hon a elwir "Careg yr Archddiacon," am fod yr archddiacon, medd rhai, wedi pregethu oddiarni i'r lluaws, a dywedir i lawer o'r ynswyr yn y canlyniad gymmeryd y groes; ond sylwid yn neillduol bod rhai gwyr ieuaic dewisawl o deulu Rhodri, yn eistedd ar graig, ar gyfer yr esgob, y rhai ni ellid mewn un modd eu denu i uno gyda hwy. Wrth ddychwelyd oddiyno trwy Fangor, darfu i'r archesgob trahaus, yn daledigaeth am yr holl garedigrwydd a gawsai oddiar ddwyllaw tywysogion Gwynedd, orchymyn bwrw corph yr enwog *Owain Gwynedd* o'i feddrod. Fe sylwir hefyd, mai yr unig un o dywysogion Cymru ar ni ddaeth i gyfarfod e'r archesgob, oedd *Owain Cyfeiliawc*, "Ac am hyny," medd yr archddiacon, "nyni a'i esgymmunasom ef." Oni ellid dweyd am danynt, fel am y dysgyblion cythruddedig gynt, "Ni wyddent o ba yspryd yr oeddnt?"

Fe welir oddiwrth y crybwyllion blaenorol mai Rhodri, brawd Dafydd, oedd yn meddu arglwyddiaeth ynys Fon y pryd hwn; yr oedd ei frawd arall hefyd, Maelgwyn, wedi dychwelyd o'r Iwerddon, a thrwy unaw â Rhodri, gyrasant Dafydd, yr hwn a gasheid gan y bobl, i'r ochr Seisnig i afon Conwy, lle y daliai yn ei feddiant arglwyddiaeth castell Rhuddlan yn unig.

Yn y flwyddyn 1189, bu farw y brenin Harri II., yr hwn a fuasai dros ddeng mlynedd ar hugain yn elyn calon i annibyniaeth cenedl y Cymry; ond er iddo arfer pob gallu a dichell i'w darostwng, efe a'u gadawodd yn fwy annibynawl nag y'u cawsai ar ei ddyfodiad i'r orsedd. Efe a ddylynyd yn llywodraeth Lloegr gan ei fab, *Rhisiart I.*, yr hwn a benderfynodd adael ei deyrnas, a myned i wlad Canaan gyda rhyfelwyr y groes, ac felly cafodd y Cymry seibiant fach eto oddiwrth eu prif elynion allanol: ond yn lle gwneyd defnydd deeth o'r cyfryw arfod i gadarnhau eu hannibynrwydd, troi i ymryson â'u gilydd a wnaeth eu pendeffigion.

Tua'r flwyddyn 1194, *Llewelyn*, mab Iorwerth Drwyndwn, wedi cyrhaedd ei lawndwf, gan gosio mai efe oedd etifedd cyfiawn gorsedd Gwynedd—er fod ei dad, Iorwerth Drwyndwn, wedi ei gau allan o'r llywodraeth ar gyfrif yr anaf oedd yn anurddaw ei wynebpryd—a gynnullai yn nghyd ei gyfeillion a'i garenydd o du ei fam—*Marred*, ferch Madawc ab Meredydd, tywysog Powys; ac a enillodd ei gefnderwydd—meibion *Cynan ab Owain Gwynedd*—hefyd i'w gefnogi; yna efe a honodd ei hawl i orsedd Gwynedd, a phobl y wlad a gydnabuant gyfiawnder ei hawl yn rhwydd; ac felly, heb dywallt gwaed, efe a gafodd holl Wynedd dan ei arglwyddiaeth, oddieithr tri chastell, y rhai a gedwid gan ei ewythr, Dafydd ab Owain, trwy gyfnerth y Saeson, yn y rhai yr oedd ei holl ymddiried, ar gyfrif ei wraig Emma, modryb brenin Lloegr.

Y cynhyrifiadau nesaf y clywn am danynt, wedi cymmeryd lle yn

Nghymru, oedd goresgyniad Powys gan *Roger Mortimer*, yr hwn a ddyg fyddin gref o Saeson i Faelienydd, ac a enillodd gastell Cymaron oddiar ddau fab *Cadwalawr ab Madawc*. Ac oddeutu yr un amser, bu peth terffysg yn y Deheubarth, trwy i *Rhys a Maredydd*, meibion yr arglwydd Rhys, godi gwrthryfel yn erbyn eu tad; ond yr hen wron a lwyddodd yn fuan i ddarostwng y gwrthryfel, ac a gymmerodd ei feibion yn garcharorion. Yn fuan ar ol hyn, yr arglwydd Rhys—wedi ei dddigio gan rai o'r awdurdodau Seisnig, yn ngwasanaeth y rhai y buasai mor ffyddlawr dros gynnifer o flyneddoedd—a gymmerodd dref a chastell Caerfyrddin, y rhai a arheithiodd, gan ddychwelyd ág yspail fawr; yna efe a arweiniodd ei fyddinoedd i'r cyffindiroedd, ac a gymmerth gastell Clun, neu Colwyn, y hwn a losgodd efe; a'r un ffunud wedi hyny, castell Maeshyfaidd. Yna *Roger Mortimer*, a *Hugh de Saye*, a gynnullasant fyddin fawr o Normaniaid a Saeson, oll yn filwyr profedig, ac wedi eu harfogi yn dda, ac a'u dygasant i'r dyffryn gerllaw; a'r hen wron Cymreig a'u hwynebodd yn eofn, ac mewn brwydr galed a'u llwyr orchfygodd, er fod llawer o'i wŷr yn anarfawg ac annghynnefin ág ymladd; ac wedi gyru ei elynion beilchion ar sfo, efe a barhaodd yn eu hymlid a'n saethu, hyd oni ddaeth y nos yn gymmwynasgar i gysgodi drostynt á'i lleni duon. Yna efe a ymosododd ar gastell Paen yn Elfael, yr hwn a gymmerodd; ond efe a'i rhoddodd yn ol ar ryw amodau i'w berchenog, *William de Breus*.

Cyn nemawr wedi hyn, darfu i *Hubert*, archesgob Caergaint—yr hwn a benodasid gan y brenin Rhisiart fel ei raglaw, neu brif ynad Lloegr—ddwyn byddin yn erbyn y Trallwng, ac ymosod ar y Castell Coch, yr hwn oedd yn meddiat *Gwenwynwyn*, mab Owain Cyfeiliawc; ond y castellwyr a'i hamddiffynasant mor wrol, fel na allai wneyd dim o hono trv y ruthr, ond colli llaweroedd o'i wŷr o'i flaen; am hyny efe a anfonodd am nifer o fwngloddwyr, i gloddio dan ei sylfeini; a'r castellwyr pan welasant hyny a'i rhoisant i'fynu ar amodau anrhydeddus, gan y caniateid iddynt fyned allan á'u harfau a'u dillad ganddynt. Yna yr archesgob a adgyweiriodd y castell, gan ei gadarnhau yn ddirfawr, ac a ddododd warchawldu ynddo, i'w gadw at wasanaeth y brenin, ac yna dychwelodd i Loegr. Ond yn y fan daeth *Gwenwynwyn*, a byddin ganddo; ac wedi dechreu gwarchae arno, y gwarchawldu breninol a'i rhoisant i'fynu ar yr un amodau ag y'i rhoddasid i'fynu iddynt hwy; ac felly *Gwenwynwyn* a'i hadenillodd.

Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1196, y bu farw yr enwog *Rhys ab Gruffudd*, a gyfenwid "*Yr Arglwydd Rhys*;" a gellid meddwl mai o haint, yr hwn yr adeg yma a fedai lawer o fonedd a gwein Prydain a Ffrainc, y bu efe farw; efe a gladdwyd yn Mynachlog Ystrad Fflur, yr hon a gyfodasid ganddo, ac yn y canlyniad i hyn a ddaeth yn gladdfa yr arglwyddi dylunawl o'i dylwyth.\* Ond ereill a ddywedant mai yn Nhŷ Ddewi y'i claddwyd.† Ar ol ei farwolaeth, ei fab *Gruffudd* a gymmerth afael ar y llywodraeth, ac a'i mwynhaodd mewn heddwch am beth amser; ond ei frawd *Maelgwyn*, yr hwn a ddiatiffeddasid gan ei dad, a ymgynghreiriodd á *Gwenwynwyn*, mab Owain Cyfeiliawc, ac wedi cydio eu lluoedd, hwy a ddaethant yn ddisymwth ar *Gruffudd* yn Aberystwyth; ac wedi lladd llawer o'i wŷr, cymmerasant ef yn garcharor, ac a oresgynasant holl Geredigiawn. *Maelgwyn* a anfonodd *Gruffudd* ei frawd yn garcharor at *Wenwynwyn*; ond y gŵr hwnw a'i trosglwyddodd i'r Saeson, ac a arweiniodd ei wŷr yn erbyn *Arwystli*, gan ei goresgyn iddo ei hun.

Tua'r adeg yma y torodd rhyfel fawr allan yn Ngwynedd eto; canys

\* Warrington's Hist. of Wales, p. 349.

† Hanes Cymru, gan y Parch. T. Price, t. d. 615.



Dafydd ab Owain, y tywysog diweddar, a ddyg fyddin luosawg o Saeson a Chymry, i geisio adenill tywysogaeth Gwynedd oddiar Llewelyn ab Iorwerth; ond Llewelyn, gyda chyflwymder dihafal, a'i cyfarfu mewn brwydr, yn yr hon y maeddodd ei fyddin, ac yntau ei hun a gymmerth efe yn garcharor.

Yn niwedd yr un flwyddyn (1197,) bu farw *Owain Cyfeiliawc*, tywysog Powys; gŵr oedd o ran ei anianawd yn tebygu llawer i'w gydoesydd—Rhys ab Gruffudd; yn rhagori yn ei ddewrder, ond yn gall iawn hefyd, ac yn amlygu graddau helaeth o goethiant meddwl a moesau, ac ymarweddai boneddigaidd, teilwng o'i dras uchel a'i sefyllfa anrhydeddus. Ar ei farwolaeth, daeth ei fab *Gwenwynwyn*, am yr hwn y crybwyllasom eisoes, i feddiant llawn o'r llywodraeth yn Mhowys; ac yn mhen tua blwyddyn, efe a arweiniodd ei fyddin tuag at gastell Paen yn Elfael, yr eiddo *William de Brews*, gan benderfynu ei losgi, ac anrheithio yr holl arglwyddiaeth berthynol iddo, er ymddial ar farbareidd-dra *de Brews*, yr hwn a lofruddiasai *Trahaern Fychan*, arglwydd Llangors, trwy beri ei lusgo ar ol march trwy dref Aberhonddu, ac wedi hynny torri ei ben, a chrogi ei gorph ar bren dros dri diwrnod; am yr hyn nis gellir rhoddi unrhyw reswm, ond creulonedd cythreulig ei natur. Ond gan nas meddai *Gwenwynwyn* beiriannau cyfaddas i enill y lle, bu dair wythnos yn ei warchae, yr hyn a roddes arfod i'r gwarchaedig i anfon i Loegr am gynnorthwy; a'r brenin a anfonodd *Geoffrey Fitz Pedr*, prif ynad Lloegr, & byddin gref yn gynnorthwy iddynt; a hwnw, pan nesaodd at y lle, a geisiodd gan *Wenwynwyn* ddyfod i gymmod; ond ni wrandawai efe ar unrhyw gynnygiad. Yna yr arglwyddi Seisnig a ollyngasant Gruffudd ab Rhys yn rhydd, yr hwn, fel y soniwyd, a draddodasid yn garcharor iddynt gan *Wenwynwyn* rai misoedd o'r blaen: ac yntau yn falch o'r cyfie i dalu y pwyth i'w elyn, a aeth ac a gynnullodd fyddin gref, yr hon a ddyg efe i'r maes i gynnorthwyo yr arglwyddi Seisnig, a brwydr waedlyd a fu y canlyniad, yn yr hon y lladdwyd tua thair mil o wŷr *Gwenwynwyn*, medd rhai; ac yn eu mysg, amryw o fonedd y Cymry—megys Anarawd ab Binion, Owain ab Cadwallawn, Rhisiart ab Iestyn, a Rhobert ab Hywel; a Maredydd ab Cynan, ac amryw ereill, a gymmerwyd yn garcharorion. Ar ol y fuddugoliaeth hon, Gruffudd ab Rhys a adenillodd ei holl diriogaethau oddiar ei frawd Maelgwyn, oddieithr dau gastell—yr eiddo Aber-teifi ac Ystradmeurig; ac er mynych fân frwydrau â'i frodyr, cadwodd Gruffudd y llywodraeth yn ei law hyd ei farwolaeth, yr hyn a fu yn y flwyddyn 1202, er galar mawr i'w ddeiliaid, y rhai oeddynt yn dechreu dyfod i ddeall ei fod yn feddiannol ar gymhwysderau rhagorol fel llywodraethwr; a'i fod yn debyg o ddwyn y Deheubarth i drefn dda, pe y cawsai fyw ychydig yn hwy. Efe a adawodd yn etifedd ei olud a'i anrhydedd, fab o'r enw *Rhys*, o *Mawd*, ferch *William de Brews*.

Yna Llewelyn ab Iorwerth, tywysog Gwynedd, gan gofio fel yr oedd yr holl dywysogion ereill yn rhwym yn ol ordeiniad Rhodri Fawr, a chyfeithiau Hywel Dda, i gydnabod brehin neu dywysog Gwynedd fel eu penteyrn, a dala eu tiriogaethau dano ef, ac nid dan frenin Lloegr, fel y gwnelai rhai o honynt—a anfonodd wŷs i holl arglwyddi Cymru i ymgylarfod mewn cynghor; a hwy a ymddangosasant gan mwyaf ger ei fron, ac a gymmerasant lw o wriogaeth iddo: ond *Gwenwynwyn*, tywysog Powys, nid ufuddhai i'r alwad; eto pan welodd fod Llewelyn a'r tywysogion ereill yn penderfynu ei orfodi i wneyd, neu gymmyd ei dywysogaeth oddiarno, efe a gymmerth ei berswadio gan rai o'r offeiriaid i wneyd fel y gwnelasai y tywysogion Cymreig ereill; ac fel hyn ymgadarnhai y tywysog Llewelyn yn ei lywodraeth, ac ymdrechai i sicrhau annibyniaeth ei wlad,

trwy uno gwahanol ranau Cymru tan un penteyrn. Yn fuan ar ol hyn, efe a briododd *Joan*, merch y brenin *John*; ac yn fuan wedi, ychwanegwyd at ei awdurdod trwy lwyr orthrechriad a marwolaeth ei hen elyn, Dafydd ab Owain, yr hwn a fuasai gynt yn dywysog Gwynedd. A thrachefn, yn y flwyddyn 1208, fel yr oedd Gwenwynwyn, tywysog Powys, wedi myned i'r Amwythig, i ymddiddan â chyngor y brenin, efe a ddaliwyd yn garcharor yno, trwy orchymyn y brenin; ac ar hyny, aeth Llewelyn ac a gymmerth feddiant o holl Bowys, a'r trefydd a'r cestyll, ac a'u cadwodd iddo ei hun. A Maelgwyn ab Rhys, pan glybu hyn, ac yn ofni bod Llewelyn yn bwriadu goresgyn y Deheubarth yr un ffunud, a dorodd gestyll Aberystwyth, Ystradmeurig, a Dinerth, gan ei fod yn ofni nas gallai eu cadw rhag Llewelyn; ond y tywysog hwnw a aeth rhagddo i Aberystwyth, ac a ailadeiladodd y castell, ac a'i cadarnhaodd. Wedi hyny cymmerodd gantref Penwedig iddo ei hun, a rhoddes y dryll arall o Geredigion—sef Uch Aeron—i feibion Gruffudd ab Rhys, ei neiaint—sef *Rhys Ieuanc* a'i frodyr—a dychwelodd i Wynedd yn anrhydeddus. Y llwyddiant yma o eiddo Llewelyn a gyffrôdd eiddigedd y Saeson yn ei erbyn; canys Iarll Caer a ddaeth ac a adgyweiriodd gastell Dyganwy, yr hwn a dorasid gan y tywysog Llewelyn; ac a aeth hefyd ac a adgyweiriodd gastell Trefynon; a hyn a gyffrôdd ddigter Llewelyn, fel y rhuthrodd efe ar diroedd yr iarll, gan eu diffeithiau yn ddiarbed. Yr un eiddigedd a gynhyrfodd *Rhys Gryg* yu y Deheubarth; canys wrth weled rhwysg Llewelyn, a'i garedigrwydd i'w neiaint, efe a aeth i geisio cynnorthyw gan y brenin, yr hyn a gafodd yn llawen; a thrwy y cyfnerthiad hwnw efe a gymmerth gastell Llanymddyfri. Y brenin, tua'r un amser, yn ofni cynnydd cadernid Llewelyn, a ollyngodd Wenwynwyn yn rhydd, ac a roddes gynnorthyw o arfogion i adenill ei dywysogaeth iddo. Maelgwyn ab Rhys yn gweled y pethau hyn, ac yn deall mai amean y brenin Ioan oedd cadw tywysogion Cymry mewn amrafael a'u gilydd, rhag eu myned trwy eu hundeb yn gymmydogion rhy gryfion i'r Saeson—a aeth at y brenin, ac a gafodd ganddo lu o Normaniaid ac o Saeson, at y rhai yr ychwanegodd ei wŷr ei hun, a chan dori ei lw a'i amod, a aeth yn erbyn ei neiaint, Rhys Ieuanc ac Owain, ac a ddechreuodd ddifeithiau eu tiroedd. Ac ar ol dyfod i Benwedig, ymwersyllodd yn Nghilcenyn, lle yr arosodd dros nos, gan fwriadu myned rhagddo yn ei gadgyrchiad dranoeth. Yn y cyfamer, Rhys Ieuanc ac Owain a gynnullasant o gylch tri chant o wŷr dewisedig, ac a ddaethant yn ddirgel, ac a wersyllasant gerllaw; ac yn nyfnder y nos, pan oedd tawelwch yn teyrnasu trwy holl wersyll Maelgwyn, heb un dysgwyliad yn eu mysg y gwnelsid ymosodiad arnynt, hwy a arweiniasant eu barfogion yn y modd dystawaf i wersyll Maelgwyn, gan ruthro ar ei wŷr yn eu cwsg, a gwneyd galanastra ofnadwy arnynt; ac ni ddiangodd ond ychydig niŷer gyda Maelgwyn, a'u heinioes yn ysglyfaeth ganddynt, y noswaith hono. Yn yr ymgyrch yma, cymmerwyd ei nai, *Cynan ab Hywel*, a'i brif gynghorwr, *Gruffudd ab Cadugan*, yn garcharorion; ac *Einion ab Caradawg*, yn nghyda llawer ereill o'i wŷr, a laddwyd.\*

Y flwyddyn ganlynol, dygid amryw gwynion at y brenin Ioan, gan arglwyddi y cyffindiroedd—fod y tywysog Llewelyn yn anrheithio eu gwledydd, gan ladd, a llosgi, ac yspello, y ffordd y cerddai: am hyny y brenin a gynnullodd fyddin luosog trwy holl Loegr, gan wahodd cynnifer o'r penaethiaid Cymreig a addefent ei uchafiaeth, i'w gynnorthywo—megys *Gwenwynwyn*, tywysog Powys, *Hywel ab Gruffudd ab Cynan ab Owain Gwynedd*, yr hwn a alltudiasid gan Llewelyn, a *Madog ab Gruffudd*

\* Powel's Hist. of Wales, p. 190.

*Maelawr*, a *Meredydd ab Rhotpert*, o Gedewin, a *Maelgwyn a Rhys Gryg*, meibion yr arglwydd Rhys; ac â'r fyddin yma efe a ddaeth hyd Gaerlleon, gan benderfynu llwyr anrheithio holl Wynedd. Ond y tywysog, wedi deall am yr holl ddarpariadau mawrion hyn, a chanfod fod cynnifer o'i gydwladwyr wedi ymgynghreirio â'r gelyn cyffredinol, a anfonodd orchymyn i drigolion swyddi Fflint a Dinbach, i symud eu hanifeiliaid a'u daoedd i Eryri dros amser; a'r brenin a arweiniodd ei fyddin gyda glan y mor, trwy Ruddlan, hyd Ddeganwy, lle y gweryllodd; ond gwnaed ei sefyllfa yno yn flin a pheryglus yn fuan—canyis Llewelyn a'i gwarchaeodd mor gyfyng, fel nas gallai gael dim cynnaliaeth i'w wŷr o Loegr, ac ni feiddiai ei filwyr ymwasgaru o'r gweryll i geisio yeglyfaethu yspail yn y wlad o'u deutu, na byddai pobl Llewelyn yn rhuthro arnynt, fel llewod o'u llochesau, gan eu lladd yn ddia-bed; ac mor gyfyng fu ar fyddin y brenin, fel y dywedir eu bod yn "gweled yn foethus ganddynt gael cig y meirch i'w fwyta." Yna y brenin, yn gweled nad oedd ganddo ddim arall i'w wneyd, a ddychwelodd adref yn waradwyddus a digofus, gan adael celaneddau llawer o'i wŷr ar hyd y wlad. Ond yr aflwydd yma a barodd i'r brenin benderfynu adnewyddu ei ymgais i ddial ar Llewelyn; ac felly, yn Awst y flwyddyn ganlynol (1212,) efe a ddaeth drachefn, gyda byddin dra lluosawg, a'r un pendefigion Cymreig yn ei gynnorthwyo, ac a groesodd afon Conwy, gan ymwersyllu ar lan yr afon; ac anfonodd ran o'i fyddin o'i flaen i Fangor, y rhai a losgasant y ddinas hono, ac a gymmerasant yr esgob *Rhotpert* yn garcharor—rhyddid yr hwn a brynwyd wedi hynny am ddau cant o hebogiaid. Yna y tywysog, yn gweled holl Loegr, a chymmaint o Gymru, yn ei erbyn, a rhan fawr o'i diriogaeth wedi ei dwyn oddiarno—trwy anogaeth ei gynghoriaid, a anfonodd ei wraig *Joan*, merch y brenin, at ei thad, i erfyn arno ddyfod i amodau heddwch; a'r canlyniad fu i'r tywysog ddyfod at y brenin, ac ymheddychu—ar yr ammodau y byddai iddo dalu i'r brenin, at draul y rhyfel, ugain mil o wartheg, a deugain o feirch, ac hefyd ganiatau i'r brenin arglwyddiaeth y berffeddlad—rhanau o swydd Fflint a Dinbach—dros byth. Mae lle cryf i gasglu bod y dywysoges, gwraig Llewelyn, wedi dylanwadu llawer arno i gael ganddo ymostwng i'r fath ammodau gwaradwyddus a'r rhai uchod, yn hytrach nag ymladd hyd y diwedd dros annibynolrwydd ei wlad.

Yr oedd y rhan fwyaf o dywysogion a phendefigion Cymru erbyn hyn naill ai wedi eu darostwng neu eu gostegu; ond yr oedd Rhys Ieuanc a'i frawd Owain, meibion Gruffudd ab Rhys, yn cynnal eu hannibynolrwydd eto: am hynny, y brenin a anfonodd at *Ffawcwn*, arglwydd Caerdydd, i godi byddin o wŷr y cyffindiroedd, ac unaw â Maelgwyn a Rhys Fychan, i wneyd cadgyrchiad yn erbyn y ddau frawd; a'r canlyniad fu, eu gorfodi hwythau i ymostwng i geisio heddwch y brenin—ac er mwyn ei gael, rhoddent i fynu iddo yr holl wlad rhwng Dyfi ac Aeron: a chyn gadael y wlad, Ffawcwn a gadarnhaodd gastell Aberystwyth, ac a roddes warchawdlu ynddo, i'w gadw i'r brenin. Ond yn lled fuan, edifarhaodd Maelgwyn, a'i frawd Rhys Gryg, am yr heddwch a wnaethent â'r brenin, ac ymosodasant ar gastell Aberystwyth, yr hwn hefyd a gymmerasant ac a ddinystrasant: a phan welodd eu neiaint, Rhys Ieuanc ac Owain, eu bod hwy wedi tori yr heddwch yn y fath fodd, yn lle ymuno â hwy yn galonog yn erbyn y gelyn estronawl, hwy a lawenychent yn hytrach o'r cyfle i ddial ar eu ceraint, ac a wnaethant gadgyrchiad i'w wlad Maelgwyn, ac wedi lladd llawer o'i wŷr, dychwelasant gydag yspail fawr.

Y flwyddyn ganlynol, Llewelyn—heb allu goddef trahausder a gormes castellwyr y brenin yn hwy—a wahoddodd *Wenwynwyn*, tywysog Powys, *Maelgwyn ab Rhys*, o'r Deheubarth, *Madawc ab Gruffudd Maelawr*, o Fael-

awr, a *Meredydd ab Rhotpert*, o Gedewin; ac wedi darluniau iddynt gyflwr truenus y wlad, a dannod iddynt mai eu cyndynrwydd ymrysongar hwy eu hunain yn unig a fuasai yn achlysur i'w dwyn dan iau estronaidd, a lwyddodd i'w darbwyllo i ymunaw âg ef unwaith eto mewn ymdrech i adenill eu rhyddid; ac wedi cynnull byddin gref yn nghyd, hwy a adenillasant yr holl gestyll Seisnig yn y berfeddwlad, oddieithr Rhuddlan a Theganwy. Yna, gan ddyfod i Bowys, hwy a warchaeasant ar gastell a gyfodasasai *Robert Vespont*, yn Mathrafael; a'r brenin a ddaeth â byddin gref i'w amddiffyn. Ond wedi cyfodi y gwarchae, dystrywio y castell a wnaeth ef ei hun, a dychwelyd ar frys i Loegr, gan fod ymryson blin yn hanfodi y pryd hyny rhyngddo â'i bendeffigion ei hun. Ond y Cymry a barhaent i anrheithio y cyffindiroedd, ac i yspeilio y trigolion o'u meddiannau; a'r brenin, wedi ei hysbysu, a gynnullodd lu annifeiriol, gan fwriadu llwyr ddinystrio y cyfan o genedl y Cymry; ac efe a ddaeth hyd Nottingham ar y cadgyrchiad yma, lle y parodd grogi y gwystlon oeddynt yn ei ddwyllaw—sef *Hywel ab Cadwgan*, *Madawc ab Maelgwyn*, ac ereill, hyd wyth ar hugain o rifedi; a *Robert Vespont*, yn y Mwythig hefyd, a grogodd *Rys ab Maelgwyn*, yr hwn nid oedd yn gwbl saith mlwydd oed.

Tra yr oedd y brenin yn Nottingham, efe a dderbyniodd lythyrau oddiwrth ei ferch, gwraig Llewelyn, yn ei rybuddio i roddi y cadgyrchiad yma i fynu, gan fod brad yn cael ei gyfodi yn ei erbyn yn mysg ei bendeffigion ei hun; ond yn mlaen y daeth efe hyd Gaerlleon, lle y cyfarfyddid â llythyron eilwaith oddiwrth ei ferch, yn ei dnyghedu er mwyn ei orsedd a'i einioes i ddychwelyd, gan ei sicrhau bod *Robert Fitzwater*, *Estuace de Vescey*, a *Stephen Riddel*, wedi myned drosodd i Ffrainc yn lladronaidd, er mwyn cael gan y brenin hwnw barotoi byddin i ddyfod drosodd i Loegr, i gynnorthwyo ei bendeffigion i'w ddiorsedd ef, am ei fod yn cael ei gyfrif yn wrthryfelwr yn erbyn yr eglwys; a'r newydd yma a'i dychrynodd gymmaint, fel y gwasgarodd ei wŷr i'w cartref, ac y dychwelodd ei hun ar frys i Lundain.

Yn y flwyddyn 1213, y Pab, er ymddial ar y brenin Ioan, a ryddhaodd y tywysog Llewelyn, yn nghyda Gwenwynwyn a Maelgwyn, oddiwrth y llwon a wnaethent i'r brenin, gan eu gorchymyn i'w fino a'i ymlid hyd eithaf eu gallu, megys gelyn i'r eglwys; ac addawai faddeuant o'u pechodau iddynt, os cyflawnent y gorchwyl yn ffyddlaw. Wedi eu calonogi fel hyn, ni buant yn hir cyn bod Llewelyn wedi adenill y berfeddwlad yn llwyr, a chymmyrd cestyll Rhuddlan a Deganwy, fel na adawodd i'r brenin droedfedd o dir o fewn i Wynedd. Cyn diwedd y flwyddyn ganlynol (1215), cawn fod y brenin wedi ymbeddychu â'r eglwys, a'r Pab yn y canlyniad yn cyhoeddi melldithion ei anfaeledigaeth yn erbyn pwy bynag a'i gwrthladdent; a dywaid *Pope* fod ysgrif awdurdodol o dan law y Pab, yn cynnwys dedryd o ysgymundod ar Llewelyn, ac ereill a ryfalent yn erbyn y brenin, ar gael eto yn mhlith yr hen gofion a gedwir yn y Tŵr. Parodd hyn y fath fraw i *Giles de Breos*, esgob Henffordd, fel yr aeth ac yr ymgymmododd â'r brenin; ond ni pharai bugunad tarw ei sancteiddrwydd unrhyw fraw i Lewelyn, yr hwn a lynai yn ddiysgog wrth ei blaid.

Yn y cyfnod yma, bu Llewelyn yn gyfnerthiad mawr i'r boneddwy'r Seisnig rhyddgarawl, yn eu hymdrechion i gael y freinlen a elwir *Magna Charta*; ac y mae bannau o'r freinlen hono yn golygu y Cymry yn arbenig, fel y gwelir oddiwrth y dyfyniadau canlynol:—

“Os darfu i ni ddifeddiannu y Cymry o neb rhyw droedd neu freintiau, neu bethau ereill, heb gyfreithiawl farn eu cydraddwyr, cânt yn ddiweddyr dychwelyd iddynt. Ac os cyfyd un ddadl ar y pen hwn, caiff ei benderfynu yn y cyfaddiwedd, trwy farn eu cydraddwyr—am dyddynau yn

Lloegr, yn ol cyfreithiau Lloegr; ac am dyddynau yn Nghymru, yn ol cyfreithiau Cymru. Yr un peth y bydd i'r Cymry ei wneyd tuag atom ni, a thvag at ein deiliaid.

Am yr holl bethau o'r sawl y cafodd neb rhyw Gymro ei ddfeddiannu, heb farn ei gydraddwyr, gan y brenin *Henri*, ein tad, neu gan ein brawd, y brenin *Richard*, a'r sawl bethau y sydd yn ein dwylaw ni, neu yn meddiant ereill dan ein hawdurdod, bydd i ni gael oediad hyd yr amser cyffredinol, yn ganiataol o achos rhyfeloedd y groes; oddieithr y pethau hyny ag ydynt eisoes mewn dadl, neu am y sawl y gwnaethpwyd holiad, cyn cymmeryd arnom ryfel y groes. Ond pan ddychwelom, neu os arhosom gartref, ac na chyflawnom ein pererindod, gwnawn gyflawn iawnder iddynt yn ddioced, yn ol cyfreithiau y Cymry, a'r rheolau rhagadroddedig.\*

Bydd i ni yn ddioced anfon adref fab Llewelyn, a'r holl wystlon Cymreig, a'u rhyddhau oddiwrth yr holl amodau a wnaethant â ni, er cynnaliad heddwch."

Gellir meddwl oddiwrth y crybwyllion uchod, fod y brenin Ioan wedi rhoddi ei fryd ar fyned i ryfel y groes, ond ei amrafael rhyngddo â'i bendefigion nis gadawai iddo hamdden i gyflawni hyny; ac yn lled fuan, efe a glafychodd, ac a fu farw; a'i fab, *Harri y Trydydd*, a'i dilynodd yn y freniniaeth; yr hwn yn fuan a ddylynodd hen ystrywiai ei dadau tuag at y Cymry; canys efe a ddenodd *Reynallt de Breos*, daw y tywysog, i dori ei amodau âg ef, ac ymunaw â'r brenin; ond yn fuan daeth Llewelyn a'i luoedd am ei ben, fel y barnodd mai gwell iddo ymostwng i geisio maddenant ei chwegrwn, yr hyn a ganiatawyd iddo.

Yr oedd y barwniaid Seisnig wedi ceisio a chael cynnorthwy tra effeithiol gan Llewelyn a'r Cymry, yn eu hymdrechion i ysgwyd iau drom y brenin Ioan oddiarnynt: ond ar ol cael eu hamcan, anghofiasant eu cynnorthwywyr, pan yn gwneyd amodau â Harri: ac yn mhen ychydig, iarll Penfro a ymosododd ar dref Caerlleon ar Wysg, ac a'i cymmerodd, gan ymroddi i ddrygu y Cymry. Ar hyny, *Rhys Gryg* a ruthrodd ar gastell Sein Henyd, ac a'i cymmerodd, yn nghyda holl gestyll Gwyr; ac ymlidiodd yr holl Saeson o'r wlad hono, gan reddi eu tiroedd i Gymry, y rhai a wladychasant yno yn eu lle.

Anfonodd y brenin Harri amryw wysiau, oddeutu yr adeg yma, at y tywysog Llewelyn, i erchi ei gyfarfod mewn manau a enwid ganddo yn Lloegr, i wneuthur gwriogaeth iddo; ond yn hytrach nag ufuddhau i'r cyfryw wysiadau, efe a gadarnhaodd gestyll Caerfyrddin ac Aberteifi, gan osod gwarchawdluoedd ynddynt: er hyny, ymddengys iddo dalu rhyw gymmaint o barch i'w eirchion, gan iddo ganiatai i Rys Ieuanc fyned ato i wneyd gwriogaeth iddo am ei diroedd, y rhai a ddelid ganddo megys un o arglwyddi cyffindriol Lloegr.

Tua'r un amser y flurfiwyd cyfathrachau newyddion rhwng y pendefigion o'r ddwy genedl—canys Rhys Gryg a briododd ferch Iarll Clâr: a *John de Breos* a briododd Marred, ferch Llewelyn. Am *Rheinallt de Breos* ni wyddys pa bryd y terfynodd ei einioes, ond ei weddw a briododd *Ralph Mortimer*, arglwydd Maelienydd, a'i thad, Llewelyn, a rodde yn waddol gyda hi, diriogaethau Ceri a Chedewain: a chyn pen hir ar ol hyn—sef tua'r flwyddyn 1221—priodai merch arall i Llewelyn, âg un o'r arglwyddi Albanaid, yr hwn oedd yn nai i Iarll Caer.†

Yn nghanol y pryder a lanwai feddwl Llewelyn, o herwydd ei gyssylltiadau cyhoedd, fel tywysog Cymru, chwerveid ei phiol trwy yspryd aflyw-

\* Gwel Hanes Cymru, gan y Parch. T. Price, t. d. 631, 632.

† Holmshead, p. 204.

odraethus ei fab henaf, *Gruffudd*, yr hwn, heb gydsyniad ei dad, a drawsfeddiannodd gantref Meirionydd, gan gymmeryd arno awdurdod anibynol ar ei dad. Yna Llewelyn a wysiodd ei fab i ymddangos o'i flaen; a chan iddo wrthod ufuddhau iddo, efe a dyngodd yr ymddialai arno ef a'i ganlynwyr, am gynnyg y fath sarhad ar ei nodweddiad fel penadur a thad: a chyda'r amcan yma, efe a arweiniodd fyddin gref i Feirionydd; a Gruffudd yntau, yn eithaf anhyblyg, a gynnulodd gynnifer o wŷr ar a allai, ar fedr ymladd â'i dad. Ond cyn ymladd o honynt, rhai o ddoethion y ddwy blaid a lwyddasant i gael ganddynt ymheddychu, ac ar ymstyngiad Gruffudd, ei dad a faddeuodd iddo: eto efe a gymmerth oddiarno y cantref a drawafeddiannasai, a chwmd Ardudwy, ac a adeiladodd yno gastell iddo ei hun.

Tua'r un amser, digiodd Rhys Ieuanc wrth Llewelyn, o herwydd iddo roddi castell Caerfyrddin i Faelgwyn ab Rhys, ac na roddasai iddo yntau gastell Aberteifi, yr hyn a ystyriai fel ei gyfran pan ranwyd y Deheubarth; ac efe a ymunodd â *William Marshall*, iarll Penfro, yr hwn oedd mewn rhyfel y pryd hyny â Llewelyn; gan hyny, Llewelyn a ddyg ei fyddin yn erbyn castell Aberystwyth, yr hwn a gymmerodd iddo ei hun: yna yr aeth Rhys at y brenin i achwyn am y sarhad; yr hwn yn y canlyniad a wysiodd Llewelyn ac arglwyddi y cyffindiroedd i ymddangos o'i flaen ef yn yr Amwythig, ac yno y'u heddychwyd, a rhoddwyd castell Aberteifi i Rhys, yn ol ei hawl. Yn fuan ar ol hyny—sef yn y flwyddyn 1222—bu farw Rhys Ieuanc, iawn etifedd gorsedd y Deheubarth, a'i frawd Owain a gafodd ran o'i gyfoeth, ond y gweddill a roddwyd gan Lewelyn i Faelgwyn ab Rhys.

Yr oedd Llewelyn erbyn hyn mewn heddwch â'r pendefigion Cymreig yn gyffredinol, ond nid oedd felly â'i holl gymydogion; canys tra yr oedd *William Marshall*, iarll Penfro, yn absenol yn y Werddon, efe a ymosododd ar ddau o'i gestyll, a chan ladd y ceidwaid, cymmerodd feddiant o honynt, gan roddi ei wŷr ei hun ynddynt. Er dial am y traha yma, daeth y brenin i'r cyffindiroedd gyda byddin; ond efe a ddychwelodd i Loegr yn fuan, heb gyflawni unrhyw orchest filwraidd, gan fod Iarll Caer wedi eiriol dros y tywysog, ac addaw y byddai iddo, erbyn rhyw ddydd penodedig, wneyd iawn am y cam a wnelsai: ond pan welodd Llewelyn fod y perygl wedi cilio, nis gofalai nemawr am gyflawni ei ymrwymiad.\* Ond dychwelodd Iarll Penfro yn fuan o'r Werddon, a byddin gref ganddo, a chan lantio yn Nhy Ddewi, efe a adenillodd ei gestyll—sef, Caerfyrddin ac Aberteifi—gan ladd y gwarchawdluoedd Cymreig, megys y gwnelsai Llewelyn â'r eiddo yntau; a dechreuodd anrheithio tiriogaethau Llewelyn â'r tân ac â'r cleddyf: am hyny y tywysog a anfonodd ei fab Gruffudd, gyda byddin o naw mil o wŷr, i'w wrthladd, yr hwn a gyrhaeddodd Gydwelli; ond wedi deall fod gwŷr y dref yn bwriadu ei fradychu i ddwy-law y gelyn, efe a losgodd y dref a'r eglwysi yn lludw. Yna yr iarll a groesodd yr afon Tywi, wrth Caerfyrddin, lle y cyfarfu Gruffudd âg ef, ac ymladd yn galed a wnaeth y ddau lu, heb fod y naill na'r llall yn gallu ennill y fuddugoliaeth; ac yn yr hwyr, enciliai y ddwy fyddin ychydig, gan wersyllu ar gyfer eu gilydd, a'r afon rhyngddynt: ac yn y sefyllfa hon y buont yn gorwedd amryw ddyddiau, hyd oni orfu i Gruffudd, o ddi-flyg arlwy i'w fyddin, encilio tua Gwynedd. Yna yr iarll a adgyweiriodd gastell Caerfyrddin, ac a ddechreuodd adeiladu castell yn Nghilgeran; ond cyn ei orphen, cafodd ei wysio i ymddangos ger bron y brenin ac archesgob Caergaint, yn Llwydlo—lle hefyd y gwyisiwyd y tywysog Llew-

\* Warrington's History of Wales, pp. 378, 379.

elyn a'i fab Gruffudd, ac amryw o'i brif bendefigion—er gwneyd ymdrech i'w cymmodi; ond ofer fu eu hymdrechion: a phan fynai yr iarl ddychwelyd i Benfro, gan gael ei gyfnerthu gan Iarl Derby, a *Henry Pigot*, arglwydd Ewya, trwy diriogaethau y tywysog, Llewelyn a anfonodd ei fab Gruffudd, a byddin gref, i gymmyrd meddiant o fwch Carnyllion, ac yn gynnorthwy iddo daeth Rhys Gryg a'i wŷr; a'r tywysog ei hunan a ddaeth â byddin gref hyd at Mabedryd; yr hyn pan wybu yr iarl, dychwelodd i Loegr, yn hytrach nag anturiaw ymladd â'r fath elynion; ac yna Llewelyn a ddychwelodd i Wynedd.

Y fwyddyn ganlynol daeth y brenin, a chadernid Lloegr gydag ef, i Gymru, ar fedr darostwng Llewelyn a'r holl dywysogaeth iddo ei hunan; ac yn y lle a elwir *Ceri* y gwersyllodd efe, ac o'r tu arall i'r goedwig yr ymgynullodd y Cymry, dan dywysiad Llewelyn; a bu mynych ymladdau rhyngddynt, yn enwedig un diwrnod, pan ddygwyd grym y ddwy fyddin i'r maes, ac y lladdwyd lluaws mawr o wŷr y brenin, a chymmerwyd un o'i brif swyddogion yn garcharor—sef *Gwilym*, mab *Rheinallt de Breos*, arglwydd Buallt. Ond yn y diwedd, gorfu i'r brenin wneyd heddwch gwarthus â'r tywysog—gan gytuno i'r castell, yr hwn yr oedd efe yn awr trwy ddirfawr draul yn agos a'i orphen, gael ei chwala eto hyd lawr, a gadael *de Breos* yn garcharor—ac felly efe a ddychwelodd adref; a Llewelyn yntau, a dychwelodd i'w lys ei hun yn Aber, gan ddwyn *Gwilym de Breos* gydag ef, yr hwn a gadwyd yn garcharor ganddo dros yspaid, eto gyda gradd o anrhydedd a rhyddid, gweddus i'w urddas, fel yr ymdengys; canys dywedir iddo cyn hir fod yn euog o gyfeillach anwedd-aidd â'r dywysoges *Joanna*, gwraig Llewelyn, yr hyn ar y pryd a gedwid yn anhybys i'r tywysog; ac ar ol iddo fod yn garcharor dros ryw yspaid, cafodd ei rhyddid, drwy roddi i ddwyllaw Llewelyn gastell Buallt, yn nghyda swm mawr o arian. Ond wedi ei ollyngiad, daeth ei ymddygiad yn hybys i'r tywysog, yr hwn a'i gwahoddodd i'w lys; ac wedi dannod ei ymddygiad gwarthus iddo, efe a barodd ei grogi ar bren a dyfai ar fryn gerllaw; a'r llanerch a elwir hyd heddyw, "Y wern grogedig," neu "Gwern y grogfa;" a dywedir ei fod wedi ei gladdu mewn lle a elwir "Cae Gwilym Ddu." Mae y cofiant canlynol am y tro uchod yn nghadw yn y gymmydogaeth eto, i'r hwn y dichon fod rhyw sail, er y gall ei fod o ran yn chwedleuol.—Dywedir fod y bardd teuluol, ar ol crogiad *de Breos*, wedi cyfarfod â'r dywysoges yn ymrodio wrthi ei hun, ond yn anhybys o'r diwedd anffodus a oddiweddasai ei hanwylddlyn, ac iddo ei chyfarch yn y modd canlynol:—

"Diccyn doccyn, gwraig Llewelyn,  
Beth a roit am weled Gwilym?"

I'r hyn yr atebai hithau—

"Cymry, Lloegr, a Llewelyn,  
Rown i gyd am weled Gwilym."

Ac yna efe a ddangosodd ei gordderchwr iddi, yn nghrog ar y pren.\*

Tua'r pryd hyn, bu farw *Llewelyn ab Maelgwyn*, yn Ngwynedd, ac efe a gladdwyd yn abatty Aberconwy; a *Maelgwyn ab Rhys* a fu farw yn y Deheubarth, ac a gladdwyd yn abatty Ystrad Ffiur; a'r fwyddyn ganlynol, bu farw hen elyn y tywysog—sef *Gwilym Marshall*, iarl Penfro.

\* Powel's History of Wales, pp. 203, 204. Williams's History of Carnarvonshire, pp. 674, 655, &c. Matthew Paris, p. 468.

Yn y flwyddyn 1231, arweiniasai y brenin fyddin gref tua Chymru drachefn—efallai mai i ddial ar Llewelyn am roddi un o'i arglwyddi (*Wm. de Breos*) i farwolaeth, heb ymgynghori âg ef. Ond wedi aros ychydig yn y cyffindiroedd, gan fod rhyw amgylchiadau pwysig yn galw am ei ddychweliad prysur ef i Loegr, gadawodd ei fyddin dau lywodraeth *Hubert de Burgh*, i amddiffyn y cyffindiroedd rhag anrheithiau y Cymry; a hwn, wedi ei hysbysu gan ei ysbwywr, fod nifer o'r Cymry wedi tori i fewn i yspellio, yn nghymydogoeth Trefaldwyn, a anfonodd wŷr i'w cynllwyn yn y bylchau ar eu dychweliad, ac i'w lladd â'r cleddyf; ac er prawf o'i wrhydri, anfonodd benau amryw o honynt i Loegr, i'r brenin. Pan glybu Llewelyn am y traha yma, efe a sorodd yn fawr; ac wedi cynnull nifer mawr o arfogion yn nghyd, efe a ymosododd ar diroedd yr arglwyddi cyffindirawl, gan eu hanrheithio yn dost, fel y gwelodd y brenin yn angenrheidiol gynnwll byddin gref yn Rhydychain, a cheisio cymhorth yr eglwys hefyd, trwy beri ysgymuno Llewelyn; a chan gyflymu gyda'i fyddin, efe a gyrrhaeddodd Henffordd; ac yn y cyfamser, anfonai genadwri at ei gefnogwyr yn yr Iwerddon, i ddeisyf arnynt hwythau ymosod ar diriog- aethau Llewelyn o'r ochr hono.

Yr oedd Llewelyn y pryd hwn yn gwersyllu mewn gweirglawdd yn lled agos i gastell Trefaldwyn, yr hwn a adenillasid yn ddiweddar gan y Saeson, o ba rai yr oedd gwarchawdlu cadarn yn ei gadw; a'r tywysog a barodd i fynach o'r Cymer yndrechu i gamarwain y Saeson, fel y caffai hwynt i'w afael: felly y mynach, pan gyfarfu y swyddogion Seisnig âg ef, a dechreu ei holi am sefyllfa Llewelyn a'i fyddin, a ddywedai ei fod ef âg ychydig wŷr yn gwersyllu yn y weirglawdd gerllaw, a'i fod yn dysgwyl cyfnerthiad yn fuan; a phan ofynent a allai eu marchogion hwy fyned trwy y gors oedd o'u blaen i'r weirglawdd lle y gwersyllai y Cymry, efe a ddywedodd fod Llewelyn wedi tori y bont a arweinai trwodd, rhag ofn eu rhuthriad hwy, ond eto y gallent yn hawdd groesi y gors â'u meirch; ac âg ychydig farchogion, naill ai gorchfygu y Cymry, neu eu gyru ar ffo. Wedi derbyn yr hysbysiad yma, aeth mintai o'r marchogion Seisnig allan i ymosod ar y Cymry, yr hyn pan y gwelodd Llewelyn, efe a barodd i'w wŷr gymmeryd arnynt ffoi i'r coed, a'r marchogion a'u hymldiasant gyda rhuthriad cyflym; ond buan y soddai y rhai blaenaf o honynt yn y gors, hyd dorroedd eu meirch; a'r Cymry a droisant ar eu soddlau yn chwimwth, ac a'u lladdasant oll, yn feirch ac yn farchogion, â'u gwaywffyn; ac i ganlyn hyn, cymmerodd brwydr dra ffyrnig a chyffredinol le, yn yr hon y lladdwyd llawer o bobtu; ond y fuddugoliaeth a enillwyd yn drwyadl gan y Cymry, y rhai a gymmerasant amryw o brif swyddogion y brenin yn garcharorion: ac yn fuan ar ol y frwydr hon, bu raid i'r brenin ddychwelyd adref yn llawn mor warthus a'r tro blaenorol.

Yn y cyfamser, *Maelgwyn ab Maelgwyn ab Rhys* a warchaeodd Aber-teifi, ac a gymmerodd y dref, ac a'i dystrywiodd hyd at byrth y castell, gan ladd yr holl drigolion; ac yn fuan wedi hyny, efe a ddychwelodd, gyda'i gefnderw, *Owain ab Gruffudd*, a rhai o swyddogion y tywysog Llewelyn, a hwy a dorasant bont Teifi, ac a ymosodasant ar y castell gyda pheiriannau, gan ei ddymchwelyd, ac yna dychwelasant adref yn anrhydeddus.

Yn mhen tua blwyddyn ar ol hyn, yr aeth y tywysog Llewelyn ar gadgyrchriad i Frecheiniog, ac a enillodd holl gestyl y wlad, oddieithr castell Aberhonddu; ac wedi gwarchae mis ar hwnw, a methu ei enill, efe a losgodd y dref, efe a ddychwelodd i Wynedd âg yspail fawr ganddo; ac ar ei daith, llosgodd dref Colunwy, ac adenillodd Ddyffryn Tefeidiawg oddiar *John Fitzalan*; ond methodd a chymmeryd y castell.



Ar ol hyny dymchwelodd y Castell Coch, yn Mhowys, a llosgodd dref Croesoswallt.

Tua'r adeg yma, aeth yn ymrafael rhwng Iarll Penfro a'r brenin; a *Hubert de Burgh*, yr hwn a garcharesid gan y brenin, a ddiangodd o'i afael, ac a ymunodd âg Iarll Penfro a'r tywysog, yn erbyn y brenin; ac â hwy yr ymunodd Maelgwyn ac Owain, ac ymosodasant ar yr ardaloedd oeddynt yn meddiant y brenin, ac a enillasant gestyll Caerdydd, y Fenni, Pencelli, Blaenllyfni, a Bwlch y Ddinas, gan eu tori oll, oddieithr castell Caerdydd. Yna y brenin a gynnulodd lu mawr iawn o Fflandrwsiaid, Normaniaid, Gwasgwyniaid, a Saeson, ac a wnaeth gadgyrchiad rhwysg-fawr i Gymru, gan lawn fwrriadu dyfetha yr holl wlad; ac efe a wersylodd gerllaw *Gresmunt*, a'r iarll a holl gadernid Cymru a wersylodd ar ei gyfer; a buan y bu yn ysgarmes rhwng rhanau o'r ddwy fyddin, yn yr hon y collodd y-brenin tua phum' cant o farchogion, fel y digalonodd ef a'i gynghorwyr, ac y dychwelodd adref yn warthus.

Yn y flwyddyn 1234, unodd yr iarll a'r tywysog eu byddinoedd, ac a ymosodasant ar dироedd y brenin, gan ddiffodi yr oll o'u blaen, o ymylau Cymru hyd dref y Mwythig, yr hon hefyd a gymmerasant, ac a losgasant, ac yna dychwelasant âg yspail fawr. Yr oedd y brenin, yr holl yspaid yma, gydag esgob Caerloyw yn Nghaerwynt, heb feiddio cyfarfod â'i elynion ar y maes; ond yn gorfod gadael ei feddiannau i gael eu hanrheithio gan y Cymry wrth eu hewylllys: ac y mae yn ymddangos fod galanastra ofnadwy wedi cael ei wneyd ar wŷr y brenin yn y cadgyrchiadau hyn—cans y mae *Matthew Paris*\* yn dywedyd fod torf aneirif o'r *Poictefwys*, milwyr o'r cyfandir oeddynt yn myddin y brenin, wedi eu lladd ar gyffiniau Cymru, a bod celaneddau y Saeson yn gorwedd yn ddirifedi ar y maesydd, heb gladdedigaeth. Ond yn y flwyddyn hon, aeth Iarll Penfro drosodd i'r Werddon, gyda byddin o'i wŷr, ac mewn brwydr yno efe a laddwyd trwy frad rhai o'i wŷr ei hunan, a'i frawd *Gilbert* a etifeddodd ei diriogaethau ef.

Yr oedd y brenin yn awr wedi ei golledu cymmaint, ac wedi ei argyhoeddi nad oedd yn alluog i ymryson â Llewelyn a'i gyfeillion; am hyny efe a anfonodd Edmwn, archesgob Caergaint, a rhai o'r esgobion gydag ef, ar genadwri ato, i geisio ganddo ymheddychu: a'r archesgob a dychwelodd at y brenin i Gaerloyw, ac a fynegodd iddo fod y tywysog yn foddolawn i ymheddychu, ond ei fod wedi mynu gosod yn mlaenaf yn yr amodau—fod i'r holl arglwyddi Lloegraidd a wrthryfelasant, i gael eu derbyn yn ol i heddwch y brenin: ac efe a ychwanegai—fod can lleied o ofn bygythion y brenin a'i glerigwyr ar y tywysog Cymreig, fel y dywedai, "Yr wyf yn ofni elusenaŷ y brenin yn fwy na'i holl filwriaeth ef, a'i eglwyswyr hefyd." Ond gan fod y brenin yn awyddus am heddwch, efe a gytunodd â Llewelyn ar ei amodau ei hun, ac a alwodd yr holl bendefigion a ddeolasiid ganddo, i'w gyfarfod i Gaerloyw, i dderbyn ei faddeuant, a'r etifeddiaethau a ddygasai efe oddiarnynt.

Yr un flwyddyn hefyd darfu i Lewelyn ryddhau ei fab Gruffudd, yr hwn a fusai yn garcharor dros chwe' blynedd, am ei wrthryfel.

Un o ffrwythau cyntaf yr ymheddychiad uchod oedd, ddarford i'r brenin Harri anfon byddin gref drosodd i'r cyfandir, i gynnorthwyo Duc Ilydaw yn erbyn brenin Ffrainc, a'r Cymry a anfonasant gyda hwy ddwy fil o wŷr. Bu brwydr rhyngddynt a'r Ffrancod, yn yr hon y bu y lluoedd Brytanaid yn fuddugoliaethus; ac yn y canlyniad, cymmododd brenin Ffrainc â'r duc, a dychwelodd y Cymry a'r Saeson adref.

\* Matth. Paris, p. 526.

Yn y flwyddyn 1237, bu farw *Joan*, neu Sian, gwraig y tywysog Llewelyn, a hi a gladdwyd yn Llanfaes, yn Mon, lle yr adeiladwyd mynachlog i'r brodyr troednoeth gan y tywysog, uwch ben ei bedd. Bu ei harch am flyneddoedd yn gafn dwfr i feirch y boneddwr a breswyliai yn y *Priars*; ond y mae wedi ei hachub o'r sefyllfa warthus hono ers amryw flyneddoedd yn bresenol, gan y diweddar Arglwydd Bulkeley, dan gŵarwyddyd Mr. Richard Llwyd, bardd a hynafiaethydd.

Llewelyn, erbyn hyn, yn teimlo henaint a chanlyniadau oes mor ymdrechgar yn gwasgu arno, ac yn argyhoeddedig o fod diwedd ei einioes gerllaw, ac yn awyddus i sicrhau yr orsedd a'r llywodraeth i'w anwyflab *Dafydd*, a wysiodd bendeigion ac arglwyddi Gwynedd, Powys, a Deheubarth, i'w gyfarfod yn Ystrad Fflur, lle y tyngent i'w o flyddlondeb iddo ef, ac y gwnaethant wryiogaeth i'w fab Dafydd. Ymddengys hefyd iddo gael ei daraw gan y parlys tua'r adeg yma; ac yn gymmaint a'i fod yn cael ei fino gan ei fab Gruffudd, yr hwn oedd yn dywysog taegog ac uchelfrydig, ac o'r herwydd yn ofni na buasai Dafydd, ei fab cyfreithlawn, yn cael mwynhau y llywodraeth ar ei ol, efe a anfonodd esgobion Caerlleon a Henffordd at y brenin Harri, i dalu math o wryiogaeth ar ei ran iddo, ac i erfyn ei nawdd i'r tywysog Dafydd, yr hwn oedd yn nai fab ei chwaer i'r brenin. Ond ymddengys fod amryw o'r pendeigion Cymreig yn anghymmeradwyo y cyfryw ymddygiad, fel pe buasai yn cynnwys cydnabyddiaeth o uchafiaeth y brenin, ac yn rhoddi mantais affreidiol iddo i ymyraeth â llywodraethiad Cymru.

Yn fuan ar ol hyn bu farw y tywysog clodfawr *Llewelyn ab Iorwerth*—sef ar yr 11eg o Ebrill, 1240, wedi bod yn teyrnasu chwe' blynedd a deugain, ac efe a gladdwyd yn Aberconwy.

Cyfansoddai y beirdd amryw odlau er cof am dano, yn y rhai y gwneir coffhad parchus o'i orchestion milwraidd. Fel hyn y canai *Prydydd y Moch*, sef Llywarch ab Llewelyn:—

“Cyfarchaf i'm Rhen,  
Cyfarchfawr awen,  
Cyfreu Cyridwen,  
Rhwyf barddoni;  
Yn dull Taliesin  
Yn dillwng Elphin,  
Yn dyllust barddria,  
Beirdd fanieri.

Cymmhwylaf fy Naf,  
Cymru fodrydaf,  
Cymro celfyddaf  
R y wnaeth Celi.  
Cymmreisc Lywelyn  
Nis cymmrawd neb dyn,  
Cymru ei derfyn,  
A'i dorf drosti.

Eryr teyrnedd,  
Yr yfais ei fedd,  
Ar hedd, ar ddyhedd,  
Ar ddeheu Rhi,  
Yr yfais ei win,  
O falch fuelin,  
A'i wisgoedd eurin,  
A'i fynogi.

Yn llys Aberffraw,  
Yn llochi barddrin;  
Yn Nghaer fawr Fyrddin,  
Fyrddoedd beri;\*  
Yn Nghaer Dyganwy,  
Yn Abertawy,  
Yn agwrdd dramwy  
Dref Gedweli.

Yn Nghaerynarfon,  
Yn ngherdd gyflawdon,  
Ac yn Nghaerlleon  
Fy llyw dybi,  
Yn Nghaer Amwythig,  
Yn nghein drefi ner,  
Yn Nghaeroedd Aber,  
Tyner Teifi.

Yn llys fer Elysmar,  
Yn seint clodfan cler,  
Yn llysoedd Aber,  
Hydyrfer Honddu,  
Yn Nghastell Baldwyn,  
Yn Ngheri osgordd,  
Yn Hawrffordd dref gorrdd,  
Dref dyfysci," &c. &c.

\* Gwaywilyn.

A ganlyn sydd ran o awdl i'r un tywysog, gan *Ddafydd Benfras*, yn yr hon y cynnwysir coffhad o'i orchestion mewn iaith dra egniol:—

"Gŵr a wnaeth llewych o'r gorllewin,  
Haul, a lloer addoer, addef iesin,  
A'm gwnel radd uchel, rwyf cyfychwin,  
Cyflawn awen, awydd Fyrddin,  
I ganu moliant fal Aneurin—gynt,  
Dydd y cânt Ododin;  
I foli gwyndawd gwyndyd werin,  
Gwynedd bendefig, fynyedig ffin,  
Gwanas deyrnas, deg cywreinin,  
Gwreidd teyrneidd, taer yn mrwydrin,  
Gwrawl ei ffiamdo am fro Freiddin.  
Er pan oreu Duw dyn gyssefin,  
Ni wnaeth ei gystal, traws arial trin.  
Gorug Llewelyn, orllin—teyrnedd,  
Ar y breninedd braw a gorddin,  
Pan fu'n ymbrofi â brenin—Lloegr,  
Yn llygru swydd Erbin,  
Oedd breisg weisg ei fyddin,  
Oedd brwysg rwysg ei godorin,  
Oedd balch gwalch golchiad ei lain,  
Oedd beich gweilch gweled ei werin,  
Oedd clywaidd cleddyfau ffinfin,  
Oedd clybod clwyf yn mhob elin,  
Oedd briw rhiw yn nhrabludd o'i drin,  
Oedd braw saw Saeson clawdd y Cnwccin,  
Oedd bwch llafn yn llaw gynnefin,  
Oedd gwaedlyd penau gwedi gwaedlin,  
Rhyw yn rhedeg am ddeulin," &c.

Wedi marwolaeth Llewelyn, daeth ei fab *Dafydd*, yn ol ei ddymuniaid, i'w olynu yn y llywodraeth; ac yn wir y mae yn ymddangos ei fod ef, yn mywyd ei dad, wedi y gynnadledd yn Ystrad Fflur, am yr hon y soniwyd eisoes, wedi ymosod ar feddiannau ei frawd Gruffudd, a dwyn oddiarno Arwystli, Ceri, Cyfeiliog, Mowddwy, Mochnant, a Chaereinion—gan adael cantref Llein yn unig fel etifeddiaeth iddo. Ond y weithred yma a gyfododd gryn derfysg yn y wlad; canys yr oedd Gruffudd yn rhyfelwr dewr, ac yn hardd a lluniaidd o gorph, ac hefyd yn fab henaf y tywysog Llewelyn, o'i wraig gyntaf, yr hon oedd Gymraes—nid amgen, *Tangwystli*, ferch *Llywarch Goch*, o Rôs, yr hyn a'i gwnelai yn boblogaidd gyda llawer o'r Cymry. Yn wyneb hyn, rhag ofn i ryfel cartrefol cyffredinol dori allan yn herwydd gwrth-hawlion y ddau frawd yma, darfu i esgob Bangor gynnyg bod cynnadledd i gael ei chynnal rhwng y ddau dywysog, er ymdrech y dyfod i benderfyniad heddychlawn; ac er i Gruffudd ddyfod i'r gynnadledd grybwyllledig gyda'r esgob, a than ei nawdd, efe a ddaliwyd ar y ffordd gan ei frawd Dafydd, yr hwn a'i hanfonodd i'w gadw yn garchar yn nghastell Cricciaeth.

Y cyfryw driniaeth ar dywysog mor boblogaidd a gynnrychai gyffroad mawr yn y wlad: canys ceraint a chefnogwyr Gruffudd a ddechreuasant ymarfogi ar fedr dial ar Dafydd y camwri a wnelasai â'i frawd, yr hwn a gyfrifent hwy yn meddu hawl cyfiawnach i'r benaduriaeth. Ar y llaw arall, y pendefigion a gefnogent Dafydd a ymbarotoisant i'r ymgyrch, a dechreuent gigyddio eu gilydd yn greulawn trwy holl Wynedd. Ac yn y cyfamser, esgob Bangor, wedi ei ddigio yn fawr gan frad ac annghyfiawnder y tywysog Dafydd, a'i hysgymunodd, ac yna a encilliodd i Lloegr, lle

yr achwynodd wrth y brenin am ymddygiad Dafydd, gan erfyn ar y brenin gyfryngu er cael rhyddhau Gruffudd o'r carchar; yna y brenin a anfonodd at Ddafydd, i ddyuno arno ollwng ei frawd yn rhydd, er achub ei enw da ei hun, a gochelyd ysgymmudod a niweidiau ereill: ond Dafydd a atebai i'r cyfryw gais, nas beiddiai efe ollwng Gruffudd yn rhydd, gan haeru y byddai Cymru oll yn wenfflam o derfysg cyffredinol pe y gwnelai hyny. Pan wybu Gruffudd hyn, yntau a anfonodd genadwri at y brenin, i ddywedyd—os y rhyddhai efe ef o garchar, y byddai iddo ddal ei dalaith dan y brenin, gan dalu iddo deyrnged flyneddol o ddau cant o farciau; ac y cynnorthwyai efe ef i ddarostwng y Cymry anorchfygedig, yn y parthau pell o'r tir. *Gruffudd Maelawr* hefyd, yr hwn oedd yn bendefig galluog, a anfonodd at y brenin, i gynnyg ei gynnorthwyo, os deuai efe i Gymru i gosbi Dafydd; ac esgob Bangor a aeth hyd Rufain, er cael gan y Pab ei gyhoeddi yn ysgymunedig, a'i gyfoeth yn ddirwyedig. Felly y brenin, wedi ei hudo gan y cynnygion teg a wnaed ar ran Gruffudd, a gasglodd fyddin gref, ac a'i harweiniodd hyd y Mwythig, lle yr arosodd dros bymtheng niwrnod; ac yno y daeth amryw o arglwyddi y cyffindiroedd, ac o bendefigion Cymru, i eiriol dros y tywysog Gruffudd. Yna y brenin a symudodd ei fyddin i Gaerlleon; a Dafydd erbyn hyn, yn gweled cynnifer o bendefigion Cymru yn debyg o droi yn ei erbyn, ac yn deall fod y brenin wedi gwneyd cyfamod yn y Mwythig â Gruffudd, trwy gyfrwng ei wraig *Sina*, neu *Senena*—a farnodd yn llawn bryd iddo anfon ei ymostyngiad i'r brenin, a cheisio amodau heddwch ganddo, gan addaw traddodi ei frawd Gruffudd a'i fab, a phawb arall oeddynt yn garcharorion ganddo ar gyfrif Gruffudd, i ddwylaw y brenin, ac ymostwng i ddedryd llys y brenin, o barth i'r ymrafael rhyngddo ef a'i frawd. Cytunai y byddai iddo ef a Gruffudd ddala eu tiroedd dan y brenin, megys goruchafwr. Addawai ddychwelyd i'r arglwyddi Lloegraidd y cyfan o'r tiroedd a gymmerasid oddiarnnyd, er dechreuad y rhyfel rhwng ei dad Llewelyn a'r brenin Ioan. Ac ymrwymai hefyd i dalu i'r brenin draul y cadgyrchiad hwnw, ac adferu iddo bob gwriogaeth a oedd yn ddyledus i'r brenin Ioan, &c.\*

Pwy Gymro gwladgarawl a all lai na gresynu wrth weled Gwynedd wedi ei darostwng mor isel o herwydd cenfigen ac ymrisonau rhwng ei thywysogion ei hunan! Heblaw gwneuthur y cyfamod crybwylledig yn gyhoeddus â'r brenin Harri III., Dafydd a anfonai genadwri gyfrinachol ato, i ddyuno arno ganiatau iddo ef, yr hwn oedd ei nai, ac oedd hefyd yn etifedd cyfreithlawn y tywysog Llewelyn, gael etifeddu gorsedd y dywysogaeth, yn hytrach na Gruffudd, yr hwn nid oedd yn amgen na bastard, ac heb fod yn unrhyw garenydd i'r brenin; a rhoddi ar ddeall iddo, os rhyddhau Gruffudd a wnai efe, y byddai yn sicr o adnewyddu y rhyfel. A'r brenin yn cydnabod gwirionedd y pethau hyn, ac yn deall fod Gruffudd yn ŵr tra dewrwyd, ac yn meddu llawer o gyfeillion a chefnogwyr, a dueddai i gydsynio â chais Dafydd; ac felly pan roddodd Dafydd ei frawd Gruffudd i fynu i'r brenin, efe a'i hanfonodd ef a'i wraig, a'i fab Owain, i Lundain, i'w cadw yn y tŵr, gan drefnu cynnaliaeth weddus iddynt; ac yn mhen ychydig, aeth Dafydd ei hunan i'r llys, lle yr adnewyddodd ei amodau â'r brenin, ac yna dychwelodd i Gymru.

Pan ganfu Gruffudd pa fodd yr oedd pethau yn myned yn mlaen, a deall nad oedd efe yn ddim amgen na charcharor yn y tŵr, efe a benderfynodd wneyd ymdrech i ddianc; ac un noswaith, gwnaeth raff o ddillad ei wely, a'r lliciniau oeddynt yn ei ystafell, ac aeth allan trwy y ffenestr,

\* Gwel y darlennydd y cyfamodau uchod yn llawn yn *Powel's History of Wales*, pp. 217—221.

ar fedr disgyn ar hyd y rhaff; ond pan ar ei ffordd i lawr, gan ei fod yn drwm tew iawn, a thrwm o gorpholaeth, torodd y rhaff, ac yntau a syrthiodd, ac a fu farw o'r codwm yn y fan: a'r brenin, pan wybu hyn, a gosbodd y gwylwyr am eu hesgeulusdra, ac a barodd wyllo ei fab yn fwy gofalus. Digwyddodd hyn yn y flwyddyn 1244; ac yn fuan ar ol hyn, y brenin a gadarnhaodd gastell Diserth, yn swydd Ffaint; ac er arddangos ei hawl benadurawl ar Gymru, yn ol ei gyfamod blaenorol â Dafydd, efe a roddes i *Gruffudd ab Gwenwynwyn* ei holl gyfoeth yn Mhowys, ac i feibion *Cynas ab Owain Gwynedd* eu heiddo yn Meirionydd; a dechreuodd ormesu y Cymry yn drwm, gan afaelyd ar eu tiroedd trwy drais; ac er dangos ei amcanion ar y wlad yn mhellach, enwodd ei fab hynaf Iorwerth yn *Dywysog Cymru!*

Yr oedd y tywysog Dafydd erbyn hyn yn dechreu profi canlyniadau chwervon ei ymostyngiad i'r brenin, ac am hyny efe a anfonodd genhadon urddasol i Rufain, gydag anrhegion gwerthfawr i'r Pab, i achwyn am y gorthrymder a oddefai oddiwrth y brenin; gan honni fod ei dad, Llewelyn, wedi gadael y dywysogaeth iddo ef, dan nawdd Eglwys Rhufain; a deisyfai gan hyny ar i'r Pab ei dderbyn i'w nawdd, a chaniatau iddo ef a'i etifedion gael ei dala felly, drwy dalu yn flyneddawl bum' can' more, i'r hyn yr ymrwymai drwy lw, a gweithred ysgrifenedig.

Y Pab *Innocent* a dderbyniodd y cyfryw gynnygion, ac a anfonodd lythyrau at abadau Aberconwy a'r Cymmer, yn erchi iddynt ymchwilio i'r cwynion; ac os gwelent fod y tywysog wedi ymrwymo i'r brenin dan ddylanwad ofn, a thrwy drais, awdurdodid hwynt i'w ryddhau oddiwrth ei lwon. Y dirprwywyr dywededig gan hyny a wysiasant frenin Lloegr i ymddangos ger eu bron yn y Creuddyn, yn eglwys Llangystenyn, i ateb i'r achwyniadau a roisai y tywysog yn ei erbyn. Y brenin a chwarddai am eofndra yr abadau; ond gan ei fod yn ddigon hysbys o drachwant y Pab, efe a anfonodd genhadon â haelach anrhegion iddo, er mwyn cael ei esgusodi rhag cydsynio â'r gwys uchod: ac felly, yn ol ei arfer, gwo-brwyd y Pab gan y ddwy blaid, tra nas gwnelai les penderfynol i'r naill i'r llall.

Yna y tywysog a gynnullodd ei holl nerth, gan anog holl benedfegion Cymru i ymarfogi, er dial y camwri a gawsent oddiar ddwyllaw arglwyddi y cyffindiroedd; ac wedi ffurfio y cynghreiriad yma, hwy a anrheithiasant eu tiriogaethau yn ddiarbed. Ond Ieirll Clâr a Henffordd, arglwyddi Mynwy a'r Wyddgrug, ac ereill, â gynnullasant eu harfogion i'w gwrthladd, a bu amryw frwydrau gwaedlyd a chyndyn rhyngddynt, a'r Cymry fynychaf yn enill y dydd. Yn y cadgyrchiadau hyn, laddwyd amryw o urddasolion y Saeson; ac yn mysg ereill, maeslywydd enwog o'r enw *Hubert Fitz-Matthew*, yr hwn a anfonasai y brenin, gyda byddin o farchogion, i gynnorthwyo arglwyddi y cyffindiroedd; a chymmerodd y tywysog Dafydd feddiant o gastell y Wyddgrug, gan ladd llawer o'r castellwyr, a chymmyrd y lleill yn garcharorion.

Y brenin bellach a welai fod yn rhaid iddo roddi ei holl allu ar waith i geisio ffrwyno y tywysog Cymreig, ac efe a gynnullodd fyddin anferth o Saeson a Gwasgwynwys, â'r hon y penderfynai oresgyn Gwynedd, a llwyr ddystrywio nerth y dywysogaeth. Ar yr un pryd anfouid i'r Iwerddon, er annog byddin o filwyr Gwyddelig i ymosod ar ynys Fon, i'w hanrheithio, tra fyddai yntau a'i fyddin yn difrodi parthau ereill o'r wlad; ac felly daeth haid luosog o'r bobl hyny drosodd, gan ysglyfaethu ysglyfaeth fawr; ond preswylwyr yr Ynys, gan gael cyfnerthiad o fyddin y tywysog hefyd, ond odid, a ymgynnullasant, ac a ymosodasant arnynt tra yn llwytho gan yspail, gan ladd llawer, a gyru y lleill i ffoi i'w llongau, yn dda ganddy i t

gael eu heinioes, er gadael yr ysglyfaeth ar ol. Daeth y brenin a'i fyddin yn mlaen hyd lan afon Gonwy, a'r tywysog a'i fyddin yn encilio o'i flaen i fylchau Eryri; ond y brenin, yn ofni ei ddylun yn mhellach, a wersyllodd yn Nheganwy; ac mor ddyfal y gwyld arno gan y Cymry, ac mor ddisymwth y disgynt ar ei wŷr, od ymwsgarent ychydig o'r gwersyll, fel y bu yn galed iawn ar y brenin, ac y colodd nifer ddirfawr o'i wŷr, trwy newyn, oerni, a'r cleddyf; ac wedi bod yno ddeng wythnos, heb allu gwneyd dim ond cadarnhau y castell, efe a ddychwelodd gyda gweddiill ei fyddin i Loegr, wedi ei doi â gwarth, a'i lenwi â diglioneidd at y Cymry; ac i ymddial arnynt, efe a benderfynodd eu newynu—gan roddi gorchymyn caeth, na ddygai neb ddim lluniaeth ar hyd y môr i Gymru, o'r Iwerddon, nag o un man arall, dan berygl cosb angeuol. Ond nid oedd hyn yn ddigon tra yr oedd gororau Lloegr yn agored, i brynu neu yspeilio; felly y brenin, yn ei gynddaredd, a barodd ddifrodi y cyffindiroedd, er mai ei ddeiliaid ef ei hun a'u cyfaneddent, i'r fath raddau, fel mai prin y gadewid i drigolion swydd Gaerlleon, a'r ardaloedd cyfnesawl, ddigon i'w cadw rhag newynu; a pharodd gau i fynu ffynhonau yr halen, rhag i'r Cymry gael dim gwasanaeth oddiwrth y rhai hyny.

Wedi enciliad y brenin i Loegr, enciliodd Dafydd yntau i'w gastell ei hun yn Aber, lle y bu farw yn mis Mawrth, 1246, wedi enwogi ei hun yn y rhan olaf o'i deyrnasiad, ac enill serch a pharch ei ddeiliaid yn gyffredinol; ac efe a gladdwyd yn Aberconwy, gerllaw ei dad, wedi llywodraethu y dywysogaeth bum' mlynedd.

Am na adawsai y tywysog Dafydd blant o'i ol, ymgynullodd arglwyddi a phendefigion Cymru i ymgynghori yn nghylch yr olynid, a chytunasant i anfon am *Llewelyn ac Owain Goch*, meibion Gruffudd ab Llewelyn, fel yr etifeddiion nesaf; a gwnaethant eu gwriogaeth iddynt; a'r brodyr dywededig a ranasant y dywysogaeth rhyngddynt. Buasai Owain, dros yspaid teyrnasiad ei ewythr Dafydd, yn fath o garcharor anrhydeddus gan frenin Lloegr; ond pan glybu am farwolaeth y tywysog, efe a ddaeth i Gymru yn ddisymwth, i roddi ei hawl o'r dywysogaeth i mewn. Am Llewelyn, dywedir ei fod ef yn trigo, trwy yr ystod crybwylledig, yn ei lys ei hun yn Maesmynan, gerllaw Caerwys, yn swydd Ffint; a'i fod, er gwaethaf y brenin ar un llaw, a'r tywysog—ei ewythr—ar y llaw arall, wedi parhau i gadw meddiant o gantrefi Rhos a Rhufoniawc, Dyffryn Clwyd, a Thegeingl. Ar ol eu dewis i'r llywodraeth, efallai fod Owain wedi ymgartrefu yn yr hen lys tywysogaidd yn yr Aberffraw, a'i frawd Llewelyn wedi gwneyd ei brif artrefle yn Abergwyngregyn. Tros ychydig enyd, parhaodd y ddau dywysog i weini y llywodraeth mewn heddwech; ac nid oedd hyny yn rhyfedd, canys yr oedd y flwyddyn gyntaf o'u teyrnasiad, sef 1247, yn flwyddyn o brinder mawr, os nid o newyn, ar y dywysogaeth; yn gymmaint a bod y maesydd wedi eu gadael heb eu trin, llawer o'u hani- feiliaid wedi eu lladd, ac esgeulustra mawr o fagu rhai wedi bod yn eu plith, yn y blyneddoedd blaenorol, o herwydd y rhyfeleoedd diball; a'u masnach wedi ei llwyr lethu, gan orthrymder y Saeson. Mae yr hen hanesydd mynachaid, *Matthew Paris*, yn rhoddi y darluniad cahlynol o gyflwr y genedl ar y pryd hwn:—"Cyfyngwasgwyd y Cymry yn y dyddiau hyny; atregodd eu hammaethyddiaeth, eu masnach, a bugeiliaeth eu preiddiau, a dechreusant gael eu difa gan eisiau, wedi eu crymu yn an-foddrlawn dan gyfreithiau y Saeson: gwywodd eu gorhenfalach uchelfonedd."

Y mae y Parch. *Thomas Price* yn sylwi fod yr ymadrodd olaf yma, o eiddo hanesydd gelydol i'n cenedl, yr hwn a ymorfodddai yn eu haf- lwydd, ac a amcanai eu darostwng ar bob achlysur, yn yr gwrthbwyso crug-

lwyth o enllib a sen.—“Canfyddwn ynddo rywbeth o wir agwedd greddfoll y genedl: yr uchel urddas foneddol, a'r ymarweddiad pendeigawl, a ymddangosai yn *Rhys ab Gruffudd* ac *Owain Cyfeiliawc*; hyfdra cynhenid y bobl gyffredin yn cyfarch tywysogion ac arglwyddi yn eofn, ac yn traethu eu meddyliau wrthynt yn ddiarswyd; yspryd anorchfygadwy y genedl yn gyffredinol, yn wastad yn barod i amddiffyn eu gwlad a'u rhyddid: yn dyoddef pob caledi er eu mwyn, ac erddynt hwy yn gorfoleddu yn y dysgwyliaid o syrthio ar y maes. Gosodwn at hyn eu haelioni, eu moesgarwch, a'u gwareidd-dra lletuaid, ac, meddyliaf y cawn yn yr ymadrodd, er yn ddiffwriad gan yr awdwr, gywirach drychosodiad o anianawd y bobl, nag mewn llawer o'i draethiadau darluniol ereill.—Pobl dlawd, mynyddig, troednoeth, llwmddillad, anfoethus, yn byw mewn tai gwiall, ac yn cysgu ar welyau brwyn; yn cynnal y cyfryw uchel-agwedd anrhydeddus yn ngwynneb gelynyon goludog, glwth, a threisiol! Wele, yn wir, wrthddrych nid o aml ymddangosiad yn mhlith cenedloedd y byd.”\*

Yn fuan ar ol i'r tywysogion esgyn i'r arglwyddiaeth ar Gymru, a thra yr oedd eu gwlad, fel y darluniwyd uchod, yn gorwedd mewn cyfyngder dirfawr, gorfodwyd hwy i gyttuno am heddwch â brenin Lloegr ar yr amodau celyd o roddi i fynu dros byth gantrefi Rhos, Rhufoniawg, Dyffryn Clwyd, a Thegeingl—sef yr holl wlad o afon Dyfrdwy i afon Conwy; ac ymrwymo i wasanaethu y brenin yn Nghymru, neu y cyffindiroedd, â mil o wŷr traed, a phedwar ar hugain o farchfilwyr arfog, ar eu traul eu hunain, pa bryd bynag y gelwid arnynt; neu â phum cant o wŷr traed yn unig, os y gelwid arnynt i wasanaethu mewn rhyw wlad arall; a bod gwriogaeth a gwasanaeth yr holl bendefigion Cymreig i fod yn eiddo breninoedd Lloegr dros byth; ac os byddai i'r amodau hyn gael eu tori o du y tywysogion Cymreig, bod y cyfan o'u tiriogaethau i fod yn gamlwrw i'r brenin.†

O gylch y pryd hwn, darfu i abadau Conwy ac Ystrad Fflur lwyddo i gael gan y brenin roddi corph *Gruffudd ab Llewelyn* i fynu iddynt, yr hwn a gludwyd ganddynt i Gymru, ac a gladdwyd yn anrhydeddus yn Aberconwy.

Mewn canlyniad i'r amodiad uchod, rhoddes y brenin y pedwar cantref—sef y wlad rhwng Conwy a'r Dyfrdwy—yn chwaneigiad at Gaerlleon, &c. fel etifeddiaeth i'w fab Iorwerth, yr hwn a'i gosododd i bendefig Seisnig, o'r enw *Alan de Zouch*, am yr ardreth blyneddol o un cant ar ddeg o farciau; a blin y gorthrymai yr estron hwn drigolion y berfeddwlad—ymorfoleddai yn eu gorlethiad, gan feddwl nad oedd obaith y gallent byth mwyach ysgwyd eu gyddfau odditan ei wadnau: ac yn wir, yr oeddynt fel cenedl heb yspryd ynddynt dros rai blyneddoedd yn y cyfnod yma; ond fel y dechreuodd ychydig lawnder gael ei adferu yn y wlad, ar ol y prinder dirfawr, dechreuodd yspryd y trigolion ymddadebru ynddynt. Ond ysywaeth, amlygai y dadebriad hwnw ei hun mewn cynhenau cartrefol rhyngddynt â'u gilydd, yn hytrach nag mewn ymrodd unfrydawl yn erbyn y gelyn cyffredinol; canys yn y flwyddyn 1254, dechreuodd Owain aflonyddu, a thrachwantu yr orsedd iddo ei hunan; ac wedi llithio ei frawd ieuengaf Dafydd i ymunaw ág ef yn erbyn Llewelyn, hwy a gynullasant luoedd yn nghyd; ond Llewelyn a'u cyfarfu ar Fryn Derwyn, gerllaw Clynog Fawr, yn Arfon, lle yr ymladdwyd brwydr ffyrnig, ac Owain a gymmerwyd yn garcharor, ond Dafydd a ffodd; a'r fyddin gynghreiriawl a wasgarwyd, wedi ei llwyr orthrechu. Yn y canlyniad i

\* Hanes Cymru, t. d. 679.

† Warrington's History of Wales, pp. 428, 429.

hyn, cadwyd Owain yn garcharor flyneddau lawer—fair ar hugain, medd rhai—a Llewelyn a feddiannai orsedd y dywysogaeth ei hunan. Bernir yn gyffredin mai yn nghastell Dolbadarn, yn swydd Arfon, y'i carcherid; a dywedir fod gan ei frawd Llewelyn lys yn y gymmydogaeth—sef Llys Dinorwig.\*

Ni fu Llewelyn yn hir wedi cael yr holl dalaeth iddo ei hun cyn cael arfod i amlygu ei wroldeb mewn gwell achos nag ymryston cartrefol—canys pendeifigion y wlad yn gyffredinol a ddaethant at Lewelyn, gan gwyno yn dost oblegid y gorthrymderau a ddyoddefent oddiwrth y tywysog Iorwerth, a pendeifigion Seisnig ereill, gan erfyn arno eu harwain mewn un ymdrech eto i ysgwyd yr iau ofidus oddiarynt eu hunain a'u cenedl. Felly efe a dosturiodd wrthynt, a gydsyniodd â'u cais, ac wedi cynnull cryn nifer o arfogion yn nghyd mewn byr amser, efe a ymosododd yn ddiatreg ar y tiriogaethau oeddynt yn meddiant y Saeson; ac mewn ychydig amser, enillodd yr holl berrddwlad, a Meirionydd. Wedi hyny adenillodd y tiroedd a drawsfeddiannasai Iorwerth yn Ngheredigion, ac a'u rhoddodd i *Mareddydd ab Owain ab Gruffudd*, ei nai; a chan yru *Rhys Fychan* o gantref Buallt, rhoddes yr arglwyddiaeth hono i *Mareddydd ab Rhys Gryg*; ac felly rhanai yr hyn oll a enillai rhwng ei bendeifigion, heb gadw dim iddo ei hun vn wobrwyr ei ymdrechion a'i fuddugoliaethau, ond y mawrglod a enillasai drwy y wlad.

Wedi hyny efe a ddygodd ardal Gwrthrynyon oddiar *Rhosser Mortimer*; a'r fwyddyn ganlynol—sef 1256—efe a aeth tua Phowys, mewn cadgyrchiad yn erbyn *Gruffudd ab Gwemwynwyn*, yr hwn a bleidiai y brenin, a dygai yr holl wlad oddiarno, oddieithr y Castell Coch, ac ychydig diroedd ar lan Hafren.

*Rhys Fychan ab Rhys Mechell*, gan feddwl adenill ei diroedd drachefn, a gafodd fyddin fawr gan y brenin, dan lywyddiaeth un o'r enw *Stephan Bacon*, yr hon a ddaeth ar hyd y môr i Gaerfyrddin, ac a aeth oddiyno hyd gastell Dinefwr, ar yr hwn y dechreuasant warchae; ond Llewelyn a frysiodd yno gyda'i luoedd ei hun, a'r eiddo ei geraint, a bu brwydr waedlyd rhwng y ddau lu, gerllaw y castell, yn yr hon y bu Llewelyn eto yn fuddugoliaethus, gan ladd dwy fil o'i elymion, a gyru y lleill ar ffo. Efe a aeth oddiyno hyd Ddyfed, ac a ddinystriodd gestyll Abercorran, Llanstephan, Maenclochog, ac Arberth; ac yna dychwelodd adref gydag arnhaith fawr.

Ar y pryd hwn hefyd, gan fod un o'r enw *Syr Sieffrey Langley*, rhaglaw iarll Caer, yn gorthrymu rhai o'r Cymry yn flin, trodd y tywysog ei wyneb tua thriogaethau yr iarll, gan eu banrheithio yn ddiarbed, hyd byrth Caer, oddeutu yr afon, a lladd gwyr Iorwerth pa le bynag y'u cyfarfyddent. Yna y tywysog Seisnig, yn dra chythruddawl, a aeth at ei ewythr *Richard*, iarll Cernyw, i erfyn am gynnorthwy—gan fod ei dad, y brenin, yn anewyllysgar, neu yn hytrach yn analluog o herwydd ei dlodi, i'w gynnorthwyo—a chafodd gan hwnw bedair mil o forcau, at gario y rhyfel yn mlaen; ac â'r rhai hyny cynnullodd fyddin gref, gyda'r hon y cychwynodd tua Chymru, ar fedr llwyr ddial ei sarhad a'i gollodion ar Llewelyn; ond yr oedd y gwron hwnw ar y maes, a byddin o ddeng mil o arfogion dano, oll wedi gwneyd llw y trengent ar y maes, cynt y bradychent eu gwlad; ac felly ni feiddiai Iorwerth ei gyfarfod y pryd hyny: a'r holl auaf canlynol a fu mor wlawog a thymhestlog, fel na feiddiai y fyddin Seisnig anturio i Gymru, am fod y corydd mawrion yn gwneyd y wlad yn anhramwyadwy i ddyeithriaid; ac felly yr aeth traul a llafur

\* Hist. of Carnarvonshire, by the Rev. P. B. Williams, pp. 113 and 127.



Iorwerth yn gwbl ofer. Ond y Cymry, yn ddifraw a dirwyr, a anrheithiasant yr holl wlad o amgylch Caer, gan ladd llawer o'r bobl, a dwyn yspail fawr oddiarnynt.

Y flwyddyn nesaf—sef 1257—æth Llewelyn ar gadgyrchiad eto i'r Deheubarth, lle y cospodd amryw o gefnogwyr y brenin yn llym.

Yn y cyfamser, yr oedd arglwydd Dinas Bran, *Gruffudd ab Madawc Maelaur*, wedi cyffroi diglloedd y tywysog a'i gyfeillion yn fawr, trwy ei fod wedi troi yn ffals i'w genedl, a chilio at y brenin; am hynny, ar ei ddychweliad o'r Deheubarth, penderfynai Llewelyn ymddial ar y bradwr hwnw; ac ar y ffordd cyfarfu âg Iorwerth, yr hwn, wedi ei guro yn dda, a yrwyd i gilio; ac yna Llewelyn a anrheithiodd diroedd y dywededig Gruffudd. Yna breninoedd Lloegr a'r Almaen a ysgrifenasaut ato yn garedig, gan ddymuno arno ddychwelyd i'w wlad; ond efe a omeddodd wneyd hynny, gan gryfhau ei fyddin bennydd. Yna Iorwerth a anfonodd at y Gwyddelod, i erfyn arnynt hwy' ddyfod yn gynnorthwy iddo; ond Llewelyn, pan ddeallodd hynny, a barotodd ei longau i'w gwrthladd; ac yn y canlyniad gorfodwyd y rhai hynny i ddychwelyd adref yn golledus yn fuan.

Yna y brenin, yn ddigllawn o herwydd ei golledion a'i sarhad, a gynnullodd fyddin dra lluosog o bob cwr o'r deyrnas—o Gernyw hyd yr Alban—ac a gychwynodd gyda hi tua Chymru. Yna Llewelyn a'r Cymry a gludasant eu gwagedd a'u plant, yn nghyda'u hanifeiliaid, i'r mynyddoedd; gan aredig y dolydd, dimystrio y melinau, tori i lawr y pontydd, a chloddio i fynu y rhydau, a dileu pob peth a allasai fod o wasanaeth i'r fyddin elynol; ac yna, enciliasant dros afon Gonwy. Y brenin a ddaeth yn mlaen hyd Deganwy, ond ni feiddiai groesi yr afon ar ol ei elynion; a chafodd y fath wrthladdiad oddiwthynt, fel y bu orfod iddo ddychwelyd i Loegr y tro hwn eto, gyda gwarth a cholled, megys ar achlysuron blaenorol: a'r canlyniad fu i'r Cymry ymgalonogi, ac ymadnewyddu yn eu hymdrechion i sierhau annibyniaeth eu gwlad, ac ysgwyd ymaith yr iau estronol a orweddi mor anesmwyth ar warrau rhai o honynt. Felly yn yr un flwyddyn—sef 1257—canfyddwn y tywysog Llewelyn yn rhuthro ar feddiannau Iarll Caerloyw, ac yn cymmyrd un o'i gestyll, gan ladd y rhai a'i cadwent. Tua'r pryd hyn yr oedd y tair talaith yn addef awdurdod Llewelyn fel eu tywysog, ac wedi ysgwyd ymaith iau brenin Lloegr yn dra llwyr: ac wedi i Lewelyn ddarostwng y rhan fwyaf o'r arglwyddi cyffindirawl, a chyflawni amryw orchestion milwraidd dihafal, cafodd y genedl enyd o seibiant oddiwrt h elynion cartrefol ac estronol.

Ond yn y flwyddyn 1272, bu farw Harri frenin; a'i fab Iorwerth—yr hwn oedd y pryd hynny yn Mhalestina, yn *rhyfel y groes*—wedi clywed, a frysiodd adref, ac a goronwyd yn frenin Lloegr, dan yr enw *Iorwerth I.* Anfonid gwys i Lewelyn, i erchi iddo ddyfod i fod yn gyd-ddrychiol ar goroniad y penadur Seisnig, a thalu gwriogaeth iddo; ond y tywysog Cymreig a omeddai ufuddhau, oddieithr i'r brenin roddi ei frawd ei hun, yn nghydag Iarll Caerloyw, a *Robert Burnell*, prif ynad ei deyrnas, yn wystlon am ei ddyogeliad; gan fod yn llys y brenin amryw o'i ddeiliaid gwrthryfelus, yn nghyda llawer o bendefigion Lloegraidd, a dra sychedant am ei waed.

Y Cymry bradychus y cyfeiriai Llewelyn atynt yn yr esgusawd uchod, oeddynt—ei frawd ei hun, *Dafydd ab Gruffudd*, yr hwn a gilasai o'r blaen at Harri III., a *Gruffudd ab Gwenwynwyn*, yr hwn a amlygasai ei gniaeth at y tywysog lawer gwaith o'r blaen; ac ychydig cyn yr adeg yma, a adnewyddasai ei draha yn erbyn y tywysog, a rhag ei ddialedd a gilasai i lys Iorwerth.

Trwy fod gan y brenin Iorwerth lonaid ei ddwyllaw o waith, ar hyn o bryd, i adferu iawndrefn yn ei deyrnas ei hun—er mor ddolurus y teimlai o herwydd ymddygiad anhyblyg y tywysog Llewelyn—ni farnodd yn addas amlygu cymmsaint o hyny y pryd hwn; ond dysgwyliai am arfod fwy manteisiol i ymddial arno, ac ni fu yn hir heb ei gael; canys yn y tymhor yma o seibiant, bwriadai Llewelyn briodi âg *Eleanor*, ferch *Simon de Monteforte*, iarll Leicester, â'r hon y'i dyweddiadid ers amryw flynedd-oedd o'r blaen, pan ydoedd y tywysog a'r iarll yn cydymhladd yn erbyn Harri III. Ar ol marwolaeth ei thad, aethai Eleanor i fonachlog Montargis, yn Ffrainc, lle y bu yn aros dros hir amser; ond o gylch y pryd hwn—sef 1276—anfonai Llewelyn at frenin Ffrainc, i erfyn arno anfon ei ddyweddi ato, fel y cyflawnai y briodas. Cydsyniodd brenin Ffrainc â chais y tywysog; a mam Eleanor a'i hanfonodd drosodd, dan nawdd ei brawd *Emri*: ond fel yr oedd y llong yn nesu tua gororau Prydain, cyfarfuwyd â hi gan bedair o longau y brenin Iorwerth, y rhai â'i dygasant i borthladd *Bristol*, ac oddiyno anfonid Eleanor a'i brawd at y brenin, gan yr hwn y'u cedwid yn fath o garcharorion; eto ymddygid tuag atynt yn dra anhydeddus, gan eu derbyn i'r llys breninol; ac nid oedd hyn yn rhyf-eddol, canys yr oedd Eleanor yn gyfnither âg Iorwerth, a thylwyth *Simon de Monteforte* yn gryfion eu dylanwad eto yn y wlad. Pan ddeallodd Llewelyn am yr anffawd yma, efe a anfonodd at Iorwerth, i erfyn am ei rhyddhad, gan gynnwng arian lawer am hyny; ond yr ateb a roddid i'w geisiadau ydoedd—na roddid y dywysoges i fynu, oddieithr i Lewelyn adferu i ddeiliaid y brenin y cwbl o'r tiroedd a ddygasai oddiarnynt, ac adgyweiriaw yr holl gestyll a ddymchwelasai efe: ond Llewelyn, fel tywysog dewr a gwladgar, a wrthododd yr amodau annheilwng hyn, gyda dirmyg a digter.

Fel hyn adgyffroid gelyniaeth y ddau dywysog, ac ymbarotoi i ryfel a wnaethant; y brenin i wmosododd ar Gymru â thair byddin—y gyntaf, dan ei dywysiad ei hunan, a gyfeiriai tua Chaerlleon; yr ail, dan Iarll Lincoln a Rosser Mortimer, a gyfeiriai i Drefaldwyn; a'r drydedd a gyfeiriai i Gaerfyrddin. Cefnogid y rhai hyn gan yr holl bendefigion Cymreig bradwrus, y rhai a wnaent eu goreu i berswadio ereill i ymgymmodi â'r brenin, gan ddarlunio achos y tywysog yn anobeithiol; ac felly yn fuan y pedwar pendefig cadarnaf o'r Deheubarth—sef *Rhys ab Imerdydd*, *Gruffudd ab Imerdydd*, *Cynan ab Imerdydd*, a *Rhys Iwerddaw*, a aethant at y brenin, ac a wnaethant wriogaeth iddo, a'r holl wlad a feddiannwyd gan filwyr y brenin. *Gruffudd ab Imerdydd* hefyd a adenillodd ei gyfoeth yn Mhowys, trwy gynnorthwy y fyddin freninol; a'r brenin a'i fyddin a ymwthiodd i'r berfeddwlad, ac a gadarnhaodd gestyll Ffint a Rhuddlan; ac arosodd yn y lle olaf yma dalm o amser, gan anfon byddin oddiyno i ynys Fon, i losgi yr ydau, a diffeithio y wlad, fel na chaffai gwyr y tywysog ymborth oddiyno.

Fel hyn gwarchaeid ar Llewelyn yn mynyddoedd Eryri, lle y bygthydd ei filwyr glewion, a'r ychydig ddeiliaid ffyddlawn a llynet wrtho, â newyn. Er hyny nid yw yn annhebyg y gallasai efe ddal allan mor faith, a blino byddinoedd y brenin mor fawr, fel ag i'w orfodi i ddychwelyd i'w wlad yn afwyddiannus y tro hwn, megys amserau blaenorol; ond yr oedd ei anwylyd, Eleanor de Monteforte, yn meddiant Iorwerth y pryd hwn; a barnai Llewelyn nad y ffordd debycaf iddo i enill ei rhyddid oedd ei yru i gynddaredd felly. Am hyny efe a anfonodd at y brenin i geisio amodau heddwch; a chaniatawyd hyny iddo, ar yr amodau iddo yn gyntaf ymestwng yn hollol i diriondeb y brenin; ac er mor annymunol raid fod hyn i wr o'r fath yspryd annibynawl a Llewelyn, nid oedd un llwybr arall yn

ymddangos iddo, drwy yr hwn y gallai enill rhyddid ei ddyweddi; ac felly efe a gytunodd ar amodau tra diraddiol iddo ei hun, ac andwyol i anni-bynolrwydd ei genedl.

Yn fuan wedi yr ymheddychiad yma, cafodd Llewelyn ei wysio i gyfarfod âg Iorwerth yn Nghaerwrangon, i wrïogaethu iddo; ac addawai y brenin y rhoddid Eleanor de Monteforte yn briod iddo ar y pryd. Felly efe a aeth uno, ac a ymgrymodd o flaen y brenin, yr hwn a gymmeradwyodd ei ymostyngiad, a barodd iddo godi, ac a ddywedodd ei fod yn maddeu ei anufudd-dod blaenorol, gan ei sicrhau y cosbid y gwrthryfeliad nesaf yn llym. Yna dychwelodd y brenin ei wystlon i'r tywysog, ac a roddodd ei ddyweddi a'i meddiannau i fynu iddo; a'r briodas a gymmerodd le ar y 13eg o Hydref, 1278, yn ngwydd y brenin a'r frenines. Ond Iorwerth, yn gysson â'i faweidd-dra arferol, a gymmerodd fantais ar yr achlysur yma i gael gan Lewelyn ymrwymo na noddai o fewn ei diriogaethau neb a dynasai arno ei hunan wg coron Lloegr. Mor gynted ag y cafodd y tywysog ei wraig i'w feddiant, efe a brysurodd gyda hi i'w wlad ei hun, gan gyrchu i'w lly, yn Abergwyngregyn.

Mae y *Parch. Thomas Price* yn sylwi, yn y cysylltiad yma yn hanes ein cenedl, mai pendefig o'r enw *Simon de Monteforte* a fu yn offeryn o'r blinderau gorthrymaf, a'r creulonderau aethlytaf, i'r Waldensiaid erlidiedig; ac mai er uno ei dyngedfen âg wyres i'r bwystfil melldigedig hwnw, y darfu i dywysog Cymru, mewn awr annedwydd, werthu ei ryddid ei hun a'i wlad am y cyfathrach.—Mae yn amlwg, pa fodd bynag, na bu nemawr ffawd dda i Lewelyn oddiar y pryd yr anfonodd am dani o Ffrainc; ac er iddo ymostwng i'r fath ddiraddiad i'w chael, nis mwynhaodd hi nemawr o amser, canys bu farw ar enedigaeith merch, yr hon a elwid *Gwenllïan*, yn mhen llai na dwy flynedd wedi eu priodi. Trwy farwolaeth y dywysoges, diddymwyd yr unig rywmau a allasant uno y tywysog i ryw fesur â llys Iorwerth; ac heblaw hyn, yr oedd y gormes cyffredinol a lethai ei genedl, yn gyssylltiedig â gweinyddiad cyfreithiau Lloegraidd yn y dywysogaeth, wedi peri i'w enaid ymofidio yn chwewo o herwydd ei ymostyngiad blaenorol i Iorwerth. Ac yr oedd ei frawd Dafydd hefyd erbyn hyn yn dechreu gweled ei ynfydrwydd, o gefnu ar ei frawd a'i dywysog cyfiawn, ac o ymgystlynu âg estroniaid diegwyddor; i.e, yn wir, gellid dweyd fod y rhan fwyaf o bendefigion y dywysogaeth yn teimlo yr un doluriau, ac yn barod i wneyd un ymdrech eto, er ysgwyd yr iau anesmyth ymaith.

Felly, wedi cymmodi Dafydd â'i frawd, efe a enciliodd yn ddirgel o lys y brenin, ac a ddaeth i Gymru; ac ar nos Sul y Blodau—yr hon oedd yn noswaith dywell a thymhestlog—efe a gymmerth gastell Pen-ar-lag, gan gymmeryd y llywydd—*Syr Roger Clifford*—yn garcharor, wedi ei glwyfo yn drwm, ac efe a gludwyd mewn cadwynau i'r Eryri; ac amryw farchogion oeddnt yn yr amddiffynfa hon ar y pryd, a laddwyd—yn mysg pa rai yr oedd *Foulke Trigold*. Yr ymosodiad yma a barodd i'r Cymry o bob parth ymarfogi yn y fan; ac yna Dafydd a Llewelyn a unasant eu byddinoedd, ac a warchaeasant ar gestyll Fflint a Rhuddlan; a'r un pryd, *Rhys ab Maelgwyn* a oresgynodd gantref Penwedig, a *Gruffudd ab Meredith* a oresgynodd gwmwd Mefenydd, a llosgasant dref a chastell Aberystwyth â than.

Yr oedd y brenin yn cadw gwyliau y Pasg, yn *Devizes*, pan y clywodd am ymoriad annysgwyliadwy y gwrthryfel hwn; a phan glybu, penderfynodd wneyd darpariadau mawrion i'w wrthladd yn ddiode; ac i'r perwyl hyn, archodd i'r ddau archesgob gyhoeddi dedryd yr eglwys yn erbyn Llewelyn a'i bleidwyr, cyfododd dreth ar yr holl deyrnas tuag at

gynnal ei gadgyrchiad, a benthyciodd arian gan y masnachwyr a'r eglwyswyr, ac archodd i'w holl ddeiliaid milwraidd ymbarotoi i'w gyfarfod—y naill ran o honynt yn Nghaerwrangon, erbyn yr 17eg o Fai, a'r gweddill yn Rhuddlan, erbyn y mis canlynol.

Fel yr oedd efe yn neshau at Gaerlleon, unai pobl y wlad ág ef, ac yntau a'u gosodai ar waith i agoryd y ffyrdd o flaen ei fyddin, trwy wlad y gelyn. Ar ol gorphwyso pymthengnos yn Nghaerlleon, efe a aeth yn erbyn castell Caergwley, yr hwn a roddwyd iddo yn ddiwrthladd: ac efe a arweiniodd ei fyddin yn erbyn castell Rhuddlan. Fel yr oedd ei fyddin yn neshau, y tywysogion Cymreig a godasant y gwarchae, gan encilio yn araf tuag Eryri; ond yn yr enciliad yma, bu brwydr rhwng y Cymry a rhan o fyddin y brenin, yn yr hon y gorchfygasant y Saeson, gan gymmeryd pedair ar ddeg o faneri, a lladd amryw o'u pendeffigion; a bu yn rhaid i'r brenin ei hunan ddychwelyd am nawdd i gastell Caergwley, neu Estyn, yr hwn yr oedd newydd ei gymmeryd. Ac yn wir ni allodd y brenin wneyd ymosodiad o bwys hyd ddiwedd Hydref. Yn nghanol Gorphenhaf nyini a'i cawn yn nghastell Rhuddlan, yn anfon gorchymyn allan i dori i lawr y coed, er gwneyd ffordd fwy agored a dyogel i'w wŷr i symud yn mlaen; a'r pryd hwn hefyd efe a roddodd anrhegion o amryw diroedd yn y pedwar cantref i rai o'i farwniaid.

Yn y cyfamer, yr oedd archesgob Caergaint wedi dyfod i Gymru, ac yn dra ymdrechgar i gael gan y tywysog Llewelyn a'i bobl ddyfod i amodau heddwch â'r brenin; ac y mae ar gael heddyw, ohebiaeth faith a gymmerth le rhwng y pleidiau, trwy gyfrwng yr archesgob, yn yr hon y gellir cael mantais fawr i farnu am y camwri a'r gorthrymder a ddyoddefai ein cenedl, a'r hyn a'u cyffroai i gyfodi yn erbyn y brenin y waith hon.

Wedi i'r archesgob fod yn hollol afwyddiannus, yn ei ohebiaeth, i gael gan y tywysogion Cymreig ymostwng i'r brenin, efe a ddychwelodd i Loegr; ac Iorwerth ddechreuodd fudo ei fyddin o Ruddlan, tuag afon Gonwy; ac anfonodd ran o honi mewn badau i ynys Fon, yr hon a gymmerwyd yn dra rhwydd, yn gymmaint a bod y gwŷr penaf ynddi wedi eu dadgan eu hunain yn mhlaidd y brenin, yn unol â'r llwon o fyddin Iorwerth yn Arfon, a wnaethant bont o fadau ar draws y Menai, yn y lle a elwir Moel y don, yr hon oedd yn ddigon llydan i dri ugain o wŷr ei cherdded yn gyfochrog. A chyn i'r fyddin yn gyffredinol gychwyn i groesi y bont, *Syr William Latimer*, a lluaws o'r milwyr goreu, a *Syr Lucas Thany*, rhaglaw Gwasgwyn, gyda'i Wasgwynwys a'r Yspeniaid oeddynt yn ngwasanaeth y brenin, a aethant dros y bont ar y trai, i'r ochr arall i'r Menai, lle ni chyfarfuant ág un gwrthladdiad am beth yspaid. Ond pan ddaeth y llanw i mewn, ac ysgaru o'r môr rhyngddynt a'r bont, *Rhisiart ab Walwyn*—yr hwn a flaenora i nifer o Gymry pybyr a orweddent gerllaw mewn cynllwyn—a ruthrodd arnynt yn ddisymwth, ac a ymosododd mor ffyrnig arnynt, fel na ddiangodd ond *Syr William Latimer*, yr hwn, trwy gryfder ei farch, a gyrhaeddodd y bont. Colodd y Saeson, rhwng lladd a boddi, 15 marchog, 32 o ysweiniaid, a 1000 o filwyr cyffredin. Ar y cheched dydd o Dachwedd, 1282, y bu hyn.

Parodd y fuddugoliaeth hon orfoledd nid bychan i'r Cymry, ac a'u calonogodd i ymdrechion ychwanegol; ac ar yr un pryd, achlysuroidd y fath arswyd yn myddin Iorwerth, fel y barnodd yn ddoeth iddo encilio i Ruddlan, o'r lle yr anfonodd wysiad at holl raglawiaid swyddi Lloegr, ac

at yr esgobion a'r offeiriad, i erchi iddynt ymegnio i'w gynnorthwyo i ddwyn y rhyfel yn mlaen yn erbyn Llewelyn.

Yn y cyfamser, yr oedd *Rhys ab Maelgwyn a Gruffudd ab Meredydd* yn goresgyn cyfoeth y brenin yn y parthau deheuol o'r wlad; a'r brenin a anfonodd Iarlrl Caerloyw, a byddin gref dan ei dywysiad, i'w gwrthladd; ac ymladdwyd brwydr galed rhyngddynt gerllaw Llandeilo Fawr, yn yr hon y gorthrechwyd y Cymry; ond ymddengys i'r fuddugoliaeth gostio yn ddrud i'r Saeson; canys laddwyd pump o farchogion urddasol yn eu byddin, yn nghyda *William de Valence*, cefnderw i'r brenin. Er hyny, yn y frwydr hon y rhoddwyd y dyrnod olaf i annibynolrwydd y Deheubarth.

Trwy fod Rhys ab Meredydd yn y Deheubarth yn parhau i lynu wrth y brenin, barnodd Llewelyn yn addas—wedi ei fuddugoliaeth yn Moel y don, ac enciliad Iorwerth i Ruddlan—adael ardaloedd Eryri dan reolaeth ei frawd Dafydd, a myned ei hunan, gyda byddin gref, tua'r Deheubarth, i gyfnerthu ei gyfeillion, ac i ymddial ar ei wrthwynebwyd; ac wedi anrheithio Ceredigion, gwlad Rhys ab Meredydd, efe a drodd oddiyno tua Buallt, ar fedr ymgynghreirio â rhai o bendefigion yr ardaloedd hyny, er rhoddi gwrthladdiad mwy effeithiol i ormes y Saeson: ond cyn gallu o hono gyflawni ei amcan gwladgarol, rhoddwyd terfyn ar ei einioes, ac felly darfu am ei holl amcanion.—Yr hanes goreu a feddir am yr amgylchiad yma yw yr un canlynol, wedi ei gymmeryd o "Hanes Brycheiniawg," gan *Theophilus Jones*:—"Y tywysog, gan adael y rhan fwyaf o'i fyddin ar ymylau Ceredigion, ysgatfydd i wrthladd *Olifer de Dyneham*, yr hwn a anfonais gan y brenin tua'r ardaloedd hyny—a aeth gydag ychydig o'i filwyr tua gwlad Buallt, gan deithio ar y tu gogleddol i afon Gwy—sef drwy swydd Faeshyfaidd—a ddaeth hyd at Aberedwy, islaw Llanfair yn Muallt, yn dysgwyl am gyfarfod â chyweithas yno. Ond yn lle hyny, cyfarfu â gelynyon: canys yr oedd *Edmund Mortimer*, a *Ieuan Giffard*, gwedi dwyn gyda hwy fyddin gref o Loegr, idd ei wrthladd. Ac felly ciliodd oddiyno yn groes i Wy, ac a barodd dori y bont o'i ol. Yna y Saeson a aethant ychydig o ffordd yn mhellach i lawr, at ryd, mewn lle a elwir yn awr, '*Cafn Twm bach*;' ac yna croesasant yr afon. A Llewelyn a aeth at gastell Buallt; ond yno ni chafodd yn croesawiad; canys yr oedd *Wmffre de Bohun* wedi ei anfon i'r wlad hono gan y brenin; ac yr oedd *Roger l'Estrange* hefyd yno eisoes mewn awdurdod dan y brenin. Ar hyn y tywysog, yn gweled nad oedd ond brad a gelyniaeth yn ei aros, lle y dysgwyliai gyfnerthiad, a aeth rhagddo at Bont Orewyn—sef Pont ar Irton, meddylir—yn rhywle o gylch tair milldir oddiwrth Lanfair yn Muallt, tua'r gorllewin; ac os felly, y tywysog a aeth ar hyd ochr ddeheu y afon, ac a groesodd y bont hono, a chan ei gosod dan gadwraeth ei wŷr, efe ei hun a aeth, heb neb gydag ef ond ei was yn unig, i goedwig gerllaw, i ymweled â rhai o bendefigion y wlad, y rhai oeddynt wedi addaw ei gyfarfod yno. A thra yr oedd yn aros wrthynt, y gelynyon, y rhai oeddynt erbyn hyn wedi ymgynnull mewn rhifedi ddigon idd ei ganlyn, a ddaethant ar ei ol hyd at y bont, ac a ymosodasant ar ei wŷr; ac yntau yn clywed bloedd brwydr, a ofynodd i'w was, os ydoedd ei wŷr yn cadw y bont, ac yntau a atebodd eu bod; 'Yna,' ebe'r tywysog, 'nid ymadawaf oddi yma pe byddai holl gadernid Lloegr ar yr ochr draw.' Gan mai y gauaf ydoedd, y mae yn debygol fod llif yn yr afon ar hyn o amser, ac felly yn anhawdd idd ei chroesi yno: a'r tywysog a adnabyddai yn dda wychder ei wŷr, ac hyderai na byddai i neb rhyw rifedi pa bynag enill y bont oddi-arnynt. Ond yn y cyfamser, rhyw un a ddangosodd i'r Saeson ryd, a rhyddig yn ts i lawr; a than dywysiad un o'r enw *Helias Watwyn*, rhai

o'r marchwyr a groesasant yr afon, ac a amgylchasant y goedwig yn mha un yr oedd y tywysog; a chyn y gallai gyrhaedd at ei wŷr, ymosodwyd arno; ac un *Adam Efrancion* a'i brathodd â gwaywffon, ac a'i gadawodd yn y lle, heb wybod pwy ydoedd. Yna y marchwyr Saesonæg, y rhai oeddynt gwedi croesi wrth y rhyd, a ddaethant ac a ymosodasant ar y gwŷr y rhai oeddynt yn cadw y bont, ar y tu hwnw i'r afon; a hwynt-hwy a amddiffynasant eu hunain yn wrol; ac y mae yn debygol iddynt gilio oddiwrth y bont i fynu i'r bryn gerllaw, ac yno ymddulliasant eu llu. Ond y Saeson erbyn hyn a ddaethant oll dros yr afon, ac a ymosodasant arnynt yno; a'r Cymry—y rhai, medd *Powel*, nid oeddynt ond ychydig—a ymladdasant yn wrol, gan ddysgwyl o hyd am ddyfodiad eu tywysog. Ond yn y diwedd, y llu bychan hwn, trwy rifedi eu gelynon, a orthrechwyd; a'r rhai ni laddwyd a orfu ffoi. Yna y gŵr, yr hwn a glwyfasai y tywysog, a ddaeth i edrych am dano—a phan sylwodd arno, adnabu pwy oedd efe; canys cafwyd yn ei feddiant lythyr wedi ei ysgrifenu mewn llythyrenau dirgel, ac hefyd ei gwyrfath: ac yna y gŵr hwnw a dorodd ymaith ei ben, ac a'i anfonodd at y brenin i Ruddlan, yr hwn a'i derbyniodd gyda gorfolodd, ac a'i anfonodd oddiyno i Lundain, lle y coronwyd ef â choron o ddail eiddew, er gwawd am y daroganiad y gwisgai y tywysog goron Llundain. Dywedir hefyd, er yr un dyben, iddo gael ei goroni â thalaith arian, a'i giudo ar baladr trwy yr heolydd. Ac yn ddiweddaf, gosodwyd ef ar bicell haiarn, ar un o'r tyrau uchaf yn y *Twr Gwyn*, lle y cafodd aros dros hir amser. Claddwyd ei gorph ef gerllaw y man lle y syrthiodd.\*

Fel hyn y bu farw y tywysog Cymreig olaf, yn niwedd y flwyddyn 1282, wedi teyrnasu wyth mlynedd ar hugain; a chyda'i gwmp ef y darfu am annibyniaeth ei gydgenedl, wedi ei chynnal mewn rhyw gyrion o'r wlad, drwy bob cyfyngderau, dros yr yspaid maith o 2418 mlynedd, yn ol rhai haneswyr.†

Yn ei farwnad, gan *Gruffudd ab yr Ynad Coch*, y mae y llinellau canlynol, y rhai a bortreiant deimlad galarus ei genedl am ei gwmp:—

“Llawer deigr hylithr yn hwyliaw—ar rudd;  
 Llawer ystlys rudd a rhyw arnaw;  
 Llawer gwaed am draed gwedi ymdreiddiaw;  
 Llawer gweddw â gwaedd y amdanaw;  
 Llawer meddwl trwm yn tramwyaw;  
 Llawer mab heb dad wedi ei adaw;  
 Llawer hendref fraith, gwedi llwybr goddaith;  
 A llawer diffaith drwy anrhaith draw.  
 Llawer llef druan,  
 Fel ban fu'r Gamlan,  
 Llawer deigr dros ran,  
 Wedi'r greiniaw,  
 O las gwanas gwanar eurllaw,  
 O laith Llewelyn, cof dyn ni'm daw,  
 Oerfelawg calon dan fron o fraw," &c.

Wedi cwmp Llewelyn, methodd ei frawd Dafydd enill digon o ymddiried y Cymry i allu gwneyd nemawr wrthsafiad i alluoedd y brenin, y rhai yn fuan a oresgynasant yr holl wlad; ac fel yr oedd Dafydd a'i deulu yn ymgyddio yn y coedydd a'r corsydd, llwyddodd y brenin trwy lwgrwobrwyo rhai o'i ganlynwyr—sef *Einion ab Ifor* a *Goronwy ab Dafydd*—i gael ganddynt ei fradychu, gan ei ddwyn ef, a'i wraig, a'i ddau fab, a'i

\* Hanes Cymru, tudal. 726, 727.

† *Powel's History of Wales*, p. 273.

saith merch, yn rhwym at y brenin I gastell Rhuddlan. Ac yn gymmaint a'i fod gynt, pan yn gyfaill i'r brenin, wedi cael ei wneyd yn arglwydd Seisnig, efe a anfonwyd i'r Amwythig, i'w brofi megys deiliad Lloegraidd, yn ol y gradd a ddaliasai; ac i'r perwyl hyny, ffurfiwyd brawdlys o 11 o ieirll, a 100 o farwniaid, a'r brenin ei hun yn llywyddu fel barnwr, a'r ddedryd annynol a ganlyn a roddwyd arno:—

1. Am ei fod yn fradwr i'r brenin, yr hwn a'i hurddasai yn farchog, yr oedd i gael ei lusgo wrth gynffon ceffyl i'r dihenyddle.

2. Am iddo lofruddio *Fulke Trigoid* ac ereill, yn nghastell Pen ar lag, yr oedd i gael ei grogi.

3. Am ei fod yn euog o gyssegr-dreisiant, trwy gyflawni y llofruddiaeth hyny ar ddydd Sul y Blodau, yr oedd ei ymysgaroedd i gael eu tori allan, a'u llosgi.

4. Am iddo gynllwyno yn erbyn bywyd y brenin, mewn amryw fannau yn y deyrnas, yr oedd ef i gael ei dori yn bedwar darn; a'i aelodau i gael eu crogi i fynu mewn amryw leoedd.

Y ddedryd wrthun hon a gyflawnwyd hyd yr eithaf, ac anfonwyd ei bedwar aelod i bedair o'r dinasoedd mwyaf cyfrifol yn y deyrnas—sef, Brysteu, Northampton, Caerefrawc, a Chaerwynt; a'i ben a anfonwyd i Lundain, lle y dodwyd ef ar y Twr, gyda phen ei frawd Llewelyn.

Pe buasai y tywysog annedwydd hwn wedi parhau trwy ei oes yn fwy fyddlawn i'w frawd, ac iawu barchu y gorhen uchelfonedd oedd yn wir eiddo iddo, yn lle cynffona i elynion ei genedl a'i dylwyth, a derbyn coeg urddas annheilwng ar eu llaw, nid yw yn debyg y daethai i'r fath ddiweddedd adwythig; a diau y buasai ei goffadwriaeth yn llawer mwy peraroglaidd gan ei genedl ei hun. Nid oes un amheuteh nad oedd Dafydd yn filwr tra dewrwyh, fel y'i darlunir yn y llinellau canlynol, gan *Bleddyn Fardd*:—

“ Gŵr heirdd ei filfeirdd, foliant cynnar;  
Gŵr hardd-ddeddf, ddileddf ar dâl branar;  
Gŵr a wnaeth a gwayw, gwyar yn cochî;  
Uwch Aberteifi, ri rhyfelgar.

Gŵr gwrdd yn ymhwrd emys\* lluchfar;  
Gŵr gorddin nas byw llyw lluosger;  
Gŵr bolch† ei darian, daerfar yn nghynî;  
Gŵr balch yn holi seri sathar.‡

Gŵr beilch ei aerweilch arwyp drydar;  
Gŵr bwlch nad ydyw, gwayw briw brwydrgar;  
Gŵr a wnaeth adaw adar ar gynraih;  
Fal cigfrain Ywain, awydd daffar.§

\* Meirch. † Bylchwag. ‡ Troedïad ellyllon.

§ Gwobrwy.—Am eglurhad o'r llinell olaf, y mae y Parch. T. Price yn cyfeirio at y Mabinogion, gan yr Arglwyddes Charlotte Guest, lle y traethir am fyddin o cigfrain yn ngwasanaeth Owain ab Urien Rheged.

## DARLITH IX.

## OWAIN GLYNDWR A'I AMSERAU.

WEDI i Iorwerth I. lwyddo i gael pen y tywysogion Cymreig i lawr, ymdrechodd trwy bob moddion a allai ddyfeisio i lwyr ddarostwng y genedl; ac i'r perwyl hyn arosodd yn Ngogledd Cymru dros dair blynedd, gan gynnal ei lys yn benaf yn nghastell Rhuddlan; a thra fu yma, gwnaeth gyfraith yn cynnwys dosbarthiad rhanau o Wynedd a Deheubarth yn siroedd, gan benodi rhaglawiad arnynt; a threfnodd hefyd ffurf gweinyddiad cyfraith yn y dywysogaeth.

Heblaw hyny, ymroddodd i adeiladu cestyll cryfion, er cadw ei arswyd ar y trigolion; y cyntaf o honynt ydoedd castell Caerynarfon, yr hwn a ddechreuwyd yn y flwyddyn gyntaf o'i feddianniad o'r wlad; ac fe'i gorphenwyd mewn *dwyr flynedd*, medd Price—ond yn ol ereill, cymmerodd *ddeuddeng mlynedd* i'w lwyr orphen: ac wrth gyferbynu y crybwylliaidau a wneir mewn amryw hen gyfysgrifau, yr ydym yn cael lle cryf i gasglu fod y castell hwn wedi ei ddechreu yn gynnar yn y flwyddyn 1283, a dygid yr adeilad yn mlaen yn lled reolaidd, er yn araf, hyd y flwyddyn 1294, pan dorodd y gwrthryfel allan dan y tywysog *Madawc*—yr hwn, yn nghyda mintai o ganlynwyr arfog, a ymosododd ar y gwarchawdlu, a chan eu gorchfygu, a'u lladd, a gymmerth y castell, ac a ddrylliodd lawer o'r muriau; a buwyd amryw flyneddoedd wedi hyny cyn llwyr orphen castell a chaerau y dref hon; ac yn wir, nid yw yn ymddangos i'r adeilad hon gael ei gorphen byth, yn ol y cynllun cyntefig yn gyflawn.

Yn yr ail flwyddyn dechreuidd adeiladu castell Conwy, ar y man lle y safai monachlog Aberconwy, gan symud y myneich i lys newydd a adeiladasai efe at eu gwasanaeth yn Maenan, gerllaw Llanrwst; ac ar ol hyny symudodd hwynt oddiyno i swydd Gaerlleon, rhag bod eu dylanwad yn niweidiol iddo ef a'i lywodraeth, wrth eu bod yn nghanol eu cydgenedl.

Oddeutu yr un blynedoedd hefyd yr adeiledd cestyll Beaumaris yn Mon, a Harlech yn Ardudwy; a gosodid gwarchodluoedd cryfion yn mhob un o'r amddiffynfeydd rhagddywededig, er cadw y genedl orchfygedig rhag gwrthryfela yn erbyn y gormeswyr a drawsfeddiannasant eu gwlad mor annghyfiawn.

Archadeiladydd y brenin, yn nghynlluniad ac adeiladiad yr amddiffynfeydd cryfion hyn, ydoedd foneddwr celfyddgar o'r enw *Henry de Ellerton*—neu yn ol ereill, *Henri de Elreton*; ac y mae yr adeiladau hyd heddyw, er yn adeiliedig, yn dystion i'w alluoedd fel adeiladydd.

Llwybr arall a arferodd y brenin i geisio sicrhau ffyddlondeb y pendefigion Cymreig iddo, oedd y ddichell ganlynol yn amgylchiadau penodiad ei fab ei hun yn dywysog Cymru—cans wedi ymgynghori lawer gwaith a rhai o honynt ar y pen hwn, a chael yn unig ateb ganddynt, eu bod yn foddllawn i gymmeryd yn dywysog arnynt nebun a enwai y brenin, *os byddai yn Gymro*, ond nas ufuddhaent byth o'u bodd i unrhyw estron, o iaith yr hwn y byddent yn anadnabyddus—efe a anfonodd am y frenines *Eleanor*, yr hon oedd ar y pryd yn feichiog, ac amser ei hesgoriad yn nes-



hau, gan erchi iddi ddyfod i Gymru mor fuan ag y gallai. Ac felly, er ei bod yn nyfnder y gauaf, a'r fyrrdd yn ddrwg, a'r wlad yn ddiagon peryglus i'w theithio ar y pryd, ei mawrhydi a deithiodd yr holl ffordd yn ddirgel, ar gefyll, medd yr haneswyr, gan letya y nosweithiau mewn cestyll a berthynent i'r brenin, hyd oni chyrrhaeddodd Ruddlan; ac oddiyno, fe'i dygwyd gan y brenin hyd Gaerynarfon, lle yr oedd lluaus o'i wŷr yn brysyr yn adeiladu y castell newydd; ac yno, mewn rhyw ystafell o'r *hen gastell*, yr hwn ni thynasid i lawr yn llwyr i gael lle i'r newydd, mor foreu a hyny, debygid, yr esgorodd hi ar fab, ar y 23ain o Ebrill, 1284. Yn y cyfamser, yr oedd y brenin yn cartrefu yn Rhuddlan, ac amryw o benedfigion Cymru yn cael eu cadw o'i ddeutu dan ryw esgus: a chan gynted ag y cyrrhaeddodd Gruffudd Llwyd, o Drefgarnedd a Dinorwig, i Ruddlan, fel cludydd y newydd i'r brenin o enedigaeth mab iddo yn nghastell Caerynarfon, mor lawen ydoedd efe am y newydd, fel yr urddodd ef yn farchog yn y fan. Yna efe a alwodd y penedfigion Cymreig i'w wydd, ac a'u cyfarchodd yn dirion—gan ddywedyd ei fod ef yn bwriadu dychwelyd o'r wlad yn fuan bellach, a'i fod gan hyny yn penderfynu caniatâu eu dymuniad iddynt, trwy benu tywysog arnynt, os addawent fod yn ufudd a ffyddlawn iddo. Hwythau a ymrwymasant i fod felly, os byddai efe yn un o'u gwlad eu hunain. Ar hyny y brenin a ddywedai y cydsyniai efe â'u cais mor bell ag i enwi un a anesid yn Nghymru, ac na lafarodd air erioed o Saesoneg, a buchedd yr hwn ydoedd yn ddiargyhoedd. Wedi iddynt addaw yn ddirifol y buasant yn ufuddhau i'r cyfryw un, Iorwerth a ddywedodd mai ei fab ef ei hun ydoedd, yr hwn a anesid yn ddiweddar yn nghastell Caerynarfon! Erbyn hyn, nid oedd gan y penedfigion Cymreig ddim i'w wneyd, ond "gwasgu y giust," canys gwelent fod eu hen elyn wedi myned drostynt â'i ystryw, a'u cael i'r fagl yn deg—sef i addaw cymmeryd ei fab ef yn dywysog arnynt; tra y meddylent hwy mai i dywysog o'u gwaedoliaeth eu hunain y tyngent ffyddlondeb. Ond bellach nid oedd ganddynt ddim i'w wneuthur ond ceisio gwneyd y goreu o'r gwaethaf, ac ymgysuro â'r gobaith y dygid y tywysog ieuanc yma i fynu yn eu gwlad, ac y'i dysgid yn eu hiaith a'u defodau; ac y gallai, yn y canlyniad, y teimlai ryw ddyddordeb ynddynt, ac y byddai o fuddioldeb iddynt. Ond yn hyn hefyd cawsant eu siomi yn fuan; canys dygid eu tywysog mabaidd i Loegr, lle y'i dygid i fynu ac y'i dysgid yn Sais trwy-  
adl, o iaith ac arferion, yn y llys breninol.

Peth arall a wnaeth y brenin, er uno y dywysogaeth â theyrnas Loegr, a'i dwyn dan y cyfreithiau Seisnig, oedd ffurfio deddfres, yr hon a gyhoeddwyd yn Ngrawys y flwyddyn 1284, dan yr enw "*Cyfraith Rhuddlan*." Yn rhagymadrodd y ddeddfres grybwyllledig, gwneir y cyfeiriad canlynawl at ei amcan mawr—sef, uniad Cymru â Lloegr, fel rhan hanfodol o'r deyrnas:—

"Iorwerth, trwy rad Duw, brenin Lloegr, arglwydd Iwerddon, a dug Aquitaine, at ei holl ffyddloniaid, yn ei diriogaeth ef o Eryri, ac o'i diriogaethau ereill yn Nghymru, yn dymuno iechyd yn yr Arglwydd.

Y dwyfol ragluniaeth, yr hyn sydd anffaeledig yn ei drefniadau, yn mhlith ei roddion ereill trwy ba rai y teilyngodd ein haddurno nyhi a'n teyrnas o Loegr, sydd yn awr trwy ei rad, a thrwy symudiad ymaith o bob rhwystrau yn hollol, ac mewn cyfanoldeb gwedi cyssylltu ac uno â choron y deyrnas ragenwedig, megys cyfran o'i choroph, tir Cymru gyda'i drigolion, yr hwn oedd gynt, trwy deyrnged, yn ddarostyngedig i nyhi, &c."

Heblaw hyny, efe a roddodd amryw arglwyddiaethau a threfydd yn nghanol Cymru, i arglwyddi Seisnig—megys, arglwyddiaeth Dinbych

i *Henri Lacy*, iarll Lincoln; ac arglwyddiaeth Ruthin i *Reginald de Grey*, ail fab John, arglwydd Grey, o Wilton, &c.

Wedi i Iorwerth, yn ei dyb ei hun, sicrhau ymostyngiad y Gwynedd-wyr, a dyogelu bylchau Eryri, efe a aeth i Geredigion, lle y trigodd dros fis o amser, i drefnu achosion y Deheubarth; ac oddiyno efe a aeth i Forganwg, i ymweled âg Iarll Caerloyw, tywysog y wlad hono; ac wedi ymweled â rhai parthau ereill o'i deyrnas, efe a ddychwelodd yn ol i'w brif ddinas, wedi bod yn absenol yn Nghymru am oddeutu tair blynedd. Ond gyda'i fod wedi troi ei gefn, gwelid arwyddion o anesmwythdra dan yr iau estronol yn dechreu ymddangos mewn rhyw ranau o'r dywysogaeth.

Yn y flwyddyn 1287, pendefig urddasol o'r Deheubarth—sef, *Rhys ab Meredith*, yr hwn yn wir a fuasai yn hir yn ngwasanaeth Iorwerth, ac a roddasai y cynnorthwy mwyaf effeithiol iddo i oresgyn Gwynedd, a gorchfygu Llewelyn; ac am ei wrhydri a'i ffyddlondeb a urddasid yn farchog ganddo, ac a gawsai lawer o addewidion teg am ffafrau breninol rhagllaw—a gyffrowyd i ddigofaint, trwy faweidd-dra dau o'r swyddogion Seisnig—sef, *Robert de Tibetot*, prif ynad y Deheubarth, ac *Alan Plucknet*, goruchwyliwr y brenin yn Nghymru—fel y cyfododd wrthryfel yn erbyn awdurdod y brenin, yn y rhan hono o'r dywysogaeth; ac efe a fu yn ddraen blin yn ystlysau y Saeson dros yspaid pum' mlynedd. Ond o'r diwedd, mewn brwydr waedlyd, yn yr hon y colodd tua dwy fil o'i wŷr, cymmerwyd Rhys yn garcharor; ac yn mhen ychydig amser, efe a ddi-henyddiwyd yn Berwick, yn y modd creulonafl, yn y cyffelyb fodd annynol ag y dihenyddasid y tywysog Dafydd ab Gruffudd o'r blaen yn y Mwythig. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 1292.

Yn mhen tua dwy flynedd ar ol hyn, torodd gwrthryfel allan o herwydd rhyw dreth newydd a geisai y brenin ei chyfodi oddiar y Cymry, megys y'i cyfodi eisoes oddiar y Saeson, er cynnal ei ryfeloedd tramor. Efallai fod rhyw drahauder yn ymddygiadau y swyddogion Seisnig, wrth geisio casglu y dreth yma, yr hyn a gyffroai y Cymry i gyfodi yn eu herbyn; ac felly canfyddwn y fflam yn ymdori allan mewn amryfal barthau o'r dywysogaeth ar yr un pryd o'r bron. *Maelywyn Fychan*, wŷr i'r arglwydd Rhys, a hen wron enwog, a arweinai wŷr Dyfed, a'r ardaloedd cyfnesawl, mewn arfau, i anrheithio meddiannau y brenin yn ardaloedd Penfro a Cheredigion; ond yr oedd plaid y brenin yn rhy gref iddynt yno, fel y'u gorthrechwyd yn fuan, a chymmerwyd Maelgwyn yn garcharor; ac yn Henffordd efe a roddwyd i farwolaeth fel bradwr. Er hyny, ei ddilynwyd a barhausant yn eu gwrthladdiad i'r awdurdodau breninol dros yspaid o amser wedi i'w blaenor gwmpo—sef hyd oni ddaeth y brenin ei hunan i Gymru; yr hwn, trwy diriondeb a lledneisrwydd, a wnaeth yr hyn nis gallai ei weision ei gwblhau trwy arfau rhyfel.

Tua'r un pryd hefyd yr enynodd fflam gwrthryfel yn Morganwg, dan flaenor o'r enw *Morgan*, yr hwn oedd yn hanu o hen dywysogion y wlad hono; ac efe a lywddodd i yru iarll Caerloyw allan o'r tiroedd a ddygasai ei hynafiaid oddiar hynafiaid Morgan trwy drais, ac a gamfeddiannasai yntau hyd y pryd hyn. Morgan a'i bleidwyr a benderfynasant nad ymostyngent mwyach i lywodraeth iarll Caerloyw; ond dywedent eu bod yn barol i ymostwng i'r brenin, os caniateid iddynt ddal eu tiroedd dan ei fawrhydi ei hunan, megys deiliaid i goron Lloegr, ac nid i unrhyw arglwydd arall. Yr amodau hyn a gymmeradwyid gan y brenin, yr hwn a ganiataodd eu dymuniad iddynt; ac felly hwythau a ymataliasant â'u gwrthladdiad, a gwnaethant wriogaeth i'r brenin, gan roddi gwystlon iddo, er sicrhad o'u ffyddlondeb rhagllaw iddo.

Oddeutu yr un amser hefyd cyfodai pendefig arall, mwy rhwysgfawr ac urddasol na'r rhai blaenorol, yn Ngwynedd, gan flaenori gwrthryfel grymus yn y wlad hono, yn erbyn swyddogion y brenin: y gŵr hwnw nid oedd neb amgen na *Madaug*, mab o ordderch i'r tywysog Llewelyn ab Gruffudd. Yr achlysur o'r terfysg dywededig ydoedd a ganlyn:—Pan ranodd y brenin Iorwerth ei diriogaethau Cymreig yn rhandroedod, neu siroedd, efe a osododd fath o raglaw ar bob un o honynt, yr hwn a elwid "Sirydd." Y gŵr a osododd efe i lenwi y swyddogaeth yma ar ynys Fon, ydoedd ẁr tra chyfrifol, a mawr ei barch gyda'r brenin, o'r enw *Syr Roger de Pulesdon*; ac efe wrth ei swydd a arolygai gasgliad y dreth grybwyll-edig yn yr ynys; ond y Monwysion a gyfodasant megys un gŵr mewn gwrthladdiad iddo, gan lwyrr benderfynu nad ymostyngent fyth i'r fath ormesiad atgas. Yn y cyfwng hwnw daeth y tywysog crybwyllledig, *Madauc ab Llewelyn ab Gruffudd*, yn mlaen; a chan gymmeryd iddo ei hun yr enw o dywysog Cymru, gosododd ei hun yn flaenor ar y bobl, ac arddelwid ef ganddynt fel y cyfryw.

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth yr ymlaid yma, oedd cymmeryd *Syr Roger de Pulesdon* i ddalffa, yr hwn a grogwyd, ac ar ol hyny torasant ei ben ef; a'r un dynged arswydus a ddaeth i bob un o'i gydweithwyr yn nghasgliad y dreth hon. Ar ol hyny, hwy a gymmerasant feddiant o gastell Caerynarfon, fel y crybwyllwyd eisoes, gan roddi y dref ar dân, anrheithio y castell, a rhoddi lluaws mawr o Saeson oeddynt yno ar y pryd, mewn ffair, i farwolaeth. Yn ngrym y llwyddiant yma, hwy a aethant i gyfarfod byddin y brenin, yr hon a dywysid i'w cosbi, gan iarll Lincoln; ac yn agos i Ddinbach y cyfarfuant, a'r Cymry a emillasant y maes yno. Erbyn hyn, gwelai y brenin nad oedd *Madaug* yn elyn i'w ddiystyru; ac felly efe a roddes i fynu ei fwriad o gyrchu i Ffrainc gyda'i filwyr dewisol, i'r hyn y buasai yn ymbarotoi ers dyddiau; ac arweiniodd ei fyddinoedd yn hytrach i Gymru, gan eu blaenori yn bersonol. Treiddiodd i'r wlad yn ddirwystr can belled a Chonwy, ac efe a groesodd yr afon yn ebrwydd gyda rhan o'i fyddin, ac aethant i'r castell, i aros dyfodiad y rhan arall o'r fyddin. Ond yn y fan yma, bu yn galed iawn ar Iorwerth; canys yr afon a chwyddodd yn ddisymwth gan lifogydd mawrion, fel na allai y rhan arall o'i wŷr, erbyn eu dyfod hyd lan yr afon, groesi trwodd i'w gynnorthwyo; a lluoedd o'r Cymry, yn deall hyny, a ddisgynent o fynyddoedd Eryri, gan warchae ar y castell, nes y bu y fath brinder ym-borth yno, fel y bu agos i'r brenin a'i wŷr drengu o newyn: gorfyddai y brenin ei hunan fwyta yr hen fara garw a'r cig hallt oedd yn ystorfeydd y castell; ac yn lle gwin, da oedd iddo gael dwfr yn gymmysgedig ág ychydig fel. Ond o'r diwedd, gostyngodd yr afon, a'i filwyr a ddaethant drwodd yn ymwared iddo; a chan na allai y Cymry wrthsefyll y fath gadernid, hwy a encilliasant i gilfachau yr Eryri, lle y bwriadid lechu hyd onid elai grym y dymhestl heibio. Ond yn mhen peth amser, cafodd *Iarll Warwick (William de Bello Campo)*, hysbysiad fod nifer mawr o'r Cymry wedi ymgynnull mewn maes rhwng dwy allt o goed, ac am hyny efe a gymmerodd gydag ef lu dewisol o filwyr, a chan gael ei arwain gan fradwr, fel y tybir, efe a ddaeth arnynt yn y nos, yn ddiarwybod iddynt, ac a'u hamgylchynodd o bob tu; ac er i'r Cymry wneuthur gwrthasafid dewr dihafal, y saethyddion a'r marchogion a wnaethant alanastr offnadwy yn eu mysg; ac ni allodd ond ychydig o honynt ddianc â'u heinioes yn ysglyfaeth ganddynt.

Wedi y fuddugoliaeth hon, y brenin a gyrchodd yn mlaen, ac a groesodd y Menai i ynys Fon, lle y cosbodd efe y rhai a fuasant yn brif offerynnau dihenyddiad *Roger de Puleston*.—Mae yn dra thebyg mai yn y canlyniad

i hyn y darfu i'r brenin Iorwerth adeiladu castell Beaumaris, er cadw ei arswyd yn fwy ar y Monwysion; ac am dano canai un o'r beirdd fel y canlyn:—

“Llydan oedd castell Edwart,  
A'i dyrnau gwych, a'i dair gwr;  
Caerau Edwart cwncwerwr,  
Tyrau oedd ar gaerau'r gwr.”

Ac y mae yn dra thebyg iddo lunio amryw gyfreithiau caethion a gormeso<sup>1</sup> yn y canlyniad i'r terfysgoedd hyn, o ba rai y mae a ganlyn yn ddyfyniadau:—

“Hefyd y Cymry ni ddygant ganddynt neb ryw arfau ergydiol neu ddi-flynol, i farchnad-drefydd, na ffeiriau, nac eglwysydd, neu gymmanfaoedd, dan gosb o golli y cyfryw arfau, a chael eu carcharu dros flwyddyn.”

“Hefyd, sefydlwyd gan yr arglwydd Iorwerth, goresgynydd Cymru, na fyddai i neb rhyw gymmanfaoedd gael eu cynnal gan y Cymry yn Ngwynedd, tuag at ffurfio cynghorion, neu neb rhyw gynnygion ereill, oddieithr trwy ganiatad y brenin, ac oddieithr bod prif weinidogion yr ardaloedd yn gyd-ddrychiol.”

“Hefyd, sefydlwyd gan yr arglwydd Iorwerth, y goresgynydd, na fyddai i neb ryw Gymry drigo o fewn i'r trefydd caerog, na mwynhau breintiau bwrdeisiol; ond fod i'r maeriaid a'r bwrdeisiaid o'r cyfryw drefydd, eu symud ymaith. Ac na fyddai i'r Cymry ddwyn dim arfau o fewn i drefydd caerog, neu neb rhyw drefydd Seisnig, dan gosb o'u dirywaw o'u harfau, a'u carcharu yn ol ewylllys arglwydd y lle.”

“Hefyd, na fyddai i'r Cymry gadw masnachau oddiallan i'r marchnad-drefi, na gollwng diod i'w werthu, dan gosb o golli eu moddion, a'u carcharu, a thalu dirwy.”

“Hefyd, ni chaiff y Cymry feddiannu neb rhyw diroedd neu ddaliadau o fewn i drefydd caerog bwrdeisiol Saesonaeg, nac o fewn i derynau breiniau i bwrdeisdrefi a'r trefi Seisnig, dan ddirwyad o'r cyfryw diroedd a daliadau.”

“Hefyd, ni chaiff neb rhyw Gymro gyfodi unrhyw fab iddo i neb rhyw urddau eglwysig, ond un—a hwnw yr eilliad cyntaf.”

“Hefyd, ni ddylai un Cymro letya unrhyw ddeythrddyn yn hwy nag un noswaith, oddieithr yr ateby am weithredoedd y cyfryw ddy.”

“Hefyd, nid yw gyfreithlawn i un Cymro wneuthur cytundeb â neb am diroedd neu dai, ond dros bedair blynedd yn unig, dan ddirwyad o'r cyfryw diroedd.”

“Hefyd, ar oresgyniad Cymru, sefydlwyd gan yr arglwydd Iorwerth, y goresgynydd, na fydd i'r *gwestwyr*, a'r *beirdd*, a'r *prydyddion*, a'r dynion segur a chrwydrol, y rhai a geisiant y cynnalieith trethol a elwir *Cym-mortha*, gael eu goddef na'u porthi yn y wlad, rhag trwy eu henllibau a'u celwyddau, y cyfroant y bobl i ddrwg; ac y gorthrymant y bobl cyffredin trwy eu trethiadau.”

Mae y dysgedig a'r craffus PRICE, o Grughywel, yn dadleu nas gwnaed y banau cosbawl yna ar yr un pryd a *Chyfraith Rhuddlan*, ond yn mhen deng mlynedd ar ol hyny—sef, ar adeg ei gadgyrchiad uchod i Wynedd; a sylwa mai yn achos y galanastra a wnaed gan Madawc a'i gyfeillion, yn ffair Gaerynarfon, y ffurfiwyd y ban cyntaf o'r rhai uchod, trwy yr hwn y gwaherddid y Cymry i ddwyn unrhyw arfau i ffeiriau na marchnadoedd. Barnai yr un hanesydd enwog hefyd, fod y ban nesaf wedi ei achlysuraw gan gymmanfaoedd, neu gyfarfodydd i ymgynghori, a gynnelid gan y Cymry tua'r un amser—megys yr un yr ymosododd iarlwr Warwic arno yn

yr Eryri, fel y darluniwyd eisoes. Efallai mai y ban cyfraith olaf yna, yr hwn a gyhoeddwyd yn erbyn y beirdd, a fu y prif achlysur i Iorwerth gael ei gyhuddo o lofruddio y beirdd Cymreig; yr hyn a wnaed, medd y traddodiad cyffredin, yn nghastell Beaumaris. Ond mwy tebyg yw mai cyhoeddiad y gyfraith greulon hon yn erbyn y beirdd, o'r lle hwn, yw yr hyn a olygid mewn gwirionedd, wrth "gyflafan y beirdd."

Ond er i'r gwrthryfel hwn gael ei ddarostwng y pryd hwn, ac i Iorwerth—trwy ei gleddyf, ei gestyll, a'i gyfreithiau caethion—feddwl ei fod wedi gwneyd digon i lwyrr lethu y wreichionen olaf o ysbryd annibynawl a gwladgarawl yn y wlad, caed amlygiad yn fuan nad felly yr oedd; ac yn wir, nid oedd yn debyg y buasai dynion o ysbryd mor uchel a'r Cymry yn ufuddhau yn rhwydd i'r fath gyfreithiau gormesol ag a adroddasom uchod: ac felly, yn fuan wedi ymadawiad y brenin, y tywysog Madawc a ddechreuodd ail gynnull ei luoedd; a lluaaws o'r Cymry a gyrchent yn awchus i ymrestru dan ei faner. Wedi cael nifer led luosawg yn nghyd, efe a wnaeth gadgyrchiad chwyrn i'r cyffindiroedd, ar ymylau Gwynedd; ac wedi cymmeryd tref Croesoswallt, efe a anrheithiodd y wlad o amgylch. Ar ol hyny, gorthrechodd yr arglwydd *L'Estrange*, mewn brwydr, gerllaw y Cnwccyn, lle yr oedd ei gastell ef: ac ar ol hyny, gorthrechodd fyddin arall o'r Saeson mewn brwydr, ac aeth rhagddo tua'r Amwythig. Ond ar ei gywchiad, daeth arglwyddi y cyffindiroedd i'w erbyn, a rhifedi mawr o wŷr dan eu tywysiad; ac ar *Gefn Digoll*, ar ymyl swydd Amwythig y cyfarfuant, lle y bu brwydr hir a gwaedlyd; ond yn y diwedd, y Saeson a drechasant, a chymmerwyd Madawc yn garcharor, ac anfonwyd ef i Lundain, lle y cafodd ei garcharu yn barhaus yn y Twr.

Ond er i'r gorthrechriad yma roddi terfyn ar y rhyfel, a darfod i'r pendefigion Cymreig (wedi colli eu tywysog) ymostwng i'r brenin, nid aeth eu hymdrechion presenol yn ddifudd i'w gwlad; canys gwelodd Iorwerth, yn y tro yma, na allat ddysgwyl ond blinder a gwrthladdiad parhaus trwy ormesu y bobl â chyfreithiau celyd a threthiadau; am hyny efe a dderbyniodd eu hymostyngiad y tro hwn gydag addfwynder mawr; ni chymmerodd einioes neb er cosbedigaeth, ac ni ddirwyodd neb o'u tiroedd; ond yn hytrach, adferodd i etifeddion Cymreig eu tiroedd dirwyedig, trwy yn unig ofyn ad-daliad am y colledion a wnaethpwyd iddo yn y rhyfel. Hefyd, mynodd wystlon am lonyddwch y wlad o hyny allan; ac y mae mae yn debyg iddo gadw amryw o'r pendefigion yn garcharorion mewn gwahanol gestyll yn Lloegr, heblaw y gwystlon a roisid iddo, er dyogelu ei bun rhag eu cyfodiad mewn rhyfel drachefn.—Dywedir fod amryw o'r pendefigion Cymreig yn garcharorion yn y Twr Gwyn y pryd hyn; ac iddynt, er gwneyd eu carchariad yn fwy goddefol, gael caniatad i ddwyn eu hysgriffyfrau yno o Gymru: ac felly y Twr Gwyn a ddaeth i fod yn brif gynnullfan hen ysgrifau Cymreig. Ond er galar i'n gwlad, a cholled i'n llenyddiaeth, y casgliad hwnw a losgwyd oll, trwy ysgelderder rhyw adyn cefnigenus o'r enw *Scolan*—yr hwn, yn gweled y pleser a barent i'r pendefigion Cymreig, a'u cynnullodd yn nghyd yn bentwr, ac a barodd wneyd tanllwyth mawr o honynt. At hyn y cyfeiriai *Gutto* y *Glyn*, bardd enwog o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn un o'i gywyddau:—

"Llyfrau Cymru a'u llofrudd  
I'r Twr Gwyn aethant ar gudd;  
Ysgeler oedd Ysgolan  
Fwrw'r twr llyfrau i'r tân."

Amheua rhai wirionedd y chwedl uchod, am na cheir cofiannau hanesiol i'w chadarnhau; ond nid yw yn annhebyg fod rhyw ran o honi yn wir, er

y gall fod wedi ei mwylhau, trwy ei threigliad fel traddodiad o genedlaeth i genedlaeth.

Mae yn ymddangos ddarfod i Iorwerth ymdrech i gydgorphori dewrion Cymru yn ei fyddin yn fuan ar ol darostwng eu gwlad; ac felly nyni a gawn ei fod, yn fuan ar ol ei ddychweliad i Lundain, yn darparu at gadgyrchiad i'r Alban, ac arweiniodd fyddin gadarn i'r wlad hono, gan ddwyn gydag ef lu mawr o Gymry; ond nid oeddynt hwy yn ymddangos yn hollol foddolawn ar y dechreu i wasanaethu eu hen elyn; ac yn y flwyddyn 1291, o flaen brwydr *Falkirk*, amlygasant y fath gyndynrwydd i ufuddhau i'w orchymynion, a'r fath barodrwydd i dori allan mewn gwrthryfel, fel y penderfynai y brenin o'r herwydd ddychwelyd i Loegr: ond yn y diwedd, enillwyd hwy i ufuddhau, a'r canlyniad fu i Iorwerth orthrechu y fyddin Albanaidd, yr hon oedd dan dywysiad yr enwog *Syr William Wallace*, a gorfu ar y gwron hwnw ffoi.

Yn fuan wedi hyn, anfonai y brenin ei fab Iorwerth, tywysog Cymru, i ddinas Caerlleon ar Ddyfrdwy, i dderbyn gwriogaeth pendefigion Cymru; a'r rhai canlynol a wnaethant wriogaeth iddo:—

Henri, iarll Lancaster, am wlad Monwy.

Rheinallt Gray, am Ruthin.

Yr arglwydd William Martin, am ei diroedd yn Nghemaes.

Rhosser Mortimer, am ei diroedd yn Nghymru.

Henri Lacy, iarll Lincoln, am Ros a Rhyfoniau.

Robert, arg. Montalt (Wyddgrug) am ei diroedd yn Nghymru.

Gruffudd, arglwydd y Trallwng, am arglwyddiaeth Powys.

Syr Gruffudd Llwyd, Marchawg.

Tudur ab Goronw, o Fon.

Madawc ab Tudur, archddiacon Mon.

Einiawn ab Hywel, o Gaerynarfon.

Tudur ab Gruffudd.

Llewelyn ab Ednyfed.

Gruffudd Fychan, mab Gruffudd ab Iorwerth.

Madawc Fychan, o Degeingl.

Llewelyn, esgob Llanelwy.

Richard Pulesdon, sirydd Caerynarfon.

Gruffudd ab Tudur.

Ithel Fychan.

Ithel ab Bleddyn, &c.

O ddinas Caerlleon, y tywysog Iorwerth a aeth i Ruddlan, lle y derbyniodd wriogaeth oddiwrth Richard de Sutton, arglwydd Malpas, am arglwyddiaeth Malpas.

Y diwrnod canlynol, yr oedd yn Nghonwy, lle y derbyniodd wriogaeth Einiawn, esgob Bangor; a Dafydd, abad Maenan.

Hefyd y pendefigion canlynol a wnaethant wriogaeth mewn amryfal leoedd:—Lewis de Felton, am ei diroedd yn Maelawr Saesonaeg; Ioan, iarll Warren, am arglwyddiaeth Maelawr ac Iâl, ac am ei diroedd yn Estyn; yr arglwydd Edmund Mortimer, am ei diroedd o Geri a Chedewain.\*

Yn y flwyddyn 1307, bu farw Iorwerth I.; a'i fab, dan yr enw *Iorwerth yr Ail*, yr hwn a anesid yn Nghaerynarfon, a ddaeth i'r orsedd ar ei ol; a dywedir am dano ei fod trwy ei lythineb a'i afradlonrwydd wedi peri llawer o anneddyddwch i'w dad, yn ei hen ddyddiau.

Nid oes dim hynod wedi ei gofrestru gan ein haneswyr am y Cymry dros ystod blyneddodd cyntaf ei deyrnasiad ef; ond yn unig rhyw gry-

\* Powel's History of Cambria, by Humfrey Llwyd, 4to ed., 1584, pp. 280, 281.

bwyllidau achlysurol fod lluoedd o'u gwyr ieuainc yn gwasanaethu yn myddinoedd y brenin. Ond yn y flwyddyn 1315, cawn fod pendeifig o'r enw *Llewelyn Bren*, yr hwn a wasanaethai swydd urddasol dan *Gilbert de Clar*, iarll Caerloyw, ac arglwydd Morganwg, yr hwn a laddwyd yn mrwydr Bannockburn, wedi ei amddifadu o'i swydd gan *Hugh de Despenser*, yr hwn a olynodd *de Clar* yn yr etifeddiaeth. A'r golled hon, a'r sarhad, yn nghyda gormesiad cyffredinol y Saeson ar ei gydgenedl, a gyffrodd ddigter Llewelyn i'r fath raddau, fel y penderfynodd ymdrechu i gael gan ei gydwladwyr ymarfogi i wrthladd awdurdod eu gormeswyr unwaith eto; ac efe a lwyddodd mewn amser byr i gasglu yn nghyd fyddin o ddeng mil o wŷr; a chyda'r fyddin yma efe a ruthrodd ar gastell Caerffili, ac a'i henillodd, ac a gymmerodd feddiant cyflawn ar y wlad o amgylch. Pan hysbyswyd y brenin am y gwrthryfel yma, efe a anfonodd un *W. de Montacute*, a byddin gref dano, i gynnorthwo iarll Henffordd, ac arglwyddi cyffindirawl ereill, i'w ddarostwng; a chan fod erbyn hyn fyddinoedd rhy gyfion ar y maes i Lewelyn feiddio eu cyfarfod mewn cad reolaidd, efe a enciliodd tua'r mynydd-dir, ac yno cynnaliodd ryfel egniol dros amser yn eu herbyn, gan wneyd rhuthriadau parhaus arnynt, a lladd llawer o honynt. Ond o'r diwedd, amgylchwyd ef gan ei elynion, a gorfu arno ymroddi i'w dwylaw. Pa beth a wnaethant o hono, nis gwyddom—ond y mae lle cryf i gasglu nad aeth ei ymdrechïadau yn ofer; canys yn ebrwydd ar ol hyny, caniatuodd y brenin Iorwerth amryw ragorfreintiau i'r Cymry.

Yn y flwyddyn 1322, torodd gwrthryfel arall allan yn Ngwynedd, dan *Syr Gruffudd Llwyd*, o Drefgarnedd yn Mon, a Dinorwig yn Arfon. Y boneddwr hwn ydoedd fab i Rhys ab Gruffudd ab Eduyfed Fychan; ac a wnaed yn farchog gan y brenin Iorwerth I., ar ei waith yn dwyn y newydd yn gyntaf i'w sawrhydi yn Rhuddlan, o enedigaeith mab iddo yn nghastell Caerynarfon. Efe a barhaodd yn hir yn ddeiliad fyddiawn i goron Lloegr; ond yn nheyrnasiad Iorwerth II., wrth weled y modd yr oedd y swyddogion Seisnig yn gormesu ei gydwladwyr, efe a benderfynodd geisio eu rhyddhau odditan yr iau; ac i'r dyben o ddwyn hyny oddi-amgylch yn fwy effeithiol, efe a gynnygiodd ffurfio cynghair ag *Iorwerth Bruce*, yr hwn oedd y pryd hwnw newydd ei ddirchafu ei hun yn frenin Iwerddon. Cynnygiai *Bruce* ddyfod drosodd i'w cynnorthwo, ar yr amod iddynt roddi iddo ef arbenicter llywodraeth, megys y'i meddiennid yn ei gyflawnder gan eu tywysogion gynt, ac addawai y caent hwythau fwynhau eu tiroedd, a'u breintiau, a'u holl eiddo, yn yr un dull. Ond y mae yn debyg ddarfod i'r Cymry ballu derbyn eu cynnorthwy ar y cyfryw delerau, ac felly terfynodd yr ohebiaeth rhyngddynt; a Syr Gruffudd Llwyd a gynnullodd gynnifer o wŷr ar a allai yn nghyd, gan ymwroli i wneyd a allai heb gymhorth estronol, er cyflawni ei amcanion gwladgarol; ac efe a wnaeth amryw gyrchiadau dynystriol yn erbyn y triog-athau Seisnig, gan gymmeryd meddiant o'r cestyll a'r amddiffynfeydd trwy y wlad. Ond o'r diwedd, efe a lwyf orchfygwyd gan fyddin gref o Saeson; ac efe a enciliodd yn gyntaf i'w amddiffynfa yn Nhrefgarnedd, ac oddiyno i amddiffynfa gadarn arall a barotoisai efe yn lled agos i Lan Hwfa, ac olion yr hon a elwir hyd heddyw, "*Ynys Cefni*." Gwarchaeid arno yma, lle yr amddiffynai ei hun yn wrol dros beth amser; ond o'r diwedd efe a gymmerwyd yn garcharor, ac a ddygwyd i gastell Rhuddlan, lle y bu hyd ddydd ei farwolaeth—yr hyn, debygid, a gymmerth le yn lled fuan. Pa un a ddygwyd ef i Lundain i'w ddibenyddio, fel y dywaid rhai, neu a ddihenyddiwyd ef yn Rhuddlan, fel y dywaid ereill, sydd amhosibl ei brofi. Efallai i Iorwerth, gan adgofio ei gymwynasau blaenorol, a

chan ystyried ei fod erbyn hyn yn henafgwr, a'i ddiwedd yn ol cwrs natu<sup>r</sup> gerllaw, faddeu iddo; neu o leiaf, arbed ei fywyd, a boddloni ar ei gadwr-aeth ddyogel yn ngharchar. Y mae yr hen ddyfrffosydd a wnaeth y gwron hwn oddeutu ei anedd yn Nhrefgarnedd, a'i amddiffynfa yn Ynys Cefni, i'w gweled hyd yr oes hon; ac yn y flwyddyn 1829, cafwyd tua deugain o esgyrniadau dynol, wrth symud clawdd bychan yn Nglan Hwfa, gerllaw Llangefni, y rhai y gallasid meddwl wrth y modd y gorweddent, eu bod wedi eu claddu ar frys; ac yn y maes cyfagos, caed lluaus o esgyrn dynol yn wasgaredig yn mhob cyfeiryd; a'r farn fwyaf hygoel am danynt yw, mai gweddillion y gwyr a gwmpasant yn ngwarcheud Ynys Cefni oedd-ynt. Mae *Gwilym Ddu o Arfon*, mewn pryddest o'r eiddo iddo, tra yn garcharor yn nghastell Rhuddlan, yn rhoddi y ganmoliaeth uchaf i'r pendefig anffodus yma, am ei letygarwch a'i haelfrydedd.

Nid oes ar gael un coffa am derfysg na rhyfel yn Nghymru, o werth ei grybwyll yn y Darlithiau hyn, o'r pryd hwn hyd y gwrthryfel a dorodd allan dan *Owain Glyndwr*—sef dros yspaid o yn agos i bedwar ugain mlynedd; ac nis gallaf roddi gwell rheswm am y cyfnod yma o dawelwch, nag a roddir gan y diweddar Barch. T. Price:—

“Pe gofynid i mi beth oedd achos y tawelwch parhaus yma, atebwn—na allaf gymmeryd arnaf roddi cyfrif am bob amgylchiad offerynol, ond meddyliat y gallaf ganfod un neu ddau yn dra eglur.—Yn y man cyntaf: yr oedd y Cymry, er gwedi methu cynnal eu hannibynolrwydd, eto, trwy eu dewrwyth wrthladdiad o bob cynnygiad idd eu gorthrymu, gwedi sicrhau iddynt eu hunain y cyfryw freintiau, ag nad oedd y iau estronaidd mwyach yn ormesawl iddynt, oddieithr mewn enw yn unig. Yn y man nesaf: yr oedd yr hen dylwythau Cymraeg wedi dechreu dyfod drachefn i fwynhad o gyfwr pendefigol yn y wlad; ac yr oedd eu deiliaid, a'r bobl yn gyffredinol, yn talu iddynt hwy, o serch, y fath utudd-dod ag na allai y dyeithriaid ei gaffael trwy drais a grymusder. Ac yn ddiweddfaf: yr oedd breninoedd Lloegr, yn ystod y talm hwn, yn cynnal rhyfeloedd egniol ar y cyfandir, yn gystal ag yn Mrydain; ac yr oedd rhifedi mawr o'r Cymry yn wasanaethu yn eu byddinoedd, a llawer o honynt yn meddiannu swyddau anrhydeddus ynddynt; ac felly, trwy ryddhad oddiwrth ormesiad gartref, a mwynhad o anrhydeddau milwraidd allan, yr oedd y Cymry yn ymfodddhau idd eu cyflwr, ac yn aros yn ostegol.”\*

Crybwyllasom eisoes am wasanaeth y Cymry yn y byddinoedd Seisnig, yn y cyfnod yma. Bu llawer o honynt gydag Iorwerth III., a'i fab, y *Tywysog Du*, yn mrwydrau Cresci a Phoictiers, yn Ffrainc; ac mewn cyssylltiad â'r frwydr olaf a grybwyllwyd, y mae yr hanesyn canlynol yn deilwng i'w goffhau.—Yn mysg y swyddogion milwraidd Cymreig oedd-ynt yn myddin y Tywysog Du, yr oedd *Hywel ab Einiawn ab Gruffudd ab Hywel*, un o hiliogaeth Collwyn ab Tangno, a brodor o Eifonydd, yn swydd Gaerynarfon. Y gwron hwn a hynododd ei hun yn arbenig yn y frwydr; canys efe a ddifarchodd frenin Ffrainc yn y gad, gan dori pen ei farch ar un dymrod, gyda'i ryfel-fwyall; a'r canlyniad fu, cymmeryd y brenin yn garcharor. Fel gwobrwy am ei wrhydri, efe a wnaed yn farchog ar faes y frwydr, ac a benwyd yn geidwad cestyll Caer a Chricieth, heblaw amryw swyddau buddfawr ereill; ac er cof neillduol o'i orchest-waith, archodd y brenin bod saig o fwyd i gael ei dwyn i'w fwrdd o flaen ei ryfel-fwyall beunydd; ac ar ol ciniawa o hono, bod y saig hono i gael ei rhanu i'r tlodion; ac oddiwrth hyn y cafodd yr enw *Syr Hywel y Fwyall*. Cyfeiriai Hywel ab Rheinalt at y ffaith uchod yn y llinellau canlynol:—

\* Hanes Cymru, td. 768, 760.



"Seiger fy feiger fwyall;  
Daeth hon gar bron y brenin,  
Gwedi'r maes, gwaed ar ei min;  
Ei dysaig, a'i dewiswr,  
A'i diod oedd waed dw'm"

Hyny yw—Gwledder fy ardderchog fwyall; daeth hon ger bron y brenin, gwedi'r frwydr, a gwaed ar ei min; ei gwledd, a'i dewisbeth, a'i diod, oedd y gwaed rhedegog.


Yn y flwyddyn 1277, bu farw Iorwerth III.; a'i wŷr ef, *Rhisiart yr Ail*, a ddaeth yn olynwr iddo, fel etifedd coron Lloegr; ond ni roddodd foddlonrwydd i'r wlad, a bu llawer o gynllwynion yn ei erbyn; ac yn y diwedd, llwyddodd ei elynion i'w yru o'r orsedd, a'i gefnderw a ddaeth trwy draws-feddiant i'r orsedd yn ei le, dan yr enw *Harri IV.*, yr hyn a ddigwyddodd yn y flwyddyn 1399. A chan mai mewn cyssylltiad â'r helyntion hyn yr achlysurwyd gwrthryfel *Owain Glyndwr*, yr ydym yn bresenol yn cael ein harwain yn naturiol i ddechreu gafael yn mhrif destyn y Ddarlith hon.

Enw priodol ein gwron oedd "*Owain ab Gruffudd Fychan*," ac yr oedd o waedoliaeth hen dywysogion Cymru; i.e. mewn gwirionedd, yr oedd tri breninllwyth yn cyfarfod ynddo—sef, yr eiddo *Bleddyn ab Cynfyn*, o Bowys; *Rhys ab Tewdwr*, o'r Deheubarth; a *Gruffudd ab Cynan*, o Wynedd—fel y dangosir mewn llechres achyddol gywrain yn y *Cambro Briton*, cyf. i., t.d. 457, 458.

Fel hyn y cawn yr achau yn y llyfr dywededig:—*Edwin*, y chweched yn mysg pymtheg llwyth Cymru, a gyfenwid yn dywysog neu frenin *Englefeld*. Efe oedd orwyr i Hywel Dda, tywysog Cymru, ac yr oedd yn cyfaneddu yn Llys Llanurgain, tua'r flwyddyn 1041. O hono y disgynai *Ithel Fychan*, mab *Ithel Llwyd*.

## I.


## ITHEL FYCHAN.



## II.

LLEWELYN AB OWAIN, a hanai o Rys ab Tewdwr.

Tomas=Eleanor Goch, wyres Llewelyn, tywysog Cymru.



## III.

*Tri breninllwyth yn cyfarfod yn Owain Glyndwr :—*

1. POWYS.	2. DEHEUBARTH.	3. GWYNEDD.
Bleddyn ab Cynfyn.	Rhys ab Tewdwr.	Gruffudd ab Cynan.
Meredydd.	Gruffudd.	Owain Gwynedd.
Madog.	Arglwydd Rhys.	Iorwerth Drwyndwn.
Gruffudd Maelor.	Rhys Gryg.	Llewelyn.
Madog.	Rhys Mechell.	Gruffudd ab Llewelyn.
Gruffudd, Dinas Bran.	Rhys Fychan =	Gwladus.
Gruffudd Fychan.		
Madog Gloff =	Margaret.	
	Madog Fychan.	
	Gruffudd o'r Rhuddallt.	
	Gruffudd Fychan.	
	Owain Glyndwr.	

Efallai y bydd yn dda gan lawer o ddarllenwyr y Darlithiau hyn weled yr achresau uchod, gan nad yw y *Cambro Briton* yn meddiant ond ychydig o honynt; ac y maent yn profi yn amlwg uchel drâs ein gwron, a'i berthynas agos i *Owain Tudur*, yr hwn, yn mhen oes wedi hyn, a fu yn offeryn uniad breninllwyth y Cymry a'r eiddo y Saeson.

Ganwyd *Owain ab Gruffudd Fychan*, yn ol y tystiolaethau mwyaf credadwy, ar yr 28ain o Fai, 1354; ond y mae rhai yn ceisio haeru mai 1348, neu 1349, oedd blwyddyn ei enedigaeth.\* Ac y mae yn ddiâu ei fod yn moreu ei ddyddiau wedi cael dysgeidiaeth addas i'w gyfoeth a'i fonedd; a gorphenodd ei ddysgeidiaeth yn un o'r prif lysoedd cyfreithiol, fel efrdydd diwyd o'r gyfraith Seisnig. Ond nid yw yn debyg iddo ymarfer nêmaur erioed ar ei alluoedd cyfreithiol; canys denwyd ei feddwl yn fuan gan attyniadau cryfach buchedd filwraidd—i'r hyn, efallai, yr oedd ei dueddiadau naturiol ef ei hunan, ac amgylchiadau gwleidiadol ei oes, yn ei gydgymhell; ac y mae yn ymddangos ddarfod iddo dreulio cryn lawer o'i ieuentyd yn y filwriaeth, ac enill ffafr y brenin Rhisiart yr Ail mewn modd arbenig, gan i'r penadur hwnw ei wneuthur yn gludydd ei arfau, yn ei ryfeloedd yn Ffrainc a'r Iwerddon, cygystal ag yn ei ryfeloedd cartrefol: ac yn wobrw y ei ffyddlondeb a'i bybyrwh, datfu i'r brenin ei urddaw yn farchog, fel y gwelir oddiwrth rai hen gyfysgrifau ydynt eto ar gael; er nad yw yn ymddangos ddarfod i'n gwron byth ddefnyddio y

\* Mae rhai yn dadleu mai yn Nhref Garn, yn swydd Benfro, y'i ganwyd. Ymddengys fod Tref Garn yn breswylfod ei daid o du ei fam—sef, *Thomas Llewelyn*, yr hwn a briodasai *Eleanor Goch*, wyres i Lewelyn, tywysog olaf Cymru; ac nid yw yn annhebyg y byddai ei fam yn treulio peth auster yn Nhref Garn weithiau.

teitl yma, wedi ei enciliad i Gymru, yr hyn a gymmerodd le ar ddiorsedd-  
iad y brenin Risiart, yn y flwyddyn 1399, ac esgyniad Harri IV. i'r orsedd.

Yr oedd ganddo un llys mewn lle a elwir *Sycharth*, ar lan afonig fechan o'r enw Cynllaith, yn mhlwyf Llansilin, swydd Ddinbach; ac un arall yn nghwmwd Glyndyfrdwy, swydd Feirionydd. Efe a briodasai yn lled ieuanc, debygid, â *Margaret*, ferch Syr Dafydd Hanmer, o Hanmer, swydd Fflint, yr hwn a wnelid yn un o'r prif farnwyr, yn y flwyddyn 1383, gan y brenin Rhisiart yr Ail, ac a urddwyd yn farchawg ganddo yn 1387; ac nid yw yn annhebyg i'r anrhydeddau hyn gael eu rhoddi ar y chwegrwn drwy ddylanwad y daw gyda'r brenin.—Am y wraig yma, dywedai *Iolo Goch*, un o'i feirdd teuluaidd:—

“A gwraig oreu o'r gwragedd,  
Gwyn 'y myd o'i gwin a'i medd.  
Merch eglur, llin marchoglyw,  
Urddol, hael, o reiol ryw.”

Ni wyddys pa nifer o feibion a fu iddo o honi, canys y mae hanesyddiaeth yn berffaith ddystaw ar a'hynny; efallai eu bod ar wrthryfeliad eu tad wedi cyrhaedd eu llawndwf, ac iddynt gwympto yn ei frwydrau: ond yr ydys yn gwybod bod iddo *bump* o ferched—yr henaf, *Isabel*, a briodid âg *Adda ab Iorwerth Ddu*; ei ail ferch, *Elizabeth*, neu *Alicia*, yn ol rhai, a briodid â *Syr John Scudamore*, o Ewys a Holm-Lacy, yn swydd Henffordd; *Jonet*, ei drydedd merch, a briodid â *John Crofts*, o Gastell Crofts, yn yr un sir; *Jane*, ei bedwaredd merch, a briodid âg *Arglwydd Grey* o Ruthin, fel y dangosir yn helaethach yn nghorff y Ddarlith hon; a'i bummed merch, *Margaret*, a briodid â *Roger Monington*, o Monington, yn swydd Henffordd. Am ei blant dywaid y bardd—

“A'i blant a ddeuant bob ddau,  
Nythiad teg o bennaethau.”

Heblaw ei blant cyfreithlawn o'i wraig, y mae yn ymddangos fod iddo rai plant basdarddaidd—megys, mab o'r enw *Ieuan*, am yr hwn ni wyddys ddim, heblaw y crybwylliad o'i enw; a merch, yr hon a briododd i deulu Gwernen; a merch arall, o'r enw *Myfanwy*, a briododd â *Llewelyn ab Adda*, o Drefor; a *Gwenllian*, yr hon a briododd â *Phylip ab Rhys*, o Sant Garmon, yn swydd Faesyfed; wrth ganu i'r hon, yn nheyrnasiad Harri VI., y dywedai “*Lewis Glyn Cothi*” am ei thad:—

“Ei thad oedd d'wysog cadarn,  
A holl Gymru fu'n ei farn.”

Ymddengys y byddai Owain yn arfer treulio rhyw gymmaint o'i amser, ar adegau tra yr oedd yn w'r llys i'r brenin Rhisiart, yn un neu y llall o'i lysoedd Cymreig, yn mynwes ei deulu, lle y cyrchai y beirdd i'w groesawu, i'r rhai yr oedd efe yn noddwr arbenig, fel y gwelir oddiwrth ganiadau *Iolo Goch*, ac ereill o honynt—y rhai a alwent ei lys yn “*Sycharth, buarth y beirdd.*” Dywedent hefyd—

“Myned, mae adduned ddain,  
Lles yw, tua Llys Owain;  
Yno yn ddiro ydd af,  
Nid drwg, ac yno trigaf,  
I gym'ryd i'm bywyd barch,  
Gydag ef o gydgyfarch.  
Fe all fy Naf, uchaf ach,

Aur ben clêr, dderbyn cleiriach.  
Clywed bod—nis cel awen—  
Ddiwarth hwy!, yn dda wrth hen.  
I'r llys ar ddyfrys ydd af,  
O deucant odidocaf.  
Llys barwn, lle syberwyd,  
*Lle daw beirdd am le da byd.*”

Yn yr un cywydd, cawn y darluniad a ganlyn o lys ein gwron yn Sycharth; wrth yr hyn y gwelwn ei fod yn byw mewn rhwysg tywysogaidd:—

"Llyna modd y llun y mae,  
Mewn eurgylch, dw'r mewn argae;  
Pa'nd da'r llys—pont ar y llyn,  
Ag unporth, lle'r ai ganpyn:  
Cyplau sydd, bob cwplws ynt,  
Cwpledig bob cwpl ydynt.  
Clochdy Padrig, Ffrengig ffrwyth,  
Cloystr Westmestr, cloiau ystwyth;  
Cenglyn-rhwyn bob congl unrhyw,  
Cafell o aur, cyfa oll yw;  
Cenglynion yn y fron fry,  
Dordor, megys daeard; y  
A phob un fal llun llynglwm,  
Sydd yn eu gilydd yn giwm.  
Tai Napi ar foid deunawplas,  
Ty pren glan mewn top bryn glas,  
Ar bedwar piler eres,  
Ei lys ef i nef yn nes:  
Ar ben pob piler pren praff,  
Llofft ar dalgrofft adeilgraff:  
A'r pedair llofft o hoffder,  
Ynghyd gwplws clau cwsg cler:  
Aeth y pedair dysglaer-lofft,  
Nythlwyth teg iawn yn wyth lofft;

To teils ar bob tŷ talwg,  
Simneiau lle magai mwg,  
Naw neuadd, cofiadd cyflun,  
A naw wardrobe ar bob un;  
Siopau glân glwys, gynnwys gain,  
Siop landeg fel siop Llundain;  
Croes eglwys gylchlwys galchliw,  
Capelau, a gwydrau gwiw.

\* \* \* \* \*  
Garllaw'r llys, gorlliwio'r llall,  
Y pawr ceirw mewn parc arall;  
Parc cwning Meistr por cenedl,  
Erydr, a meirch hydr, mawr chwedl,  
Dolydd glân, gwyran a gwair,  
Ydau mewn caeau cywair;  
Melin deg ar ddiffreg ddw'r,  
A'i g'lomendy, gleyw maendwr;  
Pysgodlyn, cuddiglyn cau,  
A fo rhaid, i fwrw rhwydau:  
Amlaf lle nid yr ymliw,  
Penhwyaid a gwyniaid gwiw;  
A'i dri bwrdd, a'i adar byw,  
Pennod cryhyrod hoyw-ryw."

Ac yna, er darlunio ei letygarwch dihafal, dywaid y bardd—

"Anodd yn fynych yno,  
Weled na chlicied na chlo,  
Na phorthoriaeth ni wnaeth neb,  
Ni bydd eisiau budd oseb,  
Na gwall, na newyn, na gwarth,  
Na syched fyth yn SYCHARTH."

Yn nheyrnasiad Rhisiart yr Ail, bu cyfraith boethlyd rhwng Owain a Rheinallt, arglwydd Grey, o Ruthin, mewn perthynas i ryw gyttir, o'r enw *Croesau*, a orwedda i rhwng arglwyddiaethau Rhuthin a Glyndyfrdwy. Y gyfraith hono a enillwyd gan Owain y pryd hyn. Ond yn y fwyddydd gyntaf o deyrnasiad Harri IV., darfu i arglwydd balch a thrachwantus Rhuthin gydio yn y cyttir dywededig, gan farnu na byddai i Owain gefn bellach, wedi diorseddiad ei noddwr; ac am hyn y byddai yntau yn debycach o gario ei amcan arno. Buasai hyn yn anogiad digonol i ddig-ofaint un o dymher llai tanbaid na'n gwron; ond er ei anrhydedd, rhaid tystio na chymmerth efe arfau i ymladd dros ei hawlion, nes gwneyd pob ymdrech a ellid yn gyntaf i geisio terfynu yr amrafael trwy foddion tynerach. Efe a ddygodd gwyn i'r senedd yn gyntaf, o herwydd gwaith yr Arglwydd Grey yn trawsfeddiannu ei hawlion cyfiawn ef; ond yr oedd yr amserau wedi newid—canys ei gyfaill a'i noddwr Rhisiart oedd yn dderseddedig a charcharedig, fel nas gallasai wneyd dim drosto; a Harri, yr hwn a drawsfeddiannu ei orsedd, ni theimlai unrhyw garedigrwydd at Owain, am ei fod wedi parhau yn fyddlawn i'r brenin Rhisiart hyd y diwedd; ac felly gwrthodid ei apeliad gyda dirmyg—yr hyn yn ddiaf a ddwfa archollai deimladau gwr o fath "Owain Glyndwr." Ond nid digon o draha ar y gwron Cymreig oedd y cam yma o eiddo arglwydd Grey, rhaid hefyd oedd iddo gael llychwinaw ei anrhydedd, yr arfod gyntaf a gafodd,  
RHIF, 9.

trwy ei ddarluniau fel un anffyddlawn i frenin Prydain. Canys pan oedd y brenin Harri ar gychwyn allan, ar gadgyrchiad yn erbyn yr Ysgotiaid, efe a wysiodd ei farwniaid a'u harfogion i'w ddilyn; ac yn mysg ereill, yr oedd Owain yn un o'r cyfryw farwniaid a wysid. Ond yn anffodus i heddwch y deyrnas, rhoddwyd dyfuneb (*writ*) y brenin i'r arglwydd Grey i'w chludo i Owain; ond efe a'i cadwodd yn fwriadol mor ddiweddar, fel na byddai yn ddichonadwy i Owain a'i ganlynwyr ymddangos yn mysg y bsrwniaid ereill. Ei absenoldeb a briodolid gan Harri yn y fan i anffyddlondeb, ac anuffudd-dod bwriadol; yr hyn a wnelid o'r Cymro i'r brenin, gan yr arglwydd Grey. Y canlyniad fu, i "Glyndwr" gael ei gyhoeddi yn fradwr, a'i feddiannau yn ddirwyedig; a dywedir fod Grey, dan yr esgus o'r dirwyad yma, wedi goresgyn y rhanau hyny o etifeddiaethau Owain a orweddent yn nesaf i'r eiddo ei hun. Ymdrechai *John Trefor*, esgob Llanelwy, gael gan yr arglwyddi ymbwylo, a gwrando ar gwynion cyfiawn Owain, rhag trwy eu traha arno, a'u hannglyfiawnder tuag ato, y cyffroid holl genedl y Cymry i wrthryfel. Ond yn lle amlygu y wreichionen leiaf o dosturi at Gymro dewr ac urddasol, dan orthymderau llymion, rhai o'r arglwyddi a atebent yn drahaus, nad oedd arnynt hwy ddim o arswyd y crwydriaid troednoeth hyny. Erbyn hyn, yr oedd y digofaint a fuasai yn hir groni yn mynwes ein gwron yn erbyn Harri—o'r funyd y bradychasiid ei benadur cyfiawn i'w ddwylaw, trwy gelwydd ac anudoniaeth, hyd yr awr hon; ac yn awr, pan welai efe ormesur anonest yn cael ei gefnogi gan benadur annglyfiawn i'w yspellio o etifeddiaethau ei hynafiaid tywysogaidd, ac ar yr un pryd yn dirmygu ei genedl, nis gallai ymatal yn hwy, ond dechreuodd ymbarotol i amddiffyn ei gam ei hun, a'r eiddo ei gydgenedl, trwy arfau, gan nas gellid cael cyfiawnder un ffordd arall; ac fel hyn y dechreuodd gwrthryfel, yr hwn a barhaodd am oddeutu pymtheng mlynedd, yn yr hwn y colodd *can' mil* o ddynion eu bywydau.

Y weithred gyntaf o eiddo Owain, mewn canlyniad i'r driniaeth annglyfiawn hon, oedd cynnull ychydig Gymry glewion o'i ddeutu, ac wedi eu harfogi, adfeddiannu y tiroedd a ddygasid oddiarno o'r blaen; ac er ad-dalu i arglwydd Grey am y camwri a gawsai, cymerodd feddiant trwy drais o ranau helaeth o'i feddiannau ef, yr hwn oedd ar y pryd yn y llys breninol: ac nid oes amheuseth genyf na buasai Owain yn dodi ei gleddyf yn ei wain, ac yn boddloni ar hyn o ymddial ar ei hen elyn Grey, gan dreulio y gweddill o'i oes yn dawel yn mysg ei deulu, oni buasai i frenin Lloegr ystyried yr ymosodiad yma fel ymosodiad arno ef; ac anfon yr arglwydd Grey ei hunan, ac arglwydd Talbot, gyda byddin nef o filwyr breninol, i ymosod arno, ac i'w gosbi am yr hyn y dewisent hwy ei alw yn wrthryfel, heb ystyried cyfiawnder hawl Owain i'w etifeddiaeth ei hunan, yr hon a ddisgynasai iddo drwy y fath linell o hynafiaid urddasol, ac a ddygid oddiarno mor annglyfiawn gan ei gymmydog gelynel a thrahaans. Mor bell oedd Owain o fwriadu cyfodi gwrthryfel yn erbyn y brenin, fel nad oedd ganddo y parodrwydd lleiaf i wrthladd yr arglwyddi hyny, y rhai a fuant o fewn ychydig iawn i lwyddo yn eu hamcan i'w gynneryd yn garcharor—canys yr oeddynt bron wedi amgylchynu ei dŷ cyn gwybod o hono am eu dynesiad; a thrwy ei gydnabyddiaeth ragorach yn llanerch yn unig y llwyddodd efe i ddianc i goedwig gyfagos, lle yr ymguddiai dros amser; ac wedi ei lwyr argyhoeddi bellach, nad oedd na thrugaredd na chyfiawnder iddo ef i'w ddysgwyl oddiar law y brenin, yr hwn a amlygai bob penderfyniad i'w lwyr ddystrywio ef, er arhwydeddu arglwydd Grey, efe a gynnullai fintai o ewyllysyr da, dewrion ac arfog, ac ar ddyddgwyl ffair Rhuthyn—yr 20fed o Fedi, 1400—efe a'y llawein-

iodd i'r dref ddywededig, ac a losgodd y rhan fwyaf o honi, gan ysglyfaethu ysglyfaeth fawr, a lladd llawer o'r trigolion, yn gystal a'r masnachwyr Seisnig a ddaethent i'r ffair; a'r rhai a ddiangasant, â'u heinioes ganddynt, a gawsant achosion i alaru eu colledion, trwy yspeiliad neu ddystrywiad eu meddiannau. Wedi i Owain orphen hyn o orchwyl, efe a encilioedd i'r mynyddoedd, er llechu yn rhai o'r amddiffynfeydd anhgyrch hyn, hyd oni chynnullid mwy o'i gydwladwyr dan ei luman.

Ymdaenai y newydd am doriad y gwrthryfel yma allan, fel tân gwyllt, trwy bob rhan o Gymru; ac ymdynai lluoedd at luman Owain, yr hwn y decreuent ei alw yn barod yn "*Dywyssog Cymru.*" Yr oedd rhai o'r gwyr hyn yn cael eu cymhell i ymgynnull at Owain, ac ymrestru yn ei fyddin, oddiar ddygasedd personol at arglwydd Grey; rhai oddiar elyniaeth wladbleidiol at Harri, yr hwn a ystyrient fel trawsfeddiannydd yr orsedd; ac yr oedd amryw o'r myneich, yn enwedig y rhai o'r urdd Ffrancisaid, o'r golygiad yma, gan eu bod yn bleidwyr trwyadl i'r brenin Rhisiart; ac y mae yn ymddangos eu bod hwy yn brysyr yn anog y bobl i gefnogi Glyn-dwr yn ei wrthryfel, gan eu bod yn cofio yn dda mor ffyddlawn y buasai efe i Rhisiart hyd y diwedd, a'u bod yn gwybod mai am hyn y'i gormesid mor greulawn. Ond y nifer fwyaf o lawer oeddynt ddynton o ysbryd gwladgarol, y rhai yr oedd eu heneidiau yn llosgi ynddynt, gan awydd am ryddhad eu cenedl odditan iau y Saeson—ymddygiadau tra arglwyddiaethol y rhai, yn enwedig arglwyddi y cyffindiroedd, oeddynt wedi myned yn annioddefol iddynt. Ac yr oedd y beirdd yn gwneyd eu goreu i feithrin yr ysbryd yma, gan adgofio yr hen ddaroganau barddonawl a gedwid yn draddodiadol yn mysg y bobl, nes enyn tanchwa o wladgarwch ac ysbryd annibynol yn mysg y genedl; a chyferchid Owain yn eu caniadau dan yr enw "*Mab y Darogan.*" gan eu bod yn dysgwyl y cyflawnid ynddo eu hoff obeithion am adenilliad annibyniaeth a rhyddid eu gwlad, a dialoedd ar eu gormeswyr.

Fe dybia rhai mai ar Gaer Drewyn, yn agos i Gorwen, yr oedd gwersyll Owain y pryd hyn—tua'r fan lle y buasai Owain Gwynedd o'i flaen yn crynhoi ei fyddinoedd; ond os bu ei wersyllfa dros beth yspaid yno, galleu gasgu iddo ymfudo yn lled fuan i rai o'r amddiffynfeydd oeddynt yn nghalon yr Eryri; canys fe'n hysbysir ddarfod i Harri, wedi clywed am y parotoadau hyn, wysio holl rym milwraidd deg o swyddi Lloegr i ymfyddinaw, a phenderfynu arwain y fyddin gref hono yn bersonol i Gymru, er ffrwyno y gwrthryfelwr eofn yma, a darostwng y gwrthryfel, cyn iddo gael amser i gynnyddu i'w gyflawn nerth; ac efe a arweiniodd ei fyddin can belled ag ynys Fon, gan ladd a difrodi y ffordd y cerddai, heb arbed hyd yn nod y crefydd-dai. Yn Llanfaes, gerllaw Beaumaris, yr oedd crefydd-dy a adeiladasai Llewelyn ab Iorwerth, ar feddrod ei dywysoges Joanna; efe a anrheithiodd yr eglwys, a rhanau ereill o'r adeiladau, gan ladd rhai o'r myneich, a chymmeryd y lleill yn garcharorion, ac yspeilio eu trysorau, am fod myneich Llanfaes o urdd y Ffrancisaid, ac felly yn gyfeillion Rhisiart yr Ail, ac o dan y drygdyb o fod yn gefnogwyr y gwrthryfel presenol. Ond gan fod y myneich hyn yn faich i'r brenin yn ei fudiadau, efe a roddodd eu rhyddid iddynt yn mhen rhai dyddiau; ond cyfleoedd frodyr llwydion Seisnig yn Llanfaes, yn y rhai y gallasai ymddiried. Ond gan fod Owain yn ymgadw yn nghilfachau y mynyddoedd, ac yn gwyllo megys eryr ar holl symudiadau y fyddin freninol, bu raid i Harri ddychwelyd y pryd hwn, wedi treulio yn agos i dri mis ar y cad-grychiad, ond heb fod yn ddim nês i ddarostwng y gwrthryfel. Ar yr 8fed o Dachwedd, dyroddodd holl etifeddiaethau Owain, yn Ngogledd a Deheubarth Cymru, i'w frawd ei hun—*John*, iarll Somerset; ond nid oedd

hyny, chwedl un hanesydd, namyn gwerthu y croen cyn dal yr arth; canys ni chawn banes iddo eu perchenogi dros ei oes; ac o ganlyniad, yr oedd y fath weithred yn dra annoeth o du y brenin, gan nas meddai rym digonol i roddi awdurdod ynddi; ond yr oedd yn gyfryw ag a berai i'r Cymry ei gashau yn fwy, ac ymdyru yn fwy awchus at luman Owain, er cryfhad mawr i'w blaid a'i achos. Ac efallai i'r brenin ganfod hyn yn fuan; canys yn dra disymwth efe a ostyngai ei wrychyn, ac a wisgai arwedd addfwyn a diniwed hynod, gan lefaru geiriau mwynion heddwch, yn lle cyhoeddi bygythion o'r tân a'r cleddyf; ac ar y 30ain o Dachwedd, efe a anfonai gyhoeddiad allan, yn yr hwn y cynnygiai gymmeryd dan ei nawdd bob Cymro a ddeuai i Gaerlleon, gan wneyd eu hymostyngiad i'w fab *Henry*, ac wedi hyny y byddent yn berffaith rydd i ddychwelyd i'w cartrefleoedd. Ond ychydig iawn oedd nifer y rhai a gymmerasant fantais ar y tiriondeb yma o'i eiddo; canys yr oedd hen ysbryd milwraidd eu tadau erbyn hyn wedi dechreu enyn yn mynwesau y Cymry unwaith eto, fel y cyrchent yn lluoedd calonawg i gefnogi ymdrechion yr hwn a gyfrifent fel eu tywysog a'u gwaredydd. Nid amheuaf er hyny, pe buasai y brenin yn ymostwng i anfon cenadwri at Owain ei hunan, gan ymrwymo i ffrwyno trachwant arglwydd *Grey*, a sicrhau i Owain, a'r pendefigion Cymreig ereill, fwynhad dyogel o etifeddiaethau eu tadau, heb oddef i neb o arglwyddi y cyffindiroedd i'w gormesu—na buasai heddwch yn cael ei selio yn y fan, ac o ganlyniad arbedasid miloedd o fywydau Cymry a Saeson, a aberthwyd yn yr ymrafael a ddilynodd: ond yn y ddau gyhoeddiad heddychol a anfonodd y brenin allan o Gaerlleon, efe a gauai Owain, ac amryw foneddwyr ereill—megys *Rhys ab Tudur* a *William ab Tudur*—allan o gylch ei drugaredd. Yr oedd amryw foneddwyr o Gymru yn cyfaneddu yn Lloegr, er mwyn dysgu yr iaith Seisnig, neu ddilyn rhyw drafnidiaeth; ac ereill yn myddin y brenin, cyn i'r gwrthryfel dori allan; eithr pan glywsant am wrhydri Owain, hwy a ddychwelasant yn lluoedd i'w gwlad, ac ymstrasant dan faner eu cydwladrwr dewr; ac mor bell oedd ei gydwladrwyd o'i fradychu, er mwyn enill ffafr y brenin, fel yr oedd byddin Owain yn myned ar gynnydd beunydd, hyd onid oedd bellach yn gref o ran nifer a sel, os nid o ran medrusrwydd a dysgyblaeth filwraidd.

Gan fod gan ein gwron etifeddiaethau yn Ngogledd a Deheudir Cymru, a bod iddo garedigion ac ewyllsyrwyr da yn y ddwy ran o'r dywysogaeth, efe a benderfynodd sefydlu gorsaf filwraidd ar ben Plinlumon; ac felly, wedi gosod rhanau o'i fyddin i gadw meddiant o rai o brif amddiffynfeydd Gwynedd, efe a arweiniodd y gweddill tua'r mynydd-dir crybwylledig, ac ar ei ffordd, efe a arheithiodd diriogaethau arglwyddi y cyffindiroedd, gan gymmeryd Trefaldwyn trwy ruthr, a llosgi rhanau o'r Trallwn â than, er colled fawr i *Edward*, iarll Powys—llawer o dir-ddeiliaid yr hwn a gefnogent y gwrthryfel, tra yr oedd efe yn gyfaill mynwsol i'r brenin. Y lle nesaf a deimlodd oddiwrth ddialedd Owain oedd abbatty Cwm Hir, a chastell Maeliennydd, neu Faesyfed, lle y bu efe yn lladd ac yn llosgi yn ddi-arbed. Mae yn dra thebyg mai un prif reswm am ei ymosodiad ar y fath grefydd-dy ag abbatty Cwm Hir, oedd fod y myneich a'i cyfaneddent wedi eu dangos eu hunain yn orbrysus yn eu cefnogaeth o'r brenin Harri, a'u gwrthwynebiad i Owain a'i achos; a dywedir iddo beri lladd holl warchodlu castell Maeliennydd a'r cleddyf, yr hyn sydd yn rhoddi lle i ni gaelgw ei fod wedi cael rhyw gyffroad neillduol o'r lle hwn. Yr oedd y sefyllfa a ddetbolasai Owain i drefnu ei wersyll—ar Blinlumon—yn dra manteisiol i wneyd ei gadgyrchiadau yspeligar ar y rhandiroedd cylchynol, ac i amddiffyn ei hunan yn erbyn byddin lawer lluosocach, yn gymmaint a'i fod 248 troedfedd goruwch wyneb y môr ar drai. Gallasai ei ddyrnaid gwŷr,

wedi eu hamddiffyn o fewn eu ffosydd milwraidd cedyrn, wrthladd holl rym yr arglwyddi cyffindirawl dros dymhor maith, ond meddu ystôr dda o ymborth ac arlwy rhyfel yn y gwerysll.

Gan fod Owain yn gwybod yn dda bod y Ffandrwyisiaid a gyfaneddent Ddyfed a Cheredigion, yn ddeiliaid tra fyddlawn i'w cymmwynaswyr—breninoedd Lloegr—efe a'u blinai yn lled dost, gan wneyd aml gadgyrch- iad yspeilgar i'w tiriogaethau, o'i wersyllfan uchel, nes y penderfynasant o'r diwedd wneyd cais teg i roddi pen arno ef a'i ruthriadau. Felly wedi cynnull yn nghyd bymtheg cant o arfogion, hwy a'i hamgylchynasant ef a rhan o'i fyddin, ar fynydd Hyddgant, fel y bu yn gyfyng iawn arno; ond efe a anogodd yr ychydig wŷr oeddynt o'i ddeutu i werthu eu heinioes mor ddrud ag y gallent, ac ymdrechu i dori eu ffordd trwy y fyddin elynol —er nad oedd o'honynt namyn dau neu dri chant o wŷr; ac felly y torasant eu ffordd trwy eu rhengau, gan adael o'honynt yn lladeddig ar y maes uwchlaw dau cant o wŷr, a gyru y lleill ar ffo, fel pe buasai mintai o ellyllon wedi ymosod arnynt. Y fuddugoliaeth hynod hon a chwaganodd boblogrwydd ein gwron drwy y dywysogaeth, ac a fu yn achlysur i luosogi ei ganlynwyr yn ddirfawr; a'r brenin Harri, yn clywed y newyddin hyn, a orfodid o'i anfodd i goledd syniadau uwch nag a feddai o'r blaen am wrolder a medrusrwydd ei wrthwynebydd; ac yn y canlyniad, efe a ddaeth i Gymru yr ail waith, gan arwain byddin gref a gynnulasid o ddyw ar hugain o siroedd ei deyrnas, ac efe a gychwynai ar y cadgyrchiad yma tua dechreu Mehefin; ond nid oes nemawr i'w ddywedyd am dano, heblaw fod y fonachlog ysplenydd yn Ystrad Fflur wedi ei dstrywio, a'r wlad mewn rhai parthau wedi cael ei hanrheithio yn dost, a llwyddo o'r brenin i lithio amryw o'r pendefigion Cymreig, a gefnogent Owain hyd hyny, i gefnu arno. Ond wedi i'w fyddin ddyoddef yn ddirfawr trwy ludded a newyn, Harri a ddychwelodd yn ol i Loegr, heb enill iddo ei hun fwy o anrhydedd trwy y cadgyrchiad hwn na'r un blaenorol; ac ni ddi-galonid dim ar ein gwron trwy fod William ab Tudur, a boneddwy'r ereill, yn troi yn ffeilsion iddo; eithr efe a aeth rhagddo yn ei rweyg milwraidd, ac ychwanegid beunydd at ei fyddin: ac oddeutu dechreu y flwyddyn 1402, canai *Iolo Goch* y cywydd canlynol iddo:—

"A'r drydedd, cymmyredd ced,  
I Wynedd wiw a aned;  
Yn anian fawr, yn un fodd,  
Unsaill, ac yn un ansodd;  
Yn ganaid ruddel felen,  
Yn gadr, ei phaladr a'i phen.  
Pawb achlan o'r lle'r hanwyf,  
A ofyn im', eoffi wyf,  
Budd a ddaw i'r llaw lle'r el,  
Beth yw'r seren, boeth awel?  
Myfi a wŷr lwy'r loyw-ryw,  
Deall hyn, a dilyn yw:—  
Dur yw ei phaladr, neu dân,  
A draig i'r Mab Darogan:  
Ni bu er talm, wiwsalm wedd,  
Ser iawn i sir o Wynedd;  
Ond y seren eleni  
Sydd o newydd i ni;  
Gem yn arwain in' gymmod,

Gan Dduw glan, gwn iddi glod.  
Teg yw rhad goleud gwrdd,  
T'wysoges y tes agwrdd;  
Tan o fron y tyno fry,  
Tywynodd rbad Duw yny:  
Lle diffoddes dygesynt  
Y dalai'th a'r gyfraith gynt;  
Uchel y mae, uwchlaw Mon,  
Yn ngolwg yr angelion;  
Piler o aur goreu-ryw,  
Post o gwŷr o'r awyr yw.  
Y naill a gawn, gwiwdawn gwŷr,  
Ai Pab, ai brenin pybyr:—  
Brenin, hael am win a medd,  
Dewr a gawn o dir Gwynedd;  
Duw a ddyg—fo'n di ddigia—  
Gwynedd i gael diwedd da;  
Golau glan i gael y glod,  
Ag arfau, a chwedl gorfod."

Y cywydd uchod a genid ar yr achlysur o ymddangosiad soren wib, yr hon a ddylanwadai feddyliau y lluaus ofergoelus yn dra ffafrawl i Owain



a'i achos. A thra yr oedd y beirdd—yr athrawon mwyaf dylanwadol a feddai y genedl—yn priodoli y fath genhadaeth i'r ymddangosiad wybrenawl dyeithia w'l hwn, nid rhyfedd bod llawer o'r werin anwybodus ac ofergoelus yn credu fod ein gwron wedi ei gyfodi gan y Goruchaf i weithio allan ryddid ac annibyniaeth i'w genedl, a dial eu cam ar eu gormeswyr trahausfalch; a'r amgylchiadau a gymmerasant le dros yspaid ar ol hyn a dueddent yn fawr i'w cadarnhau yn eu cred: canys oddeutu y pryd hwn yr oedd arglwydd Grey, ffynhonell y cynen hwn, yn gwneyd parotodau mawrion i ymosod ar ein gwron, gan benderfynu rhoddi pen tragyfyth ar ei rwysg. Ond pan ddeallodd Owain hynny, efe a dynodd allan ei gynllun yn ddioed; ac yn lle sefyll ar ei ddiffyniad, a dysgwyl i'w elyn daro y dyrnod cyntaf, efe a arweiniodd ei wŷr i gymmydogaeth Rhuthin, ac wedi cyffeu y rhan fwyaf o'honynt mewn ymguddfa, efe a aeth gyda mintai fechan at y castell, fel pe buasai ar fedr ymosod arno; a phan oedd y castellwyr yn parotol i'w gyfarfod, enciliai yn ddisymwth, fel pe buasai yn ofni cyfarfod byddin grefach ei elyn; a'r arglwydd Grey, yn meddwl ei fod yn ei law, a ruthrodd gyda'i wŷr ar ol y ffoedigion—y rhai, pan gyrhaeddasant y fan lle yr ymguddiai eu cymdeithion mewn arfau, a droisant fel llewod ar eu herlynwyr, gan eu gorchfygu yn rhwydd; ac yn yr helynt cymmeryd yr arglwydd Grey yn garcharor. Ond er clod i'r gwron Cymreig, er cymmaint o gamwri a gawsai efe ar law yr arglwydd Grey, nid ymollyngodd i gyflawni arno ei deimladau dialgar, wedi ei gael i'w ddwyllaw—yn unig efe a barodd ei gadw yn garcharor yn un o amddiffynfeydd yr Eryri, lle y bu dros rai misoedd. Ond o'r diwedd efe a ryddhawyd, ar yr amodau o dalu i Owain ddeng mil o farciau, y rhai oeddynt y pryd hynny yn werth 13s. 4c.—neu gyfwerth â 2p. 2s. 0c. yn bresenol. Heblaw hynny, rhoddid ef dan rwyngau i fod yn hollol annhleidiol o hyny allan, ac i briodi un o ferched Owain. Ac er mor annhebyg oedd y buasai yr arglwydd Grey byth yn cydsynio â'r amod olaf, cymmaint oedd ei arswyd rhag ail enyn ei ddigofaint, fel y darfu iddo briodi *Jane*, ei bedwaredd ferch, yn ddioed wedi ei ryddhad; ac nid oes genym air o son iddo ddwyn arfau yn erbyn Owain byth mwyach: ac am yr iawn, dywedir fod y rhan fwyaf o hono wedi dyfod o drysor y brenin.

Wedi i Glyndwr gael y fath fuddugoliaeth ar ei brif elyn, efe a drodd ei arfau i ddial ar rai o'i brif gydwladwyr a barhaent i'w wrthwynebu yn ei ymdrechion dros annibyniaeth ei genedl, gan gefnogi Harri frenin, yr hwn a gyfrifai efe yn ormesdeyrn anngyfiawn. Un o'r cyfryw ydoedd *Ieuan ab Meredydd*, arglwydd Cefn y Fan, a'r Gesail Gyfarch, yn Eifionydd; ac yr oedd y boneddwr hwn yn gefnogwr trwyadl i'r brenin, tra yr oedd ei frawd *Robert* yn swyddog yn myddin Owain. Anrheithiodd Owain ei feddiannau, a llosgodd ei balasau hyd lawr; ac yntau ar hyny a ffordd i Gaerynarfon—canys iddo ef, yn nghyda *Meredydd ab Huwelyn Llwyd* o'r Glynllifon, yr ymddiriedasid cadwraeth y dref hono dros y brenin; ac yr oedd yno warchodlu Seisnig yn cadw y castell. Tywysodd Owain ei fyddin i Gaerynarfon, ac a warchaeodd arni dros enyd o amser; ac yn yr yspaid hynny bu farw *Ieuan*, a chlodwyd ei gorph yn ddirgel ar hyd y môr, i'w gladdu yn Mhenmôrfa, yr ochr arall i'r wlad. Gan fod Owain yn gweled nad gorchwyl hawdd oedd cymmeryd Caerynarfon, am na feddai beiriannau cyfaddas i ddryllio ei muriau cedyrn, efe a gododd y gwarchae, ac a anrheithiodd amryw o brif grefydd-dai Gwynedd—megys, eglwysi cadeiriol Bangor a Llanelwy, a'r adeiladau perthynol iddynt, y rhai a ddymchwelwyd ganddo yn gydwastad â'r llawr. Mae yn ymddangos mai Saeson a benodasid i'r esgobaethau hyn er y goesgyniad; ac o ganlyniad, i estroniaid—caredigion a chyfeillion y cyfryw esgobion Seisnig—y rhoddid

y bywiolaethau mwyaf gwerthfawr yn y rhan yma o'r dywysogaeth, yr hyn a barasai anfoddlonrwydd cyffredinol i'r brodorion: a'r cyfryw estroniaid oeddynt yn fradwrus i Owain a'i achos: yr hyn all fod yn un rheswm am arllwysiad dialedd Owain arnynt. Ond heblaw hyny, efallai fod ganddo "ddant" neillduol at *Trefor*, esgob Llanelwly—yr hwn, ar ei ddyrchafiad i'r esgobaeth, a gymmerasai arno fod yn gyfaill ffyddlawn i Risiart frenin; ond ar drawsfeddianniad Harri o'r orsedd, nid yn unig cefnasai yn ddi-ddiolch ar ei gymmwynaswr blaenorol, ond ymroddasai i gefnogi Harri mor aiddgar, fel y cyhoeddai y ddedfryd o ddiorseddiad ar Risiart, ac y cydsyniai i fyned ar genadwri i lys yr Hispaen, er cyfiawnhau ymddygiadau y trawsfeddiannwr. Ond o fewn corph y fwyddyn yn yr hon y dychwelodd efe o'r Hispaen, llosgid ei eglwys a'i lys esgobawl gan Owain; ac yntau—byth am gefnogi y blaid lwyddiannus—wrth ganfod rhwysg a llwyddiant y gwron Cymreig, a gefnodd ar Harri, ac a bleidiodd Owain; am yr hyn y darfu i'r brenin ei fwrw o'r esgobaeth. Ond y mae yn debyg fod dylanwad tywysog Glyndyfrdwy yn ddigonol i sicrhau cyllidau yr esgobaeth iddo hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerth le yn y Mharis, yn y fwyddyn 1410: felly ymddengys ddarfod i'r esgob fod yn ffyddlawn i Owain dros yr wyth mlynedd olaf o'i einioes.\* Y mae awdwyr ereill yn haeru, ddarfod i Harri—oddiar ystyriaeth fod cynddaredd Owain yn erbyn *Trefor* yn cael ei achosi gan ffyddlondeb yr esgob i'w fawrhydi—erchi iddo gael dal bywiolaethau Meifod, y Trallwm, a Chegidfa, er cynnal ei urddas dros yspaid anrheithiad ei esgobaeth.†

Mae yn debyg mai tua'r adeg yma y darfu i Owain roddi y gospedigaeth ofnadwy hono ar ei gâr—*Hywel Sele*, o Nannau—am ei fod yn elyn gwleidyddol iddo, o'r hyn y mae traddodiad byw hyd heddyw yn amgylchoedd Dolgelleu.—Dywedir fod abad y Cymmer, monachlog gyfagos i anedd *Hywel Sele*, yn awyddus i gael gan Owain ac yntau ymheddychu, wedi dyfseio rhyw lwybr i'w cael i gyfarfod â'u gilydd: ac ymddangosai tebygolrwydd mawr fod ei amcan ar gael ei gwblhau. Ond fel yr oedd y ddau gefnderwydd yn cydrodio yn mharc Nannau, a *Hywel*, yr hwn a gyfrifid yn un o saethyddion goreu yr oes, yn dwyn ei fwa ar ei fraich—Owain yn canfod hydd yn pori, a gyfeiriai ati fel nod rhagorol i'w saeth. *Hywel* ar hyny a dynai yn ei fwa; ond yn fradwrus, troai yn ddisymwth, a gollyngai ei saeth yn gymhwys at fynwes Owain; ond yn ffodus, yr oedd ein gwron yn arfer gwisgo arfwisg ddur dan ei ddillad, trwy yr hyn y siomwyd y bradwr yn ei amcan; a chanlynwyr y tywysog Cymreig, y rhai oeddynt dystion o ymddygiad ysgeler *Hywel*, a'i daliasant, ac a'i dygasant ymaith; a meddylir eu bod, drwy orchymyn Owain, wedi ei fwrw i geubren oedd yn y parc, lle y'i gadawsant i drengu; ac yn mha le, meddir, y caed ei esgyrn-glw m'n mhen tua deugain mlynedd wedi hyny.

Ereill a ddywedant, mai cyfarfod â'u gilydd yn ddamweiniol a wnaethant, fel yr oedd Owain yn hela yn nhiriogaethau *Hywel*: i'r ddau fyned i ymdaeru, ac o hyny i ymladd â'u gilydd: i *Hywel* gwmpo yn yr ymladdfa, ac i'w gorph marw gael ei fwrw i'r ceubren.—Yn mhen tua deugain mlynedd ar ol hyny, cyfaill i Owain *Glyndwr*, yr hwn oedd yn y fan pan gymmerai hyn le, a anfonodd hysbysiad o'r peth i rai o berthynasau *Hywel*, ac felly y caed ei esgyrn-glw ef yn y ceubren; a hyd hyny nis gwyddai neb o deulu arglwydd Nannau pa beth a ddaethai o hono. Yr hen dderwen hynod hono a fu yn sefyll yn mhaic Nannau dros oesoedd lawer ar ol hyny, ac adwaenid hi wrth yr enw "Ceubren yr Ellyll;" ond

\* Gwel "Parry's Cambrian Plutarch," p. 250.

† "Memoirs of Owen Glendower, by the Rev. T. Thomas," p. 90.

ar nos y 13eg o Orphenhaf, 1813, pan oedd yr hin yn desog a thawel, hi a gwmpodd gan ei phwysau ei hun.

Pan fynegwyd i'r brenin am yr anrheithiau parhaus hyn o du Owain, efe a benderfynodd wneyd un ymdrech eto i'w lethu; ac i'r dyben hyny, ar y pummed o Fehefin, efe a anfonodd wŷs at raglwaiad deuddeg ar hugain o swyddi, i erchi arnynt grynhoi eu lluoedd milwraidd yn nghyd, a chyfarfod ág ef yn Litchfield, ar y 7fed o Orphenhaf, er gwneyd pen ar y gwrthryfel. Ond tra yr oedd y brenin yn cynnull ei fyddinoedd, dygid y newydd cythryblus iddo fod gwron Glyndyfrdwy wedi enill buddugoliaeth bwysig ar un o'i brif faeslywyddion—*Syr Edmund Mortimer*—wedi brwydr galed a gwaedlyd, yn agos i Knighton, yn swydd Faesyfed; yn yr hon frwydr y collasai Mortimer un cant ar ddeg o wŷr, y rhan fwyaf o honynt yn lladdedigion ar y maes; ac yn y frwydr, cyfarfuasai Glyndwr yn bersonol â Mortimer, ac wedi ei ddfarchlu, efe a'i cymmerasai yn garcharor: enillwyd y fuddugoliaeth ysplenydd hon ar yr 22ain o Fehefin. Ar ol y llwyddiant yma, aeth Owain rhagddo trwy y Deheubarth, gan dywallt ei lid ar y Saeson a wladychent yn y parthau hyny, cyn y gallent uno eu lluoedd â'r eiddo y brenin, yn gystal ag ar y Cymry anwladgar, y rhai a gefnogent estroniaid yn hytrach na'u cenedl eu hunain, ar y fath gyfnod. Yn y cadgyrchiad yma, efe a anrheithiodd gastell yr esgob yn Llandaf, ac a losgodd Gaerdydd a'i mynachlogydd, dinystriai gastell Penmarc, a losgodd y Fenni a'i chastell, Crughywel a'i chastell, a Thre'r tŵr; ac yna prysurodd i Wynedd, er amddiffyn y wlad hono rhag goresgyniad y brenin, gan yr hwn yr oedd tair byddin gref i'r pwrpas—un yn gwersyllu yn Henffordd, y llall yn y Mwythig, a'r drydedd yn Nghaerlleon ar Ddyfrdwy, er mwyn blino y Cymry o gynnifer o bwntiau ar unwaith. Ond ein gwron a barotodd groesawiad cynnes iddynt, gan ysgubo y wlad o'u blaen o bob defnydd cynnalïaeth iddynt, ac encilio gyda'i ychydig wŷr i'w lochesau mynyddig: a'r canlyniad naturiol oedd i newyn, haint, ac an-foddlonrwydd, ddylenwi rhengau y fyddin Seisnig; a'r hin, gan droi yn dra gwlybyravg a thymhestlawg, a orphenodd eu hafliwydd, fel y bu raid i Harri encilio yn warthus y tro hwn eto, wedi methu cwblhau dim o'i amcanion: a'i ganlynwyr anfodua ymgyssurent, trwy briodoli eu hafliwydd i ddewiniaeth y gelyn, yn hytrach nag i'w fedr a'i ddewdr. Ac at y dyb gyfeillornus yma y cyfeiriai Bardd *Avon*, yn y llinellau hyny a ddyry efe yn ngenau Owain:—

“Where is he living, clipp'd in with the sea,  
That chides the banks of England, Scotland, Wales,  
Who calls me pupil, or hath read to me?  
And bring him out, that is but woman's son,  
Can trace me in the tedious ways of art,  
And hold me pace in deep experiment?  
I can call spirits from the vasty deep.”

Ac y mae yn dra thebyg mai at yr enciliad yma o eiddo Harri y cyfeiriai efe yn y llinellau canlynol drachefn:—

“Three times did Henry Bolingbroke make head  
Against the Welch; thrice from the banks of Wye,  
And sandy-bottom'd Severn, did they send  
Him bootless back, and weather-beaten home.”

Yn fuan ar ol hyn, ymgynghreiriai ieirll Northumberland a Douglas yn erbyn y brenin; a chan eu bod yn barnu y buasai yn dra manteisiol iddynt gael y gwron Cymreig i'r cynghrair, mab iarl Northumberland—*sef Henry Percy*, yr hwn a gyfenwid “*Hotspur*”—a wnaeth y cynnygion i Owain, â'r

hyn y cydsyniodd yntau yn galonawg : ac prawf o'i ddiffuantrwydd, efe a ryddhai Mortimer heb na gwerth na gwobrwy, yn ddiamedol. Er cadarnhau y cynghrair yma, yn gystal a chynllunio eu gweithrediau rhagllaw, cyfarfu *Percy* ieuanc, *Owain*, ac *Edmund Mortimer* yn nhy deon Bangor;\* ac ar yr achlysur hwnw, penderfynid rhanu y deyrnas, o'r tu deheuol i'r afon Tweed, rhwng y triwriad: Syr Edmwnt Mortimer—ar ran ei nai, yr *Iarll March*, yr hwn oedd o dylwyth etifeddion coron Lloegr, ac felly a ystyrid yn meddu yr hawl uchaf—oedd i gael yr holl wlad rhwng Trent a Hafren, hyd derfynau deheuol a dwyreiniol yr ynys; iarll Northumberland oedd i gael y rhan o'r ynys a orweddai ar y tu gogleddol i'r Trent; ac arglwydd Glyndyfrdwy oedd i gael yr holl diriogaeth ar y tu gorllewinol i'r Hafren, yn ychwanegol at dywysogaeth Cymru, yr hon a hawliai fel ei dreftadaeth.

Gorchwyl cyntaf ein gwron, yn y canlyniad i ffurfriad y cynghrair hwn, ydoedd ceisio cydsyniad ei gydwladyr i'w waith yn cymmeryd arno ei hun awdurdod freninol yn y dywysogaeth; ac i'r perwyl hyny, gwsysodd gymmanfa genedlaethol i ymygarfod yn Machynlleth; lle y gwnaed cydnabyddiaeth ffurfiol o'i deitl fel tywysog Cymru, a chyflawnwyd hyd yn nod y ddefod o'i goroni; ac ymddangosai yr undeb mwyaf diffuant yn y gwyddfodolion i gydnabod ei hawlion. Ond yr oedd yn eu mysg un bradwr—sef, *Syr Dafydd Gam*—yr hwn, dan y rhith o gymmeradwyo yr amcan cyffredinol, a ddaethai i Fachynlleth ar y gwir fwriad o lofruddio Owain, ac felly gwblhau amcanion Harri, i'r hwn yr oedd yn bleidiwr gwresog; ac efallai ddial sarhad a gawsai efe ei hunan, neu ei geraint, yn rhai o gadgyrchiadau blaenorol y tywysog i froydd Maesyfed a Henffordd. Ond ei fwriad ysgeler a ddarganfyddwyd pan oedd ar gael ei roddi mewn gweithrediad; daliwyd y bradwr—ac efe a roisid i farwolaeth yn y fan, oni buasai i rai o gyfeillion mynwesol y tywysog eiriol drosto; ond efe a garcharwyd yn ddyogel yn naiardy Glyndyfrdwy dros deng mlynedd—sef, hyd derfyn rhwysg Owain. Dywedir fod ei garchar yn 13 troedfedd ysgwar, a 10½ troedfedd o uchder. Mae ei adfeilion yn agos i eglwys Llansantffrad Glyndyfrdwy; ac fe'i gelwir hyd heddyw "Carchardy Owen Glyndwrwy."

Tua'r adeg yma ar oes ein gwron y cyfansoddai ei brif fardd, Iolo Goch ei "Gywydd Molawd" iddo, lle y dywaid—

"Pablaidd gorph, pobloedd a gur,  
Post addwyn, bael, pais dewddur;  
Por a ladd mewn ymladdgors  
Pedwar can' mil o hil Hors.  
Pen nen pur, mur mawr waladr,  
Por glew, llew llym, cyflym cadr;  
Prudd Nudd Ner yw'r Muner mau;  
Por dor dar yw'r gwanar gwinau;  
Pleidiwr brwydr, paladr briwdwn:—  
Poed gwir bywyd hir i hwn;  
Pedr i'w borth, pa dir y bo;  
Pwy mwy i swydd? pum' oes iddo!"

Mae yn sicr fod Owain a'i ganlynwyr yn golygu eu hachos yn dra gobeithiol yn awr; ac yn dysgwyl, trwy gydweithrediad *Hotspur* a *Mor-*

\* Y deon hwn oedd Dafydd Daron, o Aberdaron—mab i Efa<sup>11</sup> ab Dafydd ab Gruffudd, o hiliogaeth Caradawg ab Iestyn, tywysog Cymru; ac yn Aberdaron y bu y cyfarfod pwysig uchod. Yr oedd y lle hwn yn dra neillduedig, dyogel, a manteisiol i gynnal y cyfryw gynghorfa.—*Mem. of Owain Glyndwr*, pp. 106, 107.

*timer*, y buasai terfyn buan yn cael ei roddi ar rwysg a breniniaeth Harri, ac annibyniaeth y Cymry yn cael ei sicrhau dan eu tywysog. Ond yr oedd haner dydd Owain wedi pasio yn senedd Machynlleth, a dysgwyliadau gloywaf ei ganlynwyr a siomwyd yn mrwydr drychinebus y Mwythig, am yr hon y rhoddaf adroddiad byr yn nesaf.

Yn y canlyniad i'r cynghrair crybwylledig, yr hwn a ffurfiwyd yn Aberdaron, cynnullai *Percy* a *Douglas* eu galluoedd, a chyfeirient eu camrau tua chymffiniau Cymru, a byddin o tua deuddeng mil o wŷr dan eu llywyddiad. Harri frenin a brysurodd i wrthladd y gwrthryfelwyr gogleddol hyn â byddin gref iawn, ac a gyrhaeddodd Burton ar y Trent erbyn yr 16eg o Fehefin; ond pan ddeallodd fod *Percy* wedi myned rhagddo o'r Mwythig, er mwyn ymuno â byddin Owain Glyndwr—yr hwn, gyda phymtheng mil o wŷr, a wersyllai gerllaw Croesoswallt—efe a brysurodd, yn ol cynghor iarl Dunbar, tuag yno, fel y gallai orfodi *Percy* i ymladd cyn ymuno â'r fyddin Gymreig; a thrwy gyflymdra ei symudiad y tro hwn yn unig y cadwodd efe ei goron—canys efe a feddiannoedd y wlad rhwng y Mwythig a Chroesoswallt cyn bod dim mwy na rhyw bedair mil o wŷr Owain wedi gallu ymunaw â byddin *Percy*, y rhai a ymladdasant â gwrhydri teilwng ddydd y frwydr—sef yr 21ain o Fehefin. Gan fod gwŷr y brenin yn meddiannu y bont, ni allasai Owain yn ei fyw ddyfod gyda'i wŷr i gynnorthwyo *Percy* yn y frwydr; ac y mae hen geubren derwen gerllaw y ffordd o'r Mwythig i Groesoswallt, am yr hon y mae traddodiad fod Owain o'i ben yn gweled y frwydr bron ar hyd y dydd, ac felly yn dyst o faeddiad ei gyfeillion, a siomiant ei obeithion, heb allu gwneyd dim er lluddias y naill na'r llall.

Dywedir fod tua dwy fil a thri chant o bendefigion ac uchelwyr wedi eu lladd yn y gad hon—y rhan fwyaf o honynt o fyddin y brenin; ac oddeutu chwe' mil o filwyr cyffredin—dwy ran o dair o ba rai oeddynt o fyddin *Percy*. Lladdwyd *Percy* ei hunan, a *Syr Jenkin Hanmer*, brawd yn nghyfraith Owain, yr hwn oedd swyddog ar y Cymry; a'r ieirll *Worcester* a *Douglas* a gymmerwyd yn garcharorion; y cyntaf a ddihenyddiwyd yn y Mwythig—ond ar eiriolaeth mab y brenin, tywysog Cymru, ymddygyd yn dynerach at *Douglas*.

Pe buasai Owain wedi gwneuthur rhuthr ar fyddin y brenin, yn ei lludded ar derfyn y frwydr hon, gallasai ei llwyr orchfygu; a gallasai—yn nghyda'r rhai a ddiangasant o wŷr *Percy* ac iarl Northumberland, yr hwn oedd yn cynnull byddin i'w cynnorthwyo—effeithio y chwyldroad a fwriadent yn y deyrnas hon; ond gan iddo encilio, a throi at ei hen orchwyl o anrheithio tiriogaethau, ac yspeilio meddiannau arglwyddi y cyffindiroedd, colodd yr arfod oreu a ymgynnygiodd iddo yn ei oes.

Yn nechreu y flwyddyn 1404, cawn fod cynghrair ymosodol a diffynol yn cael ei ffurfio rhwng Owain a brenin Ffrainc, yr hwn ni chydabuasai eto gyfiawnder hawl Harri i goron Lloegr. Y cynghrair crybwylledig a gadarnhawyd ac a law-nodwyd yn Mharis, ar y 14eg o Fehefin, 1404; ac a gymmeradwywyd gan Owain yn nghastell Llanbadarn, gerllaw Aberystwyth, Ion. 12, 1405. Cenhadon Owain i lys Ffrainc ar yr achlysur yma, ydoedd *Gruffudd Yonge, LL.D.*, a *Syr John Hanmer*, ei frawd yn nghyfraith. Yn y cyfamser, ymosodai Owain yn egniol ar y cestyll perthynol i'r Saeson oeddynt yn aros eto yn Nghymru; ac efe a gymmerth amryw o honynt, gan ddystrywio rhai, a gosod gwarchodwyr yn y lleill; yn mys y rhai cryfaf o honynt y cyfrifid cestyll Aberystwyth a Harlech.

Ar un achlysur, yn fuan wedi i'n gwron gymmeryd y cestyll hyn, fel yr oedd efe yn cyrchu tua swydd Drefaldwyn, efe a gyfarfu—yn annysgwyladwy, debygid—â byddin gref o Saeson, dan dywysiad iarl Warwic, ar

fynydd Cwm du, y rhai yn ddisymwth a ymosodasant arno, a laddasant lawer o'i wŷr, ac a'i gorfodasant yntau i encilio; ond yn fuan ar ol hyny, efe a dalodd y pwyth iddynt; canys efe a adgynnullodd ei wŷr, ac a ymlidodd ar ol y fyddin freninol, yr hon a oddiweddodd gerllaw Craig y Dorth, yn agos i Fynwy, ac yno efe a roes gurfa dost iddynt, gan eu hymlid hyd byrth Mynwy, a phob tref a chastell arall i'r rhai y ffoisant. Yn fuan ar ol y fuddugoliaeth uchod ger Craig y Dorth, cyfarfu ein gwron âg afwydd: canys fel yr oedd mintai o'i bleidwyr, hyd wyth mil o nifer, y rhai a gynnulasid yn y Deheubarth, yn ol arfer yr oes, yn anrheithio ac yn llosgi y trefydd a'r amddiffynfeydd y ffordd yr elent—cyfarfuwyd hwy gan fyddin Seisnig, dan lywyddiad *Syr Gilbert Talbot*, ac a lwyr orchfygwyd, gan adael o honynt *fil o wŷr* yn lladdedig ar y maes. Gwnaeth Owain ei oreu i adgweirio y rhwyg yma, gan anfon ei fab *Gruffudd* gyda byddin o wŷr i chwilio am y gelyn, yr hwn a ymladdodd frwydr arall â'r Saeson, ar fynydd y Pwll Melyn, yn swydd Frycheiniog; ond bu hon mor anffodus i'r Cymry a'r un flaenorol—yn gymmaint ag i bymtheg cant o'i wŷr naill ai cael eu lladd nen eu carcharu: yn mysg y carcharorion yr oedd ei fab *Gruffudd*, a'i frawd *Tudur* yn mysg y lladdedigion. Yr oedd y fath debygrwydd yn yr olaf hwn i'w frawd Owain, fel yr ymorfoleddai y Saeson yn ddirfawr, gan feddwl mai Owain ydoedd, a chyhoeddent bod yr arch-wrthryfelwr Cymreig wedi ei ladd; ond erbyn sylwi ar y corph yn fanylach, gwelid mai yr eiddo Tudur, ac nid Owain ydoedd, gan nad oedd yr un ddafad uwchben ei lygad ef, yr hon a wahaniaethai Owain oddiwrt h ei frawd. Nid yw yn annhebyg bod brwydr arall wedi ei hymladd gerllaw Caerlleon ar Wysg, yn fuan ar ol yr un flaenorol, yn yr hon y llywyddid y fyddin Seisnig gan y tywysog Harri, ac y gorchfygwyd Owain drachefn. Yr afwyddau olynol yma, a thaeniad y chwedl fod Owain ei hunan wedi ei ladd, a barodd i'w brif gefnogwyr ymwasgaru bawb i'w fan, gan ddirddelw i lluman y gwrthryfel can gynted ag y gallent, rhag disgyn o honnynt dan ddialedd y brenin: a bu y tymhor hwn yn gyfnod o ddyoddef cyfyngderau a chaledi dirfawr i Owain ei hunan, yr hwn a orfyddai grwydro o fan i fan, i ymofyn nawdd gyda'r ychydig gyfeillion ffyddlawn a ymlynant wrtho eto; a rhag tynu drwg yn mhen y rhai hyny a'i coleddent ac a'i celent, efe a geisiai loches yn aml mewn ogofeydd a diffeithfaoedd. Bu dros beth amser yn llechu mewn rhyw geunant ddofn, ar ochr Moel Hebog, gerllaw Beddgelert; ac y mae ogof yn agos i lan y mor, yn mhlwyf Llangelynnin, swydd Feirion, a elwir "Ogof Owain" hyd heddyw, lle y'i cynnelid yn ddirgelaidd gan *Ednyfed ab Aaron*, boneddwr o'r gymmydogaeth hono, o wehelyth Ednowain ab Bradwen.—Pa hyd y bu fel hyn, nis gwyddom i fanylwydd; ond gallem gasglu na fu yn faith iawn—canys cyn diwedd yr un fwyddyn, glaniodd 140 o lestri o Ffrainc, yn dwyn deuddeng mil o arfogion yn gynnorthwy iddo, yn angorfa Aberdaugleddau; ac Owain a lwyddodd i gynnwll tua deng mil o wŷr, y rhai a arweiniodd efe mor fuan ag y gallai i ymunaw â hwy, ac yn Ninbych y Pysg, yn swydd Benfro, y cyfarfuant; a'r man cyntaf a gymmeryd ganddynt oedd tref Caerfyrddin; ac oddiyno cyfeiriasant i *Worcester*, a llosgasant ran fawr o'r dref, gan anrheithio y wlad oddiamgylch. Ond yn fuan daeth y brenin Harri a'i fyddin i'w herbyn; ac yn lled agos i *Worcester* bu y ddwy fyddin yn gwersyllu ar gyfer eu gilydd dros rai dyddiau, heb fod y naill mwy na'r llall yn barod i wneyd yr ymosodiad cyntaf; ac eto y mae yn ymddangos fod y Cymry wedi llwyddo i gymmeryd amryw gludfeni llwythog o ymborth i'r fyddin freninol, a bod y Saeson wedi lladd oddeutu dau cant o'r Ffrancod mewn rhyw ysgarmesau—yn mysg pa rai yr oedd rhai o'r prif bendefigion. Pa fodd bynag, fel y gwesgid ar y

fyddin freninol gan brinder ymborth, gwelai y brenin mai goreu oedd oddi ef encilio; a'r Cymry hwythau a ddychwelasant i'w gwlad, lle y'u dylenyd yn fuan gan y Ffrancod.

Ymddengys fod y Ffrancod wedi blino ar Gymru yn fuan, a dychwelyd i'w gwlad eu hunain, heb wneyd nemawr wasanaeth i'n gwron. Hwy a hwyliasant i Ffrainc yn ngwanwyn y flwyddyn 1406; ond daeth cyfnerthiad arall yn eu lle yn fuan—sef y gweddill o fyddin led gref a adasai lenydd Ffrainc, mewn 38 o longau—wyth o barai, yn llwythog o arfogion, a gymmerasid gan lnyges Lloegr; a'r gweddill a ddiangasant yn yr anhrefn mwyaf, a rhai o honynt a gyrrhaeddasant Gymru: ond ni allasant fod o gymborth mawr i Owain, gan fod llawer o'i gefnogwyr yn Nghymru yn cefnu arno bellach, gan farnu ei achos yn anobeithiol. Ac yr oedd gwrthryfeliad gwyr Ystrad Tywi, yn swydd Gaerfyrddin, yn ei erbyn, y rhai a fuasant yn gefnogwyr tra gwerthfawr iddo o'r blaen, yn ddyrnod andwyol ar ei achos ef.

Ryw bryd yn y flwyddyn hon y darfu i *iarll Northumberland* ac *arglwydd Bardolf*, y rhai oeddynt alltudion yn yr Alban—wedi cael achos i ofni fod yr Albaniach ar fedr eu bradychu i'r brenin—encilio i Gymru, lle yr hyderent y'u dyogelid yn ffyddlonach dan aden eu hen gyfaill Owain, yr hwn yn wir a'u derbyniodd yn groesawus; ond yn nghorff y flwyddyn ganlynol gwelsant hwythau fod achos eu noddwr yn myned yn fwyfyr anobeithiol, ac am hyny barnasant yn ddoeth iddynt ymfyn am nodded newydd mewn rhyw wlad arall.

Y blyneddoedd canlynol o oes ein gwron a dreulid ganddo mewn rhuthriadau achlysurol ar drefydd ac amddiffynfeydd arglwyddi Seisnig y cyffindiroedd, meddiannau y rhai a yspeiliai efe yn ddiarbed, gan eu dwyn i'w lochesau mynyddig, lle yr oedd ef a'i ganlynwyr yn gallu ymgadw yn ddyogel o ddwyllaw ei elynion, er ei fod yn rhy egwan i ymgymmeryd âg un rhyfelgyrch o bwys. Er hyny, y mae yn ymddangos fod ein gwron yn parhau i arhoni rhwysg ac awdurdod dywysogaidd; canys nynt a'i cawn yn pardynu rhai o'i gydwladyr tua'r pryd hwn—yn enwedig gw'r o'r enw *John ab Hywel ab Ieuan Goch*, yr hwn a ddyddiasid yn "Cefn Llanvair, Ion. 10fed, yn y chweched flwyddyn o'm teyrnasiad." Ac ar y cŵyr â'r hwn y seliasid y weithred yr oedd bathiad o Owain Glyndwr, yn dal teyrnwialen yn un law, a chronen (*globe*) yn y llall. Ond nid oedd hynyna amgen nag ymdrech i gadw y cysgod wedi i'r sylwedd ddiiflanu: yr oedd ei fawredd a'i rwysg wedi ei adael, ac nis meddai ond nifer fach o ganlynwyr—y rhai, fel yntau, ni phlygent i gydnabod awdurdod y Saeson, ac a ymhyrtydent mewn gwneuthur rhuthriadau annysgwyladyw o'u llochesau mynyddig ar gefnogwyr ffyddlonaf y brenin Harri, ac yna encilio yn ol mor gyflym ag y gallent i'w hamddiffynfeydd, a'u hysbail ganddynt. Y cadruthrau hyn a wnelid gan amlaf yn erbyn arglwyddi y cyffindiroedd, i'r rhai yr oedd ei enw yn ddychryn; ac amryw o honynt a ddarbyllid i ymhedlychu âg ef, er mwyn cael mwy o ddyogelwch i'w personau a'u meddiannau; ac nid oedd hyn yn annymunol gan Owain, oblegdy ei fod trwy hyny yn cael gwell arfod i fino y lleill; a dchreuid y flwyddyn 1409 gydag anrheithiadau ofnadwy o'i du ef ar arglwyddi y cyffindiroedd, ac yn mysy ereill gwnaeth golledion mawr i *arglwydd Powys*, yr hwn oedd yn un o anwyliaid y brenin; ac ar hyny Harri a archai i arglwydd Powys osod gwarchodluoedd cryfion yn ei holl gestyll, a chadw ei holl wŷr dan arfau, gan wneyd pob ymdrech i lwyr lethu y gwrthryfel yn Nghymru, ac anfonodd genadwriaethau i'r un perwyl at y lleill o arglwyddi y cyffindiroedd—megys *Edward*, dug Caerefrog; *Thomas*, iarll Arundel; *Richard*, iarll Warwick; *Rheinallt*, arglwydd Grey o Ruthin, yr hwn a fuasant yn

achlysur o ddechreu y rhyfel, ac amryw ereill—gan eu gwahardd i ymbeddychu âg Owain ar un cyfrif. Ac y mae yn debyg i hyn gael rhyw gymmaint o effaith ar Owain, canys ni chanfyddwn ei fod yn gwneyd rhuthriadau mor eofn ar feddiannau ei gymmydogion mwyach; ond cyfyngai ei weithrediadau milwraidd gan mwyaf i hunanddiffyniad.

Yn ystod y cadgyrchiadau yspeilgar a grybwyllwyd, deallwn i ddau o swyddogion goreu Owain—y rhai a anrheithient ranau helaeth o swydd y Mwythig—gael eu dal trwy fywiogrwydd barwniaid y brenin, a'u hanfon yn garcharorion i Lundain, lle y'u rhoddyd i farwolaeth. Enwau y ddau swyddog hyn oedd *Rhys Ddu* a *Phylip Scudamore*; a dywaid *Cacston* fod Rhys wedi ei ddwyn o flaen y barnwyr, y rhai a'i dyfarnent fel bradwr i gael ei luso ar glwyden drwy y ddinas, i Tyburn, lle y'i dihenyddid; ac yna bod ei bedwar aelod i gael eu hanfon i bedair o ddinasoedd ereill, a'i ben gael ei gyfleu ar bont Lundain.

Cawn hefyd enwau amryw Gymry ereill, y rhai oeddynt yn garcharorion yn nghastell Windsor, gwŷr pendeifigidd yn ddiau, pe angen ni chwarent eu carcharu yn y castell dywededig, y rhai y gorchymynai y brenin iddynt gael eu trosglwyddo i Syr William Lisle, pen distain Lloegr, i'w dihenyddio; dyma eu henwau—

Hywel ab Ieuan ab Hywel.  
Walter ab Ieuan Fychan.  
Rhys ab Ieuan ab Rhys.  
Ieuan Goch ab Morgan.  
Dafydd ab Tudur.

Rhys ab Meredydd.  
Dafydd ab Cad.  
Madog ab Bery.  
Jenkin Backer.  
Thomas Dayler.

Nid yw yn ymddangos i nemawr amgylchiadau o bwys gymmeryd lle yn nghorph y flwyddyn 1410. Yr oedd swydd Fflint, gallem feddwl, yn dra rhanedig yn ystod yr ymrafaelion hyn; a chawn Harri, tywysog Cymru, yn caniatáu maddeuant i amryw dirddeiliaid yn nghwmwd Cwnsylvll, am ymrestru o honynt dan luman y gwrthryfelwr. Un o'r enw *Owain ab Aldud*, a wrthladdai y Saeson ar y cyffiniau hyn yn dra effeithiol, gan gadw holl Degeingl dan ei lywodraeth dros oddeutu tair blynedd, sef hyd oni chafodd faddeuant am ei ymlyniad wrth Owain. *Hywel Gwynedd*, yr hwn a ddisgynai o Edwin, arglwydd Tegeingl, ac un o bymtheg llwyth Gwynedd, a fu dros yspaid maith yn ddraen yn ystlysau y Saeson yn swydd Fflint. Y milwr glew yma a ddaliwyd, trwy gynllwyn ei elynion o dref Fflint; ac heb unrhyw brawf cyfreithiol, torwyd ei ben ar Foel y Gaer, yn mhlwyf Llaneanurgain, a rhoed ei etifeddiaeth i un o'r enw *Saxton*. Mae y fan lle gorweddai llys Edwin, o fewn tua miltir i'r gogledd-orllewin o'r eglwys, yn gylchynedig gan amglawdd (*moat*.) Yn y flwyddyn hon hefyd y darfu i Trefor, esgob Llanelwy, wrth weled achos Owain yn myned yn anobeithiol, encilio i Paris, lle y bu farw, ac y'i claddwyd.

Yn y flwyddyn 1412, cawn fod y brenin yn awdurdodi rhai o'i brif swyddogion—sef, *Syr John Tiptofte*, a *William Botiller*—i geisio dyfod i ryw gytundeb âg Owain, am ryddhad Syr Dafydd Gam; neu yntau ymdechu i ddal rhai o hoff gyfeillion Owain, fel y gallent eu cyfnewid am y bradwr; ac y mae yn ymddangos ddarfod iddynt lwyddo yn eu cais, a bod Dafydd wedi ei ryddhau, ar yr amod nas dygan arfau mwy yn erbyn Owain, ac nas gwnelai ddim er gwrthladd ei amcanion. Ond er iddo ymrwmo i hyn oll yn ddirifol, can gynted ag y cyrhaeddodd allan o gylch awdurdod Owain, efe a ymosododd ar ei bleidwyr, ac amlygai friadau Owain i'r brenin, can belled ag yr oeddynt yn wybyddus iddo. Ac Owain, yn gosb am ei fradwriaeth, a losgodd ei dy ef yn gydwestad â'r llawr. Gweithred nesaf Dafydd oedd yn un dra gwaradwyddus; canys mewn ymrafael ar yr heol yn Aberhonddu, efe a laddodd ei gâr, *Rhisiart Fawr*,



arglwydd Siwch; ac yn y canlyniad, bu raid iddo ffoi o'r wlad. Yn y flwyddyn 1415, efe a gyfododd fintai o wŷr yn swydd Frecheiniog, y rhai a arweiniodd efe yn gymhorth i'r brenin yn ei gadgyrchiad i Ffrainc, ac yma efe a enillodd iddo ei hunan ddirfawr glod, ar derfyn ei einioes. Efe a anfonwyd gan y brenin i wneyd arylwadau ar nifer y fyddin elynol, ac ar ei ddychweiliad a wnaeth yr atebiad hygyf hwnw—"Y mae yna ddiagon o honynt i'w lladd, digon i'w cymmeryd yn garcharorion, a digon i ffoi." Yn y frwydr hono y darfu i *Dafydd, Roger Fychan* ei fab-yn-nghyfraith, a *Walter Llwyd* ei gar, achub bywyd y brenin, ar draul eu heinioes eu hunain; a'r brenin a'u hanrhydeddodd âg urdd marehogion, fel yr oedd-ynt yn trengu ar y maes. Yr oedd yn ddyr tra gwrol, o gorpholaeth cryf, gwallt coch, a llygaid croesion—am ba achos y'i gelwid *Dafydd Gam*.

Yr oedd dau garcharor enwog o Gymru wedi syrthio i ddwyllaw y brenin tua'r pryd hyn—sef 1412; nid amgen na *Rhys ab Tudur*, o Benmynydd, Mon, a'i frawd. Y rhai hyn oeddynt hynafiaid *Owain ab Meredydd ab Tudur*—a elwir yn gyffredin *Owain Tudur*—o'r hwn y disgynai llinach freninol y Tuduriaid; y gwŷr uchod a ddihenyddiwyd yn Nghaerlleon ar Ddyfrdwy. Gallen feddwl mai ar ol rhyddhad Dafydd Gam y cymmerwyd y pendeigion hyn yn garcharorion, neu y buasid yn eu cynnyg hwy, a hwythau yn geraint i Owain, yn gyfnewid am y gwŷr hwnw, gan fod y brenin mor awyddus am ei waredigaeth.

Yn y flwyddyn 1413, esgynodd Harri V. i orsedd Lloegr, yn lle ei dad; a thros flyneddodd cyntaf ei deyrnasiad, nid ymddengys ei fod wedi cymmeryd nemawr sylw o helynt y Cymry; ac yn wir, ymddengys fod ei holl feddwl wedi ymlenwi gan ei gynlluniau yn erbyn Ffrainc. Yn y cyfamaer, y tywysog Cymreig a arasai yn ddyogel yn ei encilfa fynyddig, heb gynnwng ar unrhyw orchestion teilwng eu cofnodi; er hyny, mae yn ymddangos fod Harri a'i gynghoriaid yn ei gyfrif yn gyfryw elyn ag yr oedd yn ddoeth iddynt arfer unrhyw foddion i'w heddychu: am hyny, yn y flwyddyn 1415, ymstyngai y brenin i anfon cenad ato—sef, *Syr Gilbert Talbot*, o Grafton, yn swydd Worcester, mab ieuengaf *John*, ail iarl y Mwythig—wedi ei gyflawn awdurdodi i wneuthur amodau heddwch âg ef, gan gynnwng maddeuant cyflawn i Owain a'i ddilynwyr, os y'i dymuent. Tybir mai ei gyfryngwr ar yr achlysur oedd *Dafydd Holpetch*, isoruchwylwr arglwyddiaethau Bromfield ac Ial. Ond ni fynegir i ni pa beth a ddaeth o'r cynnygiad haelfrydig yma: efallai i angau derfynu y gyflafareddiaeth hon.

Terfynodd ein gwron ei obeithion a'i ofnau ar yr 20fed o Fedi, 1415, yn yr 61ain flwydd o'i oedran. Y dywedriad cyffredin yw, iddo farw yn nhy un o'i ferched; ond pa un ai *Scudamore* ai *Monington* sydd ansicr. Y tradodiad yn swydd Henffordd yw, iddo farw yn nhy ei ferch o *Monington*, ac iddo gael ei gladdu yn mynwent yr eglwys hono; ond y mae ereill yn dadlue mai yn *Kentchurch* y'i claddwyd, gan fod un o'i ferched wedi priodi boneddwr o'r enw *Scudamore*, perchenog llys *Kentchurch*, lle y meddylia rhai fod ein gwron yn llechu dros yspaid o amser cyn ei farwol- aeth. Dywedir am dano ei fod o ran corph yn lluniaiidd, ac o ymddangosiad urddasol a mawreddog—yn feistr trwyadl ar holl goethder yr oes hono; yn ei foesweddan yn dywysogaidd ac enillgar; yn rhwydd ei hawdl ei ymadrodd; yn ddoeth mewn cynghor, a gwrol mewn rhyfel. Yr englyn canlynod a edrydd ddechreu ei wrthryfel a diwedd ei einioes:—

"Mil a phedwar cant, nid mwy,—cof ydyw,  
Cyfodiad Glyndyfrdwy;  
A phymtheg praff ei safwy  
Bu Owain hen byw yn hwy."

Éfallai bod ei enciliad yn lled ddirgelaidd, ac adeg ei farwolaeth wedi bod yn anhysbys dros beth amser i'w gyfeillion hoff yn Ngwynedd; canys y mae cywydd ar gael, a gyfansoddai ei fardd *Iolo Goch* iddo, "wedi ei fyned ar ddifancoll." Ond pan ystyriom fod Iolo yn hen iawn ar doriad allan wrthryfel Owain, y mae yn fwy tebyg mai yr y misoedd cyn i'r cyfnerth o Ffrainc ddyfod drosodd, yn 1405, pan oedd Owain yn ffoadur o ogof i ogof, y canai yr hen fardd y cywydd cwynfanus yma, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Y gŵr hir, ni'th gar Harri,  
Adfyd daeth, a wyd fyw di?  
Ac od wyd, a gwayw o dân,  
Dyred, dangos dy darian!  
O wlad garw aergad, eurgylch  
Rhufain, dwg ariau'n dy gylch;  
Dwg feddiant Pedr sant dan sel,  
Drwy iawswydd Duw a'r insel.  
Dyred o wlad y dwyrain,  
Darw mawr, a bwrw dyrau main.  
Rhwydd y daw rheiddiau o dân  
Rhagod—pawb a'th anrhegan'.  
Eryr giwys, dos Ior o'r Glyn,  
Iarll awchlaif, i dir Llychlyn;  
Y gŵr a ddyg arwydd iach  
Yn ei darian bedeirach—  
Tri llew glas fel yr asur,  
Trwy wylt dan, a'r tair rhwyll dur,  
Rhown ni ar y paun diwarth,  
Rhowch rwyf ar yr hwch a'r arth;  
Llyna'r tair bwyll unyd,  
Lle mae'r gwaith, llu mawr i gyd.  
Gollwng, yn gyntaf gelych,  
Saith long, a saith ganllong gwych;  
Dyred, wrth ddymuniaid Mon,  
O'r Nordd, hyd yn Iwerddon.  
Rhaid yw i ti, rho Duw Tad,  
Gael *Owile*, a'u galw stad;  
Cyfod o glau Galied glân,  
Cawn glywed cyn Gwyl Ieuan;  
Dyro fflam, benadur flwch,  
Draw'n Nulyn, drwy anialwch;  
Gwna lynes gain o longwyr,  
O Gynfyl, Gwyddyl a'i gwyr.

Tyred, ŵr a draeturiwyd,  
O Fanaw dir, f'enaid wyd,  
Goreu arwydd gan Wyddyl,  
Melyn a choch yn mlaen chwyll:  
Urdda bensel Llewelyn,  
Arddel hwy ō'r ddeuliw hyn.  
Galw ger bron, gwae Loegr o'i brad,  
Lu Brytaen a'i lwybr atad.  
Dyred i'n gwlad, dur iawn gledd,  
Deyrnaswr drwy ynyseidd:  
Cynneu dân, cyn oed unawr,  
I oror Mon, eryr mawr!  
Cur gestyll, caerau gystudd,  
Cwncweria wal cwn Caerludd.  
Cur a lladd y wadd a'i wŷr,  
Cymr aur Mon, cur Normanwyr.  
Dir yw y gwnai, d'rogan oedd,  
Fyd teilwng o fateloedd.  
Gwna frwydr a gwaith grwydr yn groch  
A'r llew mwyn, Ior lle mynoch;  
Gwaith dy law a ddaw yn ddi,  
Gwŷr meirw a geir yn Merwig;  
Gwna drwy'r haf, gwn droi'r rhod,  
Gymynu brwydr Gwminod;  
Gwna gad fel toriad deri  
Fochno, a hŷn f'ych na hi:  
Gwna daith yn rhyd Glyn Iathon,  
Gwŷr lawer, a maner Mon;  
Gwna naw cad yn daladwy,  
Yn un modd, ac na wna mwy.  
Deigr Cadwaladr Fendigaid,  
Dyred a dwg dir dy daid;  
Dyga ran dy garenydd,  
Dwg ni o'n rhwym dygn yn rhydd."

Wedi marwolaeth Owain, adnewyddwyd y cyflafareddiad rhwng *Syr Gilbert Talbot*, o du y brenin, a *Meredydd ab Owain Glyndwr*, o du y Cymry; a'r canlyniad fu heddychu Cymru a Lloegr, yn gynnar yn y flwyddyn 1416, wedi ymrysonfa waedlyd ac anhenderfynol dros fwy na phymtheng mlynedd. Ac o'r pryd hwn allan, y mae yn ymddangos fod y penaduriaid Seisnig wedi deall mai trwy garedigrwydd a chyflawnder yr oedd hawsaf trin y Cymry, ac nid trwy drais; ac fel yr ysafnheid yr iau ormesol ar eu gwarau, ymwasgent hwythau yn fwy awchus mewn ffyddlondeb oddeutu lluman eu penadur; a llawer o honynt a wasanaethasant gyda dewrder dihafal yn myddinoedd breninoedd Lloegr, yn eu rhyfeloedd cartrefol a thramor.

Yn y flwyddyn 1422, bu farw *Harri y Pumed*, wedi teyrnasiad tra llwyddiannus o naw mlynedd a phum' mis, gan adael ar ei ol unig fab—

o'i frenines *Catherine*, merch Siarl V. o Ffrainc—yr hwn a'i dylynodd yn y llywodraeth, dan yr enw *Harri y Chwoched*. Nid oedd y frenines hon ond ieuanc pan y'i gadewid yn weddw; ac y mae yn ymddangos ddarfod iddi syrthio mewn cariad â phendefig ieuanc o Gymro, o'r enw *Owain Tudur*, o Benmynydd, yn Mon—â'r hwn yr ymbriododd; er fod amryw o'r pendefigion Seisnig wedi ymdrechu eu goreu i gael ganddi beidio: gan ddadleu, pa ledneisrwydd bynag a berthynai i Owain Tudur ei hunan, fod ei genedl mor anolygus ac anwar, fel na buasant ond gwarth parhaus iddo ef a hithau. Ond er gwrthbrofi y cyfryw haeriadau, dyg Owain ddau o'i geraint i bresenoldeb ei mawrhydi—*sef, John ab Maredydd a Hywel ab Llewelyn*—y rhai oeddynt ddynion tra lluniaidd o gorpholaeth a theg o bryd, ond yn dra amddifaid o ddysgeidiaeth a dygiad i fynu: ac wedi i'r frenines eu cyfarh mewn amryw ieithoedd, heb eu bod yn alluog i ateb iddi air, hi a ddywedai eu bod y creaduriaid mud harddaf a welsai hi erioed.\*

Nid oedd Harri VI. ond naw mis oed pan fa farw ei dad: ond wedi ei wneuthur yn dywysog Cymru, a chyn marw, galwasai ei dad am ei frodyr i'w wydd, a phenodasai Ddug Bedford yn rhaglaw Ffrainc, a Dug Caerloyw yn amddiffynnydd Lloegr ac yn warcheidwad ei faban. Ymroddodd y Dug o Bedford i ddwyn y rhyfel yn mlaen yn Ffrainc: ond yn mhen ychydig flyneddoedd, collodd y Saeson eu hawdurdod yn y wlad hono yn dra llwyr, a hyny yn benaf trwy ddylanwad geneth dlawd a fuaasai yn gwasanaethu mewn gwestdy, ac a gyfenwid *Joan o Arc*, yr hon a fflugiai ei bod yn derbyn cenadwriaethau o'r nef, a'i bod yn ordeiniedig gan y Goruchaf i waredu ei gwlad oddiwrth drais estroniaid. Hyn a gynhyrfodd y Ffrancod i ymuno, ac ymwroli yn erbyn y Saeson, nes adenill y wlad oddi-arnynt bron yn llwyr. Yn y cyfamser, yr oedd y brenin ieuanc yn dra adflwyddiannus gartref, ac anfodlonrwydd a thuedd i wrthryfela yn ffynu drwy yr holl wlad. A chan fod ei daid, Harri IV., fel y crybwyllwyd yn nechreu hanes gwrthryfel Owain Glyndwr, heb feddu hawl gyfiawn i'r orsedd, ond wedi ei thrawsfeddiannu—yn gymmaint ag mai mab oedd efe i *John*, dug Lancaster, trydydd mab Iorwerth III.; tra yr oedd y goron o hawl yn perthynu i dylwyth yr ail fab, ar balliant hiliogaeth i'r cyntaf. Yr oedd y Dug o Gaerefrog yn hanu o'r ail gangen yma, ac o ganlyniad yn gyfiawn etifedd y goron. A chan fod gan y bobl lawer o achos i fod yn anfoddlawn ar eu penadur presenol, tröent eu meddyliau yn naturiol at dy Caerefrog; a'r canlyniad fu, rhyfeloedd blinion a gwaedlyd rhwng y ddwy gangen grybwyllledig o'r teulu breninol, am yr orsedd. Yn mrwydr *Wakefield*, gorchfygid byddin Dug Caerefrog, ac yntau ei hun a laddwyd; ond ei blaid ef a ymgryfhaodd drachefn, ac mewn brawd yr *Teokesbury*, enillasant y maes; ac yn fuan wedi, cyhoeddwyd mab Dug Caerefrog yn frenin, dan yr enw *Edward y Pedwerydd*, yn y flwyddyn 1461.—Dywedir i Harri druan gael ei lofruddio yn ei ystafell wedi hyn, gan Ddug Caerloyw, brawd y brenin Edward, yr hwn wedi hyny a fu yn frenin dan yr enw *Rhisiart y Trydydd*, ac a balmantodd ei ffordd i'r orsedd trwy lofruddiaethau a chreulonderau digyfelyb.

Drwy yr yspaid cynhyrfus yma ar y deyrnas, yr oedd y Cymry hefyd yn dra rhanedig: amryw o'honynt, wrth ystyried hawl rhagorach Edward i'r orsedd, a chan gosio ei fod o waedoliaeth, ac yn dwyn enw un o'u hen dywysogion, a'i cefnogent yn galonog, gan ymladd ei ryfeloedd yn ddewrion: ond rhai o'honynt a lynchent wrth Harri. Yn mys pleidwyr Harri yr oedd *Rheinallt ab Gruffudd ab Bleddyn*, o'r Twr, gerllaw y Wyddgrug: yr

\* Yorke.

hwn, yn nghyda phump o gadbeniaid Cymreig ereill, a amddiffynodd castell Harlech, yn erbyn Gwilym Herbert, iarll Penfro, cadlywydd byddinoedd Iorwerth; ac un o honynt, o'r enw *Dafydd ab Ieuan ab Eimon*, wedi hir ddrysu ymdrechion iarll Penfro, a ddywedai, "Myfi a gedwais dwr yn Ffrainc, nes i holl hen fenywod Cymru glywed am dano; ac yn awr, fe gaiff holl hen fenywod Ffrainc glywed pa fodd y diffynais y castell hwn."\*

Yr oedd *Owain Tudur* hefyd yn un o bleidwyr y Lancastraiad, fel yr oedd yn naturiol dysgwyl iddo fod, trwy ei briodas â mam Harri VI.; ac efe a gymmerwyd yn garcharor gan y blaid arall, y rhai a'i dodent dan gadwraeth yn nghastell Brynbyga, gerllaw Caerlleon ar Wysg. Ac yno elai John ab Meredydd ei gar, a channwr ereill o'i gydwladwyr, i ymweled âg ef, er ei gysuro yn ei adfyd. Ar eu dychweliad, pan o fewn dwy filldir i Gaerlleon, amgylchynid hwy gan fintai arfog o gefnogwyr ty Caerefrog, fel nad oedd un tebyg y buasai yn ddichonadwy iddynt ddianc. Dan yr amgylchiad cyfyng yma, John ab Meredydd a gyfarchai ei gydwladwyr, gan ddywedyd, "Na chaffed neb byth ddywedyd, *Dyna lle y fodd cant o Wyneddwyr*; ond yn bytrach, bydded y llanerch i'w chofio a'i nodi allan fel y fan lle y lladdwyd; ac felly, gan ymwroli yn erbyn gobaith, efe a drefnodd ei fintai sechan yn y modd goreu, gan gyfleu *Hywel ab Llewelyn ab Hywel*, a rhyw rai ereill oeddynt unig feibion eu tadau, yn y lle dyogelaf, tra y cyfleai ei feibion ei hun yn ngwyneb y gelynyon, gan eu harwain ei hunan i angau neu fuddogaeth; a chan ruthro ar y gelynyon yn ddiarbed, ac agor adwy drwy eu rhengau â'i gledddyf, efe a'u llwyr orchfygodd; cafodd yntau ei hunan archoll dwfn yn ei wyneb, yr hyn a barai iddo gael ei alw o hyny allan, "*Ysgwïer y Graith*."

Tra yr ydoedd byddin iarll Penfro yn Ngwynedd, yr oedd *Ieuan ab Robert ab Meredydd*, un o hynafiaid *Syr John Wynne*, o Wydir—yr hwn, trwy ei gadgyrchiad yn erbyn tiroedd Dug Caerefrwag, yn nghymmydog-aeth Dinbach, a achlysueroedd i'r brenin anfon yr iarll yno i'w gosbi—yn gorfod gadael ei dy ei hun, a llechu y nos mewn ogof yn agos i Feidd-gelert, a elwid *Ogof filen*, mewn craig gerllaw *Meillionen*; a bu cyfarfod rhyngddynt yn mwlich Nanhwynan. O'r diwedd, yr iarll a anfonodd at y Cymro glew, i erfyn arno ddyfod i ymweled âg ef yn heddychol; ac felly y bu: a gwnaed cymmod rhyngddynt.

Er mwyn tafu i'm darllenwyr ryw gipolwg ar ansawdd gymdeithasol ein cenedl yn yr oes hon, a'r hawl a honai y pendeigion yn y werin, dodaf y cytundeb canlynol ger bron—

"Myfi, Ednyfed Fychan ab Ednyfed, ydwyf drwy y weithred hon yn rhoddi, yn troglwyddo, ac yn cadarnhau, fy rhydd dyddynod o Rhandir Gadog, &c.; a m rhydd dyddynod o Borthamel, &c.; a m saith priodor—sef, Hywel ab Dafydd Dew, Mathew ab Dafydd Dew, Ieuan ab Ieuan Ddu, Llewelyn ab Dafydd Dew, Dafydd ab Matto ab Dafydd Dew, Hywel ab Matto ab Dafydd, a Llewelyn ab Ifan Goch, yn nghyda'u holl hiliogaeth, ganedig, neu i gael eu geni, a'u holl feddiannau, &c.—i Wilym ab Gruffudd ab Gwilym, ei etifeddion, a'i ddirprwywyr, dros byth.—Rhoddedig yn Rhandir Gadog, ar yr 20fed o Fehefin, yn y 27ain flwyddyn i Harri VI." Dwy fferam fawr yn Mon ydyw Rhandir Gadog a Phorthamel.

Crybwyllasom eisoes fod y boneddwr ieuanc, o Blas Penmynydd, wedi ymbriodi â'r frenines *Catherine*, mam Harri VI. Bu iddo dri o feibion ac

un ferch o honi; un o'r meibion a aeth yn fonach, a'r ddau ereill oeddynt *Edmund Tudor*, iarll Richmond, a *Jasper Tudor*, iarll Penfro.

Edmund Tudor a briododd unig ferch ac etifeddes *John Beaufort*, Dug Somerset, yr hwn oedd hanedig o Iorwerth III.; a mab iddo o honi oedd *Harri Tudor*, iarll Richmond, yr hwn a anwyd yn nghastell Penfro, tua'r flwyddyn 1455. Pan y gorthrechwyd plaid Lancaster yn mrwydr Tewkesbury, yn y flwyddyn 1471, gorfu i Jasper Tudor ffoi, a chan gymmyrd ei nai, Harri Tudor, iarll Richmond, i'w ganlyn, efe a enciliodd i'w gastell ei hun yn Mhenfro. Ond ni chawsant aros yno yn hir, cyn i un o wryion *Gruffudd ab Nicholas*,\* sef Morgan ab Thomas ab Gruffudd, trwy orchymyn y brenin, gynnull llu cadarn, gan osod gwarchae mor ddyfal ar y castell, fel nad oedd un gobaith o ddihangfa i'r tywysogion. Ond yn y cyfngder hwn, daeth *Dafydd ab Thomas*, brawd Morgan, yr hwn oedd gyfaill i iarll Penfro, a lluaus mawr o wŷr y wlad i'w ganlyn, y rhai yn y cyffredin oeddynt bleidwyr i deulu y Tuduriaid; ac er nad oeddynt wedi ymarfogi yn rheolaidd, ymosodasant ar y gwarchaewyr mor wrol, fel y bu raid iddynt gilio oddiwrth y castell; ac yna Dafydd a ddyg y ddau iarll i Ddinbych, porthladd cyfagos i Benfro, ac oddiyno hwyliasant drosodd tua Ffrainc, gan fwrriadu myned ar unwaith i lys eu car—brenin y wlad hono: ond fe'u chwythwyd i ororau Llydaw, ac ni chaniatai Dug Llydaw iddynt ymadael oddiyno dros yspaid.

Yn y flwyddyn 1483, daeth y brenin *Rhisiart y Trydydd* i'r orsedd; a hyny, fel y crybyllwyd eisoes, trwy lofruddiaethau a chreulonderau o'r fath waethaf. Ac mor atgas ydoedd, fel yr ymroddodd amryw o'i ddeiliaid galluocaf i gynllwyno yn ei erbyn; a throisant at Harri Tudor, iarll Richmond, gan ei gynghori i gynnyg ymbriodi â'r dywysoges Elisabeth, merch Iorwerth IV., fel yr unid y ddau deulu—sef Lancaster a Chaerffrawc—i'w gefnogi, ac i ddiorseddu *Rhisiart*. Yr oedd amryw o benedigion Cymru yn dra blaenllaw yn yr ysgogiad yma, gan eu bod yn edrych ar Harri yn mhob ystyr fel un o'u cenedel eu hunain, nid yn unig am ei fod o wehelyth Syr Owain Tudur, ond hefyd am ei eni yn Mhenfro. Un o'r prif offerynnau yn dwyn yr ohebiaeth yn mlaen rhwng y penedigion a'r iarll, oedd deon Bangor, *Rhisiart Cyffin*, a gyfenwid y "Deon du o Fangor," yr hwn oedd yn byw yn Llanddwynwen, yn Mon, ac a anfonai genadwriaethau oddiyma i Ffrainc, at Richmond, drwy gyfrwng cychod pysgota, y rhai a dramwyent rhwng y ddwy wlad. O'r diwedd, enillwyd *Rhys ab Thomas*, wŷr i Gruffudd ab Nicholas, yr hwn a fuasai yn wastadol yn bleidiol i dy Caerefrog, i uno yn y cynghrair; ac yna trefnwyd yn fuan i Harri hwylio o Harfleur, yr hyn a wnaeth, a thua dwy fil o Ffrancod i'w ganlyn; ac yn mhen ychydig ddyddiau, ymddangosai y llynges ar gyfer Aberdaugleddau, lle y'i cyfarfyddwyd gan Rhys, yr hwn a'i croesawodd yn rhwygsfawr. Penderfynwyd cyrchu tua Lloegr yn ebrwydd—Harri a'i wŷr ar hyd Ceredigion, a Rhys trwy siroedd Caerfyrddin a Brecheiniog. Cafodd *Dafydd ab Ieuan* yr anrhydedd o roesawu Richmond a'i fyddin yn Llwyn Dafydd, dros un noswaith; a'r noswaith ganlynol efe a gafodd dderbyniad caredig yn y Wern Newydd, gan *Einion ab Dafydd Llwyd*. Anrhegai yr iarll Dafydd ab Ieuan â hirlas ysplenydd, yr hwn sydd yn nghadw gan iarll Cawdrw eto, yn y Gelli Aur. Ymunai cynnifer o'r trigolion â Rhys ab Thomas, ar ei gadgyrchiad, fel y gwelodd yn angenrheidiol, yn Aberhonddu, anfon llaweroedd o honynt yn ol i'w cartrefi, gan

\* Gruffudd ab Nicholas, yr hwn a fuasai mor enwog yn ei gyssylltiad âg Eisteddfod Caerfyrddin, yn 1450, a laddwyd yn mrwydr Tewkesbury, yn ymladd dros yr Yorcaid.

gadw gydag ef yn unig y rhai oeddynt debyg o fod yn wasanaethgar iddo ef rhagllaw, yn nydd cyfyngder a rhyfel.

Cyfarfu Rhys ab Thomas â'r iarl ychydig cyn cyrhaedd o honynt dref y Mwythig; a dywedir fod Harri wedi gwersyllu ar Fynydd Digoll, rhwng y Trallwng a'r Mwythig. Aethant oddiyno tua Nottingham, lle yr oedd Rhisiart frenin yn aros; ac ar faes Bosworth, yn swydd Leicester, y bu brwydr waedlyd rhyngddynt, ac yno y lladdwyd Rhisiart. Dywaid amryw mai Rhys ab Thomas a roddodd ei ddyrnod marwol iddo; ac nid yw hyny yn annhebyg chwaith: canys y mae yn ymddangos fod Rhys a'i Gymry dewrwyth wedi ymroddi i gadw yn agos i berson Harri trwy y frwydr; a dywedir fod Rhisiart yn gwneyd y rhuthriadau ffyrnicaf ar y rhan hono o'r fyddin elynol lle yr oedd Harri ei hunan yn ymladd, gan geisio am ei fywyd â'i holl egni. Dywedir ddarfod iddo, ychydig cyn ei ladd—pan welodd yr *arglwydd Stanley* yn ymunaw â Rhys ab Thomas, i ymladd o blaid Harri—alw am gawgiad o win, a chan eistedd ar ei farch, trodd at *Rhys Fychan*, gŵr boneddig o Wynedd, yr hwn a lynasai wrtho yn ffyddlon hyd y diwedd, gan ddywedyd, "Yma, Fychan, yfaf atat ti, y Cymro cywiraf a gefais erioed yn Nghymru." Wedi yfed y gwin i fynu, taflodd y gwpan dros ei ben, a rhuthrodd yn garnwyllt i ganol ei elynion, gan wneyd un cynnyg eto am fywyd Harri, debygid; ond ar y cynnygiad yma, efe ei hun a laddwyd. Lladdwyd llumanwr Harri, *Syr William Brandon*, gan Rhisiart, â'i law ei hun; ac ar hyny y rhoddes Harri y lluman i *Rys ab Maredydd* i'w dwyn. Y Cymro hwn oedd ŵr o ddewrder a chadernid corfforol digyffelyb o'r bron, o Hir-aethog, yn swydd Ddinbach; oddiwrth yr hwn yr hanodd tylwythau *Wyne* o'r Foelas, a *Price* o'r Rhiwlas.

Wedi i'r frenin Rhisiart gwmpo felly yn lladdedig, cyhoeddwyd Harri yn frenin ar y maes, yn nghanol gwaed a galanas, a bloeddiadau am fuddugoliaeth. Ar ol canu mawl gwedi y frwydr, urddwyd Rhys ab Thomas yn farchog yn y fan, ac efe a ddyrchafwyd i lanw amryw swyddau anrhydeddus yn Nghymru.

Ymddygodd Harri, yr hwn bellach a elwir *Harri y Seithfed*, yn hynod gall fel penadur—efe a briododd *Elisabeth*, merch henaf Iorwerth IV., aeres tylwyth Caerefrawg, ac felly unodd yr Yorciaid a'r Lancastriaid; diddymodd y cyfreithiau dirwyawl a chospawl a wnelid yn erbyn y Cymry gan y breninoedd rhagflaenorol; parhaodd i gynnal cyfeillgarwch â *Syr Rhys ab Thomas*, ac ereill o brif foneddigion Cymru; a gosododd wŷr dysgedig ar waith i olrhain ei achau Cymreig, trwy yr hyn y profwyd i foddlonrwydd ei fod o ran ei dad a'i fam yn hanu o dylwyth pendefigol, ac yn tarddu oddiwrth hen freninoedd ynys Prydain: ac o'r pryd hyny hyd yn awr, nid oes neb wedi bod yn ffyddlonach na'r Cymry i goron Lloegr; na chenedl dan goron Lloegr, efallai, dedwyddach ar y cyfan na'r Cymry.

## DARLITH X.

## TORIAD GAWR PROTESTANIAETH AR GYMRU.

Ŵn o'r pethau sydd yn wir destyn syndod i bob un a ymroddo i efrydaeth deilwng ar Hanes Cymru, ydyw grym a gwydnwch yr ysbryd annibynawl a amlygid gan y genedl, yr hwn nis gallodd grym holl lengau Rhufain, yn mawredd rhwyg milwraidd y llywodraeth hono, na mintoieodd afrifed y Daeniaid, y Sacsoniaid, a'r Normaniaid—dros bymtheg can' mlynedd o ymdrech didor—ei lwyr lethu; fel y cawn yn eu hanesiaeth, fod rhai o'r genedl â'u harfau yn eu dwylaw yn barhaus, yn gwrthdystio yn eofn yn erbyn trawsfeddianwyr gorsedd eu gwlad, hyd oni welsant ei meddiafnu gan dywysog o'u gwaedoliaeth eu hunain, yn nynsawd *Harri y Seithfed*, *Wyr Syr Owain Tudur*, ac y cawsant hawl i anfon eu pendefigion eu hunain i'w cynnrychioli yn senedd y Deyrnas Gyfunol, a'u cyfrif ar yr un tir a'r Sacsoniaid a'r Normaniaid, o barth penodiad i swyddau o ymddiried yn y llywodraeth: ond er y pryd hyny, y maent mor hynod am eu heddychlonder, a'u ffyddlondeb i'r orsedd, ag oeddynt o'r blaen am eu gwrthladdiad parhaus i benaduriaid Lloegr; yr hyn sydd brawf cryf, mai nid i gythryblusrwydd cynhenid eu natur yr ydys i briodoli eu hanfoddogrwydd i ymostwng yn dawel dan iau y Saeson, ond i'w syniad egwyddorol o'u hawl gyfiawn eu hunain i arglwyddiaeth yr ynys hon, ac annghyfiawnder hawl un genedl arall i'w difeddiannu o'u hiawnderau.

Nyni a ganfyddwn hefyd ryw gymmaint o'r unrhyw ysbryd annibynawl a dianwadai yn dylanwadu eu syniadau crefyddol; enghraifft wych o'r hyn a grybwyllwyd yn y Chweched Ddarlith, lle yr adroddid am ymgais aflyddiannus Awstin Fonach i'w cael i gydnabod uchafiaeth y Pab ac eglwys Rhufain mewn pethau crefyddol. Ac er fod yr esgobion Seisnig a draws-wthid mewn amser i'r esgobaethau Cymreig, wedi bod yn dra selog i adeiladu a gwaddoli mynachlogydd, a phob math o grefydd-dai, tueddol i feithrin slafeidd-dra Pabaidd, ac arfer eu holl ddylanwad i sudde y genedl ddyfnach ddyfnach i'r unrhyw gaddug o gyfeiliornadau Pabaidd ag ydoedd yn toi eglwysi y cyfandir yn gyffredinol, yn yr oesoedd a elwir "Yr oesoedd tywyll," mae yn ymddangos fod rhyw ronynau gweiniaid o'r gwirionedd yn aros yn mysg y dosbeirth mwyaf dysgedig o'r genedl trwy yr oesoedd; a bod ambell un o bryd i bryd yn ddigon dewrfryd i'wrthdystio yn erbyn cyfeiliornadau yr offeriaid; ac nid wyf yn meddwl y byddai yn anhawdd profi fod mwy o oleuni y gwirionedd yn ffynu yn mysg y Cymry trwy yr yspaid crybwylledig, nag ydoedd yn mysg eu cymmydogion y Saeson; a meddylwn y gallwn weded un rheswm am hyny, yn yr ystyriaeth o fod yr Ysgrhythyrau wedi bod yn ysgrifenedig yn iaith y Cymry er oes Cystenyn, os nid cyn hyny, tra nad oes sail i feddwl fod un ran o honnynt wedi ei ysgrifenu yn iaith y werin Seisnig cyn dyddiau *Wickliffe*.<sup>\*</sup> Am hyny, tra yr oedd eglwys Rhufain yn melldithio y sawl ni chredai fod traddodiad dynol o gyfuwch awdurdod â'r Ysgrhythyr Lân,

\* Hanes Crefydd yn Nghymru, t.d. 346.

ac yn cynnwys pethau angenrheidiol i iachawdwriaeth, cyfarfyddwn ambell i Gymro yn dyrchafu ei lef i wrthdystio yn erbyn y cyfryw gyfeiliornad dinystriol, oesoedd cyn dyddiau *Luther*. Yr hen "Gatwg Ddoeth," athraw a feddai ddylanwad apostolaidd o'r bron ar efrydwy'r Llancarfan, yn chweched ganrif, a floeddai, "*A gair Duw yn benaf!*" Y Bardd Glas, o'r gadair athrawol, ger bron yr hon y crymai bonedd a gwreng y dywysogaeth, a adseiniat yr unrhyw syniad yn y nawfed ganrif, gan ddywedyd, "*Nid gair ar bob gair, ond gair Duw!*" Ac er sicrhad i ni, mor ddwfn y gwreiddiasat yr egwyddor hon yn meddyliau lluaaws y dywysogaeth, tystiat yr hybarch Dr. Davies, esgob Mynyw, yn ei ragymadrodd i gyfieithiad *Salisbury* o'r Testament Newydd, ei fod yn arferiad cyffredin gan y Cymry, cyn toriad gwawr Protestaniaeth, ddywedyd, "Mi a wnaft a ddywedaf—neu a âf i'r man a'r man, a gair Duw yn uchaf!"\*

Pan ddechreuodd eglwys Rhufain ddal allan yr athrawiaeth anysgrythyrol o Draws-sylweddiad, Cymro o athrofa Mynwy, neu Dy Ddewi, o'r enw *Ioan Erigena*, oedd un o'r rhai cyntaf i ysgrifenu yn erbyn y geudyb dywededig; ac y mae yr hanesydd eglwysig *Mosheim*, yn ei gyfrif y galluocaf a'r egluraf a ysgrifennai yn erbyn y geugred hon ar ei chychwyniad; ac yn un nad amlygai y gogwydd lleiaf at y gred yn y presenoldeb corphorol. Ond y Pabyddion, yn Nghymmanfa *Vercelli*, yn y flwyddyn 1150, a ddyfarnent llyfr y Cymro ystyrbywyll hwn yn wrthodedig—am ei fod, yn ol eu tyb hwy, yn cynnwys gau athrawiaeth!

Yn y flwyddyn 1030, cawn fod *Joseph*, esgob Llandaf—oddier ei ofid wrth ystyried esgeulusdra rhieni i hyfforddi eu plant yn egwyddorion y grefydd Gristionogol, a'r anfoesoldeb mawr a ffinai yn ei holl esgobaeth yn y canlyniad—yn rhoddi gorchymyn, na wnelid un math o waith ar y Sabbath, a bod i'r offeiriad addysgu yr ieuentyd i ddarllen yr Ysgrythyrau, "heb dal, heb ged;" ac y mae yn dra thebyg mai yn yr iaith gyffredin yr oedd yr Ysgrythyrau hyn, gan na fuasai gwaith y bobl yn eu darllen mewn iaith estronol yn tueddu dim i'w moesoli a'u lleshau, yn ol amcan duwiolfrydig yr esgob. Ac heblaw hyny, yr oedd y Cymry yn ystyried mai ofer ac ynfyd oedd dysgu dim mewn iaith anadnabyddus; canys yr oedd yn ddiareb yn eu plith—"Tri anhebgor ysgoleigodd; awydd diwydgais, pwyll awenfryd, a *llyfrau cyfiaieth*." †

Tua chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg, yr oedd un *William Breton* yn wr enwog yn mysg y Cymry, mewn dysgeidiaeth a hyddysgrwydd yn yr Ysgrythyrau; a dywedir iddo ysgrifenu llawer o lyfrau—ond mai ei ben gwaith oedd ei esponiad o'r holl eiriau anhawdd yn y Beibl; ac y mae yn debyg fod y llyfr hwn yn y fath fri, yn yr oesoedd canlynol, fel yr apeliodd *Standish*, esgob Llanelwy, ato yn ei ddadl âg Erasmus, yr hwn a adawsai l *Ioan*, 5. 7, allan o'r argraffiad cyntaf o'i gyfieithiad o'r Testament Newydd, ond a'i dododd i fewn yn yr ailargraffiad, ar awdurdod heu adysgrifen Gymraeg o'r Beibl, medd *Dr. Gill*.

Rhai o'r Trioedd hefyd, y rhai oeddynt mewn bri uchel gan y beirdd, a ddangosant yn eglur mor atgas oedd rhai o'r crefyddolion Pabaidd a'u syniadau yn ngolwg y rhai mwyaf goleuedig o'n cyndadau yn foreu:—

"Tri pheth ni waeth pa leiaf y'clywir o honant; cân hwch ar wynt, cnech hen wrach, a *phregeth brawd llywyd*."

"Tri pheth sydd, a gwae a ddelo dan eu crafangau; *cyffeswr o frawd llywyd*, llogwr arian, ac arglwydd tir o gostoglywyth."

"Tri anhebgor uffern; rhingyll, *brawd llywyd*, a Sais."

\* "Eglwys Loegr yn annibynawl ar Eglwys Rhufain," gan y Parch. J. Williams, t.d. 46 a 74. † Hanes Crefydd, &c., t.d. 256.



“Tri pheth ni waeth i ddyd ychydig na llawer o honynt; *bara offeren, nawdd y creiriau, a rhoddion mab y crinwas.*”

Gan fod y beirdd, a gwŷr o ddylanwad yn y wlad, yn coledd y cyfryw ddaliadau a hyn yn mysg y genedl, ac yn adlewyrchu ychydig o oleuni y gwirionedd ar dywyllwch dudew y nos gaddugawl, nid rhyfedd bod rhai o'r Cymry yn dangos parodrwydd nodedig i roesawi ysgrifeniadau *Wickliffe*, a chymmeradwyo yr egwyddorion a ddysgid ganddo, ar ymddangosiad cyntaf gwawr y Diwygiad Protestanaidd.

Yn y flwyddyn 1324 y ganwyd *John Wickliffe*, “*aeren foreu*” y Diwygiad, yn swydd Gaerefrog; ac efe a ddygwyd i fynu yn y brif athrofa, yn Rhydychain, lle yr enillodd iddo ei hunan radd dda, fel efrdydd diwyd ac ysgolhaig campus; o'r hyn yr oedd ei etholiad i fod yn ben coleg Caergaint, yn Rhydychain, yn brawf. Bu yr etholiad yma arno tua'r flwyddyn 1365; ond efe a symudwyd o'r swydd hono mewn modd tra anghyfiawn, tua'r flwyddyn 1367, trwy ymdrechion y myneich, y rhai a fynent un o'u corph eu hunain i'r swydd anrhydeddus hono. Efe a apeliodd yn erbyn y ddedryd hon at y Pab Urban; ond yr oedd gan y myneich hwythau eu dylanwad yn Rhufain; ac felly, yn y flwyddyn 1370, y Pab a'anonodd i gadarnhau y weithred o ddiswyddiad. Mae lle i gasglu ei fod ef, cyn y diswyddiad uchod, yn cyfeirio meddyliau ei ddysgybllion at yr egwyddorion gwrthbabaidd hyny a ddyfynid ganddo mor gyhoedd a diarbed, yn ei bregethau a'i ysgrifeniadau, yn y canlyniad i'w neillduaeth i'w blwyf ei hunan—*sef Lutterworth*.

Deallwn fod amryw efrydwyr o Gymru yn aros yn Rhydychain tra yr oedd *Wickliffe* yno, ac i rai o honynt yfed ei egwyddorion yn awchus, a'u taenu yn aiddgar yn mysg eu cydwladwyr, ar eu dychweliad i'w gwlad eu hunain; ac oddiar ryw egwyddorion, ac i ryw ddybenion, nas gallaf gael arfod i'w holrhain yn y Ddarlith hon, cefnogid *Wickliffe*, a'r rhai a goleddent ei syniadau, gan amryw o bendeigion y deyrnas—*megys, y Duc o Lancaster, yr hwn oedd fab i Iorwerth III., ac a elwir yn gyffedin John o Gaunt; Henri Percy, arglwydd dystain Lloegr; Syr John Oldcastle, a gyfenwir arglwydd Cobham, &c.* Y cyntaf o'r pendeigion uchod oedd wr o ddylanwad tra mawr; a pha mor waelion bynag y gallai fod yr egwyddorion a'i cymhellai ef i gymmeryd plaid *Wickliffe* mor wresog yn erbyn yr esgobion, bu dda i'r *Lollardiaid* gael llechu am dymhor dan ei adenydd.

Un o'r enw *Walter Brute*, Cymro ganedig o gyffiniau swydd Frycheinog, a ddygid i fynu yn Rhydychain, lle hefyd y'i graddiwyd, tra yr oedd *Wickliffe* yno. Ond er ei fod ar y cyntaf, efallai, wedi bwriadu cymmeryd ei ordeinio i'r offeiriadaeth, pan y'i cymhwysai ei hun trwy ddysegeidiaeth ddigonol i'r swydd, nid yw yn ymddangos ddarford iddo byth gymmeryd urddau eglwysig; ond gan iddo dderbyn egwyddorion *Wickliffe* yn foreu, gweithredai arnynt yn y canlyniad gyda mwy o gysondeb a dianwadalwch na llawer, ac efallai iddo eu cario allan yn mhellach na *Wickliffe* ei hunan, na nemawr o'i ganlynwyr. Ymddengys ei fod yn dal allan anghyfreithlondeb llwon ar bob achlysuron, a rhyfel yr un modd, a'i fod yn gwadu hawl yr offeiriad i'r degymau; a gellir meddwl na roddai efe nemawr fri ar yr offeiriadaeth ei hunan, ac o ganlyniad, ni chyfrifai bod urddau eglwysig, neu urddau esgobol, yn angenrheidiol er cymhwyso un i bregethu yr efengyl; am ba achos y gelwid ef, nid y “*Gweinidog parchedig,*” ond y “*Lleygwr dysgedig,*” ac weithiau hwy a'i galwent ar enwau drwg a gwaradwyddus.

Yr oedd efe yn wrthwynebwyr trwyadl i ragfarn ac erledigaeth grefyddol; gan ddal allan nas meddai llysoedd eglwysig na gwladol, offeiriad nac ynadon, hawl i ymyraeth â materion cydwybod y deiliaid. Mae yn

amlwg fod *Walter Brute*, yn eangder a chywirdeb ei syniadau, gannoedd o flyneddoedd o flaen ei oes.

Fa hyd y bu efe yn llafurio ar hyd a lled y wlad, i daenu ei egwyddorion crefyddol, cyn i'r myneich a'r offeiriad pabaidd ei atal, a'i ddwyn ger bron y llywodraethwyr fel heretic a therfysgwr, nis gellir cael allan ar hyn o bryd; ond y mae yn debyg ei fod wedi cael rhai blyneddoedd o hamdden, y rhai a dreuliodd efe yn ddiwyd, ac i'r dyben goreu, gan daenu egwyddorion y gwirionedd trwy siroedd Henffordd, Brycheiniog, a Maesyfed. Dygari y bobl yn y rhandiroedd crybwylledig, o'r neilldu ac yn gyhoeddus, yn nhai yr amaethwyr a phalasau y bonedd; a chynnorthwyd ef yn effeithiol yn yr ymdrech clodwiw i efengyleiddio y gorau hyn o Gymru, gan ei ddau gyfaill mynwesol, *Mr. William Swinnderby*, a *Mr. Stephan Ball*, y rhai oeddynt bregethwyr enwog am eu duwiolfrydedd, ac eglurder eu syniadau am egwyddorion crefydd. O'r diwedd cynhyrfodd ufern gynddaredd ei offerynau yn erbyn y gwŷr da hyn; a chafwyd *awdurdod* odditan law y brenin Rhisiart II., tua'r flwyddyn 1392, cyfeiriedig at bendefigion a bonedd swydd Henffordd, ac at faer y ddinas, yn eu hawdurdodi i erlyn *Walter Brute*, dan yr achwyniad o bregethu cyfeiliornad yn yr esgobaeth a'r ardaloedd cychynol, ac o gynnal cyrddfeydd anghyfreithlawn; ac yn y canlyniad i hyn, ymneillduai *Brute* a'i gydlafurwyr i ranau mwy anghyabell o Gymru, gan gario eu gwaith yn mlaen mewn modd mwy dirgelaidd. Ond fe'u daliwyd o'r diwedd, ac a'u dygwyd i brawf; canys y mae *Fox* yn crybwyll am *Swinnderby*, cyfaill *Walter Brute*, iddo gael ei losgi am ei broffes, yn Maes y Gofaint, Llwndain, yn y flwyddyn 1401. Ni fynega Hanesydd y Merthyrion i ni pa beth a ddaeth o *Brute*; ond oddiwrth yr hyn a ddywaid am eofndra ei ddiffyniad ar ei brawf, y mae yn debyg mai yn y cyffelyb gerbyd tanlyd y cafodd yntau fyned adref i dangnefedd.

Nid yw yn annhebyg fod yr offeiriad dysgedig, a'r bardd enwog, *Sion Cent*—yr hwn a ddygwyd i fynu gan dylwyth y *Scudamores*, yn swydd Henffordd—wedi gerbyn egwyddorion y Lolardiaid, yn benaf trwy *Walter Brute* a'i gydlafurwyr; ac yr oedd y gwŷr-hwnw, er ei fod mewn urddau offeiriadol, yn gwrthdystio yn sofrn yn erbyn cyfeiliornadau eglwys Rhufain, ac yn dynoetif drwgfucheddau yr offeiriad yn ddiarbed, fel y dangoswyd yn y *Chweched Ddarlith* (t.d. 135, 136.) Ac o'm rhan fy hun, y mae rhyw ddirgel dyb ynwyf y gallasai yr hen wron, Owain Glyndwr, fwynhau hyfforddiadau crefyddol y dywededig *Sion Cent*, yn ei ddyddiau diweddaf, y rhai a dreuliodd efe, fel y tybir, yn nhy ei ferch *Scudamore*; i'r hwn deulu yr oedd *Sion Cent*, yr offeiriad goleuedig, yn gapelwr tua'r un adeg.

Tua'r flwyddyn 1383, yr oedd gan Eglwys Rhufain ddau ben anffaeledig, y naill yn chwythu tân a brwmstan melldith ac ysgymundod ar y llall—sef, y Pab *Urban*, yr hwn a breswyliai yn Rhufain; a'r Pab *Clement*, yr hwn a gyfaneddai yn Avignon. Yn y flwyddyn uchod, cyhoeddai Urban alwad awdurdodol ar baw a ofalent am ffyniant crefydd, i wregysu eu harfau, ac ymfyddinaw yn mhlaid y ffydd, ac yn erbyn *Clement* a'i ganlynwyr; gan addaw i'r rhai a ymrestrent yn yr achos yma, yr unrhwy olynngod, maddeuant, a rhagorfreintiau, ag a ganiateid i'r rhai a ymroddent gynt i ryfeloedd y groes, ac a gollent eu bywydau ynddynt. Bu y cyhoeddiad yma yn dra llwyddiannus yn Lloegr, yr hyn a achlysurid efallai trwy fod y "Tad Santeidd" wedi ethol Sais i fod ei gadlywydd eglwysig—sef, *Henry Spencer*, esgob Norwich. Wedi i'r rhyfelwr *parchedig* (?) hwn gael cymhorth mewn gwŷr ac arfau gan seneid Lloegr, cychwynai ar ei gadgyrchiad yn llawn o sel ddalbleidiol, a chanddo dan ei lywyddiaeth fyddin o haner can' mil o wŷr traed, a dwy fil o farchogion.

Wedi lladd a llosgi a gwneyd difrod ofnadwy ar y Ffandrwysiaid—y rhai mewn gwirionedd a addefasent uchafiaeth Urban—cyfarfu Siarl VI., brenin Ffrainc, â hwy, yn blaenori byddin alluog; a gwnaeth ddfrod mawr arnynt, fel y bu dda i'r esgob, a'r gweddill o'i fyddin benboeth, gael dychwelyd i Loegr am nodded.

Y fath ryfel a hon, yn mha un yr oedd crefydd yn cael ei darostwng i'r fath ddybenion annhehlwng, a gyfrôdd ddigofaint *Wickliffe*, fel y cydiodd yn ei ysgrifell unwaith drachefn, er ei fod eisoes ar gil einioes, ac yr ysgrifennodd yn erbyn y fath gadgyrchiad yn eofn a diarbed, gan ymlwî â'r Pab, a gofyn, Pa fodd y beiddiai ef gymmeryd arwydd o Grist ar y groes—yr hwn sydd arlun o heddwch, trugaredd, a chariad—yn lluman i arwain Cristionogion i ladd eu gilydd, er mwyn dau gau offeiriaid, ac i ormesu y byd Cristionogawl, yn waeth nag y gormesai yr Iuddewon Grist a'i apostolion? “Pa bryd,” medd efe, “y bydd i offeiriad trahausfalch Rhufain, ganiatau trwyddedau i ddynolryw i fyw mewn heddwch a chariad, fel y mae yn gwneyd yn awr iddynt i ymladd â'u gilydd, a llofruddio y nail y llall?” Cyfrôdd hyn gynddaredd Urban yn ofnadwy; ac y mae yn dra thebyg y buasai yn dwyn trallod nid bychan yn ei ben, pe y buasai byw ychydig yn hwy; ond o fewn corph y flwyddyn ganlynol, bu farw *Wickliffe* mewn heddwch, yn ei blwyf ei hun, ac eheddodd ei ysbryd i fynwes ddyogel ei Brynwr, o gyrhaedd y Pab, a holl offer ei gynddaredd.

Ni bu y diwygiwr Cymreig yntau, *Walter Brute*, yn ol o wneyd ei ran er cynnorthwyo breichiau *Wickliffe*, gan wrthwynebu cyhoeddiad y Pab, a dyfarnu cadgyrchiad gwaedlyd esgob Norwich, fel yr ymddengys oddiwrth yr achwyniadau a roddwyd i'w erbyn yn mhen rhai blyneddoedd ar ol hyn—sef, pan y'i gwsyd i ymddangos y waith gyntaf o flaen *John Tresnant*, esgob Henffordd. Efe a gyhuddid yn bendant ar yr achlysur hyn, o ddaogan yn gyhoeddus, di-gel, a bwriadol, fod y sawl a bregrethent neu a gyhoeddent y maddeuadau a ganiateid gan yr uchel esgob i'r rhai a gynnorthwyent amcan y parchedig dad, arglwydd Henry, trwy rad Duw, esgob Norwich, pan ymgymmerth â'i daith i ymladd dros y Tad sanctaidd, y Pab—yn ymbleidwyr â hereticaid; ac nad oedd yn ngallu y Pab, nac un dyn arall, ganiatau y fath faddeuadau.\* Hefyd, ei fod yn fynych yn dywedyd, ac yn dadleu yn gyffredin, mai yr *Anghrist*, a *shwyllwr y bobl*, oedd y Pab; a'i fod yn hollol wrthwyneb i gyfraith a buchedd Crist. Hefyd, ei fod wedi dadleu, ac ymdrechu i emill dynion i gredu, nad oes un dyn yn rhwym i roddi degymau neu offrymau; ac os bydd neb yn dewis rhoddi, y gall efe eu rhoddi i'r neb y myno. Heblaw

\* Y pab Urban a addawai *faddeuant cyflawn o'u holl bechodau*, nid yn unig i baw a groesent y moroedd yn yr ymrafael hono, ac a ymgymmerent yn personol yn y cadgyrchiad gwaedlyd hwnw, yn erbyn Clement, ei withyngaisydd am gadair Pedr, a'i gefnogwyr—ond hefyd i baw a ymroddent i dalu i unrhyw nifer o filwyr galluog a anfonid allan i'r cyfryw ymgyrch; ac hyd yn nod i'r rhai oll a gyfranent ryw ran o'u da i esgob Norwich, tuag at ddwyn traul y cadgyrchiad. Geirid y Maddeueb yn y modd canlynol:—“Trwy awdurdod apostolaidd a ymddiriedwyd i mi i'r perwyl yma, yr ydym yn dy ryddhau di, A.B., oddiwrth bob pechodau a gyffesair â'th enau, tra yn edifeiriol dy galon; ac o'r rhai y buasit yn eu cyffesu, pe y daethent i'th gof; ac yr ydym yn caniatâu i ti faddeuadau cyflawn o bob math o bechodau; ac addawwn i ti gyfran o wobrwyr yr holl gyflawnion, ac o iachawdwriaeth dragwyddol; a chynifer o ragorfreintiau ag a ganiateid i'r rhai a elent i ryfela am y Tir Sanctaidd, nynt a'u caniatawn i ti; ac o holl weddïau a buddion yr eglwys, y Gymmanfa Gyffredinol, a'r Eglwys Lan Gatholig, y'th wnawn yn gyfranog.”—Pa ryfedd i ddynton o ysbryd *Wickliffe* a *Brute* gyfiroi yn erbyn y fath dwyll a thraba cableddus?

hyny, fe'i cyhuddid o ddal allan a dysgu nad oedd aberth yr allor yn wir gorph Crist, namyn cofarwydd yn unig.—Dyma yr egwyddorion am ddal pa rai y cyhuddid *Walter Brute*, seren foreu y Diwygiad oddiwrth Babyddiaeth yn Nghymru, megys yr oedd Wickliffe yn Lloegr.\*

*Walter Brute*, yn hyddysg yn yr Ysgrhythrau, ac yn gadarn yn y ffydd, a ysgrifennodd ei amddiffyniad, ac a'i rhoddodd i'r esgob. Yn yr amddiffyniad hwnw y mae yn dywedyd mai Cymro ydoedd; ac os oedd neb yn alluog i ddangos trwy yr Ysgrhythrau ei fod yn cyfeiliorni yn yr athrawiaethau a ddysgai i'w gydwiadwyr, y derbyniai efe argyhoeddiad yn ostyngedig a llawen; ond na roddai efe ddim coel ar eiriau dynion, na byddent yn seiliedig ar yr Ysgrhythrau. Yna rhoddai gyffes gryno o'i ffydd iddynt, yn yr hon yr addefai fod Crist yn Dduw ac yn ddynt; iddo farw yn aberth dros bechod; ac mai efe yw unig Frenin, Offeiriad, a Phrophwyd ei eglwys. Yn ddiweddaf, tystiai yn groyw ei fod ef yn credu mai "yr Annghrist" yw y Pab, a bod Pabyddiaeth yn groes i'r gwirionedd: a fherfynai, gan ddatgan ei fod ef yn barod i ddyoddef yn llawen ar mwyn y gwirionedd.

Wedi i'r esgob ddarllen amddiffyniad *Walter Brute*, gan nas gallai wrthbrofi ei osodiadau eglur a dysyml, efe a gymmerai arno fod yr ysgrifen hono yn rhy fer ac aneglur; ac am hyny deisyfai arno ysgrifenu ei olygiadau yn eglurach a helaethach, â'r hyn y cydsyniai *Brute* yn ewyllysgar; yn y canlyniad, efe a ysgrifennodd ei olygiadau yn helaeth ar y pethau yr oedd ei farn ef arnynt yn amrywio oddiwrth yr eiddo y Pabyddion, gam eu profi yn eglur allan o air Duw. Wedi i'r esgob dderbyn yr ysgrif hon, efe a benododd amser drachefn i *Walter Brute* ymddangos o'i flaen ef yn Henffordd, yr hyn a wnaeth efe ar y dydd gosodedig; ac erbyn i'r diwygiwr ymddangos yn y llys, yr oedd yno luaws o esgobion, abadau, myneich, a boneddigion ereill, wedi dyfod yn nghyd i gynnorthwyo esgob y lle, yn y gorchwyl oedd ganddo mewn llaw: ac wedi iddynt dreulio tri diwrnod i ddarllen a phrofi amddiffyniad *Brute*, penderfynasant o'r diwedd ei bod yn cynnwys llawer o gyfeiliornadau dinystriol, a barnasant ei fod yn euog o heresi; ac ar ddydd Llun, y 6ed o Hydref, 1393, gorfodwyd y diwygiwr enwog hwn i ddarllen yr ymostyngiad a'r dadgyffeiad canlynol, ar groes mynwent Henffordd:—"Yr wyf fi, *Walter Brute*, yn ymostwng yn benef i efengyl Crist, ac i benderfyniad y lân eglwys, ac i gynghorau cyffindinol y lân eglwys: hefyd i farn a phenderfyniad y pedwar athrawon ac ysgrifenywyr duwioi—sef, Awstin, Ambrose, Jerome, a Gregory. Ac yr wyf, mewn llareidd-dra, yn ymostwng i'ch cerydd chwithau, fel y gweddai i'w ymostwng i'w esgob."

Mae y diweddar Barch. T. Jones, o Ddinbach, yn sylwi fel y canlyn ar y dadgyffesiad uchod:—"Fe allai mai ymadroddiad aumhendant ac aneglur y papuryn uchod oedd yn achlysur i beri i *Walter Brute* ymostwng i'w ddarllen; ac y mae yn lled debygol hefyd, er fod amryw o'r esgobion penaf wedi dangos ymgeisiadau a bwriadau gwaedlyd, nad oeddynt mewn llawn rydd-deb i arfer tân a ffagoda, tra bu Richard yr Ail ar yr orsedd. Pa fodd bynag, y mae yn eglur fod *Walter Brute* wedi dianc yn fyw y tro hwn, er mai nid â chydwybod diarcholl, fel y gallwn feddwl. A pha fodd yr ymdarwodd ar ol hyn, nid oes genym hysbysrwydd; ond, oddiwrth lythyr cyhoedd a roisai y ei erbyn ef wrth ei enw, '*ac ereill o blant anwiredd cyffelyb iddo*,' mae yn lled amlwg fod ganddo amryw brageithwyr teithiol yn ei gynnorthwyo." †

\* "Cambro-British Biography," by Dr. W. Richard's, pp. 432—444.

† Fox, vol. i., p. 575.—Merthyrdrraith, t.d. 1136.

Yn wir, wedi pwyllio uwchben yr amgylchiad uchod, nis gallwn lai na synu fod cynnifer o esgobion ac urddasolion dios Babyddiaeth wedi boddioni i gymmyrd y fath rith o ymostyngiad, yn yr hwn nis gorfodid y cyffeswr i ddadgyffesu dim cymmaint ag un erthygl bwysig o'r gwirionedd a amddiffynai mor eofn a chyhoeddus trwy ei ysgrifeniadau a'i bregethau. Efallai fod *Walker Brute* yn rhy boblogaidd, a'i egwyddorion wedi enill tir rhy fawr, i'w elynion feiddio arllwys arno eithaf eu cynddaredd, rhag ofn y bobl. "Efallai hefyd nad oeddynt mewn llawn rydd-deb i arfer tân a ffagodau tra yr oedd Richard yr Ail ar yr orsedd," yn enwedig ar wr o Gymro, tra yr oedd amryw Gymry—megys Owain Glyndwr, ac ereill—mewn ffafur mor uchel gyda'r penadur hwnw.

Gan i mi grybwyll enw Owain Glyndwr yma, goddefer i mi hysbysu fy nirgel farn am dano—sef, nad oedd yn ddyeithr i egwyddorion y *Lollardiaid*, nac yn hollol anystyriol o dwyll, cyfeiliornad, a llygredigaeth yr esgobion, yr offeiriad, a'r myneich; pe amgen, ni buasai yn anrheithio yr eglwysi cadeiriol a'r mynachlogydd mór ddiarbed yn ystod ei rwyg, fel y crybwyllwyd yn y Ddarlith flaenorol. A bod gwybodaeth helaethach o'r Ysgrthyrau yn mysg ein cydgenedl yn yr oesoedd tywyll hyn, nag a ellid ddysgwyl wrth ystyried rhwysg Pabyddiaeth, a welir wrth sylwi ar ddull goleu ac ysgrthyrol beirdd y cyfnod yma yn trin athrawiaethau dwyfol.—*Iolo Goch*, bardd teuluaid Owain Glyndwr, a ganai gywidd gorgampus i'r Drindod, tua'r adeg dan sylw; a chan ei fod yn ddyeithr i'r rhan fwyaf o'm cydgenedl, hyderaf na bydd yn fiin ganddynt i mi ei ddodi yma.

"Duw, Ior y duwiau ereill,  
Dofydd a llywydd y lleill;  
Dawn llawn Duw yw'n llawenydd,  
Duw a weddiwn bob dydd;  
Dawn yw gweddio Duw Naf,  
Duw byth nis diobeithiaf!  
Heb Dduw i'm dysg, heb ddim dawn;  
A Duw agwrdd, a digawn.  
Mwyaf yw pwys fy mywyd  
Ar Dduw byw nag ar dda byd.  
Rhodd yw, i'r rhai addewynt,  
Rhaid yw im' wybod ar hynt,  
Pwy ddeil gof, pa ddelw y gwn,  
Pa Dduw—pwy a weddiwn?  
Pybyr Greawdr pob hoywbeth,  
Pob rhai byw, pob rhyw o beth.  
Pwy a wnaeth y nef hefyd,  
Pob rhyw, feirw a byw, a byd?  
Pwy sy'n cynnal grwndwal grym  
Llawr yr adail lle'r ydym?  
Pwy a oedd Dduw? pwy a ddaw?  
Pwy sydd piau sy eiddaw?  
Tri'n y nef gartrefan—  
Tadwys, Mab glwys, Ysbryd Glas.  
Tri pherson, undon Unduw;  
Ac nid un onid un Duw.  
Nid oes fry yn eu dwys frawd  
Ond yr Unduw a'r Drindawd:—  
Trindawd yr Unduw ydynt,

Ac un Duw gogoned ynt,  
Un feddian' yn eu glandy,  
Un gadernyd, un fryd fry,  
Un fraint, un feddiant, un frys,  
Un allu, un ewyllys,  
Un don, un waith da'n un wedd,  
Un Duw in' yn y diwedd.  
Gair oedd yn y Goreudduw,  
A'r Gair a ddaeth o'r gwir Dduw:  
Gwnaethpwyd o'r Gair gwenith-bwys,  
Gnawd glân, Mab gogoned glwys;  
Ac o ryw y goreuair  
Y ganed mab o gnawd Mair;  
Yn Methlem, o'i fam wythlws,  
Y ganed ef, Fab gwyn dwys;  
A'i eni'n Fab, anian fwyn,  
O'r wryf Fair, wir forwyn;  
Nid o natur dyn ytoedd,—  
Eithr o Dduw (medd athrodd) oedd;  
Ac o radd y Goreudduw,  
A'r Ysbryd Glan buan byw.  
Graddau y Mab goreuddoeth,  
O allu Duw oll y doeth:—  
Dau a gysylltwyd mewn dawn,  
Duw a dyn diwyd uniawn.  
Duw yn ein mysg, dawn a'n medd,  
A dry Gair o'i drugaredd,  
I'n dwyn i nef dan ei nawdd,  
Ddofydd a ddyoddefawdd."

Mor iachus y ddwyfyddiaeth! mor eang ac ysgrthyrol y syniadau, ac mor gaeth y farddoniaeth a gynnwysir yn y llinellau uchod, pan feddyliom

eu bod wedi eu cyfansoddi ers pedwar cant a haner o flyneddoedd yn ol! Ac mor dra dystadl wrth eu hochr a fyddai y goreuon o ganiadau crefyddol y beirdd Seisnig o'r un cyfnod!

Tua'r un adeg, sef y flwyddyn 1400, yr oedd y bardd enwog *Dafydd ab Meredith ab Tudur* yn ei flodau; ac yn mysg ereill o'i gyfansoddiadau ydynt eto ar gael, y cawn y cywydd canlynol i'n Hiachawdwr, megys creawdwr y bydoedd:\*

"Credu i'r Iesu rasol  
Yr wyf, rhag fy mod ar ol!  
Creawdr, ymerawdr im' wyt,  
Credaf mai cywir ydwyf!  
Dy garu yw ffynu ffydd;  
Dy ofni mae pob defnydd.  
Da seiliaist, dewis aelwyd,  
Daeaf a nef, dëyrn wyt!  
Y byd y sydd fel y bêl,  
Wedi'i osod yn isel:  
Bu Baradwys glwys ei glog  
Ar y ddaear werdd ddiog;  
Mae ffurfafen uwch ben byd,  
Man uchel, lle mae'n hiechyd.  
O Iesu, tyfu mae'f tau  
O ryddid yr holl raddau!  
Iesu gwydr, tywysog ydwyd,  
A drych y cyflawnder wyd;  
Uchel wyd, uwchlaw adar  
Uchelion, gwylltion a gwar!  
Pob man yr wyt, yn mhob nerth,  
Eithr uffern fawr ei thrafferth;  
Nâd, dy bridwerth ni pherthyn,

Oen i Dduw, nâd yno ddyn!  
Tyn fi i'r wysi ar fer,  
O lindag y creulonder;  
Derbyn, Duw gwyn, fi o gaeth,  
Yn nwyllaw fy unoliaeth!  
Gwae a fo, wrth gan ei fedd,  
Yn aros mewn anwiredd,  
Dan ei faich y dyn a fo,  
Annedwydd yn penydio!  
Nid baich ond baich o bechod,  
Yn y farn gwae ddyn ei fod!  
Cyffesed berchen bedydd,  
Cyffesol difarwol fydd.  
Wylaw ydd wyf, olew oedd dda,  
Wylofus oedd chwedl Efa.  
Da fuost ti, difost Ion,  
Duw Iesu, wrth dy weision,  
Abram, Isag, a Siagob,  
Gwŷr grym, Siosasym a Siob.  
Na âd roi pan fo druan,  
Euaidd dy was yn y tân;  
Moes i'm *siarir* ar fy nghartref,  
Moes d ynghedfen o nen nef!"

Tuag ugain neu ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach na hyn yr oedd *Sion Cent*, am yr hwn y crybwyllasom o'r blaen, yn ei flodau. Y gŵr hwn oedd frodor, fel y tybir, o Gwm tridwr, yn mhlwyf Eglwys Eilian, yn Morganwg. Wedi myned trwy gwrs addysg gofynol i'r perwyl hyny, efe a dderbyniodd urddiad offeiriadol, a bu dros ryw ysbaidd yn offeiriad Castell Newydd yn Emlyn; ond cyn hir, efe a gafodd eglwys plwyf Cent, neu *Kentchester*, yn swydd Henffordd, lle y bu yn gwasanaethu hyd ddydd ei farwolaeth. Noddid ef gan y *Scudamores*, ceraint Owain Glyndwr, lle hefyd y tybir fod yr hen wron, pan fu farw. Yr oedd y gŵr hwn yn un tra dysgedig ac ystyrbwyll, megys y prawf ei draethodau Lladinaidd ar Ddwyfyddiaeth, cystal a'i gywyddau Cymreig. Yr oedd yntau hefyd yn un o'r Lolardiaid; ac mor fawr oedd cynddaredd y myneich ato o'r herwydd, fel y taenasant chwedlau am dano ar hyd y wlad, ei fod yn ddewin, yn gyfarwydd ar y gelfyddyd ddu, ac mewn cyngrair â'r diafol; ac mor ddiwyd y buant wrth y gorchwyl o enllibio y gŵr duwiol hwn, fel y mae enw *Sion Cent* yn cael ei ddefnyddio gan y mamau, yn swyddi deheuol Cymru, fel enw ellyll, er bwrw ofn ar eu plant, hyd y dydd hwn: ond y gwir yw, mai dyn dysgedig a duwiol ydoedd, a gŵr yn byw yn mhell o flaen ei oes.† Er enghraifft o'i syniadau crefyddol, dodaf yma un o'i gywyddau.

\* Gwel Hanes y Ffydd, gan Charles Edwards, t.d. 409.

† Gwel y Bedyddwyr, am Chwefror, 1849.

## CYWYDD O WAITH Y DR. SION CENT.

"Afraid i ddyn, derfyn dig,  
 Ei rwyf na'i ormod rhyfig.  
 Ni wŷr Cristion aflonydd  
 Ba hyd yn y byd y bydd!  
 Heddyw'n arglwydd rhwydd rhan—  
 Heno mewn bedd ei hnanan.  
 Gwae ydyw ei bwyt gwedi bo  
 Unawr dan y pridd yno!  
 Ni wisg sidan am dano  
 Yn llan, ond graian a gro;  
 Ni wŷl serch, ac ni pherchir;  
 Ni phryn un tyddyn o'n tir;  
 Nid â'n ol; ni chais olud,  
 Na gwin mwy'n y genau mud;  
 Ni wŷl obry gwedy gwin,  
 Un o'i ddeiliaid i'w ddilin;  
 Ni ddwg ran a fo gwanaach;  
 Ni ddaw i'r wledd o'r bedd bach;  
 Ni ddwg dyddyn y dyn dall,  
 Nac un erw'r gwan arall.  
 Gwedi'i farw nid â carwr  
 Gydag ef—ond gwadu y gŵr;  
 Nac aur, na mud, trud troedfedd,  
 Na mab iach bellach y bedd!  
 Nid â'i wraig hoyw-saig hy',  
 Fain wŷl, o fewn ei wely!  
 Ni ddyd gordderch o ferch fain  
 Ei llaw dan gwr y llain.  
 Maddeu weithred, a meddwl  
 Ymwrthod â'r pechod pwl.  
 Och! pa'm y gwnai ddau ddirmyg,  
 Ddiddawn ddyd, ei Dduw yn ddig!  
 Edrych yn fynych, f'eiinioes,  
 Ar Grist, a'i gorph ar y groes;  
 A'i fron a'i galon i gyd,  
 A'i wiwdlws gorph yn waedlyd;  
 A'i draed gwrdd mewn diriaid gur,  
 A'i ddwyllaw'n llawn o ddolur!  
 O'th odlau, ddyd, a'th adlam,  
 O'th gas y catas y cam;  
 O'th rwyf dithau, a'th ryfig,  
 A wnai Dduw beunydd yn ddig.  
 Diffrwyth oedd, fel dwy Affrig,  
 I ddyn ei dda, a'i Dduw'n ddig!  
 Anair i ddyn na ro ei dda,  
 A byred fydd ei bara.—  
 Mae Salmon, nid oedd annoeth  
 O ddyg? P'le mae Sibli ddoeth?  
 Mae tal a gwallt Absalon,  
 Deg aur bryd? dwg e' ger bron.  
 Mae Samson, galon y gwŷr  
 Nerthol? P'le mae nai Arthyr? \*  
 Oes a edwyn, syw ydych,  
 Bridd y rhai'n rhagor pridd y rhych?

Afraid i lawen hyfryd  
 Rfygy, er benthgy y byd;  
 Ni phery'r byd hoff ir-wych  
 Mwy na'i drem yn min y drych!  
 A fyno nef i'w enaid,  
 O feiau byth ef a baid.  
 Dir i'r bobl, dewr yw'r bwbach,  
 Ryngu bodd i'r angau bach.  
 A faco'r ddaear aren,  
 A lwnc oll, fel afanc hen.  
 Nid oes nerth ar a berthyn,  
 Onid Duw, i enaid dyn.  
 Iesu wrth gyfraith Moesen,  
 Awr brid, a'n prynodd ar bren.  
 Pruddlawn ydyw'r corph priddlyd,  
 Pregeth oer o beth yw'r byd.  
 Hoywddyn aur, heddyw'n arwain  
 Caeau, † modrwyau, a main;  
 Gostwng gwan yn ei eiste',  
 Dan ei law, a dwyn ei le;  
 Cynnull arian dau cannyn,  
 Cyrchu'r da, carcharu'r dyn;  
 Ni roddai'n ddiau ddwyfuw  
 O'i dda ddoe, er ddae o Dduw;  
 Heddyw mewn pridd yn ddiddim,  
 O'i dda nid oes ganddo ddim!  
 A'i ddewrgorph i'r ddaeargist,  
 A'i drwyn yn rhy laswyn drist;  
 A'i bais o goed, hoed hydryn; ‡  
 A'i gryns heb lewys, heb lun;  
 A'i ddir hynt i'r ddaear hon,  
 A'i ddeufrach ar ei ddwyfron;  
 A'i wraig o'r winllan adail,  
 Gywir iawn, yn gwra'r ail;  
 A'i neuadd fawr falch galchbryd  
 Yn arch bach, yn eiriach byd;  
 A da'r wlad yn ei adaw.  
 I lawr, heb ddim yn ei law;  
 Llyffiant hyll—tywyll yw'r tŷ,  
 Os gwyl—fydd ei was gwely!  
 Yna ni bydd i'r enaid  
 Na phlâs, nac urddas, na phlaidd.  
 Am y trosedd a wneddwy,  
 A'r camoedd, tra f'oedd yn fyw,  
 Rhyhwyr fydd yn y dydd du,  
 Od wyf ŵr, i 'difarau!  
 Astyd fyd ystad fydwawl  
 A ddwg lawer dyn i ddiawl.  
 Medd Sant Bernad gredadyn—  
 Ni fyn Duw fod nef ond un.  
 Dyn na chymmered, er da,  
 (Nwvf aml) ei nef yma,  
 Rhag colli, medd meistri mawl,  
 Drwy gudd, y nef dragwyddawl.

\* *Modred*, yr hwn oedd un o'r rhyfelwyr dewraf.

† Gwddf-dlysau.

‡ Goffd trwm.

Dig yw'r cedyrn clo-chwyrn clyd,  
 Dig iawn nas dyoganwyd;  
 Dig yw'r gwyr llen a'r menaich,  
 Dygn fyth, dwyn digon o faich.  
 Truth noeth, traethu a wnaethost  
 Na chânt hwy (gwn achwyn tost,  
 Groen du ffâl, graen yw dy ffed)  
 Gaerydd nef yn agored i  
 Meddir, o bydd cywir cant,  
 I minau hwy a'i mynant;  
 Arian glew, ar a glywais.  
 Orddwy drud, ar Ddaw a drais.  
 Pob un heb na llun na lles,  
 Ofer iawn, â'i feiriones;  
 Ei weddi, miloedd wiwdda  
 I wlad nef, medd ef, ydd â!  
 Minau, o'm dysg a'm anian,  
 A thrwy liw'r Ygrythyr Lan,  
 Mi a gaf, gwiraf gwarant,  
 O'i gwrs ef, y goreu sant,  
 Na lewas, gwiwras gwerin,  
 Dewi ar ei weddi win;  
 Na gwisgo crys gwiw ysgawn,  
 Na phais, ond yr unbais rawn;  
 Na llanw, yn ddisalw ei sain,  
 Y pot—na rhuthro putain.  
 Gwn gyfraith, euriaith arab,

Y Tad, eiriau mad, a'r Mab,  
 I nifer hwy nef ar hynt  
 Am ei gael, ymogleynt!  
 Astud wyf, ystod ofwy,  
 Ystyru twyll, ystyriant hwy,  
 Nad o wledau, gau gymen,  
 Ydd air i nef, ddiœer nen!  
 Rhyfalch ydynt yn rhwyfaw  
 Rhyfig—Duw yn ddig a ddaw;  
 Pan ddel dydd y farn arnam,  
 A chosb am bechod a cham;  
 Am yr hawl, a'r mawr hwyliaw  
 Y farn ddig ar frys a ddaw;  
 Pob plaid dyfynir, pob blin,  
 Gar ei fron, y gwir Frenin.  
 Ni ddichon brawd gwr tlawdgall,  
 Na'r llaw ymddiried i'r llall;  
 Er pwyth byd, er peth bydawl,  
 Er da ydd â'r dyn i ddiawl!  
 Profais i, megys prif-fardd,  
 Pawb o'r byd, wr hyfryd, hardd;  
 Profais yn rhwydd arglwyddi—  
 Tlawd, cyfoethawg, rywiawg ri';  
 Nid cywir gradd o naddyn'—  
 Nid oes iawn gyfaill ond Un!  
 Er neb ni thores Iesu  
 Ei lan gyfeillach â'i lu."

Dyna i chwi ddernyn gan Gymro, yn cynnwys duchan mor rymus ar lygredigaeth y myneich a'r offeiriad Pabaidd a dim a gynnrychodd ysgrifell ei gyfoeswyr enwog, *Jerome a Huss*, yn Bohemia; ac fel hyn yr oedd yn deilwng i'w gyfrif yn un o ser boreuol y Diwygiad Protestanaidd yn Nghymru. Ond fe debygid i ffurfafen grefyddol Cymru dywyllu eil-waith ar ol hyn, cyn ei myned hi yn ddydd: canys y Pab, a'i gynnrych-ydd ffyddlawn—archesgob Caergaint—wrth ganfod parodrydd y Cymry i dderbyn syniadau y Loleraid, a ymroisant i benu i'r esgobaethau Cymreig ddynion y gallent ymddiried ynddynt y gwnelet eu goreu i gadw y wlad yn y tywyllwch; a difuddid o'u bywiolaethau offeiriad neu esgobion a feiddient ddyrchafu eu llef yn erbyn geugred a llygredigaeth yr eglwys. Er hyn y beirdd nid ymatalient; ond fel hen brophwydi Duw yn Israel gynt, a gair Duw yn llosgi yn eu hesgyrn, nes cyfodi o honynt eu llef, i fynegi i'r bobl eu camweddau; felly yr oedd ysbrydoliaeth yr awen yn disgyn ar ambell i fardd goleuedig, fel nas gallent ymatal; ac irad y cwyntent o herwydd cyflwr eu cenedl. Y maes y tystiolaethau hyn mor ddyddorawl, fel nas gallaf ymatal rhag rhoddi engraffit neu ddwy eto o'u cyfansoddiadau.

*Iorwerth Fynglwyd*, bardd o Forganwg, a ganai tua diwedd y bymtheg-fed ganrif, sef 1460, fel y canlyn:—

"Er rhoi niwl ar yr hen iaith,  
 O'r un niwl yr awn eilwaith.  
 Swyddau gwlad sy heddyw gloff,  
 A swydd eglwys sydd ogloff.  
 Gair yr euog ar gywir,  
 Ag arian ef a'i gyr yn wir.  
 Aeth anwir ar fath enyd,  
 Aeth y gwir ar feth i gyd."



A thrachefn, tua'r flwyddyn 1500, canai *Tudur Aled*, bardd o Wunedd, ar yr un testyn, sef ffyniant anwiredd yn y tir, gan ddywedyd—

“Nid dim gan y to yma,  
Trwy lid oll, ond treulio da.  
Nid er da'r un y doi'r draul,  
Ond drwg weithred rhyw gythraul.  
Car yn cyhuddo arall—  
Hawdd i'r llaw gyhuddo'r llall.  
Nithied bawb, noethed heb wir,  
Fai ei gilydd, ef a goelir.  
Gair a drig ar y drygwaith,  
A'i liwio i'r gwaed lawer gwaith.  
Goreu yw dal y gair du  
A niweidiol, na'i wadu.  
Atal saeth, nid dilys hyn,  
A ÷l unwaith o lynyn.”

Ac oddeutu yr un cyfnod—sef tua diwedd y hymnthegef, neu ddechreu yr unfed ganrif ar bymtheg—yr oedd bardd enwog y dyfynais ran o'i waith eisoes (gwel tudal. 136)—sef *Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Fychan*, o'r Llanerch, yn swydd Ddinbach—yn gwrthdystio mor eglur ac eofn yn erbyn cyfeiliornadau eglwys Rhufain ag y gwrthdystiai *Luther a Chalfin* yn mhen deng mlynedd ar hugain ar ol hyny.

Yr ydym wedi bod eisoes yn lled faith gyda gwawriad egwyddorion y Diwygiad yn Nghymru; ond hyderaf, gan mai dyna brif destyn y Ddarlith hon, na chyfrifir y dyfyniadau blaenorol yn ffin gan neb meddylgar. Awn rhagom.—Yn fuan wedi i Luther a'i gydlafurwyr ddechreu daddbygu lluman y Gwrthdystiad ar y cyfandir, darfu i'r gwiwglodus *William Tyndale*—gŵr a anwyd ar gyffiniau Cymru, os nad oedd efe yn Gymro ei hnnan,\* ac a ddygasid i fynu yn holl ddysgeidiaeth Rhydychain a Chaergrawnt—ymroddi i gyfieithu yr Ysgrthyrau i'r iaith Seisnig; a chan y gwyddai yn dda nas beiddiai gynnyg argraffu ei gyfieithiad yn Lloegr y pryd hyny, efe a aeth drosodd i'r Almaen; ac wedi ymweled â Luther, yn nghyda diwygwyr enwog ereill yn y gwledydd hyny, efe a ymsefydlodd yn nhref Antwerp, tra fu yn argraffu y Testament Newydd; ac yn mhen ychydig flyneddoedd, efe a symudodd i Hamburg, lle yr argraffodd efe yn gyntaf bum llyfr Moses, ac yna yr *holl Feibl*, yn yr iaith Saesneg. Efe a gyn-northwyid yn y gwaith pwysig hwn gan *Miles Coverdale a John Rogers*. Mae yn debyg i'r eiliadon cyntaf o'r Testament Newydd yn Saes'neg, gan Tyndal, gael eu dwyn drosodd i'r deyrnas hon, tua'r flwyddyn 1526; ond *Wolsey*, yr hwn oedd y pryd hyny mewn rhwysg tywysogaidd, a anfonodd gyhoeddiad allan, yn cynnwys gwaharddiad pendant i neb i'w dderbyn na'i ddarllen. Ac yn fuan wedi hyny, *Tonstal*, esgob Llundain, a *Syr Thomas More*, Arglwydd Ganghellwr y deyrnas, a anfonasant ac a brynasant yr holl argraffiad; ac wedi cael y llyfrau drosodd, fe'u llosgwyd ar groes St. Paul. Ond ychydig a feddylient hwy, wrth ymlawenhau yn y goelcerth hono, bod yr arian a dalent am y Testament Newydd, yn galluogi y Diwygwyr i fyned rhagddynt gydag argraffiad cyflawn o'r Ysgrthyrau, yr hwn a ddygid allan yn mhen ychydig flyneddau; ac er i'r cyfieithydd llafurus ddyoddef merthyrddod yn fuan yn wobr ei lafur, fe wreiddiodd yr hâd a hauwyd ganddo yn ddwfn, ac enillodd y llyfr a gyfieithwyd ganddo ddylanwad cyffredinol ar drigolion y gwledydd a arferent yr iaith Saes'neg.

\* Haerir yn y “Gwladgarwr,” ond nis gwn ar ba seiliau, mai Cymro ganedig o swydd Ffifnt ydoedd efe.—Cyfrol iv., tudal. 1.

Yn gymmaint ag nad oedd Harri VIII. yn ddiwygiwr egwyddorol, yr oedd amgylchiadau y Diwygiad a'r diwygwyr yn dra chyfnewidiol yn ystod ei deyrnasiad ef—weithiau byddai *Cranmer* a'i gyd-ddiwygwyr yn ei ffafr, a'r pryd hyny rhoddid anogaeth freninol allan i gyfieithu, argraffu, a lledaenu yr Ysgrhythrau drwy y wlad; a gwelid bod y Diwygiad megys yn cael ei gludo ar frig y don gref, i uchelfanau yr ynys; ond yn y man, y mae *Anne Boleyn* yn colli y ffafr freninol, ac yn fuan wedi hyn ei bywyd, a'r Diwygiad Protestanaidd megys pe buasai yn gwyleiddio, ac yn encilio yn ol. Ond pa fodd bynag, fe ddarfu i Harri, yn ei eiddigedd dros ei arbenicter eglwysig, cystal a than ddylanwad ei drachwant i arian, ymroddi i lwyr ddarostwng yr holl fynachlogydd trwy Gymru a Lloegr, a dystrywio yr holl ddelwau, pa le bynag y ceid gafael arnynt. Ar y neges yma, anfonid *Ellis Price* a *John ab Rhys* i ymweled â mynachlogydd Cymru; a dywedir fod y boneddwr cyntaf a enwid, pan ar ei ymweliad trwy esgobaeth Llanelwy, wedi cael yn Llandderfel, yn lled agos i'r Bala, ddelw fawr, a elwid "Derfel Gadarn," yr hon a berchid yn fawr gan lawer yn Ngwynedd; a'r dirprwywr, Mr. Price, a ddywedai fod rhwng pump a a chwe' chant o bererinion wedi dyfod i addoli ger bron y ddelw hon, yn ystod yr amser y ba efe yn y fan lle yr oedd hi. Rhai o'r pererinion hyn a ddygent eu hanifeiliaid, ereill eu harian, i'w hoffymu i "Derfel Gadarn," neu fel y gelwir hi mewn rhai o'r hen ysgrifau, "Darfel Gatheren," gan fod y lluaus yn credu bod gan y ddelw hon ddylanwad i gadw o uffern bawb a offrynt iddi yn haelionus ac ewyllysgar. Ac yn esgobaeth Ty Ddewi yr oedd delw Mair, a chanwyll gwyr fawr yn ei llaw, yn cael parch addoladwy gan y lluaus, y rhai oeddynt dra choelgrefyddol.\*

Yn y flwyddyn 1538, wedi gorphen yr argraffiad diwygiedig o'r Ysgrhythrau, rhoddod y brenin orchymyn allan i'w holl ddeiliaid ei ddarllen yn ddiarswyd; ac i'r offeriaid osod un Beibl yn mhob eglwys, ac agno y bobl i'w ddarllen, fel gwir air Duw. Gorchymynai hefyd, bod i bregeth gael gael ei thraddodi yn iaith y bobl, yn mhob eglwys, *uwaiith bob tri mis* o leiaf, fel y gallai y bobl glywed yr Ysgrhythrau yn cael eu hagogyd.

Pan dynwyd y mynachdai i lawr, penwyd cyflog blyneddawl i'r abadau dros eu hoes; a gosodid y myneich mewn bywioliaethau eglwysig can gynted ag y delent yn weigion; a thrwy hyny cafodd llawer o'r plwyfoliaethau eu perchenogi gan elynion gwaethaf y Diwygiad.†

Yn y flwyddyn 1546, cyhoeddwyd y llyfr argraffedig cyntaf yn yr iaith Gymraeg, debygid, ar draul un *Syr John Price*, fel y tybir. Cynnwysai y llyfr hwn y Wyddor Gymraeg, Dyddylyfr, Credo yr Apostolion, y Deg Gorchymyn, a rhai pethau ereill.‡ Ac yn y flwyddyn ganlynol i hon, debygid, yr argraffodd *Mr. William Salisbury*, o swydd Ddimbach, Eirlyfr Saesneg a Chymraeg, er cynnorthwyo ei gydwladwyr i ddeall yr iaith Saesneg. Yn y flwyddyn 1551, darfu iddo gyhoeddi llyfr Cymraeg drahefn, yn cynnwys cynnifer o ranau o'r Ysgrhythrau ag a ddarllenid yn yr eglwys ar amser cymmun ar y Sabboth, ac ar ddyddiau gwyl, trwy y flwyddyn.§ Yr oedd hyn yn ychydig gynnorthwy i'r Cymry; ond nid oedd yr Ysgrhythrau wedi eu hargraffu yn Gymraeg eto; ac yr oedd y bobl gyffredin yn suddedig yn nhywyllwch caddugawl Pabyddiaeth, a'r cyffredin o'r offeriaid nid oeddynt nemawr amgen eto. *Syr William Herbert*, yr hwn a gafodd ei wneuthur y pryd hyn yn iarll Penfro, *Syr John Price*, a *Mr. William Salisbury*, oeddynt fwyaf ymdrechgar er goleuo eu cydgenedl y pryd hwn.

\* Gwel Hanes Crefydd yn Nghymru, t.d. 409.

† Burnet's History of the Reformation, p. 190. Neal's History of the Puritans, vol. i.

‡ Williams of Defynog's Catalogue. § Ibid.

Yr oedd hyn yn nheyrnasiad y brenin ieuanc, Iorwerth VI., yr hwn a olynodd Harri VIII. yn y llywodraeth, yn y flwyddyn 1547. Yn yspaid byr teyrnasiad y penadur ieuanc duwiol hwn, cafodd egwyddorion y Diwygiad gefnogaeth gysson a grymus; ond y mae yn amlwg bod llawer o'r offeiriaid a'r esgobion wedi cymmyryd arnynt gefnogi y Diwygiad, er rhyngw bodd i'r rhai oeddynt mewn awdurdod, er nad oeddynt amgen na Phabyddion; canys can gynted ag yr esgynodd Mari i'r orsedd, ac yr amlygodd ei hunan yn benderfynol i bleidio Pabyddiaeth, trodd lluaws o honynt yn wrthwynebwy'r atgasaf i'r Diwygiad, ac yn erlidwyr creulonaf ar y diwygwyr cydwybodol: o'r cyfryw yr oedd *Anthony Kitchen*, esgob Llandaf; *Arthur Bulkeley*, esgob Bangor; a *Robert Parfew*, esgob Llan-elwy. Yr unig esgob Cymreig a ddaliodd ei broffes yn ddianwadal, ac felly a brofai ei fod yn feddiannol ar egwyddor a chydwybod yn ngweinyddiad ei swydd, oedd y duwiol *Robert Farrar*, esgob Ty Ddewi; ac o'r herwydd, efe a gollodd ei esgobaeth yn fuan; a Phabydd ffyrnig, o'r enw *Dr. Henry Morgan*, a benodwyd i'r esgobaeth yn ei le—yr hwn, yn mhen ychydig fisoedd a ddyfarnai y duwiol *Robert Farrar* i gael ei rwymo â chadwyn wrth bawl, ger croes Caerfyrddin, a'i losgi yno; a dywedir i un o'r enw *Richard Jones* fyned ato, ychydig cyn iddo ddyoddef, gan ddywedyd fod yn ddrwg ganddo ei fod i ddyoddef y fath farwolaeth boenus; i'r hyn yr atebai yr esgob duwiol, "Os gwelwch fi yn syflyd unwaith yn y tân, na chredwch fy athrawiaeth;" ac felly, pan oedd y tân yn llosgi oddiamgylch iddo, a'i ddwyllaw yn syrthio oddiwrtho, efe a safai yn amyneddgar, heb syflyd dim, nes i un *Richard Gravel* ei daro ar ei ben â ffon, fel y cwympodd efe i lawr.

Pysgodwr o dref Caerdydd, o'r enw *Rawlins White*, wedi clywed y diwygwyr yn pregethu, yn amser Harri VIII., a gafodd ei argyhoeddi o gyfeillornadau Pabyddiaeth; a phan argraffwyd y Beibl yn yr iaith Saes'neg, gan ei fod yn analluog i ddarllen ei hunan, efe a anfonodd ei fab bach i'r ysgol i ddysgu darllen, fel y gallai ddarllen y llyfr dwyfol iddo; a thrwy hynny efe a ddaeth yn hyddysg iawn yn yr Ysgrhythrau yn fuan, ac yn alluog i hyfforddi ereill yn egwyddorion y gwirionedd. Yn nheyrnasiad Iorwerth VI., efe a gymmerai ei fab i'w ganlyn i dai ei gyfeillion a'i gymmydogion, i ddarllen yr Ysgrhythrau iddynt; ac yntau a'u heglurai iddynt, gan eu hyfforddi yn y pethau a berthynent i'w heddwch. Ond yn nheyrnasiad y frenines Mari, cafodd yntau ei ddedfrydu, gan *Anthony Kitchen*, esgob Llandaf—yr hwn, dan y teyrnasiad blaenorol, a gymmerai arno ei fod yn Brotestant—i gael ei losgi yn Nghaerdydd, ar ddiwrnod marchnad. Wedi ei ddyfod at y pawl lle yr oedd i ddyoddef, disgynodd ar ei liniau, a chan gusanu y ddaear, dywedai, "Dae'r i'r ddaear, pridd i'r pridd; tydi yw fy mam, ac i ti y dychwelaf." A thra yr oedd y tân yn ei losgi, llefai â llef uchel, "O Arglwydd, derbyn fy enaid."

Un o'r enw *William Nichol* hefyd, o Hwlfordd, yn swydd Benfro, a gafodd ei losgi yn y dref hono, ychydig amser cyn marwolaeth Mari, am iddo ddywedyd rhywbeth yn erbyn Pabyddiaeth. Cawn enwau ereill o'n cyd-genedl a ddyoddefasant ferthyrddod dros y gwirionedd yn Lloegr, yn ystod y teyrnasiad yma—megys, *John ab Rhys*, *Phylip Humphrey*, *John David*, *Henry David*, *Robert Samuel*, *John Floyd*, *John Gwynne*, *James Harris*, *Robert Williams*, ac ereill.\*

Ond, o drugaredd, fe fyrhawyd dyddiau terfysgled y frenines greulawn a dallbleidiol *Mari*; ac wedi teyrnasu o honi bum' mlynedd a phedwar mis, hi a fu farw—wedi peri llosgi, yn yr yspaid byr hwnw, ddau cant a

\* Fox's Martyrs.

phedwar ungain a phedwar o rai rhagorol y ddaear, yn unig am eu hymlyniad wrth air Duw, ac wrth dystiolaeth Iesu Grist, heblaw achlysurow marwolaeth llawer ereill mewn carcharau.\*

Oddiwrth y crybwyllion uchod, gwelwn nad llawer a ferthyrwyd yn Nghymru; ac nid rhyfedd, gan fod y bobl heb Feibl, bod yr ystarianau heb ferthyrion; a chan fod yr esgobion a'r offeiriaid yn Babyddion rhith-Brotestanaidd, nid rhyfedd mai ychydig a ffinai egwyddorion Protestanaeth yn mysg y bobl.

Yn nechreuad teyrnasiad y frenines *Elisabeth*, gwnaed y ddeddf am unfurfiad mewn pethau crefyddol, ac achlysurowdd hyny ymraniad galarus yn myddin y diwygwyr Protestanaidd—y naill ran o honynt a elwid yn "Ddiwygwyr y Llys;" a'r lleill, na chytunent â gosodiadau y ddeddf grybwyllledig, a elwid "Puritaniaid." Yn wir, yr oedd hadau yr ymraniad yma wedi dechreu blaguro yn mysg y cynulleidfaoedd Seisnig a ffurfiad ar y cyfandir, gan y Protestaniaid a ffoisent o Loegr rhag cynddaredd y frenines Mari; y naill blaid o ba rai a fynai gyflawni addoliad dwyfol yn unol â'r trefniadau awdurdodedig gan Iorwerth VI.; a'r llall a fynai yn hytrach y dull arferedig gan y diwygwyr Swisaidd, am eu bod yn ei gyfrif yn fwy syml, ac unol âg arferiad y brif eglwys yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth: a phan y caniatawyd iddynt ddechweled i'w gwlad yn hunain, ar esgyniad Elisabeth i'r orsedd, dygasant eu dadl o barth y defodau perthynol i addoliad crefyddol i'w canlyn.

Pan gadarnhawyd deddf yr Unfurfiad, cwynai y Puritaniaid yn dost, bod cynnifer o ddefodau ofergoelus Pabyddiaeth—y rhai y gobeithient hwy am danynt eu bod wedi eu difodi trwy y Diwygiad Protestanaidd—yn cael eu hadnewyddu trwy y ddeddf hon, a u harddodi ar y wlad, megys iau drom, trwy awdurdod freninol; a dadleuent nas gallent hwy gydfurfio o herwydd cydwbybod. Er hyny, yr oedd y Puritaniaid eu hunain yn rhandedig yn eu gwrthwynebiad i'r cyfansoddiad newydd yma ar yr eglwys: y naill a ofnyent am lwyr ddfodiad yr hyn oll a wnaed tuag at sefydlu crefydd wladol, a bod i eglwys Loegr gael ei ffurfio yn hollol ar gynllun eglwys Geneva; ond y blaid dyneraf, a mwyaf cymmedrol, ni cheisient ychwaneg na rhyddid cydwbybod i gynnal addoliad crefyddol fel y barnent hwy eu hunain ei fod yn fwyaf cysson â gair Duw. Ond yr oedd y frenines yn fwy hoff o Babyddiaeth nag o Buritaniaeth; yn unig nis gallai oddef y meddwl am i neb gael ei gydnabod yn ben yr eglwys yn ei theyrnas, ond ei hunan: ac am hyny, caniatat i elynion Puritaniaeth arfer pob dichell, a defnyddio llymder y gyfraith i'w llethu; ac felly sefydlwyd yn Mrydain ffurf o grefydd a ysgarai yr eglwys Seisnig oddiwrth eglwys Rhufain ar un llaw, ac oddiwrth yr eglwysi diwygiedig mor llwyr ar y llaw arall; ac ar yr un pryd, gosodwyd sail i ymrysonau ac ymbleidiaeth barhaus yn y deyrnas hon. Yr oedd y Puritaniaid yn ffeiddio y gwisgoedd a arferai offeiriaid eglwys Loegr wrth gyflawni gwasanaeth dwyfol, gan edrych arnynt yn unig fel llumanau Annghryst; ac edrychent ar y ffurf o lywodraeth eglwysig yn hollol annghysson â'r ffurf a sefydlasid gan Iesu Grist, deddfwr mawr a phen yr eglwys; a dadleuent fod holl weinidogion yr efengyl yn berffaith gyfartal mewn gradd ac awdurdod, yn ol y gosodiad dwyfol. Ond ni ddygid y ddadl hon yn mlaen gyda rhyw chwerwder dirfawr, tra y boddlonai yr esgobion Seisnig i ddadleu hawl ddynol yn unig i'w hurddas a'u hawdurdod yn yr eglwys a'r wladwriaeth. Eithr yn y flwyddyn 1588, enynwyd y ddadl gyda thanbeidrwydd dau ddyblyg, trwy i *Bancroft*—yr hwn a fu wedi hyny yn archesgob Caergaint—feiddio

\* Burnet, b. iii, p. 329.

haeru fod yr urdd o esgobion uwchlaw y corph o henuriaid, nid trwy unrhyw osodiad dynol, ond trwy drefniant dwyfol neillduol. Yr oedd y Puritaniaid yn ffleiddio y sefydliadau treulfawr a rhwysgfwyr oeddynt gyssylltiedig â'r eglwysi cadeiriol; ymment ddifodi yr archddiaconiaid, deoniaid, a chynonau, a'r amryfal swyddwyr ereill a gynnelid ar eu tiroedd a'u cyllidau. Anghyimmeradwyent y dull rhwysgfwyr yn yr hwn y cyflawnid gwasanaeth crefyddol yn yr eglwysi hyny, a chyfrifent ddefnyddiad offerynau cerdd yn ngwasanaeth Duw yn neillduol o anghyfadfas. Cwynent hefyd o herwydd arosodiad gormesol defodau a seremoniau arnynt, trwy orchymyn y frenines, ac awdurdod ei chynghor; yn mysg y rhai hyn yr oedd y dyddiau gwylion a gedwid er anrhydedd y saint, defnyddio arwydd y groes yn y bedydd, penodi tadau a mamau bedydd fel meichiafon dros addysg plant y byddai eu rhieni yn fyw, yr athrawiaeth o barth bedydd llewysol, penlinio wrth dderbyn y swper sanctaidd, ymgyrnu wrth enw yr Iesu, cadarnhad plant trwy arddodiaid dwylaw esgobol, darllen llyfrau yr Apocrypha fel rhan o wasanaeth crefyddol, gorfodogiad pob gweinidog i arfer ffurf osodedig o weddiau, &c. Ond er eu cwynion, gomeddai y frenines a'i chyngor neshau dim at eu golygiadau, nac ysgafniau dim ar eu gorthymder; am hyny hwy a farnasant mai eu dyledswydd oedd doddi eu hachos ger bron y byd; ac felly cyhoeddasant lyfr o hunanddiffyniad am eu gwaith yn ymwrthod â gwisgoedd defodau a gyfrifent hwy yn Babaid, er eu bod drwy hyny yn anufuddhau i orchymyn y frenines. Arweiniodd hyn i ddadl boethlyd trwy y wasg; ond buan y deallodd eglwyswyr y llys fod y bobl yn gyffredin yn amlygu gradd heliaeth o gydymdeimlad â'r Puritaniaid, ac yn prynu eu llyfrau gyda'r awyddfryd mwyaf. Am hyny, gwnaed cyfraith ar frys i rwystro i bawb, o hyny allan, gyhoeddi llyfrau yn erbyn gorchymyn y frenines; ac y byddai i bwy bynag a argraffai y cyfryw llyfrau gael ei garcharu dri mis, colli ei holl llyfrau, a'i ddihawlio ei hunan i arfer y gelyfddydd o argraffu byth ar ol hyny.\*

Erbyn hyn, pan welodd y gweinidogion Puritanaidd nad oedd un gobaith i gael y diwygiad a farnent yn angenrheidiol yn yr eglwys sefydledig, ac nas goddefid hwythau i gyflawni gwasanaeth crefyddol yn yr addoldai a elwid yn eglwysi, heb arfer yd y gwisgoedd, a chydfurfio â'r defodau Pabaid—a hwythau yn deall ar yr un pryd fod llawes o'r bobl gyffredin o'r un farn a hwy am y pethau hyn—wedi ymgyngori llawer â'r Arglwydd mewn diffrifwch mawr, a chydymgyngori â'u gilydd, hwy a ddaethant i'r penderfyniad o ymneillduo oddiwrth eglwys Loegr, a chyfarfod fel y caffent gyfleustra, mewn tai neillduol, a lleoedd ereill, i addoli Duw mewn dull didramgwydd i oleuni eu cydwytodau, a gwneyd ymarferiad o ddull dysymle eglwys Genefa yn unig yn eu gwasanaeth crefyddol. Ac fel hyn y bu cadwraeth defodau Pabaid yn eglwys Loegr yn achos dechreuad ymneillduaeth oddiwrthi yn y wlad hon; a hyny, hyd heddyw, yw yr achos penaf o ffinder a pherygl eglwys Loegr.

Yn y flwyddyn 1567 y cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'r Testament Newydd yn yr iaith Gymraeg, yn llyfr pedwarplyg, wedi ei ddosbarthu yn llyfrau a phennodau, fel y mae yn bresenol; ond nid oedd yr holl bennodau wedi eu rhanu yn adnodau. *Dr. Richard Davies*, esgob Ty Ddewi, mab Dafydd ab Goronwy, o sir Ddinbach, a gyfieithodd ail lythyr Paul at Timotheus, y llythyr at yr Hebraeid, llythyr Iago yr apostol, yn nghyda dau lythyr Pedr; *Thomas Huet*, cantor Ty Ddewi, a gyfieithodd lyfr y Datguddiad; a *Mr. William Salisbury*, o'r Cae du, Llansanan, a

\* Neal's Hist. Purit., vol. i., p. 153.

gyfieithodd y rhanau ereill. Yn fuan ar ol hyn, argraffodd Mr. Salisbury y Llyfr Gweddî Gyffredin yn yr iaith Gymraeg; ac yn yr un flwyddyn, darfu i un *Gruffudd Roberts* gyhoeddi Gramadeg Cymraeg, yr hwn a argraffwyd yn Milan.

Nid argraffwyd yr holl Feibl yn Gymraeg hyd y flwyddyn 1588, er fod gorchymyn seneddol i hyn wedi ei roddi allan ers chwe' mlynedd ar hugain. Gellid meddwl mai un achos o'r cyfryw hir oediad, oedd bod llawer o'r esgobion a'r pendefigion Seisnig yn dra awyddus am i'r Cymry oll ddsygu Saesonaeg; ac er mwyn peri i'r bobl anghofio eu hen iaith hybarch eu hunain, ni oddefent i'r Ysgrythyrau gael eu cyfieithu iddi. Heblaw hyny, yr oedd yr esgob Richard Davies, a'i gyfaill llafurus, Mr. William Salisbury—y rhai unwaith a fwriadent ddwyn yr holl Feibl allan yn iaith eu cenedl—yn awr wedi myned i orphwyso oddiwrth eu llafur; ac nid hawdd oedd cael neb o gyffelyb feddwl a chymmwysderau, i orphen y gwaith pwysig a ddechreuasid ganddynt hwy. Ond o'r diwedd, gŵr o'r enw *William Morgan*, offeiriad Llanrhaiadr, yn sir Ddinbach, a gymmerodd y gorchwyl gwiw mewn llaw; nid drwy orchymyn y llywodraeth na'r esgobion, debygid—ond ar ddymuniad ambell ŵr duwiol o'i gydnabod, ac mewn gwir awydd i ogoneddu Duw, ac i leshau ei gydgenedl. Cyfarfu âg amryw wrthwynebiadau cryfion, a defnyddiau digalonid; ond efe a nerthwyd o wendid, nes cyflawni y gwaith pwysig, yn y flwyddyn 1588. Ac fel hyn y cawsom y

"Llyfr dechreu goreu i gyd,—llyfr diwedd,  
Llafar Duw i'r hollfyd;  
Llyfr nef a daear hefyd,  
Llyfr ar ben holl lyfrau'r byd."—R. D.

## DARLITH XI.

DANIEL ROWLANDS, A'R DIWYGIAD METHODISTAIDD.

Yn y Ddarlith flaenorol, dangoswyd mai cyndynrwydd y frenines *Elizabeth* ac eglwyswyr y llys, rhag cydsynio â cheisiadau rhesymol y Puritaniaid, i ddirymu y defodau Pabaidd o'r eglwys sefydledig, a yrodd y gwyr duwiol hyn i ffurfio cynulleidfaeodd ymneillduol yn y deyrnas hon. Y gynnulleidia ymneillduol gyntaf a ffurfiwyd yn mhentref *Wandsworth*, yn agos i Lundain, a hon oedd yr eglwys Bresbyteriaidd gyntaf yn Lloegr; ac er i awyddogion y frenines gael gorchymyn i osod deddf yr Unffurfiad mewn grym, cyfodwyd llauws o gynnulleidfaeodd ereill ar yr un cynllun, mewn amryw o'r gwledydd cymmydogaethol yn fuan; a'r trais creulawn a arferid gan y frenines a'r esgobion ar y Puritaniaid, er ceisio eu cadw o fewn rhwymyn yr eglwys sefydledig, a'u gyrodd yn llawer pellach oddi-

wrthi, fel y dechreuai rhai o honynt ddadleu yn lled eofn na allai eglwys Loegr fod yn wir eglwys i Grist, na'r gweinidogion a arosent ynddi fod yn weinidogion cymhwys i Testament Newydd. Y dosbarth yma o'r Puritaniaid a elwid *Brouniaid*, oddiwrth un o'r enw Robert Brown, offeiriad yn esgobaeth Norwich, o dylwyth anrhydeddus, ac wedi ei ddwyn i fynu yn Nghaergrawnt. Yr oedd y gŵr hwn yn bregethwr tanllyd, meddiannol ar ddoniau poblogaidd, ac efe a elai oddiamgylch gan bregethu yn erbyn esgobion taleithiol, defodau, llysoedd eglwysig, a phethau ereill a farnai efe eu bod yn feius yn eglwys Loegr. Ond er i'r gŵr hwn ddyoddef llawer o erledigaethau—a bod, fel y dywedir, mewn deg ar hugain o garcharau, rhai o honynt mor dywyll nas gallai weled ei law ynddynt gan cael dydd; ac o'r diwedd, iddo ef a'i gynnulleidfa orfod ffoi i Holand, er cael llonydd i wasanaethu Duw yn ol y drefn a gyfrifent hwy yn ysgrythyrol—efe a adawodd ei gynnulleidfa mewn amser, ac a ddychwelodd i Loegr; ac wedi datgan ei ymwrthodiad â'i egwyddorion blaenorol o ymneilldunaeth, efe a gafodd bersonoliaeth yn swydd Northampton, lle yr ymroddodd i fyw buchedd segur, heb gyflawni dyledswyddau y fwioliaeth; ond yn derbyn y cyllid fel math o dalwobr am fod yn ddystaw. Ond ei ganlynywyr a gynnyddasant, ac a ddaethant yn blaid luosawg, gan sefydlu yr enwad crefyddol a adwaenir yn bresenol wrth yr enw "Annibynwyr," neu "Gynnulleidfaolion." Y llafurwyr enwocaf yn eu plith, wedi i Brown gefnu arnynt, oeddynt *Henry Barrowe* a *John Greenwood*, y rhai oeddynt wŷr o ddygiad da i fynu, ac o ymarweddiad diargyhoedd; a dyoddefasant lawer o herwydd cydwybod. Tra yr oeddynt hwy, a lluaws mawr o'u brodyr, mewn cadwynau yn ngharcharau Llundain a'r cymmydogaethau—wedi i'r esgobion fethu dwyn yn cyhuddiad yn eu herbyn, yn amgen na'u bod yn ymneillduo oddiwrth yr eglwys sefydledig, i addoli Duw yn ol y ffurf yr oeddynt hwy yn barnu yn gydwobodol fod gair Duw yn eu cyfarwyddo—hwy a anfonasant yr apeliad canlynol ar arglwyddi y cyngor, yr hwn sydd deilwng o'i goffhau, am ei fod yn rhoddi golwg gryno i ni ar eu hegwyddorion, ac ar ysbryd erledigaethus yr esgobion rhith Brotestanaidd, yn nyddiau y frenines Elisabeth; fel hyn y dywedent—

"Yr ydym yn canfod fod y glwysbenaeth Seisnig yn annghytunol â gosodiad Crist, ac yn ddeilliedig oddiwrth yr Annghrist, gan ei fod yn unrhyw ag a adawodd y Pab yn y wlad hon; i'r hwn ni feiddwn ymstowng. Yr ydym yn canfod yn mhellach, fod Duw wedi gorchymyn i baw a gredant yr efengyl, rodio yn y ffydd sanctaidd, a'r drefn hono a ordeiniodd efe yn ei eglwys; gan hyny, gyda pharchedig ofn i'w enw yr ymgysylltasom ni, gan ddarostwng ein heneidiau a'n cyrph i'r cyfreithiau a'r ordinhadau *hyny*; a chan ddewis i ni ein hunain y cyfryw weinyddiaeth o fugail, athraw, henuriaid, a diaconiaid, ag a roddes Crist i'w eglwys ar y ddaear, hyd ddiwedd y byd, gan obeithio am gynnorthwy addawedig ei ras, pan yn dysgwyl wrtho ef, er gwarafuniad dynion, neu yr hyn oll a ellir ei yneyd i ni gan ddynion. Yr ydym yn barod i brofi bod ein trefn eglwysig yn awdurdodedig gan air Duw, yn ganiataol gan gyfreithiau ei mawrhydi, ac nad ydyw mewn un modd yn niweidiol i'w hawdurdod benadurol—ac i wrthbrofi ffurf addoliad a llywodraeth yr eglwys wladol trwy y cyfryw dystiolaethau ysgrythyrol ag nas gall ein gwrthwynebwywr ei gwrthsefyll; gan ardstio, os methwn ni yn hyny, nid yn unig y byddwn yn foddolawn i oddef y cyfryw gosb deilwng ag a raddoder arnom, ond hefyd y bydd i ni gydfurfio rhagllaw, oni ddymchwelwn ni ein gwrthwynebwywr; ni ddwyedwn, os bydd i'n gwrthwynebwywr ein gorfodi ni."

Yr oedd hwn yn feiddiad eofn, ac yn brawf o argyhoeddiad trwyadl a didwyldder yr ymneillduwyr erlidiedig hyn: ond barnai eu gelynyon fod

yn haws eu carcharu a'u herlid na'u gwrthbrofi. Ac yn mlaen yn yr un apeliad nyhi a'u cawn yn cwyno o herwydd y driniaeth greulawn a dderbyniant, yn unig ar gyfrif eu crefydd:—

“Y mae esgobion y wlad hon wedi ymddwyn tuag atom, ers amser maith, yn y modd mwyaf niweidiol, annghyfreithlawn, a dirdreisiol, trwy y gallu mawr a'r awdurdod uchel a gawsant i'w dwylaw, ac a drawsfeddiannasant goruwch pob llysoedd gwladol, barnwyr, cyfreithiau, a breintebau, perthynol i'r tir hwn; gan erlid a charcharu ein cyrph tlodion wrth eu hewyllys, heb unrhyw brawf, rhyddhad, na machniaeth; a hyd yma heb ddwyn i'n herbyn yn uniongyrchol unrhyw achwyniad o gyfeillioniad na chamwedd. A rhai o honom a gadwasant yn awr dros fwy na phum' mlynedd yn ngharchar; ie, pedwar o'r rhai hyn bum' mlynedd mewn carchar cauedig, dan driniaeth druenus—megys *Henry Barrowe* a *John Greenwood*, y rhai ydynt yn awr yn y *Fleet*, ac ereill a fwriasant i'w carchar yn *Newgate*, yn llwythog â chymmaint o haiarn ag a allant ddwyn; ereill i garcharau ffaidd a pheryglus, yn mysg y dynion mwyaf ysgeler a gwaradwyddus; ac y mae yn alarus adrodd gynnifer o'r rhai diniwed hyn a drengasant o fewn y pum' mlynedd yma—o ba rai yr oedd amryw yn weddwon oedranus, hen wŷr, gwyrifon ieuainc, &c.; lle y mae cynnifer ag a adawyd yn fyw gan yr haint yn gorwedd mewn cyflwr truenus, ac yn debyg o ddilyn eu cymdeithion, oni cheir gwaredigaeth yn fuan iddynt. Ereill o honom a ffonodiwyd yn ddirugaredd yn ngharchar *Bridewell*, ac a fwrwyd i le a elwir yno *Little Ease*, am omedd dyfod i wasanaeth eu capel; yn yr hwn garchar y terfynodd llawer eu heimioes. Ond ni oddefwyd i ymchwiliad na rheithbrawf gael ei gynnal ar un o'n cymdeithion a garcharwyd fel hyn, ac a fuant feirw yn eu carchar, fel y mae yn ofynol dan y cyfryw amgylchiadau, yn ol y gyfraith.

Eu dull o'n herlyn a'n dal hefyd nid yw yn llai creulawn a dirdreisiol. Eu rhingyllau a'u cynnorthwywyr a dorant i'n tai bob amser ar y nos, gan chwilota ac yspeilio wrth eu pleser, dan y cochl o chwilio am lyfrau bradwrus ac annghyfreithlawn. Llusgasant y gwŷr ganol nos o'u gwelyau, oddiwrth eu gwragedd, gan eu llurgunio i garchar. Ychydig yn ol, darfu i'w rhingyllau, yn enw y frenines, fyned i mewn i dŷ dinesydd gonest yn *Ludgate-hill*, yn y nos; yn mha le, wedi cael eu gwata o chwalu a chwilio pob lle, cistiau, &c. yn y ty, y daliasant ddau o'n gweinidogion—sef *Mr. Francis Johnson* a *John Greenwood*—heb unrhyw awdurdod, gan arwain y ddau, rhwng un a dau o'r gloch yn y bore, â chleddyfau a ffyn, i *Wood Street*, a rhwymo *Mr. Boys*, gŵr y ty, i'w cadw fel ei garcharorion hyd dranoeth, pan y darfu i'r archesgob, a doctoriaid ereill oeddynt gydag ef, eu traddodi i garcharau dyogel—dau i'r *Clink*, a'r trydydd i'r *Fleet*, lle y maent yn aros yn awr mewn cyfyngder. Ar ol hyny, hwy a garcharasant *Thomas Settle*, *Daniel Studley*, a *Nicholas Lane*, y rhai a gymmasant i ddalfa ar ddydd yr Arglwydd yn ein cynulleidfa, ac a gausant i fyuu yn y Porthdy; ac y maent yn erlyn ereill o'n cyfeillion yn barhaus, fel nad oes ddyogelwch iddynt yn un man.

Gan hyny yr ydym yn atolygu yn ostyngedig, yn enw Duw, a'n penadur y frenines, ar i ni gael amddiffyniad y cyfreithiau, a breinlen gyffredinol y deyrnas—sef, bod i ni gael rhoddi machniaeth, hyd oni phrofer ni yn ol y gyfraith yn euog o ryw gamwedd yn haeddu rhwymau. Gwystlwn i'ch anrhydedd, *ein fydd tuag at Dduw, o'n gwarogaeth i'w Mawrhydi*, na bydd i ni gyflawni dim anheilwng o efengyl Crist, neu o duedd i aflonyddu heddwch cyffredinol ac iawndrefn y tir; ac y byddwn yn barod i ddyfod yn mlaen ar unrhyw rybudd rhesymol o eiddo eich arglwyddiaethau. O! na adewch i ni drengu cyn prawf na barn, yn enwedig tra yr ydym yn



llefain arnoch am hyny. Pa fodd bynag, yr ydym yma yn cymmeryd Arglwydd nefoedd a daear, a'i angelion, yn nghyd a'ch cydwybodau chwi eich hunain, a phawb yn mhob oes, at y rhai y delo ein deisyfiad hwn, yn dystion ein bod ni yma wedi rhoddi hysbysiad cywir i'ch arglwyddiaethau o'n cyflwr a'n triniaeth, a'n bod gyda phob gostyngeddruydd wedi cynng ein hachos i brawf Cristionogol."\*

Onid er mor syml, gostyngedig, a difrifol, ydoedd yr apeliad uchod, ni feiddiai neu ni fynai y cyfrin-gynghor ymyraeth i geisio ffwyno trahauser annghyfiawn yr esgobion didrugaredd.

Dyna y fath driniaeth a gafodd tadau ymneillduwyr presenol Prydain, oddiar ddwyllaw *Parker* a *Whitgift*; ac os gellir caглу dim oddiwirth yr enllibau anwiredus ar Ymneillduwyr ac Ymneillduaeth, a fwrir allan yn ddiror drwy ryw gyhoeddiadau, y rhai ydynt warth i'r wasg Gymreig, felly y trinesiad ninau gan y rhai a fawr folant yr esgobion uchod, pe y beiddiasent. Ond tra yn dywedyd hynyna am ryw ddosbarth o offeiriad Cymru yn y dyddiau presenol, y mae yn dda genyf allu chwanegu, fod llawer o offeiriad duwiol a chydwybodol yn y dywysogaeth, y rhai a ymfodiant yn llawn cymmaint, os nad mwy na neb o'r Ymneillduwyr, o herwydd ffyniant y fath ysbyrd rhagfarnllyd yn eu heglwys.

Yr oedd gwir grefydd yn dra isel yn Nghymru tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg; a gellir barnu nad oedd y rhan fwyaf o'r offeiriad oeddynt yn yr eglwys yn amgen na Phabyddion wedi cydffurfio, er mwyn cadw meddiant o'u bywioliaethau; a'r canlyniad oedd, bod y wlad yn gyffredin yn cael ei hesgeuluso, a'r trigolion yn suddedig mewn tywyllwch ac anystyriaeth. Ond cyn diwedd y ganrif grybwyllledig, cyfododd gŵr ieuanc, brodor o swydd Frycheiniog, o'r enw *John Penri*, yr hwn a dderbyniasai ei ddysgidiaeth ar y cyntaf yn Nghaergrawnt, ac wedi hyny yn Rhydychain, lle y'i graddiwyd yn A. C. yn y flwyddyn 1586. Hwn, wedi derbyn urddau cyssegredig, a ddaeth yn bregethwr poblogaidd yn y ddwy brifysgol; ac wedi ystyried cyflwr amddifad ei gydgenedl, efe a ddychwelodd i Gymru, lle yr ymroddodd i bregethu yr efengyl ar hyd a lled y wlad; ac yn un o'i lythyrâu efe a ddywedai, mai efe oedd y cyntaf a bregethasai yr efengyl yn gyhoeddus yn mysge ei gydwladywyr er amser y Diwygiad, gan ymdrechu i hau yr had da yn mynyddoedd llymion Cymru. Ac yn mhellach, efe a ddywaid, "Ymlawenheais ger bron Duw yn aml, fel y gŵyr efe, am i mi gael y ffafwr o'm geni a byw dan ei mawrhydi, er dwyn y gwaith hwn yn mlaen. Yn y dymuniad dwys a feddwn am weled yr efengyl yn cael ei phlanu yn fy ngwlad enedigol, a'r llygredigaethau gwrthwyneb yn cael eu symud, gallwn yn hawdd—megys yr addefais yn fy ysgrifeniadau cyhoeddedig, fel *Hegetorides*, y *Thrasiad*—annghofio fy mherygl fy hunan, ond byth nid annghofiaf fy rhwymau i fod yn ffyddlawn i'm penadur. A chan fy mod yn awr i orphen fy nyddiau cyn cyrhaedd banner fy mlynnyddoedd yn ol cwrn natur, yr ydwyf yn gadael llwyddiant fy llafur i'r cyfryw o'm cydwladywyr ag a gyfodir gan yr Arglwydd ar fy ol, er cwblhau y gwaith hwnw o alw fy ngwlad i wybodaeth o efengyl Crist, yr hwn a ddechreuwyd genyf."

Yn y flwyddyn 1588, efe a gyhoeddodd ddau lyfr; un a elwid "Golwg ar y diffygiadau cyhoeddus a'r annhreffn sydd yn Nghymru, yn nghyda deisyfiad gostyngedig ar y senedd i'w diwygio." Yn y llyfr hwn efe a ddangosai, nid yn unig yr angenrheidrwydd am ddiwygiad crefyddol yn mhllith y Cymry, ond hefyd y ffordd i ddwyn hyny oddiamgylch. Y llyfr

\* *Stype's Annals*, iv., 62. *Neal*, vol. i., p. 365, 366. *Price's Hist. of Noncon.* vol. i., p. 417, 418.

arall ydoedd "Anogaeth i lywodraethwyr a phobl Cymru i ymdrechu yn ddifrifol am gael pregethiad yr efengyl yn eu plith,"\*

Dan greulonderau didrugaredd yr esgobion yn erbyn y rhai na chydffurient â hwy yn gyflawn, darfu i amryw ddynion talentawg ymfurfio yn gymdeithas er cyhoeddi traethodau llymion, a gogan-gerddi chwerron, yn erbyn penaethiaid yr eglwys sefydledig. Argreffid a chyhoeddwyd y rhai hyn yn y modd dirgelaf; ond yr arddull eofn a arferid, a'r dynoethiad diarbed a wnelid ganddynt o annghyfiawnder a chreulonderau ysgeler yr esgobion, a'u gwnelai yn boblogaidd dros ben; ac yr oedd rhai o'r ysgrifeniadau, yn enwedig y rhai a gyhoeddwyd yn enw "*Martin Marprelate*," yn enill dylanwad mawr ar y wlad, ac mor annyoddefol i'r esgobion a'u cefnogwyr, fel y rhoddid pob egni ar waith i roddi attalfa arnynt. Argreffid hwy ar wasg annghyhoedd; ond daeth iarll Derby i ddeall ei bod yn rhywle yn nghymydogeaeth Manchester, a elwid *Newton Lane*, ac efe a'i hatfaelodd. Barnai y cyfrin-gynghor mai Penri oedd eu hawdwr; ac felly anfonwyd gwarant allan, wedi ei llaw-nodi gan yr archesgob, ac amryw ereill o arglwyddi o cynghor, i ddal Mr. Penri, fel gelyn y llywodraeth; ond efe a ffordd i'r Alban, lle y bu yn llechu am oddeutu tair blynedd. Nid oes un prawf ar gael fod gan Penri un llaw yn nghyfansoddiad na lledaeniad y traethodau dywededig. Efe ei hunan a'i gwadai; a *John Udal*, Puritan dysgedig a duwiol, yr hwn a fu farw yn ngharchar yn y flwyddyn 1592, a roddai y dystiolaeth ddiameuol a ganlyn o'i blaid, yn ei arholiad o flaen y dirprwywyr, yn 1590. *Arglwydd Buckhurst*, un o'r dirprwywyr, a'i holai fel y canlyn:—

*Buckhurst*. Ond mynegwch i mi, atolwg, onid adwaenoch chwi Penri?

*Udal*. Adwaen, fy arglwydd.

*Buckhurst*. Ac oni wyddoch chwi mai efe yw Martin?

*Udal*. Na wn, yn ddiau; ac nid wyf yn meddwl mai efe yw Martin.

*Buckhurst*. Pa beth yw eich rheswm?

*Udal*. Hyn, fy arglwydd. Pan y daeth allan gyntaf, wedi deall o hono ef fod rhyw rai yn rhoddi y gair ar led y bernid mai efe oedd yr awdwr, efe a ysgrifennodd lythyr at gyfaill yn Llundain, yn yr hwn y gwadai hyny, gan arfer y cyfryw ymadroddion ag a'i profai yn ddyeithr iddo, ac heb un llaw ynddo.†

Eto, er nad oedd Penri yn awdwr yr un o'r cyhoeddiadau tramgwyddus hyn, ni faddeuodd yr esgobion byth iddo am ei lafur effeithiol yn mhlaidd y diwygiad crefyddol a arswydent hwy mor fawr; ac yn fuan ar ol ei ddychweliad o'r Alban, efe a ddaliwyd, trwy offerynoliaeth ficer Stepney, yn Ebrill, 1593; a gwnaeth yr archesgob *Whitgift* bob ymdrech i brysuero ei ddihenyddiad. Fel hyn, heb unrhyw sail deg o achwyniad yn ei erbyn, efe a ddyfarnwyd i farw fel drwgweithredwr, ar y 25ain o Fai; ac yn mhen pedwar diwrnod, rhoddwyd y ddedryd mewn gweithrediad. Ac felly, er gwarth i deyrnasiad Elisabeth, ac i brif eglwyswyr yr oes hono, rhoddwyd y Cymro dysgedig, duwiol, a llafurus yma i farwolæth, tua phump o'r gloch prydawn y 29ain o Fai, 1523, yn y 34ain flwyddyn o'i oedran, gan adael gweddwa a phedwar o blant amddifaid ar ei ol.

Bu y frenines farw yn mhen tua deng mlynedd ar ol hyn, ac ni bu yr archesgob *Whitgift* fyw nemawr ar ei hol. Ond dilynwyd y frenines ar yr orsedd wladwriaethol gan *Iago y Cyntaf*, yr hwn yn yr Alban a gymmerai arno fod yn henaduriaethwr egwyddorol, ac yn bleidiwr gwresog i'r Puritaniaid yn Lloegr. Ond wedi newid ei orsedd, newidiodd ei egwyddor; ac erbyn newid ei wlad, gwelodd yn gyfleus iddo erlid a drwgliwio y Puri-

\* Hanes Crefydd yn Nghymru, t.d. 476, 477. † Price's Hist. vol. i., pp. 380, 381.

taniaid, gan ei fod wedi meddwi ar win gweniaith a molawd yr eglwyswyr; ac olynwyd Whitgift ar yr orsedd archesgobawl gan *Bancroft*, yr hwn a fu yn llawn mor greulawn at yr ymneillduwyr a'i ragflaenor. Ond yr oedd *Dr. Anthony Rudd* yn esgob yn Nhy Ddewi yn y blyneddau hyn, a dywedir am dano ei fod yn wr o dduwioldeb a challineb mawr, ac yn cael ei gyfrif yn bregethwr da; pa fodd bynag, mae yn amlwg ei fod yn fwy rhyddgarol na'r cyffredin o esgobion yr oes hono. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1614, ac a olynwyd yn yr esgobaeth gan *Dr. Milbourne*.

Y gweinidogion annghydfurfiol Protestanaidd cyntaf a ganfyddwn ni yn Nghymru, ar ol dihenyddiad Penri, oeddynt *Mr. Wroth*, offeiriad Llanfaches, yn swydd Fynwy, a *Mr. William Erbury*, ficer St. Mari, Caerdydd; y rhai, gan eu bod yn ystyried y chwareuyddiaethau ar ddydd yr Arglwydd yn annghyfreithlon, a omeddasant ddarllen y cyhoeddiad a roisai y brenin *Carl y Cyntaf* allan o'u plaid, trwy anogaeth yr archesgob Laud; a phan glybu yr archesgob hyny, efe a wysiodd y ddaau offeiriad duwioi i ymddangos yn ei lys ef yn Llundain, fel y rhoddent gyfrif am eu hanufuddod i orchymyn y brenin; a'r canlyniad fu, eu troi allan o'u heglwysi. Wedi i *Mr. Wroth* gael ei droi allan o eglwys Llanfaches, efe a gynnullodd ychydig o bobl y plwyf a ofnont yr Arglwydd, ac a'u ffurfiodd yn eglwys ymneillduol, tua'r flwyddyn 1639, lle y bu yn llafurus iawn, a chanddo yn gynnorthwyr yn y weinidogaeth un o'r enw *William Thomas*, yr hwn hefyd a ddygasid i fynu yn Rhydychain. *William Erbury*, wedi ei fwrw allan o'r eglwys, a aeth oddiamgylch i bregethu, pa le bynag y caffai ddrws agored, gan dreulio y rhan fwyaf o'i amser yn Lloegr. Efe a ysgrifenoedd amryw lyfrau; a dywedir ei fod yn feddiannol ar feddwl hynod o ymofyngar. Efe hefyd a fu yn offerynol i gychwyn achos yr ymneillduwyr yn Nghaerdydd. Yr oedd *Mr. Walter Cradoc* o swydd Fynwy, yr hwn a ddygasid i fynu yn Rhydychain, yn guraid i *Mr. Erbury* yn Nghaerdydd, ar yr adeg grybwylledig; ac oblegyd iddo yntau wrthod darllen Llyfr y Chwareuyddiaethau, cafodd ei ddi-fuddio o'i fraint-lythyr gan esgob Llandaf. Ar hyny, efe a dramwyodd drwy siroedd Brycheiniog, Maesyfed, a Threfaldwyn, gan bregethu yr efengyl pa le bynag y caffai gyfleustra; a chyn nemawr o amser efe a ymsefydlodd yn Ngwrecsam, lle yr aeth yn dra phoblogaidd yn fuan; canys yr oedd efe yn bregethwr bywiog a grymus iawn, a'r Arglwydd a fendithiodd ei weinidogaeth i ddychwelwyl llawer i ffydd Crist; ac yn mysg ereill o seliau ei weinidogaeth yr oedd *Vavassor Powel*, yr hwn oedd yn offeiriad ieuanc dysgedig, ond a enillwyd i ffydd yr efengyl wrth wrandaw ar *Walter Cradoc* yn pregethu, ar un o'i deithiau trwy siroedd Maesyfed a Threfaldwyn, ac a drodd allan yn llafurwr mor enwog yn ngwinllan Crist ei hunan wedi hyny. Un arall a ddychwelwyd dan weinidogaeth *Cradoc*, ac a fu yn dra enwog wedi hyny, oedd *Morgan Llwyd* o Gynfael, awdwr "Llyfr y Tri Aderyn"—"Gair o'r Gair"—"Yr Ymroddiad"—"Gwaedd yn Nghymru," &c.; ac olynwyd *Cradoc* fel gweinidog yr eglwys ymneillduol yn Ngwrecsam.

Yr oedd y brenin *Carl I.* wedi priodi *Henrietta Maria*, merch *Harri IV.* o Ffrainc, yr hon oedd yn Babyddes benboeth; a thrwy ei dylanwad hi cryfheid breichiau y Pabyddion yn fawr yn ein teyrnas; a'r brenin ei hunan, yn nghyda'r *Dr. Laud*—yr hwn a drosglywyddid o *Dy Ddewi* i esgobaeth Llundain—a wnelent eu goreu i gefnogi y blaid fwyaf anefengylaidd yn yr eglwys, ac i lethu y Puritaniaid, y rhai yr oedd eu calonau yn llosgi gan awydd am ledaeniad egwyddorion gwir grefydd yn y wlad; ac yn yspaid y deuddeng mlynedd y bu *Laud* yn ei rwysg, enclliodd tua phedair mil o'r Puritaniaid i'r America—yr hyn yn ddiau a fu yn golled fawr i'r deyrnas hon, ond yn enill i'r rhan hwnw o'r byd.

O'r diwedd, aeth traha Carl yn ormod i'r wlad allu ei oddef yn hwy; ac heb i ni ymdroi yma i olrhain hanes y Chwyldroad, gallwn ddywedyd fod crefydd efengylaidd wedi cael ei hanadl yn fwy rhydd dan lywodraeth Cromwel nag y cawsai ar unrhyw gyfnod o'r blaen. Ond yr oedd y tymhor yn rhy fyr i nemawr o effeithiau hyny gyrrhaedd Cymru; eto, rhaid addef fod mwy wedi ei wneyd dan raglafiaeth Cromwel, er efengyleiddio y dywysogaeth, na'r cyfan a wnelaid o'r blaen er toriad gwawr y Diwygiad Protestanaidd, yn amser Harri VIII. Fel hyn y dywedir am sefyllfa Cymru y pryd hyn:—"Yr oedd preswylwyr tywysogaeth Cymru yn amddifaid o foddion gwybodaeth Gristionogol; ychydig a ddeallid ar yr iaith; eu hoffeiriad oeddynt anwybodus a diog, fel mai prin y caent bregeth o un chwarter i'r flwyddyn i'r llall. Ni feddai y bobl na Beiblaau na holwyddoregau; ac nid oedd digon o gynnalïaeth i'r sawl oeddynt alluog i'w dysgu. Y senedd, wedi cymmeryd achos y bobl hyn i ystyriaeth, a gadarnhaodd weithred, Chwef. 22, 1649, er cefnogi lleadaeniad a phregethiad yr efengyl yn Nghymru, er diswyddo gweinidogion ac ysgolfeistri anfucheddol," &c.\* Ychydig o flyneddoedd cyn hyn y cyflwynasid cofeb i'r brenin a'r senedd, gan rai o garedigion ein cenedl—sef, yn y flwyddyn 1641—yn yr hon y cwyndid nad oedd gynnifer o bregethwyr cydwobodol a chysson yn Nghymru ac oedd yno o siroedd; a bod y rhai hyn dan atalfa ac erledigaeth; ac nad oedd ond ychydig iawn yn arddel crefydd.†

Mewn canlyniad i'r penderfyniad uchod o eiddo y senedd, y dirprwywyr a fwriasant allan luaws o offeiriad anfucheddol a dilafur o eglwysi Deheudir a Gogledd Cymru; a dywaid *Vassor Powel* am danynt, nad adwaenai efe gymmaint ag un o'r rhai a fwriesid allan yn Ngogledd Cymru yn feddiannol ar rym duwioldeb, nag ond ychydig o honnynt ei rhith; ond bod y rhan fwyaf o honnynt yn rhai oeddynt yn rhy ddiog i bregethu, neu yn ysgeler yn eu moesau. Y cyllid a ddisgynai fel hyn i ddwylaw y dirprwywyr a drefnid fel y canlyn:—Rhenid y degwm yn chwe' rhan—un ran a roddid i'r gweinidogion a fwriesid allan; yr ail ran i weinidogion ereill, sefydlog a theithiol; y drydedd i gynnal ysgolion, ar amryw o ba rai yr oedd rhai o'r offeiriad gwrthodedig a'u meibion yn athrawon; y bedwaredd i weddwon a phlant amddifaid yr offeiriad diswyddedig; y bummed i is-swyddogion perthynol i'r ddirprwyaeth; a'r chweched i weddwon gweinidogion.‡ Nis gallai y dirprwywyr gael digon o bregethwyr duwiol a dysgedig, galluog i bregethu yn yr iaith Gymraeg, i ddiwallu angen y dywysogaeth; ond gwnaethant eu goreu tuag at hyny—gan benodi chwech o wŷr wedi derbyn eu dysgeidiaeth yn y prifysgolion, i fod yn bregethwyr teithiol yn mhob sir, i'r rhai y rhoddid can'punt yn y flwyddyn at eu cynnalïaeth; ac heblaw hyny, hwy a anfonasant allan ddeuddeg ar hugain o weinidogion—pedwar ar hugain o ba rai oeddynt wŷr o'r prif ysgolion, a rhai o'r lleill yn ysgoleigion da. Ond er fod y rhai hyn yn ddyinion hynod o lafurus, yr oedd y gweithwyr yn rhy anaml o lawer i'r maes; ac am hyny, detholwyd amryw o léygion talentog, aelodau o'r eglwysi, i deithio i'r ardaloedd cymmydogaethol, er cyfarwyddo a chynnorthwyo y bobl i gynnal moddion crefyddol. Caniateid i'r rhai hyn o £17 i £20 y flwyddyn am eu llafur; ac yr oedd amryw o honnynt yn aelodau o eglwysi Llanfaches a Mynyddislwyn. Dywedir fod y pregethwyr effro hyn wedi bod yn fendithiol i ddychwelyd llawer at yr Arglwydd mewn amryw barthau; ac i grynhoi cynulleidfaoedd crefyddol lluosawg mewn amryfal fanau drwy wlad.

\* Neal's Hist. of the Puritans, vol. iv., p. 14. † Ib. p. 104. ‡ Ib. p. 106, 106.

Onid bu farw Cromwel yn fuan; ac wedi i Carl II. ddyfod i'r orsedd, efe a adferodd esgobyddiaeth i fod yn grefydd sefydledig y wlad yn fuan; ac ni fuwyd yn hir cyn dechreu ymddial ar yr ymneillduwyr—yn enwedig yr Anymddibynwyr a'r Bedyddwyr—gan erlid a charcharu y gwyr goreu a feddnt. Cafodd Mr. Vavassor Powel, ac amryw o'i gyfeillion o Ogledd Cymru, eu carcharu yn yr Amwythig, heb un achos cyfreithlawn; a'r milwyr, heb ddangos un awdurdod, a ysepeiliasant dai llawer o honynt; a chyfyngid mewn llawer ffordd ar yr ymneillduwyr. Ond ar y 19eg o Fai, yn y flwyddyn 1662, daeth deddf yr Unffurfiad i weithrediad, yr hon a fu yn achos i *ddwy fil* o weinidogion teilwng a chydwybodol ymadael âg Eglwys Loegr, ac ymuno â'r gwahanol gynulleidfaoedd o ymneillduwyr oeddynt yn y wlad. Mewn canlyniad i'r gyfraith hon, cafodd llawer o gynulleidfaoedd lluosog eu gadael heb weinidogion, a llawer o leoedd eu gorchuddio gan dywyllwch ac anfoesoldeb; ac er fod llawer o'r gweinidogion anghydfurfiol hyn yn foddlon i bregethu am ddim, ni chaniateid iddynt na phregethu na chadw ysgol yn un man.

Fie'n cymhellir i wneyd cydmariaeth yma, rhwng ymddygiad *Cromwel* a'r eiddo *Carl*; neu y Puritaniaid mewn awdurdod a'r Uchel-Eglwyswyr mewn awdurdod.—Pan dan lywodraeth Cromwel y bwrld lluasw allan o'r eglwysi, yn unig ar gyfrif eu hannerghymwysder i weini y swydd y cymmerent arnynt eu gwelni, gofaliid am arlwy iddynt hwy a'u teuluoedd ddefnydd cynnaluaeth rhag angen: ond pan dan lywodraeth Carl II. a'r Uchel-Eglwyswyr, y bwriwyd dwy fil o weinidogion o'r eglwysi, yn unig am eu bod yn gydwybodol o bwysigrwydd eu swydd, a difrifwch eu cyfrifoldeb, cawsant hwy a'u teuluoedd eu gadael i ddyoddef angen a newyn, o ran unrhyw arlwy wladol a wnelid iddynt: ie, cafodd rhai o honynt eu carcharu am hyd yn nod gynnal addoliad teuluaidd yn nhai rhai o'u cyfeillion a'u noddnt yn eu cyfyngder. Diau, "tosturi y drygionus sydd greulawn."

Dywedir fod tua deugain o gynulleidfaoedd ymneillduol yn Nghymru y pryd hyn—rhai o honynt ar y gyfundrefn Henaduriaethol, a rhai ar yr un Gynulleidfaol; ac o'r rhai hyn drachefn, yr oedd rhai dros fedydd babanod, ac ereill dros fedydd oedolion crediniol yn unig. Ond y mae yn amlwg fod corph y genedl naill ai yn hollol ddisylw o grefydd, neu ynte yn boddloni eu hunain âg ymlyniad wrth ffurfiau yr eglwys sefydledig, lle nid oedd ond ychydig iawn o fywyd crefyddol yn ffyni, yn enwedig wedi i ddeddf yr Unffurfiad ddyfod i weithrediad. Yr oedd ein cenedl yn soddedig mewn dygn anwybodaeth, a moddion gwybodaeth y parch. *Gruffudd Jones*, offeiriad duwiol Llanddowror, yn agos i ddechreu y ddeunawfed ganrif, fel yr ymroddes i wneyd ei oreu er gwellhau cyflwr ei gydgenedl yn y peth hwn; ac felly, arferai ddarllen y gwasanaeth yn fisol, ar y dydd Sadwrn o flaen "Sabbath y Cymmwn," yn yr amrywiol eglwysi a weinyddid ganddo. Ac wedi darllen yr ail lith, gofynai a oedd neb yn y gynulleidfa wedi dal sylw ar ryw adnod yn y rhanau a ddarllenasai efe o'r Ysgrythyrr; ac wedi i ryw rai enwi rhyw adnod neu adnodau, efe a'u heglurai mewn modd pwylllog a deallus. Yna holai y sawl a fyddai yn dyfod o newydd i'r ordinhad, am waith Ysbryd Duw ar

\* Dywaid Mr. *Whitelocke*, yr hwn oedd yn byw yn yr amserau hynny, fod yn y flwyddyn 1653, gant a haner o bregethwyr da yn nhair sir ar ddeg Cymru, y rhan fwyaf o ba rai a bregethent dair neu bedair gwaith yn yr wythnos; bod ysgolfeistyr yn mhob tref farchnad, &c."—*Neal's Hist.*, vol. iv., p. 106.

eu heneidiau, am eu gwybodaeth o athrawiaethau yr efengyl, ac am eu bucheddau. Byddai o bymtheg i ddeg ar hugain o'r cyfryw ymgyswyr yn cael eu holi yn gyhoeddus ganddo ar yr achlysuron hyny, er adeiladaeth neillduol i'r gwrandawyr. Ond yr oedd y rhai oeddnt mewn mwyaſ o angen am y cyfryw addysgiaeth—yn enwedig oedolion, y rhai na chwastent nemawr o fanteision dysgeidiaeth yn eu hieuenctyd—yn gwrthod ymostwng i dderbyn ei addysg; am hyny, ei enaid haelfrydig a ddyfeistodd y ffordd ganlynol i gael gweini addysg i'r tlodion. Efe a gyhoeddodd o'r eglwys, ar y Sabbath, y byddai bara yn cael ei ranu ar y Sadyrnau misol hyn, wedi ei brynu â'r arian a dderbynid ar weinyddiad y cymmun; a phan ddalent i dderbyn y bara, efe a'u gosodai yn rhes, a gofyuai iddynt ychydig gwestiynau hawddaf eu hateb, mewn dull tra serchog a thyner, rhag eu tarfu. Anogai hwynt hefyd i ddysgu adnod neu ddwy o'r Beibl, i'w hadrodd yn gyhoeddus yn yr eglwys, cyn derbyn y bara; a bu hyn yn gymhelliad effeithiol i lawer ddysgu gair yr Arglwydd yn y plwyfa hyny.

Gwedi cael prawf boddlonawl o fuddioldeb y dull hwn o geisio gweini addysg i'w blwyfolion, efe a osododd i fynu *un ysgol* yn gyntaf, i'w chynnal â'r arian a dderbynid ar weinyddiad y cymmun; ac yn fuan *ddwy, &c.*, Dyma a fu dechreuad yr ysgolion elusenawl Cymreig, y rhai a symudid ar gylich o'r maill ardal i'r llall. Gellid casglu mai perchenog bywioliaeth Llanddowror oedd *Syr John Phillips*, barwniad, o Picton; yr hwn, heb ei gyhbell, a ddetholodd Gruffudd Jones i'r ficeriaeth ar gyfrif ei ddysg a'i dduwioldeb yn unig; ac wedi hyny, priododd Mr. Jones â chwaer i *Syr John*—yr hyn a all fod yn un rheswm paham na lwyddodd ei elynion i'w fwrw allan o'r eglwys, nac i'w rwystro yn y gwaith da.

Efe a arferai fyned yn achlysurol i wasanaethu eglwys Llanllwch, yn agos i dref Caerfyrddin, lle y'i gwrandawid gan foneddiges ieuanc, o'r enw *Miss Bridget Vaughan*, o'r Derllys; yr hon wedi hyny a briodwyd âg *Arthur Bevan*, yswain, o Lacharn. Agorwyd calon y foneddiges hon, dan weinidogaeth effro Mr. Jones, i ddal ar air yr Arglwydd; a'r canlyniad fu, iddi gyssegru ei hun a'i meddiannau at wasanaeth y Gwardedwr; a thrwy ei haelioni Cristionogol, bu o'r cynnorthwy mwyaſ i Mr. Jones yn nghynaliad yr ysgolion elusenawl. Ac ar ol ei farwolaeth, hi a'u cynaliodd ar ei thraul ei hunan bron yn hollol; fel y mae yr ysgolion hyny hyd heddyw yn cael eu galw "Ysgolion Madam Bevan."

Un arall a ddychwelwyd trwy offerynoliaeth gweinidogaeth y Parchedig Gruffudd Jones, oedd yr enwog DANIEL ROWLANDS, yr hwn wedi hyny a fu yn brif offeryn dygiad yn mlâen y Diwygiad Methodistaidd yn y ddywysogaeth.

Ganwyd *Daniel Rowlands* mewn lle a elwir Pant y beudy, yn y flwyddyn 1712—sef, pan oedd Mr. Gruffudd Jones tua deng mlwydd ar hugain oed. Offeiriad oedd ei dad, o'r un enw ag yntau; ac yn berchenog, medd rhai, ar fywiolaethau y ddau blwyf lle y gweinidogaethai—sef, Llanccwille a Llangeitho; ac yn ol dim a wyddom ni, yr oedd ei dad mor ddyeithr i wir dduwioldeb a'r cyffredin o offeiriad yr eglwys sefydledig yn Nghymru y dyddiau hyny. Ac y mae yn amlwg i'w fab Daniel gael ei ddwyn i fynu i'r weinidogaeth, heb fod ganddo ar y pryd olygiadau cywir ar bwysfawredd y swydd; o'r hyn yr oedd ei ymarweddiad cyn ei droedigaeth yn brawf digonol.

Y man y derbyniodd ei ddysgeidiaeth oedd athrofa Henffordd, lle yr amlygai y fath gynneddfau bywiog a dysglauer, ac y cynnyddai mor gyflym mewn dysgeidiaeth, fel y cyfrifid ef yn addas o ran gwybodaeth i dderbyn urddau, pan yn ddeunaw mlwydd oed; a dywedir ei fod wedi cael ei ordeinio yn llawer ieuengach nag yr urddir neby yn bresenol—sef,

pan oedd tuag ugain mlwydd oed, yn ol tystiolaeth ei fab *Nathanael*. Y mae y *Parch. John Owen*, o Thrussington—yn ei Gofiant rhagorol o Mr. Rowlands—yn dweyd fel y canlyn am ei ymarweddiad ar ol dechreu ar ei weinidogaeth—“Yr hyn a draddodir yn ei gymmydogaeth am Rowlands yn ei ieuentyd, yw ei fod yn llawn o fywiogrwydd cynhenid, ac yn gyfarwydd yn mhob rhyw gampau a chwareuon ofer yr oes. Yr oedd yn dra heinif a gwisgi, o faintioli cyffredin, yn gadarn o wneuthuriad, ac yn rhagori yn mron ar bawb mewn pob math o chwareuon a arferid yn y dyddiau hyny. Yr arfer y pryd hyny oedd myned ar y Sul i'r eglwys, neu i'r Llan yn y bore, a threulio y rhan arall o'r dydd mewn ofer gampau, maswedd, diota, a meddwi. Yr oedd yn gyffredin yn mhob plwyf ryw fan neu le neillduol i yngynnull ynddo; ac yno, yn mhllith oferwyr, y byddai Rowlands yn flaenaf a mwyaf bywiog ac egniol o honyt, wedi bod yn yr eglwys yn danhreu, yn gweddio, ac yn pregethu yn y boreu! Meddwdod yn ddiau oedd yn canlyn; ac er na chlywais erioed ei fod yn hynod am hyny, ond ei fod yn euog o'r arfer ddrwg hon ar brydau.”\*

Cafodd *Daniel Rowlands* a *Howel Harris*—dau brif offerynnau y diwygiad Methodistiaidd Cymreig—eu deffroi i ystyriaeth o'u cyflwr drwg tua'r un pryd; a dechreasant bregethu yr efengyl gyda difrifwch tua'r un amser—sef, oddeutu y flwyddyn 1738; ond yn hollol annibynol ar eu gilydd, ac anhysbys o'u gilydd. Am *Howel Harris*, dywedir ei fod wedi bwriadu myned yn offeiriad, ac aeth i Rydychain gyda y dyben hyny; ond blinodd yn fuan ar anhreftn ac anfoesoldeb y lle hwnw, a dychwelodd at ei gyfeillion yn Nghymru. Pan oedd yn un ar hugain oed, aeth i'r sacrament; ac ar adroddiad y geiriau hyny, “Eu coffa sydd drwm genym,” &c., cafodd ei daro yn ei gydwybod â'r ystyriaeth nad oedd efe yn wir deimladwy fod pechod “yn annhraeth i'w oddef,” ac ofnodd ei fod yn myned at fwrdd yr Arglywydd â chelwydd yn ei enau. Efallai fod hyn wedi cymmeryd lle ychydig cyn dychweliad Rowlands.

Dan y teimladau argyhoeddedig hyn, dechreuodd *Harris* fyned i gynghori pechaduriaid o dŷ i dŷ yn ei gymmydogaeth, neu ei blwyf genedigol, i ddechreu; a'r plwyfydd cylchynol yn raddol. Yna efe a gyfododd ysgol ddwyddiol yn Nhrefeca i ddechreu, yr hon a symudwyd ganddo drachefn i eglwys y plwyf; a deuai llawer o'r bobl ieuainc ato, er mwyn cael ychydig addysg yn mhethau Duw. Byddai hefyd yn myned atynt i'r cyfarfodydd oedd ganddynt i ddsygu canu sa'nau, er mwyn cael cyfleu-dra i'w rhybuddio yn nghylch eu cyflwr tragwyddol; a thrw y moddion yma cafodd llawer eu hargyhoeddi. Ac er cyfarfod ág angenion y rhai hyn, dechreuodd Mr. *Harris* osod i fynu gymdeithasau neillduol, yr hyn a fu yn ddechreuad cymdeithasau neillduol y Trefnyddion Calfinaidd Cymreig.†

Am argyhoeddiad *Daniel Rowlands*, mynegir fe' y canlyn:—“Yn ol yr hyn a draddodwyd i mi gan hen bobl yn y gymmydogaeth, ugain mlynedd yn ol, ac ychwaneg—a chan rai a fwynhasent ei weinidogaeth dros ddeng mlynedd ar hugain cyn ei farw—darfu i'w dröedigaeth gymmydd lle yn y modd canlynol. Arferai y *Parch. Gruffudd Jones*, sylfaenydd yr ysgolion rhad cylchynol, ddyfod i bregethu mewn amryw eglwysi drwy y wlad. Daethai ar droion i Landdewi-brefi, yr hon sydd o bedair i bum' milldir o Langeitho; a chan fod ei bregethu yn dra deffrous, nerthol, ac efengyl-aid, aethai llaweroedd i'w wrando. Ar un tro, cynhyrwyd Rowlands mewn rhyw fodd neu gilydd i fyned i'w glywed. Yr oedd y pryd hyn o

\* Cofiant y *Parch. D. Rowlands*, gan y *Parch. J. Owen*, t.d. 8, 9.

† *Hanes Crefydd yn Nghymru*, t.d. 626. Drych yr *Amseroedd*, t.d. 69.

olwg ucheldrem falchïaidd iawn, ac yn ymddangos yn llawn coegni ac ysgafnder. Gan mor luosog y gwrandawyr, nid oedd le iddynt i eistedd; ac yn eu mys, gyferbyn a'r pregethwr, y safai Rowlands, yn eglur chwyddedig gan falchder, ac yn llawn o hunan; a dirmyg a gwatwar megys yn eistedd ar ei wyneb. Mor falch a choegaidd a dirmygus oedd ei olwg, fel y tynodd sylw neillduol Mr. Jones tra yr ydoedd yn pregethu; ac yn gymmaint felly, fel y darfu iddo dori allan mewn gweddi ddifrifol a thoddedig, dros y dyn ieuanc balchïaidd oedd ger ei fron; gan erfyn ar Dduw yn benodol ei wneuthur yn offeryn cymhwys a defnyddiol er troi llawer o dywyllwch i oleuni. Dywedir i'r weddi hon effeithio yn fawr arno. Ei ymddangosiad wrth ddychwelyd adref oedd yn wahanol iawn i'r hyn ag ydoedd o'r blaen. Yr oedd yr olwg goegaidd a'r ofer siarad wedi ymadael, a'r gwyneb tua'r ddaear, a'r pen yn ostyngedig; ac amlwg oedd fod y meddwl yn dwys fyfyrïo.\*

Wedi i'w feddwl gael ei ddifrifoli fel hyn, cymmerodd cyfnewidiad mawr le yn ei bregethau; ond er fod difrifwch mawr yn ei bregethau, a'i fod yn feddiannol ar alluoedd meddwl tra bywiog, nid oedd eto yn meddu golygiadau hollol gywir am wirioneddau yr efengyl; ond yr oedd rhyw gymmaint o ddeddfolrwydd yn ei olygiadau, annghydonol â gwir ansawdd yr efengyl. Ond yr Ysbryd Glan, yr hwn a ddechreuasai waith da ynddo, a'i dygodd yn fuan i feddu goleuni dysgleiriach ar wirioneddau yr efengyl, ac a'i tywysodd wrth y gwirionedd hwnw hyd aneu; ac efallai fod ei gyfeillach â rhai o hen ymneillduwyr duwiol Llwyn y piod wedi bod o beth cynnorthwy iddo. Y misoedd cyntaf wedi deffroi ei feddwl at ei gyflwr ei hun, yr oedd ei bregethau yn ofnadwy, ac o'r braidd yn annyoddefol i'r gwrandawyr. Darluniai fanylwrwydd ac ysbrydolrwydd annewidiol deddf Duw, trueni anaele dynolryw fel troseddwy o honi, a'r arswydolrwydd anamgyffredadwy oedd yn ei bygythion, gyda nerth ac egni anarferol. Yr oedd ef ei hunan yn gwersyllu ar y pryd dan odreu Sinai, a'i ysbryd yn llawn braw yn yr olwg ar ei gyflwr; a chan wybod ofn yr Arglwydd, rhybuddiai ei gymmydogion gyda'r difrifwch a'r dwysder mwyaf o'r perygl yr oeddynt ynddo, oddiwrth ddigofaint yr Hollalluog; er hyny dywedir nad oedd dim crasder na sarugrwydd yn ei lais, ond yn hytrach y tynerwch mwyaf toddedig; llefarai fel un wedi ei orlenwi â chydymdeimlad, a than yr argyhoeddiad dyfnaf o'i annheilyngdod ei hun. Dylid y pregethu dyleithrol yma âg effeithiau rhyfedd yn fuan; canys er mor frawychus oedd y genadwri, ymgynnullai miloedd dros y mnyddau anial i Langeitho, i wrandaw arni; a'r fath arswyd a'u meddiannai, fel y syrthient i lawr yn aml megys meirwon. Dyhidlai dagrau dros ruddiau cannoedd ar unwaith; clywid y gruddfanau dwysaf yn esgyn o fynwesau lluaws o'i wrandawyr, fel pe buasant yn sefyll ar ddibyn anobaith; a'r rhai mwyaf cyndyn, maswedgar, ac annuwiol, a wylent yn aml dan yr argyhoeddiadau dyfnaf. Mae rhai yn dweyd iddo barhau i bregethu yn y dull taranllyd yma dros oddeutu pedair neu bum' mlynedd wedi ei argyhoeddiad ei hunan, dan y Parch. Gruffudd Jones; ac y mae hyny yn cyduno â'r hyn a ddywed ei gydlafurwr *Williams*, yn y farwnad anghydmarol a gyfansoddodd efe iddo:—

“Nol pregethu'r ddeddf dymhestlog  
*Rai blynyddau yn y bla'n,*  
 A rhoi llawer yn friweddig,  
 'Nawr cyfnewid wnaeth ei gân.”

\* Hanes bywyd D. Rowlands, t.d. 10, 11.



Mae yn debyg iddo ddechreu myned i ardaloedd a gwledydd oddiallan i'w blwyfydd ei hunan i bregethu, yn lled fuan ar ol ei drôedigaeth; er na phregethai y pryd hyny namyn yn yr eglwysi a'r capelydd eglwysig: canys fel hyn y dywaid Williams—

“Pump o siroedd penaf Cymru  
Glywodd y taranau mawr,” &c.

Wrth yr hyn y gallem feddwl ei fod wedi ymweled â rhyw ranau o bump o siroedd Cymru, cyn “cyfnewid ei gân;” hyny yw, cyn i'w ysbryd ef ei hunan gael profi y llawenydd sydd gan gredu, nes ei droi fel gweinidog yn “fab diddanwch,” yn hytrach na “mab y daran.”

Yr amgylchiad a arweiniodd Rowlands i bregethu allan o'i gymmydog-aeth ei hun gyntaf, oedd yr un canlynol:—Yr oedd gwraig yn Ystrad Ffin, yn sir Gaerfyrddin, a chanddi chwaer yn byw yn nghymmydogaeth Llan-geitho, i ymweled â'r hon y deuai ar brydiau; ac ar rai o'r achlysuron hyny, clywodd Rowlands yn pregethu, a chafodd y fath flas ar ei weinidogaeth, fel y deuai yno yn ddyfal bob Sabbath, er mwyn ei glywed—er fod iddi dros ugain milldir o ffordd fynyddig a blin. Wedi parhau yn cyrchu yno felly am oddeutu haner blwyddyn, teimlai awydd cryf i gymhell “*Offeiriad erac*” Llangeitho, fel y'i gelwid, i ddyfod i Ystrad Ffin i bregethu, fel y gallai ei chymmydogion glywed yr un gwirioneddau ag y profasai ei henaid ei hun y fath rym trwyddynt; felly hi a aeth ato, ar ol y gwasanaeth un Sabbath, gan ddywedyd, “Os gwir, Syr, yr ydych yn ei ddywedyd wrthym, y mae llawer yn fy nghymmydogaeth i mewn cyflwr peryglus iawn, yn myned yn gyflym i'r trueni tragwyddol. Er mwyn eneidiau gwerthfawr, deuwch trosodd i bregethu iddynt.” Y cyfarchiad yma a barodd iddo synu: ond efe a'i hatebodd yn ddiabetrus, “Deuaf, os cewch genad offeiriad y plwyf.” Wedi cael y fath addewid werthfawr, hi a aeth adref yn llawen, a gofynnodd genad offeiriad y plwyf, yr hyn a gafodd yn rhwydd; a'r canlyniad fu i Rowlands fyned yno, a phregethu dan y fath arddelwad dwyfol grymus, fel y dywedir i ddeg ar hugain gael eu hargyhoeddi drwy y bregeth hono.

Bychan y meddyliodd Rowlands, na'r wraig grybwylledig ychwaith, fod y tro hwn yn cynnwys pregethu teithiol Cymru yn yr eginyn; ac yr arweinid ef—trwy ei waith yn myned allan o'i blwyf i bregethu, ar gais gwraig ddysym o Ystrad Ffin—i fyned allan o ffiniau eglwys Loegr. Mor ddystadl yw y moddion a ddefnyddia yr Arglwydd i gynnyrchu ysgog-iadau mawrion! fel y byddai godidowgrwydd y gallu o hono ef, ac nid o ddynion.

Onid er fod llwyddiant rhyfeddol yn dilyn pregethau y dyn rhyfedd hwn, wedi ei ddefroei ei hunan gan Ysbryd Duw, a bod lloedd mawrion yn cyrchu i'w wrandaw, hyd oni orlenwid eglwys fach Llangeitho, nid oedd ei weinidogaeth finog yn boddhaul pawb o'i blwyfolion; ac amryw o'i hen gymdeithion blaenorol mewn oferedd a galedwyd, fel na ddeuent i'w wrandaw o gwbl; ond ymneillduent i ben rhai o'r bryniau oddiar Llan-geitho, i ymddifyru ar y Sabbathau yn eu chwareuyddiaethau annuwiol; a chyrchai lloedd o ieuencyd ysgeifn ac anystyriol yr ardaloedd cylch-ynol yno atynt, i gyfranogi yn eu difyrwch. Gofidiai hyn ysbryd tyner y diwygiwr ieuanc yn fawr; ac wedi methu atal yr ymgynnulliad llygredig hwn trwy unrhyw foddion arall, efe a benderfynodd fyned atynt, ac ymosod arnynt ar eu tomen eu hun; ac yno yr aeth, wedi ymwroli yn enw ei Dduw—a bu ei weinidogaeth mor rymus ac effeithiol ar y gynnullieidfa fel na fu yno un ymgynnulliad llygredig mwyach. Felly, yn y tro hwn,

efe a gafodd brawf o foddlonrwydd Duw ar ei waith yn pregethu yr efengyl yn yr awyr agored, ac mewn llanerch annghyssegredig; yr hyn, mae yn wir, oedd yn groes i drefniadau y sefydliad eglwysig hwnw y perthynai efe iddo—ond yr ydoedd yn foddhaol gan ei Dduw, ac yn dda i'w gyd-ddynion.

Yr oedd gweinidogaeth *Howel Harris* ar y dechreu yn gyffelyb i'r eiddo Rowlands—yn hynod o daranllyd, a chyfaddasrwydd neillduol ynddi i ddeffroi gwlad o'i chysgadurwydd. Nid oedd Harris yn ystyried ei hunan yn bregethwr, ac ni chymmerai yr un testyn; ond llefarai yr hyn a roddid iddo ar y pryd—gan rybuddio ei gymmydogion i ffoi rhag y llid a fydd, a Duw yn dwyn tystiolaeth i air ei ras.

Dyma y darluniad a ddyry bardd Pant y celyn o ansawdd ein gwlad ar ei gyfodiad, ac o natur ei genadwri yntau, a'i heffeithiau:—

“Pan 'roedd Cymru gynt yn gorwedd  
Mewn rhyw dywell farwol hun,  
Heb na phresbyter ma' feiriad,  
Nac un esgob ar ddihun;  
Yn y cyfnos tywyll pygddu  
Fe ddaeth dyn fel mewn twymn ias,  
Yn llawn gweichion goleu tanllyd,  
O Drefeca fach i ma's.

Yn y daran 'roedd e'n aros,  
Yn y cwmwl 'roedd ei le;  
(Ysbryd briw, drylliedig, gwresog,  
Sy'n cael *cwnsel* brenin ne';)  
Ac yn saethu oddiyno allan  
Fellt ofnadwy iawn eu rhyw,  
At y dorf aneirif dywell,  
Yn eu pechod oedd yn byw.

Gwerin fawr o blant pleserau,  
Y pryd hwnw, gafodd flas  
Ag nad â tra fyddo anadl  
O'u hysbrydoedd ddim i ma's.  
'Roedd ei eiriau dwys, sylweddol,  
Heb eu *studio* 'mlaenllaw'r un,  
Wedi eu *ffitio* gan yr Ysbryd  
I gyflyrau pob rhyw ddyd.”

Efe a fu yn foddion fel hyn i gynnyrchu deffroad yn meddyliau lluaus mawr o ddynion, a diwygiad amlwg yn eu moesau, mewn amryw ranau o siroedd Brycheiniog a Maesyfed; a'r penswyddogion yn bygwth ei gosbi, a'r offeiriad yn pregethu i'w erbyn—gan ei nodi allan fel gau brophwyd a thwyllwr, a'r werin yn barod i'w niweidio ar yr amnaid lleiaf. “Eto,” medd efe, “yn wyneb yr holl wrthwynebiadau hyn, yr oeddwn yn cael fy nghario yn orfoleddus uwchlaw y cwbl, fel ar adenydd eryr.” Hyd yn hyn, nid yw yn ymddangos ei fod ef yn gwybod am neb o gyffelyb feddwl iddo ei hunan, fel diwygiwr, yn Nghymru na Lloegr; ond tua diwedd y flwyddyn 1737, efe a glywodd gan gyfaill a ddaethai o Lundain, am wr eglwysig ieuanc o'r enw *Mr. Whitfield*, yr hwn a arferai bregethu bedair gwaith yn y dydd, a bod rhyw effeithiau anarferol yn canlyn ei weinidogaeth; ac er ei lawenydd, yn nechreu y flwyddyn ganlynol, efe a dderbynai lythyr oddiwrtho, yn ei anog i fyned yn mlaen yn galonog yn ei waith. Fe ddichon mai tua'r un amser y clywodd efe am Rowlands, yn Llangeitho, yn tori allan gyda'r un gwaith ag yntau.

Yn foreu ar dymhor llafur Harris, cafodd *William Williams*, o Bant y celyn, ei argyhoeddi wrth ei wrando yn traddodi ei genadwri bwyaig yn mynwent Talgarth, ar ol y gwasanaeth yn y llan, at yr hyn y cyfeiriai mor doddedig yn ei farwnad:—

“Dyma'r bore, fyth mi gofiat,  
Clywais inau lais y nef:  
Daliwyd fi gan wŷs oddiuchod,  
Gan ei swm dychrynlyd ef:  
Ac er crwydro'r dyrys anial,  
Ol a gwrthol di leshad,  
Tra fo anadl yn fy firoenau  
Mi a'i galwaf ef yn dad.

Dyna'r fan, tr'wyf byw mi gofiat,  
Gwelais i di gynta' erioed—  
O flaen porth yr eglwys eang,  
Heb un twmpath dan dy droed;  
Mewn rhyw ysbryd dwys sylweddol,  
Fel yn ngolwg dydd a ddaw,  
Yn cynghori dy blwyfolion,  
A dweyd bod y fan gerllaw.”

Yr oedd Williams ar y pryd hyn wedi bod dan addysg un o weinidogion yr ymneillduwyr, o'r enw Mr. Price, o Faes yr onnen, yr hwn oedd yn cadw athrofa enwog yn y Gelli, a'i fwriad oedd myned yn feddyg; ond effaith dwys gweinidogaeth Harris ar ei feddwl a barodd iddo ymgyssregru i'r weinidogaeth; ac yn y flwyddyn 1740, efe a gymmerth urdd diacon yn yr eglwys sefydledig, a gwasanaethodd ynddi dros oddeutu tair blynedd— a hyny, medd yr hanes, gydag ond ychydig lwyddiant, i bobl dywyll ac anfoesol iawn. Er hyny, fe debygid ei fod yn annyoddefol gan lawer, canys fe achwynwyd arno yn llys yr esgob, a gosodwyd yn ei erbyn, medd efe, bedwar ar bymtheg o bechodau—megys, peidio rhoddi arwydd y groes wrth fedyddio; peidio darllen rhyw ranau o'r gwasanaeth; myned allan i'r prif-fyrdde a'r caeau i bregethu, &c. Y canlyniad fu iddo ymadael âg eglwys Loegr, ac efe oedd yr *offeiriad cyntaf a droes allan o'r eglwys, yn mysg tadau Methodistiaeth yn Nghymru*. Gwedi hyn y daeth efe i gydna-byddiaeth â Daniel Rowlands, yr hwn a fyddai yn dyfod weithiau i bregethu yn nghapel eglwysig Ystrad Ffin, yr hwn oedd o fewn y plwyf yr oedd Williams yn byw ynddo; ac fel hyn y ffurfiwyd cyfeillgarwch rhyngddynt a barhaodd hyd anghen. Efallai mai at hyn y cyfeiriai yn y llinellau canlynol:—

“Daeth y swm dros fryniau Dewi,  
Megys fflam yn llosgi llin,  
Nes dadseinio creigydd Tywi,  
*A hen gapel Ystrad Ffin.*”

Yn fuan iawn, ymunwyd â'r gwŷr uchod gan y Parchedigion *Hywel Dafis*, *Peter Williams*, ac amryw ereill, y rhai a fuannt yn offerynau tra gwasanaethgar yn uwylaw pen yr eglwys, i ddwyn y diwygiad yn mlaen; tra y gwasanaethodd hyny yn benaf gan Harris, Rowlands, a Dafis, trwy eu doniau fel pregethwyr digyffelyb, gwasanaethodd yr unrhyw ysgogiad yn dra grymus ac effeithiol trwy emynau ac ysgrifeniadau ereill y Parchedig *William Williams*, a thrwy sylwadau melusion ac adeiladol y Parchedig *Peter Williams* ar y Beibl, a'i Fynegair Ysgrythyrol. Cyfodwyd hefyd amryw gynghorwyr, y rhai oeddnt yn ddynion o sefyllfa barehas yn y

fyd, ac amryw o honynt wedi eu donio & thalentau naturiol uwchlaw y cyffredin o'u cymmydogion; ac wedi gweled gogoniant Crist eu hunain, hwy a gyssegrasant eu meddiannau, eu hamser, a'u talentau, i geisio dangos ei ogoniant i'w cydgenedl—megys, yr hybarch *Ddafydd Morus*, a lluaws ereill, y rhai y bu eu llafur mor gymmeradwy a bendithiol a neb o'r offeiriad.

Dros y blyneddau cyntaf, arferai Harris, Rowlands, a'r ddau Williams, a'u cydlafurwyr, deithio trwy siroedd Cymru, gan bregeth mewn tai annedd, mewn ysguboriau, yn yr awyr agored, neu unrhyw le y caffent gyfleustra i gyngori pechaduriaid; canys nid oedd capelau wedi eu hadeiladu, ac nid yw yn debyg eu bod yn meddwl cynnyg ar y fath beth; ac nid oedd gynnulleidfaoedd rheolaidd wedi eu ffurfio, nac un amcan gan y diwygwyr hyn i ffurfio cyfundeb rheolaidd o ymneillduwyr oddiwrth yr eglwys sefydledig. Yr oedd holl ragfarn eu dygiad i fynu yn peri eu bod yn teimlo parch i'r eglwys sefydledig; eu hawydd, eu dymuniad, a'u gobaith, oedd gweled diwygiad yn cymmyrd lle yn yr eglwys, ac nid ffurfio corph o ddiwygwyr oddiallan iddi. Nid oeddynt yn deall egwyddorion Ymneillduaeth, nac yn gofalu am chwilio iddynt; dysgwyllent weled lluaws offeiriad y dywysogaeth yn cael tywalltiad o'r un ysbryd ag a fwynhasent hwy eu hunain, fel y buasant yn ymroddi bob un i lafurio yn onest yn eu plwyfydd eu hunain, ac yn barod i gyfnewid eglwysi & u gilydd ar achlysuron, mewn brawdgarwch; ac yna buasai y cynghorwyr yn eithaf boddion i roddi i fynu eu llafur teithiol, gan lafurio yn unig i gynnorthwyo offeiriad eu plwyfydd cartrefol, mewn rhyw lwybr rheolaidd, yr hyn ni fuasai yn gofyn am gymmaint o hunanymwadiad ar eu rhan; ac felly, er fod tua saith ugain o gymdeithasau neillduol wedi eu crynhoi ganddynt, a thua deugain o bregethwyr neu gynghorwyr wedi eu chwaneu atynt mewn ysbaid deng mlynedd—sef, erbyn y flwyddyn 1746—nid oedd ganddynt eto yr un addoldy wedi ei gyfodi at wasanaeth y cyfundeb. Ac er iddynt o'r diwedd gyfodi lluaws o addoldai dros holl wyneb y dywysogaeth, yr oeddynt mor bell o fwriadu ymneillduo oddiwrth yr eglwys sefydledig, fel y parhasant i ryw lynu wrthi hi dros ddeg neu bymtheng mlynedd a thriugain—gan gymmyrd eu plant i'w bedyddio gan ei gweinidogion, yn hytrach na chau weinidogion unrhyw enwad ymneillduol; ac os byddai ambell offeiriad lled ddiargyhoedd mewn plwyf, er na byddai ryw arwyddion amlwg o grefyddolder arno, ni phetrusent gyrchu yn finteioedd i gyfranogi o swper yr Arglwydd o ddwyllaw y cyfryw un. Mewn gair, cyndyn wrthwynebiad yr offeiriad penaf, a mawrion y wlad yn gyffredinol, i ddwyn crefydd efengylaidd i lanau plwyfol y dywysogaeth, a yrodd ein tadau i gyfodi capelau, lle y gallent gyfarfod i ddarllen yr Ysgrthyrau, ac i wrandaw ar ryw rai y cyffyrddasai Duw & u calonau, yn traethu cenadwri dros Dduw. A pharhad yr esgobion, a'r noddwyr eglwysig, i benodi i'r bywoliaethau eglwysig ddynion na feddent y cymhwysderau lleiaf i fod yn bregethwyr efengyl Crist, ag oeddynt yn hollol ddiotal hyd yn nod am rith sancteiddrwydd yn eu buchedd—a'u gorfododd o'r diwedd, yn mhen pymtheng mlynedd a thriugain wedi dechreuad Methodistiaeth, i neillduo brodyr o'u plith eu hunain i weinyddu yr ordinadurau yn eu cynulleidfaoedd, ac felly ymffurfio am y waith gyntaf fel cyfundeb crefyddol ymneillduedig oddiwrth yr eglwys sefydledig—yr un modd yn hollol ag y gorfu i'r Puritaniaid ymneillduo yn amser *Elisabeth*.

Fy marn benderfynol i ydyw—oddiar y teimlad a welais fy hunan yn mysg Methodistiaid yr oes ddiweddf—pe buasai yr esgobion a'r noddwyr eglwysig yn Nghymru, haner can' mlynedd yn ol, yn ymroddi yn gydwybodol i lenwi yr holl fywoliaethau eglwysig, & dynion tebyg i fod yn

“weinidogion cymhwys y Testament Newydd,” y buasai holl addoldai y Methodistiaid wedi eu troi yn ysgoldai dyddiol, neu yn gapelau cynnorthwyl i'r eglwys sefydledig; canys nid wyf yn meddwl bod un o gant o Fethodistiaid Cymru, ddechreu y ganrif bresenol, wedi rhoddi nemawr ystyriaeth i egwyddorion trefn eglwysig, fel y'u dysgir yn y Testament Newydd. Ond erbyn heddyw y mae yn dra gwahanol; canys y mae y parch traddodiadol hwnw oedd yn mynwesau yr hen Fethodistiaid at yr eglwys sefydledig wedi ei golli gan eu plant, y rhai ydynt wedi darllen, a meddwl, a ffurfio barn iddynt eu hunain am egwyddorion sefydliadau eglwysig, ac y maent yn ffeiddio undeb yr eglwys a'r wladwriaeth fel undeb anachaid, niweidiol i wlad ac eglwys, a hollol anysgrhythol: ac efallai iddynt gael eu harwain i hyn yn benaf oll drwy waith yr offeiriaid yn gwneyd y fath goegfost o'u "holyniaeth apostolaidd," tra yr oedd gweithredoedd y rhan fwyaf o honynt yn gyfryw na buasai yr un o'r apostolion, oddieithr "yr Iscariot," yn barod i'w haddef fel nodau eu holynwyr. Ac erbyn heddyw, yr ydwyf yn meddwl, pe cynnygiai yr esgobion urddau a bywioliaethau eglwysig i holl weinidogion y Trefnyddion Calffaidd, a'u bod hwythau mor ddiogwyddor a derbyn y cyfryw gynnygiad, na chludent gyda hwy un o gant o'n haelodau presenol i fynwes "yr hen fam," gan ein bod yn gydwybodol yn barnu y drefn eglwysig henaduriaethol yn fwy ysgrhythol, a'r egwyddor wirfoddol yn fwy cyfiawn a chymhwys i ddwyn achos crefydd yn mlaen dan oruchwyliath y Testament Newydd.

Ni chwanegef: ond cyfeirir y sawl a fyno ymgydnabod yn fanylach â hanes *Daniel Rowlands*, a'r diwygiad Methodistiaid, at y llyfr tra dyddorol a gyhoeddwr gan Mr. Hughes, o Liverpool—sef, *METHODISTIAETH CYMRU*.

## DARLITH XII.

CHARLES Y BALA, A'I AMSERAU.

Am y diweddwr Barchedig Thomas Charles, o'r Bala, gellir dywedyd ei fod yn un o "rai rhagorol y ddaear"—yn wr y cafodd nid yn unig *Cymru* elw o'i fagu, ond y *byd* elw o'i fod ynddo. Daeth i'r byd yn greadur llygredig fel ereill, ond yn lled fuan efe a gafodd drugaredd—dygwyd ef i'w adnabod ei hun, a thruenusrwydd ei gyfiwr, ac i adnabod yr unig ffordd a drefnodd Duw i'w wellhau: ac yn nhrueni a drygedd ei gyfiwr ei hunan, gwelodd drueni a drygedd cyfiwr y byd—tosturiodd wrtho, a'i dosturi a'i cariodd i ymdrechu hyd ei allu, ac uwchlaw ei allu, er ei wellhau; a gellir dweyd am dano yn ddibetrus, iddo adael y byd yn well nag y'i cafodd, ac iddo wneyd mwy tuag at y gwellhad hwnw nac odid un dyn arall ar wyneb y ddaear yn y tymhor hwnw. Anfynych y cynnyrcha gwlad neu genedl, ddynion a ddelweddant gymmeriad moesol cenedl; rhyw ambell un mewn oes a fydd yn rhagori cymmaint ar ei gydoesolion mewn llafur a llwyddiant, fel ag y gellid gyda phriodoldeb gymhwyso ei enw i

ddynodi cyfnod arbenig yn hanes y genedl.—Yr oedd Mr. Charles yn un o'r cyfryw; a diau na chyfeiliornwn wrth ddywedyd, ddarfod i'w lafur adael mwy o ddylanwad ar genedl y Cymry, er ffurfio eu nodwedd presenol, nag a adawodd yr eiddo neb arall, yn ystod y tri gain mlynedd diweddaf. Gan hyny, tybygaf nad ambriodol ydyw i mi gyssylltu ei enw ef âg adroddiad o hanes, neu adolygiad ar nodwedd cenedl y Cymry, yn yr yspaid crybwylledig.

Yr oedd yr adeg a'r lle y'i dygwyd i fynu, cyfeillion ac amgylchiadau ei ieuentyd, oll yn cyd-dueddu i'w nodi ef allan, a'i gyfaddasu i lenwi cylch mawr o ddylanwad a defnyddioldeb yn mysg ei gydgenedl. Efe a anwyd yn y flwyddyn 1755, tra yr oedd yr hen ddiwygwyr Methodistaidd eto yn fyw; a'r tân sanctaidd a enynasid yn Nhalgarth a Llangeitho, ac a daenasid dros wyneb y dywysogaeth, heb ddechreu oeri. Ganwyd a magwyd ef hefyd yn agos i gryd y diwygiad hwnw—sef, cymmydogaeth Llanddowror, lle y buasai yr hybarch Gruffudd Jones, tad y diwygiad, yn llafurio flyneddoedd lawer. Cafodd ei addysg foreuaf, debygid, yn un o'r ysgolion cyntaf a sefydlasid ganddo; a derbyniodd ei argraffiadau crefyddol cyntaf trwy gyfeillachu â rhai o hen ddysgybllion y gweinidog effro hwnw. Anfonwyd ef i'r ysgol i Landdowror pan ydoedd o ddeg i ddeuddeg mlwydd oed, lle y bu am o dair i bedair blynedd; ac yn fuan ar ol ei fynediad yno y dechreuodd deimlo pryder gyntaf yn achos ei gyflwr ysbrydol; eto, nid oedd yr argyhoeddiadau ar ei feddwl ond ysgefn ac arwynebol iawn dros oddeutu blwyddyn, na'i syniadau am yr hyn a gyfansoddai grefydd ond tywyll a chymmysglyd. Ond tra yr oedd eto yn y cyflwr yma, ac yn fachgen yn ysgol Llanddowror, efe a arweiniwyd yn rhagluniaethol i adnabyddiaeth o hen Gristion duwiol a deallus, o'r enw Rys Huw, un o hen ddysgybllion Gruffudd Jones. Y gŵr hwn, wrth ei weled yn fachgen hywaith, ac o deimladau crefyddol, a'i dysgodd ef yn fanylach yn ffyrdd Duw; ac unwaith neu ddwy bob wythnos, galleisid gweled y bachgenyn penfelyn yn hwylio ei gamrau tua bwthyn yr hen Rys Huw, lle yr oedd ei enaid yn cael ymgeledd ac adeiladaeth ysbrydol gan yr henafgwr penllwyd profedig; a mynych y cawn ni grybwyllion parchus a serchog gan Mr. Charles, yn ei ddyddlyfr, yn mhen blyneddoedd, am addysgiadau gwerthfawr Rhys Huw, yr hwn a gyfrifai ei dad ysbrydol. Dyma ffaith dra addysgiadol i ieuentyd barchu hen bobl dduwiol, ac i ymwsgu i'w mynwesau; ac anogaethol iawn hefyd i hen bobl grefyddol i fod yn dirion wrth y cyfryw ieuentyd, ac yn dringar o honynt. Addefa Mr. Charles fod ei grefydd y pryd hyn yn gynnwysedig gan mwyaf o ddymuniaidau cryfion am ryw beth nad oedd eto wedi cyrhaedd ato, gydag ymroad i ddefnyddio pob moddion at ei gael. Gwnaeth broffes gyhoeddus o grefydd; aeth yn mlaen yn wylaidd i gyfranogi o swper yr Arglwydd; ac ymdrechodd i ddwyn crefydd i deulu ei dad, yn yr hyn y dywaid fod ganddo sail i obeithio na bu ei ymgais gwan yn aneffeithiol.

Pan ydoedd tua phedair mlwydd ar ddeg oed, danfonwyd ef i'r athrofa yn Nghaerfyrddin, yr hon oedd y pryd hyny dan olygiaeth y Parchedig Mr. Jenkins; ac yn fuan wedi ei ddyfodiad i'r dref hono, ymunodd â'r gymdeithas eglwysig berthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, ac yno cyfarfu âg amryw bobl gwir dduwiol—ymddiddanion y rhai a fuant yn dra bendithiol i'w enaid; ond oddiwrth ormod cyfeillgarwch gyda phroffeswyr diofal, uchelfrydig, a llonwych, bu mewn perygl o gael niwaid mawr, hyd oni agorodd yr Arglwydd ei lygad i weled ei berygl, ac felly ei achub o'w maglau.

Pan oedd tua deunaw mlwydd oed, efe a gafodd y fraint fawr o glywed

y Parch. Daniel Rowlands, yr hwn a bregethai yn y Capel Newydd, yn sir Benfro. Ei destyn y pryd hwn oedd Heb. iv. 15, "Canys nid oes i ni archoffeiriad heb fedru cyd-ddyoddef gyda'n gwendid ni; ond wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a minau, eto heb bechod." Fe dybygid fod llewyrch grymus anarferol wedi tywynu i'w feddwl trwy y bregeth hono, fel y byddai ar yr 20ed o Ionawr, blwyddwyl yr oedfa grybwylledig, yn ei nodi yn ei ddyddlyfr, tra y parhaodd i ysgrifenu ynddo, fel diwrnod ar ba un y cawsai ddatguddiad hynod o ras a thrugaredd Duw i'w enaid. Am dano cawn y sylw canlynol unwaith yn ei ddyddlyfr:—"Diwrnod oedd hwn yn haeddu coffadwriaeth tra y byddwyf byw! O'r diwrnod dedwydd hwnw yr ydwyf wedi byw megys mewn nefoedd newydd a daear newydd. Ni byddai y cyfnewidiad a brofais i y pryd hwnw ar fy meddwl. Y pryd hwnw yr argyhoeddwyd fi gyntaf o'r pechod o anngrediniaeth, ac o gynnwys meddyliau culion a chaledion am yr Hollalluog. Cefais y fath olwg ar Grist fel ein harchoffeiriad, ar ei gariad, ei dosturi, ei allu, a'i holl-ddigonolrwydd, ag a lanwodd fy enaid â syndod, a llawenydd anhraethadwy a gogoneddus. Gorchfygwyd fy meddwl â syndod. Yr oedd y gwirioneddau a ddygwyd i'm golwg yn ymddangos bron yn rhy rasol i'w credu. Nis medrwn braidd gredu gan wir lawenydd. Bydd i'r golygiadau gogoneddus a gefais y pryd hyn, ddiwallu fy enaid, trwy fyfrio arnynt, filiynau o flyneddoedd i ddyfod. Yr oedd genyf o'r blaen ryw ddarluniad o wirioneddau yr efengyl, ond ni threiddiasant yn rymus i'm calon hyd y tro hwn. Parhaodd effaith y bregeth hon arnaf am fwy na haner blwyddyn, ac yr oeddwn yn gyffredin mewn hwyl gysurus. Yn fynych wrth rodio yn y meusydd, edrychwn i fynt tua'r nef, a galwn ef yn gartref i mi, dan hiraethu am ymddangosiad fy lachawdwr gogoneddus, i'm cymmyrdd dros byth ato ei hun."—Efe a gafodd fyned ato, ond nid y pryd hyn, fel ag y dymunai; ac yn wir, braidd na ddywedem fod gormod o hunangais yn ei dymuniad—y milwr Ieuanc yn dymuno cael ei drosglwyddo i froydd y lawryf, cyn dechreu ymladd un frwydr! y llafurwr yn dyheu am noswyl i swpera, gan y blas a gawsai ar y boreubryd, cyn dechreu ei ddiwrnod gwaith! Na, na, yr oedd yn mwriad ei Dduw doeth i Siarl weithio ei ddiwrnod yn ddifefl cyn noswyllo, a gwneyd llawer ymosodiad llwyddiannus ar amddiffynfeydd y gelyn cyn diosg ei arfau! Ond yr ydym yn maddeu iddo, ac yn cydymdeimlo o'r galon â'i ddymuniadau hyn, gan mai gorferw cariad ad Dduw yn Nghrist a barai i'w enaid frefu fel hyn am gael myned ato, i'w fwynhau mewn perffeithrwydd.

Yn y flwyddyn 1775—sef pan oedd efe yn ugain mlwydd oed—agorwyd ffordd iddo yn nhrefn Rhagluniaeth, mewn modd annysgwyladwy, i fyned i'r brif athrofa yn Rhydychain. Pa fodd y bu hyn, ni hysbysir i ni yn yr un o'i gofiannau a welais i; fel hyn yn unig y crybwyllai efe ei hunan am y tro, yn ei ddyddlyfr:—"Yn y flwyddyn 1775 y darfu i ragluniaeth, yn dra annysgwyladwy a rhyfeddol, agoryd fy ffordd i fyned i Rydychain; yr hyn nid oedd fy rhieni na minau, na neb o fy mherthynasau, wedi cynnwys mo'r meddylion lleiaf am dano hyd y pryd hwn. Ond yn awr, yr oedd y rhwystrau oll wedi eu symud, a phenderfynwyd ar i mi fyned yno. I minau yr oedd yn foddlonrwydd mawr edrych ar y moddion trwy ba rai yr agorasai yr Arglwydd fy ffordd i fyned; ac yr oedd yr un ystyriaeth yn magu ynof hyder cryf y byddai i mi gael fy nghadw trwy ras Duw rhag cael fy llosgi yn y ffwrn danlyd hono."

Y mae yn ymddangos ei fod yn teimlo cryn bryder yn wyneb yr anglychiad yma; wrth ystyried gwendid ei ras, a grym ei lygredd, ac yn enwedig cryfder yr awelon a ymosodent arno yn y brif athrofa, arswyd dai

rhad y gwnelai longddrylliad ar y ffydd cyn dyfod oddiyno; ond pan y pwyllai i ystyried mai llaw rhagluniaeth ddwyfol yn unig ac yn amlwg a'i harweiniasai i fyned yno, efe a dueddidd i hyderu na adawai yr Arglwydd ef i ymddyrysu yn yr anialwch wedi ei dywys yno; a thrwy olygiadau cysurol a gwerthfawr a gafodd efe yn y cyfwnng yma, ar agosrwydd ac anwylddeb perthynas Duw â'i bobl yn Nghrist, yn wyneb y geiriau hyny, "Yr wyf fi yn dyrchafu at fy Nhad i, a'eh Tad chwithau; at fy Nuw i, a'eh Duw chwithau," efe a nerthwyd i fyned rhagddo yn hyderus, gan orchymyn ei hunan i gadwraeth ei Dad nefol, ac ymroddi yn siriol ac ymostyngol i arweiniad ei Ysbryd a'i ragluniaeth ef.

Derbyniwyd ef yn aelod o'r brif athrofa yn mis Mai 1775; ac yn fuan efe a gafodd gydnabyddiaeth âg amryw wŷr ieuaine crefyddol, yr hyn a fu o gysur a budd mawr iddo. Y mae gras yn debyg i'r tynfaen, yn sicr o dynu ei gyffelyb ato o bob man. Dyma fel y cawn ni frenin dauwl yn dweyd, "*Deuoch, chwi y rhai oll a ofnwech yr Arglwydd, a mynegaf yr hyn a wnaeth efe i'm henaid;*" yr un ffunud y cawn ni yr efrdydd Cymreig gostyngedig a duwiolfrydig, yn fuan wedi ei ddyfodiad i'r brif athrofa—fel y tynfaen yn tynu y nodwyddau dur ato ei hun o'r twr lludw—yn cael hyd i'r difrifol a'r dauwl yn fuan o ganol y cannoedd ieuentyd annuwiol a llygredig a'i cylchynai; a diau fod ei gymdeithas â hwy yn anwyl ac adeiladol iawn. Ond cyfnewidiol yw hinsawdd ein byd ni; felly, yn mhen y ddwy flynedd, goddiweddidd Mr. Charles â phrofedigaeth lem iawn; canys ar unwaith, yn ddisymwth, ataliwyd ei gynnorthwyon o Gymru, trwy yr hyn y'i cynnelid yn Rhydychain, ac yntau ar y pryd ttag ugain punt yn nyled yr athrofa, ac heb un man ganddo mewn golwg lle y gallai wynebu am gynnorthwy yn ei gyfyngder, gyda'r hyder lleiaf am lwyddiant. Bu yn gyfyng iawn arno y pryd hwn, fel y bu am oddeutu pymthengnos yn methu gwybod pa beth i'w wneyd; ond o'r diwedd, penderfynai hysbysu awdurdodau yr athrofa o'i sefyllfa, a dychwelyd i Gymru i geisio enill ei fara mewn rhyw ffordd a agorai o'i flaen. Teimlai ei feddwl y pryd hwn yn gwbl ddarostyngol i ewyllys Duw, ac yn foddawn iddo ef drefnu ei holl faterion yn ei ddoethineb a'i ddaioni ei hunan; er ei fod yn methu yn lân a deall dyben y rhagluniaethau cydweithiol hyny a agorasent ei ffordd i'r brif athrofa, os ydoedd yn cau arno yn awr. Efe a dreiglodd ei ffordd ar yr Arglwydd, a'i feddyliau a safasant; ie, er tywyllid ydoedd, galluogid ef i ryw ddysgwyl yn ddirgelaidd y byddai i'r Arglwydd wneuthur diangfa iddo o'r brofedigaeth hon, yn ei adeg a'i ffordd ddewisol ei hun. Yn y cyfamsar, fel yr oedd efe un bore yn ysgrifenu at ei bobl yn Nghymru, i'w hysbysu o'i gyfyngder, a'i benderfyniad yn y canlyniad, daeth un o'i gyfeillion myn wesol i fewn, i'r hwn yr hysbysodd efe y cyfan yn y fan, a'i benderfyniad i adael y brif athrofa; yntau a'i hatebai, nad oedd efe yn ameu na byddai gael ei gynnorthwyo drwy ryw foddion neu gilydd, a dymunai arno roddi ei feddwl mewn esmwythdra llawn yn yr achos. Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyny, anfonai gŵr boneddig am Mr. Charles i giniawa gydag ef; a chyn ei fyned o'i dy, er ei fawr syndod, estynai iddo yr ugain punt yr oedd yn fyr o honynt, a dywedai wrtho na chai diffyg fod arno tra fyddai yn Rhydychain. Hyn a barai i'w enaid ymlenwi o lawenydd a diolchgarwch yn ddiau, a gwelai bellach ei ffordd yn oleu hyd derfyn ei dymhor athrofaol; canys fe fu y gŵr boneddig cystal a'i air iddo. Bu y tro hwn yn foddion i'w ddwyn i gyssylltiad newydd, ac i eangu cylch ei gydnabyddiaeth yn ddarfawr; yn mysg ereill, fe debygid iddo drwy yr amgylchiad yma yn rhywfodd gael ei ddwyn i gydnabyddiaeth â'r hen *Newton* o *Olney, Romaine*, ac ereill o'r offeiriad mwyaf efengylaidd oeddynt y pryd hyny yn Lloegr; canys nyni a gan-



fyddwn ei fod wedi bod yn treulio gwyl-ddyddiau yr haf y flwyddyn hon, sef 1777, gyda Mr. Newton, yn Olney, lle y cafodd lawer o bleser ac adeiladaeth ysbrydol, a'i ddwyn i adnabyddiaeth helaethach â rhai o rai rhagorol y ddaear.

Mehin 14eg, 1778, cafodd ei urddo yn ddiagon yn Rhydychain, ar alwad i fod yn gurad i'r Parch. Mr. Newman, periglor Queen Camel, yn Ngwlad yr Haf, yr hon alwad a gafodd efe, debygid, trwy gyfryngaeth ei gyfaill—y Parch Mr. Griffin, o Ipswich. Ond gan nad oedd ar ei beriglor angen am ei wasanaeth hyd y gwyl Mihangel canlynol, trwy wahoddiad ei gyfaill, y Parch. S. Lloyd, daeth i'r Bala, a threuliodd gydag ef oddeutu pum wythnos, yn yr hwn yspaid y darfu i'r ddaau offeiriad ieuanc gymmeryd taith yn nghyd drwy ran fawr o Ogledd Cymru—nid i bregethu, mae yn debyg, y tro yma—ond er ymgydnabod â'r wlad, a gwelod pa beth bynag ydoedd deilwng o'u sylw. Yna aeth Lloyd gydag yntau i'r Deheudir, ac aethant trwy Langeitho, lle yr arosasant dros dri neu bedwar diwrnod, yn yr hwn yspaid y clywsant ddwy bregeth gan Mr. Rowlands, er eu llawenydd mawr. Ar y 13eg o Awst, cyrhaeddasant dŷ ei dad, ac y mae yr adroddiad o'i brofiad ar yr achlysur yma yn deilwng o'i goff hau. "Edrychwn ar y conglau bychain hyny o'r tŷ, a'r gwrychoedd neillduedig yn y meusydd, gyda hyfrydwch anhawdd i'w adrodd; lleoedd y buasai fy enaid gynt mewn ymdrech â Duw ynddynt, ac mewn gweddi yn caffael y fendith. Nis gallwn lai nag edrych ar y conglau a'r manau hyny y buaswn ynddynt yn mwynhau cymdeithas adfywiol â Duw, fel lleoedd cysegredig; ymdaagosai tyddyn fy nhad mewn gwedd baradwysaidd; a'r cof am yr amryw fendithion a fywnhaswn yno ar wahanol amserau, a drylenwai fy nghalon â llawenydd a mawl."

Y Sabbath canlynol, Awst 10eg, efe a bregethodd yn Llanfihangel, ei blwyf genedigaethol; a dywedai iddo gael y fraint o fod yn y gwaith hwnw gyda difrifwch a chysur neillduol. Mae yn ddiâu bod yno lawer o'r hen gymmydogion yn gwrando gyda sirioldeb mawr ar y gweinidog ieuanc a fagesid yn eu plith; a'r hwn, trwy ei weddeidd-dra a'i hynawsedd, a enillasai eu serch pan nad oedd onid plentyn yn eu mysg. Ond yr oedd yno un a deimlai ddyddordeb arbenig yn y gweinidog ieuanc, ac i'r hwn yr oedd ei ddiffrifwch a'i hwylusod yn dechreu ar ei waith sanctaidd yn peri y llawenydd puraf—sef ei hen gyfaill a'i gynghorwr duwiol, Rhys Huw. Ac o bawb ydoedd yno, y bore hwnw, a dynai sylw ac a lonai galon y gweinidog ieuanc, yr hen dad crybwylledig oedd hwnw: fel hyn y crybwylla y tro yn ei ddyddlyfr:—"Bu yn llawenydd mawr i'm calon gael gweled, unwaith yn ychwaneg, fy hen gyfaill tra anwyl a Christionogaidd, Rhys Huw. Medraswn agos wylo o lawenydd. Y cyfarfod olaf ydoedd a gawsom yn y byd hwn; yn mhen mis ar ol hyny, efe a ddiangodd i'r nef."

Tua gwyl Mihangel, neu ganol mis Medi, 1778, yr aeth efe i'w guradiaeth, lle y bu yn llafurio am oddeutu pum mlynedd; a blyneddoedd o ddysgyblaeth ryfedd i'w gorph a'i feddwl oedd y rhai hyn, er ei barotai a'i gyfaddasu i'r gwaith mawr oedd o'i flaen gan Dduw yn Nghymru. Pum punt a deugain yn y flwyddyn oedd ei gyflog yn y lle yma ar y cymtat, yr hyn a ostyngwyd i ddeugain, ac o hyny drachefn i ddeg ar hugain, yn y flwyddyn. Nid rhyfedd gan hyny ei fod yn dweyd fel y canlyn yn ei ddyddlyfr:—"Ar amserau yr wyf yn profi rhyw beth o'r ysbryd tuchanlyd oedd yn nod gwrthun ar yr Israeliaid gynt, ar eu taith trwy yr anialwch. Yn lle bod yn ddiolchgar am y trugareddau aml, ac aml iawn, yr wyf yn eu mwynhau heb eu haeddu, byddaf yn dychymygu deng mil o angenion; ac yn llygadu ar ryw fendithion nad ydynt yn brê-

senol yn fy meddiant; a phe byddent, mae yn llwyr debygol yr effeithient er niwed i gorph ac enaid. Pe byddai fy angenion yn rhai gwirioneddol, nis gallai dim er hyny ond balchder ac anghrediniaeth fy nghymmell i duchan; o herwydd addewid Duw ydyw 'Gofynwch, a chwi a gewch.' Pe buasai i'r Israeliaid ofyn yn barchus gan Dduw am y bendithion oedd yn niffyg arnynt, diameu y buasant yn cael eu caniatáu, a'u gwneyd yn wir gysuron iddynt. Ond pan y tuchanasant, rhoddodd Duw eu deisyfiad iddynt, mae yn wir; eto 'yn ei ddiig,' a'i farn oedd yn dilyn. O Arglwydd, gwna fi yn fwy gostyngedig a diolchgar!"

Mae yn debyg ei fod ef, ar adeg ei ymweliad â Mr. Simon Lloyd, o'r Bala, wedi dyfod i gydnabyddiaeth â merch ieuanc o'r enw Miss Jones, yr hon mewn amser a briododd efe. Merch oedd hon, dybygwyf, i wraig gyntaf yr hybarchus Mr. Foulkes, wedi hyny o Fachynllaeth, o wr blaenorol a fuasai iddi.

Gan fod Miss Jones yn anfoddlawn i symud yn mhell oddiwrth ei theulu, a hwythau yn anfoddlawn i'w gollwng, teimlai Mr. Charles awydd cryf iawn am gael eglwys i'w gwasanaethu yn Ngogledd Cymru, yn enwedig yn rhywle heb fod yn mhell o'r Bala; a diameu y buasai wedi llwyddo fwy nag unwaith yn ei geisiadau, oni buasai ei dduwioldeb a'i efengyleiddrwydd. Yn y cyfamser, efe a wrthodai gynnygion o amryfal leoedd yn Lloegr; ac yn mysg ereill, wahoddiad taer oddiwrth yr Arglwyddes Huntington, yr hon a'i cymhellai i ddyfod i Gaerbaddon, i ymsefydlu megys gweinidog ei chapel hi yn y ddinas hono. O'r diwedd, efe a ymadawodd o Loegr, ac a ddaeth i'r Bala, lle yr aeth efe i'r stad briodasol, ar yr 20fed o Awst, 1783; ac oddeutu y pryd hyny, efe a aeth i gymdeithasfa Llangaitho, am yr hon y dywaid fel y canlyn, mewn llythyr at gyfaill:—"Yr oedd yn y gymdeithasfa tuag ugain o offeiriaid, heblaw rhwng triugain a phedwar ugain o bregethwyr lleyg, er nad y cyfan sydd yn y cyfundeb. Gellwch ddychymygu mor lawen oeddwn o gael clywed yr hen Elias benllwyd unwaith eto yn cyhoeddi dyfnion bethau Duw, â'r eglurder, y dwysder, a'r bywiogrwydd perthynol iddo ei hunan mor neillduol. Clywais ef ddwywaith, a thri o offeiriaid ereill, heblaw amryw bregethwyr lleyg tra doniol. Dechreuai y pregethu ddydd Sadwrn, a pharhai hyd ddeg o'r gloch bore ddydd Mercher."

Y dyfyniad canlynol eto o'r un llythyr a arddengys i ni ansawdd crefydd yn yr eglwys sefydledig, yn nghymydogeath y Bala, y pryd hyny; ac y mae yn arllun rhy gywir o'r hyn ydoedd y pryd hyny, a'r hyn ydyw eto, i raddau gormodol, trwy Wynedd:—

"Yr wyf yn meddwl fy mod wedi eich hysbysu ddarfod i mi gytuno i weini eglwys yn y wlad hon; ond wedi mi ei gweini dros ddau Sabbath, anfonid llythyr maith, yn fy hysbysu yn dirion y gellid gwneyd heb fy ngwasanaeth rhagllaw. Er y pryd hyny, buais yn cynnorthwyo Mr. Lloyd, yr hwn nid yw ond llesg ei iechyd. Ond y Sabbath diweddfaf, deuai yr holl blwyf agos, yn cael eu harwain gan ddau neu dri o'r gwyr mwyaf, i ymddiddan â mi, yr hyn a wnaethant mewn modd gerwinach na dim a arferaswn i ei glywed o'r blaen—gan ddywedyd, nad oedd wiw i mi bregethu yn eu llan hwy mwyach; a chwanegu, 'Yr ydych chiwi wedi melldithio digon arnom ni eisoes.'"

Felly y bu raid iddo ymadael oddiyno; a thros yspaid o amser bu heb le yn y byd i weinidogaethu ynddo, yr hyn oedd ofidus yn ddiau i wr o'i ysbryd ef. Yn mhen ychydig, efe a gafodd le dros amser yn Shawbury, yn swydd yr Amwythig, dan ei hen gyfaill Mr. Mayor. Yr oedd y lle yma o ddeugain i haner can milldir o'r Bala, lle y cartrefai efe, ond y byddai yn aros ambell i wythnos gyda'r periglor, Mr. Mayor; eto,

gwell oedd ganddo weini eglwys mor bell ac annghyfleus a hyny, na byw yn segur.

Yn agos i ddechreu y flwyddyn 1784, efe a gafodd guradaeth Llan y Mawddwy, lle o fewn tua phedair milldir ar ddeg o'r Bala; ac efe a deithiodd yno drwy bob math o dywydd, weithiau ar farch ac weithiau ar draed, i gyflawni ei weinidogaeth, dros yn agos i flwyddyn. Yr oedd y ffordd yn ddrwg iawn y pryd hyny, a llwybr aerth Bwlch y groes yn rhan o honi; ond nid oedd meithder nac anhawsder y daith—wyth milldir ar hugain rhwng myned a dychwelyd—bychander y cyflog, na'r gwg a'r dirmyg oedd gan rai am ei fod mor ffyddlawr, nac un atalfa arall, yn effeithio arno i beri iddo roddi y lle i fynu. Yn y lle hwn efe a ddechreuodd adgyfodi yr hen arferiad lesol o holi plant hob Sabbath, ar ol y gosper, a bu hyn yn dramgwydd i rai; ac er na adawodd yr Arglwydd mo'i was i lafurio yn ofer yno—ond y dyg dystiolaeth i air ei ras, yn nhroedigaeth rasol ambell un o'i wrandawyr—ereill o'r plwyfolion, wedi ymgynhyrfu mewn gelyniaeth yn ei erbyn, a anfonasant achwyniad at y periglor, gan ei hysbysu fod gormod o sawyr Methodistiaidd ar ei gurad i'w ffroenau Phariseaidd hwy allu ei oddef; am hyny, efe a gafodd rybudd gan hwnw yn ddoed i ymadael â'i wasanaeth. Felly, Ionawr 1af, 1785,\* efe a orfu ymadael o Lan y Mawddwy. Ar yr achlysur gofidus yma, efe a ysgrifennai at ei hen gyfaill parchus, John Newton, i adrodd ei helynt, a deisyf ei weddiau drosto, a'i gynghorion iddo. Yn yr ateb a roddodd Mr. Newton iddo, y mae yn ymddangos yn lled gryf yn y dyb, mai dyledswydd Mr. Charles a fyddai gadael y Bala, Gwynedd, a Chymru oll, yn hytrach na rhoddi i fynu y meddwl am weinidogaethu o fewn cylch neu furiau yr eglwys sefydledig. Ond bu Newton fyw wedi hyny i weled fod bwriadau Duw am Charles, a'i wasanaeth i Gymru, yn uwch na'r eiddo ef, o gymmaint ag y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear.

Yn y cyfwng yma, pan oedd efe yn methu cael un lle i weinidogaethu yn yr eglwys, a'i enaid yn llawn o awydd am weithio, ac yn cael ei aredig gan arswyd, rhag ei gyfrif yn was drwg a diog—cyffrowyd ei dosturi yn neillduol wrth sylwi ar yr anwybodaeth a ffynai yn mysg ieuencyd y Bala; ac efe a wahoddai ryw rai o honynt i'w dŷ, i dderbyn addysg grefyddol, a chael eu hegwyddori ganddo—yr hyn a wnelai yn gyffredin ar brydnawniau Sabbath; a'i ddull serchog a dengar ef o drin plant ac ieuencyd, a'u sugnai i'w hoffi yn fawr; a'i gyfarchiadau syml a dwysion a'u toddai i wyllo y dagrau yn aml; fel yr aeth cryn son am dano ef a'i gyfarfod plant yn fuan trwy holl dref y Bala, a buan yr aeth ei dŷ yn rhy gyfyng i gynnwys y lluaws a ymgynnullent yn nghyd. Ar hyny y Trefnyddion Calfinaidd, â'r rhai yr oedd efe yn dra chyfeillgar o'i ieuencyd, fel y gellir casglu oddiwrth grybwylladau blaenorol, a gynnygiasant fenthyg eu capel iddo i gynnal ei gyfarfodydd gyda'r plant a'r ieuencyd, yr hyn a gymmeradwyodd efe yn llawen; ac yno yr addysgai ac yr holwyddorai efe y lluaws plant a ddelent yn nghyd. Dyma oedd dechreuad yr Ysgolion Sabbothol yn Nghymru, yr hyn a gymmerth le ryw bryd tua chanol neu o hyny i ddiwedd y flwyddyn 1784. Gadewch i ni sefyll munyd uwch ben y ffaith yma—triugain a chwe' mlynedd yn ol, dacw Mr. Charles yn claddu mesen yr Ysgol Sabbothol yn y ddaear, yn y Bala; ac erbyn heddyw y mae wedi myned yn wigfa dewfrig dros yr holl wlad. Y pryd hyny yr oedd yr holl sefydliad hwn yn gynnwysedig o un athraw, un dosbarth, mewn un ystafell fach o dŷ anedd, yn nhreflan ddystadl y Bala; ond erbyn hyn, y mae o fewn Cymru yn unig—o ysgolion, tua 2,670! o athrawon, tua 36,150! ac

\* Yn ol Mr. Morgan, Ebrill 24ain, 1784.

ysgoleigion, tua 255,230! O'r Arglwydd y daeth hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni.

Dyma un o'r pethau a roddes y rhagoriaeth penaf ar ein cenedl ni yn yr oes ddiweddaf; canys tra nad oes o drigolion Lloegr oddiar un o bob naw yn myned i'r ysgolion, neu dan unrhyw addysg, ddyddiol a Sabbothawl—y mae mwy nag un o bob pedwar o drigolion Cymru yn myned i'r Ysgolion Sabbothol yn unig, lle y cyfrenir yr addysg oreu, mewn egwyddorion crefydd a moesoldeb! Ac er y dichon bod Raikes o Gaerloyw wedi dechreu efallai rai misoedd yn gynt na Charles, ny ni a allwn brofi fod y meddwl mor wreiddiol i Charles ag iddo yntau, gan na chyhoeddaisid yr adroddiad am ysgolion Raikes yn y newyddiaduron, hyd wedi i Charles ddechreu ar y cyfarfodydd hyn yn y Bala.

Yn fuan ar ol hyn—sef tua dechreu y flwyddyn 1785—penderfynodd fwrw ei goelbren i fysg y Trefnyddion Calinaidd, y rhai, o herwydd eu cydnabyddiaeth blaenorol ag ef, a'u hadnabyddiaeth o'i sel a'i symledd fel Cristion, a'i ddoniau buddiol fel pregethwr, a'i derbyniasant yn llawen; ac nid hir y bu yn llafurio yn eu mysg heb i'r rhan fwyaf o honynt weled i fesur y rhagoriaeth mawr oedd ynddo. Tuag Awst, y flwyddyn hon, y mae yn debyg yr aeth efe eilwaith i gymdeithasfa Llangeitho, ac efe a benodwyd yn un i bregethu yno; a'r hybarch Ddaniel Rowlands, yr hwn oedd wr o graffder mawr, a ddywedai yn ei ddull byreiriog ei hun, "Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd yw Charles."—Pe buasai yn broffwyd, ni allasai ragfynegi yn fwy cywir am dano; canys efe a drodd allan yn rhodd o'r fath werthfawrocaf i Wynedd, ac i fesur mawr i'r Deheubarth hefyd. Nid oedd un offeriad y pryd hyn yn perthyn i'r Trefnyddion trwy Wynedd, er fod amryw bregethwyr lleeg, a rhai o honynt o ddoniau tra phoblogaidd, eto nid oedd y cynulleidfaoedd ond bychain a thylydion; fel y gwyyddai Mr. Charles yn dda, pan gefnai ar yr Eglwys, i ymuno â'r bobl isel a dirmygedig hyn, ei fod yn cefnu ar lwybr elw a dyrchafiad bydol; ond gwelai trwy hynny gyfleusdra i roddi ei holl alluoedd ar waith yn ngwasanaeth ei Arglwydd; a bellach, Gwynedd oedd ei blwyf—ac er fod yr olwg arno yn anial, diffwrth, a didriniaeth, efe a ymgyssegrodd i'w llafurio yn enw yr Arglwydd.

Yr oedd anwybodaeth, anystyriaeth, a llawer math o halogedigaeth, wedi ymdaenu gyda grym mawr trwy y rhan yma o'r dywysogaeth; yr eglwyswyr yn dra dirywiedig o ran egwyddorion ac arferion; y boneddigion yn ddiymdrech yn mhlaidd crefydd a moesau da, ac yn rhoddi yr esiamplau gwaethaf i'w hisraddolion; y werin yn suddedig mewn tywyllwch a choelgrefydd, ac yn dra anwaraidd yn eu harferion; a'r ychydig ymneillduwyr oeddynt yn y wlad, wedi ymollwng i gysgadrwydd a ffurfioldeb; a llawer o honynt yn gyfeiliornus eu hegwyddorion, a phenrydd eu bucheddau. Mewn gair, yr oedd cyflwr ac agwedd ein gwlad yn dra gresynus o ran y diffyg o wybodaeth a nawys grefyddol; ac er ymdrech- iadau canmoladwy y Gymdeithas er taenu gywboadaeth grefyddol, nid oedd y Beibl i'w gael ond mewn ychydig iawn o deuluoedd; ac mewn llawer o blywydd, yr oedd yn rhy anhawdd cael *deg* o bobl a fedrent ei ddarllen mewn unrhyw iaith.\* Mae yn wir fod yr ysgolion cylchynol a gyfodasid trwy ymdrech- iadau y Parch. G. Jones, a chynnorthwyon haelionus Mrs. Bevan, wedi rhoddi yr aradr i fewn yn yr anialwch moesol, a llafur y diwygwyr Methodistaidd wedi symbylu amryw i ymdrechu dysgu darllen gair Duw—eto, y gwirionedd yw, nad oedd y cynnydd mewn gw- ybodaeth grefyddol ond bychan iawn mewn cydmariaeth, hyd oni chyfod-

\* Gwel Cofiant y Parch. T. Charles, t.d. 162, 163.

odd Duw Mr. Charles, gan fendithio ei ymdrechïadau ffyddlawn i gyfodi syched cyffredinol trwy y dalaeth, am adnabyddiaeth o feddwl Duw yn ei air.

Efe a ymroddodd i deithio cryn lawer fel pregethwr trwy Gymru, yn enwedig Gogledd Cymru, yn lled fuan ar ol iddo ymuno â'r Trefnyddion Calfinaidd: a'i ledneisrwydd Cristionogol, ei ysbryd deffrous, a'i ddonïau rhagorol fel pregethwr, yn nghyda'r arddelwad dwyfol anarferol a'i dilynai ar rai achlysuron, a'i nodasant allan yn fuan fel un cymhwys i flaenori yn mysg ei frodyr, yn enwedig yn mhob gorchwylion cymmanfaol; ac efe a fu y prif offeryn i ddwyn y cyfundeb i'w ffurf bresenol, fel y gwel y sawl a ddarllenont ei hanes yn fanol.

Wrth deithio y wlad, efe a ddaeth i feddu amgyffred cywirach nag odid neb arall ar y gaddug ddudew o anwybodaeth oedd yn toi ei gydwladwyr, a gwasgodd hyny ar ei feddwl yn fawr, fel y mae yn amlwg oddiwrth lawer o'i lythyrâu, y rhai a ysgrifennai tua'r adeg dan sylw, at amryw o'i gyfeillion; ac er nad oedd ei sefyllfa ef ei hunan ond lled isel yn y byd, ac er nad oedd y cyffredin o'r bobl yr ymunasai â hwynt ond tlodion—fel nad oedd pob moddion a defnyddïau o fewn ei gyrhaedd ef ond bychain iawn i feddwl cynnyg trwyddynt i ledaenu gwybodaeth a dysgeidiaeth yn mysg ei gydgenedl—nid ymollyngodd; ond efe a erfyniodd gynnorthwy amryw o fonedd elusengar Lloegr, a bu yn llwyddïannus i gael hyny, yn rhoddion neu yn gynnorthwyon blyneddol; cafodd at hyny beth cymhorth gan rai yn Nghymru; ac y mae yn amlwg ei fod yn gyfranwr haelionus ei hunan, yn ol ei allu, trwy fendith yr Arglwydd yn benaf ar ddiwydrwydd ei wraig. Efe a chwiliodd, ac a gafodd ddynion syml, awyddus i'r gwaith da, ac o ddonïau cymmedrol i ddysgu ereill—o leiaf, i ddarllen gair Duw yn yr iaith Gymraeg; a'r cyfryw hefyd a ymfoddlonent ar gyflogau bychain, yn ol bychander y moddion oedd ganddo at gynnal y gwaith. Yr oedd yr ysgolion hyn yn cael eu symud o le i le bob chwe' mis, naw mis, neu ychydig mwy, fel y gwelid yr achos yn galw yn y gwahanol ardaloedd; ac yn y cyffredin, byddai nifer go fawr o blant ac oedolion yn dysgu darllen yn hyny o amser.

Nis gallwn ddarlunio yr ysgogiad pwysig hwn o'i eiddo yn well nag yn ei eiriau ef ei hunan. Mewn llythyr a ysgrifennai at gyfail yn Llundain, mor ddiweddar a'r flwyddyn 1808, efe a ddywaid fel y canlyn:—

“Yn fy nheithiau trwy amryw ranau o Ogledd Cymru, odeutu tair blynedd ar hugain yn ol, mi a welais fod cyflwr tlodion y wlad yn gyffredin mor isel, o ran gwybodaeth grefyddol, nad oedd ond prin un o bob ugain, mewn amryw fanau, yn medru darllen yr ysgrythyrau; ac mewn ambell barth, yn ol ymofyniad penodol, anhawdd oedd cael cymmaint ag un wedi ei ddysgu i ddarllen. Cefais y pryd hyny, ac yr wyf eto yn cael, profion beunyddiol o anwybodaeth y trueiniaid sydd heb fedru darllen, ac heb erioed gael eu haddysgu yn egwyddorol; i.e., er nad oes yn y lleoedd ddiwyg pregethu yn barhaol. Gweled hyn a'm gwnaeth yn fwy poenus nag y gallaf adrodd, ac a barodd i mi chwilio mewn dwys fyfyr am ryw feddyginiaeth ebrwydd ac effeithiol at symud yr aflwydd hwn. Yn ganlynol, rhoddais y cynnyg o flaen ychydig gyfeillion am ddechreu ar gyd-gynnorthwyad, at dalu cyflog i ysgolfeistr, a hwnw i gael ei symud o le i le, ar gylch, i ddysgu y tlodion i ddarllen, a'u byfforddi yn mhreif egwyddorion Cristionogaeth, trwy eu *cateceisio*. Yn y flwyddyn 1785 y dechreuodd y gwaith hwn. Ar y cyntaf ni roddwyd ond un ysgolfeistr ar waith; ond fel y cynnyddodd y gynnorthwyon, yr oedd amliad ar yr ysgolion, hyd onid oeddynt yn *ugain* o nifer. Rhai o'r ysgolfeistriaid cyntaf, bu raid i mi fy hun eu dysgu; hwythau wedi hyny a fuant ddysg-

awdwyr i ereill a anfonais atynt i ddysgu bod yn ysgolfeistriaid. Ffrwyth o'r ysgolion cylchynol hyn yw ein bysgolion Sabbothol sydd yn lluosawg ar led y wlad; o herwydd heb y rhai cyntaf, rhy anhawdd fuasai cael dysgawdwyr i ddwyn y lleill yn mlaen.

Yn bresenol, er nad yw yr ysgolion cylchynol ddim mor llwyr reidiol ag oeddynt gynt (gan amlder cyffredinol yr ysgolion Sabbothol sydd yn cael eu cynnal gan addysgwyr heb ddim cyflog,) eto, er hyn, yr wyf yn cael prawf na allwn mo'r myned yn mlaen heb rai o honynt. Y mae hyd heddyw lawer o leoedd tywyll mewn amryw ranau o'r wlad, yn mha rai nid oes dynion addas, ac ewyllysgar hefyd, i osod ysgolion Sabbothawl ar droed. Ac am hyny, fy unig feddyginiaeth ydyw anfon ysgolion cylchynol i'r cyfryw leoedd, gyda golygiad yn raddol i godi ysgolion Sabbothol i gymmeryd eu lle, a dal yn mlaen a chynnyddu moddion addysg, ar ol iddynt gael eu symud. Heblaw hyn, yr wyf yn cael fod ysgolion cylchynol yn llwyr reidiol, i roddi adymweliad i'r lleoedd y mae ysgolion Sabbothawl ynddynt, er eu hadfywio, ac adfywiogi y dysgawdwyr a'r bobl i'w cynnal yn mlaen. Heb hyn, y maent mewn amser yn gwanhau yn raddol mewn parthau gwledig, lle y mae y plant ar wasgar, ac yn mhell oddiwrth eu gilydd. Yn ganlynol, yr wyf hyd yn hyn yn cadw o chwech hyd ddeg o ysgolfeistriaid; ac y mae yn ddiau ddiffyg am nifer yn ychwaneg, pe byddai cynnorthwyon a atebent i roi i ni fodd i gyflogi ereill at y gwaith.

Er pan wnaed y casgliadau helaeth yn Nghymru i'r Bibl Gymdeithas Frutanaid a Thramor, y mae y cynnorthwyon blyneddol a'r rhoddion oll o Loegr wedi pallu i ni (oddieithr yn unig ddau guni o gynnorthwy blyneddol gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Barham,) trwy fod ein cymwynaswyr tirion wedi barnu, mae yn debygol, nad oedd dim angen am gynnorthwy mewn gwlad lle y casglwyd cymmaint o arian, yn rhywydd, at ryw ddyben penodol. Ond fe ddichon fod yn rheidiol sylwi, mai achos tra gwahanol yw hwn; ac fod meddyliau y cyffredin mewn mawr syndod wrth newyddrwydd y gwaith ardderchog, yn gystal a than effeithiad ei bwysigrwydd. Yn bresenol y mae ystôr yr ysgolion yn isel iawn, yn llai na digon at *haner* y draul yr wyf tani y flwyddyn hon. Ar y cyntaf, yr oeddwn yn cyflogi meistriaid am *wyth punt* yn y flwyddyn—yn awr yr wyf yn talu *pymtheg*; felly yr oeddwn yn gallu cadw *ugain* y pryd hyny yn agos ar yr un gost a *deg* yn bresenol; ac y mae yn ofid arnaf am nad yw yn fy ngallu i osod mwy o ddysgawdwyr ar waith, gan fod eu heisiau yn dra amlwg mewn amryw ranau o'r wlad."\*

Diau fod yr ysgolion rhad cylchynol yna wedi bod o ddirfawr les i'r Cymry; a thrwy eu hofferynloliaeth yn neillduol y cymhwyswyd rhai i fod yn athrawon yn yr ysgolion Sabbothawl, y rhai y bu Mr. Charles yn brif offeryn i'w cyfodi a'u trefnu yn lled aml a chyffredinol trwy y dywysogaeth; a thrwy ei ddyfal barhad a'i daerni gwresog yn nghyfarfodydd misol a chwarterol y Trefnyddion Calфинаidd, llwyddodd i gael ugeiniau, cannoedd, a miloedd, o gynnorthwywyr ewyllysgar, yn ol eu hamrywiol ddoniau, i ddwyn y gwaith mawr yma yn mlaen.

Yn gysylltiedig â chyfodiad ysgolion Sabbothawl, i ddysgu pob graddau i ddarllen y Beibl, efe a ymroddai i ddysgu egwyddorion mawrion Cristionogaeth i'w gydgenedl, trwy eu holwyddori; ac i'r perwyl yma, cynnaliai gyfarfodydd mawrion, y rhai a alwai yn gymmanfaoedd yr ysgolion Sabbothawl; i'r rhai hyn ymgynnullai deuddeg neu bymtheg o ysgolion Sabbothawl, y rhai a fyddent wedi bod yn chwilio yr ysgrythrau, ar ryw

\* Cofiant, t.d. 168.

destynau rhoddedig, drwy ystod y deufis neu dri blaenorawl, a threulid y diwrnod i'w holi yn gyhoeddus ar y pynciau hyn, gan Mr. Charles a'i gynnorthwywyr. Dyma ei ddarluniad ef ei hun o'r cyfarfodydd dyddorawl hyn:—

“Y mae testyn yn cael ei roddi i bob ysgol, ar yr hwn y mae iddynt gael eu holi; a'r hwn y mae iddynt ei eglurhau, trwy adrodd profion addas o'r ysgrythyrau. Ar yr amser penodedig—dydd Sabboth yn gyffredin—mae plant yr amrywiol ysgolion yn ymgynnull, a'u meistriaid yn eu canlyn; ac y mae llawer o honynt wedi cerdded deng milldir erbyn wyth o'r gloch y bore. Wrth gychwyn, y maent yn cyfarfod eu gilydd mewn lle penodol, ac ar yr awr osodedig; hwy a weddiant, ac a ganant benill o hymn efo'u gilydd; ac yna teithiant yn mlaen yn siriol, ac mewn trefn, i'r lle cyfarfod.

Gan nad oes un lle addoliad yn ddigon helaeth i gynnwys y dyrfa fawr iawn o bobl a fydd yn ymgynnull ar yr achosion hyn, bu gorfod arnodyn gyfodi esgynloriau oddiallan i'r tai, neu yn y meusydd—un yn dra helaeth, i'r plant sefyll arni, dwy neu dair ysgol ar unwaith; a'r llall, i'r cateceiswyr, gyferbyn a hi, bymtheg neu ddeunaw llath oddiwrthi; a'r cyfwng rhyngddynt sydd i'r gynnulleidfa a safant i wrando. Yr ydym yn dechreu ar y gorchwyl yn foreu; ac y mae y dydd oll yn cael ei dreulio ar yr holiadau hyn. Y mae pob oedfa yn parhau am dair neu bedair awr; ac yn gyffredin, hi a ddiweddri â chynghor i'r plant ac i'r gynnulleidfa. Yn yr yspaid byr rhwng yr odfaon cyhoeddus, y mae plant pob ysgol yn cael eu harwain gan eu meistriaid i ystafell ddarparedig at yr achos, i gael rhyw faint o lumiaeth; ac ar yr amser apwyntiedig, hwy a arweinir yn ol i'r lle cyfarfod. Bu genym, ar yr achlysuron hyn, o bymtheg i ugain o ysgolion yn cydymgynnull.

Hyd yn hyn y mae y cymmanfaoedd wedi bod yn dra buddiol. Mae y rhagbarotoad yn rhoi gwaith am ddau fis i'r bechgyn a'r genethod, mewn ardaloedd helaeth a phoblog; ac y maent yn ymroddgar iddo gydag awydd a myfrydwch mawr. Y mae yr holiadau cyhoedd hefyd (fel y gallwn yn rhesymol farnu oddiwrth eu dyfalwch a'u teimladau bywiog wrth glywed atebion y plant,) yn fuddiol iawn i'r gwrandawr cynnull-edig. Mi a welais doddiadau a dagrau dwysion yn eu plith. Pan fyddo gwaith y diwrnod drosodd, arweinir y plant gan eu meistriaid, neu ynte dan ofal eu rhieni, i'w cartrefeioedd.”\*

Llafur Mr. Charles i ledaenu moddion addysg yn mysg y Cymry a gyfodai eu syched yn fwyfwy am feddu gair Duw; ac at bwy y troent yn naturiol am fodd i dori eu syched, onid at yr hwn a godasai y syched arnynt: felly, fel yr oedd yr ysgolion cylchynol a Sabbothol yn lluosogi, a rhai galluog i ddarllen yn amlhau, yr oedd y gri am Feiblau yn myned yn uwch ac yn gryfach, ac wedi disgyn yn Gymraeg ar fynwes Charles yn y Bala, fe'i hadseinid yn Saesneg trwy gyfrwng ei ohebiaeth eang a rhai o oreugwyr Lloegr yn y dyddiau hyn; ac o'r diwedd, llwyddwyd i gael argraffiad o ddeng mil o Feiblau Cymreig tua'r flwyddyn 1799, trwy offer-ynoliaeth y Gymdeithas er lleadaeniad Gwybodaeth Gristionogol; ond ychydig iawn oedd hyn at gyflenwi yr angen oedd yma am air y bywyd, ac nis gwnelai namyn codi y syched yn fwy. Ond er i Mr. Charles anfon llawer o lythyrau at gyfeillion o offeiriad duwiol yn Lloegr, y rhai a wnelent eu goreu i eiriol gyda'u hesgobion, a boneddigion dylanwadol ereill, am gynnorthwy pellach gan yr hen gymdeithas enwog a chyfoethog uchod; ond efallai fod cyfarwyddwyr y gymdeithas yn dechreu ofni mai gwrtaith

\* Cofiant, t.d. 174.

i gynnydd ymneillduaeth yn Nghymru a fyddai y fath helaethrwydd o Feiblau ag a geisiai Mr. Charles; ac felly, diwedd ei holl lafur ef a'i gyfeillion yn y blyneddoedd hyn ydoedd pall a nacad hollol.

Dan yr amgylchiadau hyn, "fel yr oedd efe yn ymerol âg ewyllysyr da i grefydd a duwioldeb, pa fodd y gellid cael argraffiad helaeth o'r Beibl am bris gweddol yn yr iaith Gymraeg—ac os byddai bosibl i drefnu cyllidfa barhaus o honynt, fel na byddai, un amser mwy, brinder o Feiblau i'r Cymry tlodion—rhoddodd yr Arglwydd y meddwl caruaid ardderchog yn nghalonau rhai o'r gwyr duwiol yr oedd yn ymddiddan â hwynt, o ffurfio cymdeithas i ddosbarthu Beiblau, nid yn unig yn ein gwlad ein hunain, ond hefyd yn y gwledydd pellenig tramor, pa un bynag ai Cristionogol, Mahometanaidd, neu Baganaidd; fel na byddai un genedl dan y nefoedd, nac un person neillduol yn y byd, heb y trysor gwerthfawr hwn, a ewyllysiai ei feddiannu."\* Ac ar y 7fed o Fawrth, 1804, ffurfiwyd y cyfryw gymdeithas, i daenu gair Duw, heb na sylwad na chwanegiad ato, ar led y byd; ac mewn haner can' mlynedd, y mae y gymdeithas hono wedi bod yn offeryn anrhydeddus i gyhoeddi a lledaenu *pum' mifil ar hugain, pedwar cant a dwy fil, tri chant a naw*, o eiliadon o air Duw; a chynorthrwyo cymdeithasau ereill i ledaenu tua *deunaw mifil* yn ychwaneg. Taenodd yn yr Iwerddon, er y flwyddyn 1806, *ddwy filfil, a saith gan' mil*, o Feiblau a Thestamentau; yn Ffrainc, er y flwyddyn 1818, taenodd *dair mifil*; ac yn y flwyddyn 1849, lledaenwyd *saith mil ar hugain* yn yr Eidal, ffurfiwyd y rhai eisoes ydynt filoedd o ymofynwyr am ffordd y bywyd, ac nid ychydig o ferthron dros y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. Ac yn yr unrhyw dymhor—sef yr haner canrif cyntaf o'i sefydliad—lledaenodd yn mys ein cenedl, ac yn ein hiaith ni, tuag *wyth gan' mil* o eiliadon o'r ysgrythyrau sanctaidd! "O'r Arglwydd y daeth hyn, a hyn sydd ryfedd yn ein golwg ni."

Yn ei flyneddoedd olaf efe a gyfansoddodd y *Geiriadur Ysgrythyrol*—llyfr a fu o gymhorth dirfawr i filoedd o'r Cymry, yn eu llafur am ddeall yr ysgrythyrau; a diau y bydd y gwaith hwn mewn bri yn mysg y genedl, ac yn anrhydedd i goffadwriaeth ei awdwr, dros oesau lawer eto. Gwaith mawr arall y bu yn ddyfal iawn wrtho, yn mlyneddodd olaf ei fywyd, oedd paratoi eiliad diwygiedig o'r ysgrythyrau yn Gymraeg i'r wasg, at wasanaeth y gymdeithas uchod.

Oddiwrth y sylwadau blaenorol, gwelir fod Charles yn ddyrn i'w genedl, yn hytrach nag i'r blaid grefyddol y perthynai iddi yn fwyaf neillduol, a bu ei lafur yn fendithiol i adfywio crefydd i fesur mawr yn mysg pob enwad crefyddol trwy y dywysogaeth; ac ar yr un pryd, gellir dywedyd fod ei ddyllanwad wedi bod yn fwy effeithiol na'r eiddo un dyn arall, er cadarnhau a threfnu y cyfundeb y perthynai iddo. Efe, yn benaf, a dynodd allan y Rheolau Dysgybliaethol, a'r Drefn Eglwysig, sydd eto mewn grym yn y cyfundeb; ac wedi dwys ystyriaeth, cytunodd â chais amryw frodyr, i baratoi y rheolau a gymmeradwywyd gan y gymmanfa, i ordainio brodyr dewisedig, i weinyddu yr ordinadau o fedydd a swper yr arglwydd yn nghynnulleidfaoedd y cyfundeb—yn ol y rhai yr ydyd eto yn parhau i weithredu.

Wedi gwasanaethu ei genhedlaeth ei hun gyda ffyddlondeb ac effeithiolrwydd digyfellyb o'r bron, efe a gafodd fynediad helaeth i mewn i lawenydd ei Arglwydd, ar y pummed dydd o fis Hydref, yn y flwyddyn 1814, pan o fewn chwe' diwrnod i fod yn bedair blwydd ar bymtheg a deugain oed.

\* Cofiant, t.d. 193.



## DARLITH XIII.

ANSAWDD BRESENOL CREFYDD, MOESAU, AC ADDYSG,  
YN MYSG Y CYMRY.

Y MAE testyn y Ddarlith hon yn un tra dyddorawl i bob Cymro a dylanwadir gan egwyddorion gwladgarwch a Christianogaeth; ac y mae yr haeriadau haerllug a wnaed yn ddiweddar, ac a wneir yn barhaus, gan ryw ddosbarth o ddyinion, mewn cyfarfodydd cyhoeddus, a thrwy yr argraffwasg, mewn perthynas i ansawdd moesau, crefydd, ac addysg, yn mysg ein cenedl, yn galw am i ni wneyd ymchwiliad manwl a diduedd i'r testyn.

Gyda golwg ar *grefydd*, yr wyf yn meddwl nad yw yn ormod i mi ddywedyd, y cynnelir moddion crefyddol yn mysg y Cymry—mewn cymhariaeth i faintiolaeth y dywysogaeth, a nifer y trigolion—i raddau helaethach nag yn mysg unrhyw genedl arall o dan lywodraeth Prydain Fawr; a bod mwy o nifer o'r boblogaeth yn gwneyd defnydd rheolaidd o'r cyfryw foddion, nag a ganfyddir, mewn cymhariaeth, yn un ran arall o'r Deyrnas Gyfunol.

Darperir y cyfryw foddion crefyddol i'r Cymry trwy offerynliaeth yr Eglwys Sefydledig, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Trefnyddion Calfinaidd a Wesleyaidd, yn nghydag ychydig fân enwadau ereill.

Wrth edrych i adroddiad y dirprwywyr a benodwyd gan ei fawrhydi Gwilym IV., i ymchwilio i ansawdd y cyllidau eglwysig yn Lloegr a Chymru—yr hwn adroddiad a gyhoeddwyd trwy orchymyn y senedd, yn y flwyddyn 1835—gwelwn fod mewn cyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig, yn y flwyddyn hono, y nifer canlynol o fywioliaethau eglwysig, yn y pedair esgobaeth Gymreig:—

	<i>Bywiolaethau.</i>	<i>Cyllid.</i>
Bangor .....	196	£35,064
Llanelwy .....	133	42,592
Llandaf .....	240	36,347
Ty Ddewi .....	484	60,653

Yn y cyfan.....£174,656

Cyllidau y pedwar esgob a gyfrifir yno fel y canlyn:—

Bangor .....	£4464
Llanelwy .....	6301
Llandaf .....	924
Ty Ddewi .....	1897

Y cyfan.....£13,586

Ond mewn adroddiad diweddarach, gwelais gyllid blyneddol pedwar esgob Cymru yn cael ei gyfrif yn £16,900; ac yr ydwyf yn meddwl, pan gymmerir i ystyriaeth yr eglwysi newyddion a adeiladwyd ac a waddol-

wyd yn ystod y deunaw mlynedd diweddfaf, a chynnydd gwerth cyllidau eglwysig yn gyffredinol, o fewn yr un yspaid o amser, yn nghyda'r anrwyiol offrymau a thaliadau ereill a dderbynir gan yr offeiriaid trwy Gymru, na chyfeiliornwn pe y cyfrifwn gyllid blyneddol yr Eglwys Sefydledig, yn nhywysogaeth Cymru, uwchlaw DAU CAN' MIL O BUNNAU! Swm digonol i gynnal tua *dwuy fil* o weinidogion perthynol i'r Eglwys Sefydledig, ar gyllid o gan' punt yn y flwyddyn, bob un—neu tuag un gweinidog am bob pum' cant o'r trigolion, yn wŷr, gwragedd, a phlant! Beth pe y buasai y cyllid mawr uchod yn cael ei ddefnyddio yn briodol i gynnal llafurwyr, ac nid segurwyr, yn ngwinllan Crist—gwir olynwyr apostolion Crist, mewn athrawiaeth, ymarweddiad, a sel! diau y buasai y dywysogaeth erbyn heddyw fel gardd yr Arglwydd.

Y ffaith nesaf a grybwyllaf er egluro ansawdd crefydd yn Nghymru, a fydd o adroddiad Syr Benjamin Hall, barwniad. Mae ystadegau yr adroddiad hwnw yn gorchuddio 417 o blwyfi; ac ynddo dangosir pa sawl moddion crefyddol a gynnelid yn wythnosol gan yr Eglwys Sefydledig, a chan yr Ymneillduwyr, yn yr amryfal blwyfydd hyny. Erbyn crynhoi yr ystadegau hyny, gwelwn fod yn y 417 plwyfau a nodir ynddynt, 624 o eglwysi, yn mha rai y cynnelid 348 gwasanaeth Cymreig, 335 gwasanaeth Seisnig, ac 51 gwasanaeth mewn rhan yn Gymreig, ac mewn rhan yn Seisnig; yn gwneyd yn y cyfan, 734 gwasanaeth crefyddol yn y nifer dywededig o blwyfi, bob wythnos. Yn yr unrhyw blwyfi, y mae 1191 o addoldai ymneillduol, y rhai a gyfodwyd yn ystod y deugain mlynedd diweddfaf, ar yr egwyddor wirfoddol, a hyny drwy gyfraniadau y bobl gyffredin, y rhai ydynt yn gorfod ymddibynu am eu cynnalïaeth ar eu llafur personol eu hunain; ac yn yr addolfeydd hyny, cynnelir 2037 gwasanaeth crefyddol Cymreig ar y Sabbothau, a 473 gwasanaeth crefyddol Seisnig; ac yn yr wythnos, 1635 gwasanaeth crefyddol Cymreig, a 285 gwasanaeth crefyddol Seisnig; yn gwneyd yn y cyfan, 4430 gwasanaeth crefyddol bob wythnos. Neu mewn geiriau ereill, y mae yr egwyddor wirfoddol yn darpar i genedl y Cymry, gymmairt *chwae' gwaith* o foddion crefyddol—heb osod treth ormesol ar undyn, ond trwy gyfraniadau ewyllysgar gwerin y dywysogaeth—ag a ddarperir ar draul y dau can' mil o bunnau o waddolaeth a berthyn i'r Eglwys Sefydledig! Oddiwrth y cyfrifon blaenorol, gallwn gasglu bod tua *deuddeng mil* o gyfarfodydd crefyddol yn cael eu cynnal yn y dywysogaeth, bob wythnos, er nad yw y boblogaeth nemawr dros *filwm* o eneidiau; ac y mae yn dra amheus genyf a ellir canfod un genedl' arall ar wyneb y ddaear yn mwynhau y fath helaethrwydd o foddion crefyddol, mewn cyfartaledd i'w phoblogaeth.

Ffaith arall a grybwyllaf, er egluro ansawdd bresenol crefydd yn y tir, a fydd yr ystadegau a ddangosant pa fodd y gwerthfawrogir y moddion hyn gan y genedl yn gyffredinol.—Ar Sabboth yn nechreu y flwyddyn 1847, gwnaed cyfrifiad manol o'r nifer oeddynt bresenol, ar orïau gwasanaeth dwyfol, yn eglwysi a chapeli 392 o blwyfi yn Ngogledd a Deheubarth Cymru, gan ddynion cyfrifol, da eu cymmeriad yn nysg eu cydnabod, y rhai a chwanegent bob un yr ardstyiad canlynol, yn nghyda'u henwau personol, ac enwau eu trigleoedd, wrtho:—"Yr ydym ni, y rhai a gasglasom y cyfrifon uchod, yn tystio fod y cyfryw gyfrifon yn gywir, hyd eithaf ein gwybodaeth."

Gwelwn fod y 392 plwyfydd, yn y rhai y gwnaed y cyfrifiad crybwylledig, yn cynnwys poblogaeth o 431,002; tra yr oedd holl boblogaeth y deuddeg sir o ba rai y cymmerid y nifer dywededig o blwyfi, yn 911,603; ac felly yr oedd poblogaeth y 392 plwyfydd y gwnaed y cyfrifiad ynddynt yn lled agos i haner poblogaeth yr holl wlad; gan hyny, y mae y cyfrifiad

a wnaed yn safon ddigonol i wneyd allan oddiarno gasgliad lled fanol am y cyfartaledd o'r genedl ydynt yn arfer mynychu cyfarfodydd crefyddol ac ysgolion Sabbothawl yr Eglwys Sefydledig, a'r addoldai ymneillduol. Dosberthid y nifer uchod o blwyfi fel y canlyn:—Mon, 30; Arfon, 59; Dinbach, 53; Fflint, 17; Meirion, 23; Trefaldwyn, 28; Brecheiniog, 27; Aberteifi, 54; Caerfyrddin, 40; Morganwg, 18; Penfro, 43; a Maesyfed, 10 —yn y cyfan 392 o blwyfi.

*Y nifer oeddynt bresenol yn yr Eglwysi a'r Capell, mewn 392 o blwyfi, yn Ngogledd a Deheubarth Cymru, ar Sabboth yn nechreu y flwyddyn 1847.*

Enwadau.	Nifer presenol mewn Gwasanaeth Crefyddol ar Sabboth.			Canolrif yn yr addoliad.	Nifer presenol yn yr ysgolion sabbothol.		Canolrif yn yr ysgolion
	Boreu.	Nawn.	Nos.		Boreu.	Nawn.	
Bedyddwyr .....	11807	6937	14579	11108	4725	6399	5562
Annibynwyr .....	26434	16282	33737	25484	11721	15252	13487
Trefnyddion Calfinaidd .....	33470	31562	62425	42486	19860	29685	24772
Wesleyaidd ..	6173	7876	17001	10350	4172	5764	4968
Ereill .....	1765	723	474	987	163	143	153
Cyfanrif .....	79649	63379	128216	90415	40641	57243	48942
Yr Eglwys Sefydledig .....	18128	9710	5889	11242	3396	6002	4699
Cyfanrif mewn Eglwysi a } Chapelau .....	97777	73089	134105	101657	44037	63245	33641
Eto, ar yr holl boblogaeth ..	206806	154589	283643	215013	93143	133768	113455
Cyfartaledd yn addoldai yr } Ymneillduwyr .....	81½ o'r cant	87 o'r cant	96 o'r cant	89 o'r cant	92½ o'r cant	90½ o'r cant	91 o'r cant
Eto, yn yr Eglwysi .....	18½ o'r cant	13 o'r cant	4 o'r cant	11 o'r cant	7½ o'r cant	9½ o'r cant	9 o'r cant

Mae y nifer presenol yn yr Eglwysi yn cynnwys plant yr Ysgolion Gwladwr-iaethol, llawer o ba rai ydynt blant Ymneillduwyr.

Oddiwrth y cyfrifon blaenorol, gwelwn fod tuag *un ran o dair* o boblogaeth Cymru yn bresenol mewn rhyw le addoliad, ar y Sabboth dywededig, er ei fod yn Sabboth dryghinawg, yn nyfnder gauaf, pan oedd y ffyrdd yn ddyfnion, ac felly yn anhawdd i'r hen bobl fethiannus, yr afiachus, a'r llesg, fyned i'r addoldai; ac ar adeg pan oedd yr anifeiliaid i fewn, yr hyn, mewn gwlad amaethyddol, a'i gwna yn rhy anfantaisiol i lawer o weinidogion fod yn bresenol: dyma brawf anwadadwy, dybygaf, fod y Cymry yn gwerthfawrogi moddion crefyddol yn helaethach nag un genedl arall yn y deyrnas gyfunol!

Yr ail ran o destyn y Ddarlith hon yw *ansawdd moesau* yn mysg cenedl y Cymry. Sonir am ein cenedl, mewn rhyw gylchoedd, fel pe na byddent namyn haner anwariaid—heb fod yn eu haneddau, eu hymborth a'u dillad, eu harferion cyndeithasol, a'u dull o drin y ddaear, nemawr os dim uwel-law y Gwyddelod; ac mewn newyddiaduron Cymreig a Seisnig a gyhoeddir yn y dywysogaeth, darlunir y grefydd a ffyna benaf yn Nghymru—sef, ymneillduath—yn waeth na Phabyddiaeth; a chyffresir hi â meddwod, godineb, a delw-addoliaeth: awgrymir ei bod wedi gwneyd mwy o ddrwg i Gymru, yn nghorph y can' mlynedd diweddf, na'r arferiad niweidiol o

gydorwedd; a bod yr arfer garwriaethol yn hanedig o'r un grefyddol; ac mai plentyn ymneillduaeth Cymru ydyw bastarddiaeth ein gwlad, &c. Darluniant Gymru fel y wlad sydd yn bregethwr-farchogedig—y wlad a ddyfethir, i.e. a ddemnir gan hudolwyr pleidiau *anwarantedig*; a'r gweini-dogion mwyaf llafurus, doniol, a defnyddiol yn y wlad, os heb urddau esgobawl, a ddarlunir yn yr unrhyw gyhoeddiadau fel traws-ymwthwyr anawdurdodedig, hereticiaid a sismaticiaid pechadurus. Heb ymdroi i olrhain geudeb yr ymholiad a wneir gan rai o eglwyswyr Cymru o'u hollyniaeth apostolaidd, yn y Ddarlith hon, âf rhagof i ymofyn pa beth ydyw ansawdd moesau gwlad sydd fel hyn wedi ei melldigo mor ofnadwy gan ymneillduaeth. Os ydyw yr haeriadau crybwylledig uchod yn wir, rhaid fod trigolion y gwledydd lle y ffyna ymneillduaeth fwyaf ynddynt, *lawer yn is ar raddeg moesoldeb* na thrigolion y gwledydd lle nad oes nemawr o ddylanwad gan ymneillduaeth, ond lle y mae gweini-dogion yr Eglwys Sefydledig yn cael eu ffordd eu hunain yn fwyaf diatalfa, i gario yn nilaen addysg crefyddol a moesol y bobl; ac os gellir profi hyn, bydd yn un o'r dadleuon cryfaf er darbwyllo ein cenedl i ymwrthod âg ymneillduaeth, ac ymryddhau am byth â'r draul afreidiol—i.e. a piweidiol, yn ol yr haeriadau blaenorol—o gynnal ymneillduaeth, i'r hyn nis cymhellir hwy gan lywodraeth na chyfraith wladol, ac nis gorfodir hwy gan unrhyw rwyman, ond a roddant arnynt eu hunain yn wirfoddol.

Wrth edrych i'r ddeiliadeb (*census*) a gymmerwyd yn y flwyddyn 1851, gwelaf mai holl nifer trigolion Gogledd Cymru ydoedd 404,160; a holl nifer troseddwy'r gyfraith wladol, yn chwe' sir Gwynedd, am yr un flwyddyn, oedd 225—neu un o bob 1796. Yr un pryd, yr oedd nifer trigolion swydd Gaerlleon—gwlad sydd yn ymylu ar Wunedd, ac o ran ei hansawdd yn gyffelyb iddi, sef mewn rhan yn weithfaol ac mewn rhan yn amaethyddol—yn 423,438; a'r troseddwy'r ynddi yn 816, neu un o bob 518. Felly, y mae trigolion Gwynedd, er mor anfodus ydynt yn eu crefydd, yn sefyll yn uwch *dair gwaith* ar raddeg moesoldeb, yn llafur llywodraeth Prydain Fawr, na thrigolion swydd Gaerlleon, y rhai ydynt yn rhydd mewn cymhariaeth oddiwrth ddylanwad ymneillduaeth.

Trachefu, y mae Deheubarth Cymru, yn ol y ddeiliadeb ddiweddar, yn cynnwys 607,496 o drigolion: a nifer y troseddwy'r o honnynt, yn yr un flwyddyn, oedd 445—o ba rai yr oedd 287 o sir Forganwg yn unig, lle y mae cynnifer o wehilion holl wledydd Prydain a'r Iwerddon, yn cyrchu i'r gweithfeydd haiarn ac efydd; ond er y cam yma, nifer y drwgweithredwyr yn Neheubarth Cymru, am y flwyddyn grybwylledig, oedd un o bob 1365 o'r trigolion. Y mae dwy sir yn ymylu ar y Deheubarth, sef Henffordd a Chaerloyw, a'u poblogaeth yn nghyd a wna 518,587; a'u troseddwy'r 912—neu un o bob 568 o'r trigolion: felly, y mae y Deheuwyr eto, er afendid y Merthyr, a phobl gymmysg y gweithfeydd haiarn, yn sefyll yn uwch *ddwywaith* ar raddeg moesoldeb, na thrigolion y ddwy sir gerllaw iddynt, y rhai mewn cymhariaeth ydynt yn rhydd oddiwrth ddylanwad ymneillduaeth. Ni alltudiwyd cymmaint ag un o ddeuddeg sir Cymru yn y flwyddyn uchod; ond o'r tair sir Seisnig a nodwyd uchod, alltudiwyd *chwech* dros eu hoed.

Wrth gyferbynu Cymru oll gyda Lloegr oll, y mae graddau cymhariaethol y troseddwy'r a'r boblogaeth yn sefyll fel y canlyn:—Cymru, un troseddwr allan o bob 1519 o'r trigolion; a Lloegr, un allan o bob 813. Felly, nyni a ganfyddwn fod Cymru oll yn sefyll tua *dwy waith* yn uwch na Lloegr oll, ar raddeg moesoldeb. Nifer y troseddwy'r a gafwyd yn euog, yn ngwahanol siroedd Cymru, yn ystod y flwyddyn 1851, oedd fel y canlyn:—

<i>Siroedd.</i>	<i>Troseddwy.</i>	<i>Trigolion.</i>	<i>Cyfarfaledd.</i>
Mon .....	43	137,916.....	Un allan o bob 1393.
Arfon .....	56		
Meirion .....	25	51,242.....	Un allan o bob 2049.
Dinbach .....	77	96,820.....	Un allan o bob 1257.
Ffint .....	63	41,053.....	Un allan o bob 652.
Trefaldwyn .....	73	77,129.....	Un allan o bob 1056.
Ceredigion .....	45	94,643.....	Un allan o bob 2170.
Pentro .....	88	84,456.....	Un allan o bob 960.
Caerfyrddin.....	75	97,687.....	Un allan o bob 1302.
Brycheiniog .....	66	59,162.....	Un allan o bob 895.
Morganwg .....	378	240,132.....	Un allan o bob 635.
Maesyfed.....	20	31,416.....	Un allan o bob 1570.

Ond y peth a roddir fwyaf yn erbyn y Cymry ydyw *anniweirdeb*, yr hyn a brofir trwy luosogrwydd y genedigaethau annghyfreithlawn yn y dywysogaeth. Mae yn wir fod hyn yn fryeueyn y dymunai pob Cristion effro yn y wlad ei weled yn cael ei ddileu ar frys oddiar nodweddiad ei genedl; ac megys y gwnaed ymdrechion canmoladwy i ddarostwng meddwod y genedl—yr hyn hefyd a fu yn llwyddiannus i fesur mawr—dylid gwneyd ymdrechladau arbenig yn erbyn y pechod hwn hefyd, a pharhau ynddynt, hyd oni wneler yr arferiad sydd yn achlysur penaf o hono—sef cydorwedd—yn ffaithd yn nghyfrif yr oes sydd yn codi. Y mae yr arfer atgas hon yn hen iawn yn mysg ein cenedl, fel y gellid profi o gyfansoddiadau ein beirdd, o Dafydd ab Gwilym hyd Lewelyn Ddu o Fon; ac y mae yr hyn sydd wedi hir wreiddio fel arfer genedlaethol, yn beth nas gellir ei ddfoddi heb ymdrechion egniol, unol, a pharhaus, ar ran y doeth, y da, a'r dylanwadol, tuag at hynny. Dylai rhieni, yn nghydag athrawon ac athrawesau yr ysgolion Sabbothawl, ymddiddan yn ddfifrifol gyda'r ieuentyd, am y mawr bwys o'u mynediad yn anrhydeddus i'r cyflwr priodasol; a dangos iddynt, gyda phob addfwynder a difrifwch, anweddeidd-dra a pherygl yr arfer a fyfna yn rhag-gyfeillach ieuentyd, mewn rhai cyrau o'r wlad yn bresenol. Dylai penau teuluoedd ofalu am roddi cyfleustra priodol; o ran amser a lle, i'r ieuentyd a fyddont dan eu gofal—pa un bynag ai eu plant ai eu gwasanaethyddion—i gyfeillachu á'u gilydd; ac ymddwyn atynt yn y fath fodd ag i enill eu hymddiried, fel y gwnelo yr ieuentyd gynghorwyr o honynt, yn lle cuchiaw arnynt mewn nwydau drwg, fel pe byddai yn bechod iddynt feddwl am fod byth yn amgen na myneich a lleianod—gan gofio fod yr unrhyw dueddiadau naturiol yn eu plant ag oedd ynddynt hwythau pan yn eu hoed. Ar yr un pryd, dylid eu dysgu i ochel myned i'r ystad briodasol yn annarbodus; ond o'r pryd y dechreuont enill rhyw faint, eu harfer i ddefnyddio arian gyda chynnildeb, gan droi rhyw swm o'r neilldu yn barhaus, gyda'r bwriad o osod iddynt eu hunain sail dedwyddwch yn y cyflwr priodasol; ac y mae yn sier genyf, fel y delont i grynhoi ychydig o ffrwyth eu llafur a'u cynnilwch eu hunain, y deuant i roddi mwy o fri ar gadw iddynt eu hunain gymmeriad dihalog; ac felly, gwaredid ein gwlad rhag llawer o'i drygau.

Ond y mae cyfiawnder á'm cenedl yn fy rhwymo i ddywedyd fy mod, wedi llawer o ymchwiliad, yn gorfod barnu nad yw Cymru mor ddfwn yn y pechod o anniweirdeb ag yw Lloegr yn gyffredinol; ac na buasai gymmaint o sylw ar anniweirdeb Cymru, oni buasai ragoriaeth Cymru mewn moesau cyffredinol. Tra y mae puteindai cyhoeddus yn gyffredin yn Lloegr, ac yn ffynu fwyaf efallai lle y mae bastarddiaeth leiaf o'r bron, y maent o drugaredd yn dra anaml yn y dywysogaeth; a buan y byddo y wlad wedi ei glanhau yn llwyr oddiwrthynt. Y cyfrifon canlynol hefyd—

y rhai a gymmerwyd o adroddiad y Cofrestrydd Cyffredinol, am 1848—a ddangosant yn gywir sefyllfa bastarddiaeth yn Ngogledd a Deheubarth Cymru, mewn cymhariaeth i ranau eang o Loegr. Holl nifer y genedigaethau yn Ngogledd Cymru, am y flwyddyn uchod, oedd 11,067; ac o honynt yr oedd 832 yn fastarddiaid—neu un o bob 13½. Am y Deheudir, yr holl enedigaethau cofrestredig yn yr un flwyddyn oedd 18,463, ac o honynt 1300 yn fastarddiaid—neu un o bob 14½—nifer ag y dylid gwneyd pob ymdrech i'w leihau ar frys. Ond fel nas gellir priodoli hyn mwyach i ymneillduaeth Cymru, dodwn ddarluniad cymhariaethol o ranau ereill y deyrnas, lle nad yw ymneillduaeth mor ffyniannus.—Swydd Gaerlleon, yr hon a gynnwys fwy o boblogaeth na chwe' sir Gwynedd—genedigaethau, 12635, o'r rhai yr oedd yn fastarddiaid 1072—neu un o bob 11½. *Lancashire*, poblogaeth yr hon nid oedd nemawr yn fyr o fod yn *ddau* cymmaint a holl Gymru—genedigaethau, 71,893, o ba rai yr oedd 5384 yn fastarddiaid—neu un o bob 13½. Y *North Midland counties*—*sef, Leicester, Rutland, Lincoln, Nottingham, a Derbyshire*, poblogaeth y rhai yn nghyd ydynt ddeuddeg can' mil—genedigaethau, 37,384; bastarddiaid, 2768—neu un o bob 13½. *West Midland*, gyda phoblogaeth o 2,182,853—yn cynnwys siroedd Caerloyw, Henffordd, Amwythig, *Stafford, Worcester, a Warwick*—genedigaethau, 68,074; bastarddiaid, 4527—neu un o bob 14½. *Eastern Division*—yn cynnwys swyddi *Essex, Suffolk, a Norfolk*—poblogaeth, 1,113,710; genedigaethau, 34,517; bastarddiaid, 2502—neu un o bob 12. *Cumberland*—poblogaeth, 194,803; genedigaethau, 6005; bastarddiaid, 638—neu un o bob 9½! Neu pe y cymmerem yr holl randir ogleddol, gan gynnwys swyddi *Durham, Northumberland, Cumberland, a Westmoreland*—poblogaeth yr hon randir sydd 963,277; genedigaethau, 32,276; bastarddiaid, 2325—neu un o bob 13½. Swydd *Nottingham*—poblogaeth, 400,266; genedigaethau, 8457; bastarddiaid, 736—neu un o bob 11½! Oddiw'rth yr ystadegau uchod, ac ychwaneg a allesid ei roddi, gwelwn fod angen mawr am ddiwygiad yn y peth hwn yn mysg ein brodyr y Saeson, cystal ag yn ein mysg ninau ein hunain.

Dywedwyd lawer gwaith yn ddiweddar fod Mon, lle mae Methodistiaeth yn grefaf, yn ffeiddiaf yn y drwg hwn; nis gwn pa sail sydd i'r cyfryw achwyniad, oddieithr ei fod wedi ei achosi trwy fod Methodistiaid Mon wedi bod yn fwy egniol na'r cyffredin o'u cymmydogion, yn ceisio tynu i lawr yr hyn a elwir "arfer y wlad." Os felly, y mae y cyfryw ymddygiad tuag atynt yn dra anngyfiawn: dyma fel y mae yr ystadegau yn yr adroddiad a ddarllenwyd yn dangos Mon:—Nifer y genedigaethau, 1578; o ba rai yr oedd yn fastarddiaid, 85—neu un o bob 18. Swydd *Gaerlynarfon*—nifer y genedigaethau, 2519; o ba rai yr oedd yn fastarddiaid, 165—neu un o bob 15½. *Meirionydd*—nifer y genedigaethau, 1358; bastarddiaid, 101—neu un o bob 13½. *Dinbach*—nifer y genedigaethau, 2577; bastarddiaid, 193—neu un o bob 13½. *Fflint*—nifer y genedigaethau, 1099; bastarddiaid, 57—neu un o bob 19. Ac yn swydd *Drefaldwyn*—lle y mae dylanwad Methodistiaeth *leiaf* o un o siroedd Gwynedd,\* ac yr ydwyf yn meddwl na chyfeillornaf wrth ddywedyd mai dyma y sir lle y mae dylanwad ymneillduaeth *leiaf* o lawer hefyd—nifer y genedigaethau am y flwyddyn grybwyllledig ydoedd 1936: a nifer y bastarddiaid o honynt oedd 231—neu un o bob 8½! Gan hynny, yn ol yr ystadegau sydd o'n blaen, mae yn amlwg y buasai Gogledd Cymru yn alluog i ddyrchafu ei phen yn lled uchel yn y pwnc hwn, oni buasai gyysylltiad swydd Drefaldwyn & hi.

\* Gwel Ystadegau y Dyddiadur Methodistiaid I.

Y peth olaf sydd yn galw am ein sylw yn nhestyn y Ddarlith hon ydyw ansawdd bresenol *addysg* yn mysg ein cenedl.

Tra yr addefwn yn rhywdd fod tir lawer i'w feddiannu eto yn hyn, yn mysg ein cenedl, yr ydym ar yr un pryd yn hyderus y gallwn ddywedyd, fod cymmaint o gynnydd ar ddysgeidiaeth wedi bod yn Nghymru, mewn cyfartaledd i'r boblogaeth, o fewn yr haner canrif ddiweddaf, ag un ran o'r deyrnas gyfunol. Pan y dechreuodd y diweddar Barch. T. Charles o'r Bala, lafurio yn mysg ein cenedl, nid oedd prin un o ddeg o'r Cymry yn alluog i ddarllen mewn unrhyw iaith; ond erbyn heddyw, yr ydwyf yn meddwl nad gormod i mi ddywedyd, nad oes un o gant o'n cenedl, o ddeng mlwydd oed ac uchod, heb fod yn alluog i ddarllen eu hiaith eu hunain o leiaf. Y pryd hyny, yr oedd gweled *llafurwr* yn meddu Beibl, ac yn gallu ei ddarllen, yn beth hynod; ond erbyn hyn, y mae gweled *llafurwr* o Gymro heb feddu Beibl, a gallu ei ddarllen, yn llawn mor hynod; ac o'r ychydig ydynt yn y dygn anwybodaeth yma, yn nghanol cyflawnder o fanteision i gyrhaedd gwybodaeth—y rhai, trwy feddydod ac anghrefyddoldeb eu rhieni, a fagwyd i fynu yn llwyr esgulus o'r ysgolion Sabbathol, a phob moddion crefyddol—y mae prif ddrwgweithredwyr ein gwlad yn tori allan, fel y gellir gweled trwy adroddiadau ein carcharau.

Mae y diweddar Evan Jones o Dredegar (*Ieuan Gwynedd*)—yr hwn yr oedd ei lafur er gwasanaethu y Cymry yn ddihafal—yn ei lythyr at Wm. Williams, Ysw., A.S., ar gyflwr addysgawl a moesol y genedl, yn dywedyd fel hyn:—

“Y mae awyddfryd y bobl am addysg yn gwneyd eich cynllun yn afreidiol. Mae y Cymry yn benderfynol i'w haddysgu eu hunain; ac y mae hyd yn nod symledd y tai yn y rhai y cedwir yr ysgolion yn profi hyn—yr ymdrech egniol a wneir i gynnal athraw da yn mhob lle—a'r nifer tra mawr o ysgolion anghyhoedd (681,) yr hyn sydd ddiellfydd efallai yn hanes poblogaeth o weithwyr—ydynt gadarnhad digonol o wirionedd fy haeriad. Darfu i'r Eglwys, trwy gymhorth y bendefigaeth, gwaddoliadau, a dyroddion oddiwrth bwyllgor y Cynghor, ddarpar 581 o ysgolion; *tra y mae ymdrechiaidau y werin, heb nemawr o gefnogaeth, wedi sefydlu dim llai na 949!* Fe ddichon fod ansawdd yr addysg yn isel yn amryw o'r sefydliadau hyn; ond fe'n hysbysir yn adroddiadau y dirprwywyr, fod yr ysgolion israddawl yn cael eu gadael can gynted ag y sefydlir ysgol amgenach, megys ysgol Frutanaid, mewn ardal. Mae y Cymry, er eu tlodi, yn abl i ddarbod addysg iddynt eu hunain. Lle y byddo rhieni yn ystyriol o'u dyledswydd, fe ddiffana anhawsderau yn fuan. Pan fyddys wedi darpar ar gyfer y swm, yna troir y sylw yn ddioed at yr ansawdd. Dylech gofio bod y Cymry, yn ystod y saith mlynedd a deugain diweddaf, wedi cyfodi, nen ailadeiladu, o leiaf *ddwy fil* o gapelau; ac ar gyfrif tra chymmedrol, rhaid eu bod wedi talu ar hyn, o leiaf *wyth gan' mil o bunnau!* Nis gall fod traul 2500 o gapelau a gorsafau, gan gynnwys casgliadau at sefydliadau cartrefol a thramor, er lleadaeniad yr efengyl, yn llai na *chant a deuddeg ar hugain o filoedd o bunnau* yn flyneddawl. Mae athrofydd wedi eu sefydlu, gweinidogion yn cael eu cynnal yn well, fel y mae heichiau dyled yr addoldai yn lleihau, a'r teimlad o blaid addysg yn ennill tir yn raddol, ond yn gysson; ac wedi gwneyd hyn oll, pa beth na all y Cymry ei wneyd?

Mae cynnydd addysg yn profi eich cynllun yn afreidiol. Gadewch i ni ystyried cynnydd addysg ddyddiol yn gyntaf. Ar y pen yma, ein hawdurdodau ydynt bwyllgor arglwydd Brougham, ac adroddiad pwyllgor iarlil Kerry. Er iseled y bri a ddyry Mr. Symons ar yr adroddiadau hyn,

y mae yn amlwg eu bod yn profi cynnydd tra mawr ar ysgolion ac ysgolorion, o'r flwyddyn 1803 hyd 1834. A chan nad yw cyfrifon y dirprwywr presenol, efallai, yn cynnwys un ysgol lle y mae y tal uwchlaw chwe' cheiniog yr wythnos, y mae yn ofynol i ni wneyd rhyw amcan-gyfrif o'r nifer a berthynant i ysgolion uwch. Gan fod y werin Gymreig, mor awyddus am addysg, y mae yn gweddu i ni gasglu nad yw y canolradd a'r uwchradd yn ol yn hyny. Y mae Mr. Symons o'r farn, nad annheg a fyddai cyfrif un o bob chwech fel rhai na fyddent yn debyg o ymofyn addysg mewn ysgolion cyffredin. Er fod y cyfrif yna yn dra isel, eto rhag peri achos dadl, ny ni a'i cymmerwn. Os caniateir 6½ y cant am gynnydd blyneddawl y boblogaeth, o'r flwyddyn 1841 hyd y blyneddoedd 1846-7, y nifer ar yr adeg olaf a fyddai 970,857. Canfu y dirprwywr fod 72,194 o ysgolorion dyddiol mewn ysgolion i'r dospeirth llafurus; at y rhai hyn, ychwaneger y nifer crybwylledig ar gyfar y dospeirth uchelradd a chanolradd, yr hyn a wna 37,949, ac wedi eu chwanegu at 72,194, sef yr hyn a gafwyd yn yr ysgolion cyffredin, dangosir fod yn Nghymru 110,034 yn derbyn addysg ddyddiol. Gan hyny, ymddengys fod cynnydd addysg, yn y pum' mlynedd a deugain ddiweddar, fel y canlyn:—

## NIFER O YSGOLORION DYDDIOL, A'U CYFARTELEDD I'R BOBLOGAETH.

Blwyddyn.	Ysgolorion dyddiol.	Cyfartaledd i'r Boblogaeth.
1803	21,369	Un i 26
1818	30,601	Un i 22
1833	54,810	Un i 15
1846-7	110,034	Un i 9

A ydyw y cynnydd rhyfeddol yma yn dangos fod cynllun arall yn angenrheidiol? Nac ydyw, mewn un modd. \* \* \* \*

Atolygaf am eich sylw eto at gynnydd addysg trwy yr ysgolion Sabbothawl.—Yn y flwyddyn 1803, yr oedd 250 o ysgolion Sabbothawl yn Nghymru; ond fe'm harweinir i greu y byddai cyfrif deugain o ysgolorion am bob ysgol yn 1803 yn rhy uchel; ond cyfrifer eu bod yn ddeugain.

## NIFER O YSGOLORION SABBOTHAWL, A'U CYFARTELEDD I'R BOBLOGAETH.

Blwyddyn.	Ysgolorion Sabbothawl.	Cyfartaledd i'r Boblogaeth.
1803	10,000	Un i 55½
1818	21,369	Un i 28
1833	173,171	Un i 4½
1846-7	238,740	Un i 4



Yn awr, pe y caniatuem nad oedd cyfrifon 1803, ac adroddiadau 1818 ac 1833, ddim yn berffaith gywir, eto nis gallant fod mor anghywir fel na ddangosant gynnydd ar foddion addysg, digyffelyb yn nghofion cenedloedd!"

Nifer yr athrawon a'r athrawesau yn ysgolion Sabbothawl Cymru, pan y gwnaed y cyfrifiad blaenorol, oedd fel y canlyn:—Athrawon, 24,406; athrawesau, 9093; heb nodi eu rhyw, 163; yn y cyfan, 33,662. Llauer mwy yn gweinyddu addysg radlawn i'r genedl, yn yr ysgolion Sabbothawl yn unig, nag ydoedd yn derbyn addysg o unrhyw fath, mewn ysgolion dyddiol a Sabbothawl, ddeugain mlynedd yn ol! Onid ydyw hyn yn gynnydd o'r fath oreu ar ansawdd addysg yn mysge ein cenedl?

A ganlyn sydd grynodeb dartuniadol o ysgolion dyddiol Cymru, wedi ei dynu o adroddiadau y dirprwywyr:—

Ysgolion.	Ysgolorion.	
Yr Eglwys .....	581	35,600
Prydeinig .....	64	7,654
Annglyhoedd .....	681	18,177
Enwadol, &c.....	204	10,771
Y cyfan .....	1530	72,202

Ac fe ddywaid y dirprwywyr, fod agos yr holl ysgolion—cyhoedd ac annglyhoedd—nas nodir fel ysgolion yr Eglwys, yn cael eu cynnal gan ymneillduwyr, ac yn cynnwys plant ymneillduwyr. Felly, fe ymddengys fod aelodau yr Eglwys yn cynnal 581 o ysgolion, yn y rhai y cynnwysir 35,600 o ysgolorion; tra y mae yr holl ysgolion ereill—949 o nifer—yn cynnwys 36,602. Felly, yr oedd agos i *hanner* yr ysgolorion dyddiol yn cael eu haddysg gan yr Eglwys. Ond y mae yn dra gwahanol gyda'r ysgolion Sabbothawl, fel y gwelir oddiwrth y daflen ganlynol, a dynwyd allan o adroddiadau y dirprwywyr, gan Edward Baines, Yaw., o Leeds:—

## YSGOLION SABBOTHAWL YN NORHYMRU.

Enwadau.	Ysgolion.	Ysgolorion.	Athr.	Ysgolorion yn darllen y Beibl.	Eto, yn perthyn i ysgolion dyddiol.
Yr Eglwys .....	437	32668	3097	17308	16730
Trefnydd. Calfnaidd ..	881	101203	15357	67544	15337
Annibynwyr .....	601	55768	8094	33877	10196
Bedyddwyr .....	301	24338	3733	13574	5279
Trefnydd. Wesleyaidd..	266	21959	3089	12661	4985
Enwadau ereill .....	28	2804	292	1244	995
Cyfanrif .....	2514	238740	33662	146208	53522

Oddiwrth y daflen ragflaenol, ymddengys nad oedd ond 437 o ysgolion Sabbothawl, yn cynnwys 32,668 o ysgolorion, yn cael eu cynnal gan yr eglwys sefydledig; tra yr oedd 2077 o ysgolion, yn cynnwys 206,672 o ysgolorion, yn cael eu cynnal gan ymneillduwyr. *Un o saith* o'r ysgolorion ydynt yn mynychu ysgolion Sabbothawl Eglwys Loegr, a *chwech o saith* a fynychant ysgolion Sabbothawl yr ymneillduwyr. Ac y mae yn deilwng o sylw, bod llawer o blant ymneillduwyr—y rhai a berthynant i ysgolion dyddiol yr Eglwys—yn gorfod myned i ysgolion Sabbothawl yr Eglwys hefyd; ac y mae yr ystyriaeth yma yn cyfiawnhau y casgliad fod yr ymneillduwyr yn gor-rifo yr eglwyswyr yn Nghymru mewn cyfartaledd fwy nag a ymddengys oddiwrth y daflen flaenorol. Y mae yn hyfyrd canfod fod cynnifer a 146,208 o'r ysgolorion Sabbothawl yn darllen yr Ysgrhythrau sanctaidd, a 53,522 o honynt yn perthyn i ysgolion dyddiol.

Er pan fu y dirprwywyr trwy Gymru, y mae ymdrechiauau egniol wedi eu gwneuthur er ychwanegu moddion addysg yn mysg ein cenedl, a phe gwnelid adroddiad cyffelyb yn bresenol, y mae yn ddiau y canfyddid bod llawer o filoedd yn ychwaneg o dan addysg yn awr, nag ydoedd y pryd hyny—a bod yr addysg a gyfrenir yn yr ysgolion yn gyffredinol yn llawer uwch a gwerthfawrocach. A thra y gallwn ddywedyd yn ddibetrus, fod llawer mwy o'r Cymry yn bresenol yn alluog i ddarllen yn eu hiaith eu hunain, nag sydd o'r Saeson yn alluog i ddarllen yn eu hiaith eu hunain—mewn cyfartaledd i boblogaeth y ddwy genedl—yr ydym yn hyderus hefyd, y bydd yr oes sydd yn codi yn y dywysogaeth, yn gyfarwydd ar y ddwy iaith; canys y mae yn ddigon amlwg, tra y mae y Gymraeg yn cael ei choledd âg eiddigedd cenedlaethol canmoladwy, bod awydd cynnyddol yn cael ei amlygu drwy y wlad, am ymgydnabod â'r iaith Saesonaeg, er mwyn cyrhaedd y manteision a fwynheir trwy gyfrwng yr iaith hono.

Y mae y Wasg yn dwyn cyssylltiad pur bwysig âg ansawdd addysg yn mysg cenedl: ac am y wasg Gymreig, y mae yn hynod o gynnyrahiol, ac ystyried cyfynged y cylch yn yr hwn y gellir lledaenu ei chynnyrchion.\* Bum yn synu llawer, wrth ddarllen y cyfnodolion Cymreig, at y chwaeth goethedig, a'r amcan i wneyd daioni, a ymddengys yn eu herthyglau cyffredinol, yn enwedig pan yn cofio eu bod agos oll wedi eu cyfansoddi gan ddynion o'r dosbarth gweithiol. Yn wir, ychydig ydyw y cyhoeddiadau Cymreig sydd yn amddifaid o hyn: a'r ychydig hyny ydynt rai y dysgwylasid pethau amgenach oddiwrthynt, wrth ystyried manteision rhagorach y dosbarth a'u cefnogant yn benaf.

\* Dymunem gyfeirio sylw y darlennydd at gyfres o erthyglau tra dyddorawl ar "Lyfryddiaeth y Cymry," yn y TRAEITHODYDD, 1852-3.

## DARLITH XIV.

YR EGLWYS SEFYDLEDIG AC ANNGHYDFFURFIAETH  
YN NGHYMURU.

MAE llawer o sylwadau wedi eu gwneuthur yn y Darlithiau blaenorol ar destyn y Ddarlith hon, fel y buais dros gryn yspaid o amser yn petruso pa un a wnawn ai cyfansoddi darlith ar y testyn hwn, yn ol fy addewid ar ddechreuad y gyfres, ai ynte ymesgusodi am beidid, o herwydd y ffaith a grybwyllwyd uchod: ond gan fod pawb o'm cyfeillion, i'r rhai yr amlygaswn y petrusder uchod, yn fy anog i wneyd yn ol yr hysbysiad dechreuawl, yr ydwyf yn ufuddhau iddynt—gan benderfynu bod mor ochelgar ag y gallaf rhag ail adrodd ffeithiau a grybwyllwyd yn barod yn y Darlithiau blaenorawl: er y bydd raid i mi yn ddiau gyffwrdd âg amryw o honynt, wrth fyned yn mlaen.

Y mae amryw o awduron eglwysig wedi ysgrifennu a chyhoeddi traith-odau yn ddiweddar, er profi fod Eglwys Loegr yn anymddibynawl ar Eglwys Rhufain, trwy yr holl oesoedd. Y maent yn ceisio gwneuthur hyny, trwy ddadleu fod Cristionogaeth wedi ei throsglwyddo i Frydain cyn i Babyddiaeth gael ei sefydlu yn Rhufain; a bod yr Eglwys Brydeinig (neu Gymreig yn hytrach)—â'r hon yr oedd yr Eglwys Wyddelig yn un, fel y dywedir—wedi cadw ei hanymddibyniaeth ar Rufain, hyd amser y Diwygiad; ac yn adeg yr ymrafael a gymmerodd le rhwng y brenin Harri VIII. a'r Pab—y Saeson, y rhai oeddent wedi bliuo weithian yn dwyn iau drom y Pab, a gawsant "gyfleusdra addas i ymuno â'r Cymry dewr i ymwrthod yn llwyr â Phabyddiaeth." A thrachefn, dywedir, "Nid ymneillduo oddiwrth Eglwys Rhufain, a sefydlu eglwys newydd, a wnaeth y diwygwyr, eithr yn unig glanhau a phuro hen eglwys gyfreithlawn y deyrnas, oddiwrth lygredd a chyfeiliornadau Pabyddiaeth, a'i hadferu i'w phurdeb a'i pherffeithrwydd cyntefig, heb gyfnewid dim ar ei hansawdd fel eglwys." Ychydig yn mhellach yn mlaen yn yr un traithawd, dywedir fel hyn:—"Eglwys Loegr ydyw unig eglwys awdurdodedig Prydain; hi yn unig yma a fedr olrhain ei hesgobion i fynu drwy hen seintiau yr ynys, at yr apostolion, ac at ein Harglwydd Iesu Grist, fel ei sylfaenydd. Iê, nid oes nag esgob, offeiriad, na diacon, yn ein plith, na fedr (os myn) darddu ei ddisgyniad ysbrydol oddiwrth Sant Pedr neu Sant Paul. Er fod Eglwys Rhufain yn apostolaidd o ran llin ac ach ei gweinidogion, eto, nid oes iddi hawl yn Ynys Prydain, oblegyd ni fedr olrhain ei hesgobion at yr un o'r hen esgobion Prydeinig a gynnrychiolent yr apostolion yn y deyrnas hon; ac heblaw byny, y mae wedi gwyro oddiwrth y ffydd, ac yn ganlynl wedi dyfod yn hollol anghymmwys i gynnrychioli Cristionogrwydd.

Nid oes i ymneillduwyr ychwaith hawl yma; oblegyd er bod rhai o honynt hwy yn meddu ar burdeb athrawiaeth, eto, nid yw eu hachos o sefydliad apostolaidd; y maent wedi tori eu hunain oddiwrth gym-mundeb yr eglwys a sefydlwyd gan yr apostolion, a thrwy hyny gyfiawni y pechod o sism," &c.

Y mae genyf gryn lawer o barch i awdwr y traithawd y gwnaethpwyd y dyfyniadau uchod o honaw, fel offeiriad dysgedig, a hynafiaethydd galluog ac ymchwilgar; ond os ydyw ei resymeg yn y traithawd dan sylw, yn enghraifft deg o'r cymhwysder angenrheidiol i deilyngu y graddiad o Athraw yn y Celfyddydau yn y brifysgol, diau nad yw yn anrbydedd i'w chwennychu yn fawr; canys anfynych y gwelais, hyd yn nod yn y cyhoeddiadau cyfnodawl Cymreig—i'r rhai y mae llafurwyr unieithog Cymru yn ohebwy—gynnyg mwy annghelfydd at ymresymu. Mae yn lled amlwg mai amcan yr awdwr hwn, fel llawer ereill o awdwr eglwysig a ysgrifenant yn y dyddiau hyn, ydyw profi mai yr Eglwys Esgobyddawl—yr hon a elwir Eglwys Loegr—ydyw yr unig wir eglwys Cristionogawl yn y deyrnas hon; ac nad oes gymhwysder gweinidog-aethol yn perthyn i neb ond y rhai a dderbyniasant urddau ynddi, am nad oes neb arall yn meddu yr "olyniaeth apostolaidd," na hawl i'w drosglwyddo i ereill.

Dadleua yr awdwr hyn, mai *esgobion* ydoedd y tri wŷr hyny—Ilid, Cyndaf, ac Arwystli Hen—y rhai a anfonwyd gan yr apostol Paul, gyda Bran Fendigaid, ar ei ddychweliad adref o Rufain, i lafurio fel cenadon Cristionogawl yn mysg ein henafiaid. Yr ydym yn ddigon boddlawn i'w galw yn *esgobion*; a barnwn hefyd, bod llawer mwy o briodoldeb galw pob gweinidog Cristionogawl yn *esgob*, na galw yr un o honynt yn *offeiriad*. Ond carem wybod a oedd rhywbeth ynddynt yn cyfateb i'r rhai a elwir yn *esgobion* yn yr Eglwys Sefydledig yn y dyddiau hyn? Neu yn hytrach, a oes rhywbeth yn y awyddi esgobawl ac archesgobawl a ffynant yn yr Eglwys Sefydledig yn awr, yn cyfateb i arwedd yr eglwys Cristionogawl yn Ynys Prydain, cyn ei llygru gan Babyddiaeth? A oedd yr enw *esgob*, yr hwn a roddid ar weinidog Cristionogawl yn eglwys foreuol Prydain, cyn cael o honi ei llygru trwy ymgyfathrach â Rhufain, yn arwyddo fod iddo ryw awdurdod fawr ar lawer o weinidogion Cristionogawl ereill, neu arglwyddiaeth ar holl eglwysi talaith neu wlad—ai ynte, a elwid gweinidog eglwys neillduol yn *esgob* yma, megys y'i gelwid yn *henuriad* mewn manau ereill?

Y mae yr hanesydd *Nennius*, wrth draethu am lwyddiant a llafur Padrig yn yr Iwerddon, yn dywedyd—ei fod wedi seilio 365 o eglwysi, ac ordeinio 365 o esgobion, heblaw tair mil o henuriaid; sef, gweinidog am bob eglwys, a thuag wyth o swyddogion cynnorthwyol i bob un. Ac efe a ychwanega hefyd, bod nifer yr esgobion wedi lluosogi yn ddifawr yn fuan, fel yr oedd nid yn unig bob eglwys yn meddu esgob, ond bod mwy nag un yn cael ei ordeinio mewn rhai trefydd neu ddinas-oedd; ie, a bod esgobion yn cael eu hordeinio yn aml heb fod unrhyw le neillduol wedi ei benodi iddynt.\*

Pa un ai eglwysi ymneillduedig gwaradwyddedig Cymru, ynte yr Eglwys Sefydledig rwysegfawr, sydd yn meddu y cyfansoddiad tebycaf i'r cyn-eglwysi uchod? Ac onid llawer mwy priodol a fyddai dywedyd am y Puritaniaid—y rhai, yn amser y frenines Elisabeth, ni allent gydymffurfio â'r Eglwys Sefydledig, o herwydd ei llygredigaethau—mai

\* *Nennius's History of the Britons, sect. 54. Usher's Ancient Irish and British Church.*

"Nid ymneillduo oddiwrth eglwys *Crist*, a sefydlu eglwys newydd, a wnaeth y (gwir) ddiwygwyr hyn, eithr yn unig glanhau a phuro hen eglwys gyfreithlawn y deyrnas oddiwrth lygredd a chyfeiliornadau Pab-yddiaeth, a'i hadferu i'w phurdeb a'i pherffeithrwydd cyntefig, heb gyfnewid dim ar ei hansawdd fel eglwys?"

Ni chawn un gair o son am esgobion taleithiol, ac archesgobion, yn yr Eglwys Brydeinig, hyd yr adroddiad am Lleufer Mawr; yr hwn adroddiad a fuffiwyd gan ei awdwyr, "yn eu selbleidiol dros uchafiaeth y Pab, oreu a allent at eu perwyl hyny." Ac fel hyn, y mae genym seiliau cedyrn i greu fod yr Eglwys Sefydledig, yn y deyrnas hon, yn ddyledus am ei threfn eglwysig bresenol, ei rhwysgwafredd, a'i haml raddau swyddogawl, i Eglwys Rhufain, ac i hono yn ei chyflwr dirywiedig.

Y mae yr awdwr y dyfynais ranau eisoes o'i draithawd, yn gwneyd defnydd mawr iawn, yn ei ddadl, o lafur a llwyddiant yr amrywiol genhadon Gwyddelig, er troedigaeth cenedl y Saeson i fydd Iesu Crist, gan ddywedyd:—"Trowyd y rhan fwyaf o lawer o Saeson trwy weindogaeth cenhadon ac esgobion o'r Iwerddon. Teyrnas Mercia—yn cynnwys swyddi Caerleon, Nottingham, Derby, Caer Drew (*Stafford*), yr Amwythig, Northampton, Caer Llŷr (*Leicester*), Caer Lwyd Coed (*Lincoln*), Huntingdon, Rutland, Warwick, Caerwrangon, Rhydychen, Caerloyw, Buckingham, Bedford, Henffordd, a rhan o Hertford—a drowyd i'r fydd Gristionogawl gan Ffinan, Diuna, Ceollach, a Trumhere, y rhai oeddynt oll yn esgobion Gwyddelig. Teyrnas Northumberland—yn cynnwys swyddi Caerefrog a Lancaster, a rhanau gogleddol Lloegr, ac yn cyrhaedd gryn ffordd i Scotland—a drowyd yn benaf gan Aidan, esgob Gwyddelig arall." \* \* \* "Trowyd Essex, Middlesex, a Hertford, gan Cedd, esgob Gwyddelig arall. Pictiaid, a Gwyddelod Scotland hefyd, a drowyd gan Columba, yr hwn oedd Wyddel, ac abad cyntaf Iona." \* \* \* "Y Gwyddelod, y rhai oeddynt hollol anymddibynol ar Eglwys Rhufain, ac yn preswyllo gogledd Prydain, a urddasant Aidan, Ffinan, a Cholman, yn esgobion olynol ar deyrnas Northumberland; Cedd (brawd Ceadda, esgob Caerefrog,) yn esgob ar y Saeson dwyreiniol; a Diuna—ac ar ei ol ef, Ceollach a Trumhere—yn esgobion ar y Saeson oeddynt yn cyfaneddu yn swydd Caer Llŷr, a'r Merciaid." \* \* \*

"Ystyriai y Pabyddion urddiad yr esgobion hyn yn anngyfreithlawn, o herwydd nad oeddynt yn cydymffurfio âg Eglwys Rhufain. Felly, pan benodwyd Wilfrid i fod yn esgob yn lle Colman, ni fynai ei urddo gan y Gwyddelod na'r Cymry; eithr myned dros y môr a wnaeth i dderbyn urddiad Pabaidd."

Ac mewn nodyn, yn agos i ddiwedd ei lyfr, y mae yr awdwr hwn yn dywedyd—"Yr oedd holl ddefodau yr Eglwys Wyddelig yr un fath a rhai Eglwys Prydain."

Yn awr, y mae yn ymddangos, trwy gyd-dystiolaethau lluaws mawr o'r hanesyddion mwyaf credadwy, mai Eglwys Henaduriaethol oedd hono o'r dechreuad; ac mai y Pab Celestine ydoedd y cyntaf a geisiodd draws-wthio esgob arnynt. Fel y canlyn y dywaid "John o Fordun," yr hwn oedd hanesydd cyfrifol:—"Cyn dyfodiad Palladius, ni feddai yr Ysgotiaid, yn athrawon eu ffydd, a gweinyddwyr y sacramentau, namyn *Henaduriaid a myneich, gan ddilyn arferiad yr eglwys gyntefig.*" †

† Scotchchronicon, lib. iii., c. 8.

Mae y cyffelyb adroddiad hefyd i'w weled yn Llyfr Aberdeen, lle y dywedir mai "Henaduriaid a myneich oeddynt athrawon ffydd, a gweinyddwyr sacramentau yr Ysgotiaid, y rhai a ddyllyment ddefod ac arfer yr eglwys gyntefig yn unig."\*

John Mair, neu Major, hanesydd arall, tra enwog am ei gywiredd, a ddywaid—"Yn mlwyddyn ein Harglwydd 429, y darfu i'r Pab Celestinus gyssegru Sant Palladius yn esgob, a'i anfon i'r Alban; canys yr Albanaid o'r blaeg a hyfforddod yn y ffydd gan offeiriaid a myneich, heb esgobion." †

Dyma eglwys wedi bod dros ddau can' mlynedd yn cael ei dysgu a'i llywodraethu gan henaduriaid, heb esobion taleithiol; ac y mae yr holl hen haneswyr a grybwyllant y ffaith, yn cydunaw i dystiolaethu bod hyn yn unol â defod ac arfer y gyn-eglwys.

Nid ydyw yn ymddangos bod rhyw lwyddiant annghyffredinol wedi bod ar lwerchiadau Palladius, yn yr Iwerddon na'r Alban; ac os llwyddodd efe i sefydlu esgobyddiaeth mewn rhyw ranau o'r Alban, y mae yn ymddangos i'r genhadaeth Wyddelig, yr hon a ddaeth drosodd o dan lywyddiaeth Columba, yr hon a ymsefydlodd yn Iona—fod yn hynod o lwyddiannus i adferu Cristionogaeth, yn ei symlwrwydd cyntefig, trwy yr holl wlad.

O berthynas i sefydliad y genhadaeth hon yn Iona, dywaid awdwr y "Scotichronicon" fel hyn, o dan y flwyddyn 560:—"Columba, henuriad, a ddaeth at y Brithwyr, ac a'u dychwelodd i ffydd Crist—sef, y rhai hyn oeddynt yn cyfaneddu yn agos i'r morfeydd gogleddol; a'u brenin a roddes iddynt yr ynys hono, a elwir yn gyffredin Ii.—Ar yr ynys hon, adeiladaf Columba fynachlog, ac efe ei hun a drigodd yno fel abad, dros ddeuddeng mlynedd ar hugain; lle hefyd y bu efe farw, yn ddeng mlwydd a thriugain oed. Y mae y lle hwn yn cael ei gadw eto gan ei olynwyr. Gan hynny, fe ddylai fod abad yn Ii yn wastadawl, ac nid esgob; ac iddo ef y dylai yr holl egobion Albanaidd fod yn ddarostyngedig—am mai abad ydoedd Columba, ac nad oedd efe yn esgob."

Y mae yn ymddangos mai math o athrofa genhadol oedd y sefydliad yma yn Ynys Ii, neu Iona, lle yr ymsefydlai Columba, a deuddeg o'i gyd-henuriaid; ac ar gyfrif ei ddysgeidiaeth, ei ddoethineb, a'i dduwioledeb nodedd—yn gystal a'i fod o'r gwaed breninawl, ac efallai yn brif ysgogydd y sefydliad cenhadol yma—efe a etholiod megys cymmedrolwr neu bennaeth y sefydliad; am ba achos y'i gelwid, yn ol dull y Pabyddion, yn *abad*, a'r sefydliad yn *fynachlog*.

Yr henaduriaid hyn, tra y gweinyddent mewn pethau sanctaidd i bobl eu cymmydogaethau, a barhaent yn ddiwyd i addysgu ereill i'w hanfon allan fel cenhadon, yn ol fel y caffent faesydd agored; a'r rhai hyn a gyfodent sefydliadau cyffelyb yn eu rhandroedd, fel yr oedd ganddynt yn fuan sefydliadau neu orsafoedd cenhadawl cyffelyb yn Abernethy, Lochleven, Dunkeld, St. Andrews, Brechin, Dumblane, Muthil, Mortlach, Monymusk, Dunfermline, Melrose, Govan, Abercorn, Inchcolm, Tynningham, ac Aberlady. ‡ A pha un bynag a wnawn ai ystyried yr egwyddorion crefyddol a ddysgid gan Columba a'i gydlafurwyr, ai eu hawurdod ar y llenorion Albanaidd o bob gradd, y mae y ffieithiau a adroddir am danynt yn dra dyddorawl. Y mae yn ymddangos fod

\* Fol. 24, 25.

† Hist. Maj. Britanniae, lib. ii., cap. 2, fol. 23.

‡ Scotichronicon, pp. 105—187.

Columba a'i gydlafurwyr yn rhoddi bri mawr ar yr Ysgrythyrau sanct-aidd; ac fe'n hysbysir gan Bede, yr hanesydd, na dderbynient hwy ddim ond y pethau a ddysgid yn ysgrifeniadau y prophwydi, yr efengylwyr, a'r apostolion.\* Ac yn y canlyniad, fe'n hysbysir eu bod wedi ymgadw dros amryw oesoedd heb eu halogi â'r cyfeiliornadau a fyfynent y pryd hyny yn Eglwys Rhufain.

Efallai nad oedd yr un eglwys (oddieithr yr eiddo y Waldensiaid,) mor agos i'r eglwys apostolaidd—mewn purdeb a'hwariaeth a sylm-rwydd trefn—yn y chweched, y seithfed, a'r wythfed ganrif, ag ydoedd eglwys yr Alban a'r Iwerddon; ac os felly, y mae o bwys i ni ddeall pa fath ydoedd cyfansoddiad yr eglwys foreuol hono, a pha mor eang oedd awdurdod y dosbarth uchaf o'i gweinidogion.

Yn awr, nid oes un ffaith berthynol iddi yn fwy penderfynol, na'i bod yn cael ei llywodraethu gan henaduriaid. Mae yn wir y cyfarfyddwn â'r enw "esgobion" yn cael ei roddi yn achlysurol, gan ein hen haneswyr, ar rai o'i gweinidogion; ond fe ymddengys fod yr enw yn cael ei ddefnyddio yn gyfystyr â "henadur"—yr urddas uchaf o'r swydd esgobawl; fel y mae Jamieson yn sylwi am esgob—yr hwn a gyssegrwyd yn gyntaf gan yr henaduriaeth yn Iona, ac yna a anfonwyd i Loegr; yr hyn sydd yn gynnwysedig yn hyn—ei fod yn bregethwr.† Nid oedd Columba ei hunan ond henadur; ac eto, efe a elwir yn benaeth yr holl esgobion Gwyddelig.‡

"Bod esgob, yn yr Iwerddon," medd Toland, "yn y bummed neu y chweched ganrif (er esiampl,) yn arwyddo urdd gwahaniaethol o ddynion, gan y rhai yn unig y gallasai henaduriaid gael eu hordeinio, a heb yr hwn ordeiniad y buasai eu gweinidogaeth yn annghyfreithlawn—hyn yr ydwyf yn ei wadu yn hollol; megys yr wyf hefyd yn gwadu bod yr esgobion hyny yn esgobion taleithiol, pan nad oes dim yn eglurach na bod y rhan fwyaf o honynt heb unrhyw esgobaeth, yn ystyr ddiweddar y gair; heb son am y lluwaws esgobion a elent yn fynych o'r Iwerddon, heb alwad, i esgobaethau ar led: a llawer o honynt nas dyrchafwyd i esgobaethau yno byth."§

Fe'n hysbysir gan Bede, fod Oswald, yr hwn oedd dywysog Seisnig, wedi anfon at henaduriaid yr Ysgotiaid—yn mysg y rhai y cawsai efe ei fedyddio—i erfyn arnynt ddanfon esgob iddo, trwy athrawiaeth a gweinidogaeth yr hwn y gallai yr Eingyl, ar y rhai yr oedd efe yn llywodraethu, gael eu hyfforddi yn y ffydd Gristionogawl, a derbyn y sacramentau.|| Yn y canlyniad, henaduriaid Iona a anfonasant ato Cormac, yr hwn a ordeiniasent hwy i'r swydd hono; ond gan ei fod o foesau rhy dostlym, bu yn aflwyddiannus i enill serchiadau y bobl, a bu raid iddo ddychwelyd yn ei ol yn fuan. Ar ei ddychweliad i'r orsaf genhadol, yr henaduriaid a ymgyfarfuant i dderbyn ei adroddiad; "ac yn nghymmanfa yr henaduriaid" efe a adroddodd nas gallasai efe wneuthur lles i'r bobl yr anfonasid ef atynt i'w dysgu, am eu bod yn rhai caled o galon a chreulawn o natur, ac nas gellid eu henill. Yna yr henaduriaid a ddechreusant ymgyngori, pa beth oedd yn oreu i'w wneuthur; a thra yr oeddynt yn ymgyngori, Aidan—yr hwn, debygid, nid oedd namyn efrdydd, heb fod mewn urddau gweinidogaethol—a gyfododd, ac a'u cyfarchodd, a hyny gyda'r fath ddoethineb annysngwyliadwy, fel y penderfynasant ei ordeinio ef, a'i anfon at Oswald,

\* Hist. lib. iii., c. 4.

† Page 383.

‡ "Omnium Hibernensium Episcoporum Primas."

§ Nazareus, Lett. 2, p. 37, 38.

|| Bede's Hist., lib. iii. cap. 3.

yn lle Cormac. "Wedi clywed hyn," medd Bede, "troid wynebaw a llygaid pawb oeddynt yn eistedd yno, tuag ato ef; ystyriasant yn ddwys yr hyn a ddywedasai, a phenderfynasant ei fod yn deilwng o'r swydd esgobawl, ac y dylasai gael ei anfon i ddysgu y digred a'r anwybodus, am fod yn amlwg ei fod ef wedi ei ddoniaw mewn modd anarferol & challineb, yr hon yw mam y rhinweddau; *ac felly, gan ei ordeinio, hwy a'i hanfonasant i bregethu.*"\*

Felly, y mae yn amlwg mai cymmanfa o henaduriaid, yn cael eu llywyddu gan gymmedrolwr o'u plith eu hunain, a ordeiniasant, ac a anfonasant y cenhadon cyntaf at y Saeson Paganaid—megys Colman, Cormac, Aidan, Ffinan, Cedd, &c.—y rhai a elwir gan haneswyr yn esgobion cyntaf y Saeson.

Amcan y sylwadau blaenorol ydyw dangos nad oes gan ein brodyr o'r Eglwys Sefydledig, sail mor dda ag y gellid tybied, oddiwrth eu haerllugrwydd, i honni iddynt hwy eu hunain hawl anngyfranogawl i weinyddu mewn pethau cyssegredig, yn y deyrnas hon, ar gyfrif eu hordeiniad i'w swyddau gan esgobion taleithiawl; neu i wadu cyfreithlondeb ordeiniad gweinidogion ymneillduedig, am mai gan weinidogion heb feddu y cyfryw dra-arglwyddiaeth ar eu brodyr yr ordeiniwyd hwythau. Yn wir, yn ol ystyr briodawl y gair, yn nghyda'i ddefnyddiad cyffredinol yn y brif eglwys, y mae gan bob gweinidog—os dewiswyd ef gan eglwys neu gynulleidfa grefyddawl i fugeilio arni, ac i'w phorthi, a'i haddysgu yn y gair a'r athrawiaeth; ac os y cadarnhawyd y dewisiad hwnw gan ei frodyr yn y weinidogaeth, mewn cymmanfa reolaidd; a thra y cyflawno ei swydd yn deilwng, yn ofn Duw—gystal hawl i'r enw *esgob*, os nad gwell, nag un sydd yn eistedd ar y fainc esgobawl, yn Nhy yr Arglwyddi.

Yn yr amser presenol, ordeinir dyn ieuanc i fod yn weinidog dros Grist, mewn plwyf, yn unig ar gyflwyniad Noddwr—yr hwn, efallai, y bydd ei ddrwg fuchedd yn tystio i gydwybod pawb a'i hadwaenant, nad oes berthynas, ond un arianol, rhyngddo âg eglwys Crist; a'r gynulleidfa, i'r hon y bydd i weinyddu mewn pethau ysbrydol, efallai heb ei adwaen, llawer llai meddu llais yn ei ddevisiad; ond er hyny, gan ei fod wedi ei ordeiniaw dan y cyfryw amgylchiadau gan Arglwydd Esgob, haerir ei fod wedi dyfod i fewn i'r olyniath apostolaidd, a thrwy hyny wedi derbyn awdurdod gyfreithlawn i fod yn weinidog yr efengyl. Ond nis gall ysgolorion ein hysgolion Sabbothawl, wrth ddarllen y Testament Newydd yn ddiuedd, lai na chanfod bod y cyfryw ordeiniad yn afreolaidd; ac nis gall y cyfarwydd mewn hanesyddiaeth eglwysig, lai nag addef fod etholiad cynulleidfaol i'r swydd yn ofynol, yn yr eglwysi Cristionogol boreuaf, er ordeinio personau yn ddiaconiaid, neu yn henuriaid. Er hyny, os byddaf yn gwled y cyfryw ddyd ieuanc yn ymdrechu yn gywir a chydwybodol i gyflawni ei swydd, yn ofn Duw, fel un sydd raid iddo roddi cyfrif i Dduw dros eneidiau ei blwyfolion—ni fyynn er dim amheu cyfreithlondeb ei weinidogaeth, er afreoleidd-dra ei ordeiniad. Ac ar y llaw arall, pan y gwelaf un a elwir yn offeiriad plwyf, yn ddyd llwyr ddiarmgyffred am wirioneddau mawrion yr Ysgrythrau, ac yn ymollwng i fucheddu yn benrhydd, yn ol helynt y byd hwn, gan ymdroi mewn cyfeddach, meddwod, ac afendid, ac arfer llwng a rhegfeydd yn ei ymddiddanion cyffredinawl, o'r hyn y mae gormodedd yn euog, er gwarth i Gristionogaeth ein gwlad—nis gallwn

\* Bede's Hist., lib. iii., c. 5.



ystyried y cyfryw yn weinidog i Grist, nac yn meddu y radd leiaf o hawl i weinyddu mewn pethau cyssegredig, pe byddai holl esgobion ac archesgobion Prydain Fawr wedi cymmeryd rhan yn y gorchwyl o'i ordeinio, a phe byddai yn feddiannol ar y teitlau mwyafr urddasawl ac anrhydeddus a ellir eu rhoddi ar ddyrn, gan y ddwy brif-ysgol.

Nid ydwyf yn gwneuthur y sylwadau hyn oddiar ysbryd sectaidd, neu deimladau angharedig tuag at yr Eglwys Sefydledig na'i gweinidogion; ac ni fynwn, ar unrhyw gyfrif, archolli teimladau neb o'i gweinidogion efengylaidd. Ond gallaf ddywedyd yn ddibetrus, mai dymuniad fy nghalon, a'm gweddi ar Dduw dros holl weinidogion yr Eglwys Sefydledig, ydyw—ar iddynt gael eu llenwi gydag ysbryd y weinidogaeth, a chael eu hanrhydeddu â seliau llawer uwch o'u gosodiad dwyfawl yn eu swydd, na dim a ddichon holl urddasolion eu Heglwys ei roddi iddynt.—Miloedd o'u gwrandawyr a fyddo iddynt yn llythyr Crist wedi ei weini ganddynt; ac wedi ei ysgrifenu nid âg inge, ond âg ysbryd y Duw byw; nid mewn llechau cerig, eithr mewn llechau cnawdol y galon. Dyma ydyw y prawf goreu o fod un yn meddu trwydded gan Dduw i'r weinidogaeth; ond nid ydyw y wag-fost yn nghylch yr "olyniaeth apostolaidd" yn ddim amgen na ffug drwydded a ddyfeisiwyd gan yr Archesgob Laud, o herwydd nas medrai roddi ei gwell.\* Ond y mae yn llawer iawn mwy dyogel a pharchus i ddyrn gyfaddef ei dylodi yn onest, nac ymdrechu cadw i fynu enw ac ymddangosiad gŵr mawr, a hyny ar draul arian drwg.

Y prif bleidiau anghydfurfiawl yn nhywysogaeth Cymru ydynt bedair—sef, y Bedyddwyr, yr Anymddibynwyr, y Trefnyddion Calvin-aidd, a'r Trefnyddion Wesleyaidd. Gwahaniaetha y rhai hyn ychydig oddiwrth eu gilydd, mewn trefniadau eglwysig, ac mewn golygiadau ar rai canghenau o'r athrawiaeth; ond y maent yn cytuno am hanfodolion y grefydd Cristionogol; ac fel y maent yn dyfod i ddeall y gall undeb Cristionogawl fodoli, heb unfurfiath eglwysig, y mae rhagfarn sectaraidd yn marweiddio, a haelfrydedd Cristionogawl yn ffynu; ac y mae y naill enwad crefyddawl yn edrych ar y llall, erbyn hyn, fel cynnifer o gatrodau gwahanol o'r un fyddin, ac yn cyfeirio eu golwg at yr un lluman cyffredinol—sef, croes ein Harglwydd Iesu Grist; gan ddeall mai cydymdrechu yn erbyn pechod a llygredigaeth sydd yn gweddu yn oreu iddynt, ac nid ymryson â'u gilydd.

Mynych yr edliwir i ni yr ymneillduwyr, yn nghyhoeddiadau yr Eglwys Sefydledig, fod anghydfurfiath yn agor y drws i ymbleidiaeth ac ymrysonau diderfyn. Ond er fod Cristionogion y pedwar enwad a nodwyd uchod, wedi ymfurfiaw yn gynnifer o sectau neu gymdeithasau gwahaniaethol, er mwyn rhyw ychydig gyffeusderau a manteision neillduol—neu o leiaf, fe dybir hyny—ni phetrusaf ddywedyd, *fod llawer iawn mwy o undeb barn, teimlad, a gweithrediad, cydrhwng y rhai hyn â'u gilydd, nag sydd rhwng weinidogion yr Eglwys Sefydledig yn Mrydain Fawr â'u gilydd, er eu bod hwy yn weinidogion yr un sefydliad eglwysig, ac oll wedi llaw-nodi yr unrhyw ertnyglau cred!*

\* Payne's Breviate of his Life, p. 2.

Dywedai y frenines Henrietta—yr hon oedd Babyddes broffesedig—am Laud, fod ganddo galon Pabydd da.

Gan fy mod wedi crybwyll amrywiol ffeithiau cyssylltiedig â chychwyniad y tri enwad cyntaf a grybwyllais uchod, yn nghorhph y Darlithiau blaenorawl, cyfyngaf fy sylwadau yn bresenol at ddechreuad yr enwad olaf a nodwyd—sef, y Trefnyddion Wesleyaidd—yn benaf.

Y mae yn ymddangos fod y *Parchedig John Wesley* wedi talu ymweliad â rhyw ranau o Ddeheubarth Cymru, yn moreu y diwygiad Methodistaidd—sef, tua Hydref y flwyddyn 1739; ac ar yr achlysur hwnw, efe a dystiai fod trigolion y wlad yn dra dyeithr i'r efengyl; a chwynai yn fawr oblegyd rhagfarn rhyw rai a fuasant yn dewis i'r creaduriaid tylodion hyn gael eu dinystro o eisiau gwybodaeth, yn hytrach na'u hachub hwy trwy gynghorion Howell Harris, neu bregethwr teithiol.

Yn mhen oddeutu deng mlynedd wedi yr adeg a nodir uchod—sef, yn y flwyddyn 1749—yr oedd gan y Wesleyaidd ddwy gylchdaith yn y dywysogaeth; sef, cylchdaith swydd Forganwg, a chylchdaith swydd Benfro. Ond y mae yn dra thebygol mai yn y rhanau Seis-onig o'r gwledydd hyny yr oedd y brodyr Wesleyaidd yn llafuriaw y pryd hyny; ac yn mhen rhai blyneddodd drachefn, ychwanegid trydedd gylchdaith ganddynt yn Nghymru, yr hon a gymmerai i fewn ranau o siroedd Brecheiniog, Maesyfed, a Threfaldwyn. Yn y flwyddyn 1771, lluniwyd cylchdaith newydd Caerlleon, yr hon a gymmerai i fewn y rhanau Seisnig o siroedd Dinbach a Ffint—megys Gwrecsam, Mynydd Bwcle, Llancurgain, Pen yr halawg, ac amryw- iol leoedd ereill.

Ond er fod y Trefnyddion Wesleyaidd wedi gwneuthur cynnyg ar y wlad mor foreu a hyn, trwy gyfrwng yr iaith Seisnig, nid ydyw yn ymddangos eu bod wedi ymosod nemawr, os dim, ar genedi y Cymry trwy gyfrwng eu hiaith eu hunain, hyd ddechreuad y ganrif bresenol, er fod ambell i Gymro yma a thraw wedi ymuno â'r cyf- undeb, mewn canlyniad i wrandaw ar rai o'r gweinidogion Seisnig yn pregethu; ac yn mysg y rhai hyn yr oedd Mr. Foulkes o'r Bala, Richard Harrison o Laneurgain, Evan Roberts o Ddinbach, Edward Jones o Fathafarn, yn nghyda llawer ereill; y rhai a fuant yn aidd- gar ac ymdrechgar i daenu yr egwyddorion a dderbyniasant eu hun- ain, yn eu cymmydogaethau.

Yn y flwyddyn 1800, y darfu i'r *Dr. Coke*—yr hwn oedd ei hun yn frodor o'r rhan ddeheuol o'r dywysogaeth—ddwyn achos y Gog- ledd o dan sylw y Gynnodledd Wesleyaidd; ac efe a lwyddodd i gael pennodi dau Gymro, i deithio fel cenhadon drwy y rhan hon o Gymru; a phenderfynwyd cymmeryd tref Rhuthyn—yn nghym- mydogaeth yr hon yr ydoedd Bathafarn yn sefyll—yn brif orsaf y gylchdaith newydd.

Y ddau genhadwr a nodwyd oeddynt y Parchedig Owen Davies, a'r Parchedig John Hughes. Y blaenaf o honynt ydoedd wr ganedig oddi gerllaw Llanrhaidr yn Mochnant, yn swydd Ddinbach; yr hwn a dreuliasai y rhan fwyaf o'i ddyddiau boreuol yn mhlith y Saeson; ac yr ydoedd wedi bod yn llafuriaw am ddeng mlynedd ar gylch- deithiau Seisnig, cyn ei bennodi i'r gylchdaith Gymreig. Efe a fu yn llafurio dros un flynedd ar hymtheg fel arolygwr cyffredinawl yr achos Cymreig yn y dywysogaeth; ac yn yr ysbaid hwnw, amlygodd aci, cariad, ffyddlondeb, a doethineb mawr.

Ei gydlafurwr yn nechreuad y gwaith hwn yn Nghymru, ydoedd wr ieuanc o ddysgidiaeth rhagorach na llawer o'i gyfoedion—sef y

Parchedig John Hughes, awdwr y llyfr a elwir "*Horæ Britannicæ*," 2 gyfrol, 8plyg. Dygasid y gŵr ieuanc yma i fynu yn Aberhonddu; a chan fod ei rieni wedi bwriadu iddo fod yn weinidog perthynol i'r Eglwys Sefydledig, anfonwyd ef i'r coleg a berthynai i'r dref hono, lle y daeth yn fuan yn hyddysg yn yr ieithoedd Groeg a Lladin. Yr oedd yntau hefyd wedi bod yn llafurio, gyda chymmeradwyaeth mawr, yn mhlith y Wesleyaid Seisonig, am bedair blynedd cyn cael ei bennodi i'r gylchdaith Gymreig; ac yr ydoedd ei gymmeriad fel Cristion, yn gystal ag fel gweinidog yr efengyl, yn sefyll yn dra uchel yn nghyfrif ei frodyr, tra fu yn llafuriaw yn y dywysogaeth.

Yn y flwyddyn ganlynawl i hyny, pennodwyd Mr. John Bryan i gydlafurio â'r ddau wr enwog uchod. Efallai fod mwy o danbeidrwydd yn ngweinidogaeth y brawd ieuanc hwn na'r ddau ereill, ac o ganlyniad, tynodd gynnulleidfaoedd mawrion ar ei ol yn fuan; a bu ei lafur, dros dymhor maith, o fendith annhraethol i gannoedd o hil Gomer.

Yn y flwyddyn 1802, neillduwyd Mr. Edward Jones, Bathafarn—yr hwn a fusasai y prif offeryn i ddwyn Trefnyddiaeth Wesleyaidd gyntaf i Ruthyn—i ymroddi yn hollawl at waith y weinidogaeth, a gosodwyd ef i lafuriaw yn y gylchdaith Cymreig, mewn undeb â'r brodyr Davies, Hughes, a Bryan; a gŵr arall, o'r enw Maurice, yr hwn a gawsai ei gydneillduo gydag ef. Erbyn hyn, yr oedd pump o bregethwyr teithiol ar y gylchdaith, heblaw pregethwyr cynnorthwyol; a hwy a estynent gylch maes eu llafur yn barhaus, nes cynnwys holl siroedd Gwynedd. Yr oedd llafur y gŵr da hyn gydag achos yr efengyl yn fawr iawn, a'u llwyddiant yn gyfatebol, trwy fendith y Goruchaf.

Yr oedd y dull o erlid gyda cherig, ffyn, a thom—o'r hwn y cyfranogasai y Trefnyddion Calfinaidd yn dra helaeth yn mlyneddodd cyntaf eu llafur—wedi darfod i raddau mawr erbyn i'r Trefnyddion Wesleyaidd ddechreu llafuriaw yn mysg ein cenedl ni; ond cawsant hwythau hefyd eu cyfran o erledigaeth—mewn geiriau bustlaidd, a chamddarluniadau, o areithfaoedd a thrwy y wasg; a hyny yn benaf gan rai o olygiadau uchel-galfinaidd, am y rhai y gellir dywedyd, "Ni wyddent o ba ysbryd yr oeddynt."

Y mae ansawdd flodeuog y Trefnyddion Wesleyaidd yn awr trwy Gymru—nifer eu haddoldai—amledd eu pregethwyr teithiol a chynnorthwyol—lluosogrwydd eu cynulleidfaoedd—ac yn enwedig nifer fawr yr aelodau eglwysig ydynt mewn undeb â hwy—a'u ffyddlondeb nodedig gydag achos y Gwardwr—yn galw yn dra uchel am y gydnabyddiaeth wresocaf o ddaioni yr Arglwydd, o'r hwn y daeth hyn, yr hyn sydd ryfedd yn ein golwg ni!

## DARLITH XV.

ENWOGION O GYMRY A RAGORASANT MEWN AMRYFAL  
GANGHENAU O WYDDONAETH.

TESTYN y Ddarlith hon ydyw yr enwogion a gyfodasant o fysg ein cenedl, ac yn enwedig y rhai a weithiasant eu ffordd—trwy feithrin- iad priodol eu hythrylith naturiol, a hyny o dan ansanteision, ac o sefyllfa isel—i enwogrwydd a bri: ac un amcan neillduawl genyf mewn golwg, wrth ddewis y fath destyn i'r Ddarlith olaf o'r gyfres hon, ydoedd er mwyn cymhell y lluaws ieuencyd ydynt eisoes wedi amlygu llawer o ddyddordeb yn y Darlithiau blaenorawl, i bender- fynu gwneuthur y defnydd goreu a allant o'u manteision i amaethu eu meddyliau, ac i ochel pob arferion iselwael a llygredig, y rhai nis gwnant ddim amgen na nychu athrylith, niweidio cymmeriad, a thrysori znnghysuron erbyn henoed.

Un o wir-eiriau sylweddawl ein tadau ydyw—" *Yn mhob gwlad y megir glew,*" ac y mae treigliad pob oes rhagddi yn ychwanegu y profion o wirionedd y ddiareb uchod.

Efallai mai glew mewn rhyfel ydoedd yr hyn a olygid yn benaf yn nghyfansoddiad y ddiareb; canys y rhagoriaeth a anrhydeddid yn fwyaf yn mysg pob cenedl o'r bron, dros yr oesoedd a aethant heibio, ydoedd gwroldeb a medr rhyfelgar. Ond yn ein dyddiau ni, y mae y byd yn dechreu ymbwyllo, a choledu syniadau cywirach ar yr hyn a rydd drwydded gyfreithlawn i gyssegrfeydd templ enwogrwydd; a thebygwn nad ydyw yr amser yn mhell, pryd na chyfrifir gwroldeb Napoleon a Ney, Nelson a Wellington, yn ddim amgen na chreulondeb, a medrusrwydd lleiddiaid dynion; ac o ganlyniad, yn beth i'w ffeiddio, yn hytrach nag i'w fawrygu. Ac os bu glew- der rhyfelgar i'w ganmawl dan unrhyw amgylchiad, diau mai yn y rhai a safasant yn wrol dros ryddid ac annibyniaeth eu gwlad, yn erbyn gormeswyr trahaus, y mae i'w ganmol. Am y cyfryw lewion, y mae cofion ein cenedl mor gyfoethawg o honynt a'r eiddo odid i genedl yn Ewrop.—Gallwn fostiaw o'n *Casfelyn*, yr hwn a wrthsaf- odd gadgyrchiadau olynawl Julius Caisar, gyda'r fath ddewrder anorchfygol, fel y bu yn dda gan y gŵr hwnw a'i lengau, y rhai a gyfrifid gynt yn anorchfygadwy, gael rhyw esgus, a hyny fwy nag unwaith, i groesi y weilgi yn ol i'r cyfandir, fel y gallent ymwneyd â chenedloedd haws i'w darostwng o dan iau Rhufain, na brodorion

Ynys Prydain.—Gallwn fostiaw hefyd o'n *Caradawg*, yr hwn a wrthsafodd arglwyddes y byd, mewn deg cad ar hugain; ac yn y diwedd a orchfygwyd yn yr ymgyrch, ac a gymmerwyd yn garcharor, drwy gael ei fradychu gan frenines ffals y Brigantwys, yn fyddlondeb a chyfeillgarwch yr hon yr ymddiriedai efe.—Gallm fostiaw o'n *Arthur* frenin, gorchestion milwraidd a gwroldeb dihafal yr hwn sydd wedi bod yn destynau caniadau a thraithodau arwrawl prif ysgrifenywr y cyfandir, dros oesau lawer.—Gallm gyfeiriaw at *Gruffudd ab Cynan*, yr hwn, wedi ei fradychu trwy dwyll a chelwydd i ddwylaw y Saeson, yn nghoed Rug, a'i garcharu am flyneddoedd lawer ar ol hyny, yn nghastell Caerlleon ar Ddyfrdwy—a fodd pan oedd ei geidwaid yn feddwon, a adenillodd y dywysogaeth er gwaethaf gelyntion a bradwyr, a sefydlodd annibyniaeth ei genedl yn gadarn, ac a gadwodd ei arswyd ar ei elynion oddiamgylch hyd ddiwedd oes faith, fel na feiddid ormesu ei genedl yn ei ddyddiau ef.—Gallm gyfeirio hefyd at wroldeb *Owain Gwynedd*, yr hwn a lwyddodd amryw weithiau i yru Harri yr Ail, tra yn cael ei gyfnerthu gan fradwyr o Bowys, a holl gadernid Lloegr, i encilio yn ol o Wynedd, yn warthus a cholledus, heb lwyddaw, mewn un cadgyrchiad o'i eiddo, i gyflawni ei amcan o ddarostwng Gogledd Cymru o dan ei awdurdod.—Gallm draethu yn helaeth am enwogrwydd *Llewelyn ab Iorwerth*, *Llewelyn ab Gruffudd*, ac *Owain Glyndaf*, gwŷr a deilyngent eu cyfresu am eu gwladgarwch a'u gwroldeb, gyda Kossuth, Bem, a Denibinsky, gwroniaid Hungari; neu gyda Mazzini a Garibaldi, enwogion yr Eidal.

Ond fy mhrif amcan yn y Ddarlith hon ydyw galw sylw at rai o'n cydgenedl, a weithiasant eu ffordd, trwy ymdrech a llafur diwyd, i enwogrwydd yn yr amryfal ganghenau buddiawl o'r gwyddiannau a'r celfyddydau.

Mor foreu a chanol y bedwaredd ganrif, y canfyddaf impyn o Gymro yn cael ei feithrin yn athrofa Bangor is y Coed, yr hwn yn fuan a enillodd enw a dylanwad tra mawr trwy yr holl fyd adnabyddus; ac er anghymmeradwyo o honom ei syniadau fel duwinydd, y mae yn rhaid i ni gydnabod enwogrwydd ei gyraeddiadau mewn dysgeidiaeth. Y gwŷr hwn ydoedd *Morgan*, yr hwn a gyfenwir *Pelagius*, ond a elwir *Morien* yn yr hen goflyfrau Cymreig; ac yn gyssylltiedig â'i enw ef ynddynt, dywedir ei fod "*y dysgedicaf yn yr holl fyd.*"

Edrychwn eto tuag athrofa tref Fynwy, neu Dy Ddewi, a gwelwn yno efrdydd ieuanc, o'r enw *Asser*, yr hwn ydoedd fab i Tudwal, fab Rhodri Mawr, medd yr achlyfrau Cymreig. Aeth y son am ei ddysgeidiaeth ar led cymmaint, fel y gwahoddid ef i lys y brenin Seisnig Alffred, tua'r flwyddyn 880, gan yr hwn y'i derbynid gyda phob caredigrwydd a pharch; a mawr mor daer a fu y brenin am iddo aros gydag ef yn wastadawl. Ond pan omeddai, yn wylaidd, gydsynio â'r cais hwnw, y brenin a wasgai arno am ranu ei amser rhwng yr athrofa yn Nhy Ddewi a'i lys yntau; a chydaf cynnygiad yma, wedi ymgynghori yn gyntaf â'i frodyr, y cydsyniodd Asser. Rhoddai y brenin doeth hwnw roddion gwerthfawr ac anrhydedd yn bentyrau ar Asser, ar gyfrif ei chwaeth goethedig, a'i ddysgeidiaeth aruchel.

Tybir yn gyffredin iddo gyfieithu yr hen gyfreithiau Cymreig i'r brenin Alffred, yr hwn a gafodd lawer o gymhorth drwy hyny at furio deddflyfr i'r Saeson. Trwy ei ddylanwad ef hefyd y dywedid

i brif ysgol Rhydychain gael ei sefydlu; a bernir ei fod ef yn un o'r athrawon blaenaf yno, ac iddo dreulio gweddill ei oes yn arch-esgob Ty Ddewi.

Yn y flwyddyn 926, cawn grybwylliad am ŵr o'r enw *Blegwryd ab Owain*—yr hwn ydoedd "athraw yn nghyfraith yr amherawdr, ac yn nghyfraith yr eglwys," a'r dysgedicaf, meddir, yn ei oes—wedi cael ei ddewis i fyned gyda Martin, esgob Ty Ddewi, Mordaf, esgob Bangor, a Marchlwyys, esgob Llandaf, fel cynghorwyr a chymdeithion i'r tywysawg Hywel Dda, ar ei daith i Rufain, pan ydoedd y penadur enwog hwnw yn gwneuthur ei ymchwiliadau er adgyweirio y cyfreithiau Cymreig; ac efe a ysgrifennodd y cyfreithiau hyny a elwir "Cyfreithiau Hywel Dda."

Ond gan fod cylch y Ddarlith hon yn rhy gyfyng i mi allu cymaint ag enwi lluaws o brif enwogion ein cenedl, o'r oesoedd boreuaf hyd yn awr, cyfyngaf fy sylwadau at rai o'r enwogion Cymreig o'r oesoedd diweddaraf hyn.

Oddeutu y flwyddyn 1572, y genid bachgenyn yn Llanrwst, swydd Ddinbach, a elwid *Ynwr*; yr hwn, drwy ei athrylith gref, a weithiodd ei ffordd i sylw pendefigion a phenaduriaid, megys adeiladydd digyffelyb. Cymmerodd Iarll Penfro—noddwr haelfrydig y celfion teg—sylw o hono, ac a'i galluogodd i ymweled â'r Eidal, fel y gallai efrynu parthuniadaeth; a thra yr ydoedd yn *Venice*, darfu i weithiodd Paladio gynnyrchu chwaeth ynddo at y gelfyddyd o adeiladu, yn yr hon y cyrhaeddodd enwogrwydd digyffelyb. Ei enwogrwydd a dynodd sylw Christiarn IV., brenin Denmarc, yr hwn wedi hyny a'i hanrhydeddodd trwy ei benodi i'r swydd o fod yn brif adeiladydd iddo ef. Wedi dychwelyd o hono i Loegr, efe a benodwyd yn adeiladydd i'r frenines a'r tywysawg Henry, ac wedi hyny i brwyaduron adeiladau; ac yn wir, ar y cyfnod hwnw, nid oedd nemawr adeilad odidawg yn cael ei chyfodi yn un cwr o'r wlad, na cheisid cyfarwyddiadau a chynlluniau y celfyddydwr cywrair hwn. Tra y bu efe yn preswlyo yn yr Eidal, efe a newidiodd ei enw Cymreig *Ynwr*, am yr enw Eidalaid *Inigo*, gan gadw y cyfenw *Jones* i fynu; ac felly, fe'i hadwaenir gan haneswyr yn gyffredinawl wrth yr enw "*Inigo Jones*."

Fel hyn, gwelwn fod geiriau y "gŵr doeth" wedi eu gwiriau yn y Cymro hwn, yn gystal ag mewn llawer ereill:—"A welaist ti ŵr diesgeulus yn ei orchwyl? efe a saif ger bron breninoedd, ac ni saif ger bron rhai iselwael."

Yr oedd efe yn un o'r prwyaduron appwyntiedig er adgyweiriau eglwys gadeiriol St. Paul, yr hon a anrheithiwyd trwy y tân mawr a dorodd allan yn y brif ddinas; ond a ail adeiladwyd yn ol cynllun gwreiddiol *Inigo Jones*.—Gorfodwyd ef i dalu dirwy drom yn ystod y rhyfel cartrefawl, ar gyfrif ei ymlyniad adnabyddus wrth y teulu breninol; ac efe a fu farw yn mis Gorphenhaf, yn y flwyddyn 1652, wedi cyrhaedd yr oedran teg o bedwar ugain mlwydd.

Yn y flwyddyn 1682, y genid mab i Edmunt Williams o Gonwy, yn swydd Gaerynarfon, yr hwn a elwid *John Williams*. Efe a dderbyniodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn ysgol ramadegawl Rhuthyn, o'r lle y symudodd i brif-ysgol Caergrawnt; yn y fan yma efe a hynododd ei hunan yn dra buan drwy ei ymrodd digyffelyb i lafuriau am wybodaeth a dysg; ac i'r perwyl hyny, ni threuliais onid yr wythfed ran o'i amser i gysgu, ac er hyny oll nis niweidid ei iechyd. Gweithiodd hwn ei ffordd, trwy ei lafur diffino i feithrin ei athrylith

naturiol, i'r sefyllfa uchaf yn y deyrnas, o'r bron. Cyrhaeddodd y swydd urddasol o glwysbrwyaeth y brif-ysgol; etholwyd ef i fod yn gappelwr i'r Arglwydd Ganghellwr Ellesmere—yr hwn, ar gyfrif ei dalentau deiflydd, a bentyrodd ddyrchafiadau eglwysig arno, ac efe a benodwyd yn un o'r capelwyr breninol. Yn y flwyddyn 1619, efe a wnaed yn ddeon Salisbury; ac yn fuan wedi hyny, cafodd ddeoniaeth Westminster. Yn mhen ychydig amser drachefu, efe a wnaed yn aelod o'r cyfrin-gynghor, yn Arglwydd Ganghellydd, yn esgob Lincoln, ac yn archesgob Caerefrwg. Fel hyn, trwy lafur, diwydrwydd, a gwir deilyngdod, cyrhaeddodd y bachgenyn dysymyl yma o Gonwy, y swyddi anrhydeddusaf y gall deiliad yn Mrydain eu cyrhaedd. Efe a fu farw yn Ngloddaeth, yn agos i'r lle y'i ganesid, ar y diwrnod yr oedd yn cael pen ei wythfed a thriugain mlwydd oed, sef yn y flwyddyn 1650.

Y *Dr. John Owen*, duwinydd annghydfurfiol tra dysgedig, llafurus, ac enwog—er nas ganwyd yn Nghymru—ydoedd o dylwyth Cymreig, o gymmydogaeth Cadair Idris, yn swydd Feirionydd. Ei gyfansoddiadau ydynt yn gwneuthur i fynu uwchlaw ugain cyflyfr wythplyg; a'i esponiad ar yr epistol at yr Hebraid, yn bedair cyfrol wythplyg mawr, sydd yn dra gwerthfawr. Y mae amryw o'i draethodau dyf-yddawl, neu dalfyriadau o honynt, wedi eu cyfieithu a'u cyhoeddi yn yr iaith Gymraeg, a chwassant dderbyniad tra chroesawgar gan ein cenedl.

*Richard Wilson*, y parth-luniedydd annghydmorol, ydoedd fab i'r Parchedig John Wilson, person Penegwest, yn swydd Drefaldwyn—lle y'i ganwyd, yn y flwyddyn 1714; ei fam ydoedd o deulu Wynn-iaid Coed Iai, gerllaw y Wyddgrug. Aeth i'r brif ddinas yn fachgen tra ieuanc, oddeutu pymtheng mlwydd oed, lle y gwasanaethodd fel egwyddorwas gydag ardebydd; ac wedi hyny efe a ddechreuodd ar y gelfyddyd drosto ei hunan. Ond yn gymmaint ag na chyfarfu â'r llwyddiant a ddysgwylasai yn Llundain, efe a aeth grosodd i'r Eidal, lle y cyfarfu gydag Iarll Dartmouth; yr hwn, pan ganfu alluoedd godidawg yr ardebydd ieuanc, a gynnygiodd iddo gael ei ganlyn ef i Naples, er mantais ychwanegol i goethi ei chwaeth yn ei gelfyddyd; a chyda hyn y cydsyniodd yntau yn rhywydd. Tra yn aros yn Naples, efe a ddeallodd y gallai ragori fel parth-luniedydd; at yr hyn yr ymroddodd; ac fel y cyfryw cyrhaeddodd enwogrwydd mawr trwy holl Ewrop yn fuan. Efe a ddychwelodd i Loegr yn y flwyddyn 1755; ond drwy eiddigedd gwrthymgeiswyr, ni chafodd y gefnogaeth a deilyngai; ac ni werthfawrogid ei ddarluniau yn ddyledus hyd wedi ei farwolaeth. Treuliodd y gweddill o'i einioes yn y Colomendy, gerllaw y Wyddgrug, yn swydd Ffint; ac yno y bu efe farw, yn y flwyddyn 1782, yn yr wythfed flwyddyn a thriugain o'i oedran; a gellir gweled ei feddfaen dysymyl yn mynwent plwyf y Wyddgrug.

Tua'r flwyddyn 1680, y genid *William Jones*, mab i un Sion Siors, tyddynwr bychan, o Lanmihangel Tre'r Beirdd, yn Mon—yr hwn, o ganlyniad, ni allai roddi llawer o fanteision addysg i'w fab; ac os gwir y chwedl a adroddwyd i mi, ers llawer blwyddyn yn ol, gan y diweddar hynafiaethydd cywrain, "Sion William Prisiard," o Lys y brain—bu ei dad farw pan nad ydoedd efe ond lled ieuanc; a'i fam, yr hon a elwid *Efa*, a symudodd i fyw i dyddyn bychan a adnabyddir wrth yr enw Clymmwr, yn mhlwyf Llanbabo. Yno yr amlygai y bachgen amddifad chwaeth nodedig at rifyddiaeth, yr hyn

a hysbysid gan rywun i feistr tir ei fam—yr Arglwydd Bulkeley. Y boneddwr gwladgarawl hwnw a gymmerodd sylw o hono, ac a'i cymmerth gydag ef i Lundain, lle y llywyddodd yn fuan i gaffael rhyw swydd iddo ar frwdd un o longau rhyfel y deyrnas; a thra y bu yno, efe a enillodd sylw a chyfeillgarwch y llyngesydd enwog hwnw, Arglwydd Anson. Pan ydoedd yn ddwy flywydd ar hugain oed, efe a gyhoeddodd draethawd wythplyg ar y Gelfyddyd Forwriaethawl, yr hwn a gymmeradwyid yn fawr iawn. Wedi dychweliad y llynges i Loegr, efe a ymsefydlodd yn Llundain fel athraw mesuroniaeth; ac yn y flywyddyn 1706, efe a gyhoeddodd draethawd gorchestol ar Bifyddiaeth a Mesuroniaeth. Yn y cyfamser hefyd, efe a enillodd sylw a chyfeillgarwch pendefig tra enwog—sef, yr Arglwydd Hardwicke, yr hwn a'i cymmerai i'w ganlyn, fel ei gydymaith, ar ei gylchdaith pan yn brif farnydd; ac wedi hyny, cafodd ryw swydd iddo fel ysgrifenydd o dan y llywodraeth. Cymmerid ef hefyd fel cyfaill mynwesawl gan yr Arglwydd Parker, yr hwn a fu wedi hyny yn llywydd y Gymdeithas Freninawl, a pharhaodd y gyfeillach hyd farwolaeth ei arglwyddiaeth. Etholid yntau yn aelod, ac wedi hyny yn is-lywydd y Gymdeithas anrhydeddus uchod; a gellid enwi, yn mysg ei gyfeillion mwyaf mynwesol, y cawri hyny yn y gwyddonau—Syr Isaac Newton, Halley, Mead, a'r Dr. Johnson. Wedi i'r Arglwydd Macclesfield ymneillduo i gastell Sherborne, trigai Mr. Jones gydag ef, fel aelod o'r teulu, gan ei hyfforddi yn y gwyddiannau. Tra fu yn y lle yma, cafodd segur-swydd dra gwerthfawr o dan y llywodraeth, drwy ddylanwad ei arglwyddiaeth; a thra yn y sefyllfa hon, efe a aeth i'r ystad brifodasol, a bu iddo dri o blant; yr ieuengaf o ba rai ydoedd yr ysgolhaig enwog hwnw yn ieithoedd y gwledydd dwyreiniol—sef, *Syr William Jones*; ond ete a fu farw yn mis Gorphenhaf, yn y flywyddyn 1749, pan nad oedd ei fab ieuengaf yn llawn dair blwydd oed. Dywedir ei fod yn feddiannol ar y lyfrfa fesuronawl oreu yn y deyrnas—yr hon, trwy ei gymmun-weiniaeth, a ddaeth yn eiddo yr Iarll Macclesfield.

*Syr William Jones*, ei fab ieuengaf, a anwyd yn Llundain, yn mis Medi, yn y flywyddyn 1746. Anfonwyd ef i ysgol Harrow, pan yn wyth mlwydd oed; a'i athrylith rhagorol a dynodd sylw yr athrawon yn fuan. Derbynid ef i mewn i'r brif athrofa, yn Rhydychain, yn y flywyddyn 1764; a thra y bu yma, cynnaliai frodor o Aleppo ar ei draul ei hunan, er mwyn gallu dysgu cynganiad cywir yr Arabaeg; ac wedi cymmyrd arno y swydd o fod yn athraw i'r Arglwydd Althorpe, efe a aeth gyda'i arglwyddiaeth i'r Almaen, yn mha le y perffeithiodd ei hyddysgrwydd yn yr Ellmynaeg. Ar ei ddychweliad i Loegr, cyfieithodd fuchedd-draith *Nadir Shah* i'r Ffrancoeg, yr hon iaith a ysgrifennai efe gyda choethder nodedig. Wedi hyny, efe a ymroddes i astudio y gyfraith, a chynnyddai yn gyflym yn ei enwogrydd fel un medrus yn y gyfraith; ac yn y cyfamser, cyhoeddai amrywiol gyfansoddiadau o'i eiddo, yn benaf ar lenyddiaeth ddwyr-ieniawl, y rhai a barent syndod mawr i'r byd. O'r diwedd, yn y flywyddyn 1783, efe a benodwyd yn brif farnwr Bengal, yn yr India Ddwyreiniawl; ac ar yr achlysur hwnw yr urddwyd ef yn farchog. Priododd â Miss Shipley, merch i esgob Llanelwly; ac yn nghorph yr un flywyddyn, cyrhaeddodd Calcutta. Tra yn aros yn yr India, efe a ysgrifennodd amryw gyfieithiadau o'r Hindwaeg; ac a furfiodd hefyd gymdeithas yno, gyffelyb i'r Gymdeithas Freniawl yn Llundain, 12.



dain, ar yr hon y dewiswyd ef yn llywydd cyntaf. A thra yr oedd holl ddysgedigion Ewrob yn llawn o syndod o herwydd ei ddysged-iaeth a'i lafur, efe a fu farw o ennynta yr afu, ar y seithfed dydd ar hugain o Ebrill, yn y flwyddyn 1794, ac yn yr wythfed flwydd a deugain o'i oed, wedi meistrolï naw ar hugain o ieithoedd, o ba rai yr oedd y Gymraeg yn un.

Yn y flwyddyn 1700, genid *Lewis Morus*, yn y Tyddyn Melus, yn mhlwyf Llanfihangel Tre'r Beirdd, Mon. Efe ydoedd fab henaf i Morus ab Rhisiart Morus, o Fargaret, ei wraig, yr hon ydoedd yn ferch i Morus Owain, o Fodafon y Glyn, yn yr un plwyf. Ei dad ydoedd gylchwr wrth ei alwedigaeth, a bu yntau yn ei gynnorthwyo yn yr alwedigaeth hono yn ei flyneddoedd boreuol. Ond ymddangosai yn lled gynnar ei fod yn feddiannol ar athrylith gref; canys pan ydoedd eto yn las-lanc, dywedir am dano, y gallasai feiddiaw undyn trwy Gymru a Lloegr i ymgystadlu gydag ef mewn tair gorchest—sef, “gwneyd telyn, a'i chwareu; gwneyd llong, a'i hwylio; a gwneyd cywydd, a'i ddatgan gan dant.”

Trodd ei fryd pan yn lled ieuanc at y gelfyddyd o dirfesurisaeth; ac fel un cywraïn yn y gelfyddyd hono, tynodd sylw amryw o foneddigion ei wlad, yr hyn a achlysuroidd ei ddyrchafiad ef i swyddau anrhydeddus a buddfawr o dan y llywodraeth. Y swydd gyntaf a gafodd ydoedd yn y gyllidfa, yn Nghaergybi; ac wedi hyn, pan oedd tua dwy flwydd ar bymtheg ar hugain oed, efe a bennodwyd i arolygu, mesur, a darlunïaw porthladdoedd, aberoedd, ac arfordiroedd Cymru; yr hyn orchwyl a gyflawnodd efe mewn llestr fechan a thlos, o'i gynlluniad ac mewn rhan o'i saerniaeth ef ei hunan, yr hon oedd ar gael rai blyneddoedd yn ol, odditan yr enw “Pegi bach o Ddulas.” Cyhoeddwyd ffrwyth y llafur yma, yn y flwyddyn 1748, dan yr enw “*Plans of Harbours, Bays, and Roads, in St. George's Channel.*” Y gwaith yma a enillodd iddo barch ac anrhydedd mawr gan bob dosbarth o ddynion, am ei gywirdeb, a'i ddefnyddioldeb i fordwyaeth.

Heblaw y swyddau uchod, efe a wnaethpwyd yn arolygwr tiroedd a mwn-gloddiau y brenin yn Nghymru; ac i'r perwyl hwnw, ym-ymudodd i Geredigion i breswylïo, lle y priododd efe, yn ail wraig, un o'r enw Anne Lloyd, o Benbryn, yr hyn a gymmerodd le yn y flwyddyn 1749.\* Yn Mhenbryn y treuliodd efe weddill ei oes, ac yno y bu farw, Ebrill 1leg, yn y flwyddyn 1765; a'i ran farwol ef a roddwyd i orphwys yn mynwent eglwys Llanbadarn Fawr, yn swydd Aberteifi.

Mewn cyfeiriad at ei swyddau o dan y llywodraeth, yn nghyda'i fedrusrwydd i'w cyflawni, y dywedai Goronwy Owain, yn ei farwnad, fel y canlyp:—

“Bu'n wastad ddfirad ddwyfron—ddiysgog  
I'w hydr eneinniog d'eyrn union;  
Rhyngodd ei fodd a'i ufuddion—swyddau,  
A chwys ei aelïau, a chysulion.

Mesurai, gwyddai bob agweddion—  
Llun daear ogylich, llanw dw'r eigion;

\* Ei wraig gyntaf oedd Elisabeth Griffith, o Dy Wrдын, gerllaw Caeergybi.

Amgylchoedd moroedd mawrion—a'u cymlawdd  
Iawn y dangosawdd, nid anghysson.

Daear a chwiliodd drwy ei chalon,  
Chwalai a chloddiai ei choluddion;  
A'i dewis wythi, meini mwynion,  
A thew res euraid ei thrysorion,  
A'i manylaf ddymunolion—bethau,  
Deuai i'r golau ei dirgelion.

Olrheiniodd, chwiliodd yr uchelion,  
Llwybrau'r taranau a'r terwynion;  
Fflamawg fellt llamawg, folltau llymion,  
Is awyr ganaid, a ser gwynion,  
Nodau'r lloer a'i newidion,—hynt cwmwl  
O fro y nifwl i for Neifion.

Ebrwyddaf oedd o'r wybryddion—hyglod,  
A llwyr ryfeddod holl rifyddion!  
Traethai, fe wyddai foddion—teyrnasoedd,  
Rhoi o hen oesoedd wir hanesion."

Lewis Morus a osododd i fynu argraffwasg yn mhentref Bodedeyrn, yn Mon, a'r hon yr argraffodd amryw lyfrau; ac wedi hyny efe a'i gwerthodd i un Dafydd Jones, o Drefriw, yn swydd Gaerynarfon. Heblaw ei fod yn fardd gorchestawl ei hunan, efe a fu yn offerynawll hefyd i gyfodi cyfnod newydd ar farddoniaeth cenedl y Cymry; ac ystyrir ef yn athraw barddonol y Parchedigion Goronwy Owain, Efan Efans, neu "Ieuan Brydydd Hir," William Wynne o Langynhafal, ac amrywiol feirdd da ereill, fel y tystia y rhan ganylynol o'i farwnad:—

"Goleuodd wedi ei gywleiddiafon  
A gwir hyfforddiant, geiriau hoff heirdion;  
Athrawai'n fuddiawl, a thrwy iawn foddion  
'E gaed moes wiwdda gyda masweddion;  
Lle bu'r diddysg hyl brydyddion,—prin ddau,  
Fe ro'dd ugeiniau o hoywfeirdd gwynion.

Ar y sydd i'r oes hon  
Yn fawrddysg awen feirddion,  
A gwiw lesfryd i'w glwysafon,  
Bryd arail i'w bro dirion,  
Agos oll ynt, deg weis llon,  
O ddysg abl, ei ddysgyblion;  
A phoed maith goffhad a mawl  
I'w arglwyddawl ryglyddon.

A thra bo urddawl athro beirdion,  
A tuwyn dysg wiwles mewn dwys galon,  
Gwiwdeb ar iaith, a gwaed y Brython,  
Ac awen Gwyndud, ac ewyn gwendon,  
Daear a nef, a dw'r yn afon,  
Ef a gaiff hwyaf wiw goffeion."

Yr oedd i Lewis Morus ddawn ystwyth ryfeddol i osod allan ei feddwl, pa un bynag ai mewn rhyddiaith neu gynghanedd, a chryn duedd ynddo at y digrifol yn lled fynych; megys ag y gwelir yn ei gyfansoddiadau perthynawl i William Dafydd, alias "*Bol Haul*," ei lythrau arabawl, ei gwyddau campus, &c., y rhai a ganfyddir yn y "*Diddanwch Teuluaid*, neu Waith Beirdd Mon." Ei enw barddonol oedd "*Llewelyn Ddu o Fon*."

Yr oedd i Lewis Morus ddau frawd tra thalentawg fel ei hunan—sef, *Rhisiart Morus* a *William Morris*. Y cyntaf a gafodd swydd yn y morlys yn Llundain, a'r llall yn y gyllidfa yn Nghaerdybi.

Yr oedd Rhisiart Morus yn ieithydd. \*bardd da; efe a adolygodd ddau argraffiad o'r Beibl Cymraeg, y rhai a gyhoeddwyd yn y blyneddoedd 1746 a 1752. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1779. Heblaw fod William Morus yn Gymro da, ac yn hynafiaethwr cywrain, yr oedd yn llysiuwydd tra medrus hefyd.

Tra yr oedd y tri brawd hyn gartref gyda'u tad, efallai, y darfu i'r hen wr gymmeryd tyddyn mwy a gwell na'r un a ddaliai o'r blaen—sef, lle a elwir "*Pentref Eirianell*;" ac yno weithiau yr elai gwraig dlawd i un Owain Goronwy, eurych, o'r Rhos fawr, a chanddi fachgenyn bychan penddu a henffel yn ei llaw. Un tro, fel yr oedd yr hen Fargaret Morus, yn dra charedig, yn rhoddi brechtan fel i'r bachgenyn tlawd, efe a edrychai yn ei hwyneb, a'i lygaid yn gloywi fel ser ar noswaith rewlyd, ac a'i cyfarchai yn siriawl, gan ddywedyd yn ddiroddres, "*D'asai gen i gynffon, mi fasun yn ei hysgydd hi!*" gan gyfeirio at ddull ei yn amlygu ei ddiolchgarwch am damaid. Hyny, a rhyw amlygiadau cyffelyb o wreichioniad athrylith yn mab yr eurych, a barai i'r Morusiaid ei gymmeryd, pan yn dra ieuanc, i Bentref Eirianell, i wneuthur rhyw fân gymmwynasau iddynt, ac fel y byddai wrth eu llaw, i gael ei ddysgu ganddynt. A chylwais hen bobl gall o'r gymmydogaeth hono—megys y diweddar Gruffudd Edward o Fodafon, &c.—yn adrodd y chwedl ddi-grifol a ganlyn, yr hon ydoedd yn draddodiad byw yn y cymmydogaethau hyny tua deng mlynedd ar hugain yn ol—sef, bod Lewis Morus ar ryw achlysur yn ymbarotoi i fyned ar un o'i deithiau, i fesur tiroedd rhai o'r boneddigion efallai; ac yn ei ffwdan, wrth fethu rhoi dau grys yn ei goden groen, heblaw llyfrau ac offer angenrheidiol, dywedai yn lled arw a chostogaidd—

"Nid s'n y croen ond un crys!"

I'r hyn yr atebai y bachgenyn oedd yn ei gynnorthwyo, yn y fan—

"Digrif, nad elai deugrys!"

Tynai hyn sylw neillduol Llewelyn arno, a phenderfynai dynu allan yr athrylith oedd ynddo; a'r canlyniad fu, rhoddi dysgeidiaeth deilwng iddo, a'i ddwyn i fynu i'r Eglwys Sefydledig.\* Cafodd ei urddo

\* Y mae yn lled anhawdd cyssoni y traddodiad uchod s'r hyn a ddywaid ef ei hun, yn ei lythyr o Donnington, dyddiedig Mehefin 22ain, 1752, at Mr. Rhisiart Morus, yr hwn ydoedd y pryd hyny yn Llundain; yn y llythyr hwnw y mae efe yn cyfeirio nas gwelsai Rhisiart Morus erioed s'i lygaid; oddieithr i ni dybied bod Rhisiart Morus—yr hwn, efallai, ydoedd ugain mlynedd yn hyn na Goronwy—wedi gadael cartref cyn iddo ef ddyfod i sylw ei frawd.

yn ddiagon yn y flwyddyn 1745; a thros beth amser bu yn gweindogaethu fel curad yn ei blwyf genedigawl—sef Llanfair-mathafarn-eithaf, lle y mwynhai ddedwyddwch tra mawr, yn mysg ei geraint a chyfeillion ei ieuencyd. Ond bu raid iddo roddi y lle yma i fynu cyn pen ychydig wythnosau, er mwyn gwneyd lle i gyfaill yr esgob; ac er nad ydoedd y gyflog yno ond ugain punt yn y flwyddyn, yr oedd ymadawiad mor ebrwydd o Lanfair yn groes fawr iawn iddo. Ac o'r pryd hyny bu yn ymгурaw ac yn ymdreiglaw o le i le, ac mewn byd mawr yn cael tamaid iddo ei hunan a'i deulu, am wasanaethu yr Eglwys, a chadw ysgolion; a'r byd gerwinaf arno i dori ei awydd diwala i ddysgu cymraint ag a allai—ond yn methu a chael y llyfrau i'w dysgu a dalent i'w dysgu. Er hyny, o dan yr Athol anfantseion hyn, cyfansoddai amryw ddarnau barddonawl gwir orchestol; a gallwn gasglu iddo ymwithio i wybodaeth dra eang o'r ieithoedd dwyreiniol. O'r diwedd, symudodd i'r Amerig, lle y treuliodd weddill ei oes—yn fwy cysurus o ran amgylchiadau y bywyd hwn, dybygid, nag y buasai yn Mrydain; eto yn ebychiaw llawer ochenaid drom o hiraeth am anwyl wlad ei dadau.

*Henri Owen* a anwyd yn Nhan y Gadair, yn agos i Ddolgellau, yn swydd Feirionydd, yn y flwyddyn 1716. Efe a dderbyniodd ei addysg yn ysgol ramadegawl Rhuthyn; a phan yn bedair mlwydd ar bymtheg oed, efe a aeth i Goleg yr Iesu yn Rhydychain. Un o hoff ganghenau ei efrydiaeth ydoedd meintoniaeth, yn yr hyn y rhagorodd pan yn dra ieuanc. Wedi cymmeryd ei raddau yn y celfyddydau, efe a ymroddodd i astudio physygwriaeth; ac yn nghorff y flwyddyn 1746, efe a gafodd ei raddu yn Febydd Meddygiaeth, a bu yn gweithredu fel meddyg dros dair blynedd; ond afiechyd, yn nghyda'i anhoffder yntau o'r alwedigaeth honno, a barodd iddo ei rhoddi i fynu, a throi ei fryd yn llwyr at yr offeiriadaeth.

Nis meddwn unrhyw hysbysiad pa bryd y derbyniwyd ef i urddau cyssegredig; ond fe'n hysbysir ei fod yn lled ieuanc wedi ei wneyd yn gapelwr i Syr Matthew Featherstonehaugh, yr hwn a'i cyflwynodd i fywioliaeth Torling, yn Essex. Yn y flwyddyn 1748, efe a gyhoeddodd draethawd byr ar Dryfaliaeth, dan yr enw "*Harmonie Trigonometrica*," wythplyg. Yn y flwyddyn 1750, efe a gyflwynwyd i arberigloraeth *St. Olave*, Heol-yr-bydd, yn ninas Llundain, pan y rhoddes i fynu fywioliaeth Torling. Yn fuan wedi hyn, efe a wnaed yn gaplan i esgob Llandaf, wedi hyny esgob Durham.

Yn y flwyddyn 1753, efe a gymmerth ei raddu yn Athraw Meddygseth (M.D.) yn Rhydychain; ac yn y flwyddyn 1755, cyhoeddodd gyfansoddiad rhagorol, dan yr enw, "Sylwadau ar y Gwyrthlau Ygrythyrol." Yn y flwyddyn 1760, efe a briododd ferch Dr. Butts, yr hwn a fusasai ar y cyntaf yn esgob Norwich, ac wedi hyny yn esgob Ely. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn, efe a gyhoeddodd ei "Sylwadau ar y Pedair Efengyl," wythplyg; yr hwn a ddylynid, yn y flwyddyn 1766, gan draethawd tra gwerthfawr o'i eiddo, dan yr enw, "Cyfarwyddiadau i Efrydwyr ieuanc mewn Dwryfyddiaeth." Yn y flwyddyn 1769, cyhoeddodd ei "Ymchwiliad i ansawdd Cyfieithiad y Deg a Thriugain"—gwaith a brofai yn amlwg ei fod yn feddiannol ar alluoedd meddwl cryfion, a dysgeidiaeth eang, a'i fod wedi llafuriaw yn dra helaeth mewn efrydiaeth ar lenyddiaeth gyssegredig. Y pryd hyn, efe a benodwyd i bregethu y Lenlith, seiliedig gan yr Anrhydeddus Robert Boyle; ac yn y flwyddyn 1773,

efe a gyhoeddodd y pregethau a draddodasai, o dan y cyfenwad—“Amcan a phriodoldeb y Gwyrthiau Ysgrhythyrol yn cael eu hystyried a'u hegluro, mewn cyfres o bregethau a draddodwyd yn Eglwys blwyfol St. Mary-le-Bow,” &c., mewn dwy o gyfrolau wythplyg. Yn ystod y flwyddyn ganlynol, efe a gyhoeddodd ei “*Critica Sacra*,” sef math o arweiniad byr i feirniadaeth Hebraidd; yr hwn a ddylynwyd wedi hynny gan “Adchwanegiad,” mewn atebiad i ryw nodiadau arno, gan Juddew dysgedig o'r enw Mr. Raphael Baruh. Yn y flwyddyn 1775, cyflwynid Dr. Owen, gan yr Esgob Barrington, i ficeriaeth Edmonton, yn Middlesex. Yn y flwyddyn 1778, efe a wnaeth wasanaeth pwysig i'r byd llenyddol, trwy y llafur a'r manylrwydd â pha un y golygodd gydgyhmariad y llaw-ysgrif Cottonaidd werthfawr o lyfr Genesis, a chopi y Vatican, yr hwn a wnelsid gan y dysgedig Grabe, yn y flwyddyn 1703, ond a adawsid heb ei gyhoeddi ganddo, ar ei farwolaeth. Ei deitl yw—“*Collatio Codicis Cottoniani Geneseos cum Editione Romana, a viro clarissimo Joana Ernesto Grabe, jam olim facta; nunc demum summa cura edita ab Henrico Owen, M.D.*” &c. Yr hyn a wna y cydgymhariad yma yn fwy gwerthfawr, yw yr amgylchiad fod y llaw-ysgrif grybwylledig—yr hon, efallai, yw yr henaf yn Ewro—wedi cael agos ei llwyr ddystrywio trwy dân, yr hwn a gymmerodd le yn y llyfrgell Cottonaidd, yn 1731.

Efe a wnaeth wasanaeth pwysig arall i ddysgedigion y byd, yn y flwyddyn 1785, trwy y gofal a'r llafur a arferodd efe yn nghyhoedd- iad yr argraffiad wythplyg o “*Xenophon's Memorabilia*,” yr hwn a adawsid yn anorphen gan y Dr. Edward Edwards, o Goleg yr Iesu, Rhydychain; yr hwn a fu fyw yn unig i argraffu y testyn, yn nghyd a'r cyfieithiad. Ryw bryd-cyn ymddangosiad y gwaith uchod, efe a gyhoeddasai ddau “Archwiliad Beirniadol”—y cyntaf a gynnwysai sylwadau ar argraffiad Masius o lyfr Josua; a'r ail ar Chweplyg enwog Origen. Y traethodau hyn oeddnt fanol a galluawg, ac a ychwanegent at enwogrwydd yr awdwr yn mys gllenorion dysgedig. Y gweithiau galluog hyn a ddylynid yn fuan gan draethawd arall ar Ysgrhythyrau yr Hen Destament, yr hwn a gynoeddwyd yn ystod y flwyddyn 1787, dan y teitl—“Sylw byr, hanesyddol a beirniadol, ar Gyfieithiad y Deg a Thriugain o'r Hen Destament; at yr hwn y cllwanegwyd traethawd ar rãgoroldeb cymhariaethol Pum' llyfr Moses, yn yr Hebraeg a'r Samariaeg.” Mae yr awdwr, yn y gwaith bychan hwn, wedi crynhoi llawer o hysbysiaeth werthfawr o barth i'r amser y gwnaed y cyfieithiad hwn—y personau a'i gwnaethant—a'r modd y'i gwnaed; y dystiolaeth o'i gywirdeb a'i ffyddlondeb, ac o'r bri cyffredinol yn yr hwn y'i cyfrifwyd dros yspaid maith o flyneddoedd, a'r achosion o'r cyfnewidiadau a wnaethpwyd yddo o bryd i bryd.

Y cyfansoddiad olaf o eiddo y Cymro diwyd a dysgedig yma, ydoedd arheg ddefnyddiol a gwerthfawr i efrydwy'r ysgrhythyrol, yr hwn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1789, dan y teitl—“Amddiffyniad ac eglurhad ar y moddau o ddyfynebu a arferid gan yr Ysgrifenywyr Efengylaidd,” wythplyg.

Yn y rhan olaf o'i oes, efe a gystuddid â nychdod bliu, o'r hwn y bu farw, Hydref 15eg, 1795, yn y bedwar-ugeinfed flwydd o'i oed- ran, wedi enill iddo ei hunan enwogrwydd Ewrobaidd am ei ddyg- eidaeth.

*Abraham Rees* ydoedd fab i weinidog ymneillduol, ac a anwyd yn agos i Drefaldwyn, yn Ngogledd Cymru, yn y flwyddyn 1743. Efe

a dderbyniodd elfenau addysg yn ysgol ramadegol Caerfyrddin; ac wedi hyny fe'i rhoddwyd yn athrofa Hoxton, lle yr ydoedd ei gynnydd yn gyfryw, fel y cafodd ei benodi yn athraw gwyddonawl i'r athrofa, yn mhell cyn terfynu yr amser prawf gosodedig i efrydwy; ac efe a gyflawnai ddyledswyddau y swydd hono mor foddhaol, fel y cafodd ei ddewis yn fuan yn athraw trigianol, a llywadur gweithredol y sefydliad. Dan ei arolygaeth alluog bu ffyniant annghyffredin ar yr athrofa, dros fwy na thair blynedd ar hugain; yn ystod yr hwn gyfnod y dygwyd talentau rhai o addurniadau penaf ymneillduwyr Lloegr i addfedrwydd. Er ei fod wedi ei ddonaw â thalentau hynod o gyfaddas i'r pwlpudd, efe a fu dros lawer o flyneddoedd heb arfer pregethu onid yn achlysurol; ond yn y flwyddyn 1768, efe a ddaeth yn weinidog cynnulleidfa o Henaduriaethwyr, yn *St. Thomas's, Southwark*, lle y bu yn gweinyddu hyd y flwyddyn 1783, pryd y dewiswyd ef yn weinidog ar gynulleidfa yn *Old Jewry*. Yn y lle hwn, yr hwn a gadwodd tra fu byw, bu ei ymdrechadau yn hynod o lwyddiannus—ychwanegwyd ei gynulleidfa i fwy na phedair gwaith yr hyn ydoedd pan aeth efe yno; a chynnyddai mewn cyfritoldeb, crystal ag mewn nifer. Efe a ddarlithiai hefyd dros ryw yspaid yn *Salter's Hall*; ac ar seiliad y sefydliad byr-hoedlawg hwnw—Coleg Hackney—efe a benodwyd yn athraw Hebreig ynddo. Ond fel awdwr y daeth y Dr. Rees i enwogrwydd annghydmorol yn y byd llenyddol a gwyddonawl. Yn y flwyddyn 1781, efe a ddechreuodd gyhoeddi Gwyddoniadur Chambers, yn rhannau, yn nghyda chwanegiadau; ac efe a gwblhaodd y gwaith mewn pedair cyfrol unplyg, yn y flwyddyn 1786. Yr ydoedd mwy na haner y gwaith yn newydd, ac wedi ei arllwyo ganddo ef ei hunan; a'r cyfan wedi ei drefnu mor fedrus, fel y cydunai holl ddysgedigion y dydd i ddwyn eu tystiolaeth i'w deilyngdod. Yn fuan wedi hyny, efe a etholwyd yn gymmrawd o'r Gymdeithas Freninol; a darfu i brifysgol Edinburg—ar gais neillduol y Dr. Robertson, yr hanesydd—ei raddu yn Athraw Dwyfyddiaeth. Etholwyd ef hefyd yn gymmrawd o'r Gymdeithas Linæaidd, ac o'r Gymdeithas Llenyddol Freninol; ac amryw gymdeithasau llenyddol a gwyddonol o wledydd tramor a'i hanrhydeddasant, trwy ei gyfresu yn mysg eu haelodau.

Ond er ei holl lafur—llynyddol a gwyddonol—ni pharai hyny iddo esgeuluso ei ddyledswyddau gweinidogaethol: ac amryw bregethau o'i eiddo, a gyhoeddai ar gais neillduol ei gynulleidfa, a amlygent ei dduwiolfrydedd gwresog, ac a roddent fantais ragorol i'r byd farnu am ei dalentau fel pregethwr. Tua'r pryd hwn hefyd efe a ragluniai Wyddoniadur newydd dan ei enw ei hun, a chafodd yr lyfrdych o weled ei orphen; yr oedd hwn yn waith o'r fath faintiolaeth ac amrywiaeth, fel y gellid meddwl y buasai yr oes hwyaf yn rhy fer i ddyfod drwyddo, a'r diwydrwydd mwyaf diffin yn annigonawl i'w gwblhau. Ond ymddangosai y cyfilyfr cyntaf yn y flwyddyn 1802, a dygid cyfilyfr allan bob chwe mis, hyd oni orphenid y cyfan mewn 45 o gyfilyfrau pedwarplyg.

Yr oedd iddo amryw gynnorthwywyr galluog yn y gorchwyl gorchestawl yma; ond ysgrifened rhan fawr o'r erthyglau ganddo ef ei hun, a chynlluniad a threfniad y cyfan ydoedd yr eiddo ei hun yn hollol. Y mae yn amhossibl llafaru yn rhy uehel am y ddysgidiaeth goeth, y diwydrwydd, a'r gofal a amlygid yn y gwaith dibafal hwn.—Ei weithiau ereill oeddynt "Cynnuldeb yn cael ei egluro, a'i arganmol."—"Gwrthebydd i'r arswyd Goresgyniad."—"Egwyddorion

Ymneillduwyr Protestanaidd yn cael eu datgan a'u hamddiffyn,"—heblaw amrywiol bregethau, &c.

Bu farw y dyn hynod hwn ar y nawfed dydd o Fehfin, yn y flwyddyn 1825, wedi cyrhaedd yr oedran teg o bedwar ugain a dwy flwydd, ac yn y cyfawn feddiant o'i holl alluoedd. Efe a gladdwyd yn Bunhill Fields.

*Edward Williams*, bardd a hynafiaethydd tra enwog, a adwaenir yn fwy cyffredinol wrth ei enw barddonawl, "Iolo Morganwg"—a anwyd yn y flwyddyn 1745, yn Mhenon, swydd Forganwg. Yr ydoedd yn afiachus yn blentyn, ac felly y parhaodd drwy ystod oes faith. Gan nad ystyrid ef yn ddigon cryf i'w ddanfon i ysgol, cedwid ef adref; ond efe a ddysgodd adnabod y llythyrenau wrth sylwi ar ei dad yn tori ar gerig beddau. Ymddangosai ei duedd at farddoniaeth pan yn dra ieuanc; canys fel yr oedd ei fam yn ei ddysgu i ddarllen, ni allasai byth gael ganddo ddefnyddio un llyfr i ddysgu, ond hen lyfr o ganeuon Seisnig. Ei fam hefyd a'i dysgodd i ysgrifenu, ac i ymgynabod â phrif reolau rhifyddiaeth, ac âg elfenau cyntaf peroriaeth. Er mai Saesoneg ydoedd iaith tŷ ei dad, ei gynnygiadau cyntaf ef at farddoni a wnaed yn Gymraeg.

Efe a ddechreuodd weithio ar alwedigaeth ei dad, megys naddwr meini, pan nad ydoedd ond naw mlwydd oed; ac arosodd gartref yn dilyn yr alwedigaeth hono, hyd farwolaeth ei fam yn 1770. Yna, wedi claddu ei fam, o'r hon yr oedd yn dra hoff, efe a aeth i Llundain, a rhanau ereill o Loegr, lle y bu yn dilyn ei alwedigaeth am flyneddoedd.

Yn y flwyddyn 1777, efe a ddychwelodd i Forganwg, ac a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn mhentref *Flimstone*, o fewn tua dwy filldir i'r man y'i ganwyd; ac yma parhai i ddilyn ei alwedigaeth isel, gan iddo ymbriodi yn y flwyddyn 1781.

Yn y flwyddyn 1794, efe a gyhoeddodd ddau gyfilyfr o farddoniaeth Seisnig, y rhai oeddynt gynnwysedig o gyfansoddiadau gwreiddiol, a chyfieithiadau o'r iaith Gymraeg. Wedi hyny rhoddwyd ef ar waith gan Mr. Owain Jones (Owain Myfyr,) i dramwy hyd a lled y dywysogaeth, i chwilio am hen gyfysgrifau Cymreig, yn yr hyn y bu yn fwy llwyddiannus o lawer nag y dysgwylid; ac o'r defnyddiau a gesglid fel hyn, trwy ei lafur dybryd ef, y crynhowyd y "*Myvyrian Archaeology*," yr hwn a gyhoeddid o dan gyd-olygiaeth Owen Jones, Ysw., y Dr. Pughe, ac Iolo; ac ynddo, hyd heddyw, y cynnwysir y gronfa werthfawrocaf o henafiaethau Cymreig. Efe a adysgrifasai tua 100 o gyfilyfrau allan o hen gyfysgrifau Cymreig, ac o'r rhai hyn y cyhoeddid "Cyfrinach y Beirdd," ychydig cyn ei farwolaeth; a chyhoeddid cyfilyfr lled fawr o ddetholion o'r casgliad uchod, yn y flwyddyn 1849, gan Gymdeithas y Cyfysgrifau Cymreig. Iddo ef hefyd yr ydys yn ddyledus am gadwraeth "Coelbren y Beirdd"—henafiaeth yr hwn a brofwyd yn ddiarnheul mewn traethawd o eiddo ei fab, *Taliesin ab Iolo*, yr hwn oedd fardd a hynafiaethydd enwog fel ei dad.

Yr oedd Iolo Morganwg yn ŵr tra rhyddfrydig, a hynod annibynol ei feddwl, fel y dangosir yn y mân gofion canlynol am dano.—Tra yr oedd yn Llundain, yn ŵr lled ieuanc, yn naddu cerig at bont y *Blackfriars*, adnabyddid ef gan amryw o'i gydweithwyr fel diwygiwr o feddwl eang; ac yn rhyw fodd rhoddwyd ar ddeall i Mr. Pitt, nad oedd y *saer maen Cymreig* yn un hollol ddiberygl i'w oddef yn

y brif ddinas; felly anfonwyd swyddog i'w letty, a chymmerwyd ef a'i holl hapurau i fynu, i'w dwyn i swyddfa Pitt. Wedi chwilio ei holl hapurau yn fanol, a chael allan nad oeddynt namyn darnau o farddoniaeth, a hen gyfysgrifau Cymreig, dywedai Pitt wrtho yn dra moesgar—"Y mae yn ddywenydd mawr genyf allu sylwi wrthyh, Mr. Williams, nad oes dim eich papurau yn cyfiawnhau y cyhuddiad a roddid yn eich erbyn; gan hyny, chwi a ellwch eu cymmyrd, a dychwelyd adref." I'r hyn yr atebai Iolo, gan ddywedyd—"Syr, chwi a barasoch ddwyn fy mhapurau yma heb fy nghais na'm cenad i, *efallai y byddwch dirioned a'u hanfon yn ol i'm letty.*" "Gwir iawn, Mr. Williams, mae hyny yn rhesymol, ac fe'i gwneir," medd Pitt—ac felly fu; a'r bardd a ddychwelai at ei gynion a'i gerig.

Yn mhen blyneddoedd ar ol hyn, efe a fu yn cadw siop llyfrau fechan yn Mhont Fon; a rhyw swyddog cymmydogawl, wedi clywed ei fod yn gwerthu llyfrau bradwrus—yn enwedig "*Hawlion Dyn,*" gan Thomas Paine—a gadwai lygaid tra eiddigus ar ffenestr ei siop, gan ddsygwyl cael arfod yn fuan i enill y gwobrwy a addawai y llywodraeth am ddwyn y cyfryw i ddalfa. Ond ryw fodd neu gilydd daeth cyfrinach y swyddog i glustiau Iolo; yr hwn, gan fod ganddo ystôr go fawr o Feiblau ysgolion, a gymmerth un, ac wedi gludio deryn o bapur gwyn ar ei gefn, ysgrifennodd arno, HAWLION DYN, ac a'i dodes mewn lle amlwg yn y ffenestr. Yn fuan iawn deuai y swyddog gwladgarawl i mewn—gofynai bris y llyfr, a thalai am dano yn ddiymorol yn y fan; wedi hyny efe a frysiai ymaith, gan feddwl yn ddiau ei fod yn meddu yn ei law brawf ddaheuawl o fradwriaeth y llyfrwerthwr. Ond ar yr heol, pan y safai i edrych i'r llyfr, er ei syndod canfyddai mai Beibl ydoedd; dychwelai yn ol yn uniongyrchol i'r siop, gan ddywedyd—"Edward Williams, Beibl ydyw hwn; ac yr oedd arnaf fi eisiau prynu Hawlion Dyn."—"Fy nghyfaill," medd y bardd, "*yn y llyfr yna y canfyddwch chwi holl wir hawlion dyn.*"

Yr oedd iddo dri o frodyr, oll yn seiri meini fel ei hunan; aeth y tri i'r India Orllewinol, lle y daethant yn gaethfeddianwyr, ac y casglasant gryn lawer o gyfoeth. Bu y tri feirw heb hiliogaeth, fel mai ein bardd ydoedd etifedd cyfreithlawn y tri. Buasai yr etifeddiaeth yma yn ei gyfodi ef a'i dylwyth yn gydwastad â boneddigion Morganwg, ac yr oedd yn meddu pob cymhwysder mewn gwybod-aeth a lledneisrwydd i ragori ar y rhan fwyaf o honynt. Ond pan ddaeth y newyddion drosodd, efe a ddywedai, dan ddylanwad dwys deimlad calon ryddgarawl—"Yr holl arian hyn ydynt werth gwael; gwerth esgryn, giau, cyhyrau, ac eneidiau dynion. Ni fynaf ddim o honynt—ni chais fy mhiant ddim o honynt. I ba le bynag yr elont, dygant felddith Duw Hollalluog i'w canlyn. Myfi a'u cadwaf hwynt, a'r felddith a'i canlynt, oddiar fy mhen fy hun, a'r eiddo fy mhiant. Ni chânt groesi gorsing fy nghy, na chrogi oddiwrth fy nenbren." Ac efe a gadwodd at ei benderfyniad yn ddigymfnewid.

Y gŵr gwir dalentawg a dysgedig hwn a fu farw ar y deunawfed dydd o Ragfyr, 1826, wedi cyrhaedd yr oedran teg o un flwydd a phedwar ugain.

Yr enwog *Ddr. William Owen Pughe* a anwyd yn Nhy'n y bryn, yn mhwyf Llanfihangel y Pennant, swydd Feirionydd, ar y seithfed dydd o Awst, yn y flwyddyn 1759. Yn fuan wedi ei eni ef, symudai ei rieni i Egryn, yn Ardudwy, swydd Feirion, lle y treul-



iodd ei ddyddiau ieuengaidd, hyd oni ddanfonwyd ef i'r ysgol, yn Altringham, gerllaw Manchester; a phan gyrhaeddodd ddwy flwydd ar bymtheg oed, efe a ymsefydlodd yn Llundain. Yn y brif ddinas, ei holl feddwl a gymmerid i fynu gan lyfrau a llenyddiaeth Gymreig, er na wyddai fod neb ond ei hunan o'r tueddai hwnn yn y ddinas fawr hono hyd y flwyddyn 1782, pan y digwyddodd iddo yn ddamweiniol gyfarfod â Robert Hughes, neu "Robyn Ddu o Fon," bardd a beirniad rhagorawl. Trwy gyfryngwriaeth Robert Hughes efe a ddaeth yn adnabyddus o "Owain Myfyr," ac amryw selodau ereill o Gymdeithas y Gwyneddigion, y rhai oeddynt dra eiddigedus dros hen iaith eu hynafiaid.

Yn y flwyddyn 1789, efe a olygai argraffiad o gyfansoddiadau y bardd Dafydd ab Gwilym, a chynorthwyid ef yn y gwaith gan ei gyfaill Owain Myfyr; ac yn y flwyddyn 1792, cyhoeddodd farddoniaeth Llywarch Hen, yn nghyda chyfieithiad o'r unrhyw i'r iaith Seisnig. Dechreuai gasglu defnyddiau at ei waith mawr—y Geiriadur Cymreig a Seisnig—mor foreu a'r flwyddyn 1785; a llafuriai gyda'r gorchlwyf pwysig yma, ar amserau, dros yspaid deunaw mlynedd—gan ddarllen yr holl lyfrau argraffedig, a'r cyfysgrifau Cymreig, a allai gael, er casglu defnyddiau at y drysorfa ddigyffelyb yma o'r iaith Gymraeg; a'r canlyniad o'r llafur dybryd yma a fu corphoriad geiriadur digyffelyb o ran nifer y geiriau a gynnullwyd, a chywirdeb eu darnodiad—yr hyn a welir pan yr ystyriom fod geiriadur Saesonaeg y Dr. Johnson, wedi ei helaethu gan Todd, yn cynnwys 58,000 o eiriau; geiriadur Saesonaeg Webster, tua 70,000; ond cynnwysai yr argraffiad cyntaf o eiriadur Cymreig a Seisnig y Dr. Pughe dros 100,000 o eiriau, a 12,000 o ddyfynbau. Cyhoeddwyd ail argraffiad o hono yn Ninbach, yn y flwyddyn 1832, mewn dau gyflyfr wythplyg mawr, yn yr hwn yr ychwanegid amryw filoedd o eiriau at ei gynnwysiad.

Gwaith mawr arall y bu yn llafuriai llawer wrtho—yn nghyda'i gyfeillion Owain Myfyr ac Iolo Morganwg—ydoedd grynhoad o hen gyfansoddiadau Cymreig, yn dri chyhyfr wythplyg mawr, o dan yr enw "*Myvyrian Archaeology of Wales*." Cyhoeddwyd hwn yn ystod y blyneddoedd 1801—7. Ei fuchdraith Cymreig a ymddangosai yn y flwyddyn 1803. Golygai y "*Cambrian Register*," y "*Greal*," &c., ac ysgrifennai lawer o erthyglau i wyddon yr Rees—i Hanes Cymru, gan Warrington—yn nghydag amryw gyhoeddiadau ereill, Cymreig a Seisnig.

Yn y flwyddyn 1806, daeth etifeddiaeth fechan iddo yn agos i dref Ddinbach, lle yr ymsefydlodd o'r diwedd; a thra yn y lle hwn y cyhoeddodd efe ei gyfieithiad dihafal o Goll Gwynfa orchestawl y bardd Milton, yn y flwyddyn 1819. Etholid ef yn gymmrawd o Gymdeithas yr Hynafiaethwyr, yehydig cyn gorphen o hono ei eiriadur; ac yn y flwyddyn 1826, y darfu i brif ysgol Rhydychain ei aurhdeddu a'r urdd o D.C.L., fel cydnabyddiaeth o'i llafur a'i enwogrwydd llenyddol.

Bu farw Mehefin 4ydd, 1835, yn Nolydd y Cae, wrth odreu Cadair Idris, yn 76 mlwydd oed.

*Dafydd Thomas*, neu "Dafydd Ddu o Eryri," ydoedd fardd a hynafiaethydd gorcheatawl, ac a anwyd mewn lle a elwir Penybout y Creunant, yn mhlwyf Llanbeblig, swydd Gaerynarfon, yn y flwyddyn 1760. Nid oedd ei rieni ond isel o ran eu hamgylchiadau bydawl;

a dilynai ei dad alwedigaeth gwehydd, yn yr hon gelfyddyd hefyd yr addysgwyd Dafydd Thomas, a dilynodd hi hyd onid oedd tuag un ar hugain oed.

Trwy ei fod wedi cael addysg gwell na'r cyffredin yn yr oes hono, anogwyd ef—tua'r flwyddyn 1781—i ddyfod i gadw ysgol i blwyf Llandeiniolen; ac wedi dwys ystyriaeth, cytunodd â'r alwad. Yn mhén peth amser efe a ymsymudodd, ar ddymuniad ei gyfeillion, i arolygu ysgol yn Mettwa Garmon; ac oddiyno drachefn i Lanystumdwy, ar yr un perwyl. Tra yr oedd fel hyn yn dilyn yr alwedigaeth isel ond fuddiol hon, o fan i fan, efe a ymroddai i ddiwyllio ei feddwl, ac i ychwanegu ei gydnabyddiaeth âg iethoedd estronol; a thrwy ddiwydrwydd a llafur, cyrhaeddodd wybodaeth lled helaeth, nid yn unig o'r iaith Saesoneg, ond hefyd o'r Lladin, y Groeg, &c.

Yn fuan ar ol hyn, tynodd ei lafur a'i hynodrwydd llenyddawl sylw Paul Pantón, Yswain, o'r Plas gwyn, yn Mon; y boneddwr hwn a'i gwahoddai i Bentraeth, a bu o wasanaeth fawr iddo megys llyfrydd. Tra yn y fan yma, efe a ddefnyddiai ei seibiant i goethi a diwyllio ei feddwl, ac i ychwanegu at y drysorfa fawr o wybodaeth gyffredinol a hanesyddawl a gasglasai efe.

Treuliodd beth amser wedi hyn yn Amlwch, Mon, yn gweinyddu rhyw swydd a dderbyniasai trwy garedigrwydd Mr. Pantón. Ond nid ydoedd hyn yn cytuno âg archwaeth ein bardd cystal a chadw ysgol; canys yr ydym yn cael iddo yn fuan adgymmeryd y gorchwyl hwnw, a pharhau ynddo hyd o fewn ychydig flyneddoedd i ddiwedd ei einioes.

Treuliodd y rhan olaf o'i oes yn mhlwyf Llanrug, gerllaw tref Caernarfon, mewn amgylchiadau tra chysurus. Bu farw ar y ffordd wrth ddychwelyd adref o Fangor, lle y buasai yn talu ymweliad i chyfeillion, ar y degfed dydd ar hugain o Fawrth, yn flwyddyn 1822, yn ddwy flwydd a thriugain oed. Claddwyd ef yn mynwent eglwys Llanrug, lle y mae beddfaen hardd wedi ei gyfodi er coffadwriaeth am dano.

Ystyrid Dafydd Ddu yn hynafiaethydd medrus, ac y mae ar ei ol brofion digonol i arddangos ei hyddysgrwydd yn y ganghen hon o wybodaeth. Ond fel bardd yr ymddysgleiriodd efe fwyaf ger bron ei gydwladwyr. Yn y blyneddau 1778 a 1779, bu yn fuddugoliaethus mewn dwy ymdrech ar destynau anrhydeddus Gymdeithas y Gwyneddigion, yn Llundain; ac yn fuan wedi hyny, etholwyd ef yn un o'i hanrhydeddus aelodau; ac yn y flwyddyn 1820, etholwyd ef yn aelod o Gymdeithas y Cymrodorion, yn Mhowys. Yr oedd hefyd yn athraw ac yn gynghorydd cyffredinol yr holl feirdd ieuaine o'i adnabyddiaeth; ac efallai nad hollawl anmhriodol ydoedd i un o feirdd enwocaf y Deheudir, alw y rhai ag oeddylnt yn canu yn ol rheolau Dafydd ab Edmwnd, yn yr amser hwnw, yn "Gywion Dafydd Ddu."

Ei barodrwydd i gynnorthwyo ei gydwladwyr, yn eu llafur llenyddawl, ydoedd hynod; a derbyniodd amryw lyfrau, nid yn unig o natur farddonawl, ond rhai hanesiol hefyd a fyddent mewn rhyw fodd yn dwyn perthynas â Chymru, gynnorthwy oddiwrtho ef. Bu hefyd yn olygydd ar gyhoeddiad misol, a elwid yr "Eurgrawn Cymreig," yr hwn, o ddiwyg cael cefnogaeth ddiogol, ni pharhaodd ond un flwyddyn. Argraffwyd ei weithiau barddonawl mewn un cyfiffr, dan yr enw "Corph y Gaingc," o'r hwn y cyhoeddwyd ail argraffiad hardd yn y flwyddyn 1834.

*Walter Davies* a anwyd Gorphenhaf 15fed, yn y flwyddyn 1761, mewn lle a elwid "y Wern," yn mhlwyf Llanfechain, yn swydd Drefaldwyn; ac mewn cyfeiriad at ei blwyf genedigawl y cymerth efe arno ei enw barddonol—"Gwallter Mechain." Yr oedd efe yn disgyn o *Davies*, Nant yr Erw Hardd—yr hwn a briododd aeres Kyffin Trebrys, canghen o dylwyth Kyffinau Bodfach a'r Garth.—Ond er ei fod yn hanu fel hyn yn llinach rhai o uchelwyr ei wlad, nid ydoedd ei rieni ef ond tra iael eu hamgylchiadau: ac y mae yn rhaid addef bod ei waith ef yn ymddyrbafu, trwy fendith ddwyfawl ar ei ymdrechion canmoladwy ei hunan, gymmaint gorawch sefyllfa ei faboed, yn dra anrhydeddus i'w gymmeriad.

Nid oedd y manteision addysg a gafodd efe yn moreu ei ddyddiau ond bychain iawn; a thrwy lafur dirfawr, heb nemawr iawn o gynnorthwyon allanawl, y cyrhaeddodd efe i enfogrwydd mawr yn ngwahanol ganghenau llenyddiaeth—fel bardd, ysgolhaig, a duwinydd. Pan ydoedd yn blentyn, tair neu bedair blwydd oed, efe a ymhyrddai yn ceisiaw efelychu unrhyw ysgrifen, neu arluniau cywrair a dynent ei sylw, ar ddernyn garw o lechfaen; a hyn—yn nghydag amlygiadau ereill o athrylith foreuawl, a'i gymmydd cyffym mewn gwybodaeth fel yr elai rhagddo mewn dyddiau—a barai i'w gymmydogion a'i gyd-nabod edrych arno fel bachgen tra gobeithiol; ac un gwr boneddig cymmydogawl a arferai ei alw—"yr esgob ieuanc." Wedi ei anfon i ysgol a gedwid yn y plwyf y preswyliai ynddo, efe a ddaeth yn fuan yn well ysgolhaig na'i feistr; ac wedi iddo ddyfod yn dipyn henach—gan nas gallai ei rieni ei gadw yn hwy yn yr ysgol—bu raid iddo, er mwyn ei gynnal ei hun, droi allan i weithio i ddechreu; ac wedi hyn efe a ddaeth yn ysgolfeistr, ac arferai yn achlysurol dori ar gerig beddau.

Fel hyn y parhodd hyd onid oedd yn naw mlwydd ar hugain oed; ac yn y cyfamser, defnyddiai bob awr o seibiant a allai gael i ddiwylliau ei feddwl, trwy ddarllen unrhyw lyfrau y deuai ar eu traws. Yn y flwyddyn 1790, cynnygiai Cymdeithas y Gwyneddigion, yn Llundain, wobrwyr am y traethawd Cymreig goreu ar Ryddid—i'w ddarllen yn eu heisteddfod yn Llanelwy. Yr ydoedd y cyfryw destyn ar y pryd yn dra phoblogaidd; a daeth Mr. *Davies* yn un o'r ymgystadleuwyr, ac efe a enillodd y wobr. Wrth edrych dros y traethawd crybwyllledig, ychydig o fisocedd cyn ei farwolaeth, efe a ddywedai—nad oedd yn meddwl y gallasai wneuthur ei well y pryd hwnw. Yn y flwyddyn flaenorawl i hyn, efe a fuasai yn ymgystadleuydd llwyddiannus am y traethawd Cymreig goreu ar destyn arall—sef, *Bywyd Dyn*. Y traethodau hyn a'i dygasant i gryn sylw yn y byd llenyddawl; a'r canlyniad fu, iddo gael ei snog a'i gynmorthwyo yn fuan i fyned i'r coleg, yn Rhydychain, yn mha le yr ymroddodd i lafur dybryd—gan aros yno y gwylliau, yr un modd a thymhorau efrydiaeth, er mwyn gwneuthur y defnydd goren a allai o'r cyfeusterau rhagorach a fwynhai yno i goethi ei feddwl. Yn y flwyddyn 1795, efe a gafodd ei raddio yn B.A. yno; ac yn mhen ychydig flyneddoedd wedi hyn, efe a raddiwyd yn M.A. yn mhrif ysgol Caergrawnt, lle y daethai yn aelod o Goleg y Drindod i'r perwyl hyn.

Wedi derbyn urddau eglwysig, efe a ddaeth yn gurad Meifod, yn swydd Drefaldwyn; ac yn y flwyddyn 1799, efe a benodwyd, gan y gwir anrhydeddus Arglwydd Mostyn, i guradiaeth barhaol Ysppyty Ifan, yn swydd Ddinbach, yr hon a ddaliodd efe hyd ddydd ei farw-

olaeth. Wedi hyny, efe a anrhegwyd â phersonoliaeth Llanwyddelen, yn swydd Drefaldwyn, gan yr esgob Horseley; yr hon a roddes efe i fynu yn y flwyddyn 1807, ar ei gyfodiad i bersonoliaeth Manafon, gan yr esgob Cleaver—yr hyn a wnaed iddo fel cydnabyddiaeth o'r eynnorthwy effeithiol a roddasai i ddiwygio llythraeth y Beibl Cymraeg a gyhoeddwyd tua'r pryd hyny, gan y Gymdeithas er lledaeniad Gwybodaeth Gristionogawl. Efe a roddes fywiolaeth Manafon i fynu yn y flwyddyn 1837, ar ei benodiad i ficeriaeth Llanrhaiadr yn Mochnant.

Yn y flwyddyn 1803, efe a briodai Mrs. Price, gweddw ei gyfaill Rice Price, Yswain, o Ros-bryn-bwa, ac o'r briodas honno bu iddo fab a merch.

Yr oedd efe erbyn hyn yn sefyll yn dra uchel yn mysg beirdd a llenorion Cymru, gan ei fod wedi enill llunaws o wobrwon am gyfansoddiadau barddonawl a rhyddieithawl; fel y gwaherddid iddo ef, a Dafydd Ddu o Eryri, fod yn ymgystadleuwyr yn Eisteddfodau 1793 a 1794—rhag na byddai nemawr siawns i neb gael yr un wobrwyr ond hwy. Ysgrifennai lawer iawn hefyd i'r cyhoeddiadau cyfnodawl a berthynent i Gymru—megys, y "*Cambrian Register*," y "*Cambro-Briton*," y "*Cambrian Quarterly*," y "*Greal*," y "*Gwyllydydd*," yr "*Haul*," &c. Y rhan fwyaf o'r ysgrifeniadau hyn a ddygent berthynas â hanes Cymru, yr iaith Gymraeg, &c. Cyhoeddwyd hefyd draethawd campus o'i waith, ar Amaethyddiaeth a Theuluyddiaeth Deheudir a Gogledd Cymru, yn dair cyfrol wythplyg; a chyhoeddwyd, o dan ei olygiad, farddoniaeth Huw Morus, yn ddwy gyfrol deuddegplyg; a gweithiau barddonawl Lewis Glyn Cothi, wythplyg, yr hwn a gyd-olygid ganddo ef a'r Parchedig John Jones—sef, Ioan Tegid.

Bu farw y gŵr enwog hwn, yn ficerdy Llanrhaiadr yn Mochnant, ar y pummed dydd o Ragfyr, 1849, yn y nawfed flwydd a phedwar ugain o'i oedran.

Yn y flwyddyn 1773, ganwyd *Joseph Harris* (Gomer,) yn mhlwyf Llantydewi, yn agos i Hwlfordd. Nid oedd ei rieni yn feddiannol ar gyfoeth, ac felly ni allent roddi nemawr o fanteision addysg iddo—dim ond hyny a allai efe ei gael yn ysgolion cyffredin y wlad, y rhai oeddynt yn llawer gwaelach y pryd hyny nag ydynt yn bresenawl; ond gwnelid y diffyg yma i fynu, i raddau helaeth, drwy awyddfryd angerddol y bachgenyn am wybodaeth, a'i lafar didor i ddarllen pob llyfr y gallai gael gafael arno, a hyny gyda manyl-rwydd a dwys ystyriaeth. Dywedir y byddai ei dad yn ei geryddu yn fynych am ei ymroad diwyd a dwys i ddarllen, gan ei fod yn ofni i hyny effeithio yn niweidiawl ar ei iechyd, os nid ar ei synwrau. Ond nid oedd ymliwiadau a cheryddon ei dad yn ddigon grymus i yegaru rhwng *Joseph Harris* a moddion gwybodaeth. Yna ei dad a'i llwythai â gwaith a'i cadwai yn dra phrysur ar hyd y dydd; ond y bachgenyn, yn hytrach na chymmeryd ei lesteirio yn ei erlyniad ar ol gwybodaeth, a eisteddai i fynu gwybodaeth cyfain. Ac y mae yn ddiaf ei fod y pryd hwn wedi gosod i lawr sylfaen ei gymmeriad dyfodawl, fel un yn meddiannu ar feddl wedi ei ystorio âg amtywiaeth anghyffredin o wybodaeth, trwy yr hyn y'i hynodid yn mhlith ei frodyr, ac y'i galluogid i wasanaethu ei genedl mor fedrus ac effeithiol.

Efe a ddygid gan ei rieni, pan yn blentyn, i wrando y gair yn

yr Eglwys Sefydledig, lle yr arferent hwy gyrchu; ond fel y tyfai i fynu, efe a gyrchai weithiau i Langloffan, lle ag oedd yn sefyll amryw filldroedd o'i gartref, i wrandaw ar yr Ymneilldwywr; ac yno, yn y flwyddyn 1793, pan yn bedair blwydd ar bymtheg oed, efe a ymunodd â'r Bedyddwyr, ac a fedyddiwyd ar broffes foddhaod o'i fydd yn Nghrist, gan y Parchedig H. Davies; ac yn y flwyddyn 1796—pan nad ydoedd namyn dwy flwydd ar bugain oed, a thua teirblwydd o grefyddwr—dechreuai bregethu, ar saogaeth y frawd-oliaeth yn Llangloffan: ac wedi bod yn pregethu yn nghylch tair blynedd yn ei gymmydogaeth artrefol, gyda defnyddioldeb a chymmeradwyaeth cynnyddol, efe a gymmerodd daith trwy rai o'r eglwysi tu allan i gylch ei gydnabyddiaeth. Daeth i Abertawe gyntaf yn y flwyddyn 1799—y lle a amcanasid gan Ragluniaeth Ddwyfawl i fod yn faes ei lafur hyd derfyn ei oes. Gan fod yr eglwys yn yr Heol Gefn yn amddifaid o weinidog ar y pryd, a'u bod wedi cael llawer o foddlonrwydd yn ngweinidogaeth ac ysbryd Mr. Harris, hwy a roddasant wahoddiad taer iddo i ddychwelyd atynt wedi terfynu ei daith—â'r hyn y cydsyniodd yntau; ac efe a arosodd yn eu plith dros rai misoedd, gan enill cymmeradwyaeth mawr yn eu mysg; ond bu am agos i ddwy flynedd cyn cydsynio i gymmeryd eu bugelliaeth yn gyflawn arno ei hunan, gan ranu ei amser rhwng Llangloffan ac Abertawe. Ond yn y flwyddyn 1801, efe a symudodd i Abertawe yn hollol; a dyfal fu ei lafur, a rhyfeddol fu ei lwyddiant yno am dymhor maith.

Yr oedd ansawdd llenyddiaeth Gymreig yn dra isel ar gyfodiad Harris; nid ydoedd nifer llyfrau sylweddawl yn yr iaith, ar wahanol gangenau o wbediaeth grefyddol, wladol, a chelfyddydol, ond bach iawn; ac yr oedd yr amddifadrwydd o ysbryd dârllen ydoedd yn ffynu mor gyffredinol yn mysg y genedl, yn ddigon i ddigaloni neb un a feddyliai am gyhoeddi dim drwy y wasg Gymreig, gan nas gallent ddysgwyl llai na bod yn golledwyr arianawl trwy yr anturiaeth. Yn yr adeg yma y dechreuai Mr. Joseph Harris ar ei lafur awdurol; a daeth rhagddo yn fuan, fel y cydnabyddid ef yn Dad llenyddiaeth Gymreig y ganrif bresenol.

Yn y flwyddyn 1804, efe a gyhoeddodd draethawd bychan yn erbyn Undodiaeth; yr hwn—er nad oedd ond byr—ydoedd yn dra galluog, ac yn profi ei fod yn gynnyrchiad meddwl annglyffredin. Yn y flwyddyn 1816, cyhoeddodd draethawd arall, "Ar briodol Dduwdod ein Harglwydd Iesu Grist; yn nghyd ag atebion i holl wrth-ddadleuon y Sosiniaid," yn yr iaith Saesoneg; a'r flwyddyn ganlynol yn Gymraeg. Bu y traethawd hwn yn foddion i beri cynnhwrf annglyffredin yn y wlad: esgob Ty Ddewi—y Dr. Burgess—yn ei gyfarchiad i offeiriad ei esgobaeth, a arganmolai y llyfryn hwn i'w sylw manylaf; ac Ymneilldwywr uniawngred, o'r gwahanol enwadau, a'i cymmeradwyent yn fawr iawn, ac a gefnogent ei ledaeniad yr un modd.

Ond yr hyn a hynododd Mr. Harris yn benaf ydoedd sefydliad cyhoeddiad cyfnedawl, a'i amcan i ledaenu gwybodaeth gyffredinol yn mysg trigolion yr holl dywysogaeth. Ar ddydd Sadwrn—y dydd cyntaf o Ionawr, yn y flwyddyn 1814—y daeth y rhifyn cyntaf o'r wasg o "Seren Gomer, neu Hysbysydd Wythnosol cyffredinol dros holl dywysogaeth Cymru." Mr. Harris ei hun ydoedd y golygydd, a rhyw ychydig o'i gyfeillion yn ei gefnogi a'i gynnorthwyo yn yr anturiaeth arianol. Yr oedd llafur Mr. Harris gyda'r "Seren Wyth-

nosol" yn fawr iawn, ac yr ydoedd amryw o'r dynion galluocaf a feddai Cymru yn mysg ei ohebwy'r—megys y Parch. Eliezer Williams o Lanbedr, Ioan Tegid, Daniel Ddu, P. A. Mon, Iolo Morganwg, Gwilym Morganwg, y Parch. Christmas Evans, y Parch. D. Saunders, y Parch. John Roberts o Lanbryn-mair, Iago Trichrug, &c. &c. &c. Ond er y cyfan, bu raid rhoddi y "Seren Wythnosol" i fynu cym pen y ddwy flynedd, a'r perchenogion gwladgarawl wedi eu colledu uwchlaw mil o bunnau yn eu hymdrechion teilwng i wasanaethu eu cenedl!

Ond ar y dydd cyntaf o Ionawr, yn y flwyddyn 1818, efe a gyhoeddai y rhifyn cyntaf o "*Seren Gomer, neu Gyfrwng Gwgbodaeth Gyffredinol i'r Cymry*," i'w gyhoeddi yn fisol; a thrwy ei ymdrechion digyfelyb, llwyddodd i ddwyn y "*Seren*" hon i sefydlogrwydd, drwy gael derbynwyr lluosawg iddi; ac y mae yn ddiameuol iddi fod y moddion penaf i ddefroi ein cydgenedl i feddwl a barnu drostynt eu hunain, ar destynau crefyddol a gwladol.

Wedi gwasanaethu ei genedl mewn llawer ffordd, heblaw a grybwyllir uchod—yn enwedig trwy gyhoeddiad Beibl Dwy-ieithawg tra hardd—efe a fu farw, er colled yr holl genedl, ar y degfed dydd o Awst, yn y flwyddyn 1825, yn 52 mlwydd oed, wedi cael y saeth angeuawl trwy farwolaeth ei unig fab, "Ieuan Ddu"—gŵr ieuanc anghydmorol o obeithiol.

Gyda golwg ar ddefnyddioldeb y "*Seren*," dywaid yr enwog fardd a beirniad, *Gwilym Caledfryn*, fel y canlyn—yn ei farwnad i Gomer ac Ieuan Ddu:—

"Wele'r "*Seren*" wen drwy wi!  
O geudod niwl ar godi;  
Trwy ei wyll torai allan,  
A'r niwl oer wasgarai'n lân:  
Ernes a roes o ddiwrnod  
Mawr ei ddawn ar Gymru i dd'od.

Rhoes adgyfodiad i fâd ddefodau  
Y dywysogaeth; ei dewis seigiau;  
A, hi a ddygodd ddeg deg o ddegau  
O feirddion, o argelion i'r golau;  
A thaniodd ddiffurwyth ddoniau—  
Hen feirddion,  
Oedd wyneb-lwydion, i ail ddwyn blodau.

Gwnaeth ddarllenwyr, cyfansoddwyr,  
Bâr yn awdwyr a beirniadon;  
Dwnedyddwyr, cywrain rifwyr,  
Wych anturwyr, a chantorion.

Allan y daeth llu'n ei dydd—o liwdeg  
Oleuadau newydd;  
Arweinai drwy'r wybrenydd  
Draw, y rhai'n, â'i phelydr rhydd.

Torodd allan dân doniau—ar unwaith,  
Drwy Wynedd a Dehau;  
Egin awdwyr, yn gnydau,  
Miwail o hyd yn amlhau."

Yn y flwyddyn 1774, y ganwyd *John Elias*, yn mhlwff Abererch, gerllaw Pwllheli, yn swydd Gaerynarfon. Ei rieni oeddynt ddiadon; ond yr oeddynt o ymarweddiad dichlynaidd, ac yn dwyn arnynt eu hunain nodwedd crefyddol, fel y cafodd yntau ei ddwyn i fynu yn ddiargyhoedd o'i ieuentyd. Ond ni chafodd nemawr ddim manteision dysgeidiaeth—yn unig efe a ddysgid i ddarllen Cymraeg yn dra ieuanc, drwy offerynliaeth ei daid: a phan nad ydoedd ond bachgenyn bychan—o ddeg i ddeuddeg oed—fel yr oedd efe gyda'i daid yn y Pentref uchaf, un Sabbath, yn hir aros am bregethwr a ddysgwylid yno, dywedai yr hen wr wrtho—“Y mae yn drueni fod y bobl yn segur fel hyn; dos di i'r pwlpud yna, a darllen bennod o'r Beibl iddynt;” a chan agor y drws, efe a'i gwthiodd ef i fewn, ac a gauodd arno yno: a'r bachgenyn a ddarllenhai ran o bregeth Crist ar y mynydd, gyda'r fath fedrusrwydd ac eglurdeb nes yr ydoedd pawb o'r gynnulleidfa yn synu ac yn rhyfeddu. Dyma y tro cyntaf iddo fod yn yr areithfa, lle yr ydoedd i ragori cymmaint yn ei oes.

Fel llenwr ac awdwr y rhagorai Joseph Harris; ond fel pregethwr ac areithwr y rhagorai John Elias: ac nid oedd, o holl gawri ei oes, neb yn Nghymru yn deilwng i'w gystadlu âg ef mewn doniau areithyddawl; na neb a gadwodd y fath boblogrwydd âg ef dros oes morfaith.

Dywedai un gweinidog cyfrifawl a pharchus am dano, yr hwn a fuasai yn ei wrando ddegau o weithiau, fel y canlyn:—“Yr oedd rhyw hynodrwydd yn ei ddawn ar bawb a glywais erioed—yn ei bregethu nerthol, yn ei ddull difrifol, ac yn yr argraff a fyddai ei ymadroddion yn ei wneyd ar ei wrandawrwr. Yr oedd yn feistr arno ei hun—yn feistr ar ei fatter—yn feistr ar ei lais—yn feistr ar y gynnulleidfa; ac yn wir, ar ba beth bynag yr ymaffai yndo. Tebygaf nad gormod a fyddai dweyd am dano, a chymmyrd pob peth at eu gilydd, mai *pen pregethwr ei oes ydoedd*. Llefarai mor nerthol am gwmp dyn, nes y byddem yn teimlo ein hunain megys yn syrthio dros y dibyn i'r eigion obry, ac yn gweiddi wrth ddisgyn, ‘Darfu am danom? Nid oes i ni ond carchar tragrwyddol? Beth a wnawn!’ Ac wedi ein doddi yn euog o flaen y frawdle; ac yn noeth, heb un cerpyn am danom; yn y fan; dangosai drefn Duw yn Nghrist o'n blaen, nes y byddem megys yn teimlo ein hunain yn cael ein codi i fynu o ddyfnderoedd y codwm mawr, yn anghofio ein tylodi, ac heb feddwl am ein blinfyd mwy.”

Ychwanegwn y darluniad canlynol o'i nodweddiad fel pregethwr, o waith ysgrifenydd tra medrus:—

“Yr oedd hyawdledd *Mr. John Elias* o'r fath—materion ei bregeth, hylithrwydd ei ymadroddion, grym ei iaith, melltentrwydd ei athrylith, a gwir ysbryd areithyddiaeth yn lluchedenu allan, ac yn bwrw flaglau fel mynyddau tanllyd mawrion—nes ydoedd y miloedd gwrandawrwr megys pe buasent wedi cael eu synu, a'r pregethwr yn myned adref gyda hwynt, gan aros, byw, a bod yn eu meddyliau, yn eu teimladau, ac yn eu serchiadau.” “Yr oedd ei glywed yn pregethu uwch ben tyrfa o bobl; yr oedd teimlo ei hyawdledd yn ngwres y nef, yn disgyn yn nghyflawnder gwllth Hermon ar y teimladau—ar yr *enaid*; ac yr oedd ei glywed a'i weled yn yr *oll* o hono yn y pulpud, yn gorchfygu y dyn o archwaeth mor hollol, fel nad oedd ganddo lygad i weled, na chlust i glywed,

na thafod i lafaru, gan mor lwyf y llyncid ef gan y pregethwr rhyfeddol hwn."

A thrachefn yr un awdwr a ddywaid—"Y mae yn anhawdd iawn cael pregethwr cyflawn yn mhob peth; oblegyd y mae tuedd mewn pregethwyr, fel ag y mae mewn dynion ereill, i ochri at ryw bethau, ac i fod yn enwog ynddynt yn fwy nag mewn pethau ereill. Am-bell bregethwr a ragora fel esponiwr, y llall fel beirniad, un arall fel athrawiaethwr, arall fel pregethwr dyledswyddau, arall fel taranwr, arall fel efangylwr; ac fel hyn y mae un yn enwog ac yn rhagor-awf gyda'r peth hwn, ac arall gyda phethau ereill. Ond am Mr. John Elias, nid ydoedd yn fwy rhagorol yn y naill mwy na'r llall. Pwy yn rhagorach nag efe fel beirniad? Pwy yn eglurach nag efe fel esponiwr? Pwy yn gadarnach nag efe fel ysgrhythrwr? Pwy yn fanylach nag efe gyda phwnc o athrawiaeth? Pwy yn alluocach nag efe i bregethu dyledswydd? Yr oedd yn gyflawn yn yr hyn oll ag sydd yn perthyn i bregethu, ac ni ellir dywedyd ei fod yn rhagori yn y naill mwy nag yn y llall; oblegyd yr ydoedd mor ragorol, ac yn tra rhagori, yn mhob peth ag sydd yn hanfodawl i wneuthur pregethwr mawr. Os gellir dywedyd ei fod yn hynod mewn un peth, yn ei amrywiaeth yr oedd efe hynotaf; oblegyd yr ydoedd yn ddihsbyddedig ar bob peth, ac yn mhob dim a gymmerai mewn llaw. Yr oedd gartref ar bob pwnc; yr oedd pob llyfr ag ydoedd wedi ei ddarllen, yn ei ben, ac wedi ei ar-graffu ar ei gof; yr oedd wedi meddwl ar bob peth; a'r trysorau hyn yn barod ganddo wrth law, i'w defnyddio ar y prydiau yr oedd achlysuron yn gofyn am hyny, ac nid ar unrhyw amserau ereill."

Y mae yr un awdwr yn myned yn mlaen drachefn, ac yn dywedyd—"Annichonadwy a fuasai iddo ymgynnal yn ei boblogrwydd, oni buasai bod ffynhonell ei amrywiaeth yn ddihsbydd; nid mewn un gymmanfa, unwaith yn y flwyddyn, y pregethai efe; ond mewn llawer o gymmanfaoedd yn nghorff yr un flwyddyn; pregethai yn mhob cyfarfod misol yn sŵr Fon, pan fyddai gartref; pregethai yn nghyfarfodydd mawrion y siroedd; pregethodd ugeiniau o weithiau yn achos Cymdeithas y Beiblau, yn achos Cymdeithas Genhadol Llundain, ac ar wahanol achosion ereill; ac y mae yn rhaid bod ei adgyfnerthion—ei gronfeydd—yn helaethion tu hwnt i amgyffred, amgen ni allasai ddal i fynu mewn sylw—cadw ei boblogrwydd—a gwneuthur y fath argraffadau ar ei wrandawwyr ag oeddylnt wedi ei wrandaw gannoedd o weithiau; a'i bregeth olaf yr un fwyaf blasus, ac yn cyfodi mwy o hiraeth am glywed pregeth newydd ganddo drachefn."

Dylanwadodd Mr. John Elias fwy na neb yn ei oes, efallai, er codi trigolion Cymru yn gyffredinol i wrando pregethiad yr efengyl; ac nid ychydig a fu ei ddylanwad yn ddiâu er gwelldau yr arddull cyffredin o bregethu, yn mysg y Trefnyddion Calffinaidd o'r hyn lleiaf. Drwy ystod tymhor maith ei weinidogaeth, rhagorai yn mysg ei frodyr mewn ymdrechadau gwresog i ddiwygiaw moesau ei gyd-genedl, ac i wrthsefyll ffyniant llygredigaethau yn eu plith; a phan ymddangosodd y Gymdeithas Ddirwestol yn Nghymru, taffodd rym ei ddylanwad mawr o'i thu, a pharhaodd i'w phleidiu hyd ddiwedd ei einioes.

Nis gallaf derfynu y crybwyllion hyn yn well nag y y llinellau



darluniadol a ganlyn, o eiddo yr hyglod fardd, *Mr. Ebenezer Thomas*, o Glynog:—

\* \* \* \*

“Pan esgynai i'r areithfa,  
Tawai myrddiwn ger ei fron;  
A'i ddistaw wên yn creu teimladau,  
Pob amrywiau—prudd neu lon:  
Edrych dro—yn fud, o amgylch,  
Ar y dyrfa fai gerllaw—  
Saethai'i drem y fath ddylanwad  
A roddai luaws yn ei law!

Dywedai'r gair—tynerai anian!  
Lavr â'i law—ac wylai myrdd;  
Gwrol wgai—beilchion grynent,  
Gwelwai'r coegddyn ffol ei ffyrdd:  
Ei law codai—bloedd gorfoledd  
A ddadseiniat drwy y llu,  
'Roedd hyd yn nod ei *atal-d'weddy*  
Yn gyfwng o hyawdledd cu.

Pan fai rhes o feddylddrychau  
Yn llenwi'i enaid eang mawr,  
A throellau iaith yn rhy ddiffygiol  
I gyfleu y rhai'n ar lawr;  
Estynai'i fraich—dyrchafai'i olwg,  
Crynhoai ei wefusau per,—  
A'i DDULL ro'i fawredd ar bob meddwl,  
Uwchlaw un iaith o dan y ser.”

Bu farw *Mr. John Elias*—er mawr argyllaeth i'w gydwladwyr yn gyffredinol, ac i gyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd yn neillduol—ar yr wythfed dydd o Fehefin, yn y flwyddyn 1841, yn saith mlwydd a thriugain oed. Rhoddwyd ei gorph i gydorphwys â choroph ei gyfaill a'i gydlafurwr, *Mr. Richard Lloyd*, yn mynwent Llanfaes, gerllaw Beaumaris, yn Mon.

*John Blackwell* a anwyd yn y Wyddgrug, yn swydd Fflint, yn y flwyddyn 1797. Ei rieni oeddynt mewn amgylchiadau isel; ac efe a ddygwyd i fynu yn grydd, yr hon alwedigaeth a ddylynodd efe am lawer o flyneddoedd; ond yr ydoedd ei awydd am lyfrau, a'i syched am wybodaeth, yn ddidor.

Ar gyfrif ei dalentau barddonawl ysplenydd, efe a etholwyd yn un fardd i Gymdeithas Cymreigyddion Rhuthyn, yn y flwyddyn 1823, gan yr hon hefyd y derbyniodd efe ei dlws arian cyntaf, am ei awdl fuddugawl ar enedigaeth Iorwerth yr Ail, yn Nghymru—a gwobrwy arall, am araith ar ragoriaethau yr iaith Gymraeg. Yn mis Mai, yr un flwyddyn, efe a enillodd ddau wobrw yn Eisteddfod Caerwys; ac yn Eisteddfod yr Wyddgrug, yn yr Hydref canlynol, enillodd y prif wobrw am yr awdl oreu ac destyn y gadair—sef, “Maes Garmon;” ac un arall am yr araith oreu ar “Undeb a Brawdgarwch.”

Yn Medi, 1824, enillodd dlws Eisteddfod Powys, yr hon a gynelid yn y Trallwng—am y traethawd Cymraeg goreu ar yr "Iaith Gymraeg." Tua diwedd y flwyddyn hon, efe a alluogwyd i fyned i goleg yr Iesu, yn Rhydychain, trwy gyfraniadau haelfrydig rhai boneddwy'r a fawhaent ei athrylith; ac yn mis Mehefin, 1828, efe a gafodd ei raddu yn Febydd y Celfyddydau. Yn Hydref y flwyddyn hono, dyfarnwyd gwobrwy Eisteddfod Dinbach iddo, am ei bryddest ragorawl ar "Farwolaeth yr Esgob Heber." Yn mis Ionawr, yn y flwyddyn 1829, efe a ordeinid i guradiaeth Treffynon; a thra fu yn aros yno, ysgrifennai yn dra helaeth i'r cyhoeddiad misawl hwnw, y "Gwyllydydd."

Nid arosodd namyn pedair blynedd, yn Nhreffynon; canys dygasid ef i sylw yr Arglwydd Ganghellydd Brougham—yr hwn, ar gyfrif ei dalentau gloywon, a'i cyflwynodd i'r fywioliaeth Gymreig gyntaf a ddaeth yn wag yn ei noddaeth; a hono ydoedd Manor Deifi, yn swydd Benfro, i'r hwn le y symudodd yn y flwyddyn 1833. Cafodd cyfflyf o fisolyn gwerthfawr—dan yr enw y "*Cylichgrawn*"—ei gyhoeddi o dan ei olygiad, trwy anogaeth a than nawdd y Gymdeithas er lledaeniad Gwybodaeth fuddiol, yn fuan ar ol ei ymsefydliad yn y lle hwn; ond erystal ydoedd y cyhoeddiad, ac er galluoced y golygid ef gan Mr. Blackwell, a flwyddiannus a fu—yr un modd a'r rhan fwyaf o gyhoeddiadau ansectaidd a gynnygiwyd o dro i dro yn Nghymru.

Bu farw y dyn tra galluog yma ar y pedwerydd dydd ar hymtheg o Fai, yn y flwyddyn 1840, yn dair mlwydd a deugain oed. Y mae cyffyr hardd—yn cynnwys ei gofiant, a detholion o'i gyfansoddiadau—wedi ei chyhoeddi yn ddiweddar, gan Mr. I. Clarke, Rhuthyn, dan yr enw "Ceinion Alun."

*Rice Rees* ydoedd fab i Mr. Dafydd Rees, o'i wraig Sara—ail ferch Mr. Rice Rees, o Lanymddyfri, swydd Gaerfyrddin—ac a anwyd yn Tonn, plwyf Llandingad, ar y 31ain o Fawrth, yn y flwyddyn 1804. Derbyniodd egwyddorion cyntaf addysg yn yr ysgolion cyffredinawl oeddynt i'w cael yn y gymmydogaeth lle y ganasid ef; ond yn y flwyddyn 1819, efe a symudodd i ysgol ramadegawl Llanbedr, yn swydd Aberteifi, yr hon ydoedd y pryd hyny o dan ofal y Parch. Eliezer Williams, ficer y plwyf hwnw. Gan i'r athraw a nodwyd farw cyn i Rees fod nemawr dan ei addysgiaeth, daeth y Parch. John Williams—archddiacon presenol Ceredigion, a phrif athraw yr athrofa Gymreig yn Lanymddyfri—i'w olynu fel athraw yr ysgol yn Llanbedr; a rhoddai y ddau athraw dysgedig a grybwyllwyd air da i Rees, fel gŵr ieuanc tra ymroddgar. Yn y flwyddyn 1822, efe a aeth i goleg yr Iesu, yn mhreif ysgol Rhydychain; ac efe a etholwyd yn ysgolor o'r Gymdeithas hono, yn mis Rhagfyr, yn y flwyddyn 1825, ac yn gymmrawd yn Rhagfyr, 1828. Efe a gymmerodd ei radd o Febydd y Celfyddydau yn y flwyddyn 1826—o Athraw y Celfyddydau yn 1828—ac o Febydd Dwyyfddiaeth yn 1837. Efe a ordeiniwyd yn ddiakon, yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1827, ac yn offeiriad yn 1828.

Pan oeddi ar agor coleg Dewi Sant, yn Llanbedr, yr oedd yn ofynawl bod un o'r rhai a benodid i hyfforddi yr efrydwy'r, yn hyffedr yn yr iaith Gymraeg, yn gystal ag yn yr ieithoedd clasurol; a phan wnaethpwyd ymofyniad am un meddiannol ar y cymhwys-

derau angenrheidiawl er cyflawni y fath swydd, meddyliwyd am Rees; a'i ymddygiad diargyhoedd, ei ddiwydrwydd llenyddawl, yn nghyda'i gymmeriad uchel fel ysgolhaig yn y brif ysgol, a barodd iddo gael ei ddewis i'r sefyllfa bwysig o fod yn Athraw Cymreig a chlasurawl, yn nghyda Llyfrgellydd y sefydliad; ac felly, efe a ddechreuodd ar ddyledswyddau ei sefyllfa ar agoriad y coleg—y dydd cyntaf o Fawrth, yn y flwyddyn 1827. Yn nghyflawniad ei swyddau, yr oedd ei fanyhrwydd am gyflawni pob dyledswydd yn gydwybodawl, ei bryder am gynydd yr efrydwyr, a'r modd galluawg yn yr hwn y cyfrana'i addysg, yn nghyda'i ledneisrwydd cyffredinol—yn peri nid yn unig i'w gydsawddwyr henach ei hoffi, ond hefyd i'r holl rai a arferent wrandaw ar ei ddarlithiau ei garu a'i barchu yn fawr iawn.

Yn fuan wedi dechreu ar ei ddyledswyddau colegawl, penodid yr Athraw Rees, gan ei esgob, yn un o'i arholyddion Cymreig—swydd y rhai ydoedd profi cymhwysderau offeiriad i weini mewn plwyfa lle y ffynai yr iaith Gymraeg; ac o'r diwedd, efe a enillodd gymmaint o ymddiried ei esgob, fel am y ddwy flynedd olaf o'i fywyd, yr ydoedd rhan bwysig o'r arholiad cyffredinol—cystal a'r arholiad yn yr iaith Gymraeg—ar ymgeiswyr am urddau cysegredig, wedi ei ymddiried iddo ef; ac yn mis Hydref, yn y flwyddyn 1838, efe a dderbyniodd y penodiad ffurfiawl o fod yn gapelwr teuluaid i'w arglwyddiaeth.

Gan i bwyllgor Cymdeithas Gymreigyddawl y Deheubarth gynyw gwobrwy am y "Traethawd goreu ar y Cofion o'r Prif Gristionogion, gan y rhai y seilid yr Eglwysi Cymreig"—efe a duoddid i fod yn ymgystadluydd; ac yn y feirniadaeth ar y cyfansoddiadau, yn Eisteddfod Caerdydd, yn y flwyddyn 1835, cyhoeddid mai ei draethawd ef ydoedd yr un buddugol, a rhoddid cymhelliad cryf gan y beirniaid i'w gyhoeddi. Wedi cyfnod o rai misoeddi, yn ystod yr hwn yr ychwanegid at y traethawd, ac y gwellheid llawer arno, fe'i cyhoeddwyd tua diwedd y flwyddyn 1836, o dan y teitl—"Traethawd ar y Seintiau Cymreig, neu y Prif Gristionogion, y rhai a gyfrifir yn gyffredin yn seilwyr Eglwysi yn Nghymru." Llanymddyfri, wythplyg. Y farn gyffredinol am dano, ar ei ymddangosiad drwy y wasg, ydoedd—ei fod yn waith pwysig a galluog, ar ran dywell o hanesyddiaeth Gymreig; ac y mae yr awdurdod a gyfrifir yn perthyn iddo, gan awduron enwog, a'r dyfyniadau a wneir o hono, yn nghyda'r cyfeiriadau mynych a wneir ato, mewn cyfansoddiadau cyfrifol ar ol hyn—yn profi yn amlwg nad oedd y bri a roddid arno, ar ei ymddangosiad cyntaf, yn annheilwng.

Ar gyfrif ei gyrhaeddiadau rhagorol mewn llenyddiaeth Gymreig, darfu i esgob Ty Ddewi ei ethol ef i gydweithredu â gwŷr dysgedig ereill—y rhai a benodid mewn cyfelyb fodd, gan esgobion y taleithiau Cymreig ereill—i adolygu a diwygiaw y cyfieithiad Cymraeg o'r Llyfr Gweddi Gyffredin; a'r galluogrwydd anarferol a amlygai yn y gorchwyl hwnw, a barai i'w gydlafurwyr ei barchu yn fawr, er eu bod yn llawer henach nag ef.—Yr oedd yr adolygiad yma bron ar gael ei orphen pan y bu efe farw.

Un o'i orchwyllion llenyddawl ef, ar yr un pryd, ydoedd adolygu pryddestau Cymreig y Parchedig Rees Prichard, gynt ficer Llanymddyfri, a elwid "Canwyll y Cymry." Yr ydoedd wedi myned can belled a'r canfed tudalen o'r gwaith yma, pan y daeth angeu heibio

iddo, ac y rhoddes derfyn disymwth ar ei orchwyl. Cyhoeddwyd y gwaith hwn, yn nghyda chofiant o'i awdwr duwiolfrydig, yn y flwyddyn 1841; ac y mae yn ddiau mai hwn yw yr argraffiad goreu o waith yr hen ficer a ymddangosodd yn ein gwlad.

Yr ystyriaeth o'i nodweddiad tra uchel, yn nghyda'i alluogrwydd llenyddawl, a barai i Gymdeithas yr Ysgriflyfrau Cymreig geisiaw ganddo ddyfod yn olygydd y "*Liber Landavensis*" (Llyfr Llandaf); ac er ei fod yn orlwythog eisoes gan orchwyllion ereill, ei ddymuniad cryf i feithrin llenyddiaeth Gymreig a barodd iddo gydsyniaw â'u cais; ac yr oedd efe newydd ddechreu ar y gorchwyl, pan y'i cymmerwyd yn glaf yn ddisymwth, fel ag yr ydoedd yn teithio ar farch; ac efe a fu farw ar y ffordd fawr, yn agos i Bont Newydd ar Wy, yn swydd Frecheiniog, ar yr ugeinfed dydd o Fai, 1839, pan yn 36 mlwydd oed!

Heblaw adolygu Llyfr Llandaf, yr oedd efe hefyd yn bwriadu ysgrifenu Hanes Brydain yn yr oesoedd boreuaf, a chyhoeddi gramadeg o'r iaith Gymraeg; ond trwy ddyrnod disymwth marwolaeth, efe a gymmerwyd ymaith cyn canol dydd einioes, a siomwyd y byd llenyddol am ei gynnyrchion bwriadol.

*John William Thomas* (Arfonwyson,) a anwyd yn mhlwyf Llandegai, ger Bangor, yn y flwyddyn 1805. Pan yn saith mlwydd oed, anfonid ef i'r ysgol i Bentir, yn agos i'r lle y'i ganesid; ac yno y bu am tua thair blynedd, ac y dysgodd ddarllen ac ysgrifenu.

Yn y flwyddyn 1822, ymgymmerodd â'r gorchwyl o gario llyfrau ar hyd y wlad i'w gwerthu, o herwydd y manteision a fwynhai yn yr alwedigaeth hono i ymgynabod â llyfrau, ac i foddio ei awydd didor am ychwanegiad gwybodaeth. Y flwyddyn ganlynawl i hyny, efe a'i rhoddes ei hun dan addysgiant y diweddar Robert Roberts o Gaergybi, awdwr y "*Daearyddiaeth*;" ond gan nas gallai ymgynnal yno yn hwy nag un chwarter blwyddyn, efe a ymadawodd, ac a agorodd ysgol ei hunan yn ei hen gymydogiaeth, yn mhentref Tref y Garth. Tra yn aros yno, efe a ddechreuodd ysgrifenu "*Elfenau Rhifyddiaeth*," ac "*Athraw i'r Cymro Ieuanc*," o'r rhai ni chyhoeddwyd onid ychydig rifynau, tua'r blyneddoddedd 1831 ac 1832. Yn y flwyddyn 1834, cyhoeddodd "*Eiriadur Cymreig a Seis-onig*" o faintiolaeth bychan; ac oddentu yr un pryd, efe a olygai gyhoeddiad misawl o'r enw "*Tywysog Cymru*," yr hwn a gyhoeddidd yn Nghaerynarfon.

Tua diwedd y flwyddyn hon, efe a symudodd i Lundain, a bu dros rai misoedd yn ngwasanaeth y diweddar Mr. W. Cobbett, A.S. Ac yn fuan wedi hyny, efe a benodwyd yn arolygydd yn yr Arsyllfa Freninawl yn Greenwich, lle y treuliodd efe weddill byr ei oes. Tra fu yn aros yn y brif ddinas, efe a gyhoeddodd lyfryn bychan tra gwasanaethgar i athrawon yr Ysgolion Sabbathawl, a elwir "*Trysorfa yr Athrawon*."

Bu farw y dyn hynod hwn ar y deuddegfed dydd o Fawrth, yn y flwyddyn 1840; a chladdwyd ef yn mynwent blwyfol Greenwich, heb gymmaint a chareg i nodi ei fedd!

Ni oddef fy ngofod i mi ymhelaethu, onite gallem adrodd pethau tra dyddorawl o berthynas i amryw ereill o'n cydgenedl a gyrhaeddasant enwogrwydd odditan anfanteision, ag ydynt wedi terfynu eu

dyddiau, a gorphwys oddiwrth eu llafur, Ond y mae yn mysg y byw rai Cymry heddyw ag y mae eu henwogrwydd yn gyflod â gwareiddiad dynoliaeth o'r bron. Mewn mesuroniaeth saif—

*Gruffudd Davies*, Yswain, Cymmrawd o'r Gymdeithas Freninol, yn dra uchel; a rhoddir yr ymddiried mwyaf yn ei dafnau rhifyddol, drwy Ewrob a'r Amerig, a'r holl drefedigaethau Prydeinaidd; yn gymmaint felly, meddir, fel nad oes un rhifyddwr o enwogrwydd a gynnigia edrych dros gyfrifon, os gwel eu bod wedi eu tanysgrifio âg enw Gruffudd Davies. Ond gweithiodd y gwŷr hwn ei ffordd i'r sefyllfa uchel a derchafedig y mae ynndi yn bresenawl, trwy lafur dybryd, gonestrwydd, a chynnildeb; ac er ei fod yn cael edrych arno, a'i barchu, gan rai o'r gwŷr mwyaf yn y brif ddinas, y mae mor Gymreig ddirodres ag ydoedd pan yn gweithio yn galed, ac yn dysgu elfenau cyntaf Rhifyddiaeth, yn Nant Nantlle, yn fachgenyn gwledig.

Un o'r maen-gerfwyr enwocaf yn y byd ydyw *John Gibson*, Ysw. o Rufain; yr hwn a anwyd ar lanau afon Gonwy—a fagwyd tua'r Castellor, yn Mon—a fu yn egwyddorwas o goed-gerfiwr yn Llynlleifiad i ddechreu, ac oddiyno a symudodd i Lundain i ddsygu y gelfyddyd o faen-gerfiadaeth; ac yn awr y mae yn yr Eidal, yn flaenaf yn ei gelfyddyd, a Phrydain yn ymfalchio ymddo fel un o'i meibion, a phendefigion a thywysogion yn ei ystyried yn anrhydedd iddynt gael eu cyfrif yn gyfeillion iddo. Ond y mae Cymru yn sefyll o'r neilldu, ac yn gwenu wrth eu canfod megys yn ymyrson am anrhydeddu un o blant ei gwerin; ac nid yw yntau, yn nghanol ei holl urddas, wedi annghofiaw gwlad ei enedigaeth a'i faboed; a phan y bu efe drosodd yn Mrydain, rai blyneddoedd yn ol, efe a aeth i droedio gwynheb Cymru, gan alw i ymweled â rhai o'i geraint ydynt eto ar gael. A pha fodd y cyrhaeddodd efe y sefyllfa uchel a derchafedig hon? Trwy ymrodd penderfynol i ragori yn ei alwedigaeth; trwy ymataliad cyssegredig oddiwrth bob afradlonrwydd ac oferedd; a thrwy gymmeryd y celfyddydwy'r perffeithiaf yn gynlluniau i'w hefelychu.

Gwelwn gan hyny, oddiwrth y sylwadan blaenorawl, nad ydyw cenedl y Cymry yn ol i genedloedd ereill y byd, mewn galluoedd addas i ymwneyd â'r gwyddonau a'r celfyddydau goruchaf, ond iddynt gael moddion cyfaddas i dynu y galluoedd hyny i weithrediad priodol.

Y mae y meddwl dynol yn debyg i'r golofn farmor—yn yr hon y mae y ddelw harddaf yn gorwedd; ond rhaid cael cyn y creffwr medrus i'w thynu allan; ac o naddiad i naddiad, drwy ymrodd a diwydrwydd, y dwg y celfyddydwr ei ddelw i amlygrwydd, yn ei gogoniant a'i mawrwychedd: ac megys y mae llafur dyfal yn angenrheidiol i wneuthur delw hardd o'r gareg arw, y mae cyffelyb lafur diwyd yn ofynol i goethi y meddwl dynawl, a'i gyfoethogi â gwybodaeth fuddiol.

Bydded yr ystiriaethau blaenorol yn effeithio er symbylu llawer iawn o ieuencyd ein cenedl i ymroddi i lafur a gwyliadwriaeth, fel y byddo iddynt gynyddu mewn gwybodaeth, medrusrwydd, a defnyddioldeb; ac yr eillont iddynt eu hunain, dan fendith y Goruchaf, "radd dda."

## MYNEGAI I'R DARLITHIAU.

---

DARLITH I.	
Bonedd Cenedl y Cymry, a'u gwladychiad yn Mrydain .....	T.D. 1
DARLITH II.	
Crefydd y Cymry cyn dygiad Cristionogaeth i'w plith .....	14
DARLITH III.	
Goresgyniad Ynys Prydain gan y Rhufeiniaid .....	31
DARLITH IV.	
Dygiad Cristionogaeth i Frydain .....	66
DARLITH V.	
Helynt wladol y Cymry o ymadawiad y Rhufeiniaid â'r Ynys, hyd farwolaeth Cadwaladr frenin .....	85
DARLITH VI.	
Llygriad yr Eglwys Gymreig gan Babyddiaeth .....	111
DARLITH VII.	
Helyntion gwladol y Cymry dan eu tywysogion—hyd farwolaeth Gruffudd ab Cynan .....	137
DARLITH VIII.	
Helyntion gwladol y Cymry dan eu tywysogaeth—o farwolaeth Gruffudd ab Cynan hyd uniad y dywysogaeth dan goron Lloegr 167	

## DARLITH IX.

Owain Glyndwr a'i amserau .....	T.D. 213
---------------------------------	-------------

## DARLITH X.

Toriad gwawr Protestaniaeth ar Gymru .....	264
--	-----

## DARLITH XI.

Daniel Rowlands, a'r Diwygiad Methodistaidd .....	279
---	-----

## DARLITH XII.

Charles y. Bala a'i amserau .....	294
-----------------------------------	-----

## DARLITH XIII.

Ansawdd bresenol Crefydd, Moesau, ac Addysg yn Nghymru....	306
--	-----

## DARLITH XIV.

Yr Eglwys Sefydledig ac Anghydfurfiaeth yn Nghymru .....	316
--	-----

## DARLITH XV.

Enwogion o Gymry a ragorasant mewn amryfal ganghenau o Wyddonaeth .....	325
--	-----

1

2

3

4

5

6

7

8



